

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING	
PWYLLGOR GWAITH	THE EXECUTIVE	
DYDD LLUN 26 MAWRTH 2018 10.00 o'r gloch	MONDAY 26 MARCH 2018 10.00 am	
SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFEYDD Y CYNGOR LLANGFNI	COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGFNI	
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518	Committee Officer

AELODAU/MEMBERS

Plaid Cymru/Party of Wales

John Griffith, Llinos Medi Huws, Carwyn Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Robert G Parry, OBE, FRAgS

Annibynnol/Independent

Richard Dew, Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddi-ddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem ar y rhaglen.

2 **MATERION BRYD A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO**

Dim materion brys ar adeg anfon allan y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 24)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion y cyfarfodydd isod o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2018:-

- Cyllideb - 10.00 am
- Cyfarfod Arferol - 1.00 pm

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 25 - 36)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd.

5 **CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL - CHWARTER 3, 2017/18** (Tudalennau 37 - 60)

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Perfformiad.

6 **POLISI TALIADAU TAI DEWISOL 2018/19** (Tudalennau 61 - 80)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

7 **YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG BELLACH YNYS MÔN – DATGANIAD CYFRIFON 2016/17** (Tudalennau 81 - 116)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151.

8 **STRATEGAETH CYFRANOGIAD LLEOL TENANTIAID 2018-23** (Tudalennau 117 - 140)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

9 **CYNLLUN COMISIYNU'R RHAGLEN CEFNOGI POBL** (Tudalennau 141 - 282)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffilmio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu wedyn ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y gweddarlllediad hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddedig yr Awdurdod

- 10 **CYNLLUN BUSNES CYFRIF REFENIW TAI 2018-2048** (Tudalennau 283 - 326)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.
- 11 **MODERNEIDDIO YSGOLION – ARDAL LLANGEFNI – ADRODDIAD YN DILYN AILYMGYNGHORI (YSGOL Y GRAIG AC YSGOL TALWRN)** (Tudalennau 327 - 364)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.
- 12 **MODERNEIDDIO YSGOLION - ARDAL SEIRIOL** (Tudalennau 365 - 514)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.
- 13 **ASESIAD DIGONOLRWYDD CHWARAE** (Tudalennau 515 - 526)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Dysgu.
- 14 **CYNLLUN ADFYWIO GOGLEDD CYMRU A CHYLLID TRIP** (Tudalennau 527 - 534)
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2018 (BORE)

PRESENNOL	Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-gadeirydd) Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, Alun Mummery, R.G. Parry, OBE, FRAgS , Dafydd Rhys Thomas
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, Cymuned a Gwella Gwasanaethau) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Tai) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd R. Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Aled Morris Jones, Kenneth Hughes, Bryan Owen, Peter Rogers

1. DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2. MATERION BRYN A ARDYSTIWDYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO

Dim i'w hadrodd.

3. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor am drydydd chwarter blwyddyn ariannol 2017/18 ynghyd â chrynodeb o'r sefyllfa ragamcanedig ar gyfer y flwyddyn gyfan.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod y Cyngor, ym mis Chwefror 2017, wedi gosod cyllideb net ar gyfer 2017/18 gyda gwariant net o £126.157m ar gyfer gwasanaethau i'w gyllido o incwm y Dreth Gyngor, Trethi Annomestig a grantiau cyffredinol. Y sefyllfa ariannol gyffredinol a ragwelir ar gyfer 2017/18, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a chronfa'r Dreth Gyngor, yw gorwariant o £1.624m neu 1.29% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2017/18. Mae hyn yn welliant o £300k o gymharu â'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 2. Mae'r tabl ym mharagraff 2.2 yr adroddiad yn darparu crynodeb o'r prif amrywiadau yng nghyllidebau'r gwasanaethau. Mae'r pwysau cyllidebol mwyaf sylweddol sy'n arwain o ganlyniad at y gorwariant mwyaf, yn y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd

(costau sy'n gysylltiedig â riantu corfforaethol) a Dysgu (lleoliadau all-sirol a chostau cludiant ysgolion). Gyda mewnbwn Sgrwtini, mae mesurau'n cael eu cymryd i roi sylw i ffynonellau'r gorwariant ac i reoli gwariant yn y meysydd hynny. Nid yw'r sefyllfa'n unigryw i Ynys Môn gyda Gwasanaethau Plant ar draws Cymru ac ymhellach draw dan bwysau tebyg sy'n awgrymu bod hwn yn fater y mae angen ei ddatrys ar lefel genedlaethol. Mae cyfran sylweddol o gyllideb y Gwasanaethau Plant yn cael ei harwain gan y galw am y gwasanaethau hynny sy'n ei gwneud hi'n anodd i ragweld beth fydd y costau yn y dyfodol ac yn golygu hefyd bod yr opsiynau ar gyfer rheoli gwariant yn gyfyngedig. Gall lleoliadau arbenigol sydd eu hangen weithiau i gwrdd ag anghenion unigolion olygu cynnydd sylweddol bod costau gyda hynny'n arwain at orwariant.

Roedd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn cytuno gyda dadansoddiad yr Aelod Portffolio a dywedodd bod y sefyllfa wedi gwella rhyw fymryn. Er bod gwasanaethau ac eithrio'r rheiny y cyfeiriwyd atynt gan yr Aelod Portffolio at ei gilydd yn perfformio o fewn eu cyllidebau, mae'r rhain hefyd yn agos at derfynau eu cyllidebau. Mae toriadau blynyddol sydd wedi cael eu hymgorffori yng nghyllidebau'r gwasanaethau unigol wedi erydu unrhyw gapasiti sbâr. Mae tanwariant mewn cyllidebau corfforaethol o gymorth i wrthbwysu'r gorwariant mewn cyllidebau eraill eleni ond mae'n bosib na fydd yr arbedion hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn nesaf er y bydd y pwysau ariannol yn parhau. O'r herwydd, mae'r Cyngor yn wynebu sefyllfa heriol wedi ei lliniaru gan y ffaith fod ganddo ddigon o arian wrth gefn i fedru cyllido'r gorwariant ar y gyllideb refeniw. Mae hyn yn adlewyrchu strategaeth fwriadus gan y Cyngor yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf i gynnal lefel ddigonol o arian wrth gefn er mwyn medru ymateb i amgylchiadau gan gynnwys cefnogi'r gyllideb refeniw os a phan fydd angen. Dywedodd y Swyddog fod yr adroddiad hefyd yn cyfeirio at gostau asiantaeth ac ymgynghorwyr a cheir manylion llawn amdanynt yn Atodiadau DD ac E yn y drefn honno. Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £951k ar staff asiantaeth, yn bennaf i ddarparu gwasanaeth llanw yn y Gwasanaethau Plant yn ystod ymgyrch y gwasanaeth i geisio recriwtio staff parhaol. Roedd gwariant ar ymgynghorwyr yn ystod Chwarter 3 yn £746k gyda £377k o'r swm hwn yn cael ei gyllido'n allanol o grantiau neu gyfraniadau. Mae nifer o resymau dros ddefnyddio ymgynghorwyr gan gynnwys yr angen i gael mewnbwn a chyngor arbenigol ar rai prosiectau.

Wedi ystyried yr adroddiad, nododd y Pwyllgor Gwaith y canlynol -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith y bydd cyllidebau'r meysydd gwasanaeth hynny nad ydynt wedi defnyddio'r cyfan o'u hadnoddau eleni yn cael eu halinio gyda gwariant y flwyddyn nesaf gan olygu na fydd y glustog ariannol ar gael i'r gwasanaethau hyn yn 2018/19.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith er bod amgylchiadau'n heriol, bod arian wrth gefn y Cyngor yn darparu diogelwch ariannol yn erbyn pwysau o'r fath yn y tymor byr ond nad ydynt yn datrys y broblem yn y tymor hir yn arbennig oherwydd y gorwariant parhaus yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu. Wedi buddsoddi mewn mesurau atal ac ymyrraeth yn y Gwasanaethau Plant, mae'n hanfodol yn awr eu bod yn sicrhau'r arbedion disgwylidig.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith er bod staff asiantaeth yn cyflawni rôl bwysig, mae'n wariant y gallid ei osgoi pe bai'r Cyngor yn gallu recriwtio staff parhaol. Rhaid iddo geisio llenwi swyddi gweigion cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith y bydd raid i'r Cyngor gyfrannu at y costau mewn perthynas â'r llifogydd yn Llangefni ym mis Tachwedd, 2017. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ar y sefyllfa a graddfa'r effaith ariannol a gaiff hyn ar gyllideb y Cyngor. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bydd costau'r gwaith trwsio yn sgil y llifogydd ym mis Tachwedd, 2017, oddeutu £1.3m gan gynnwys costau staffio ar y pryd ac yn y cyfnod yn union wedi'r digwyddiad. Yn dilyn cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru am gymorth i drwsio'r isadeiledd priffyrdd, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd yn cyfrannu £374k tuag at y costau ac y bydd raid i'r Cyngor

ysgwyrddo'r gweddill. Dywedodd y Swyddog fod swm oddeutu £400k wedi cael ei glustnodi o'r arian wrth gefn i'r pwrpas hwn. Mae trafodaethau'n parhau gyda'r gwasanaeth Priffyrdd ynglŷn â'r modd y bydd gweddill y gwaith yn cael ei raglennu a'i gyflawni – mae'n debyg y bydd rhaid ei gynnwys yng nghynllun y flwyddyn nesaf fel rhan o'r rhaglen drwsio a chynnal a chadw arferol.

Roedd y Pwyllgor Gwaith yn Cytuno y dylid gofyn i'r Panel Sgriwtini Cyllid edrych ar y mater hwn yn fanylach, yn enwedig effaith y llifogydd ar wariant a rhaglen y gwasanaeth Priffyrdd gyda golwg ar ddysgu gwersi ar gyfer cynllunio ar gyfer digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r sefyllfa fel y caiff ei nodi yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r canlyniad disgwylidig ar gyfer 2017/18;**
- **Cymeradwyo trosglwyddo unrhyw danwariant ar weithgareddau Arfordol i gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi er mwyn talu i beintio Pier Biwmares;**
- **Nodi'r crynodeb o gyllidebau wrth gefn ar gyfer 2017/18 fel y manylir arnynt yn Atodiad C:**
- **Nodi'r sefyllfa mewn perthynas â'r rhaglenni buddsoddi i arbed yn Atodiad CH;**
- **Nodi'r sefyllfa o ran arbedion effeithlonrwydd 2017/18 yn Atodiad D;**
- **Nodi monitro'r costau asiantaeth ac ymgynghorwyr yn 2017/18 yn Atodiadau DD, E a F.**
- **Gofyn i'r Panel Sgriwtini Cyllid archwilio effaith y llifogydd difrifol a gafwyd ym mis Tachwedd, 2017 ar wariant a rhaglennu'r gwasanaeth Priffyrdd, er mwyn ceisio gwella cynlluniau'r dyfodol ar gyfer digwyddiadau tebyg.**

4. ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB GYFALAF - CHWARTER 3 2017

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer trydydd chwarter 2017/18.

Dywedodd yr Aelod Portffolio cyllid bod y Cyngor wedi cymeradwyo Rhaglen Gyfalaf o £27.630m am 2017/18 ar gyfer gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud â thai, ynghyd â Rhaglen Gyfalaf o £12.873m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai. Ym mis Mehefin 2017, caniatodd y Cyngor i lithriad cyfalaf o £4.677m gael ei ddwyn ymlaen o 2016/17 a dygwyd lithriad o £1.758m drosodd hefyd o raglen ysgolion yr 21ain ganrif. Ers gosod y gyllideb, mae cynlluniau eraill wedi cael eu hychwanegu at y rhaglen ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grantiau ac yn werth £2.552m i gyd. Mae'r Awdurdod hefyd wedi derbyn Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gyfer Tâl Cyfartal – cyfanswm o £2.566m, sy'n dod â chyfanswm y gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2017/18 i £52.056m fel y nodir yn Nhabl 2.1 yn Atodiad A yr adroddiad.

Roedd 96% o'r gyllideb a broffiliwyd ar gyfer y Gronfa Gyffredinol wedi ei wario hyd at ddiwedd y trydydd chwarter, ond dim ond 40% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Y rheswm am hyn yw bod yr arian ar gyfer rhai o'r cynlluniau cyfalaf yn cael ei wario tuag at ddiwedd y flwyddyn ariannol neu oherwydd nad yw'r cynlluniau yn mynd i gael eu cwblhau yn y flwyddyn ariannol hon mwyach. Mae gwaith ar rai Cynlluniau Cyfalaf ar gyfer 2017/18 wedi cychwyn ac yn symud ymlaen yn y modd a amlinellir yn adran 3.3.1 o Atodiad A. Yn ogystal, mae cynlluniau yn y Rhaglen Gyfalaf nad ydynt wedi cychwyn neu sy'n disgwyl am

gymeradwyaeth gan y cyrff sy'n darparu'r cyllid; ceir crynodeb o'r rhain yn adran 3.1.2 Atodiad A.

Rhagwelir y bydd y Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2018 yn £3.025m yn erbyn cyllideb o £4.370m gyda'r diffyg i'w briodoli'n bennaf i'r ffaith na ddisgwylir y bydd dwy ysgol wedi eu gwerthu tan y flwyddyn ariannol nesaf.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y bydd y cyllid ar gyfer cynlluniau sy'n debygol o lithro i flwyddyn ariannol 2018/19 yn parhau i fod ar gael ar gyfer y cynlluniau hynny ar yr adeg honno ac na fydd y Cyngor o'r herwydd yn colli unrhyw arian.

Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn ystod chwarter 3 yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18.

5. MONITRO CYLLIDEB Y CRT – CHWARTER 3 2017/18

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn nodi'r sefyllfa mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer trydydd chwarter 2017/18.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod ochr refeniw'r CRT at ei gilydd o fewn y gyllideb tra bod rhywfaint o lithriad o ran yr ochr gyfalaf. Rhagwelwyd yn wreiddiol y byddai balansau Cronfa Wrth Gefn y CRT yn gostwng o £7.5m i £2.8m oherwydd eu bod yn cael eu defnyddio i gyllido gwariant cyfalaf. Oherwydd y llithriad mewn gwariant cyfalaf, rhagwelir y bydd balans cronfa wrth gefn y CRT ar 31 Mawrth 2018, oddeutu £5.6m. Fodd bynnag, bydd y cyllid yn parhau i fod ar gael i ddibenion cyfalaf yn 2018/19 a bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu tai cyngor newydd ar yr Ynys.

Penderfynwyd nodi'r sefyllfa a nodwyd mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer Chwarter 3 2017/18.

6. FFFIOEDD A THALIADAU 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn cynnwys rhestr o'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor yn 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y Pwyllgor Gwaith blaenorol wedi gosod amcan y dylid cynyddu'r holl ffioedd a thaliadau anstatudol gan 3% ar gyfartaledd ar draws pob gwasanaeth unigol. Mae hyn wedi caniatáu i'r Penaethiaid Gwasanaeth gynyddu ffioedd unigol o fwy neu lai na 3% ond gan sicrhau y byddai'r cynnydd cyfartalog ar draws y gwasanaeth ar y cyfan yn cyfateb i 3%. Yn yr adroddiad hwn, ceir rhestr gynhwysfawr o'r ffioedd a'r taliadau a'r draws holl wasanaethau'r Cyngor ac eithrio'r rheini sy'n ymwneud â Gofal Cymdeithasol ac sy'n cael sylw ar wahân. Dywedodd yr Aelod Portffolio y byddai'n synhwyrol codi ffioedd a thaliadau yn gynnyddraddol bob blwyddyn er mwyn cadw i fyny â chwyddiant; fel bod y Cyngor yn cadw i fyny ag awdurdodau eraill ac, yn ogystal, er mwyn bod yn deg â'r sawl sy'n derbyn gwasanaeth ac i'r trethdalwyr.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod disgwyl i bob gwasanaeth, o bersbectif gosod y gyllideb, sicrhau cynnydd o 3% mewn incwm gyda phob Pennaeth Gwasanaeth yn cael y rhyddid i benderfynu sut y byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy adolygu'r ffioedd a'r taliadau yn eu gwasanaethau penodol nhw. Mae hyn yn golygu fod

rhai ffioedd a thaliadau'n codi mwy na 3% a bod y cynnydd mewn gwasanaethau eraill yn llai na 3%.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau ei fod yn pryderu am y ffioedd ar gyfer cludiant ar fysus ysgol ac roedd yn dymuno cynnig na ddylai'r ffioedd hynny gynnwys cynnydd ar gyfer chwyddiant yn 2018/19. Cymeradwywyd ei gynnig gan y Pwyllgor Gwaith. Yn ogystal, pwysleisiodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau ymhellach y dylid hwyluso taliadau drwy ddebyd uniongyrchol.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r atodlen ffioedd a thaliadau ar gyfer 2018/19.**
- **Na fydd ffioedd bysus ysgol yn destun cynnydd chwyddiant ar gyfer 2018/19 ac y bydd taliadau drwy ddebyd uniongyrchol yn cael eu hwyluso.**

7. RHENTI'R CRT TAI A FFIOEDD AR GYFER GWASANAETHAU TAI YN 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith - adroddiad Pennaeth y Gwasanaethau Tai yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd yn y rhenti a'r taliadau gwasanaeth am 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Tai a Chefnogi Cymunedau fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ym mis Rhagfyr, 2017, ei bod wedi cytuno i gynnal Polisi Llywodraeth Cymru ar gyfer Rhenti Tai Cymdeithasol yn 2018/19. Y fformiwla ar gyfer y codiadau rhent blyneddol fydd gwerth y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn y mis Medi blaenorol + 1.5%. Ym mis Medi 2017, roedd y CPI yn 3% sy'n gwneud cyfanswm o 4.5% ar gyfer 2018/19. Oherwydd bod lefelau rhent cyfredol y Cyngor yn sylweddol is na'r rhenti targed yn y polisi, bydd angen cynnydd wythnosol o hyd at £2 uwchben y cynnydd chwyddiant canrannol (yn achos y rhenti sy'n is na'r rhent targed) er mwyn sicrhau eu bod yn gyson gyda rhent darparwyr tai cymdeithasol eraill. Drwy ddefnyddio'r dulliau a amlinellir ym mharagraff 2.5 yr adroddiad, bydd yr Awdurdod yn symud tuag at gyflawni'r rhent targed a sicrhau cysondeb o ran lefelau'r rhenti. Mae'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau a ddarperir gan yr Awdurdod yn ystod 2018/19 yn seiliedig ar y costau gwirioneddol a gafwyd yn ystod 2016/17 ac maent wedi eu rhannu'n gyfartal ymysg tenantiaid a lesddeiliaid. Ar hyn o bryd, ni fydd 2.795 o denantiaid y Cyngor (73%) yn wynebu unrhyw galedi ychwanegol yn sgil y bwriad i godi'r rhenti a ffioedd gwasanaeth oherwydd eu bod yn derbyn Budd-dal Tai llawn neu rannol.

Penderfynwyd –

- **cymeradwyo'r cynnydd mewn rhent yn unol â rhent targed Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar gasgliad dros 51 wythnos.**
- **cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £0.06 - £6.15 yn is na'r targed yn ogystal â swm hyd at yr uchafswm o £2.00 yr wythnos i gyrraedd y rhent targed.**
- **cymeradwyo cynnydd o 4.5% yn yr holl renti sydd rhwng £4.75 - £6.69 yn is na'r targed a £2.00 ychwanegol yr wythnos.**
- **cymeradwyo bod y rhent ar gyfer yr 19 eiddo sydd â rhent uwch na'r lefel targed yn aros fel y mae.**
- **cymeradwyo cynnydd o 40c yr wythnos ar gyfer rhenti'r holl garejys.**
- **cymeradwyo'r taliadau gwasanaeth a nodir yn adran 3.3. yr adroddiad ar gyfer yr holl denantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau perthnasol.**

8. CARTREFI'R AWDURDOD LLEOL AR GYFER POBL HŶN – PENNU'R FFI SAFONOL

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn am ganiatâd y pwyllgor Gwaith i bennu lefel Ffi Safonol yr Awdurdod ar gyfer cartrefi gofal yr awdurdod lleol ar gyfer y flwyddyn Ebrill 2018 – Mawrth 2019.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, er y penderfynwyd ar gynnydd cyffredinol o 3% mewn ffioedd a thaliadau fel canllaw, gellir trin ffioedd a godir am gartrefi preswyl y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt fel eithriad oherwydd eu bod yn seiliedig ar ddarpariaeth statudol sy'n amlinellu sut y dylid eu cyfrifo. Yn seiliedig ar y tabl uchod, amcangyfrifir bod y gost wythnosol am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2019 yn £703.03 fesul preswlydd. Er bod hyn yn uwch o gymharu â'r gost ragamcanedig ar gyfer y flwyddyn i 31 Mawrth 2018b o ganlyniad i gynnydd mewn costau cyflogau a chwyddiant, nid yw'r cynnydd mor uchel â'r disgwyl o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfraddau defnydd y cartrefi (o 89.7% i 93.4%), sy'n arwain at gost is fesul uned is. Fodd bynnag, gan gydnabod penderfyniad y Cyngor yn 2017/18 a'r cynnydd sylweddol y byddai symud o dâl safonol 2017/18, sef £584.29 i £703.03 yn ei olygu, argymhellwyd na ddylai'r tâl a godir ar breswylwyr adlewyrchu cost wirioneddol y ddarpariaeth. Drwy beidio â chodi cost lawn y lleoliad ar drigolion sy'n hunangyllido o fewn y cartrefi hyn mae'r Cyngor yn rhoi cymhorthdal i bob defnyddiwr o tua £101.21 yr wythnos neu £5,262.92 y flwyddyn. Gyda'r 29 o drigolion sy'n hunangyllido ar hyn o bryd, mae hyn gyfwerth â £152,625 y flwyddyn.

Penderfynwyd –

- **Er bod y Cyngor yn cydnabod y costau sy'n gysylltiedig â gofal preswyl, nid yw cost wirioneddol darparu'r gwasanaeth wedi ei adlewyrchu yn y tâl a godir ar drigolion.**
- **Bod y cynnydd ar gyfer y rheini sy'n cyfrannu tuag at gost eu gofal yn gyson gyda'r canllawiau ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor, sef 3% a bod ffi o £601.82 yn cael ei gosod.**

9. GWASANAETHAU GOFAL CYMDEITHASOL DIBRESWYL YN Y GYMUNED

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r ffioedd a'r taliadau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned ar gyfer 2018/19.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn arferol i adolygu'r ffioedd a godir mewn perthynas â gwasanaethau cartref bob blwyddyn i gyd-fynd ag adolygiad y Llywodraeth Ganolog o lefelau budd-daliadau a phensiwn. Roedd yr adroddiad yn nodi ffioedd a'r taliadau y bwriedur eu codi am ofal cymdeithasol dibreswyl yn y gymuned yn 2018/19 yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Penderfynwyd –

- **Cymeradwyo'r ffioedd gofal cartref a amlinellir yn nhabl 1 yr adroddiad.**
- **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer prydau mewn gwasanaethau dydd a amlinellir yn nhabl 3 yr adroddiad.**

Prydau mewn Gwasanaethau Dydd i oedolion (ac eithrio pobl ag Anabledd Dysgu) - £5.85

Byrbryd canol dydd mewn gwasanaethau dydd i bobl ag Anabledd Dysgu - £ 2.35

Lluniaeth Arall (te / coffi / teisen) mewn gwasanaethau dydd - £ 1.35

- **Cymeradwyo'r ffioedd ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 4 yr adroddiad.**

Haen 1 – bydd pawb yn talu £45.24

Haenau 2 a 3 – bydd pawb yn talu £90.22

- **Cymeradwyo'r ffioedd blynyddol ar gyfer gwasanaethau Teleofal fel yr amlinellwyd yn nhabl 5 yr adroddiad.**

Gwasanaeth a Chynnal a Chadw £107.55

Gwasanaeth yn unig £69.50

Costau Gosod Unwaith ac am byth £43.00

- **Cymeradwyo cyfradd o £ 11.30 / awr ar gyfer Taliadau Uniongyrchol**
- **Cynnal ffi o £ 10.00 ar gyfer costau gweinyddu mewn perthynas â cheisiadau am Fathodyn Glas fel yr amlinellir yn yr adroddiad.**
- **Cynyddu'r ffi am brynu gwasanaethau gofal dydd mewn cartrefi preswyl annibynnol 5% i £32.21**
- **Cynyddu'r ffi am brynu gofal cartref wedi ei gomisiynu o £15.90 o £16.53 yr awr fel cyfradd interim**

10. FFFIOEDD CARTREFI GOFAL Y SECTOR ANNIBYNNOL 2018/19

Cyflwynwyd i'w ystyried – adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo ffioedd cartrefi gofal y sector annibynnol ar gyfer 2018/19.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol bod raid i'r Awdurdod Lleol adolygu ffioedd cartrefi gofal yn y sector annibynnol bob blwyddyn i gyd-ddigwydd â newidiadau Llywodraeth Ganolog i lefelau budd-daliadau a phensiynau.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod rhaid i ni, wrth bennu ffioedd ar gyfer cartrefi gofal yn y sector annibynnol, dddangos ein bod wedi rhoi ystyriaeth lawn i gostau'r ddarpariaeth wrth benderfynu ar ein ffioedd gofal safonol. Gwneir hyn mewn cydweithrediad ag Awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd drwy ddefnyddio Methodoleg Ffioedd Ranbarthol a dyma wnaed wrth bennu ffioedd yn 2017/18. Bwriedir parhau i ddefnyddio'r model hwn ar gyfer 2018/19 sy'n adlewyrchu'r newidiadau o ran pensiynau, y cyflog byw cenedlaethol a chwyddiant. Fel rhan o'r broses ar gyfer gosod ffioedd am 2018/19, ymgynghorydd Ynys Môn ar y ffioedd y bwriedir eu codi dan y fethodoleg ar gyfer 2018 a cheir crynodeb o hynny yn Atodiad 2 yr adroddiad. Yn dilyn trafodaeth gyda'r Swyddog Adran 151, mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio'r Fethodoleg Ranbarthol ar gyfer Preswyl (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl); Gofal Nyrsio Sylfaenol (Elfen Gofal Cymdeithasol); Nyrsio (Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl) (Elfen Gofal Cymdeithasol). Ystyriwyd nad oedd gweithredu'r model yn llawn ar draws yr holl sectorau yn fforddiadwy. Wedi rhoi'r sylw dyledus i fforddiadwyedd y codiadau, a'r cyfeiriad strategol y mae'r Cyngor yn ei gymryd o ran datblygu dewisiadau amgen i ofal preswyl ar ffurf Tai Gofal Ychwanegol a gofalu am bobl yn eu cartrefi, rydym yn bwriadu pennu'r cyfraddau ar gyfer gofal preswyl i oedolion yn seiliedig ar lefel is o Ddychweliad ar Fuddsoddiad o 9%.

Penderfynwyd –

- Cydnabod Methodoleg Ffioedd Gogledd Cymru fel y cafodd ei gweithredu hyd yma gan yr Awdurdodau yng Ngogledd Cymru fel sylfaen ar gyfer pennu ffioedd yn Ynys Môn yn ystod 2018/19 (Atodiad 2 yr adroddiad).
- Cymeradwyo'r argymhelliad i gynyddu'r lefelau ffioedd a nodwyd yn Nhabl 2 uchod
- Yr un modd ag Awdurdodau eraill, rhoi'r awdurdod i'r Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol a Chyllid ymateb i unrhyw geisiadau gan gartrefi i edrych ar eu cyfrifon penodol a defnyddio'r ymarfer fel sylfaen i ystyried unrhyw eithriadau i'r ffioedd y cytunwyd arnynt. Rhaid i unrhyw eithriadau gael eu cytuno gyda'r Deilydd Portffolio, Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o'r cyllidebau cyfredol. Oni fedrir dod i gytundeb, bydd y mater yn mynd yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith.

11. ARIAN WRTH GEFN A BALANSAU

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar y defnydd o arian wrth gefn a balansau.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod lefel y balansau cyffredinol, ar 31 Mawrth 2017 yn £8.355m, sef gostyngiad o £0.531m o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Yn 2016/17, crëwyd cronfa o £1m o'r balansau cyffredinol er mwyn ariannu prosiectau unigol a allai arwain at arbedion effeithlonrwydd i'r Cyngor. Mae sefyllfa ariannol y Cyngor yn gyffredinol yn dda ar hyn o bryd gyda lefel dderbyniol o falensau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn wedi eu clustnodi fel y nodir yn Nhabl 4.2 yr adroddiad. Serch hynny, mae nifer o risgiau y mae'n rhaid eu hasesu wrth benderfynu ar lefel y balansau cyffredinol sydd eu hangen; nodir y rhain yn adran 3.3 yr adroddiad. Mae rheol gyffredinol y dylai lefel y balansau cyffredinol fod yn 5% o'r gyllideb referniw (ac eithrio'r gyllideb sydd wedi ei datganoli i'r ysgolion). Fodd bynnag, oherwydd bod balansau'r ysgolion yn gostwng, cawsant eu cymryd i ystyried wrth weithio allan y lefel ar gyfer 2017/18. Yn seiliedig ar y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2018/19, byddai angen i falans y cronfeydd wrth gefn cyffredinol fod tua £6.5m, sy'n cyfateb i'r balans isaf a ragwelwyd ar gyfer 31 Mawrth 2018.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod dau fath o gronfeydd wrth gefn – cronfeydd wrth gefn cyffredinol a chronfeydd wrth gefn clustnodedig. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adolygu ac yn penderfynu ar lefel y cronfeydd wrth gefn y mae'r Cyngor eu hangen bob blwyddyn drwy gymryd i ystyriaeth y risgiau y mae'n eu hwynebu ac o ystyried y rheol gyffredinol mai 5% o'r gyllideb net yw'r lefel dderbyniol. Mae'r Swyddog Adran 151 wedi asesu y dylai'r Cyngor, ar gyfer 2018/19, fod ag o leiaf £6.5m yn ei falensau cyffredinol; bydd y gronfa wrth gefn gyffredinol yn agos at y ffigwr hwnnw ar ddiwedd Mawrth, 2018. Caiff cronfeydd wrth gefn clustnodedig eu cadw ar gyfer prosiectau/ymrwymadau penodol; mae'r rhain wedi cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r dibenion y bwriadwyd nhw ar eu cyfer ac mae canlyniadau'r adolygiad wedi eu nodi yn Atodiad B yr adroddiad.

Nododd y Pwyllgor gwaith fod yr adroddiad ar Gyllideb 2018/19 (eitem 12 ar y rhaglen) yn cyfeirio at nifer o eitemau y mae'n rhaid eu hariannu o'r cronfeydd wrth gefn cyffredinol yn 2017/18 sy'n dod â lefel y balansau cyffredinol i lawr i £5.882m ac y bwriedir rhoi arian yn ôl i mewn i'r gronfa o'r arian wrth gefn a glustnodwyd. Esboniodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn cynnwys £996k a gadwyd yn rhannol i gyllido cost Hawliadau Tâl Cyfartal. Mae'r rhan fwyaf o'r hawliadau wedi cael eu setlo ac mae Llywodraeth Cymru wedi awdurdodi i'r gwariant hwn

gael ei gyfalafu sy'n golygu y bydd modd i'r Cyngor fenthycu i gwrdd â'r gost. Er bod angen gwneud rhywfaint o waith i gwblhau'r hawliadau sy'n weddill a thalu unrhyw ffioedd, mae'n debygol na fydd angen dros £700k o'r gronfa hon ac y bydd modd ychwanegu'r arian at y balansau cyffredinol gan ddod â nhw yn ôl i fyny i £6.56m, sef yr isafswm a argymhellir.

Penderfynwyd –

- **nodi'r polisi cyffredinol ynglŷn â balansau a chronfeydd a fabwysiadwyd ar 1 Mawrth 2016, fel y nodir hynny yn Atodiad A o'r adroddiad;**
- **Pennu isafswm balansau cyffredinol o £6.5m ar gyfer 2018/19 yn unol ag asesiad y Swyddog Adran 151;**
- **Cadarnhau parhad y cronfeydd presennol a glustnodwyd.**

12. Y CYNLLUN ARIANNOL AR GYFER Y TYMOR CANOL A'R GYLLIDEB AR GYFER 2018/19

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 yn cynnwys y cynigion manwl ar gyfer cyllideb refeniw 2018/19 a'r effaith a gaiff ar gyllideb refeniw Cyngor Sir Ynys Môn. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys diweddariad o'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol sy'n darparu cyddestun ar gyfer gweithio ar gyllidebau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Gofynnwyd i'r Pwyllgor Gwaith wneud argymhellion terfynol i'r Cyngor Sir fel y gall fabwysiadu cyllideb ar gyfer 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod y broses a arweiniodd at y cynigion terfynol ar gyfer cyllideb 2018/18 wedi bod yn un hir, heriol ond cynhwysfawr a rhaid diolch i bawb sydd wedi cymryd rhan yn y broses y tu mewn a'r tu allan i'r Cyngor ac yn enwedig staff y Gwasanaeth Cyllid am eu gwaith caled a'u proffesiynoldeb drwy gydol y broses. Cafodd y cynigion cychwynnol mewn perthynas â'r gyllideb eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith ar 6 Tachwedd, 2017; cyhoeddwyd y rhain ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ar 7 Tachwedd, 2017. Roedd y cynigion yn seiliedig ar gynnydd o 0.1% yn setliad refeniw dros dro Llywodraeth Cymru sy'n cyfrif am y rhan fwyaf o gyllid y Cyngor ac er bod y setliad yn well na'r disgwyl, nid oedd yn ddigonol i bontio'r bwlch cyllido. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei setliad terfynol ym mis Rhagfyr 2017 ac roedd cyfanswm yr AEF yn £95.8m - cynnydd o £0.888m (0.7%) o gymharu â'r ffigur dros dro ond roedd yn parhau i adael y Cyngor â diffyg yn y gyllideb. Gan fod y rhan fwyaf o gostau'r Cyngor yn ymwneud â staff, bydd y codiad cyflog eleni, y disgwylir iddo fod oddeutu 2.5% i 3% yn cael effaith ar y gyllideb; yn ychwanegol at hyn, mae cyllidebau'r gwasanaethau dan bwysau ac mae'r pwysau mwyaf difrifol ar gyllideb y Gwasanaeth Plant a chyllideb All-sirol y gwasanaeth addysg. Roedd y cynigion cyllidebol drafft yr ymgynghorwyd arnynt yn nodi arbedion posibl oddeutu £3.3m; wedi ystyried yr adborth o'r ymgynghoriad cyhoeddus a'r materion a godwyd yn ei sgil, mae'r cynigion ar gyfer arbedion wedi cael eu diwygio yn y modd a nodir yn adran 10.1 Atodiad 1 mewn modd sy'n rhoi sylw i'r pryderon mwyaf a godwyd yn ystod y broses ymgynghori. Mae'r newidiadau a wnaed yn gostwng cyfanswm yr arbedion a gynigiwyd i £2.522m. Yn Adran 12 yr adroddiad, ceir diweddariad ar y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol yn wyneb y setliad gwell ynghyd â setliadau posibl yn y dyfodol. Fodd bynnag, oherwydd yr ansicrwydd ynghylch setliadau ar ôl 2018/19 a'r anhawster o ran gwneud rhagamcanion cywir, mae adran 12 yn amlinellu dau fodel posibl - y senario achos gwaethaf yn Nhabl 9 lle rhagwelir arbedion o £5.26m dros y tair blynedd nesaf, a'r senario achos gorau yn Nhabl 10 lle mae'r angen am arbedion dros yr un cyfnod yn gostwng i £2.8m gyda'r ddau achos yn dibynnu ar y newidiadau i'r Cyllid Allanol Cyfun (AEF) a'r pwysau cyllidebol a chwyddiant ar y pryd. Cyfeiriodd yr Aelod Portffolio Cyllid at adran 10.3 Atodiad 1 sy'n nodi'r opsiynau ar gyfer dyrannu'r arbedion cyllidebol o £490k a ohiriwyd o'r gyllideb a ddatganolwyd i'r ysgolion o 2017/18, a chynigiodd y dylid rhannu'r arbedion ar draws y sectorau ysgolion yn seiliedig ar lefel y balansau ar 31 Mawrth, 2017 sef yr ail o'r pedwar opsiwn. Roedd y gyllideb derfynol a gynigiwyd ar gyfer 2018/19 yn £130.945 wedi ei chyllido drwy AEF o £95.812m a

chynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor. Mae'r cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor yn golygu y bydd cynnydd o £52.20 i £1,140.21 ym Mand D y Dreth Gyngor ar gyfer 2018/19 sy'n parhau i gymharu yn ffafriol gydag awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru. Cynigir ymhellach bod y cyllid a gynhrychir gan y cynnydd o 0.8% yn y Dreth Gyngor, h.y. uwchlaw'r cynnig cychwynnol o 4%, yn cael ei ddyrannu i'r Gwasanaethau Plant fel cyfraniad tuag at y costau cynyddol y mae'r gwasanaeth yn eu hwynebu o ganlyniad i'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Cadarnhaodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ei fod, wedi ystyried yr holl risgiau a'r camau lliniaru a nodir yn yr adroddiad, o'r farn bod y cyllidebau a gynigir yn rhai cadarn y mae modd eu cyflawni. Ategodd sylwadau'r Aelod Portffolio drwy ddweud er bod y sefyllfa'n ymddangos yn well na'r un a ragwelwyd i ddechrau gyda'r setliad terfynol yn uwch na'r disgwyl, nid yw'r cyllid ychwanegol yn ddigonol i gwrdd â'r costau a'r pwysau cynyddol y mae'r Cyngor yn eu hwynebu ar ffurf chwyddiant cyffredinol, chwyddiant/codiadau cyflog, cyfrifoldebau ychwanegol a thoriadau mewn cyllid grant penodol. Nid oes dewis gan y Cyngor ond parhau i geisio gwneud i fyny am y diffyg drwy gynyddu'r Dreth Gyngor ac mae hyn yn ymestyniad o'r tueddiad a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf lle mae cyfran gynyddol o gyllid y Cyngor yn dod o drethi lleol, sef y Dreth Gyngor. Mae peth ansicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol fel yr amlinellir yn Atodiad 1 sy'n cynnig dwy senario bosibl ar gyfer y dyfodol. Mae llawer yn dibynnu ar lefel y cyllid a ddyrennir gan y Llywodraeth Ganolog i Lywodraeth Cymru ac yna ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru o ran dosbarthu'r arian hwnnw. Yn ogystal, mae ansicrwydd ynghylch costau tâl yn y dyfodol; mae codiadau cyflog llywodraeth leol wedi cael eu cyfyngu i 1% ers nifer o flynyddoedd ac mae pwysau yn awr i godi'r cap; o ganlyniad, mae'r Cyngor yn paratoi ar gyfer codiad cyflog o 3% yn 2018/19 ac o bosib yn 2019/20 (heb gynnwys cyflogau athrawon). Dywedodd y Swyddog nad oedd o'r herwydd yn gweld unrhyw arwydd y bydd yr angen i wneud arbedion yn ysgafnhau; i'r gwrthwyneb, oherwydd wrth i'r angen i wneud arbedion barhau, daw yn gynyddol anodd i ddod o hyd iddynt. Nid yw'r strategaeth hir sefydlog o wneud toriadau ac arbedion effeithlonrwydd yn ddigon mwyach; bydd raid i'r Cyngor edrych ar y gwasanaethau y mae'n eu darparu a'r modd y gall barhau i'w darparu. Dros y tair blynedd nesaf, mae'n bosib y bydd raid i'r Cyngor ddod o hyd i arbedion rhwng £3m a £6m, os bydd codiadau cyflog yn uwch na'r disgwyl, gallai'r arbedion angenrheidiol fod hyd yn oed yn uwch.

Wrth ystyried y wybodaeth, nododd y Pwyllgor Gwaith yr isod –

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod agenda llymder Llywodraeth Ganolog, sydd wedi bod yn weithredol ers nifer o flynyddoedd, yn cael effaith wirioneddol erbyn hyn ac mai'r opsiynau a gyflwynwyd yw'r gorau y gall y Cyngor ei wneud mewn sefyllfa gynyddol anodd lle mae cyllidebau'n gostwng a phwysau'n cynyddu. Y dewis arall yn hytrach na chynyddu'r Dreth Gyngor yw torri ymhellach ar wasanaethau ac mae'r Cyngor yn awyddus i osgoi gwneud hynny. Dyma'r sefyllfa y mae'n rhaid i'r Cyngor ymdopi â hi ac mae'n ceisio gwneud ei orau ac, ar yr un pryd, leihau i'r eithaf yr effaith ar y trethdalwyr.
- O safbwynt yr ymgynghoriad cyhoeddus a'r mewnbwn gan gydranddeiliaid a Sgriwtini, nododd y Pwyllgor Gwaith ei fod wedi adolygu'r rhestr o arbedion arfaethedig mewn ymateb i farn y cyhoedd ac wedi diwygio'r cynigion yn unol â hynny. Mae wedi nodi ac ymateb i'r pryderon penodol a godwyd mewn perthynas ag addysg, cludiant ysgol, cymorth grant i grwpiau cymunedol a gwaith trwsio a chynnal a chadw mewn ysgolion.
- Nododd y Pwyllgor a dygodd sylw at y ffaith fod nifer o grantiau yn cael eu cyfuno ac/neu eu cymathu yn y setliad referniw cyffredinol i'r Cyngor ond bod y cymorth grant, wrth ei gymathu, mewn gwirionedd yn cael ei dorri, e.e. mae'r Grant Gwaredu Gwastraff, yn sgil cael ei ymgorffori yn y setliad wedi gostwng 20% ac mae'r Grant Gwella Addysg wedi gostwng 8%.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod codiad cyflog y Cyflogwr yn 2% ar gyfer yr holl staff sydd ar bwynt 20 ac uwch ond ei fod yn sylweddol uwch i staff sydd ar raddfeydd cyflog is ac yn 9.19% ar gyfer staff ar bwynt cyflog 6.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod y cyfrifiadau yn y Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol (MTFP) fel y'u cyflwynwyd ym mis Medi, 2017, yn seiliedig ar gynnydd o 4% yn y Dreth Gyngor dros gyfnod y cynllun; mae'r MTFP wedi ei ddiweddarau'n seiliedig ar gynnydd o 5% am yr un cyfnod. Mae'r cynnydd wedi cael ei ddiwygio at i fyny er mwyn cydnabod y pwysau cynyddol ar gyllidebau'r Cyngor a'r awydd i barhau i warchod gwasanaethau i bobl fregus i'r graddau y mae adnoddau'n caniatáu hynny. Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach bod y trothwy answyddogol o 5% ar gynnydd yn y Dreth Gyngor dan bwysau yn awr gyda rhai cynghorau yng Nghymru yn ystyried cynnydd uwchlaw'r trothwy hwn.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith, er fod y Cyngor yn parhau i ymdrechu i wella ei berfformiad gyda llai o adnoddau, nid yw toriadau flwyddyn ar ôl blwyddyn yn gynaliadwy yn y tymor hir; rhaid bod diwedd ar y gostyngiadau mewn cyllid i lywodraeth leol.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r cyfarfodydd ymgynghori ffurfiol ar y gyllideb ac ystyried yr adborth a gafwyd yn eu sgil ac fel yr amlinellir yn Adran 2, Atodiad 1 ac yn Atodiad 2;**
- **Nodi'r crynodeb yn Adran 11 ac Atodiad 5 ar oblygiadau'r cynigion cyllidebol o safbwynt cydraddoldebau;**
- **Cytuno ar fanylion terfynol cyllideb arfaethedig y Cyngor gan gynnwys y cyllid diwygiedig mewn ymateb i'r pwysau ar y gyllideb a'r arbedion arfaethedig fel y dangosir nhw yn Adran 10 Atodiad 1 ac Atodiad 3;**
- **I benderfynu sut mae'r arbedion ar gyllidebau ysgolion dirprwyedig, a ohiriwyd o 2017/18, yn cael eu dyrannu ar draws y 3 sector. Byddai hyn yn dyrannu'r arbedion fel a ganlyn: £399,940 i'r sector cynradd; £53,460 i'r sector uwchradd; £36.600 i'r sector ysgolion arbennig.**
- **Nodi argymhelliad y Swyddog Adran 151 bod o leiaf £6.5m yn cael ei gadw ym malansau'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer 2018/19;**
- **Nodi'r sylwadau a wnaed gan y Swyddog Adran 151 ar gadernid yr amcangyfrifon a wnaed fel y cânt eu hamlinellu yn Adran 8, Atodiad 1.**
- **Argymell cyllideb net ar gyfer y Cyngor Sir a'r cynnydd yn lefel y Dreth Gyngor o ganlyniad, gan nodi y bydd penderfyniad ffurfiol yn cynnwys y Praeseptau i Heddlu Gogledd Cymru a'r Cynghorau Cymuned, yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 28 Chwefror, 2018.**
- **Awdurdodi'r Swyddog Adran 151 i wneud unrhyw newidiadau a all fod yn angenrheidiol cyn cyflwyno'r cynigion terfynol i'r Cyngor.**
- **Cytuno fod unrhyw gyllidebau a arweinir gan y galw ac y bydd pwysau annisgwyl arnynt yn ystod y flwyddyn ariannol yn gallu tynnu ar gyllid o'r cyllidebau hapddigwyddiadau cyffredinol.**
- **Gofyn i'r Cyngor awdurdodi'r Pwyllgor Gwaith i ryddhau hyd at £250k o'r balansau cyffredinol os bydd y gyllideb hapddigwyddiadau gyffredinol wedi'i hymrwymo'n llawn yn ystod y flwyddyn.**
- **Dirprwyo i'r Swyddog Adran 151 y pŵer i ryddhau hyd at £50k o'r gronfa hapddigwyddiadau gyffredinol ar gyfer unrhyw un eitem. Ni chaniateir cymeradwyo unrhyw eitem dros £50k heb gael caniatâd ymlaen llaw gan y Pwyllgor Gwaith;**
- **Argymell cynnydd o 4.8% yn y Dreth Gyngor i'r Cyngor.**

13. CYLLIDEB GYFALAF 2018/19

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn codi'r cynigion terfynol ar gyfer Rhaglen Gyfalaf 2018/19 eu cyflwyno er sylw'r Pwyllgor Gwaith ac ar gyfer eu hargymell i'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror, 2018.

Dyweddodd yr Aelod Portffolio Cyllid ei fod, yn wyneb y strategaeth gyfalaf a fabwysiadwyd gan y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2017, yn argymell y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2018/19 i'r Pwyllgor Gwaith fel y'i cyflwynwyd. Dygodd sylw at y ddau brosiect Buddsoddi i Arbed yn adran 4 yr adroddiad; mae angen i'r Pwyllgor Gwaith benderfynu a fydd yn cefnogi'r naill neu'r llall, neu'r ddau ohonynt. Mae angen i'r Pwyllgor Gwaith wneud penderfyniad hefyd ar y ddau gais gan y Gwasanaeth Hamdden am fenthyciadau di-gefnogaeth - gosod cae pêl-droed 3G yn lle'r cae pêl-droed artiffisial sydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur ar hyn o bryd a diweddarau'r offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi - gweler y crynodeb yn adran 5 yr adroddiad a'r manylion llawn yn Atodiad 5.

Dyweddodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 fod y cyllid a dderbynnir drwy'r Grant Cyfalaf Cyffredinol a lefel y benthycia â chefnogaeth sydd heb ei neilltuo ac a ariennir gan Lywodraeth Cymru drwy elfen ariannu cyfalaf yr Aseiad Gwario Safonol wedi aros yr un fath i bob bwrpas dros nifer o flynyddoedd ac mae'n arwydd o newid yn ymagwedd Llywodraeth Cymru, sef ariannu prosiectau cyfalaf drwy grantiau cyfalaf penodol e.e. ysgolion newydd. Mae'r cyllid hwn felly wedi gostwng mewn termau gwirioneddol ac yn y strategaeth gyfalaf, cynigiwyd y dylai'r arian hwn gael ei ddefnyddio i gynnal a chadw'r asedau cyfredol. Roedd y strategaeth hefyd yn cynnwys oddeutu £600k ar gyfer Priffyrdd. Hefyd, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai cymorth grant ychwanegol gwerth £30m ar gael am 2017/18 ac roedd cyfran Ynys Môn o'r cyllid hwn yn £910k. Gellir defnyddio'r arian hwn i gefnogi cyllid lleol ar gyfer unrhyw brosiect yn 2017/18 ar yr amod ei fod wedyn yn cael ei ddefnyddio i atgyweirio ffyrdd yn 2018/19. Daw hyn â chyllid ychwanegol o £910k yn 2018/19 uwchlaw'r grant cyfalaf cyffredinol. Mewn perthynas â'r ddau brosiect gan y Gwasanaeth Cyllid i'w cyllido drwy fenthyciadau digefnogaeth, mae'r gwasanaethau yn hyderus y bydd yr incwm cynyddol a gynhyrchir drwy'r buddsoddiad yn ddigonol i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf.

Wedi ystyried yr achos busnes a gyflwynwyd ar gyfer pob prosiect, roedd y Pwyllgor Gwaith yn cefnogi'r ddau gais ar gyfer benthycia digefnogaeth a gyflwynwyd gan y Gwasanaeth Hamdden ar y sail eu bod yn cynrychioli buddsoddiad y mae gwir ei angen yn y ddarpariaeth hamdden ac oherwydd y disgwylir iddynt gynhyrchu incwm ychwanegol a fydd yn gostwng y costau benthycia ar yr ochr refeniw.

Roedd y Pwyllgor Gwaith, tra'n cefnogi'r ddau brosiect ar gyfer cyllid buddsoddi i arbed, yn nodi bod cost y ddau gyda'i gilydd yn uwch na'r gronfa o £250k a glustnodwyd i'r pwrpas hwn. Eglurodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y8 gellid cyllido'r ddau naill ai drwy dynnu arian pellach o'r gronfa wrth gefn neu drwy glustnodi llai ar gyfer y cais mwy, sef Effeitholrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith ymhellach ei siom mai dim ond dau gais oedd wedi eu derbyn dan y fenter Buddsoddi Arbed; roedd hyn yn tanlinellu'r angen i wneud mwy yn y dyfodol i annog gwasanaethau i nodi cyfleoedd ar gyfer syniadau buddsoddi i arbed.

Penderfynwyd –

Argymell y rhaglen gyfalaf ganlynol i'r Cyngor llawn ar gyfer 2018/19:-

£'m

Cynlluniau Ymrwymedig a Ddygwyd Ymlaen o 2017/18	23.399
Buddsoddi mewn Asedau Presennol	2.518
Prosiectau Buddsoddi i Arbed	0.258
Cynnal a Chadw Priffyrdd	1.592
Ysgolion 21ain Ganrif	8.850
Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol	36.609
Cynlluniau Cyfalaf CRT	12.417
Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig 2018/19	<u>49.034</u>
Cyllidir drwy:-	
Cyllid a ddygwyd ymlaen o 2017/18	1.040
Grant Cyfalaf Cyffredinol	1.334
Derbyniadau Cyfalaf	0.500
Benthyca â Chefnogaeth	2.192
Benthyca digefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif	3.734
Benthyca â Chefnogaeth – Ysgolion 21ain Ganrif	1.279
Grantiau Allanol	28.030
Arian Cyfalaf wrth gefn	0.258
Grant Atgyweirio Priffyrdd	0.910
Cyllid CRT	9.757
Cyfanswm Cyllid	<u>49.034</u>

- Cefnogi'r ddau gais ar gyfer cyllid Buddsoddi i Arbed a gyflwynwyd fel a ganlyn -

**Effeithlonrwydd Ynni mewn Adeiladau Corfforaethol £250,000
Uwchraddio'r WiFi yng Nghanolfan Byron**

£8,750

• **Cefnogi'r prosiectau benthyca digefnogaeth canlynol ar gyfer eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf 2018/19 -**

**Adeiladu cae 3G newydd yng Nghanolfan
Hamdden Plas Arthur**

**Prynu offer ffitrwydd newydd i Ganolfan
Hamdden Caergybi**

14. POLISI CYMORTH DEWISOL TUAG AT Y DRETH GYNGOR

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 yn ymgorffori Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor ar gyfer ei argymell i'r Cyngor Llawn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid fod Adran 13A, isadrannau (1)(c);(6) a (7), Deddf Cyllid Llywodraeth 1992 (yn unol ag Adran 10 Deddf Llywodraeth Leol 2012) yn rhoi'r pŵer i awdurdod bilio ostwng y dreth sy'n daladwy fel a ganlyn yn yr amgylchiadau a nodwyd yn yr adroddiad. Mae hyn yn golygu, y gall Cyngor Sir Ynys Môn roi cymorth dewisol mewn perthynas ag unrhyw swm dreth gyngor sy'n ddyledus, hyd yn oed os yw'r Cyngor wedi dyfarnu gostyngiad eisoes o dan ei Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor trwy Adran 13A, isadran (1) (b). Hyd yma, nid yw'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu unrhyw Bolisi Cymorth Dewisol o'r fath ar gyfer y Dreth Gyngor ac, felly, nid oes unrhyw drefniadau dirprwyo wedi'u cymeradwyo gan y Cyngor llawn i ystyried ceisiadau o'r fath. Ar hyn o bryd byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn ystyried pob cais yn unigol. Yn wyneb sylwadau a wnaed yn ystod y misoedd diwethaf mewn perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal a rhai dosbarthiadau o eiddo lle mae gwaith atgyweirio'n cael ei wneud i ddod â nhw i fyny i safon lle gall pobl fyw ynddynt ac y mae'r premiwm Dreth Gyngor yn berthnasol iddynt, ynghyd ag eiddo a effeithiwyd gan y tywydd garw yn ddiweddar, cynigir y dylid cyflwyno polisi o'r fath. Byddai'r polisi yn y pen draw yn darparu cymorth i'r rheiny sy'n wynebu'r caledi ariannol mwyaf eithafol a byddai ar wahân i, ac yn annibynnol ar Gynllun Gostyngiadau Treth Gyngor y Cyngor.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 y gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith argymell ar gyfer ei gymeradwyo gan y Cyngor, eithriad neu ostyngiad o ran y Dreth Gyngor ar gyfer yr holl bobl ifanc yn y sir sy'n gadael gofal ac sy'n cwrdd â'r meini prawf cymhwysedd a nodir yn y polisi arfaethedig a chymeradwyo hefyd eithriad rhag gorfod talu'r Dreth Gyngor am fynod hwy na'r un a ganiateir ar hyn o bryd dan ddeddfwriaeth y Dreth Gyngor mewn amgylchiadau ble mae eiddo yn wag oherwydd fod gwaith strwythurol yn cael ei wneud arno er mwyn ei wneud yn addas i rywun fyw ynddo. Bydd angen i'r Cyngor hefyd benderfynu a ydyw am ddirprwyo i'r Swyddog Adran 151 a'r Pwyllgor Gwaith, yn y drefn honno, yr awdurdod i ddelio gyda cheisiadau a dderbynnir dan y polisi ac unrhyw newidiadau i'r polisi hwnnw yn y dyfodol.

Penderfynwyd argymell i Gyngor Sir Ynys Môn (y Cyngor Llawn) ei fod, yn y cyfarfod ar 28 Chwefror 2018 –

- **cymeradwyo Polisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth Gyngor o dan adran 13A (1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (DCLIL 1992) - fel y manylir yn Atodiad A yr adroddiad.**
- **ei fod yn dirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith y pŵer i ddiddymu, ailddeddfu a / neu ddiwygio ei Bolisi Cymorth Dewisol tuag at y Dreth y Cyngor.**

- **ei fod yn dirprwyo pwerau i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 benderfynu ar geisiadau a wnaed o dan adran 13A(1)(c) o DCLIL 1992 ac unrhyw ddiwygiad neu ailddeddfiad ohoni, gan gymryd i ystyriaeth unrhyw ganllawiau polisi a fabwysiadwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol / Llywodraeth Cymru, y Cyngor llawn neu'r Pwyllgor Gwaith.**

15. FFRAMWAITH AR GYFER CYMORTH DEWISOL TUAG AT DRETHI BUSNES - ELUSENNAU A SEFYDLIADAU DI-ELW

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn gofyn i'r Pwyllgor Gwaith ymestyn y Fframwaith cyfredol ar gyfer Cymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes i Elusennau a Sefydliadau Di-elw i 2018/19.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 y bwriadwyd ymgynghori ar Fframwaith newydd ar gyfer Gostyngiadau Dewisol tuag at Drethi Busnes i Elusennau a Sefydliadau Di-elw ond bod hynny wedi ei ddal yn ôl hyd oni fyddai Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r cynllun newydd ar gyfer cymorth trethi i fusnesau bychain ac i ganiatáu amser i gynnal asesiad ar effaith y cynllun. Mae cynllun Llywodraeth Cymru bellach wedi cael ei gyhoeddi a daw i rym o 1 Ebrill, 2018 gan olygu y gall y Cyngor symud ymlaen i ymgynghori ar y fframwaith. Fodd bynnag, ni chafwyd digon o amser i gynnal yr ymgynghoriad ac adrodd ar y canlyniad i'r Pwyllgor Gwaith fel y gellid gwneud penderfyniad yn y cyfarfod hwn. O'r herwydd, mae'r cynnig yn un i ymestyn y polisi cyfredol ar gyfer cymorth dewisol tuag at drethi busnes i elusennau a sefydliadau dielw ar gyfer 2018/19 a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda golwg ar weithredu fframwaith newydd yn Ebrill, 2019.

Penderfynwyd –

- **mabwysiadu'r Fframwaith cyfredol mewn perthynas â Chymorth Dewisol tuag at Drethi Busnes – Elusennau a Sefydliadau Dielw fel y manylir arno yn Atodiad A ar gyfer blwyddyn ariannol 2018/19 yn unig a'i fod yn rhoi cyfarwyddyd i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 i sicrhau bod y gweithdrefnau gweinyddol cyn 31 Mawrth 2018 yn rhoi gwybod i'r elusennau a'r sefydliadau dielw perthnasol y bydd y polisi mewn grym ar gyfer 2018/19 yn unig ac y bydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2019.**
- **cytuno i'r Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 gynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar y fframwaith yn ystod hanner cyntaf 2018/19 gyda fframwaith diwygiedig yn cael ei weithredu o 1 Ebrill 2019.**

16. DATGANIAD AR Y STRATEGAETH RHEOLI TRYSORLYS

Cyflwynwyd er sylw'r Pwyllgor Gwaith – Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 yn ymgorffori'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys am 2018/19.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid y cafodd y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys ei graffu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethiant yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror, 2018 a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor fel y'i cyflwynwyd heb unrhyw sylwadau pellach. Nid yw'r strategaeth arfaethedig ar gyfer 2018/19 wedi newid yn sylweddol o'r un a oedd yn weithredol yn 2017/18. Mae ymagwedd ddarbodus debyg yn 2018/19 yn debygol o sicrhau'r gwerth gorau ar gyfer y Cyngor yn ystod y cyfnod cyfredol o lymder ariannol sy'n golygu y bydd balansau ariannol mewnol yn cael eu defnyddio lle bynnag y bydd hynny'n bosibl er mwyn osgoi cymryd unrhyw fenthyciadau newydd. Serch y cynnydd yn ddiweddar yn y

gyfradd sylfaenol, disgwylir i gyfraddau busoddi yn y tymor canol barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycia ar gyfer y tymor hir. Bydd y Swyddog Adran 151 yn parhau i fonitro cyfraddau llog yn y marchnadoedd ariannol a mabwysiadu ymagwedd bragmataidd tuag at amgylchiadau sy'n newid, gan adrodd ar unrhyw benderfyniadau cyn gynted ag sy'n bosibl i'r corff priodol sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Dywedodd yr Aelod Portffolio fod bwriad i newid Arferion Rheoli Trysorlys, sef cynyddu'r balans ariannol isaf o £6m i £6.5m a hynny'n unol â'r polisi diweddaraf a gymeradwywyd mewn perthynas ag arian wrth gefn.

Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 161 bod y Strategaeth Rheoli Trysorlys yn cael ei mabwysiadu'n flynyddol; mae'n nodi trefniadau arfaethedig y Cyngor ar gyfer benthycia a buddsoddi yn y flwyddyn i ddod ac yn ogystal, mae'n cadarnhau'r polisi o ran y Ddarpariaeth Refeniw Isaf. Mae'r strategaeth ar gyfer 2018/19 yn mabwysiadu'r un ymagwedd â 2017/18, sef defnyddio balansau'r Cyngor yn lle benthycia lle mae hynny'n ymarferol, ac ni fydd yn cymryd benthyciadau onid oes defnydd penodol ar eu cyfer. Wnaiff y Cyngor ddim benthycia i fuddsoddi oherwydd mae dychweliadau ar fuddsoddiad yn llawer iawn is na chost benthycia. Mae'n bosibl y bydd angen adolygu'r strategaeth yn ystod y flwyddyn os ceir arwyddion bod y gyfradd sylfaenol yn codi'n uwch na'r hyn a ragwelwyd; bydd angen parhau i adolygu'r sefyllfa er mwyn sicrhau bod y gyfradd y mae'r Cyngor yn ei thalu am benthycia mor isel â phosib. Y Strategaeth fel y caiff ei chynnig yw'r orau yn yr amgylchiadau economaidd sydd ohoni. Ynghyd â'r newid i'r Arferion Rheoli Trysorlys y cyfeiriodd yr Aelod Portffolio ato, mae'r Polisi Refeniw Isaf yn cael ei ddiwygio a bydd hynny'n arwain at arbediad ar gostau oddeutu £1m i'r Cyngor; mae hyn wedi cael ei gynnwys fel arbediad yn y gyllideb refeniw ar gyfer 2018/19.

Penderfynwyd –

- **Nodi cynnwys yr adroddiad eglurhaol.**
- **Cymeradwyo'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys (gan gynnwys y Dangosyddion Pwyllog a Thrysorlys) ar gyfer 2018/19.**
- **Cyflwyno'r Strategaeth Rheoli Trysorlys i'r Cyngor Llawn heb unrhyw sylwadau pellach.**
- **Cymeradwyo'r newid yn ART, i gynyddu'r isafswm balans arian parod o £6m i £6.5m i adlewyrchu'r cynnydd yn isafswm balans yr arian wrth gefn cyffredinol.**

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws
Cadeirydd**

Y PWYLLGOR GWAITH

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Chwefror, 2018 (PRYNHAWN)

PRESENNOL:	Y Cynghorydd Llinos Medi Huws (Cadeirydd) Y Cynghorydd Ieuan Williams (Is-Gadeirydd) Y Cynghorwyr Richard Dew, John Griffith, Carwyn Jones, Alun Mummery, RG Parry, OBE, FRAGS, Dafydd Rhys Thomas
WRTH LAW:	Prif Weithredwr Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Oedolion) Pennaeth Gwasanaeth (Gwasanaethau Plant a Theuluoedd) Pennaeth Gwasanaethau Democraidd (ar gyfer eitem 4) Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd (ar gyfer eitem 8) Swyddog Pwyllgor (ATH)
YMDDIHEURIADAU:	Y Cynghorydd R. Meirion Jones
HEFYD YN BRESENNOL:	Y Cynghorwyr Lewis Davies, Richard Griffiths, Glyn Haynes, Kenneth Hughes, Eric Jones, R. Llewelyn Jones, Shaun Redmond

1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

2 MATERION BRYN A ARDYSTIWIYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU SWYDDOG A BENODWYD GANDDO.

Dim i'w adrodd.

3 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2018 i'w cadarnhau.

Penderfynwyd cadarnhau cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 29 Ionawr, 2018 fel rhai cywir.

4. **BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod rhwng Mawrth a Hydref, 2018 i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ar newidiadau i'r Flaenraglen Waith ers y cyfnod adrodd blaenorol fel a ganlyn -

- **Eitemau sy'n newydd i'r Flaenraglen Waith**

Eitem 13 – Adroddiad ar Asesiad Digonolrwydd Chwarae y trefnwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 26 Mawrth, 2018

Eitem 17 – Moderneiddio Ysgolion yn Ardal Llangefni: Adroddiad yn dilyn yr ymgynghoriad statudol (Corn Hir, Bodffordd a Henblas) y trefnwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith ar 30 Ebrill, 2018

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd wrth y Pwyllgor Gwaith hefyd bod y ddwy eitem isod wedi cael eu hailraglennu ers cyhoeddi'r agenda, a bydd y ddwy yn cael sylw gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod yn Ebrill, 2018 ac nid ym Mawrth, 2018 fel y nodwyd yn y Rhaglen Waith a gyhoeddwyd.

- Eitem 3 - Cynllun Llesiant: Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Eitem 8 – Storfeydd Cynnal Tai

Penderfynwyd cadarnhau Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Mawrth 2018 i Hydref 2018 yn amodol ar y newidiadau ychwanegol a amlinellwyd yn y cyfarfod.

5 **CYNLLUN RHANBARTHOL ASESIAD POBLOGAETH GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn ymgorffori drafft o Gynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion mai'r cynllun hwn yw'r cynllun ardal ar y cyd y mae'n rhaid ei ddarparu yn unol â Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Rheoliadau Gofal a Chefnogaeth (Cynllunio Ardal) (Cymru) 2017. Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol a'r Bwrdd Iechyd yng Ngogledd Cymru lunio cynllun ardal ar y cyd mewn ymateb i'r asesiad poblogaeth erbyn 1 Ebrill, 2018. Rhaid i'r cynllun fod dros gyfnod o 5 mlynedd. Yng Ngogledd Cymru, cytunwyd i alw'r cynllun yn Gynllun Rhanbarthol Asesu Poblogaeth er mwyn osgoi dryswch gyda'r tair ardal bwrdd iechyd. Dywedodd y Swyddog fod Aelodau Etholedig y Cyngor wedi'u briffio mewn sesiwn a gynhaliwyd ar 1 Chwefror, 2018 ar gynnwys y cynllun, y disgwyliadau ar lefel ranbarthol a sut y byddai'r rhain wedyn yn trosi i gamau gweithredu lleol, a hynny cyn cyflwyno'r cynllun i'w gymeradwyo i'r cyfarfod hwn. Bydd gweithredu'r cynllun dros y 5 mlynedd

nesaf yn waith a wneir ar y cyd rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a'r Bwrdd Iechyd.

Penderfynwyd cymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Gynllun Rhanbarthol Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru.

6. TAI GOFAL YCHWANEGOL SEIRIOL

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion a oedd yn crynhoi'r atborth a gafwyd o'r broses ymgysylltu ynghylch y bwriad i ddatblygu cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol, ynghyd ag argymhelliad terfynol ynghylch lleoliad y cyfleuster.

Dywedodd y Cadeirydd a'r Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol y gwnaed ymrwymiad ym mis Hydref, 2015, i ystyried safleoedd priodol yn Ne Ynys Môn ar gyfer datblygu darpariaeth Gofal Ychwanegol, gydag ardal Seiriol yn cael ei ffafrio fel lleoliad y cyfleuster. Yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref, 2017, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith (gyda'r Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol yn cefnogi) y dylid ymgysylltu'n lleol am gyfnod yn ardal Seiriol ynglŷn â'r bwriad i ddatblygu cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal; ynglŷn â'r safle a ffefrir ar gyfer y datblygiad, sef safle Ysgol Biwmares ac ynglŷn â chyllido'r datblygiad drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Mae'r adroddiad yn disgrifio'r broses ymgysylltu a gynhaliwyd - a oedd yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r cynghorau cymuned lleol a chyda Chyngor Tref Biwmares, cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn Llangoed, arolwg ar-lein, sesiynau galw heibio a sylw i'r mater gan y Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol - ac mae'n amlinellu'r atborth a gafwyd o'r broses.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion, yn ôl yr ymatebion a gafwyd, fod cefnogaeth gyffredinol i'r cysyniad o Dai Gofal Ychwanegol yn lleol fel model o ddarpariaeth, gyda mwy na hanner yr ymatebwyr yn cytuno bod Gofal Ychwanegol yn syniad da mewn egwyddor i fwrw ymlaen ag ef; fodd bynnag, roedd peth anghytundeb gyda'r safle a gynigiwyd gyda'r mwyafrif yn nodi eu bod yn anghytuno â'r safle a ffefrir - roedd hyn yn arbennig o amlwg yn y cyfarfodydd a gafwyd gyda Chyngor Cymuned Llangoed a Chyngor Tref Biwmares a hefyd yn y cyfarfod cyhoeddus yn Llangoed, sef y digwyddiad ymgysylltu olaf a gynhaliwyd. Mae Atodiad A i'r adroddiad yn nodi'r cwestiynau a ofynnwyd yn y cyfarfod cyhoeddus a'r ymatebion a roddwyd gan y Cyngor. Nid dyna'r achos mewn ardaloedd eraill yr ymwelwyd â hwy - yn y cyfarfod cyhoeddus a'r arolwg, dywedodd aelodau o Gyngor Cymuned Cwm Cadnant eu bod yn cefnogi lleoli darpariaeth Gofal Ychwanegol ym Miwmares; yn yr un modd, mae Cyngor Cymuned Llanddona yn derbyn yr angen am y ddarpariaeth ym Miwmares ac nid oes gan Gyngor Cymuned Porthaethwy unrhyw wrthwynebiad i'r cynnig. Mae cefnogaeth gref hefyd yn yr Achos Busnes ar gyfer adeiladu Tai Gofal Ychwanegol ym Miwmares - mae lleoliad y dref a'r mynediad at gyfleusterau yn cynnig gwell cyfleoedd ar gyfer integreiddio ac annibyniaeth; mae mwy o angen am dai ym Miwmares nag mewn ardaloedd mwy gwledig fel Llangoed; mae lleoliad Biwmares mewn sefyllfa well i gwrdd â safonau BREEAM. O ystyried y pwyntiau pwysig a godwyd yn ystod y broses ymgysylltu a'r cyfarfod cyhoeddus, mae'r argymhelliad yn parhau'n gyson â'r cynnig gwreiddiol h.y. defnyddio safle Ysgol Biwmares i ddatblygu cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol am y rhesymau a roddwyd yn yr adroddiad. Wrth ddatblygu'r cynllun rhoddir ystyriaeth briodol i'r pwyntiau a wnaed yn ystod y broses ymgysylltu mewn perthynas â'r safle a chymerir camau i sicrhau bod y safle'n hygyrch i bobl hŷn. Dywedodd y Swyddog fod yr adroddiad yn cydnabod bod y Pwyllgor Sgrïwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31

Ionawr, 2018 o wahanol farn, a'i fod wedi cefnogi sefydlu cyfleuster Gofal Ychwanegol ar safle Haulfre yn Llangoed. Am y rhesymau a roddwyd, ystyrir nad yw'r cynnig hwn yn ymarferol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at Aelod Lleol, y Cynghorydd Alun Roberts, na allai fod yn bresennol yn y cyfarfod hwn a darllenodd ddatganiad ar ei ran. 'Roedd y datganiad yn mynegi cefnogaeth yr Aelod Lleol ar gyfer darpariaeth Gofal Ychwanegol mewn egwyddor ac fel cysyniad, ond 'roedd hefyd yn amlinellu ei bryderon ynglŷn â'r lleoliad a ffefrir ar gyfer cyfleuster o'r fath yn Seiriol ar safle Ysgol Biwmares, oherwydd ei fod yn credu ei fod yn broblemus, yn enwedig oherwydd ei dirwedd ddaearyddol, ond hefyd oherwydd natur y dref sy'n aml yn brysur o ran traffig a phobl, ac oherwydd ei balmantau cul a allai fod yn beryglus. Roedd yr Aelod Lleol o'r farn na ddylid adeiladu'r cyfleuster Gofal Ychwanegol ar safle Ysgol Biwmares ac na ddylid, ar unrhyw gyfrif, ei adeiladu ar draul ysgol y dref. Mae yna opsiynau safle eraill yn Ne Ynys Môn y gallai'r Pwyllgor Gwaith eu hystyried e.e. Haulfre neu hyd yn oed y Ganolfan Gofal Dydd ym Miwmares sy'n wag ar hyn o bryd er gwaethaf bod gan y safle hwn rai o anfanteision safle'r ysgol.

Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at y Pwyllgor Ymateb i'r Ymgynghoriad ynghylch Ysgol Biwmares a oedd wedi bod mewn cysylltiad. Mae'r pwyllgor wedi cynnal ei arolwg ei hun yn benodol mewn perthynas â dyfodol ysgol gynradd y dref ond sydd hefyd yn cynnwys safbwyntiau sy'n mynegi anfodlonrwydd gyda'r cynnig am gynllun Tai Gofal Ychwanegol. Rhannwyd yr arolwg gyda Swyddogion a chaiff ei ystyried yn fanylach yng nghyd-destun yr ymgynghoriad statudol ar foderneiddio addysg gynradd yn ardal Seiriol.

Roedd y Cynghorydd Lewis Davies wedi cyflwyno sylwadau i'r Pwyllgor Gwaith fel Aelod Lleol ar gyfer ward Seiriol. Cyfeiriodd at erydiad graddol gwasanaethau yn Ne Ynys Môn gyda Chartref Preswyl Haulfre ac Ysgol Biwmares hefyd dan fygythiad o gau. Mae angen adfywio Biwmares fel tref trwy godi tai cymdeithasol ar gyfer teuluoedd a phobl ifanc - bydd sefydlu cyfleuster Gofal Ychwanegol yn y dref yn ailgadarnhau'r ddelwedd ohoni fel tref i bobl hŷn. Mae'r safle arfaethedig yn Ysgol Biwmares yn annerbyniol nid yn unig oherwydd anfanteision ffisegol y lleoliad ond oherwydd hefyd ei fod yn golygu ei fod yn gwneud cau'r ysgol yn fwy tebygol. Pwysleisiodd y Cynghorydd Lewis Davies gryfder y gefnogaeth leol i gadw Cartref Preswyl Haulfre ar agor - nododd yr angen parhaus am ddarpariaeth breswyl a gefnogir gan adroddiad gan Lywodraeth Cymru ac a ddyfynnodd ohono – ac amlygodd y safbwyntiau niferus a fynegwyd yn dweud bod well ganddynt leoli cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol ar safle Haulfre sydd, yn ôl y farn leol, yn safle llawer mwy addas ar gyfer y datblygiad. Anogodd y Pwyllgor Gwaith i ystyried barn llawer o bobl yn yr ardal a oedd yn erbyn safle Ysgol Biwmares a hefyd farn y Pwyllgor Sgriwtini o blaid safle Haulfre fel yr un a ffefrir.

Mewn ymateb i gais gan Gyngor Cymuned Cwm Cadnant, darllenodd y Cadeirydd lythyr gan y Cyngor Cymuned yn mynegi ei farn am y cynllun Tai Gofal Ychwanegol arfaethedig a glustnodwyd ar gyfer ardal Seiriol. I grynhoi, mae'r Cyngor Cymuned yn cefnogi'r cynllun yn llawn ond mae'n teimlo y byddai safle arall ym Miwmares o fudd. Serch hynny, mae'r Cyngor Cymuned yn cytuno y byddai Biwmares yn fwy addas ar gyfer preswylwyr unigol mewn unedau o'r fath, o gofio'r holl fwynderau a fyddai ar gael iddynt o fewn pellter cerdded byr. Mae'r Cyngor Cymuned hefyd yn credu nad yw lleoli cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol ar safle Haulfre yn ddelfrydol oherwydd ei leoliad pellennig. Mae'r Cyngor Cymuned eisiau'r gorau ar gyfer y ward ac eisiau symud gyda'r oes a'r unfed ganrif ar hugain; er mwyn i'r cynllun Gofal Ychwanegol fod yn llwyddiannus mae'n rhaid ei leoli ym Miwmares.

Dywedodd y Cyngorydd Carwyn Jones, yr Aelod Portffolio ar gyfer Prosiectau Mawr a Datblygu Economaidd ac Aelod Lleol hefyd ar gyfer Ward Seiriol, er ei fod yn gefnogol i'r cynllun Tai Gofal Ychwanegol, roedd hefyd yn cydnabod yr angen parhaus am ddarpariaeth breswyl i lenwi'r bwlch rhwng Gofal Ychwanegol, sy'n gysyniad cymharol newydd i Ynys Môn, a gofal nyrsio. Yn ardal Seiriol, mae Cartref Preswyl Haulfre yn diwallu'r angen hwn ac mae mewn lleoliad delfrydol, ac felly roedd yn annog y Cyngor i sicrhau dyfodol Haulfre dros y 10 mlynedd nesaf. Cydnabu fod safbwyntiau gwahanol yn yr ardal o ran lleoliad y cyfleuster Gofal Ychwanegol arfaethedig, gyda Llangoed a Biwmares yn cefnogi lleoli'r cynllun ar safle Haulfre, a Llandefgan, Llansadwrn a Llanddona o blaid Biwmares. Dywedodd y gallai weld manteision Haulfre a manteision Biwmares hefyd sy'n cynnig cyfleoedd ar gyfer cynhwysiad, rhyngweithio ac ystod o fwynderau. Gyda'r olaf fodd bynnag, mae pryderon ynghylch y troedffyrdd i'r dref ac ynghylch lled y troedffyrdd yn y dref ei hun. Llandefgan yw'r anheddiad mwyaf yn y ward ac mae'r ddarpariaeth o ran llety llai a byngalos i bobl hŷn yn gyfyngedig. Cyfeiriodd at y newid yn nemograffeg ward Seiriol ac mai pobl dros 65 oed yw'r grŵp mwyaf yn y boblogaeth, at golli diwydiant a swyddi gyda diflaniad Lairds ac at yr angen am fuddsoddiad a thai cymdeithasol yn yr ardal. Gallai adeiladu'r fflatiau byw â chymorth gofal ychwanegol arwain at ryddhau tai i deuluoedd wrth i denantiaid hŷn benderfynu bod gofal ychwanegol yn well i gwrdd â'u hanghenion. Fel Aelod Lleol ar gyfer y ward gyfan roedd yn parchu ac yn dymuno cyfleu'r amrywiaeth barn ar draws y ward. Roedd yn cefnogi'r syniad o fuddsoddiad gofal ychwanegol yn ardal Seiriol wedi ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai a gallai weld manteision sefydlu darpariaeth tai gofal ychwanegol naill ai ym Miwmares neu yn Llangoed. Fodd bynnag, er mwyn cydnabod y safbwyntiau gwahanol ynghylch lleoliad y cynllun arfaethedig, byddai'n ymatal rhag pleidleisio.

Mewn ymateb i gwestiynau gan yr Aelod Portffolio uchod ynghylch a fyddai'r ddarpariaeth tai gofal ychwanegol yn gallu cynnig peth o'r gwasanaeth a gollwyd yn sgil cau'r ganolfan gofal dydd ar yr un safle, dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod y gwasanaeth yn ymdrechu i ddarparu cefnogaeth i unigolion yn eu cymunedau lleol trwy hybiau cymunedol. Y nod yn ardal Seiriol, fel yn Llangefni yn achos Hafan Cefni, fydd gweithio gyda'r hybiau / gweithgareddau cymunedol lleol i ddarparu cymorth i drigolion y tai gofal ychwanegol. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gweithio gydag ardal Amlwch lle mae'r gymuned leol yn comisiynu gofal yn yr hybiau. Felly, disgwyliad y byddai unigolion mwy dibynnol yn gallu mynychu'r safle a chael cymorth yn ystod y dydd. Mewn ymateb i bryderon ynghylch medru mynd i mewn ac allan o'r dref o safle Ysgol Biwmares, cadarnhaodd y Swyddog, fel y nodwyd yn yr argymhelliad, y ceisir gwelliannau i'r troedffyrdd a hefyd i drafnidiaeth gymunedol a chyhoeddus fel rhan o unrhyw gynllun / cais cynllunio.

Nododd y Pwyllgor Gwaith yr isod wrth ystyried y wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed -

- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod Tai Gofal Ychwanegol yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel syniad ac fel ffordd amgen ac ychwanegol o ddarparu gofal, ond nad oes consensws yn ward Seiriol ynglŷn â pha leoliad fyddai orau ar gyfer cyfleuster Tai Gofal Ychwanegol yn yr ardal. Nododd y Pwyllgor Gwaith y gwahaniaeth barn yn y cymunedau yn ward Seiriol a'r rhesymau dros hynny.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith fod gan yr Awdurdod gyfrifoldeb i sicrhau bod anghenion gofal a llety pobl hŷn yn cael eu diwallu mewn modd sy'n sicrhau eu

hurddas a llesiant. Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, ac fel un o nodau'r Cynllun Corfforaethol, mae'r Awdurdod yn awyddus i alluogi pobl hŷn i fyw mor annibynnol â phosibl am gyhyd â phosibl. I'r perwyl hwn mae mathau eraill o ddarpariaeth megis Tai Gofal Ychwanegol yn cael eu datblygu.

- Nododd y Pwyllgor Gwaith felly, o ran ardal Seiriol, mai'r ffordd orau i sicrhau annibyniaeth pobl hŷn o fewn Cynllun Tai Gofal Ychwanegol fyddai trwy leoli'r cyfleuster ym Miwmares, a hynny oherwydd bod argaeledd parod yn y dref o amrywiaeth o fwynderau a hefyd oherwydd bod mwy o gyfleoedd i integreiddio'n gymdeithasol a rhyngweithio. Mae safle ysgol Biwmares gyda'r gwelliannau arfaethedig i'r troedffyrdd fel y nodwyd, yn cwrdd â'r angen hwn oherwydd ei agosrwydd i'r dref gan roi'r dewis i drigolion gerdded i'r dref.
- Nododd y Pwyllgor Gwaith hefyd fod angen i'r achos busnes ar gyfer y datblygiad fod yn gadarn oherwydd cyllido'r cyfleuster drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Felly, mae angen i'r Awdurdod sicrhau bod cyn lleied â phosibl o'r unedau tai gofal ychwanegol yn wag. Byddai'n haws gwneud hynny pe bai'r datblygiad wedi ei leoli mewn tref yn hytrach na phentref.

Penderfynwyd

- **Bod Safle Ysgol Biwmares yn cael ei ddefnyddio er mwyn datblygu Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.**
- **Bod y datblygiad yn cael ei ariannu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.**
- **Yn ddibynnol ar ganlyniadau'r ymgynghoriad mewn perthynas â dyfodol Ysgol Biwmares, dylid adeiladu'r datblygiad un ai tu ôl i'r ysgol fel rhan o ddatblygiad integredig gyda'r ysgol yn parhau ar agor neu dylid ei adeiladu gan ddefnyddio rhannau o adeilad yr ysgol petai penderfyniad yn cael ei wneud i gau'r ysgol.**
- **Fe ddylai'r broses ddatblygu ar gyfer y cynllun ystyried y pwyntiau a godwyd mewn perthynas â'r safle yn ystod y broses ymgysylltu a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried a bod camau'n cael eu cymryd i sicrhau bod y safle yn hwylus ar gyfer pobl hŷn. Er enghraifft, gan fod y datblygiad ar allt, cynnwys cyfleoedd am lwybrau ychwanegol a chlodiant cymunedol i'r dref. Hefyd, sicrhau bod y datblygiad yn gweithredu fel rhywle y gellir cynnal digwyddiadau cymunedol ynddo a sicrhau integreiddiad da â'r dref a chymunedau ehangach ledled De yr Ynys.**

(Ymataliodd y Cyngorydd Carwyn Jones rhag pleidleisio)

7. ADRODDIAD CYNNYDD PLANT A THEULUOEDD

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Plant a Theuluoedd) yn nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma yn erbyn y Cynllun Gwella Gwasanaeth.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol fod y sefyllfa ddiweddaraf, gan gynnwys yr ymateb gan AGGCC i adolygiad ysgrifenedig yr Awdurdod, wedi bod yn destun sylw a sgrwtini gan y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2018. Cadarnhaodd y Pwyllgor Sgrwtini yn y cyfarfod ei fod yn fodlon â'r cynnydd a wnaed a chyda'i gyflymder.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaeth (Plant a Theuluoedd) ar y prif feysydd cynnydd fel a ganlyn -

- Mae'r gwaith o ailstrwythuro'r Gwasanaeth bron wedi'i gwblhau ond mae rhywfaint o waith ar ôl i'w wneud ar adolygu trefniadau ar gyfer y Tîm Lleoli Plant, gwneud y defnydd mwyaf posib o Weithwyr Cymorth a sicrhau cymorth gweinyddol priodol i'r grwpiau Ymarfer.
- Mae recriwtio yn mynd yn dda gyda dim ond 5 swydd gweithiwr cymdeithasol ar ôl i gael eu llenwi. Mae ymgyrch ragweithiol ar waith i geisio recriwtio Gweithwyr Cymdeithasol profiadol i'r swyddi hyn. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth yn ehangu ei ddull recriwtio e.e. trwy ddatblygu trefniadau Hyfforddeiaeth Gwaith Cymdeithasol yn fewnol fel rhan o'r ymgyrch i dyfu ein staff ein hunain a thrwy gynnig lleoliadau profiad gwaith i ddisgyblion chweched dosbarth.
- Parheir i adolygu a datblygu Polisïau a Strategaethau, gan gynnwys y Strategaeth Gweithlu; y Polisi Goruchwyliaeth a Chanllawiau Ymarfer.
- Mae Cynllun Gwella Ymarfer yn cael ei ddatblygu yn 2018 a fydd yn eistedd ochr yn ochr â'r Cynllun Gwella Gwasanaeth.
- Mae'r gwaith o gryfhau trefniadau gweithio mewn partneriaeth yn parhau. Bydd strategaeth newydd ar gyfer Gwasanaethau Ataliol yn cael ei ddatblygu ar y cyd gyda phartneriaid.
- Mae AGGCC wedi ymateb yn gadarnhaol i adolygiad ysgrifenedig yr Awdurdod a bydd y Rheoleiddiwr yn parhau i gwrdd â'r gwasanaeth; cynhelir y cyfarfodydd hynny bellach bob dau fis yn hytrach nag yn fisol.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y wybodaeth a'r cynnydd a wnaed. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am gadarnhad o'r gwelliannau a wnaed er mwyn sicrhau cysondeb yr ymarfer ar draws pob maes ac i gryfhau trefniadau Sicrhau Ansawdd, a hynny gan eu bod yn nodweddion o wasanaeth da.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Plant a Theuluoedd) fod y Fframwaith Sicrhau Ansawdd wedi'i gymeradwyo gan y Gwasanaeth a'i fod yn gymharol newydd. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn bwriadu defnyddio ystod eang o ffynonellau tystiolaeth fel sail ar gyfer yr adroddiad gwerthuso ymarfer chwarterol, gan gynnwys archwiliadau o ffeiliau achos bob mis, arsylwi ar ymarfer, archwiliadau goruchwyliaeth, trosolwg, her a dysgu o atborth a gafwyd gan bartneriaid. Bwriedir hefyd ddysgu gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Er bod yr ymarfer yn parhau i fod yn anghyson mewn rhai meysydd, mae tystiolaeth gadarnhaol hefyd bod y gweithlu'n gweithio'n uniongyrchol gyda theuluoedd sy'n arwain at well canlyniadau. Adlewyrchir yr ansawdd gwell hefyd mewn ffyrdd eraill, sef llai o gwynion a gostyngiad yn y cyfraddau absenoldeb salwch tymor hir. Mae'r Tîm Cymorth Annibynnol hefyd wedi nodi y bu newid yn ymateb ac ymagwedd y staff a bydd y gwasanaeth yn ceisio adeiladu ar hynny. Mae'n golygu newid diwylliant ac mae hynny'n cymryd amser.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Panel Gwella Gwasanaeth Plant yn cyfarfod bob mis ac yn gwbl ymrwymedig i sicrhau gwelliant parhaus yn y Gwasanaethau Plant.

Penderfynwyd cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith yn fodlon â'r camau a gymerwyd i fynd ati i weithredu'r Cynllun Gwella ar gyfer y Gwasanaeth a chyda chyflymder y cynnydd a wnaed.

8. POLISI IECHYD A DIOGELWCH CORFFORAETHOL DIWYGIEDIG

Cyflwynwyd i'w ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Gwaith, adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd) yn ymgorffori Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig.

Dywedodd yr Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd fod gan Gyngor Sir Ynys Môn ddyletswydd gyfreithiol o dan Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 i sicrhau iechyd, diogelwch a lles ei weithwyr. Mae'r polisi a gyflwynir yn nodi'r trefniadau a'r gweithdrefnau sefydliadol sydd raid wrthynt i sicrhau bod iechyd a diogelwch gweithwyr yn cael sylw amlwg ar draws y Cyngor. Mae'r diwygiadau i'r polisi yn adlewyrchu'r newidiadau a wnaed i system Rheoli Iechyd a Diogelwch yr Awdurdod a hefyd i Uwch Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod.

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), er gwaethaf bod y polisi diwygiedig yn nodi'n ffurfiol y llinellau cyfrifoldeb ac atebolrwydd am iechyd a diogelwch yn y Cyngor, mae'n bwysig nodi bod dyletswydd ar bawb sy'n gysylltiedig â'r Cyngor i gymryd materion iechyd a diogelwch o ddifrif. Yn amodol ar gymeradwyo'r polisi, caiff ei gyfathrebu i'r holl staff o fewn y Cyngor i sicrhau eu bod yn ymwybodol bod ganddynt gyfrifoldeb personol am iechyd a diogelwch ac i egluro'r disgwyliadau ar staff sydd â chyfrifoldebau penodol am faterion iechyd a diogelwch yn y Cyngor.

Nododd y Pwyllgor Gwaith y polisi diwygiedig. Gofynnodd y Pwyllgor Gwaith am eglurhad ynghylch dichonolrwydd cyflwyno polisi iechyd a diogelwch cyffredinol ar gyfer pob ysgol. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), er bod yr amcanion iechyd a diogelwch yn gyffredin i'r ysgolion, mae'r broses asesu risg yn wahanol ym mhob achos ac mae'n cymryd i ystyriaeth weithdrefnau trefniadol yr ysgol unigol, adeilad yr ysgol a'r heriau cysylltiedig. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaeth, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) fod yr Uwch Reolwr Cymorth i Ysgolion wedi adolygu'r polisiâu iechyd corfforaethol ac wedi darparu arweiniad i ysgolion a chreu porth polisi sy'n cwmpasu pob agwedd ar iechyd a diogelwch.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol diwygiedig fel y'i cyflwynwyd.

**Y Cynghorydd Llinos Medi Huws
Cadeirydd**

1

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26 Mawrth 2018
Pwnc:	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith
Aelod(au) Portffolio:	Cyng Llinos Medi
Pennaeth Gwasanaeth:	Lynn Ball Pennaeth Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Huw Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democraataidd 01248 752108 JHuwJones@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Amherthnasol

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaenraglen waith a'i diweddarau'n rheolaidd. Cyhoeddir blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaenraglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2018**;

Adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgrwtini'r Cyngor a chadarnhau'r angen i'r Pwyllgorau Sgrwtini ddatblygu eu rhaglenni gwaith i gefnogi rhaglen waith y Pwyllgor Gwaith;

Nodi bod blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddarau'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

-

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw.

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Amherthnasol.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?

Beth oedd eu sylwadau?

1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). Fe'i chylchredir yn rheolaidd hefyd i Benaethiaid Gwasanaeth er mwyn ei diweddarau.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
5	Adnoddau Dynol (AD)	
6	Eiddo	
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	Amherthnasol.
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Amherthnasol.

* Allwedd i'r Categoriâu:

Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol

Gweithredol – darparu gwasanaethau

Er gwybodaeth

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrthlodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniad
7	Arall

FF - Atodiadau:
Blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith: Ebrill – Tachwedd 2018.

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

* Allwedd i'r Categoriâu:
 Strategol – cynlluniau a mentrau allweddol corfforaethol
 Gweithredol – darparu gwasanaethau
 Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddarwyd 13 Mawrth 2018



Mae blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaenraglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Tudalen 28

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaenraglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Aseadau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Amlinellir blaenraglen waith y Pwyllgor Gwaith ar gyfer y cyfnod **Ebrill – Tachwedd 2018** ar y tudalennau dilynol.

* *Allwedd:*

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddarwyd 13 Mawrth 2018

Tudalen 29

Ebrill 2018						
Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
1	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 30 Ebrill 2018
2	Cynllun Llesiant - Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus		Prif Weithredwr	Dr Gwynne Jones Prif Weithredwr Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 8 Mawrth 2018	Pwyllgor Gwaith 30 Ebrill 2018 15 Mai 2018
3	Strategaeth Taclo Tlodi Cymeradwyo strategaeth ddrafft ar gyfer mynd allan i ymgynghori.		Gwasanaethau Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery	Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio 10 Ebrill, 2018	Pwyllgor Gwaith 30 Ebrill 2018
4	Storfa Cynnal a Chadw Tai Derbyn cymeradwyaeth i symud ymlaen i arwyddo cytundeb gyda darparwr.	Penderfyniad ynghlwm a Chynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai	Gwasanaethau Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun Mummery		Pwyllgor Gwaith 30 Ebrill 2018 (i'w gadarnhau)

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddariwyd 13 Mawrth 2018

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
	5	Moderneiddio Ysgolion – Ardal Llangefni – Adroddiad yn dilyn yr ymgyngoriad statudol (Ysgolion Corn Hir, Bodffordd a Henblas)		Dysgu Delyth Molyneux Pennaeth Dysgu Cyng R Meirion Jones	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 23 Ebrill 2018	Pwyllgor Gwaith 30 Ebrill 2018	
	Mai 2018						
Tudalen 30	6	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.		Busnes y Cyngor Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 21 Mai 2018	
	7	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch4, 2017/18 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.		Trawsnewid Corfforaethol Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Mehefin 2018	Pwyllgor Gwaith 21 Mai 2018	
	8	Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2017/18 – Ch4 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.		Adnoddau Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng John Griffith	Panel Sgriwtini Cyllid Mai, 2018	Pwyllgor Gwaith 21 Mai 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddariwyd 13 Mawrth 2018

Tudalen 31

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
9 Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol		Gwasanaethau Plant	Fôn Roberts Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 4 Mehefin, 2018	Pwyllgor Gwaith 21 Mai 2018	
10 Craig y Don, Amlwch		Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun Mummery		Pwyllgor Gwaith 21 Mai 2018 (i'w gadarnhau)	
Mehefin 2018						
11 Adroddiad Blynyddol Safonau'r Gymraeg 2017/18 Cymeradwyo'r adroddiad.	Deilydd Portffolio sydd â chyfrifoldeb am yr iaith.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Deilydd portffolio perthnasol	I'w gadarnhau	Penderfyniad dirpwyiedig Mehefin 2018	
12 Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 18 Mehefin 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddariwyd 13 Mawrth 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
13	Safonau Ansawdd Tai Cymru – methiannau Derbyniol	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith 18 Mehefin 2018	
14	Polisi ymdrin â gwaith a safonau Cynnal a Chadw Tai	Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun W Mummery		Pwyllgor Gwaith 18 Mehefin 2018	
Gorffennaf 2018						
15	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democratiaidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 16 Gorffennaf 2018
16	Cyfrifon Terfynol Drafft ar gyfer 2017/18	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng John Griffith		Pwyllgor Gwaith 16 Gorffennaf 2018
17	Strategaeth Taclo Tlodi Cymeradwyaeth ar y ddogfen yn dilyn cyfnod o ymgynghori	O fewn rhaglen weithredu Cynllun Corfforaethol y Cyngor	Gwasanaethau Tai	Ned Michael Pennaeth Gwasanaethau Tai Cyng Alun Mummery	I'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 16 Gorffennaf 2018 (I'w gadarnhau)

Tudalen 32

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddariwyd 13 Mawrth 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Medi 2018						
18	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
19	Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch1, 2018/19 (S) Adroddiad monitro perfformiad chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor.	Trawsnewid Corfforaethol	Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol Cyng Dafydd Rhys Thomas	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi 2018	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018
20	Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf 2018/19 – Ch1 (S) Adroddiad monitro ariannol chwarterol.	Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng John Griffith	Panel Sgriwtini Cyllid – dyddiad i'w gadarnhau	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018
21	Adolygiad o'r Strategaeth Rheoli Trysorlys 2017/18	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng John Griffith	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddarwyd 13 Mawrth 2018

Tudalen 34

	Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
22	Cynllun Ariannol Tymor Canolig	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151 Cyng John Griffith		Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
23	Arolwg AGGCC o Wasanaethau Plant yn Ynys Môn – Cynllun Gwella – Cynnydd Chwarterol		Gwasanaethau Plant	Fôn Roberts Pennaeth Gwasanaethau Plant Cyng Llinos Medi	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 3 Medi, 2018	Pwyllgor Gwaith 17 Medi 2018	
Hydref 2018							
24	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 29 Hydref 2018	
25	Cynllun Strategol y Gyllideb Gyfalaf 2019/20	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog 151 Cyng John Griffith		Pwyllgor Gwaith 29 Hydref 2018	

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyfnod: Ebrill – Tachwedd 2018

Diweddariwyd 13 Mawrth 2018

Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir	Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam	Gwasanaeth Arweiniol	Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau	Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)	Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi	Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)
Tachwedd 2018						
26	Cyllideb 2019/20 (S) Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgyngori.	Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor.	Adnoddau Cyng John Griffith	Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151	Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol 24 Hydref 2018	Pwyllgor Gwaith 12 Tachwedd 2018
27	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S) Cymeradwyo diweddariad misol.	Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd.	Busnes y Cyngor	Huw Jones Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Cyng Llinos Medi		Pwyllgor Gwaith 26 Tachwedd 2018

Tudalen 35

* Allwedd:

S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol

G = Gweithredol – darparu gwasanaethau

ErG – Er gwybodaeth

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	26 MAWRTH 2018
PWNC:	ADRODDIAD MONITRO CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2017/18)
AELOD(AU) PORTFFOLIO	Y CYNGHORYDD DAFYDD RHYS THOMAS
PENNAETH GWASANAETH	I'W GADARNHAU
AWDUR YR ADRODDIAD: RHIF FFÔN: E-BOST:	GETHIN MORGAN 01248 752111 GethinMorgan@anglesey.gov.uk
AELODAU LLEOL:	Ddim yn berthnasol

A - Argymhelliad/Argymhellion a'r rheswm/rhesymau

- 1.1** Hwn yw ail trydydd cerdyn sgorio ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18.
- 1.2** Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd nhw ac fel y cytunwyd arnynt rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.
- 1.3** Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn -
- 1.3.1 Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant.*
- 1.3.1.1 Bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/025) a sicrhau bod yr amser y mae'r cyfan o'r plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, ac a ddad-gofrestrir yn ystod y flwyddyn, yn gostwng ac yn gwella ymhellach yn ystod Ch4.*
- 1.3.1.2 Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn gwella materion yn ystod y chwarter nesaf drwy –*
- Weithio i sicrhau y bydd Contract Gofal Cartref newydd wedi ei sefydlu yn y tri mis nesaf*
 - Gweithio i symud cleientiad o'r ysbyty i'r gwelyau sydd ar gael yn Garreglwyd cyn gynted ag sy'n bosibl*
- 1.3.1.3 Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn gwella drwy:*
- Fonitro ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos*

<ul style="list-style-type: none"> • <i>Gweithio ar gau'r bwlch rhwng rhagolygon a pherfformiad gwirioneddol</i> • <i>Parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol</i> • <i>Parhau i ddarparu cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athrawon yn y Cyfnod Sylfaen</i> • <i>Parhau i wella prosesau gosod targedau</i> <p>1.3.2 <i>Parhau â'r paneli herio salwch rheolaidd gyda phwyslais ar lynu wrth ddisgwyliadau polisi a rhoi cefnogaeth i'r gwasanaethau penodol hynny sydd wedi methu cwrdd â'u targedau.</i></p> <p>1.3.3 <i>Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) yn cael eu hannog i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen. Dylid gweithredu hyn trwy newid arferion gwaith cyfredol.</i></p> <p>1.3.4 <i>Adolygiad o'r modd y caiff cwynion ar cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd eu trin er mwyn sefydlu'r modd y gall y Gwasanaeth wella'r gyfradd ymateb i gwynion ar y cyd.</i></p> <p>1.4 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.</p>

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r mater hwn wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? sylwadau?		Beth oedd eu
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA yn ei gyfarfod ar 5 Mawrth ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Dim sylwadau

3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim sylwadau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrrff allanol / eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylchedd	
5	Cydraddoldeb	
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad A – Cerdyn Sgorio Chwarter 3 Atodiad B – Dangosfwrdd Perfformiad Rhaglenni a Phrosiectau – Chwarter 3 Atodiad C – Canlyniadau Refeniw Rhagamcanedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 3		
FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2017/18 – Chwarter 2 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2017 ac a dderbyniwyd ganddo.) 		

ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 3 (2017/18)

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1 Un o amcanion y Cyngor o dan Raglen Cymru ar gyfer Gwella yw sicrhau'r modd y gellir tystiolaethu a chyflwyno gwelliannau parhaus yn gyffredinol. I'r perwyl hwn, mae adroddiad perfformiad yn cael ei ddrafftio bob blwyddyn i'w gyhoeddi erbyn diwedd mis Hydref. Roedd adroddiad llynedd yn dangos ein bod, fel Cyngor, wedi gwella mewn nifer o feysydd ac y gallwn yn awr ein cymharu ein hunain yn hyderus gyda Chynghorau cyffelyb ar draws Cymru.
- 1.2 Datblygwyd y cerdyn sgorio hwn ochr yn ochr â'r adroddiad blynyddol i nodi a rhoi gwybod yn chwarterol i arweinwyr y Cyngor am gynnydd a wneir yn erbyn y dangosyddion sy'n amlygu gweithrediad llwyddiannus gwaith dydd i ddydd y Cyngor ac sydd o gymorth i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer drafftio'r adroddiad perfformiad.
- 1.3 Mae'r cerdyn sgorio yn parhau i ddatblygu a gwreiddio, gan adlewyrchu'r newidiadau hynny sydd wedi cael eu gwneud i systemau ac arferion traddodiadol o fewn y Cyngor. Penderfynwyd pa ddangosyddion i'w cynnwys yn y cerdyn sgorio eleni (fel y gwnaed yn y gorffennol) mewn gweithdy. Cynhaliwyd y gweithdy hwnnw yn ystod ail chwarter 2017/18 gydag aelodau o'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol.
- 1.4 Mae'r cerdyn sgorio (Atodiad A) yn dangos y sefyllfa ar ddiwedd Ch3 a bydd yn cael sylw pellach gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Mawrth.

2. YSTYRIAETHAU

- 2.1 Hon yw'r bumed flwyddyn o gasglu ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad mewn modd cydlynol. Mae'r Cyngor yn gweld tueddiadau yn dod i'r amlwg mewn perthynas â nifer o'r dangosyddion hynny ac mae sylwadau'r UDA /y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith yn cael effaith ar gyflawniad gweithredol.
- 2.2 Mae'n bwysig nodi y gofynnwyd i gynnwys y canlynol yn y cerdyn sgorio ar gyfer eleni -
 - 2.2.1.1 ychwanegu'r dangosyddion perfformio MAC newydd (Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus) a gesglir bob chwarter fel y gellir eu cynnwys yn y rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Perfformiad;
 - 2.2.1.2 cynnwys dadansoddiad fesul Gwasanaeth o rai o'r dangosyddion Rheolaeth Ariannol fel atodiad i'r adroddiad hwn (Atodiad D);
 - 2.2.1.3 mae'r rhan o'r adroddiad sy'n ymwneud â Rheoli Pobl bellach yn cynnwys dadansoddiad o gyfraddau salwch yn yr ysgolion uwchradd a chynradd fel yr argymhellwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar reoli salwch.
 - 2.2.1.4 mae'r rhan Gwasanaethau Cwsmer o'r adroddiad sy'n rhoi sylw i ymateb i gwynion o fewn yr amserlen wedi ei rhannu'n ddau.

2.3 RHEOLI PERFFORMIAD

2.3.1 Mae'r cerdyn sgorio ar gyfer Rheoli Perfformiad yn dangos perfformiad yn erbyn y dangosyddion a amlinellwyd ac y gofynnwyd amdanynt gan yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol. Mae'r targedau ar eu cyfer wedi cael eu hadolygu a'u cymharu gyda'r data cymharu cenedlaethol a gyhoeddwyd ar 13 Medi (ac eithrio data Gwasanaethau cymdeithasol).

2.3.2 Ar ddiwedd Ch3 mae'n galonogol nodi bod y mwyafrif o'r dangosyddion yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau ond nodwn fod 5 dangosydd yn tanberfformio ac yn dangos yn Goch yn erbyn eu targed ar gyfer y flwyddyn.

2.3.3 Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion yn parhau i ddangos tanberfformiad o chwarter 3—

- (i) 04) – PM19 – Mae lefel yr oedi gyda throsglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu'n hŷn yn GOCH ar y cerdyn sgorio gyda pherfformiad o 4.61 o gymharu â tharged o 1.5%. Mae'r perfformiad wedi dirywio o gymharu â ffigyrau Ch2 sef 2.9%, fodd bynnag mae'n well na'r perfformiad yn ystod Ch3 yn 2016/17, sef ffigwr o 5.8.

Mae prinder gwelyau EMI yn cael effaith ar y ffigyrau cyfredol ond mae gwelyau gofal dementia ar gael erbyn hyn yn Garreglwyd sy'n golygu y gall cleifion EMI adael yr ysbyty yn gynt. Hefyd, bydd contract Gofal Cartref newydd wedi cael ei sefydlu yn y 6 mis nesaf.

Lliniaru – er mwyn gwella materion yn ystod y chwarter nesaf, bydd y gwasanaeth –

- Yn gweithio tuag work at sicrhau bod contract Gofal Cartref yn cael ei sefydlu yn y 6 mis nesaf.
- Gweithio i symud cleientiaid o'r ysbyty i'r gwelyau sydd ar gael yn Garreglwyd cyn gynted ag sy'n bosibl.

2.3.4 Mae pedwar o ddangosyddion yn y Gwasanaethau Plant yn dangos tanberfformiad ar y cerdyn sgorio –

- (i) 07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal a oedd i'w cynnal yn ystod y flwyddyn ac a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio gyda 62.76% wedi eu cwblhau o gymharu â tharged o 85%.

Gwelwyd gwelliant bychan fis ar ôl mis mewn perthynas â'r DP hwn. Mae'r gwasanaeth yn hollol ymwybodol o'r angen i wella yn sylweddol ei berfformiad yny maes hwn ac mae cryn dipyn o waith yn cael ei wneud i gynorthwyo Gweithwyr Cymdeithasol i gynllunio'r gwaith hwn. O ganlyniad i'r gwaith hwn, rhagwelir y bydd canlyniadau wedi gwella erbyn diwedd Ch4 ac mae'n werth nodi y byddai'r data cyfredol yn awgrymu nad yw canran uchel o Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu gweld yn unol ag ymrwymadau Statudol. Fodd bynnag, wedi asesu'r set ddata, gwelir nad yw hynny'n gywir. Er enghraifft, ym mis Tachwedd 2017, allan o 140 o Blant sy'n Derbyn Gofal, gwelwyd 72 ohonynt o fewn yr amserlen; gwelwyd 22 y tu allan i'r amserlen, ni welwyd 8 ohonynt ac nid oedd 37 i fod i gael ymweliad y mis hwnnw. Mae

hyn yn golygu bod 94 allan o gyfanswm o 103 o Blant sy'n Derbyn Gofal wedi cael eu gweld yn ystod mis Tachwedd (91%). Mae'r gwasanaeth yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl Blant sy'n Derbyn Gofal yn cael eu gweld yn unol â'r amserlen.

- (ii) 08) PM24 – Canran yr asesiadau ar gyfer plant a gwblhawyd o fewn yr amserlenni statudol (42 diwrnod gwaith) sy'n GOCH gyda pherfformiad yn 71% yn erbyn targed o 90% ar gyfer y chwarter. Mae hyn yn ostyngiad sylweddol o'r 92.67% yr adroddwyd arno yn ystod Ch3 2016/17.

Chwarter 3 yw'r chwarter cyntaf y flwyddyn hon lle gall y Gwasanaeth gynhyrchu data ansoddol ar gyfer y DP hwn a hynny am nifer o resymau, gan gynnwys gweithredu WCCIS a'r ffurflenni newydd sy'n rhan o'r datrysiad newydd. Mae'r tanberfformiad yma i'w briodoli hefyd i'r ffaith nad oedd rhai aelodau staff penodol yn cwblhau'r asesiadau yn unol â'r gofyniad. Nid yw'r staff hyn yn gweithio i'r Cyngor mwyach.

Mae'r ymgyrch i wella'r set data yn parhau a than gylch gorchwyl y Pennaeth Gwasanaeth newydd, rhagwelir y bydd gwelliannau pellach yn ystod Ch4.

- (iii) 09) – PM32 – Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi newid ysgol unwaith (1) neu fwy yn ystod cyfnod neu gyfnodau o fod mewn gofal nad oedd i'w briodoli i drefniadau trosiannol, sy'n AMBR gyda pherfformiad yn 19.5% o gymharu â tharged o 15%.

Er bod hyn yn uchel ar ôl 9 mis, mae'r rhesymau dros symud ystôl yn rhan o'r cynlluniau tymor hir ar gyfer y plant, e.e. mabwysiadu, lleoliadau therapiwtig, lleoliadau newydd ac o'r herwydd, nid oes angen unrhyw gamau lliniaru.

- (iv) 11) PM28 – Yr amser ar gyfartaledd yr oedd yr holl blant ar y Gofrestr amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn (dyddiau) sy'n GOCH gyda pherfformiad yn 375.5 o ddyddiau yn erbyn targed o 250 o ddyddiau.

Mae'r DP hwn yn berthnasol i blant a gafodd eu dadgofrestru yn unig ac nid yw'n cyfeirio at gyfanswm nifer y plant ar y gofrestr. Felly, rhaid bod yn ofalus wrth ddadansoddi'r data.

Rydym wedi gweld cyfnod lle yr oedd rhai plant a oedd wedi bod ar y gofrestr ers peth amser yn cael eu dad-gofrestru oherwydd roedd y ffigyrau ar gyfer chwarter 2 yn cynnwys plant a oedd wedi bod ar y gofrestr am 4 blynedd. Croesewir y ffaith bod eu hamgylchiadau wedi gwella gan arwain at dynnu eu henwau oddi ar y gofrestr. Fodd bynnag, roedd hyn yn golygu bod y plant hynny a ddad-gofrestrwyd yn ystod y cyfnod hwnnw yn mynd ag oddeutu 1200 o ddiwrnodau yr un hefo nhw yn erbyn y dangosydd hwn ac o ganlyniad, mae hynny'n sgiwio'r ffigwr ar gyfer y flwyddyn. Mae gwelliannau i'r ffigwr hwn ar sail chwarterol wedi gweld gostyngiad yn nifer y dyddiad o 376 i 326.

Yn ychwanegol at hyn, mae nifer y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant wedi gostwng yn sylweddol yn ystod y 6 mis diwethaf gyda 56 o blant ar y Gofrestr ar hyn o bryd o gymharu â 102 ar ddiwedd mis Mawrth 2017. O ganlyniad, bydd gan y Gwasanaeth erbyn Ebrill 2018, drosolwg cynhwysfawr a chywir o nifer y plant ar y Gofrestr ac mae'r gwelliant hwn yn un i'w groesawu.

Camau Lliniaru ar gyfer y 4 DP uchod, er gwella materion yn ystod Ch4 ac i 2018/19, bydd y gwasanaeth yn –

- Yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gan roddi pwyslais arbennig ar wella asesiadau a gaiff eu cwblhau'n amserol o fewn y rheoliadau (PM24/SCC/o25) a sicrhau bod yr amser ar gyfartaledd yn achos yr holl blant a oedd ar y Gofrestr yn ystod y flwyddyn ac a ddad-gofrestrwyd yn gostwng ac yn gwella ymhellach yn Ch4.

2.3.5 Mae dau ddangosydd yn y Gwasanaeth Dysgu wedi tanberfformio yn ystod y flwyddyn –

- (i) 16) CA4 - % y plant 15 oed a lwyddodd i gyflawni L2+ yn 50.5% ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016/17. Mae hyn yn ostyngiad o 8.3% o gymharu â pherfformiad o 58% yn 2015/16.

Gwelwyd dirywiad yn y perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn ar lefel genedlaethol oherwydd y newid i'r modd yr oedd cyrsiau TGAU yn cael eu mesur a'r newid yn natur y cyrsiau eu hunain. Roedd y newid yn y mesurau yn cynnwys y gorau rhwng Mathemateg a Rhifedd, Iaith Saesneg ac Iaith Cymraeg yn unig – o'r blaen, roedd Llenyddiaeth Saesneg a Chymraeg yn cael eu hystyried hefyd. Llithrodd perfformiad o ran y Cyfartaledd Cenedlaethol yng Nghymru yn CA4 i 53.2% a llithrodd perfformiad yn y rhanbarth 6.4% ar gyfartaledd gydag Ynys Môn yn 4ydd o'r 6 Sir. Er bod y perfformiad yn amrywiol iawn ar draws y 5 ysgol, mae cynlluniau cymorth dwys ar waith i wella'r sefyllfa.

Camau Lliniaru – Er mwyn gwella'r dangosydd hwn yn 2017/18, bydd y gwasanaeth yn:

- Monitro perfformiad ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos
 - Yn gweithio i gau'r bwloch rhwng rhagamcanion a pherfformiad gwirioneddol
 - Parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol.
- (ii) 19) Cyfnod Sylfaen – Roedd canran y disgyblion a lwyddodd yn CA1/y Cyfnod Sylfaen yn 85.8% ar gyfer Blwyddyn Academaidd 2016/17. Mae hyn yn welliant o gymharu â'r 84.7% a gyflawnwyd yn ystod 2015/16, fodd bynnag, mae'n is na'r targed o 88.4%.

Mae dibynadwyedd asesiadau athrawon yn y Cyfnod Sylfaen wedi gwella rhywfaint, er gwaethaf yr ymyrraeth ac o ganlyniad, mae perfformiad yn y CS ychydig yn well nag yr oedd llynedd. Fodd bynnag, mae perfformiad Ynys Môn yn parhau i gael ei rancio'n 17eg ar lefel genedlaethol o gymharu â'r 20fed safle yn 2016 a'r 15fed safle yn 2015.

Camau Lliniaru – Er mwyn gwella'r dangosydd hwn ar gyfer 2017/18, bydd y gwasanaeth yn:


- Parhau i ddarparu cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athrawon yn y Cyfnod Sylfaen
- Parhau i wella prosesau gosod targedau

- 2.3.6 Mae'r cerdyn sgorio hefyd yn dangos lle mae gwelliannau neu berfformiad da yn digwydd yn gyffredinol. Mae un dangosydd yn y Gwasanaethau Oedolion a oedd yn Goch ar y cerdyn sgorio ar gyfrer Ch3 wedi gwella erbyn hyn ac mae'n Wyrdd ar y cerdyn sgorio ar ddiwedd C3 –
- (i) 02) – LI/18b: Canran y gofaluwr sy'n gofalu am oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a dderbyniodd asesiad neu adolygiad o'i hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn gyda pherfformiad o 93.3% yn erbyn targed o 93%. Mae hyn yn welliant sylweddol ar y 83.4% yr adroddwyd arno yn Ch3 2016/17.
- 2.3.7 Er bod gweddill y dangosyddion yr adroddwyd arnynt ar gyfer Ch3 yn **WYRDD** neu'n **FELYN** yn yr adran ar reoli perfformiad, dylid nodi nad yw hyn yn golygu y bydd ein sefyllfa ar lefel genedlaethol yn gwella ar draws pob maes.
- 2.3.8 Cafodd canlyniadau DP (01-11) y Gwasanaethau Cymdeithasol eu rhyddhau'n hwyr gan Lywodraeth Cymru yn ystod Ch3. Oherwydd yr anghysondeb o ran ystadegau a ddarparwyd gan Awdurdodau ar draws Cymru, mae'r ystadegau hyn yn cael eu trin fel rhai arbrefol. Gellir cael mwy o wybodaeth yn <http://gov.wales/docs/statistics/2017/171031-social-services-performance-measures-2016-17-en.pdf>
- 2.3.9 **Mae'r UDA yn argymell –**
- 2.3.9.1 *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd mesurau lliniaru i gynorthwyo i wella'r sefyllfa yn Ch3.*
- 2.3.9.2 *Bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/025) a sicrhau bod yr amser y mae'r cyfan o'r plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, ac a ddad-gofrestrir yn ystod y flwyddyn, yn gostwng ac yn gwella ymhellach yn ystod Ch4.*
- 2.3.10 Mae Atodiad B yn dangos y rhaglen waith gyfan y mae'r ddau Fwrdd Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol yn ei goruchwyllo. Er bod rhai o'r rhaglenni / prosiectau yn dangos yn GOCH mae'n bwysig nodi bod y materion a amlygwyd yn cael eu rheoli a'u monitro drwy'r Byrddau sy'n cwrdd bob chwarter.

2.4 RHEOLI POBL

- 2.4.1 O ran Rheoli Pobl, nodir bod perfformiad o ran cyfraddau salwch y Cyngor (*dangosydd 3 ar y cerdyn sgorio o dan Rheoli Pobl*) ar ddiwedd Ch3, sef 6.88, yn dangos gwelliant pellach o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17 pan oedd yn 7.21. Mae hyn yn dangos y rhagwelir y bydd y cyfraddau salwch erbyn diwedd y flwyddyn (os bydd y tueddiadau yn parhau fel y mae'r ddwy flynedd ddiwethaf yn ei awgrymu) yn cyfateb i 9.81 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol (ALIC).


Absenoldeb salwch – dyddiau gwaith/shifftiau a gollwyd ar gyfartaledd



Tabl 1

2.4.2 Mae perfformiad Gwasanaethau yn erbyn y targedau hyn ar gyfer Ch2 yn dangos mai dim ond dau wasanaeth sy'n GOCH o gymharu â'u targedau ar gyfer y chwarter:


2.4.2.1 Rheoleiddio a Datblygu Economaidd – COCH – 6.87 o ddyddiau salwch fesul ALIC (Targed 5.18). Mae problemau salwch yn y gwasanaeth Hamdden wedi gwella erbyn hyn ac roedd y Gwasanaeth yn is na'r targed yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref a Rhagfyr (1.79 o ddyddiau o salwch fesul ALIC yn erbyn targed o 2.11 o ddyddiau o salwch fesul ALIC). Y prif reswm dros barhau i fod yn GOCH ar y Cerdyn Sgorio yw'r lefelau salwch uchel yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ac oherwydd bod y dangosydd hwn yn un cronus (Ebrill i Ragfyr), mae'n golygu y bydd y gwasanaeth dros y targed am y flwyddyn.



Tabl 2

2.4.2.2 Gwasanaethau Oedolion - COCH – 10.45 diwrnod o salwch fesul ALIC (Targed 9.15). Y prif reswm dros y dirywiad yn y lefelau salwch yw achosion salwch tymor hir yn yr Uned Ddarparu, sy'n cyfateb i 2011 o ddyddiau o salwch allan o gyfanswm y Gwasanaeth o 3882 (52%). Mae

hyn yn gynydd o 0.89 o ddiwrnodau o salwch fesul ALIC (3.96 diwrnod o salwch fesul ALIC) am y cyfnod rhwng mis Hydref a Rhagfyr o gymharu â'r un cyfnod yn 2016/17 (3.07 diwrnod o salwch fesul ALIC). Gwelir y cynnydd yn Nhabl 3 isod:




Tabl 3

2.4.2.3 Yn y Gwasanaethau Oedolion mae 16.5% o weithlu'r Cyngor ac o'r herwydd, mae unrhyw newidiadau yn y lefelau salwch yn cael effaith fawr ar gyfraddau salwch y Cyngor yn gyffredinol. Petai'r patrwm a amlygir yn Ch3 yn parhau am weddill y flwyddyn, yna mae'n bosib y gallai cyfraddau salwch y Cyngor yn gyffredinol fod uwchlaw'r targed ar gyfer y flwyddyn.

2.4.2.4 Fodd bynnag, mae'r Gwasanaethau Oedolion, yr un modd â'r Gwasanaethau Iechyd, wedi gweld cynnydd yn yr achosion o salwch yn ystod Ch3 ar lefel genedlaethol ac oherwydd natur eu gwaith, mae'r gwasanaeth hwn ymysg y rhai sydd fwyaf tebygol o ddioddef salwch tra'n gweithio allan yn y gymuned.

2.4.3 Mae cysylltiad rhwng cyfraddau salwch a gwaith 'rheoli' salwch. Rhan annatod o'r broses reoli o fewn y Cyngor yw cydymffurfiaeth staff â pholisïau salwch corfforaethol sy'n cynnwys cynnal Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith a Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (*dangosyddion 7 ac 8 ar y cerdyn sgorio*).

2.4.4 Mae'r Cyngor yn parhau i wreiddio'r ymarfer hwn ar draws ei wasanaethau ac erbyn diwedd Ch3, roedd 1735 o'r Cyfweliadau Dychwelyd i'r Gwaith wedi cael eu cynnal o fewn yr amserlen (73%). Gwelwyd gwelliant tebyg yn Ch2 lle yr oedd 72% o'r cyfweliadau wedi eu cynnal o fewn yr amserlen. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn is na'r targed o 80% ac mae'n parhau fod yn AMBR ar y Cerdyn Sgorio (Tabl 4). Mae cyfanswm y cyfweliadau dychwelyd i'r gwaith a gynhaliwyd (o fewn yr amserlen a'r tu allan iddi) hefyd yn isel, sef 86% (2036 o gyfweliadau) o gymharu â tharged o 95% ac mae'n dangos yr un tueddiad â Ch2.



Tabl 4

2.4.5 Erbyn diwedd Ch3, y gwasanaethau a fethodd â chyrraedd y Targed Corfforaethol o 80% o fewn yr amserlen oedd y Gwasanaethau Oedolion (76%), Gwasanaethau Plant (71%), Dysgu (70%) ac Adnoddau (70%).

2.4.6 Yr unig wasanaeth a oedd yn dangos yn GOCH (mwy na 10% yn is na'r targed) o ran canran y cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a gwblhawyd (o fewn yr amserlen a'r tu allan iddi), oedd y Gwasanaeth Dysgu ar 81%. Roedd dau wasanaeth yn AMBR (rhwng 5% a 10% yn is na'r targed), sef y Gwasanaethau Plant ar 86% a'c Adnoddau ar 90%. Mae'r gwasanaethau sy'n weddill o fewn 5% i'r targedau.

2.4.7 Mae'r ffigyrau ar gyfer Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP) yn Ch3 yn 83% (50 o'r 60 CAP) ac yn well na'r ffigwr o 59% ar gyfer Ch2 ac mae'n WYRDD yn awr ar y Cerdyn Sgorio (pwynt i'w nodi – nid yw'r ffigyrau hyn yn cynnwys ysgolion).

2.4.8 Er bod lle i wella o ran dilyn y Polisi Rheoli Absenoldeb, h.y. cynnal cyfweiliadau dychwelyd i'r gwaith a chyfarfodydd adolygu presenoldeb, mae'n galonogol nodi y llwyddwyd i gyrraedd y targed salwch cyffredinol ar gyfer y 5ed chwarter yn olynol ac os yw'r duedd hon yn parhau, rydym yn rhagweld canlyniad o 9.81 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn (yn seiliedig ar gyfartaledd 3 blynedd).

2.4.9 O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

2.4.9.1 *Parhau gyda'r panelau herio salwch rheolaidd, gyda phwyslais ar lynu wrth y disgwyliadau o ran polisi a chefnogi'r gwasanaethau penodol hynny sydd wedi methu â chyrraedd eu targedau.*

2.5 GWASANAETH CWSMER

2.5.1 Yn ystod Ch3, defnyddiwyd technoleg AppMôn i roi gwybod am 1.5k o faterion unigol (gan gynnwys tipio anghyfreithlon, goleuadau stryd diffygiol, canmoliaeth neu gwynion, palmentydd wedi torri, ffurflenni cronfeydd data clybiau chwaraeon ac archebu biniau ailgylchu). Daeth 81% o'r rhain drwy'r wefan, sef lefel sy'n debyg i Ch2 pan ddaeth 83% drwy'r wefan.

2.5.2 Mae angen gwneud rhagor o waith i gael manylion gan y cyflenwr am faint o weithiau y mae AppMôn wedi ei lawr lwytho. Mae cael y ffigyrau hyn gan

y cyflenwr yn parhau i fod yn heriol ond bydd gwaith yn parhau i gadarnhau'r ystadegau a'r wybodaeth yn ystod Ch4.

- 2.5.3 Mae'r dangosyddion sy'n weddill o fewn yr Adain Gwasanaethau Digidol yn canolbwyntio ar y wefan a'n presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol. Gwelwyd cynnydd o 65k yn nifer yr ymweliadau unigryw yn ystod Ch3 o gymharu â'r un cyfnod y llynedd (460k yn 17/18 a 395k yn 16/17). Mae ein presenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol hefyd wedi arwain at gyfanswm o 25k o gyfrifon cyfryngau cymdeithasol yn ein dilyn ni, sef 11k o ddilynwyr ar Facebook a 14k o ddilynwyr ar Twitter. Mae gan y Cyngor yn awr bresenoldeb ar Instagram lle mae 332 o bobl yn dilyn y dudalen ar hyn o bryd. Mae'r dulliau hyn o gyfathrebu yn parhau i gynyddu a rhagdybir y bydd y llif gwybodaeth a gylchredir ac a dderbynnir trwy'r sianelau hyn yn cynyddu.
- 2.5.4 Mewn perthynas â Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, nid oedd modd i ni adrodd ar Gwynion Cwsmeriaid a Cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer y chwarter (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol sy'n adrodd mewn dull gwahanol) a hynny oherwydd salwch tymor hir yn y tîm sy'n casglu'r ystadegau ar ran y Cyngor. Er nad oes gennym yr ystadegau ar gyfer y gwasanaethau, maent yn parhau i fonitro cwynion a cheisiadau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn yr un modd â'r gorffennol.
- 2.5.5 Cafwyd 8 o Gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Plant [4] a Gwasanaethau Oedolion [4]) a 38 o Gwynion Cam 1 (Gwasanaethau Plant [28], Gwasanaethau Oedolion [10]) hyd at ddiwedd chwarter 3.
 - 2.5.5.1 O'r 38 o Gwynion Cam 1 a dderbyniwyd hyd at ddiwedd Ch3, ymatebwyd i 47% ohonynt yn ysgrifenedig sy'n ddirywiad o gymharu â'r 53% yr adroddwyd arnynt yn Ch2. Roedd 18 o ymatebion ysgrifenedig hwyr hyd at ddiwedd Ch3, gyda 13 yn y Gwasanaethau Plant a 5 yn y Gwasanaethau Oedolion.
 - 2.5.5.2 Roedd perfformiad yn well ar gyfer trafodaethau Cam 1, gyda thrafodaeth yn cael ei chynnig i'r achwynydd o fewn yr amserlen yn achos 24 o'r 28 o gwynion i'r Gwasanaethau Plant a 6 o'r 10 cwyn i'r Gwasanaethau Oedolion hyd at ddiwedd Ch3.
 - 2.5.5.3 Roedd y cwynion i'r Gwasanaethau Oedolion yn cynnwys 2 gŵyn a oedd yn gwynion ar y cyd gyda'r Bwrdd Iechyd ac roedd 2 o'r trafodaethau eto i'w cynnal ar ddiwedd Ch3 ac o'r herwydd yn hwyr. Oherwydd hyn, nid yw'n bosibl dweud a fyddai ymateb ysgrifenedig yn cael ei anfon o fewn 5 niwrnod i'r drafodaeth. Adroddir ar hyn yn yr adroddiad ar Gerdyn Sgorio Ch4.
 - 2.5.5.4 Mae tanberfformiad yn y Gwasanaethau Plant yn ymwneud ag anfon ymatebion ysgrifenedig o fewn yr amserlen, er bod 2 o'r 3 cwyn a dderbyniwyd rhwng Hydref a Rhagfyr wedi cael ymateb ysgrifenedig o fewn yr amserlen ofynnol.
 - 2.5.5.5 Mae tanberfformiad yn y Gwasanaethau Oedolion yn gysylltiedig â methiant i ddarparu ymateb ysgrifenedig i unrhyw un o'r 5 cwyn a dderbyniwyd rhwng Hydref a Rhagfyr o fewn yr amserlen er nad oedd ystadegau ar gael mewn perthynas â'r ddwy gŵyn ar y cyd ar ddiwedd Chwarter 3.
 - 2.5.5.6 Yn achos 30 o'r 38 (79%) o'r cwynion a dderbyniwyd gan y Gwasanaethau Oedolion a Phlant, cynigiwyd trafodaeth gyda'r

achwynydd o fewn yr amserlenni sy'n ddirywiad o gymharu â pherfformiad Ch2 (87%).

2.5.6 O'r herwydd, mae'r UDA yn argymell –

2.5.6.1 Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) yn cael eu hannog i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen. Dylid gweithredu hyn trwy newid arferion gwaith cyfredol.

2.5.6.2 Adolygiad o'r modd y caiff cwynion ar cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd eu trin er mwyn sefydlu'r modd y gall y Gwasanaeth wella'r gyfradd ymateb i gwynion ar y cyd.

2.6 RHEOLAETH ARIANNOL

2.6.1 Rhagwelir gorwariant o £1.624m ar gyfer y flwyddyn a ddawi ben ar 31 Mawrth 2018.

2.6.2 Mae hyn yn welliant o £300k o gymharu â Chwarter 2. Mae £2.461m o hyn ar gyllidebau gwasanaeth sydd yn cynnwys nifer o orwariannau a thanwariannau. Mae'r Gwasanaethau sy'n parhau i fod dan bwysau ariannol yn debyg i 2016/17 (Gwasanaeth Plant a Theuluoedd a Dysgu). Mae'r Penaethiaid Gwasanaeth yn ymwybodol o'r problemau ac yn gweithio i ostwng lefel y gorwariant sydd o fewn eu rheolaeth erbyn diwedd y flwyddyn. Disgwylir tanwariant o £0.503m o ran Cyllid Corfforaethol a rhagamcener y bydd y Dreth Gyngor, sy'n cynnwys y Premiwm Treth Gyngor, yn casglu gwarged o £0.334m. Disgwylir felly i'r gorwariant cyffredinol ostwng i £1.624m. Mae lefel rhagdybiedig y gorwariant yn cyfateb i 1.29% o gyllideb net y Cyngor. Mae pryder ynghylch effaith y gorwariant hwn ar y balansau cyffredinol petai'n digwydd mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mae'r balansau cyffredinol yn ddigonol ar hyn o bryd i gynnal y gorwariant hen effeithio ar y targed isaf o £6m a bennwyd gan y Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2017.

2.6.3 Gall rhagamcanion newid wrth i wybodaeth newydd ddod i'r fei. Fodd bynnag, gyda sgritwini rheolaidd gan yr UDA ac os bydd Penaethiaid Gwasanaeth yn cymryd camau gwella, bydd hyn o gymorth i wasanaethau reoli eu cyllidebau.

2.6.4 Gellir gweld rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Ch3' a drafodwyd yn y Pwyllgor Gwaith ar 19 Chwefror.

3 ARGYMEHLLION

3.1 Gofynnir i'r Pwyllgor graffu ar y cerdyn sgorio a nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol. Gellir crynhoi'r rhain fel a ganlyn –

3.1.1 *Cydnabod a rheoli tanberfformiad a chymryd camau lliniaru i gynorthwyo i sicrhau gwelliant.*

3.1.1.1 Bydd y Gwasanaethau Plant yn parhau i flaenoriaethu'r gwelliannau a nodwyd gyda phwyslais arbennig ar wella amseriad yr asesiadau a gynhelir yn unol â'r rheoliadau (PM24/SCC/025) a sicrhau bod yr amser y mae'r cyfan o'r plant sydd ar y Gofrestr Amddiffyn Plant yn ystod y flwyddyn, ac a ddad-gofrestrir yn ystod y flwyddyn, yn gostwng ac yn gwella ymhellach yn ystod Ch4.

3.1.1.2 Bydd y Gwasanaethau Oedolion yn gwella materion yn ystod y chwarter nesaf drwy –

3.1.1.2.1 Weithio i sicrhau y bydd Contract Gofal Cartref newydd wedi ei sefydlu yn y 6 mis nesaf

3.1.1.2.2 Gweithio i symud cleientiad o'r ysbyty i'r gwelyau sydd ar gael yn Garreglwyd cyn gynted ag sy'n bosibl

3.1.1.3 Bydd y Gwasanaeth Dysgu yn gwella drwy:

3.1.1.3.1 Fonitro ysgolion sy'n tanberfformio yn y Panel Cynnydd Ysgolion a'r Bwrdd Ansawdd Sirol bob pythefnos

3.1.1.3.2 Gweithio ar gau'r bwloch rhwng rhagolygon a pherfformiad gwirioneddol

3.1.1.3.3 parhau i geisio sicrhau gwell cysondeb ar draws y 5 ysgol o ran rhannu arfer dda, cysoni a sicrhau asesiadau cywir a defnyddio asesiadau i gynllunio ymyrraeth/addysgu priodol

3.1.1.3.4 Parhau i ddarparu cefnogaeth i athrawon er mwyn gwella Asesiadau Athrawon yn y Cyfnod Sylfaen

3.1.1.3.5 Parhau i wella prosesau gosod targedau

3.1.2 Parhau â'r paneli herio salwch rheolaidd gyda phwyslais ar lynu wrth ddisgwyliadau polisi a rhoi cefnogaeth i'r gwasanaethau penodol hynny sydd wedi methu cwrdd â'u targedau.

3.1.3 *Gwasanaethau Cymdeithasol (Oedolion a Phlant) yn cael eu hannog i wella'r modd yr ymdrinnir â chwynion a'u bod yn sicrhau bod ymatebion ysgrifenedig i gwynion Cam 1 yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlen. Dylid gweithredu hyn trwy newid arferion gwaith cyfredol.*

3.1.4 Adolygiad o'r modd y caiff cwynion ar cyd rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd eu trin er mwyn sefydlu'r modd y gall y Gwasanaeth wella'r gyfradd ymateb i gwynion ar y cyd.

3.2 Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q3 2017/18

Gofal Cwsmer / Customer Service	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 16/17 Result	Canlyniad 15/16 Result
Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter						
01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	-	-	-	-	71	59
02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbyniwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	8	-	5	5
03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol	-	-	-	-	25	21
04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol)	-	-	-	80%	93%	64%
04a) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)	-	-	-	80%	63%	-
05) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	-	-	-	-	191	261
06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol	-	-	35	-	54	53
07) Nifer o ganmoliaethau	-	-	426*	-	566	712
08) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen	-	-	-	80%	77%	67%
09) Nifer o Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth a dderbyniwyd	-	-	-	-	1037	854
10) % o'r galwadau ffôn heb ei ateb	Gwyrdd / Green	⇒	12%	15%	13%	12%
11) % o gyfathrebu ysgrifenedig a atebwyd o fewn 15 diwrnod gwaith o'u derbyn (Siopwr Cudd)	Gwyrdd / Green	-	78%	-	67%	-
12) % o ymatebion ysgrifenedig mewn dewis iaith y cwsmer (Siopwr Cudd)	Gwyrdd / Green	-	100%	-	100%	-
13) % o alwadau ffôn a atebwyd yn ddwyieithog (Siopwr Cudd)	Gwyrdd / Green	-	83%	-	77%	-
14) % y staff a gymerodd y cyfrifoldeb am ymholiad y cwsmer (Siopwr Cudd)	Gwyrdd / Green	-	87%	-	90%	-
Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift						
15) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol)	-	-	-	-	-	-
16) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn	-	↑	1.5k	-	1k	-
17) Nifer o daliadau dros y we	-	↑	11k	-	10k	-
18) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol	Gwyrdd / Green	↑	25k	21k	21k	-
19) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor	Gwyrdd / Green	↑	460k	406k	541k	-

Rheoli Pobl / People Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 16/17 Result	Canlyniad 15/16 Result
01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	2253	-	2258	2310
02) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, ac eithrio athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)	-	-	1245	-	1250	1303
03a) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↓	6.88	7.07	9.78	11.68
03b) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.02	-	4.72	11.68
03c) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.86	-	5.06	6.79
04a) Ysgolion Cynradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Melyn / Yellow	↓	6.81	6.76	-	-
04b) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.16	-	-	-
04c) Ysgolion Cynradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.65	-	-	-
05a) Ysgolion Uwchradd - Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↓	6.69	6.76	-	-
05b) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.5	-	-	-
05c) Ysgolion Uwchradd - Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	-	-	3.19	-	-	-
06) % o Cyfweiliadau DIG a gynhalwyd o fewn yr amserlen	Ambr / Amber	↑	73%	80%	78%	84%
07) % o Cyfweiliadau DIG a gynhalwyd	Ambr / Amber	⇒	86%	95%	91%	-
08) % o Gyfarfodydd Adolygu Phresenoldeb (CAP) a gynhaliwyd	Gwyrdd / Green	↑	83%	80%	57%	-
09) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol)	-	-	-	-	10%	-
10) % o ADP a'i cwblhawyd o fewn yr amserlen (Ch4)	-	-	-	80%	80%	-
11) % y staff sydd a Thystysgrif DBS (os oes angen o fewn eu rôl)	-	-	-	-	91.40%	98%
12) Nifer o staff Asiantaeth	-	-	12	-	15	26

Rheolaeth Ariannol / Financial Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Cyllideb / Budget	Canlyniad / Actual	Amrywiad / Variance (%)	Rhagolygon o'r Gwariant / Forecasted Actual	Amrywiad a Ragwelir / Forecasted Variance (%)
01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol	Coch / Red	-	£96,137,000	£98,145,000	2.09%	-	-
02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw)	Coch / Red	-	£126,157,000	-	-	£127,781,000	1.29%
03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf)	-	-	£39,184,000	-	-	£21,717,000	-44.58%
04) Cyflawniad yn erbyn targedau effeithlonrwydd	Ambr / Amber	-	£2,444,000	-	-	£1,646,250	-32.80%
05) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau)	Gwyrdd / Green	-	-£15,083,310	-16848740	11.70%	-	-
06) Swm a fenthycwyd	-	⇒	£12,377,000	-	-	£8,317,000	-32.80%
07) Chost benthyca	-	⇒	£4,257,000	-	-	£4,095,000	-3.81%
08) % o'r anfondebau a dalwyd o fewn 30 diwrnod	-	-	-	-	-	-	-
09) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	↑	-	98.90%	-	-	-
10) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	↑	-	98.80%	-	-	-
11) % yr Amrywiad Ddyledion a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn/Yellow	↑	-	97.20%	-	-	-
12) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	-	-	101%	-	-	-
13) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf)	-	-	-	102%	-	-	-

Rheoli Perfformiad / Performance Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 16/17 Result	Canlyniad 15/16 Result	Chwarter 16/17 Quartile
01) SCA/002b: Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth	Gwyrdd / Green	⇒	19.06	22	20.51	20.3	-
02) LI/18b Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	↑	93.3	93	94.4	90.8	-
03) PM18 - Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol	Gwyrdd / Green	↑	92.93	90	90.48	-	-
04) PM19 - Cyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75 oed neu drosodd	Coch / Red	↓	4.61	1.5	6.05	-	-
05) PM20a - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phhecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach	Gwyrdd / Green	↓	59.09	40	62.6	-	-
06) PM20b - Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	Gwyrdd / Green	↑	64.57	62	33.3	-	-
07) SCC/025: % yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddiwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	Coch / Red	↑	62.76	85	79.35	82.79	-
08) PM24 - Canran yr asesiadau a gwblhawyd ar gyfer plant o fewn terfynau statudol (42 diwrnod gwaith)	Coch / Red	↓	71	90	89.17	-	-
09) PM32 - Canran y plant sy'n derbyn gofal sydd wedi profi (1) neu ragor o achosion o symud ysgol, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, nad oeddent yn drefniadau dros dro, yn y flwyddyn hyd at 31 Mawrth	Coch / Red	↓	30	15	17.53	-	-
10) PM33 - Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a oedd wedi cael tri lleoliad neu fwy yn ystod y flwyddyn	Melyn / Yellow	↓	7.86	5	5.04	-	-
11) PM28 - Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn	Coch / Red	↑	326	250	266	-	-
12) Presenoldeb – Cynradd (%)	-	-	94.98	-	94.8	95.1	-
13) Presenoldeb – Uwchradd (%)	-	-	93.63	-	94.6	94.5	Uchaf / Upper
14) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Cynradd	-	-	10	-	-	-	-
15) Nifer y dyddiau a gollwyd oherwydd gwaharddiadau dros dro – Uwchradd	-	-	35.5	-	-	-	-
16) CA4 – % y disgyblion 15 oed sy'n cyflawni L2+	Coch / Red	↓	50.5	63.4*	58.8*	56.9*	Canolrif Isaf / Lower Median
17) CA3 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC	Melyn / Yellow	↑	88.9	90.1	87.6	84.5	Canrif Uchaf / Upper Median
18) CA2 - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC	Gwyrdd / Green	↑	91.4	91	89.4	91.8	Uchaf / Upper
19) CS - % y disgyblion sy'n cyflawni DPC/DCS	Ambr / Amber	↑	85.8	88.4	84.7	86.2	Isaf / Lower
20) LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	↓	212k	210k	288k	289k	Uchaf / Upper
21) LCL/004: Nifer y deunyddiau llyfrgell a roddwyd allan yn ystod y flwyddyn	Melyn / Yellow	↓	193k	195k	272k	284k	-
22) Nifer yr ymgeiswyr gyda phlant sy'n ddbinyddion iddynt y mae'r Cyngor wedi sicrhau llety gwely a brecwast iddynt (llety nad yw'n hunangynhaliol)	Gwyrdd / Green	⇒	0	0	0	-	-
23) % y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol	Melyn / Yellow	↓	89	92	90.2	89.5	-
24) Cynhyrchiant y gweithlu – % yr amser sy'n cael ei categoreiddio fel amser cynhyrchiol	Melyn / Yellow	↓	79.32	80	80.1	74.6	-
25) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)	Gwyrdd / Green	↑	17.7	23	28	33.7	-
26) PAM/013 - Nifer o eiddo sector preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd	Gwyrdd / Green	↑	53	52	-	-	-
27) PAM/014 - Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau aildddefnyddio eiddo gwag	-	-	1	-	-	-	-
28) PAM/015 - Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Gwyrdd / Green	↑	181.4	200	-	-	Canolrif Isaf / Lower Median
29) STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd sydd o safon uchel neu dderbyniol o ran glanweithdra	Gwyrdd / Green	↓	94.3	94	93.4	95.1	-
30) STS/006: Canran yr achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 diwrnod gwaith, ar ôl i rywun adrodd amdanynt	Gwyrdd / Green	↓	99.67	100	97.31	98.5	-
31) WMT/009b: Canran y gwastraff sirol a gasglwyd gan awdurdodau lleol ac a baratowyd i'w aildddefnyddio a/neu ei ailgylchu	Gwyrdd / Green	↓	73.24	67	65.79	59.5	Uchaf / Upper
32) WMT/004b: Canran y gwastraff sirol a anfonwyd i'w dirlenwi	Gwyrdd / Green	↓	0.47	5	6.6	16.9	Canolrif Isaf / Lower Median
33) THS/011c: % y ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael ar y cyfan (blynyddol)	-	-	-	10	10.1	13.5	Canolrif Isaf / Lower Median
34) Nifer y bobl ifanc sydd wedi mynychu rhaglenni gweithgareddau datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth	Gwyrdd / Green	-	32k	30k	113k	132k	-
35) LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgaredd corfforol	Gwyrdd / Green	-	364k	319k	464k	458k	Isaf / Lower
36) PAM/023 - Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd	Gwyrdd / Green	-	98	80	98	-	Uchaf / Upper

* yn seiliedig ar yr hen gwricwlwm

Atodiad B

Mae'r ddogfen yma wedi'i gynnwys yn adroddiad chwarterol y cerdyn sgorio Sy'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter i ddarparu diweddariad lefel uchel byr ynghylch statws y gwaith sydd yn berthnasol ac yn adrodd i'r -

- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau, a'r**
- **Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes**

Yr allwedd CAG ar gyfer y ddogfen uchod yw fel a ganlyn –

CAG:

Wedi ei gwblhau

Ar y trywydd iawn

Ar ei hôl hi

Hwyr

Gwyn

Prosiect wedi ei gwblhau

Prosiect yn datblygu yn ôl y disgwyl ac mae ar y trywydd iawn

Mae prosiect angen penderfyniadau / cymorth allweddol

Mae'r prosiect yn hwyr a thŷ ôl i'r amserlen ddisgwyliedig

Nid yw'r prosiect wedi dechrau

Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Partneriaethau, Cymunedau a Gwella Gwasanaethau		
Rhaglenni	Prosiectau Unigol	RAYG a Diweddariad
Moderneiddio Ysgolion	Bro Rhosyr a Bro Aberffraw	Mae'r amserlen ar gyfer adeiladu ysgol Santes Dwynwen yn Niwbwrch wedi llithro i Mawrth 2019 Gwaith adeiladu dosbarth newydd yn Ysgol Parc y Bont wedi'i gwblhau yn Rhagfyr 2017
	Llangefni	Yn dilyn 'pause & review' ar ardal Llangefni a chadarnhad cyllid Banb B, mae ymgynghoriad statudol ymlaen ar hyn o bryd gydag Ysgol Henblas, Ysgol Bodffordd ac Ysgol Corn Hir.
	Seiriol De Ddwyrain	Y broses ymgynghori ffurfiol yn cael ei gynnal yn rŵan
Gofal Cymdeithasol Oedolion Hŷn – Prosiect Opsiynau Gwella Llety	Gofal Ychwanegol Llangefni	Mae cynnydd da yn cael ei wneud efo'r gwaith adeiladu ac mae'r adeiladwyr yn hyderus eu bod yn cadw at yr amserlen a bydd y gwaith yn cael ei gwblhau erbyn Mehefin 2018
	Gofal Ychwanegol Amlwch	Mae darn o waith yn cael ei wneud gan yr Adran Dai i edrych ar anghenion tai yn fwy eang o fewn yr ardal sydd yn cynnwys ystyried TGY.
	Gofal Ychwanegol De'r Ynys	Mae penderfyniad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwaith yn Ch4.
	Tai a chefnogaeth mewnol	Bwriad newydd y prosiect ydi i gadw'r gwasanaeth yn fewnol i'r Cyngor ond i ailfodelu er mwyn sicrhau arbedion ariannol. Esiamplau o sut y byddwn yn ail-fodelu yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • ail-strwythuro'r cohort staffio, • edrych ar lefelau gofal dros 24 awr • cadarnhau bod yr oriau o gefnogaeth yn cefnogi annibynnuaeth • mwy o ddefnydd o offer telecare.
	Tai a Chefnogaeth Allanol	Cyflwynwyd PID a Cynllun Prosiect i'r Bwrdd Trawsnewid Oedolion yn Ch3
	Tendro Gwasanaeth Gofal Cartref	Wedi edrych ar fframwaith Gogledd Cymru ar gyfer Gofal Cartref. Mae'r tendr yma wedi mynd yn fyw ers mis Chwefror 2018.
	In house day Services	Cynnig prosiect yn mynd i UDA Ch3

Trawsnewid llyfrgelloedd, gwasanaeth ieuenctid, amgueddfeydd, diwylliant a Market Hall	Trawsnewid Amgueddfeydd a Diwylliant	Amserlen newydd i'w gytuno gan y bwrdd yn Ch4.
	Ailfodlu'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd	Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ar y 18/12/2017 fel a ganlyn : <ul style="list-style-type: none"> • Mabwysiadu Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 • Bod y newidiadau arfaethedig yn Strategaeth Ddrafft y Gwasanaeth Llyfrgell 2017-2022 yn cael eu gweithredu • Gweithredu Opsiwn C o fewn costau drafft y Gwasanaeth Llyfrgell , cadw 22 awr, sef ⅔ y staffio o'r llyfrgelloedd caeedig o fewn y strwythur staffio newydd i helpu i liniaru a chynnal perfformiad yn erbyn safonau staffio'r WPLS.
	Adolygiad Gwasanaeth Ieuenctid	Strwythur newydd mewn lle ac yn weithredol yn Ch4
	Market Hall	Gwaith adeiladu ychydig ar ôl yr amserlen
Hamdden		Strategaeth Ddrafft ar cael ei ddrafftio.
Ynys Ynni		Cyfnod ymgynghori cyhoeddus 6 wythnos ar y Canllawiau Cynllunio Atodol newydd ar gyfer Wylfa Newydd (http://www.anglesey.gov.uk/council-and-democracy/consultations/wylfa-newydd-spg-2018-consultation/133459.article).
Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr		
Strategaeth Ataliol	Ymyrraeth gynnar	
	Gweithredu Strategaeth Taclo Tlodi	
Cynyddu lefelau ailgyrchu		Gweler y Dangosyddion Perfformiad 31 + 32 ar y Cerdyn Sgorio i weld cyrhaeddiad
Gwaith lliniaru llifogydd		Mae'r digwyddiad llifogydd mawr ar 22/11/2017 wedi amlygu'r angen i ddyfalbarhau gyda chynlluniau o'r fath, gyda phroblemau ym Miwmares, Porthaethwy, Llanfairpwll, Llangefni, Dwyran nifer o lefydd eraill. Mae adroddiadau FLWMA yn cael eu paratoi ar gyfer yr holl ardaloedd lle mae eiddo wedi cael eu heffeithio.

		<p>Gobeithir y bydd Llywodraeth Cymru yn darparu gyllid i ddatrys rhai o'r materion hyn.</p> <p>Cynhaliwyd digwyddiad Ymgynghori ar Lifogydd ym Miwmares y diwrnod cyn y llifogydd a dim ond 20 o bobl fynychodd. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf o blaid gosod peipiau o Castle Meadow i'r môr yn hytrach nad adeiladu argae mawr yn y cae. Mae Adroddiad Gwerthusiad Prosiect diwygiedig wedi cael ei ddarparu a'i anfon at LIC yn y gobaith y bydd modd cychwyn ar y gwaith yn fuan.B12</p> <p>Fe wnaeth y bwnd amddiffyn rhag llifogydd a gafodd ei adeiladu yn Castle am £5 weithio'n dda gan ddal yn ôl 8,000 o fetrau ciwbig o ddŵr llifogydd a fyddai fel arall wedi llifo i Stryd Fawr Biwmares.</p> <p>Rhoddyd pwysau ar Gyfoeth Naturiol Cymru i symud ymlaen gyda chynllun amddiffyn rhag llifogydd ar gyfer Afon Cefni yn Llangefni ac mae'r gwasanaeth wedi cynnig cymryd drosodd y cyfrifoldeb am Afon Cefni yn Llangefni gan CNC er mwyn cyflymu pethau.</p>
--	--	--

Bwrdd Rhaglen Trawsnewid Llywodraethant a Phrosesau Busnes		
Rhaglen / Prosiect	Prosiectau Cysylltiedig	RAYG a Diweddariad byr
Cyswllt Adnoddau - Northgate (AD)		<p>Cyflwynwyd y dangosfwrdd AmdanaFi i'r 6 chartref gofal</p> <p>Tafleenni amser a chostau ar y We wedi eu cyflunio ar ffurf PRAWF – disgwyl cynllun peilot</p> <p>Oddeutu 500 o staff am dderbyn slipiau cyflog yn electronig ym Ch4</p> <p>Profion ar y broses Recriwtio ar y We ar y gweill</p>
Rhagoriaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid	Rhaglen Ehangu Cyswllt Môn / Cyswllt Wyneb Yn Wyneb	Mae dau gynllun peilot wedi'i gytuno
	Canolfan Cyswllt Cwsmeriaid	Trafodaethau ar y gweill i uno canolfannau galw presennol
	Cyswllt Dros Y Ffôn + Newid Sianel	Canolfannau Cyswllt sy'n cael eu profi ar hyn o bryd gan y gwasanaethau. Refeniw nesaf i fynd yn FYW

Atodiad B

	CRM	Gweithredwyd y Modiwl Gwastraff ac Ailgyrchu yn Ch3.
	Gwella Prosesau Busnes	Y grwp wedi cadarnhau eu bod yn canolbwyntio ar gefnogi'r gwaith o edrych ar VOIDS. Rheolwraig VOIDS wedi sgopio'r proses presennol allan i'w craffu gan y grwp yn eu cyfarfod nesa'
	Cydymffurfiaeth a Boddhad	
Effeithlonrwydd Ynni		Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r Rhaglen 'Refit' i ddatblygu prosiectau posibl. Bydd bid am arian cyfalaf o'r prosiect Buddsoddi i Arbed yn cael ei gyflwyno yn Ionawr.
Strategaeth TGCh		Strategaeth TG Digidol – 'Ynys Ddigidol' wedi cael ei chymeradwyo ac yn berthnasol i 2016-2020. Mae'r strategaeth yn cael eu adolygu yn dilyn Cynllun Y Cyngor.
Cynllun Gwella Sgrwtini		Gwnaed cynnydd da yn erbyn y 22 cam gweithredu unigol ar gyfer gwella gyda 13 yn wyrdd ac wedi eu gweithredu'n llawn. Mae'r 9 sy'n weddill ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau ar amser ac o'r herwydd yn Felyn
Strategaeth Cyfathrebu		Gyda chynllun newydd y Cyngor ar gyfer 2017-22 bellach wedi ei sefydlu, bydd hyn o gymorth i siapio ein blaenoriaeth o ran cyfathrebu dros y blynyddoedd nesaf .

Canlyniadau Refeniw Rhagdybiedig ar gyfer y Flwyddyn Ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2018 – Chwarter 3

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Cyllideb Flynyddol 2017/18	Ch3 2017/18 Cyllideb Blwyddyn hyd yma	Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig	Ch3 2017/18 Amrywiad	Ch3 Gwariant Rhagdybiedig hyd at 31 Mawrth 2018	Ch3 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018 tan/(gor)wariant	Ch2 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Ch1 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Gor/(Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Dysgu Gydol Oes									
Cyllideb sydd wedi ei datganoli i'r Ysgolion	44,021	33,848	33,848	-0	44,021	0	0	0	0.00%
Addysg Ganolog	2,811	1,618	2,185	567	3,689	878	618	618	31.23%
Diwylliant	1,355	1,117	1,076	-41	1,248	-107	-70	20	-7.90%
Gwasanaethau Oedolion	22,456	17,390	17,941	551	22,515	59	191	299	0.26%
Gwasanaethau Plant	8,035	6,596	8,015	1,419	9,779	1,744	1,899	2,106	21.70%
Tai	1,036	1,462	1,441	-21	1,036	0	0	0	0.00%
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo									
Priffyrdd	6,567	6,499	6,846	347	6,653	86	100	3	1.31%
Eiddo	1,143	1,019	1,051	32	1,136	-7	-11	-33	-0.61%
Gwastraff	6,294	5,756	5,679	-78	6,274	-20	-25	30	-0.32%
Rheoleiddio a Datblygu Economaidd									
Datblygu Economaidd	1,942	1,679	1,561	-118	1,972	30	110	80	1.55%
Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd	2,202	1,657	1,195	-462	2,142	-60	-97	-14	-2.72%
Trawsnewid									
Adnoddau Dynol	1,204	903	888	-15	1,174	-30	0	0	-2.49%
TGCh	1,746	1,312	1,459	147	1,846	100	100	100	5.73%
Trawsnewid Corfforaethol	935	641	547	-95	766	-169	-30	0	-18.07%
Adnoddau	2,797	2,387	2,398	11	2,841	44	40	32	1.57%

Gwasanaeth / Swyddogaeth	Cyllideb Flynnyddol 2017/18	Ch3 2017/18 Cyllideb Blwyddyn hyd yma	Ch3 Gwariant Gwirioneddol ac Ymrwymedig	Ch3 2017/18 Amrywiad	Ch3 Gwariant Rhagdybiedig hyd at 31 Mawrth 2018	Ch3 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018 tan/(gor)wariant	Ch2 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Ch1 Canlyniadau Rhagdybiedig 31 Mawrth 2018	Gor/(Tan)wariant fel % o'r Gyllideb Gyfan 2017/18
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	
Busnes y Cyngor	1,615	1,168	1,359	190	1,872	257	207	50	15.91%
Costau Corfforaethol a Democrataidd	1,922	1,811	1,606	-205	1,658	(264)	(248)	(172)	(13.74%)
Rheolaeth Gorfforaethol	761	556	494	(61)	681	(80)	(80)	(70)	(10.52%)
Cyfanswm Cyllidebau'r Gwasanaethau	108,843	87,421	89,589	2,168	111,304	2,461	2,706	3,049	2.26%
Ardollau	3,335	3,335	3,332	(3)	3,335	0	0	0	0.00%
Cymorth Dewisol Trethi	60	0	0	0	60	0	0	0	0.00%
Cyllido Cyfalaf	8,158	3,867	3,746	(120)	7,950	(208)	(194)	(235)	(2.55%)
Cronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol ac Eraill	1,045	1,045	794	(251)	794	(251)	(213)	0	(24.01%)
Arbedion Corfforaethol	(227)	(227)	0	227	0	227	227	150	(100.00%)
Cyfraniad Gwasanaethau Cefnogaeth CRT	(678)	0	0	0	(678)	0	0	0	0.00%
Budd-daliadau a Roddwyd	5,622	698	684	(14)	5,351	(271)	(152)	(149)	(4.82%)
Cyfanswm Cyllid Corfforaethol	17,314	8,716	8,556	(160)	16,812	(503)	(331)	(234)	(2.90%)
Cyfanswm 2017/18	126,157	96,137	98,145	2,008	128,115	1,958	2,374	2,815	1.55%
<u>Cyllido</u>									
Trethi Annomestig	(23,002)	(15,920)	(15,925)	(5)	(23,002)	0	0	0	0.00%
Y Dreth Gyngor	(32,941)	0	0	0	(33,028)	(87)	(189)	(348)	0.26%
Premiwm y Dreth Gyngor	(564)	0	0	0	(811)	(247)	(261)	(347)	43.71%
Grant Cymorth Refeniw	(69,650)	(48,205)	(48,219)	(15)	(69,650)	0	0	0	0.00%
Cyfanswm Cyllid 2017/18	(126,157)	(64,124)	(64,144)	(19)	(126,491)	(334)	(450)	(695)	0.26%
Cyfanswm yr Alldro gan gynnwys effaith cyllido	0	32,012	34,001	1,989	1,624	1,624	1,924	2,119	1.29%

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH
DYDDIAD:	26 MAWRTH, 2018
PWNC:	Y POLISI TALIADAU TAI DEWISOL AR GYFER 2018/2019 A'R BLYNYDDIOEDD DILYNOL
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y CYNGHORYDD JOHN GRIFFITH (AELOD PORTFFOLIO - CYLLID)
PENNAETH GWASANAETH:	MARC JONES (PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A'R SWYDDOG ADRAN 151)
AWDUR YR ADRODDIAD:	RUSSELL WILLIAMS, RHEOLWR BUDD-DAL
FFÔN:	01248 752212
E-BOST:	RussellWilliams@ynysmon.gov.uk
	AMHERTHNASOL

A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

ARGYMHELLION

Cymeradwyo'r Polisi Lleol diwygiedig ar gyfer y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) am 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol (gweler Atodiad A). I nodi bydd y Cynllun a gymeradwyir yn berthnasol am y blynyddoedd dilynol a bydd yn dod yn ôl i'r Pwyllgor Gwaith ond pan fydd angen diwygiadau yn y dyfodol.

Sicrhau bod y cyfanswm a gaiff ei wario ar TTD yn y blynyddoedd ariannol yn parhau i gyfateb yn fras i'r swm a ddyrannwyd ar gyfer y cynllun gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP).

RHESYMAU A CHEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i'r Pwyllgor Gwaith am weithrediad y cynllun TTD yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 a'i hysbysu o unrhyw newidiadau ar gyfer y dyfodol.

TALIADAU TAI DEWISOL

Mae TTD yn rhoi 'cymorth ariannol pellach' i hawlwy'r gwrdd â'u costau tai, ar ben unrhyw fudd-daliadau lles eraill y maent yn eu derbyn, os yw'r Awdurdod Lleol yn ystyried bod cymorth ychwanegol o'r fath yn angenrheidiol.

Rhaid gwneud taliadau TTD o fewn y cyfyngiadau ariannol cyffredinol a bennir gan yr AGP. Bydd yr AGP yn rhoi swm i'r Awdurdod Lleol (ALI) bob blwyddyn (*Cyfraniad y Llywodraeth*) tuag at weinyddu'r cynllun. Gall ALI ychwanegu 150% at Gyfraniad y Llywodraeth (*cyfanswm a ganiateir*) os ydynt yn dymuno. Byddai unrhyw daliadau sy'n uwch na'r cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithlon.

NEWIDIADAU A ARGYMHELLIR I'R POLISI TTD AR GYFER 2018/19 (a'r blynyddoedd dilynol)

Yn dilyn mesurau diwygio lles Ebrill 2013, mae'r galw am TTD wedi cynyddu'n sylweddol. Er mwyn cymryd i ystyriaeth y cynnydd yn y galw ac effeithiau canllawiau diwygiedig yr AGP ar gyfer gwneud taliadau, diwygiwyd a diweddarwyd polisi TTD y Cyngor bob blwyddyn.

Yn ystod y flwyddyn hon, gwelwyd cynnydd yn nifer yr achosion a effeithiwyd gan y cap ar fudd-dal ond gostyngiad yn nifer yr achosion a effeithiwyd gan y Cymhorthdal Ystafell Sbâr (y Dreth Ystafell Wely). Fodd bynnag, mae nifer y ceisiadau a wnaed am Daliadau Tai Dewisol oherwydd effaith y Cymhorthdal Ystafell Sbâr yn dal i fod yn sylweddol. Yn 2017/18, gwelwyd cynnydd hefyd yn nifer y bobl a oedd wedi gwneud mwy nag un cais, sy'n arwydd o'r anawsterau y mae'r hawlwy'r yn parhau i'w hwynebu. Gyda'r nod o gynorthwyo'r rheini sydd yn y categorïau hyn i symud i lety mwy addas, argymhellir y newidiadau polisi canlynol :-

- Cyfeiriad penodol at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol (CC) yn llawn o ddiwedd Mehefin 2018, gan roi manylion ynghylch pryd y gellir ystyried ceisiadau am TTD o dan CC (gweler paragraff 1.7 y Polisi);
- Caniatáu talu TTD tuag at glirio ôl-ddyledion rhent mewn amgylchiadau penodol. Bydd hyn yn cynorthwyo tenantiaid i symud i lety rhatach / mwy addas mewn achosion lle mae dyledion rhent yn eu rhwystro rhag symud (gweler paragraffau 2.1 a 2.9 y Polisi);
- Gweithio'n fwy strategol gyda'r Tîm Opsiynau Tai ac ystyried gwneud taliadau hyd nes bod y tîm wedi cwblhau ei ymchwiliadau a gwneud argymhellion (gweler paragraffau 2.2, 6.15 a 6.16 o'r Polisi);
- Cyfeiriad ym mharagraff 2.8 at gyflwyno Polisi Rhyddhad Dewisol tuag at y Dreth Gyngor er mwyn lleihau'r atebolrwydd am y dreth gyngor; ac
- Amgylchiadau lle gwneir taliadau'n uniongyrchol i landlordiaid oherwydd dyledion rhent (gweler paragraff 6.23 o'r Polisi).

DADANSODDIAD O FLWYDDYN 2017/2018 HYD YMA

Y grant gan yr AGP i'r Cyngor ar gyfer TTD yn 2017/18 oedd £162,656. Caniateir gwario mwy na'r swm hwn ond byddai'n rhaid i'r Cyngor ei gyllido.

Mae cyfuniad o alw amrywiol a chanllawiau diwygiedig yr AGP yn golygu ei bod yn gynyddol anodd i daro cydbwysedd priodol rhwng gwario'r cyfan o'r arian sydd ar gael gan yr AGP ar gyfer TTD a sicrhau nad oes unrhyw orwariant sylweddol nad oes gan y Cyngor, ar hyn o bryd, unrhyw ddarpariaeth ar ei gyfer yn y gyllideb.

Y prif ffactorau i'w nodi o ran gweinyddu'r cynllun TTD am y flwyddyn ariannol hon yw: -

- Mae effeithiau'r Cymhorthdal Ystafell Sbâr (CYS) (treth ystafell wely) wedi disgyn. Roedd 38% o'r achosion yn ymwneud â CYS i gymharu â 58% am y flwyddyn flaenorol;
- Mae 38% o'r ceisiadau a ddyfarnwyd oherwydd cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol yn y sector preifat o ganlyniad i fesurau diwygio lles, ac maent yn cynrychioli 47% o'r taliadau a wnaed o ran eu gwerth, gan adlewyrchu'r bwlch sy'n dod i'r amlwg rhwng rhenti a delir mewn gwirionedd a'r Budd-dal Tai a delir yn sgil rhewi'r cyfraddau lwfans tai lleol ar gyfer y sector preifat;
- Mae galw cyson i gwrdd â chostau 'unwaith ac am byth, megis blaendal rhent, costau symud a rhent ymlaen llaw. Ar gyfer 2017/18 roedd y ceisiadau hyn yn 14.9% o'r holl geisiadau TTD. Mae hyn yn cymharu â 12.7% yn 2016/17 a 15.7% yn 2015/16.
- Roedd 48% o'r ceisiadau gan hawlwr oedd yn chwilio am waith. Mae hyn yn cymharu â 35% yn 2016/17;
- Roedd cynnydd yn y nifer o hawliadau a ddyfarnwyd oherwydd y cap budd-daliadau.

Ar 28 Chwefror, 2018, 'roedd y gwariant cyffredinol ar TTD (arian a wariwyd ac a ymrwymwyd) yn dod i gyfanswm o £133,586 (82% o'r cyllid sydd ar gael). Mae hyn yn gadael swm o £29,070 i'w wario dros weddill y flwyddyn ariannol hon. Rhagwelir y bydd y gwariant ychydig yn is na'r grant a gafwyd gan yr AGP ar gyfer y flwyddyn.

Cafwyd 556 o geisiadau TTD hyd at 28 Chwefror 2018, o'r rhain: -

- Cymeradwywyd 45% i'w talu (62% yn 2016/17);
- Gwrthodwyd 54% (38% yn 2016/17).

Mae'r tablau isod yn dangos sut mae Diwygiadau Lles wedi effeithio ar wariant TTD ac i ba ddiben y gofynnwyd am TTD (cesglir y data hwn ar gyfer, ac ar gais, yr AGP): -

Tabl 1 - Effaith Diwygio Lles

Rheswm dros dalu	Nifer y dyfarniadau	Gwariant
Gosod Cap ar Fudd-daliadau o dan y drefn Diwygio Lles	33	£15,971
Cyflwyno Meini Prawf Maint Cymdeithasol (Treth Ystafell Wely) oherwydd Diwygio Lles yn y Sector Tai Cymdeithasol	213	£36,330
Cyfyngiadau Lwfans Tai Lleol yn y Sector Preifat oherwydd Diwygio Lles	214	£62,509
Taliadau a wnaed nad oeddent yn gysylltiedig â Diwygio Lles	96	£18,776
CYFANSWM	556	£133,586

Tabl 2 - Pwrpas TTD

Pwrpas TTD	Nifer y dyfarniadau
Helpu i sicrhau ac i symud i lety arall h.y. blaendal rhent	83
Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn sicrhau llety arall ac yn symud i mewn	41
Helpu gyda chostau rhentu tymor byr tra bod yr hawlydd yn chwilio am waith	270
Helpu gyda chostau rhentu parhaus ar gyfer gofalwr maeth	0
Helpu gyda chostau rhentu parhaus ar gyfer person anabl mewn llety wedi'i addasu	8
Helpu gyda chostau rhentu parhaus (mae hyn yn cynnwys unrhyw bwrpas perthnasol arall)	154
CYFANSWM	556

Er gwaethaf y ffaith bod gwneud taliad TTD pellach yn amodol ar i'r ymgeiswyr fod yn gwneud pob ymdrech i wella eu sefyllfa ariannol drwy chwilio am lety rhatach, lleihau costau byw neu ddod o hyd i waith, 'roedd 33% o'r holl geisiadau yn y flwyddyn gyfredol yn geisiadau gan ymgeiswyr a oedd wedi cael taliad o'r blaen. Mae hyn yn cymharu â 25% ar gyfer 2016/17.

Yn gyffredinol, 'roedd 41% o'r ceisiadau pellach yn llwyddiannus mewn cymhariaeth â 46% yn 2016/17. O'r rheini a ymgeisiodd :-

- 'Roedd 23% yn gwneud cais am ail daliad TTD;
- 'Roedd 8% yn gwneud cais am drydydd taliad TTD;
- 'Roedd 8% yn gwneud cais am bedwerydd taliad TTD;
- 'Roedd 1% yn gwneud cais am 5ed, 6ed neu 7fed taliad TTD.

Dim ond 20 o'r ymgeiswyr y gwrthodwyd taliad TTD iddynt a ofynnodd am adolygiad o'r penderfyniad gan ail swyddog uwch. Yn ystod y flwyddyn gyfredol, ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau am apêl ffurfiol i Banel Apêl y Cyngor.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a / neu ddewis yr opsiwn hwn?		
<p>Bwriad y Pwyllgor Gwaith, ers nifer o flynyddoedd, yw gwario hyd at y swm grant a roddwyd gan yr AGP, neu'n agos i'r swm hwnnw. Ar gyfer 2016/17, gwariwyd y cyfan o'r gronfa TTD (gyda £20k pellach yn cael ei dalu gan drethdalwyr lleol), a oedd yn arwydd bod y polisi cyfredol wedi cwrdd â'r amcan hwn. Gan ei fod yn ymddangos y bydd tanwariant yn y gyllideb eleni, mae'n amser da i adolygu'r polisi fel y gellir defnyddio'r gyllideb lawn i gynorthwyo trigolion yr Ynys. Byddai peidio adolygu a diwygio'r polisi yn arwain at gwestiynau'n cael eu gofyn am sut mae'r Cyngor yn defnyddio ei ddyraniad gan yr AGP. Ni ddisgwylir y bydd y newidiadau polisi yn golygu y bydd y gwariant yn uwch na'r grant gan yr AGP.</p>		
C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
<p>Mae'r mesurau diwygio lles a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2013 wedi arwain at gynnydd sylweddol yn y galw am TTD. Oherwydd yr ansicrwydd ynghylch maint ac effaith y newidiadau, diweddarwyd a diwigwyd y polisi TTD wedi ei ddiweddarau a'i ddiwygio gan y Pwyllgor Gwaith yn seiliedig ar y profiad o weithredu'r polisi ym mhob un o'r bedair mlynedd ariannol diwethaf. Mae newidiadau mewn deddfwriaeth a phatrwm y ceisiadau a'r taliadau wedi golygu y bu angen gwneud newidiadau pellach i'r polisi.</p>		
CH- A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
<p>Mae'n gyson â Chynllun y Cyngor am 2017 – 2022 ac mae'n cyfrannu at Amcanion 1 a 2 y Cynllun.</p>		
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
<p>Nid oes cyllideb benodol ar gyfer TTD dros ben lefel y grant gan yr AGP. Fel yn y blynyddoedd blaenorol, y bwriad yw sicrhau bod gwariant cyffredinol ar y cynllun yn cyfateb i'r swm grant a neilltuwyd gan yr AGP (£162,656 ar gyfer 2017/18), neu'n agos ato. Dyfarniad yr AGP i Ynys Môn ar gyfer 2018/19 yw £153,308.</p>		
DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		
Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Dim sylw
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	Awdur yr Adroddiad
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	Dim sylw
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	
E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrth-dlodi	
3	Troseddau ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	

5	Cydraddoldebau	<p>Cynhaliodd y Gwasanaeth Asesiad Effaith Cychwynnol ar gyfer ei Gynllun TTD arfaethedig. Mae'r Asesiad hwn yn nodi'r grwpiau sy'n debygol o gael cymorth o dan y Polisi TTD, a hynny'n seiliedig ar Asesiadau Effaith yr AGP ei hun ynghylch y grwpiau yr effeithir arnynt gan y diwygiadau lles a wnaed gan Lywodraeth y DU.</p> <p>Mae'r ymgynghoriad a'r asesiad effaith cychwynnol yn cynorthwyo'r Cyngor i gwrdd â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus fel y nodir hi yn y Ddeddf Cydraddoldeb ac maent ar gael gan yr Adain Refeniw a Budd-daliadau, Swyddogaeth Adnoddau.</p>
6	Cytundebau Canlyniadau	
7	Arall	
F - Atodiadau:		
Atodiad A - Polisi Taliadau Tai Dewisol 2018/19 a'r blynyddoedd dilynol.		
FF- Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad os gwelwch yn dda am unrhyw wybodaeth bellach):		
<ul style="list-style-type: none"> • Llawlyfr Canllawiau Taliadau Tai Dewisol gan yr AGP (gan gynnwys Canllawiau Arfer Da ar gyfer Awdurdodau Lleol) Rhagfyr 2016; • Asesiad Effaith Cychwynnol, Adroddiad Canlyniad a Chynllun Gweithredu Swyddogaeth Adnoddau (Refeniw a Budd-daliadau) - Hydref 2012. 		



POLISI TALIADAU TAI DEWISOL 2018/19 (a blynyddoedd dilynol)

Dyddiad	Fersiwn	Enw
Ionawr 2014	1.0	Kevin Spice
Awst 2015	1.1	Kevin Spice
Ionawr 2016	1.2	Kevin Spice
Chwefror 2017	1.3	Russell Williams
Chwefror 2018	1.4	Russell Williams

1. CEFNDIR

- 1.1 Bwriad y Cynllun Taliadau Tai Dewisol (TTD) yw rhoi 'cymorth ariannol pellach' i gwsmeriaid sy'n derbyn Budd-daliadau Tai neu'r Elfen Tai o Credyd Cynhwysol tuag at eu costau tai, pan fydd yr Awdurdod Lleol (ALI) o'r farn bod cymorth o'r fath yn angenrheidiol.
- 1.2 Y Rheoliadau sy'n darparu ar gyfer talu TTD yw Rheoliadau Cymorth Ariannol Yn Ôl Disgresiwn 2000. Er bod y Rheoliadau'n rhoi disgresiwn eang i ALI ynglŷn â sut y maent yn gweinyddu'r cynllun, mae'n rhaid gwneud penderfyniadau yn unol ag egwyddorion da ar gyfer gwneud penderfyniadau gweinyddol. Wrth benderfynu a yw am ddyfarnu taliad, y mae'n rhaid i'r ALI weithredu yn deg, yn rhesymol ac yn gyson bob amser.
- 1.3 Mae'n ofynnol bod pob dyfarniad TTD yn cael ei wneud o fewn y terfynau ariannol cyffredinol a bennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (AGP). Bydd yr AGP yn dyfarnu swm blynyddol i'r ALI (*Cyfraniad y Llywodraeth*) tuag at weinyddu'r cynllun. Yn ychwanegol at Gyfraniad y Llywodraeth, gall yr ALI wario hyd at 150% ychwanegol (*y cyfanswm a ganiateir*) mewn TTD. Byddai unrhyw daliadau dros ben y cyfanswm a ganiateir yn anghyfreithiol.
- 1.4 Ni ddylai'r swm o arian sydd ar ôl yn y 'pot' TTD fod yn ffactor yn y broses o wneud penderfyniadau; rhaid gwneud pob penderfyniad ar ei rinweddau ei hun, heb roi sylw i'r ffaith a fydd dyfarniad yn cael ei ariannu gan yr elfen Cyfraniad Llywodraeth neu'r elfen cyfraniad ALI o'r Cyfanswm a Ganiateir. Rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau fod yn deg, yn dryloyw ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn.
- 1.5 Bydd dyfarniadau TTD bob tro'n daliadaeth niwtral. Bydd ceisiadau'n cael eu trîn mewn ffordd gyfartal petaent yn ymwneud â tenantiaid y sector breifat neu'r sector gymdeithasol. Y prif benderfynydd, bob tro, ar gyfer gwneud dyfarniad bydd amgylchiadau unigol yr ymgeisydd.
- 1.6 Mae'n rhaid dychwelyd unrhyw arian o'r TTD sydd heb gael ei wario i'r AGP ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.
- 1.7 Cyflwynir Credyd Cynhwysol yn Ynys Môn ym Mehefin 2018. Ar hyn o bryd, mae yna oedi o ran dyfarnu Credyd Cynhwysol ac, felly, er gwybodaeth, nodir na ellir gwneud Taliad Tai Dewisol hyd nes y bydd yr hawl i'r elfen costau tai o'r Credyd Cynhwysol (neu'r Budd-dal Tai) wedi ei sefydlu.

2. AT BA DDIBENION Y GELLIR DEFNYDDIO TTD?

- 2.1 Nid yw costau tai yn cael eu diffinio yn y rheoliadau, felly, mae hynny'n rhoi disgresiwn eang i ALI ddehongli'r term. Yn ychwanegol at ymrwymadau rhent, gellir dehongli costau tai i gynnwys y canlynol hefyd:-
 - Rhent ymlaen llaw;
 - Blaendaliadau;
 - Costau lwmp swm sy'n gysylltiedig ag anghenion tai, er enghraifft costau symud tŷ;
 - Taliadau tuag at ddyledion rhent mewn rhai amgylchiadau. Ni fydd hyn yn berthnasol mewn achosion pan oedd yr hawlydd yn derbyn digon o Fudd-Dal Tai/ Costau Tai Credyd Cynhwysol i dalu'r cyfan o'u rhent ar y pryd (gweler 2.9 am ragor o fanylion.)

Lle gwneir taliadau 'costau lwmp swm', ni fydd angen iddynt gael eu had-dalu gan y derbynnydd, cyn belled ag y'i defnyddir am y pwrpas a fwriedir.

2.2 Dyma rai o'r amgylchiadau penodol lle gall TTD fod yn berthnasol:-

- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol lle mae'r trefniant capio budd-daliadau wedi cael ei defnyddio;
- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol oherwydd tanddefnyddio yn y sector rhentu cymdeithasol;
- Gostyngiadau mewn Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol o ganlyniad i gyfyngiadau ar y Lwfans Tai Lleol;
- Talu diffyg yn y rhent er mwyn atal teulu rhag digartrefedd tra bydd Gwasanaeth Tai'r Awdurdod yn edrych ar wahanol bosibiliadau;
- Cyfyngiadau gan y Swyddog Rhent, er enghraifft Rhent Cyfeiriadol Lleol neu gyfradd rhannu ystafell;
- Didyniadau ar gyfer pobl nad ydynt yn ddibynnol;
- Hawlwyr sy'n maethu plant ac y mae'r Cymorthdal Ystafell Sbâr ("dreth ystafell wely") yn effeithio arnynt;
- Hawlwyr sydd â phroblemau iechyd penodol a allai arwain at wariant ychwanegol iddynt neu sydd angen lle byw ychwanegol;
- Gostyngiad yn yr hawl o ganlyniad i effaith taprau incwm;
- Darparu taliadau lwmp swm mewn perthynas â chostau 'unwaith ac am byth' fel blaendaliadau, rhent ymlaen llaw neu gostau symud. Pan yn ystyried dyfarniadau TTD am y costau yma, dylai'r swyddog asesu fodloni ei hun bod yr eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas i anghenion y tenant a bod yna reswm dilys am y symud;
- Lle nid yw'r rhent yn fforddiadwy bellach oherwydd newid perthnasol mewn amgylchiadau sydd tu draw i reolaeth yr ymgeisydd, e.e. colli swydd;
- Lle mae'r hawlydd wedi cymryd y denantiaeth o eiddo newydd ond heb symud i mewn eto ac mae'n parhau i dderbyn Budd-dal Tai. Fe ystyrir y rhesymau pam nad yw'r hawlydd wedi symud i mewn eto er mwyn sefydlu os yw hyn yn rhesymol. Bydd casgliad yn cael ei wneud a allent fod wedi symud ar ddechrau'r denantiaeth;
- Er mwyn rhwystro aelwyd rhag bod yn ddigartref tra bod y tîm opsiynau tai yn ymchwilio i opsiynau tai eraill.

2.3 Bwriedir TTD fel rhwyd ddiogelwch i bobl sy'n cael anawsterau i dalu eu costau tai. Ni ddylid edrych ar y cynllun fel ffordd i ganiatáu i ymgeiswyr gynnal ffordd o fyw ar lefel y maent wedi arfer â hi. I'r perwyl hwnnw, gall y swyddog asesu ddewis lleihau neu wrthod TTD mewn achosion lle mae'n amlwg nad yw'r ymgeisydd yn fodlon i wneud cyfaddawd rhesymol o ran eu gwariant a ffordd o fyw.

2.4 Pan yn asesu TTD, dylai'r ymgeiswyr gwblhau datganiad ariannol yn rhestru holl incwm a gwariant yr aelwyd. Fe ystyrir incwm o bob ffynhonell, petaent fel arfer yn cael eu diystyru neu beidio ar gyfer prawf modd budd-daliadau lles prif-lif. Os nodir fod ad-daliad yn ei le ar gyfer gordaliad Budd-dal Tai, yna rhoddir ystyriaeth i pu'n a all y raddfa gostyngiad gael ei leihau.

2.5 Fel arfer, mesur tymor byr yw dyfarniadau TTD gyda'r bwriad o roi digon o amser i'r ymgeisydd i :-

- Geisio cael llety arall fydd yn rhatach (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);

- Negodi rhent is gyda'u landlord (ni fydd yn berthnasol i denantiaid mewn tai cymdeithasol);
- Chwilio am waith;
- Addasu gwariant eu haelwyd.

Ni ddylid edrych ar TTD fel ychwanegiadau amhenodol tuag at ddiffygion rhent; bydd dyfarniadau'n cael eu gwneud fel arfer am gyfnod o 26 wythnos. Ni fydd ail ddyfarniadau neu rai dilynol yn cael eu gwneud ond lle y gall yr ymgeisydd ddangos eu bod wedi gwneud pob ymdrech i wella eu sefyllfa ariannol a bod unrhyw fethiant i wneud hynny oherwydd rhesymau sydd y tu hwnt i'w rheolaeth.

Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, bydd amgylchiadau'r ymgeisydd angen dyfarniad hirach neu amhenodol o TTD. Mewn amgylchiadau o'r fath, fe adolygir y dyfarniad yn gyfnodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw newid mewn amgylchiadau a all gael effaith ar y dyfarniad.

- 2.6** Gall un maes o anhawster wrth asesu cymhwysedd am TTD godi, efallai, yng nghyswllt ymgeiswyr gyda phroblemau cam-drin alcohol ac/neu sylweddau. Efallai y bydd yr unigolion hyn yn byw bywydau drslyd a all achosi iddynt wneud penderfyniadau gwael, yn cynnwys gwario ar eitemau a fyddai, i'r rhan fwyaf o bobl, i'w gweld yn rhai afresymol. Fodd bynnag, ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad TTD.

Y prif feini prawf wrth wneud penderfyniad mewn achosion o'r fath fydd penderfynu a yw'r ymgeisydd yn derbyn cymorth priodol i ddelio gyda'u problemau. Os ydynt yn cael cefnogaeth ar raglen ffurfiol a ddarperir gan ddarparwr gwasanaeth swyddogol, **efallai** y bydd yn berthnasol i ystyried gwneud dyfarniad o TTD. Dylai dyfarniadau mewn amgylchiadau o'r fath gael eu cefnogi gan dystiolaeth ddogfennol gan y sefydliad sy'n gweithio gyda'r ymgeisydd.

Yn ogystal, bydd cyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer yr eitemau yma hefyd yn ffactor berthnasol yn y broses gwneud penderfyniad.

- 2.7** Rhaid i swyddogion asesu TTD gymryd amgylchiadau unigol i ystyriaeth bob amser pan yn asesu pa mor rhesymol yw gwariant aelwyd. Er enghraifft, gall rhai cyflyrau meddygol neu anabledau fod angen lefelau uchel o wariant ar rai eitemau; ni ddylai hyn o anghenraid atal gwneud dyfarniad. Fodd bynnag, lle bo amgylchiadau o'r fath yn berthnasol, efallai y bydd y swyddog asesu angen i'r ymgeisydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r gwariant a honnir.

- 2.8** Yn dilyn diddymu Budd-daliadau y Dreth Gyngor yn 2013, **ni ellir talu TTD bellach tuag at Atebolrwydd y Dreth Gyngor**. Gellir gwneud gostyngiadau dewisol yn yr atebolrwydd o dan Adran 13A(1)(C) Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, ac mae'r Cyngor llawn wedi mabwysiadu polisi Rhyddhad Dewisol y Dreth Gyngor ar 28 Chwefror 2018 i ystyried ceisiadau am ostyngiadau dewisol yn yr atebolrwydd i dalu'r dreth gyngor.

- 2.9** Ni fydd taliadau tuag at ôl-ddyledion rhent ond yn cael ei ystyried lle: -

- Darperir dadansoddiad o'r ôl-ddyledion rhent i sefydlu pryd yr aeth y cyfrif rhent i ddyled a'r rheswm am y dyledion;
- Darperir datganiad yn dweud am ba gyfnod y mae'r cais am daliad tuag at yr ôl-ddyledion;
- Mae'r hawlydd yn byw yn yr eiddo lle mae'r ôl-ddyledion rhent;

- Mae'n rhaid i'r hawlydd allu darparu prawf o gynnig am lety llai, mwy fforddiadwy;
- Byddai talu TTD yn cynorthwyo gyda symud i lety mwy fforddiadwy a chynaliadwy lle roedd yr ôl-ddyledion rhent yn rhwystro hynny'n flaenorol;
- Mae landlord yn darparu manylion eiddo sy'n fwy addas a chynaliadwy ynghyd â datganiad yn cadarnhau bod yr hawlydd yn cael ei ystyried ar gyfer yr eiddo hwn;
- Bydd y Swyddog TTD yn penderfynu a yw'r denantiaeth newydd yn fforddiadwy ac ni fydd ond yn ystyried talu mewn achosion lle sefydlwyd fforddiadwyedd.

Fel arfer telir TTD tuag at Ddyledion Rhent yn uniongyrchol i'r landlord. Os oedd yr hawlydd eisoes yn derbyn TTD tuag at gwrdd â'r gwahaniaeth rhwng y rhent a godir a'r budd-dal a delir, adolygir y dyfarniad yn seiliedig ar y sefyllfa ariannol newydd er mwyn penderfynu a yw'r denantiaeth yn fforddiadwy ai peidio, sy'n sail i benderfynu ar ddyfarnu TTD. Fel arfer ni wneir unrhyw daliadau pellach am yr un rheswm wedi hynny.

3. MEINI PRAWF AR GYFER DYFARNU TTD

3.1 Cyn gwneud dyfarniad, mae'n rhaid i'r ALI fod yn fodlon bod yr hawlydd yn gymwys i dderbyn:-

- Budd-dal Tai; **neu**
- Chredyd Cynhwysol sy'n cynnwys elfen costau tai; **a**
- Bod ganddynt atebolrwydd am rent; **a**
- Bod angen cymorth ariannol pellach at gostau tai.

Yn sgîl cyflwyno Credyd Cynhwysol, mae'n rhaid i ALI ystyried ceisiadau am TTD oddi wrth gwsmeriaid nad ydynt yn derbyn budd-daliadau tai. Pan fo cwsmer sy'n derbyn Credyd Cynhwysol yn gwneud cais am TTD, dylai'r swyddog asesu sicrhau:-

- Fod y dyfarniad Credyd Cynhwysol yn cynnwys elfen o gostau tai; **a**
- Nad yw swm y TTD yn uwch na rhent wythnosol cymwys yr hawlydd; **a**
- Fe sefydlir gwerth y 'costau tai' a gynhwysir yn y dyfarniad Credyd Cynhwysol.

4. PETHAU NA ELLIR DEFNYDDIO TTD AR EU CYFER

4.1 Mae rhai elfennau o rent hawlwr na ellir eu cynnwys o fewn y costau tai ar gyfer TTD gan eu bod yn cael eu gwahardd yn benodol gan y rheoliadau. Mae'r elfennau sy'n cael eu gwahardd yn cynnwys:-

- Taliadau anghymwys am wasanaethau;
- Codiadau rhent oherwydd dyledion rhent sydd heb eu talu;
- Rhai sancsiynau penodol a gostyngiadau mewn budd-daliadau.

4.2 Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd TTD yn cael ei dalu ar gyfer diffygion sy'n deillio o:-

- Ddewis yr hawlydd i fyw mewn ffordd na all yn amlwg mo'i fforddio (efallai y bydd angen ymweld â'r cartref i asesu eu ffordd o fyw);
- Ad-dalu rhai gordaliadau budd-daliadau lles a dirwyon (gweler hefyd 6.13).

5. Y BROSES O WNEUD CAIS

- 5.1 Mae'r rheoliadau yn mynnu bod cais am TTD yn cael ei gyflwyno cyn y gall yr ALI ystyried dyfarnu taliad.
- 5.2 Bydd yr ALI yn weithgar yn hybu'r cynllun TTD gyda phartneriaid mewnol ac allanol yn ogystal â gyda rhai sy'n hawlio Budd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Bydd polisi TTD y Cyngor ar gael ar-lein ac mewn ffurf papur. Darperir copïau papur o'r polisi hefyd i gydranddeiliaid mewnol ac allanol. Pan fydd staff yn gweld sefyllfaoedd lle gallai TTD fod yn berthnasol, dylent bob tro wahodd y cwsmer neu eu cynrychiolydd i wneud cais.
- 5.3 Dylid gwneud ceisiadau mewn ysgrifen a gellir eu derbyn gan yr Adain Refeniw a Budd-daliadau neu unrhyw adran o'r ALI sy'n gweithredu ar ei rhan. Lle gwneir cais i adran arall heblaw'r Adain Refeniw a Budd-daliadau, bydd y cais yn cael ei anfon ymlaen i'r adain honno i gael penderfyniad.
- 5.4 Gyda'r cais am TTD dylid cynnwys datganiad o incwm a gwariant yr ymgeisydd er mwyn penderfynu a yw'n dioddef o galedi ariannol. Os gofynnir, efallai y bydd angen i'r hawlydd ddarparu tystiolaeth ddogfennol i gadarnhau'r gwariant a honnir. Mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhai sy'n gwneud cais am daliadau 'unwaith ac am byth' ddarparu datganiadau banc i gefnogi eu cais am TTD.
- 5.5 Pan fo'r cais am TTD yn ymwneud â chostau symud, bydd yr ymgeisydd yn darparu dau ddyfynbris ar gyfer cost y symud.
- 5.6 Bydd ceisiadau am TTD yn cael eu gwneud fel arfer gan y person sydd â hawl i Fudd-dal Tai neu Gredyd Cynhwysol. Fodd bynnag, gellir hefyd dderbyn hawliadau gan drydydd partïon, fel eiriolwyr neu rai wedi eu penodi i weithredu ar ran yr hawlydd os ydynt yn fregus.

6. Y BROSES O WNEUD PENDERFYNIAD

- 6.1 Dylai pob cais am TTD gael ei ystyried yn ôl ei rinweddau ei hun. Dylai penderfyniadau fod yn deg ac yn gyson drwy gydol y flwyddyn. Ni ddylai faint o arian sydd yn y 'pot' TTD fod yn ystyriaeth yn y broses o wneud penderfyniadau.
- 6.2 Pan yn clandro hawl TTD, bydd budd-daliadau lles a lwfansau sydd fel arfer yn cael eu di-ystyru yn ystod prawf modd **yn** cael eu trin fel incwm ar gyfer dibenion TTD. Yr unig eithriad fydd yr Elfen Symudedd o'r Lwfans Byw Anabledd (LBA) os yw'r hawlydd yn defnyddio'r lwfans i dalu am gerbyd dan y cynllun symudedd. Tra bydd LBA a Taliadau Annibyniaeth Personol yn cael eu dosbarthu fel incwm, dylai'r swyddog asesu hefyd sicrhau fod unrhyw wariant aelwyd ychwanegol sy'n ymwneud â salwch neu anabledd yr hawlydd yn cael ei ystyried pan yn gwneud penderfyniad ar y cais.
- 6.3 Lle gall yr ymgeisydd ddangos bod y budd-daliadau/lwfansau wedi cael eu defnyddio at y dibenion penodol y bwriadwyd hwy ar eu cyfer, er enghraifft, yr angen am wariant ychwanegol oherwydd anabledd neu gyflwr meddygol, gall y swyddog asesu ddewis eu hanwybyddu fel ffynhonnell incwm wrth asesu TTD.
- 6.4 Ar adegau, gall y swyddog asesu ofyn i Swyddog Ymweld Refeniw a Budd-daliadau alw yng nghartref yr ymgeisydd er mwyn cael darlun cliriach o amgylchiadau ac amodau byw'r ymgeisydd.

- 6.5** Pe bai'r swyddog asesu yn penderfynu bod y gwariant a nodir gan yr ymgeisydd ar gyfer rhai eitemau penodol yn **afresymol** ormodol, mae ganddynt ddisgresiwn i anwybyddu'r rhan honno, neu'r cyfan, o'r gwariant hwnnw wrth wneud yr asesiad ariannol. Wrth benderfynu hyn, rhaid rhoi esboniad o'r penderfyniad. Yn yr un modd, pan fydd y swyddog yn barnu bod yr ymgeisydd yn byw uwchlaw ei incwm mewn ffordd afresymol, gall ddewis gadael y gwariant hwnnw allan o'r cyfrifiad. Eto, rhaid rhoi esboniad.
- 6.6** Mewn rhai amgylchiadau, bydd ymgeisydd yn darparu proffiliau gwariant sydd yn amlwg yn afrealistig o isel neu nad ydynt yn cynnwys gwariant a fyddai fel arfer i'w weld mewn unrhyw aelwyd. Mewn achosion o'r fath, dylai'r swyddog asesu ystyried cynyddu'r proffil gwariant gan swm tybiannol priodol er mwyn sicrhau na fydd yr ymgeisydd dan ormod o anfantais yn ystod y broses asesu TTD.
- 6.7** Dylai'r swyddog asesu wneud yn sicr bod yr holl wybodaeth berthnasol ganddynt mewn perthynas â'r cais cyn dod i benderfyniad. I'r perwyl hwn, os na chynhelir ymweliad cartref, dylid gwneud pob ymdrech i gyfwrdd yr ymgeisydd, naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn, er mwyn cael darlun mwy cywir o'u hamgylchiadau.
- 6.8** Ni fwriedir i TTD fod yn ateb tymor hir ar gyfer diffygion rhent. O ganlyniad, ni fydd taliadau 26 wythnos o TTD fel arfer yn cael eu hadnewyddu oni bai bod amgylchiadau eithriadol.
- 6.9** Wrth asesu hawl i TTD, dylid ystyried fforddiadwyaeth y denantiaeth dan sylw. Mewn rhai amgylchiadau, bydd yn glir fod amgylchiadau ariannol yr ymgeisydd yn hollol anghynaliadwy; ni fyddai dyfarniad TTD yn cael unrhyw effaith ar allu'r hawlydd i aros yn eu cartref waeth bynnag unrhyw gyfaddawdu y byddant yn ei wneud. Mewn amgylchadau o'r fath, **gall** y cais gael ei wrthod ar y sail nad yw'n cynrychioli'r defnydd gorau o'r gyllideb gyfyngedig. Fel arall, gellir gwneud dyfarniad cychwynnol er mwyn caniatáu amser i'r ymgeisydd i wneud trefniadau llety arall. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau o'r fath, anhebygol fyddai dyfarniadau pellach.
- 6.10** Fel arfer, caiff didyniadau ar gyfer pobl sy'n byw gyda'r hawlydd ond nad ydynt yn ddibynnol arno eu trin fel incwm i'r aelwyd. Fodd bynnag, **gall** y swyddog asesu, mewn rhai amgylchiadau penodol, ddewis anwybyddu'r didyniad hwn fel incwm. Yn gyffredinol, pan fo'r didyniad yn ymwneud â rhywun sydd mewn gwaith, dylid ei drin fel incwm bob amser. Fodd bynnag, os bydd y didyniad yn ymwneud â rhywun sy'n derbyn budd-daliadau lles, **gall** y swyddog asesu ddewis ei anwybyddu fel incwm os yw'n teimlo nad oes unhyw ragolygon rhesymol y bydd yr unigolyn yn cyfrannu at gostau'r aelwyd **ac** y bydd methiant i'w anwybyddu yn peri caledi ariannol i'r sawl sy'n hawlio TTD.
- 6.11** Ni fwriadwyd TTD i fod yn ychwanegiad di-ben-draw i ddiffyg mewn rhent. O ganlyniad, bydd asesu cymhwyster am ail-ddyfarniad, neu ddyfarniadau dilynol, i'r un cyfeiriad yn gofyn am ystyried ffactorau ychwanegol i'r rhai a ystyriwyd ar gyfer y cais cychwynnol. Rhaid i'r swyddog asesu ystyried a yw'r ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei amgylchiadau ers dyfarnu'r TTD cychwynnol. Bydd ffactorau sydd i'w hystyried yn cynnwys:-
- Ymdrechion i leihau gwariant ar yr aelwyd - a yw gwariant ar yr aelwyd wedi gostwng ers i'r dyfarniad TTD gwreiddiol gael ei wneud? Os nad yw'r gwariant wedi gostwng, a oes yna reswm dilys?;

- Ymdrechion i ail-negodi'r rhent contract. A yw'r tenant wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'i landlord? (ni fydd yn berthnasol i denantiaid tai cymdeithasol);
- Ymdrechion i geisio cael llety llai o faint os ydynt yn denantiaid tai cymdeithasol hefo gormod o le. Er enghraifft:-
 - Ydynt wedi gofyn i'w landlord cymdeithasol am drosglwyddiad i eiddo llai?;
 - Ydynt ar restr trosglwyddo eu darparwr tai?;
 - Os nad oes llety arall ar gael yn y sector gymdeithasol, gallent ystyried symud i'r sector rhentu breifat?

Bydd asesu'r elfen hon o geisiadau ailadroddus yn fater goddrychol; rhaid ystyried pob achos ar ei rinweddau ei hun. Lle y mae'n cael ei dderbyn bod yr ymgeisydd wedi gwneud pob ymdrech resymol i wella ei sefyllfa, **neu** fod yr amgylchiadau oedd yn rhwystro iddynt wneud hynny yn rhai oedd y tu hwnt i'w rheolaeth, efallai y bydd yn briodol gwneud dyfarniad pellach. Fodd bynnag, lle ei bod yn glir nad yw'r ymgeisydd wedi gwneud unrhyw ymdrech i wella eu hamgylchiadau, ni fydd dyfarniad pellach fel arfer yn briodol.

- 6.12** Bydd rhai achosion lle bo amgylchiadau'r ymgeisydd o fath na fyddai'n rhesymol nac yn ymarferol i'r ymgeisydd am TTD symud cartref, dod o hyd i waith na gostwng eu gwariant ar yr aelwyd, er enghraifft, rhywun gydag anableddau sy'n byw mewn eiddo a addaswyd ar gyfer eu hanghenion. Mewn achosion o'r fath, efallai y bydd dyfarniad am gyfnod hwy neu amhenodol yn briodol. Dylai dyfarniadau o 12 mis gael eu gwneud a'u hadolygu'n flynyddol er mwyn penderfynu a fu newid mewn amgylchiadau fyddai'n atal ymestyn TTD am gyfnod pellach.
- 6.13** Ni fydd gwariant ar ddirwyon llys neu ordaliadau budd-daliadau lles yn cael eu hystyried yn y clandriad ariannol; ni ellir rhoi unrhyw argraff bod TTD yn cael ei ddefnyddio i'r perwyl hwnnw. Mae eithriad i'r rheol yn berthnasol i Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith. Lle mae ad-dalu gordaliadau blynyddoedd blaenorol o Gredyd Treth Plant a Chredyd Treth Gwaith yn cael eu hadennill o'r dyfarniad cyfredol, yna mae'r taliad net o Gredyd Treth yn cael ei drin fel incwm. Mae hyn yn unol â rheoliadau Budd-daliadau Tai. Ni ystyrir taliadau o ôl-ddyledion trwydded teledu fel dirwy at y diben hwn.
- 6.14** Bydd y cwestiwn a ddylid derbyn gwariant sy'n ymwneud â thalu dyledion yn y clandriad TTD ai peidio yn aml yn un cynhennus. Tra bydd ad-dalu dyledion yn amlwg yn gosod pwysau ariannol ychwanegol ar sawl aelwyd, ni ddylid edrych ar TTD fel ffordd o dalu dyledion o'r fath. Bydd swyddogion asesu TTD angen ystyried swm y ddyled sydd ar ôl yn ogystal â sut a phryd y daeth y ddyled i fodolaeth cyn iddynt wneud eu penderfyniad. Bydd rhai o'r ffactorau yng nghyswllt gwariant ar dalu dyled yn cynnwys:-
- A yw'r hawlydd wedi gofyn a gaiff ail-drafod dyledion nad ydynt yn flaenoriaeth? Er enghraifft cytundebau cardiau credyd;
 - A ydynt wedi ceisio cael cyngor proffesiynol ar sut i glirio eu dyledion neu leihau ei had-daliadau?
 - A oedd modd i'r hawlydd dalu'r arian dyledus cyn dechrau hawlio budd-daliadau?
 - A aethpwyd i'r dyledion hyn trwy fenthycu neu wario'n anghyfrifol tra roedd yr hawlydd yn derbyn budd-daliadau lles?
 - Lefel y ddyled sydd ar ôl i'w thalu a chyfran incwm yr aelwyd sydd wedi ei neilltuo ar gyfer talu'r ddyled honno.

- 6.15** Mewn achosion lle mae perygl i'r ymgeisydd fod yn ddigartref, dylai staff Refeniw a Budd-daliadau ymgynghori gyda'r Tîm Opsiynau Tai er mwyn penderfynu a oes ffordd arall o weithredu neu ffynhonnell ariannol arall a allai fod yn fwy perthnasol na TTD.
- 6.16** Lle bo'r ymgeisydd mewn perygl ar unwaith o gael ei droi allan o'i lety, dylai'r cais TTD gael ei 'dracio'n gyflym'. Ni fydd hyn yn cael ei ystyried ond pan fydd y cais yn dod gan gorff swyddogol fel CAB, Adran Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol ac ati. Lle mae tracio cyflym yn briodol, dylai'r mater gael ei ddatrys yn llawn ymhen tri diwrnod gwaith.
- 6.17** Os nad yw'r holl wybodaeth gefnogol ar gael pan fernir bod angen tracio cyflym, dylid dyfarnu TTD am gyfnod o fis hyd nes y ceir y dystiolaeth gefnogol sydd ei hangen. Rhaid dweud wrth yr ymgeisydd mai dyfarniad dros dro ydyw ac nad oes unrhyw warant y bydd TTD yn parhau unwaith y ceir yr holl wybodaeth sydd ei hangen.
- 6.18** Os gwelir, ar ôl derbyn yr holl wybodaeth, na fyddai'r TTD wedi cael ei ddyfarnu, ni ddylai unrhyw daliad tracio cyflym a wnaed eisoes gael ei adennill.
- 6.19** Lle gwneir cais TTD oherwydd diffyg rhwng Budd-dal Tai a rhent contract, dylid gwneud pob ymdrech i sefydlu a oes unrhyw bosibilrwydd bydd y landlord yn cytuno i ostwng y rhent contract neu beidio (ni ellir gwneud hyn ond gyda chaniatâd yr hawlydd). Bydd y cais TTD yn mynd yn ei flaen fel arfer; fodd bynnag, os llwyddwyd, yn dilyn negodi, i sicrhau gostyngiad yn y rhent, bydd unrhyw TTD a ddyfernir yn cael ei leihau neu ei ddileu fel bydd yn briodol.
- 6.20** Pan fo'r cais am TTD ar gyfer cymorth tuag at ddiffyg mewn rhent y sector breifat, dylid gofyn i ymgeisydd roi eu caniatâd i'r Cyngor gysylltu â'u landlord i weld os oes unrhyw sgôp i negodi gostyngiad yn y rhent. Os gwrthodir caniatâd, dylid dweud wrth yr ymgeisydd y gall peidio â rhoi caniatâd heb achos da olygu y gallai eu cais am TTD gael ei wrthod.
- 6.21** Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen trafod y cais TTD gydag adrannau neu asiantaethau eraill cyn gwneud penderfyniad terfynol ar y mater. Mewn achosion o'r fath, rhaid cael caniatâd yr hawlydd bob amser i'r wybodaeth gael ei rhannu.
- 6.22** Bydd hyd y dyfarniad yn cael ei benderfynu gan y person sy'n delio â'r hawliad. Fel arfer, bydd dyfarniadau am gyfnod o 26 wythnos; ond, mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd dyfarniad penagored yn berthnasol. Lle mae dyfarniad yn un amhenodol, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid o bwys yn yr amgylchiadau. Fe all newid yn amgylchiadau'r sawl sy'n derbyn y TTD yn ystod cyfnod y dyfarniad arwain at leihau neu derfynu'r dyfarniad.
- 6.23** Yn arferol bydd y taliad yn cael ei wneud i'r hawlydd; fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol talu i drydydd parti:-
- Talu rhent ymlaen llaw, blaendal neu daliadau tuag at ddyledion rhent i'r landlord;
 - Talu i'r landlord os ystyrir bod yr hawlydd yn fregus ac os yw eisoes yn talu Budd-daliadau Tai i'r landlord;
 - Talu i gwmni cludiant am symud dodrefn;
 - Trwy roi credyd yn y cyfrif rhent ar gyfer diffygion mewn Ad-daliadau Rhent;
 - Landlord lle y mae eisoes ddyledion rhent sy'n gyfartal â rhent 8 wythnos neu fwy.

6.24 Dan Credyd Cynhwysol, y dull diofyn o dalu bob tro fydd yn uniongyrchol i'r hawlydd. Bydd hyn hefyd yn berthnasol i'r elfen 'lwfans tai' o'r dyfarniad Credyd Cynhwysol. Fodd bynnag, fe ellir talu'r landlord petai'r hawlydd yn cwrdd â'r meini prawf pobl bregus sy'n berthnasol i'r Trefniadau Taliadau Arall. Mae'r ddarpariaeth yn berthnasol i denantiaid y sector breifat a'r sector gymdeithasol. Bydd rhaid i ymgeiswyr TTD sy'n derbyn Credyd Cynhwysol nodi i bwy dylid gwneud y taliadau elfen 'lwfans tai' o'r Credyd Cynhwysol.

6.25 Dyled ystyried ceisiadau TTD yng ngoleuni hanes presennol a blaenorol yr ymgeisydd. Bydd y ffactorau i'w hystyried yn cynnwys:-

- A ydynt wedi derbyn blaendaliadau yn ôl wedi eu tenantiaeth flaenorol?;
- A oedd yr ymgeisydd yn medru fforddio'r gofynion rhent wrth symud i mewn i'r eiddo am y tro cyntaf?;
- A ydynt yn symud yn aml i dai sydd â rhent afresymol o uchel?;
- A oes ganddynt hanes o rentu eiddo sy'n fwy o faint nag y mae ei angen arnynt?;
- A yw'r ymgeisydd neu'r partner yn disgwyl plentyn ac yn symud i eiddo mwy mewn disgwyliad bod angen ystafell wely ychwanegol?;
- A oes unrhyw amgylchiadau meddygol neu deuluol a fyddai'n cyfiawnhau taliadau TTD?;
- A yw'r ymgeisydd wedi dangos bod ymdrechion rhesymol wedi cael eu gwneud i ddarganfod eiddo arall rhatach?;
- Oes yna amgylchiadau eithriadol neu annisgwyl sy'n cyfiawnhau dyfarnu TTD?;
- P'un a fydd rhywun ar yr aelwyd yn cyrraedd 'oed critigol'. Er engraifft, plentyn yn cyrraedd oedran lle maent yn gymwys am ddefnydd unigol o ystafell wely ychwanegol; neu unigolyn oedran gweithio sydd mewn tenantiaeth gymdeithasol yn dod yn oedran pensiynadwy.

6.26 Mewn rhai amgylchiadau, gall dyfarniadau TTD fod yn rhai amodol ar i'r ymgeisydd gytuno i gamau a all helpu i wella eu problemau ariannol. Ni ellir gorfodi'r ymgeisydd i gymryd y camau sy'n cael eu hawgrymu. Fodd bynnag, dylid dweud wrthynt y gall methiant â chytuno gydag unrhyw un o'r camau sy'n cael eu hawgrymu arwain at wrthod y ceisiadau er bod yna achos ariannol dros wneud dyfarniad. Gall amgylchiadau o'r fath gynnwys:-

- Methu â derbyn atgyfeiriad am gymorth / cyngor i gydranddeiliad mewnol neu allanol yng nghyswllt gallu ariannol, cyllidebu, rheoli dyled ac ati;
- Methiant i roi awdurdod i'r Cyngor gysylltu â'u landlord i geisio negodi gostyngiad mewn rhent.

Bydd dyfarniadau TTD amodol yn oddrychol ac fe allant fod yn rhai cynhennus o ran natur; dylid cymryd gofal bob amser i sicrhau bod unrhyw gamau amodol a roddir ar yr ymgeisydd yn rhai teg a rhesymol ac nad ydynt yn gosod disgwyliadau afrealistig arnynt.

6.27 Gyda thaliadau lwmp swm, ni fydd angen sefydlu cymhwysedd i dderbyn Budd-daliadau Tai/ elfen costau tai o'r Credyd Cynhwysol yn y cyfeiriad ar gyfer y cais. Cyn belled â bod yr ymgeisydd yn derbyn budd-dal tai neu gredyd cynhwysol yn eu cyfeiriad blaenorol (hyd yn oed os oedd yr eiddo tu allan i ffin yr ALI), gellir gwneud TTD. Dylid cynnal gwiriadau i weld a yw'r ALI lle'r oedd yr ymgeisydd yn byw cynt eisoes wedi gwneud TTD ar gyfer symud tŷ.

6.28 Pan yn ystyried cais am flaendal, rhent ymlaen llaw neu gostau symud, dylid ystyried y meini prawf canlynol:-

- Oes rheswm teilwng i'r ymgeisydd symud cartref? Gall ceisiadau am gostau unwaith-ac-am-byth fod am symiau sylweddol o arian, yn enwedig os yw'r ymgeisydd yn gwneud cais am flaendal, rhent ymlaen llaw a chostau symud. Cyn i geisiadau gael eu hystyried, dylai'r swyddog asesu fodloni ei hun fod cyfiawnhad dros symud. Gall rhesymau dros symud gynnwys :-
 - Rhesymau meddygol, e.e. angen eiddo heb grisiau;
 - Gormod o bobl yn byw yn y ty;
 - Dianc rhag trais yn y cartref;
 - Cael eu troi allan o denantiaeth blaenorol.

Ni ddylid gwneud taliadau unwaith-ac-am-byth TTD tuag at gostau'n ymwneud â symud lle mae'r ymgeisydd, yn syml, ond yn dymuno symud i eiddo arall heb gyfiawnhad dilys.

- A fydd yr eiddo newydd yn fforddiadwy? Ni ddylid ystyried TTD ond lle bo'r eiddo newydd yn fforddiadwy ac yn addas ar gyfer anghenion yr hawlydd;
- Oes blandal rhent i fod i gael ei ddychwelyd o'r denantiaeth flaenorol?;
- Petai cais am gostau symud, oedd cyfeiriad blaenorol yr ymgeisydd wedi ei ddodrefnu neu heb ddodrefn? Os oedd wedi ei ddodrefnu, oes angen am wasanaeth symud llawn?;
- Oes gan yr ymgeisydd rhywun all eu helpu hefo'r costau neu'r symud?

Os nad yw'r dyfarniad TTD yn cwrdd yn llawn â chost yr hawliad, efallai bydd yn briodol i gyfeirio'r ymgeisydd i'r Gronfa Cymorth Dewisol am gymorth ychwanegol drwy Daliad Cymorth Mewn Argyfwng. Lle gwneir cyfeiriadau o'r fath, mae'n bwysig i adael i'r ymgeisydd wybod nad oes warant bydd y cais yn llwyddiannus.

6.29 Os yw'r cais am flaendal/rent ymlaen llaw/costau symud yn un ar gyfer eiddo y tu allan i Ynys Môn, y mae'n dal i fod yn bosibl gwneud taliad os oes gan yr hawlydd hawl i fudd-dal tai neu greddyd cynhwysol o fewn yr ardal ar hyn o bryd.

6.30 Mewn rhai amgylchiadau, gall fod yn briodol gwneud TTD ar gyfer dau gartref, e.e. dianc rhag trais yn y cartref.

6.31 Gellir ystyried ôl-dalu taliadau ond ni ellir dyfarnu TTD ar gyfer cyfnod cyn 2 Gorffennaf 2001. Rhaid i bob cais am ôl-dalu ddangos rheswm digonol parhaus.

7. TERFYNAU AMSER

7.1 Ceisir am TTD am fod yr ymgeisydd yn dioddef caledi ariannol o ganlyniad i anhawster cwrdd â'u costau tai. O ganlyniad, mae'n hollbwysig bod ceisiadau yn cael sylw mor gyflym ag y bo modd. Os nad oes amgylchiadau eithriadol yn atal hynny, dylai pob cais am TTD gael ei benderfynu o fewn mis i'w dderbyn.

7.2 Lle bydd y swyddog sy'n gweinyddu'r TTD yn barnu y byddai ymweliad â'r tŷ yn briodol, dylid gwneud hynny cyn gynted ag y bo'n ymarferol fel nad achosir unrhyw oedi diangen yn y broses o benderfynu.

7.3 Efallai na fydd angen ymweliad cartref os yw'r holl dystiolaeth gefnogol am incwm a gwariant wedi ei gynnwys gyda'r cais TTD **ac** nad oes unrhyw awgrym o wariant afresymol neu bod yr ymgeisydd yn byw y tu hwnt i'w fodd mewn dull afresymol.

8. MAINT Y TTD

8.1 Bydd maint a hyd y dyfarniad yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r unigolyn. Gall fod ar ffurf taliad "unwaith ac am byth" neu yn daliadau rheolaidd am gyfnod. Mewn rhai achosion, gallai fod yn briodol gwneud dyfarniad parhaus. Pan wneir dyfarniad o'r fath, dylid ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau na fu unrhyw newid mewn amgylchiadau a allai fod yn berthnasol i'r dyfarniad.

8.2 Gall lefel y dyfarniad glirio'r cyfan neu ran o ddiffyg mewn rhent neu gynorthwyo tuag at gostau derbyn tenantiaeth newydd. Fodd bynnag, ni chaiff dyfarniadau fod yn uwch na rhent cymwys yr hawlydd (ni fydd hyn yn berthnasol gyda thaliadau "unwaith-ac-am-byth", megis blaendaliadau, rhent ymlaen llaw neu gostau symud).

8.3 Lle gwneir taliadau "unwaith-ac-am-byth" ar gyfer rhent ymlaen llaw neu flaendaliadau rhent, dylai'r ymgeisydd gael gwybod bod yn rhaid defnyddio'r taliad ar gyfer y dibenion a nodir. Os na ddefnyddiwr y taliad ar gyfer y dibenion a nodir, gall hynny arwain at orfodi'r hawlydd i dalu'r swm yn ôl.

9. APELIO

9.1 Nid yw TTD yn rhan o'r cynllun Budd-dal Tai, felly, nid yw'r hawliau apêl arferol yn bodoli. Fodd bynnag, mae egwyddorion cyfiawnder naturiol yn mynnu y dylai fod proses ffurfiol o adolygu pan fydd yr ymgeisydd yn anghytuno gyda phenderfyniad yr ALI.

9.2 Lle bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â'r penderfyniad i beidio â dyfarnu TTD, neu gyda maint neu hyd y dyfarniad, gallant ofyn bod y penderfyniad yn cael ei ailystyried. Bydd y mater yn cael ei ailystyried gan swyddog gwahanol ar lefel uwch.

9.3 Os bydd yr ymgeisydd yn anghytuno â dyfarniad y swyddog adolygu, gall ofyn bod y mater yn cael ei gyfeirio at banel o Aelodau etholedig y Cyngor i gael penderfyniad terfynol ar y mater.

9.4 Wrth ystyried eu penderfyniad, dylai Aelodau etholedig ofalu bod eu penderfyniad yn cael ei wneud yn unol â pholisi TTD y Cyngor a'u bod yn ymwybodol na ddylai unrhyw ddyfarniad arwain at wariant uwchlaw 'cyfanswm a ganiateir' y Cyngor.

9.5 Os yw'r ymgeisydd yn anghytuno â phenderfyniad Panel Apêl y Cyngor, yr unig opsiwn sydd ganddynt am adolygiad pellach fydd i'r gwasanaeth Ombwdsmon Llywodraeth Leol os ydynt yn anfodlon â'r ffordd cafodd y mater ei drin, neu Adolygiad Barnwrol os teimlant fod y penderfyniad yn gyfreithiol anghywir.

10.0 HYSBYSIADAU

10.1 Pan fydd cais am TTD wedi cael ei benderfynu, mae'n rhaid hysbysu'r ymgeisydd am y canlyniad yn ysgrifenedig. Dylai llythyrâu hysbysiad fod yn ddigonol fanwl i alluogi'r ymgeisydd gyflwyno apêl petaent yn anghytuno â'r penderfyniad. Bydd yr hysbysiadau'n cynnwys y canlynol:-

- Maint y dyfarniad;
- A yw'r dyfarniad i gael ei dalu mewn lwmp swm neu dros gyfnod;
- Y cyfnod y bydd y dyfarniad yn para, gan gynnwys y dyddiad y daw i ben, os yn berthnasol;
- Y dull o dalu;
- I bwy y mae'r taliad i'w wneud;
- Lle bo'r taliad am lai na maint y diffyg, eglurhad sut y penderfynwyd ar y ffigwr hwnnw;
- Eglurhad mai bwriad y dyfarniad yw: -
 - Rhoi amser i'r ymgeisydd chwilio am gartef arall sy'n rhatach;
 - Rhoi amser i'r ymgeisydd gytuno ar rent is gyda'r landlord;
 - Helpu i liniaru caledi ariannol yn y tymor byr/tymor canol;
- Egluro y gellir hawlio'n ôl unrhyw ddyfarniadau a wneir ar sail gwybodaeth anghywir, camliwio neu fethiant i ddatgan ffeithiau perthnasol;
- Egluro ei bod yn ofynnol i'r ymgeisydd roi gwybod i'r Adain Budd-daliadau Tai os yw eu hamgylchiadau ariannol yn newid yn ystod cyfnod y dyfarniad TTD. Gall methiant i hysbysu newidiadau arwain at ad-dalu'r TTD;
- Eglurhad o'r broses apêl.

10.2 Lle gwneir dyfarniad er mwyn talu blaendal, dylid cynnwys gwybodaeth am ddyletswydd gyfreithiol y landlord i warchod y blaendal mewn cynllun gwarchod blaendal tenantiaeth a gymeradwyir gan y llywodraeth.

10.3 Lle gwrthodwyd TTD, mae'n rhaid i'r hysbysiad gynnwys digon o wybodaeth i ganiatáu i'r ymgeisydd benderfynu a yw am ofyn i'r mater gael ei ailystyried neu yw am wneud apêl. Dylai'r hysbysiad ddatgan yn glir y rhesymau am y penderfyniad a nodi pa ffactorau a gymerwyd i ystyriaeth wrth ddod i'r penderfyniad hwnnw.

10.4 Hefyd, dylai'r hysbysiad nodi'n glir fod hawliau apêl sy'n ymwneud â phenderfyniadau TTD yn gwbl ar wahân i hawliau apêl ar gyfer budd-daliadau tai a chredyd cynhwysol.

10.5 Lle bo TTD yn cael ei dalu gyda'r budd-dal tai, rhaid i'r hysbysiadau ddangos yn glir faint sy'n fudd-dal tai a faint sy'n TTD.

10.6 Pan fo cyfnod dyfarniad TTD i fod i ddod i ben, byddir yn hysbysu'r hawlydd o hynny un mis cyn terfynu'r dyfarniad. Byddant hefyd yn derbyn ffurflen gais am ddyfarniad arall tebyg. Fodd bynnag, dylid ei gwneud yn glir nad oes unrhyw warant y bydd cais arall yn llwyddiannus, hyd yn oed pe bai amgylchiadau'r hawlydd yn parhau heb newid.

10.7 Lle bo'r ymgeisydd wedi rhoi eu caniatâd i'r landlord gael gwybod am ganlyniad y cais TTD, bydd yr Awdurdod yn hysbysu'r landlord o'r ceisiadau llwyddiannus **a'r** canlyniadau aflwyddiannus.

11. CYLCHOEDD TALU

11.1 Bydd cylchoedd talu yn amrywio yn ôl amgylchiadau'r ymgeisydd a'r rhesymau am y dyfarniad. Lle dyfernir taliad 'unwaith-ac-am-byth', dylid gwneud y ffaith honno yn eglur i'r hawlydd yn yr hysbysiad.

11.2 Yn arferol, bydd taliadau cyfnodol yn cael eu gwneud bob pedair wythnos; fodd bynnag, gall taliadau wythnosol fod yn berthnasol pe bai'r hawlydd yn dangos ei fod yn cael problemau gyda rheoli arian neu gyllidebu.

11.3 Lle bo'r ymgeisydd yn derbyn Credyd Cynhwysol, bydd angen alinio'r cylchoedd talu hefo'r taliad misol o Gredyd Cynhwysol.

12. GORDALIADAU A HAWLIO TALIADAU YN ÔL

12.1 Lle dyfernir TTD o ganlyniad i gamgymeriad, gamliwio neu fethiant i ddatgelu ffeithiau perthnasol, boed trwy dwyll neu beidio, gellir hawlio'n ôl unrhyw ordaliad.

12.2 Ni ellir hawlio gordaliadau TTD o unrhyw fudd-daliadau eraill a roddwyd. Yr unig ddull o gael yr arian yn ôl yw gofyn i'r hawlydd am ad-daliad. Gall hyn fod trwy system mân ddyledwyr y Cyngor, trwy asiantaethau casglu dyledion neu drwy'r llysoedd.

12.3 Does dim angen talu yn ôl TTD a ddyfarnwyd am flaen-daliadau rhent cyhyd bod y TTD wedi cael ei ddefnyddio at y pwrpas priodol.

12.4 Ni ddylid ceisio adennill dyfarniadau TTD a wnaed 'ar gyfrif' o dan y broses tracio cyflym.

13. CADW COFNODION

13.1 Mae'n ofynnol i'r Adran Gwaith a Phensiynau fonitro sut y mae TTD yn cael eu defnyddio gan y cwsmeriaid y mae diwygiadau lles yn effeithio arnynt. O ganlyniad, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gadw cofnod o'r prif resymau dros wneud dyfarniadau. Dylid cofnodi pob dyfarniad TTD o dan y categorïau canlynol:-

- I gefnogi cwsmeriaid y mae cap ar fudd-daliadau yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae meini prawf maint y sector tai rhent cymdeithasol yn effeithio arnynt;
- I gefnogi cwsmeriaid y mae diwygiadau'r Lwfan Tai Lleol yn effeithio arnynt;
- Unrhyw reswm arall.

CYNGOR SIR YNYS MÔN		
ADRODDIAD I:	PWYLLGOR GWAITH	
DYDDIAD:	26 MAWRTH 2018	
PWNC:	Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2016/17	
AELOD(AU) PORTFFOLIO:	Y Cyngorydd John Griffith (Adnoddau) Y Cyngorydd R G Parry OBE FRAGS (Priffyrdd, Eiddo a Gwastraff) Y Cyngorydd Councillor R Meirion Jones (Dysgu)	
PENNAETH GWASANAETH:	R MARC JONES/DEWI R. WILLIAMS	
AWDUR YR ADRODDIAD: RHIF FFÔN: E-BOST:	Claire Klimaszewski (01248) 751865 clkfi@ynysmon.gov.uk /Dafydd V. Owen (01248) 752255 DafyddVOwen@ynysmon.gov.uk	
AELODAU LLEOL:		
A - Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau		
<ul style="list-style-type: none"> Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn am y flwyddyn 2016/17 a nodi diweddariad ar Stad Môn-ddaliadau David Hughes (Atodiadau A a B). 		
B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?		
Amherthnasol		
C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?		
Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.		
CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?		
Ydi		
D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?		
Ydi		
DD - Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		
Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (SLT) (mandadol)	
2	Swyddog Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn
3	Swyddog Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E - Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)	
1	Economaidd
2	Gwrth-dlodi
3	Trosedd ac Anhrefn
4	Amgylcheddol
5	Cydraddoldebau
6	Cytundebau Canlyniadau
7	Arall
F - Atodiadau:	
<ul style="list-style-type: none"> • Atodiad A – Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2016/17 	
FF - Papurau Cefndir (cysylltwch gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):	
<p>Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2014/15 a 2015/16, y Pwyllgor Gwaith, 29 Ionawr 2018.</p> <p>http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=134&mid=3120&ver=4&LLL=1</p>	

Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn

1. Pwrpas

- 1.1 Prif bwrpas yr adroddiad hwn yw gofyn i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer blwyddyn ariannol 2016/17 a derbyn diweddariad ar Stad David Hughes (Mân-ddaliadau).

2. Cefndir

- 2.1 Derbyniodd y Pwyllgor Gwaith adroddiad ar Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn y cyfarfod ar 29 Ionawr 2018. Yn yr adroddiad hwnnw, cafwyd crynodeb o elfennau'r Ymddiriedolaeth ac fe gyflwynwyd cyfrifon terfynol yr ymddiriedolaeth am flynyddoedd ariannol 2014/15 a 2015/16. Yn ogystal, cyflwynwyd crynodeb o'r sefyllfa ariannol ddrafft ar gyfer 2016/17. Ceir isod amlinelliad o sefyllfa ariannol derfynol yr ymddiriedolaeth. I'n hatgoffa, mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Cronfa Waddol David Hughes a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 sy'n darparu buddion addysgol penodol.

2.1.1 **Stad Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)**

Mae'r waddol yn dyddio'n ôl i 1608 ac, ar hyn o bryd, mae'n cynnwys nifer o blotiau o dir mân-ddaliadau, a bythynnod a buddsoddiadau eraill. Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y mae'n buddsoddi ynddynt a difidendau a llog ar fuddsoddiadau'r Gronfa Fuddsoddi a reolir gan Reolwyr Cronfa Blackrock Investment. Caiff costau rheoli, ariannol a gweinyddol y stad eu tynnu o'r rhenti a geir er mwyn penderfynu ar yr incwm net y gellir ei rannu yn ystod y flwyddyn. Caiff chwarter unrhyw incwm net sydd dros ben ei dalu i elusen ddi-gyswllt, sef "Elusen David Hughes ar gyfer y Tlodion", a hynny er mwyn lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae'r incwm gweddilliol yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn sydd wedi ei rhannu'n ddwy ran.

2.1.2 **Cronfa Elusennol Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Yn ychwanegol at yr incwm net o Stad Waddol David Hughes, mae'r ymddiriedolaeth hon hefyd yn derbyn incwm o fuddsoddiadau a reolir gan Blackrock mewn modd tebyg i Gronfa Waddol David Hughes. Caiff traean o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ei neilltuo i ddarparu buddion arbennig o unrhyw fath, rhai nad ydynt fel arfer yn cael eu darparu gan yr Awdurdod, a hynny er mwyn cynorthwyo disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau mewn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi eu henwi yn y cynllun, sef y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

2.1.3 **Cronfa Elusennol Ymddiriedolaeth Addysg Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)**

Mae'r elfen hon o'r ymddiriedolaeth yn derbyn incwm mewn ffordd debyg i'r uchod (2.1.2). Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i helpu pobl ifanc dan 25 oed sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion a enwir yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd ac sydd angen cymorth ariannol i fynd ymlaen i addysg bellach neu hyfforddiant.

3. Perfformiad Ariannol

- 3.1 Mae'r Ymddiriedolaeth yn ennill incwm o'r rhenti a geir o Bortffolio Eiddo Ymddiriedolaeth Waddol David Hughes, difidendau o fuddsoddiadau ecwiti, llogau eraill a gwerthu buddsoddiadau. Mae'r gwariant yn gysylltgedig â chynnal a chadw eiddo, cyfleustodau, dibenion elusennol a chostau cefnogaeth. Mae'r wybodaeth fanwl ynghylch incwm, gwariant ac asedau'r ymddiriedolaeth wedi ei chyflwyno yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ar gyfer 2016/17 a cheir crynodeb isod. Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon terfynol ar gyfer 2016/17.

- 3.2** Yn Ionawr 2018, hysbyswyd y Pwyllgor Gwaith fod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon drafft ar gyfer 2016/17 yn dangos diffyg net dros dro o £343,342. Mae'r archwiliad annibynnol o'r Adroddiad a'r Cyfrifol ar gyfer 2016/17 bellach wedi ei gwblhau a'r diffyg net terfynol oedd £343,341. Mae'r gwahaniaeth oherwydd camgymeriad 'rowndio'. Mae yna ddiffyg net oherwydd y buddsoddiad a wnaed er mwyn gwneud gwaith trwsio ar y mân-ddaliadau a phrynu Fferm Hendre, pethau a fydd o fantais i'r Ymddiriedolaeth yn y dyfodol.
- 3.3** Mae'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol (SOFA) ar gyfer 2016/17, ar dudalen 6 y cyfrifon yn dangos bod yr ymddiriedolaeth wedi ennill £138,637 mewn incwm yn 2016/17. Mae gwybodaeth ychwanegol ar y gwahanol fathau o incwm wedi ei chynnwys yn nodyn 2, tudalen 9 yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Caiff cyfran sylweddol o'r incwm (£100,456) ei gynhyrchu o'r rhenti a gesglir gan Stad (Mân-ddaliadau) David Hughes. Gwariodd yr ymddiriedolaeth £65,905 ar gostau gweithredu ac, o'r swm hwn, roedd £53,184 yn gysylltiedig â chostau megis trwsio a chynnal a chadw ar Stad David Hughes. Cafwyd costau cefnogaeth o £11,721 yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhan fwyaf o'r swm hwn yn gysylltiedig â chostau mewnlol a godir ar yr Ymddiriedolaeth am wasanaethau a ddarperir, h.y. costau gweinyddol eiddo £8,250 a chostau cyfrifo a chefnogaeth £2,621. Yn ystod y flwyddyn, rhoddodd yr Ymddiriedolaeth ei grant cyntaf ers blynyddoedd, sef grant addysgol gwerth £1,000 i gyn-ddisgybl o Ysgol Bodedern i gefnogi hyfforddiant proffesiynol. Yn Nodiadau 3 i 5 ar dudalen 10 y Cyfrifon Blynyddol, ceir mwy o wybodaeth am y costau gweithredol hyn. Mae'r SOFA hefyd yn dangos cynnydd net o £30,130 mewn buddsoddiadau sydd wedi ei wneud i fyny o nifer o enillion a cholledion sydd wedi eu gwireddu a sydd heb eu gwireddu.
- 3.4** Mae'r SOFA yn cynnwys eitem eithriadol o £446,203 ar gyfer amhariad. Bydd gwario ar eiddo'n cynyddu eu gwerth marchand, fodd bynnag, i ddibenion y cyfrifon, caiff eiddo eu prisio ar sail eu gwerth cyfredol ac, o'r herwydd, ni fydd unrhyw wariant cyfalaf yn golygu cynnydd uniongyrchol yn y gwerth cario ar y fantolen. Gwariwyd £710,545 o arian cyfalaf yn ystod y flwyddyn (dangosir hyn fel ychwanegiadau yn Nodyn 7b) ac mae'r gwerth cario yn cael ei amharu wedyn i adlewyrchu'r prisiad sy'n seiliedig ar y dull prisio.
- 3.5** Mae'r Fantolen fel yr oedd ar 31 Mawrth 2017 ar dudalen 7 y Cyfrifon, yn nodi fod gan yr Ymddiriedolaeth gyfanswm o £2,677,374 mewn Asedau Sefydlog. Yr elfen fwyaf sylweddol o'r swm hwn, sef £2,416,550, yw gwerth teg Stad David Hughes. Y £260,824 sy'n weddill yw gwerth y buddsoddiadau a restrwyd ar y gyfnewidfa stoc ar 31 Mawrth 2017. Caiff y buddsoddiadau hyn eu rheoli gan Reolwyr y Gronfa Fuddsoddi, Blackrock. Roedd cyfanswm yr asedau cyfredol yn £170,680. Mae'r swm hwn yn ostyngiad sylweddol o gymharu ag asedau cyfredol y flwyddyn flaenorol, sef £834,763. Mae hyn oherwydd y buddsoddiad sylweddol a wnaed i drwsio ac atgyweirio Stad David Hughes a phrynu Fferm Hendre sy'n golygu bod yr arian wedi gostwng o £792,324 yn 2015/16 i £103,298 ar 31 Mawrth 2017. Roedd ymrwymadau tymor byr, h.y. credydwy'r yn £12,175, sy'n ostyngiad o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Roedd ffigyrau'r credydwy'r ar gyfer 2015/16 yn anarferol o uchel oherwydd yr anfonebau trwsio gwerth uchel nad oeddynt wedi dod i law erbyn diwedd y flwyddyn. Dengys y Fantolen fod Cyfanswm yr Asedau Net, sef gwerth yr Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2017 yn £2,835,927. Mae hyn yn cymharu â £3,179,220 ar 31 Mawrth 2016. Mae'r gostyngiad hwn, fel y soniwyd uchod, oherwydd y gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r penderfyniad i brynu Fferm Hendre. Yn y tymor hwy, fodd bynnag, bydd y gwariant hwn a phryniant Fferm Hendre yn cynyddu gwerth yr Ymddiriedolaeth a'i gallu i greu incwm.

4. Adroddiad y Rheolwr Stadau Gwledig ar Stad (Mân-ddaliadau) David Hughes

- 4.1** Roedd angen gwario cryn dipyn o arian ar Stad (Mân-ddaliadau) David Hughes er mwyn dod â nifer o'r eiddo i fyny i'r safonau cyfreithiol angenrheidiol a gwella hirhoedledd y Stad. Mae'n golygu y bydd gan yr Ymddiriedolaeth well siawns o sicrhau incwm rhent yn y dyfodol a bydd yn ychwanegu at oes adeiladau'r mân-ddaliadau. Mae'r tabl isod yn nodi'r gwariant ar waith trwsio ac atgyweirio mawr ac ar bryniannau ar y Stad rhwng 2013/14 a 2017/18.

Blwyddyn Ariannol	£	Eiddo	Gwaith a Gwblhawyd
2013/14	72,427 35,386	Canol y Rhos Cott Llanrhuddlan	Gwaith Trwsio sylweddol Gwaith Trwsio
Cyfanswm 2013/14	107,813		
Cyfanswm 2014/15	0	Dim gwaith mawr	
2015/16	46,160	Cott Llanrhuddlad	Adeilad Amaethyddol newydd
Cyfanswm 2015/16	46,160		
2016/17 ac amcangyfrif ar gyfer 2017/18	132,039	Plas Bach Cerrigceinwen	Gwaith Atgyweirio
	80,000	Prysiorwerth Cerrigceinwen	Gwaith Atgyweirio
	178,581	Ffermdy Maen Hir Llannerch-y-medd	Gwaith Atgyweirio
	42,150	Tyddyn Gyrfer	Cyflenwi a chodi adeilad ffrâm ddu
	78,465	Tremoelgoch Llanfachraeth	Gwaith Atgyweirio
	264,342	Hendre Mona	Prynu Fferm Hendre Mona
Cyfanswm 2016/17 ac Amcangyfrif ar gyfer 2017/18	775,577		
Cyfanswm	929,550		

- 4.2** Roedd y cyfan o'r gwaith uchod yn angenrheidiol oherwydd, yn hanesyddol, ychydig iawn a fuddsoddiwyd yn y Stad. Daeth y gwaith hwn â'r adeiladau i fyny i'r safon ofynnol. Gwnaed y buddsoddiad mwyaf sylweddol ym Maen Hir gyda swm o £178,581 yn cael ei wario ar y fferm er mwyn sicrhau y gallai rhywun symud i mewn eto i'r tŷ adfeiliedig sy'n golygu bod y fferm bellach yn uned fwy cynaliadwy o dros 250 o erwau.
- 4.3** Er mwyn sicrhau bod y Stad yn gallu cynhyrchu'r incwm mwyaf posibl, mae rhai o'r mân-ddaliadau wedi cael eu hailstrwythuro. Yn ychwanegol at hyn, prynodd Stad David Hughes Fferm Hendre gan Stad Mân-ddaliadau'r Cyngor oherwydd bod yr eiddo hwn yn fwy hyfyw fel ran o Stad David Hughes. Roedd y fferm hon yn flaenorol wedi cael ei hamgylchynu gan Stad David Hughes, Mae'r buddsoddiad hwn yn Fferm Hendre yn ychwanegu at bortffolio'r Stad a'i photensial i greu incwm.
- 4.4** Ers 2015/16, gwerthwyd dau ddarn bychan o dir (am £25,000 yr un) am elw sylweddol i'r Stad. Yn ychwanegol, gwerthwyd Tŷ Llwyd, Rhostrehwfa, Llangefni ar ran Stad David Hughes ym mis Gorffennaf 2017 am £170,150. Bydd hyn o gymorth i roi'n ôl yn y grofna rywfaint o'r arian a ddefnyddiwyd i brynu Fferm Hendre, o'r herwydd, fe'i gwerthwyd er budd gorau Stad David Hughes.

- 4.5** Bydd y gwaith atgyweirio ac ailstrwythuro a wnaed ar y Stad o gymorth i sicrhau y bydd Stad Elusenol David Hughes bellach mewn sefyllfa i gynhyrchu gwarged blynyddol iach o incwm rhent.
- 4.6** Nid oes unrhyw brosiectau mawr eraill wedi cael eu nodi ar gyfer y tymor byr, fodd bynnag, gallai rhai anheddau eraill ar y stad nad oes arian mawr wedi cael ei fuddsoddi ynddynt, elwa o waith gwella. Fodd bynnag, byddai modd cwrdd yn gyfforddus â lefel y gwariant y byddai ei angen o'r incwm rhent blynyddol a fyddai'n cael ei gynhyrchu o'r stad.

5. Casgliad

- 5.1** Cafwyd trosolwg o'r cefndir i Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Yn yr adroddiad, ceir crynodeb o'r Ymddiriedolaeth a pherfformiad ariannol yr Ymddiriedolaeth am 2016/17. Roedd cyfanswm o £2,835,879 yng nghronfa'r Ymddiriedolaeth ar 31 Mawrth 2017, gyda balans ariannol o £103,298 yn y banc. Mae swm sylweddol o arian wrth gefn yr Ymddiriedolaeth wedi cael ei fuddsoddi yn Stad David Hughes yn ystod y flwyddyn gyda nifer o eiddo wedi cael eu hatgyweirio a Fferm Hendre wedi cael ei phrynu.

**CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG
BELLACH YNYS MÔN**

ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

**ADRODDIAD BLYNYDDOL A
CHYFRIFON**

**ANNUAL REPORT AND
ACCOUNTS**

2016/2017

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.
525254**

CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1-4
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol	5
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	6
Mantolen	7
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	8-13

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
AR 31 MAWRTH 2017

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau' sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Rhif Cofrestru Elusen:

525254

Cyfeiriad y Brif Swyddfa:

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Ymddiriedolwr:

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Archwiliwr Annibynnol

Mr Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Dogfen lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforaethol.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun a wnaed ar 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, y pwerau a'r amodau sy'n sail i'r Ymddiriedolaeth weithredu arni.

Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cael eu briffio ynghylch eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusen, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol a swyddogion y Cyngor.

Strwythur y sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Dyma strwythur y sefydliad:-

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Dysgu Gydol Oes awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth a gosod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:-

- Prif Weithredwr – Dr Gwynne Jones
- Dirprwy Brif Weithredwr – Annwen Morgan
- Dirprwy Brif Weithredwr – Caroline Turner
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

Partïon cysylltiedig:

Oherwydd natur gwaith yr elusen a gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr yr elusen, mae'n anochel y bydd trafodion busnes yn cael eu cynnal gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i staff. Rhaid i'r holl drafodion busnes sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi sy'n nodi bod yn rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodion yn ymwneud â pharti cysylltiedig.

Rheoli risg:

Adolygwyd y prif risgiau, y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Nodau ac amcanion:

Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes, Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

Ystâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti gan yr eiddo y buddsoddiwyd ynddynt a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r ystâd eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu gwariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen y Tlodion David Hughes" i liniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae gweddill yr incwm yn mynd i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn:-

Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:

Caiff traean o'r Gronfa Gyffredinol ei dyrannu i ddarparu budd arbennig o unrhyw fath, nad yw fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau yn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael i rai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ag angen cymorth ariannol arnynt ar gyfer Addysg Bellach neu Uwch neu hyfforddiant. Nid yw'r ymddiriedolaeth wedi dyfarnu unrhyw grantiau am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau'n cael eu hadolygu ac mae'r ymddiriedolaeth wedi dechrau dyfarnu grantiau i unigolion cymwys yn ystod 2016/17. Bydd y rhain wedi helpu'r unigolion i barhau mewn Addysg Bellach neu Uwch neu Hyfforddiant.

Dyrannu grantiau:

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod.

Budd cyhoeddus:

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllawiau sydd yng nghanllaw cyffredinol Comisiynydd yr Elusen ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses dyrannu grantiau.

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Gweithgareddau elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r ymddiriedolaeth.

Mae'r elusen wedi bod trwy gyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i'w ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n mynd yn hŷn. Trwy gynnal y cyfnod atgyfnerthu hwn, bydd asedau'r elusen ar gael i ddarparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w buddiolwyr yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r elusen wedi dechrau rhaglen drwsio ac adnewyddu sylweddol i Ystâd David Hughes. Bydd hyn yn golygu bod nifer o adeiladau fferm mewn cyflwr mwy addas. Mae'r rhaglen hon yn parhau yn 2016/17 ac wedi hynny.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Perfformiad Ariannol:

Roedd gan yr elusen ddiffyg net o £343,341 yn ystod y flwyddyn yn bennaf yn sgil y rhaglen drwsio helaeth i Ystâd David Hughes y soniwyd amdani uchod.

Cyfanswm cronfeydd ar 31 Mawrth 2017 oedd £2,835,879, gyda'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

Prif ffynonellau ariannu:

Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhenti gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau llog buddsoddiadau neu log ar adneuron.

Polisi buddsoddi ac amcanion:

Mae gan yr elusen bortffolio eiddo sylweddol sy'n mynd yn hŷn a bydd angen buddsoddi'n sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi bod trwy gyfnod atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei hasedau. Hefyd, mae'r elusen yn cadw tua 10% o'i Chyfanswm Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn fusnes gweithredol i'r dibenion elusennol a nodwyd uchod.

DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu Cymeradwy'r Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'n cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Arwyddwyd gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

.....
Mr R Marc Jones CPFA
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151

Dyddiad:

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR O GRONFA ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017, a nodir ar dudalennau 7 i 14.

Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifon am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad eleni o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) a bod angen cynnal archwiliad annibynnol. Mae'r elusen yn paratoi cyfrifon ar y cyd ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad gan fy mod yn aelod cymwysedig o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.

Fy nghyfrifoldeb yw:-

- archwilio'r cyfrifon o dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn gweithdrefnau yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan Adran 145(5) o Ddeddf 2011; a
- datgan p'un ai y tynnwyd fy sylw at faterion penodol.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifon a gadwyd gan yr elusen ac yn cymharu'r cyfrifon a gyflwynwyd â'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, ac yn ceisio esboniad gennyh chi fel ymddiriedolwyr ynghylch unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a gynhaliwyd yn darparu'r holl dystiolaeth y byddai ei hangen mewn archwiliad ac, o ganlyniad, ni roddir unrhyw farn p'un ai a yw'r cyfrifon yn cyflwyno 'darlun cywir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodir yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater o bwys wedi dod i fy sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi greu:-

- (1) nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
- (2) nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
- (3) nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Mr Brian Hughes
A Hughes-Jones, Dyson and Co.
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

Arwyddwyd _____ Dyddiad: _____

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

					31.3.17	31.3.16
	Nodiadau	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cronfeydd waddol £	Cyfanswm cronfeydd £	Cyfanswm cronfeydd £
Incwm a gwaddol o :						
Incwm buddsoddi	2	-	3,943	134,694	138,637	106,023
Cyfanswm Incwm		-	3,943	134,694	138,637	106,023
Gwariant ar :						
Rheoli buddsoddiad	3	-	-	53,184	53,184	195,114
Gweithgareddau Elusennol	4	-	1,000	-	1,000	-
Costau Cefnogi	5	-	1,080	10,641	11,721	11,573
Cyfanswm Gwariant		-	2,080	63,825	65,905	206,687
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau			15,892	14,238	30,130	12,791
Incwm /(Gwariant) Net		-	17,755	85,107	102,862	87,873
Eitem eithriadol: Amhariad		-	-	446,203	446,203	-
Incwm (Gwariant) Net ar ôl eitemau eithriadol		-	17,755	361,096	343,341	87,873
Symuniadau Net ar Gronfeydd		-	17,755	361,096	343,341	87,873
Cysoni Cronfeydd Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		-	429,998	2,749,222	3,179,220	3,267,093
Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220

MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

					31.3.17	31.3.16
	Nodiadau	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cronfeydd waddol	Cyfanswm cronfeydd	Cyfanswm cronfeydd
		£	£	£	£	£
Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnanyddedig	7a	-	107,231	153,593	260,824	223,504
Eiddo y buddsoddwyd ynddynt - Ystâd David Hughes	7b	-	-	2,416,550	2,416,550	2,184,398
Cyfanswm Asedau Sefydlog		-	107,231	2,570,143	2,677,374	2,407,902
Asedau Cyfredol						
Dyledwyr	8	-	-	67,382	67,382	42,439
Arian yn y banc ac mewn llaw	9	-	343,077	- 239,779	103,298	792,324
Cyfanswm Asedau Cyfredol		-	343,077	- 172,397	170,680	834,763
Rhwymedigaethau Credydwyr: Symiau'n ddyledus mewn blwyddyn	10	-	2,555	9,620	12,175	63,445
Asedau Cyfredol Net neu (Rwymedigaethau)		-	340,522	- 182,017	158,505	771,318
Credydwyr: Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		-	-	-	-	-
Darpariaethau ar gyfer		-	-	-	-	-
Rhwymedigaethau		-	-	-	-	-
Cyfanswm Asedau Net neu Rwymedigaethau		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220
Cronfeydd yr Elusen	11a & 11b					
Cronfeydd Gwaddol		-	-	2,388,126	2,388,126	2,749,222
Cronfeydd Incwm Cyfyngedig		-	447,753	-	447,753	429,998
Cyfanswm Cronfeydd Elusennol		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig

Arwyddwyd: _____ Dyddiad: _____

MR R MARC JONES CPFA
PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG ADRAN 151

NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

1. POLISIÄU CYFRIFYDDU

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol dan yr arfer cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail eu gwerth ar y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbriso asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

Adnoddau a dderbyniwyd

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir yn ddigon dibynadwy.

Adnoddau a wariwyd

Cyfrifir gwariant ar sail gronnus ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, maent wedi eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Costau cynhyrchu arian

Mae costau cynhyrchu arian yn gyson â chostau rheoli buddsoddiad.

Eiddo y buddsoddiwyd ynddynt

Dangosir eiddo y buddsoddiwyd ynddynt ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff unrhyw warged cyfun neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

Treth ar Werth

Gall yr elusen hawlio Treth ar Werth yn ôl trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

Strwythur y gronfa

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gronfa waddol a dwy gronfa gyfyngedig.

Ystâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y buddsoddiwyd ynddynt a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r ystâd eu didynnu o'r rhenti er mwyn cyfrifo'r incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddsbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen y Tlodion David Hughes" i ddibenion yn gysylltiedig â lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae gweddill yr incwm yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sy'n cael ei rhannu'n ddwy.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei dyrannu i ddarparu budd arbennig o unrhyw fath, nad yw fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod i helpu disgyblion hŷn i offen eu cyrsiau yn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun - y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i rai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ag angen cymorth ariannol arnynt ar gyfer Addysg Bellach neu Uwch neu hyfforddiant. Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

Asedau sefydlog y buddsoddwyd ynddynt

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad y gweithgareddau ariannol yn cynnwys enillion a cholledion net yn codi o ailbrisio a gwarediadau drwy'r flwyddyn.

Enillion a cholledion a wireddwyd

Mae'r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agored (dyddiad prynu os yw'n hwyrach). Caiff enillion a cholledion na wireddwyd eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agored (dyddiad prynu os yw'n hwyrach). Nid yw enillion a wireddwyd ac na wireddwyd wedi'u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

2. INCWM BUDDSODDI

Incwm Buddsoddi	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfanswm 31.03.17	Cyfanswm 31.03.16
	£	£	£	£
Rhenti a dderbyniwyd	-	100,456	100,456	85,119
Trethi dŵr - ad-daliadau	-	3,968	3,968	4,791
Incwm arall o Ystâd David Hughes	-	26,663	26,663	6,028
Difidendau a llog buddsoddiad	2,983	4,278	7,261	7,241
Llog arall	960	671	289	2,844
Cyfanswm Incwm Buddsoddi	3,943	134,694	138,637	106,023

3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIAD

Costau Rheoli Buddsoddiad	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Trwsio a Chynnal a Chadw Ystâd David Hughes	-	25,019	25,019	156,241
Taliadau Dŵr	-	6,130	6,130	11,683
Gwasanaethau Proffesiynol	-	22,035	22,035	27,067
Costau eraill i eiddo	-	-	-	2,680
Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau - buddsoddiadau ar wahân i eiddo	-	-	-	(2,557)
Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiad	-	53,184	53,184	195,114

4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Gwariant Elusennol	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Cyfraniad o 25% o wariant net i Elusen y Tlodion David Hughes	-	-	-	-
Grantiau Addysg i Unigolion	1,000	-	1,000	-
Cyfanswm Gwariant Elusennol	1,000		1,000	-

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusen a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

5. COSTAU CEFNOGI

Costau Cefnogi	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Costau gweinyddu a rheoli eiddo	-	8,250	8,250	8,250
Costau cyfrifo a cefnogi	655	1,966	2,621	2,373
Tâl yr Archwiliwr Annibynnol	425	425	850	950
Cyfanswm Costau Cefnogi	1,080	10,641	11,721	11,573

6. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Costau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd costau unrhyw ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 nac am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler y nodyn parti cysylltiedig mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol am gostau ariannu a gweinyddu'r eiddo.

7. BUDDSODDIADAU

Enillion / (colledion) net	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Enillion / (colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd	15,892	21,428	37,320	- 8,967
Enillion(colledion) ar Eiddo y Buddsoddwyd ynddynt	-	7,190	7,190	21,758
Cyfanswm Enillion/(colledion) net	15,892	14,238	30,130	12,791

7a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFNEWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig	31.03.17 £	31.03.16 £
Gwerth y Farchnad		
Ar 1 Ebrill	223,504	232,471
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	-	-
Ailbrisió	37,320	- 8,967
Trosglwyddiadau	-	-
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth	260,824	223,504

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Cyffredin Charinco a Charishare gyda daliadau bach mewn giltiau ac acwiti. Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, y gwerth hanesyddol yw £67,029.

7b. EIDDO Y BUDDSODDWYD YNDDYNT

Eiddo y buddsoddwyd ynddynt	31.03.17 £	31.03.16 £
Gwerth y Farchnad		
Ar 1 Ebrill	2,184,398	2,187,000
Ychwanegiadau	710,545	-
Llai Gwarediadau	14	2,602
Llai Amhariadau	446,203	-
Enillion(colledion) Ailbrisió	(32,176)	-
Trosglwyddiadau	-	-
Gwerth llyfr ar 31 Mawrth	2,416,550	2,184,398

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 16 fferm a 2 ddarn o dir, gyda chyfanswm o 1,156.47 o erwau. Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd darn bach o dir yn Nhyddyn Gyfer ac, o ganlyniad, sicrhawyd cyfalaf o £25k. Enillodd yr ymddiriedolaeth bron i £25k drwy werthu'r tir hwn. Hefyd, prynodd yr elusen Fferm Hendre am £264k yn cynnwys costau prynu. Mae hyn yn gwneud y mwyaf o'r daliad yn Hendre i'r dyfodol. Hefyd, cynhaliwyd rhaglen adnewyddu a arweiniodd at wariant o £446k ac fe'i cwblhawyd yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Prisiwyd yr Ystâd ym Mawrth 2017 a chyfanswm y gwerth oedd £2,416,550 ar sail defnydd presennol gan Barry Wyn Jones, Prisiwr Mewnol Ystadau Cyngor Sir Ynys Môn .

8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS MEWN BLWYDDYN

Dyledwyr: Symiau'n ddyledus mewn blwyddyn	31.03.17 £	31.03.16 £
Symiau y gellir eu hadennill mewn contractau	67,382	42,439
Cyfanswm Dyledwyr	67,382	42,439

9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

Arian yn y banc	Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 £	Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 £	Ystâd Elusennol David Hughes £	31.3.17 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.16 Cyfanswm Cronfeydd £
Adneuon banc	205,294	137,783	239,779	103,298	792,324

10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS MEWN BLWYDDYN

Credydwyr: Symiau'n dyledus mewn blwyddyn	31.03.17 £	31.03.16 £
Credydwyr eraill	12,175	63,445
Cyfanswm Credydwyr	12,175	63,445

Mae gostyngiad sylweddol mewn credydwyr ar 31 Mawrth 2017 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw bod nifer sylweddol o anfonebau am waith trwsio a chynnal a chadw heb eu talu ar 31 Mawrth 2016. Cwblhawyd yn sylweddol y rhaglen drwsio ac adnewyddu yn ystod 2016/17 ac, o ganlyniad, roedd anfonebau credydwyr gwerth is heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

11. SYMUDIAD CRONFEYDD

11a.

Symudiad Cronfeydd	Ar 01/04/16 £	Symudiad Cronfeydd Net £	Ar 31.03.17 £
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3	265,778	13,603	279,381
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3	164,221	4,152	168,373
Cronfeydd Cyfyngedig	429,999	17,755	447,754
Ystâd Elusenol David Hughes	2,749,221	- 361,096	2,388,125
Cyfanswm Cronfeydd	2,749,220	- 343,341	2,835,879

11b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys uchod fel a ganlyn :-

Symudiad net mewn cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod yw:	Adnoddau Incwm £	Gwariant £	Enillion a Cholledion £	Symudiad Cronfeydd £
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3	2,598	- 540	11,545	13,603
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3	1,345	- 40	4,347	4,152
Cronfeydd Cyfyngedig	3,943	- 2,080	15,892	17,755
Ystâd Elusenol David Hughes	134,694	- 510,028	14,238	- 361,096
Cyfanswm Cronfeydd	138,637	- 512,108	30,130	-343,341

12. DATGELIADAU PARTI CYSYLLTIEDIG

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi weinyddol o £8,250 (£8,250 yn 2015/16) gan y Cyngor ar gyfer gweinyddu Ystâd David Hughes. Hefyd, codwyd ffi lywodraethu a rheolaeth ariannol o £2,621 ar yr ymddiriedolaeth. Felly, roedd cyfanswm ffioedd ariannol a gweinyddol a ad-dalwyd gan y cyngor yn £10,871. Darparwyd Gwasanaethau Pensaernïol mewn perthynas â thrwsio ac adnewyddu'r Ystâd yn fewnol a chodwyd £22,035 ar yr ymddiriedolaeth yn 2016/17 (£21,833 yn 2015/16).

Oherwydd natur gwaith yr elusen ac oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr, mae'n anochel y bydd trafodion ariannol yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i staff. Rhaid i'r holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddiddordeb ynddynt eu cynnal hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cyngorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os digwydd trafodion gan barti cysylltiedig.

**CRONFA YMDDIRIEDOLAETH ADDYSG
BELLACH YNYS MÔN**

ANGLESEY FURTHER EDUCATION TRUST FUND

**ADRODDIAD BLYNYDDOL A
CHYFRIFON**

**ANNUAL REPORT AND
ACCOUNTS**

2016/2017

**Rhif Cofrestru Elusen / Charity Registration No.
525254**

CYNNWYS Y DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

	Tudalen
Adroddiad yr Ymddiriedolwyr	1-4
Adroddiad yr Archwiliwr Annibynnol	5
Datganiad Gweithgareddau Ariannol	6
Mantolen	7
Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol	8-13

ADRODDIAD YR YMDDIRIEDOLWYR AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
AR 31 MAWRTH 2017

Mae'r ymddiriedolwyr yn cyflwyno eu hadroddiad gyda datganiadau ariannol yr elusen am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017. Mae'r ymddiriedolwyr wedi mabwysiadu darpariaethau'r Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) 'Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau' sy'n berthnasol i elusennau wrth baratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS102) sy'n weithredol o 1 Ionawr 2015.

MANYLION CYFREITHIOL A GWEINYDDOL

Rhif Cofrestru Elusen:

525254

Cyfeiriad y Brif Swyddfa:

Cyngor Sir Ynys Môn
Swyddfa'r Sir
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

Ymddiriedolwr:

Unig ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw Cyngor Sir Ynys Môn a gweinyddwyd gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Archwiliwr Annibynnol

Mr Brian Hughes
A. Hughes-Jones, Dyson & Co
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

STRWYTHUR, LLYWODRAETHU A RHEOLI

Dogfen lywodraethu:

Rheolir yr elusen gan ei dogfen lywodraethu, gweithred ymddiriedolaeth, ac mae'n ymgorffori elusen anghorfforaethol.

Rheoleiddir Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn gan gynllun a wnaed gan y Bwrdd Addysg ar 23 Mawrth 1939 ac fe'i haddaswyd yn sylweddol gan gynllun a wnaed ar 18 Gorffennaf 1960. Mae'r rhain yn nodi'r dyletswyddau, y pwerau a'r amodau sy'n sail i'r Ymddiriedolaeth weithredu arni.

Recriwtio a phenodi ymddiriedolwyr newydd:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn. Mae'r elusen yn cael ei rhedeg gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor.

Mae ymddiriedolwyr newydd yn cael eu briffio ynghylch eu cyfrifoldebau cyfreithiol o dan gyfraith elusen, cynnwys y ddogfen lywodraethu a'r broses gwneud penderfyniadau. Nodir ac ymdrinnir yn fewnol ag anghenion hyfforddiant gan ymddiriedolwyr presennol a swyddogion y Cyngor.

Strwythur y sefydliad:

Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn a gweinyddir gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth ar ei rhan gan y Cyngor Sir.

Dyma strwythur y sefydliad:-

- Mae Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn gweithredu fel yr Ymddiriedolwr.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Dysgu Gydol Oes) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Dysgu Gydol Oes awdurdod dirprwyedig i ddyrannu'r grantiau blynyddol.
- Mae gan Bennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) y Cyngor ar y cyd â Deilydd Portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo awdurdod dirprwyedig i reoli cytundebau tenantiaeth a gosod rhenti'r portffolio eiddo (Gwaddol David Hughes).
- Bydd Pwyllgor Gwaith y Cyngor yn cymeradwyo cyfrifon yr Ymddiriedolaeth a dirprwyir awdurdod i arwyddo Cyfrifon Blynyddol yr Ymddiriedolaeth i'r Swyddog Adran 151.

Arweinwyr strategol y Cyngor Sir oedd:-

- Prif Weithredwr – Dr Gwynne Jones
- Dirprwy Brif Weithredwr – Annwen Morgan
- Dirprwy Brif Weithredwr – Caroline Turner
- Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 – Marc Jones
- Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) a Swyddog Monitro – Lynn Ball

Partïon cysylltiedig:

Oherwydd natur gwaith yr elusen a gan mai Cyngor Sir Ynys Môn yw unig ymddiriedolwr yr elusen, mae'n anochel y bydd trafodion busnes yn cael eu cynnal gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i staff. Rhaid i'r holl drafodion busnes sy'n ymwneud â sefydliadau y gallai Cyngor Sir Ynys Môn fod â diddordeb ynddynt hyd braich. Mae gan y cyngor bolisi sy'n nodi bod yn rhaid i bob ymddiriedolwr ddatgan diddordeb os bydd trafodion yn ymwneud â pharti cysylltiedig.

Rheoli risg:

Adolygwyd y prif risgiau, y mae'r Ymddiriedolaeth yn agored iddynt, fel y nodwyd gan yr Ymddiriedolwr, a sefydlwyd systemau neu weithdrefnau i reoli'r risg.

AMCANION A GWEITHGAREDDAU

Nodau ac amcanion:

Mae'r Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa: Gwaddol David Hughes, Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 a Chronfa Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 sy'n darparu budd addysgol penodol.

Ystâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol):

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti gan yr eiddo y buddsoddiwyd ynddynt a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r ystâd eu didynnu o'r rhenti a dderbynnir i gael yr incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddosbarthu neu gwariant net.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen y Tlodion David Hughes" i liniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant. Mae gweddill yr incwm yn mynd i Gronfa Addysg Bellach Ynys Môn:-

Cronfeydd Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn:

Caiff traean o'r Gronfa Gyffredinol ei dyrannu i ddarparu budd arbennig o unrhyw fath, nad yw fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod, i helpu disgyblion hŷn i orffen eu cyrsiau yn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun – y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir. Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill yn y Gronfa Gyffredinol ar gael i rai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ag angen cymorth ariannol arnynt ar gyfer Addysg Bellach neu Uwch neu hyfforddiant. Nid yw'r ymddiriedolaeth wedi dyfarnu unrhyw grantiau am nifer o flynyddoedd. Fodd bynnag, mae gweithdrefnau'n cael eu hadolygu ac mae'r ymddiriedolaeth wedi dechrau dyfarnu grantiau i unigolion cymwys yn ystod 2016/17. Bydd y rhain wedi helpu'r unigolion i barhau mewn Addysg Bellach neu Uwch neu Hyfforddiant.

Dyrannu grantiau:

Dyrennir grantiau i unigolion sydd wedi mynychu neu sy'n mynychu un o'r pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir sy'n cwrdd â'r meini prawf uchod.

Budd cyhoeddus:

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau eu bod wedi cyfeirio at y canllawiau sydd yng nghanllaw cyffredinol Comisiynydd yr Elusen ar fudd cyhoeddus wrth adolygu nodau ac amcanion yr elusen ac wrth gynllunio gweithgareddau i'r dyfodol a phennu'r broses dyrannu grantiau.

CYFLAWNIAD A PHERFFORMIAD

Gweithgareddau elusennol:

Mae'r elusen wedi parhau i ddiogelu asedau'r ymddiriedolaeth.

Mae'r elusen wedi bod trwy gyfnod o atgyfnerthu ac mae wedi bod yn arbed arian i'w ail-fuddsoddi yn ei bortffolio eiddo sy'n mynd yn hŷn. Trwy gynnal y cyfnod atgyfnerthu hwn, bydd asedau'r elusen ar gael i ddarparu incwm am flynyddoedd i ddod i'w buddiolwyr yn y dyfodol. Yn ystod y flwyddyn, mae'r elusen wedi dechrau rhaglen drwsio ac adnewyddu sylweddol i Ystâd David Hughes. Bydd hyn yn golygu bod nifer o adeiladau fferm mewn cyflwr mwy addas. Mae'r rhaglen hon yn parhau yn 2016/17 ac wedi hynny.

ADOLYGIAD ARIANNOL

Perfformiad Ariannol:

Roedd gan yr elusen ddiffyg net o £343,341 yn ystod y flwyddyn yn bennaf yn sgil y rhaglen drwsio helaeth i Ystâd David Hughes y soniwyd amdani uchod.

Cyfanswm cronfeydd ar 31 Mawrth 2017 oedd £2,835,879, gyda'r holl gronfeydd yn gyfyngedig.

Prif ffynonellau ariannu:

Prif ffynonellau ariannu'r elusen yw incwm rhenti gan denantiaid ac incwm buddsoddi ar ffurf difidendau llog buddsoddiadau neu log ar adneuron.

Polisi buddsoddi ac amcanion:

Mae gan yr elusen bortffolio eiddo sylweddol sy'n mynd yn hŷn a bydd angen buddsoddi'n sylweddol. Mae ymddiriedolwr yr elusen wedi bod trwy gyfnod atgyfnerthu er mwyn cynhyrchu'r cronfeydd ariannol angenrheidiol i ail-fuddsoddi yn ei hasedau. Hefyd, mae'r elusen yn cadw tua 10% o'i Chyfanswm Asedau Sefydlog mewn Cronfeydd Buddsoddi, sy'n cynhyrchu difidend ac incwm llog.

Cynlluniau ar gyfer y Dyfodol

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn fusnes gweithredol i'r dibenion elusennol a nodwyd uchod.

DATGANIAD CYFRIFOLDEB YR YMDDIRIEDOLWYR

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arfer Cyfrifyddu Cymeradwy'r Deyrnas Unedig).

Mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith sy'n berthnasol i elusennau yng Nghymru a Lloegr, y Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth fod yr ymddiriedolwyr yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob flwyddyn ariannol sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa bresennol yr elusen ac o'r adnoddau a dderbyniwyd ac o'r defnydd a wnaed o adnoddau, yn cynnwys incwm a gwariant, yr elusen am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, rhaid i'r ymddiriedolwyr:-

- ddewis polisiau cyfrifyddu addas ac yna'n cymhwyso'n gyson;
- dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y SORP Elusennau;
- llunio barn ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn synhwyrol;
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd y cwmni elusennol yn parhau i weithredu.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac er mwyn eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf Elusennau, Rheoliadau Elusen (Cyfrifon ac Adroddiadau) a darpariaethau'r weithred ymddiriedolaeth. Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r elusen a gan hynny am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Arwyddwyd gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig ar ran yr ymddiriedolaeth:

.....
Mr R Marc Jones CPFA
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151

Dyddiad:

ADRODDIAD YR ARCHWILIWR ANNIBYNNOL I'R YMDDIRIEDOLWYR O GRONFA ADDYSG BELLACH YNYS MÔN

Rwy'n adrodd i'r Ymddiriedolwyr ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017, a nodir ar dudalennau 7 i 14.

Priod gyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr a'r archwiliwr

Ymddiriedolwyr yr elusen sy'n gyfrifon am baratoi'r cyfrifon. Mae ymddiriedolwyr yr elusen yn ystyried nad oes angen archwiliad eleni o dan Adran 144 o Ddeddf Elusennau 2011 (Deddf 2011) a bod angen cynnal archwiliad annibynnol. Mae'r elusen yn paratoi cyfrifon ar y cyd ac rwy'n gymwysedig i gynnal yr archwiliad gan fy mod yn aelod cymwysedig o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig yng Nghymru a Lloegr.

Fy nghyfrifoldeb yw:-

- archwilio'r cyfrifon o dan Adran 145 o Ddeddf 2011;
- dilyn gweithdrefnau yn y Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol o dan Adran 145(5) o Ddeddf 2011; a
- datgan p'un ai y tynnwyd fy sylw at faterion penodol.

Sail adroddiad yr archwiliwr annibynnol

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â'r Cyfarwyddiadau Cyffredinol a roddwyd gan y Comisiwn Elusennol. Mae archwiliad yn cynnwys adolygiad o'r cofnodion cyfrifon a gadwyd gan yr elusen ac yn cymharu'r cyfrifon a gyflwynwyd â'r cofnodion hynny. Mae hefyd yn cynnwys ystyried unrhyw eitemau neu ddatgeliadau anarferol yn y cyfrifon, ac yn ceisio esboniad gennyh chi fel ymddiriedolwyr ynghylch unrhyw faterion o'r fath. Nid yw'r gweithdrefnau a gynhaliwyd yn darparu'r holl dystiolaeth y byddai ei hangen mewn archwiliad ac, o ganlyniad, ni roddir unrhyw farn p'un ai a yw'r cyfrifon yn cyflwyno 'darlun cywir a theg' ac mae'r adroddiad wedi'i gyfyngu i'r materion hynny a nodir yn y datganiad isod.

Datganiad yr archwiliwr annibynnol

Rwyf wedi cwblhau fy archwiliad. Gallaf gadarnhau nad oes unrhyw fater o bwys wedi dod i fy sylw mewn perthynas â'r archwiliad sy'n rhoi rheswm i mi greu:-

- (1) nad yw cofnodion cyfrifo mewn perthynas â'r Ymddiriedolaeth wedi cael eu cadw'n unol ag Adran 130 y Ddeddf; neu
- (2) nad yw'r cyfrifon yn cyd-fynd â'r cofnodion hynny; neu
- (3) nad yw'r cyfrifon yn cydymffurfio gyda'r gofynion perthnasol o ran ffurf a chynnwys y cyfrifon a nodir yn Rheoliadau Elusennol (Cyfrifon ac Adroddiadau) 2008 ac eithrio unrhyw ofyniad bod y cyfrifon yn 'adlewyrchiad cywir a theg' sydd ddim yn fater a ystyrir fel rhan o archwiliad annibynnol.

Nid oes gennyf unrhyw bryderon ac nid wyf wedi dod ar draws unrhyw faterion eraill mewn perthynas â'r archwiliad y dylid dwyn sylw atynt yn yr adroddiad hwn er mwyn sicrhau y gellir deall y cyfrifon yn iawn.

Mr Brian Hughes
A Hughes-Jones, Dyson and Co.
Capel Moreia
De Penrallt
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1NS

Arwyddwyd _____ Dyddiad: _____

DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

					31.3.17	31.3.16
	Nodiadau	Cronfeydd anghyfyngedig £	Cronfeydd cyfyngedig £	Cronfeydd waddol £	Cyfanswm cronfeydd £	Cyfanswm cronfeydd £
Incwm a gwaddol o :						
Incwm buddsoddi	2	-	3,943	134,694	138,637	106,023
Cyfanswm Incwm		-	3,943	134,694	138,637	106,023
Gwariant ar :						
Rheoli buddsoddiad	3	-	-	53,184	53,184	195,114
Gweithgareddau Elusennol	4	-	1,000	-	1,000	-
Costau Cefnogi	5	-	1,080	10,641	11,721	11,573
Cyfanswm Gwariant		-	2,080	63,825	65,905	206,687
Enillion/(colledion) net ar fuddsoddiadau			15,892	14,238	30,130	12,791
Incwm /(Gwariant) Net		-	17,755	85,107	102,862	87,873
Eitem eithriadol: Amhariad		-	-	446,203	446,203	-
Incwm (Gwariant) Net ar ôl eitemau eithriadol		-	17,755	361,096	343,341	87,873
Symuniadau Net ar Gronfeydd		-	17,755	361,096	343,341	87,873
Cysoni Cronfeydd Cyfanswm cronfeydd a ddygwyd ymlaen		-	429,998	2,749,222	3,179,220	3,267,093
Cyfanswm cronfeydd wedi'u cario drosodd		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220

MANTOLEN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

					31.3.17	31.3.16
	Nodiadau	Cronfeydd anghyfyngedig	Cronfeydd cyfyngedig	Cronfeydd waddol	Cyfanswm cronfeydd	Cyfanswm cronfeydd
		£	£	£	£	£
Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar gyfnwidfa stoc gydnanyddedig	7a	-	107,231	153,593	260,824	223,504
Eiddo y buddsoddwyd ynddynt - Ystâd David Hughes	7b	-	-	2,416,550	2,416,550	2,184,398
Cyfanswm Asedau Sefydlog		-	107,231	2,570,143	2,677,374	2,407,902
Asedau Cyfredol						
Dyledwyr	8	-	-	67,382	67,382	42,439
Arian yn y banc ac mewn llaw	9	-	343,077	- 239,779	103,298	792,324
Cyfanswm Asedau Cyfredol		-	343,077	- 172,397	170,680	834,763
Rhwymedigaethau Credydwyr: Symiau'n ddyledus mewn blwyddyn	10	-	2,555	9,620	12,175	63,445
Asedau Cyfredol Net neu (Rwymedigaethau)		-	340,522	- 182,017	158,505	771,318
Credydwyr: Symiau'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn		-	-	-	-	-
Darpariaethau ar gyfer		-	-	-	-	-
Rhwymedigaethau		-	-	-	-	-
Cyfanswm Asedau Net neu Rwymedigaethau		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220
Cronfeydd yr Elusen	11a & 11b					
Cronfeydd Gwaddol		-	-	2,388,126	2,388,126	2,749,222
Cronfeydd Incwm Cyfyngedig		-	447,753	-	447,753	429,998
Cyfanswm Cronfeydd Elusennol		-	447,753	2,388,126	2,835,879	3,179,220

Arwyddwyd y datganiadau ariannol gan Bennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a Swyddog Adran 151 o dan awdurdod dirprwyedig

Arwyddwyd: _____ Dyddiad: _____

MR R MARC JONES CPFA
PENNAETH SWYDDOGAETH (ADNODDAU)/SWYDDOG ADRAN 151

NODIADAU I'R DATGANIAD ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU
31 MAWRTH 2017

1. POLISIÄU CYFRIFYDDU

Sail cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol dan yr arfer cost hanesyddol ac eithrio buddsoddiadau, sy'n cael eu cynnwys ar sail eu gwerth ar y farchnad, fel yr addaswyd drwy ailbriso asedau penodol ac yn unol â'r SORP Elusennau (FRS102) (a ddaeth i rym Ionawr 2015), Deddf Elusennau 2011 a gofynion y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir, Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau.

Adnoddau a dderbyniwyd

Caiff yr holl adnoddau a dderbynnir eu cydnabod unwaith y mae gan yr elusen hawl i'r adnoddau, ei bod yn sicr y derbynnir yr adnoddau ac y gellir mesur gwerth ariannol yr adnoddau a dderbynnir yn ddigon dibynadwy.

Adnoddau a wariwyd

Cyfrifir gwariant ar sail gronnus ac mae wedi'i ddsbarthu o dan benawdau sy'n cyfuno'r holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli'r costau'n uniongyrchol o dan benawdau penodol, maent wedi eu dyrannu i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o adnoddau.

Costau cynhyrchu arian

Mae costau cynhyrchu arian yn gyson â chostau rheoli buddsoddiad.

Eiddo y buddsoddiwyd ynddynt

Dangosir eiddo y buddsoddiwyd ynddynt ar sail y prisiad mewnol mwyaf diweddar. Caiff unrhyw warged cyfun neu ddiffyg ariannol yn sgil newidiadau mewn gwerth ar y farchnad ei drosglwyddo i'r gronfa waddol.

Treth

Mae'r elusen wedi'i heithrio rhag treth ar ei gweithgareddau elusennol.

Treth ar Werth

Gall yr elusen hawlio Treth ar Werth yn ôl trwy ei hymddiriedolwr, Cyngor Sir Ynys Môn, felly, lle mae'n briodol, dangosir gwariant yn net o Dreth ar Werth.

Strwythur y gronfa

Mae gan yr elusen dair cronfa, un gronfa waddol a dwy gronfa gyfyngedig.

Ystâd Elusennol David Hughes (Cronfa Waddol)

Mae'r gronfa hon yn casglu rhenti o'r eiddo y buddsoddiwyd ynddynt a llog ar ei fuddsoddiadau. Caiff costau rheoli a gweinyddu'r ystâd eu didynnu o'r rhenti er mwyn cyfrifo'r incwm net am y flwyddyn y gellir ei ddsbarthu.

Gwneir taliad o chwarter yr incwm net i elusen heb gysylltiad, "Elusen y Tlodion David Hughes" i ddibenion yn gysylltiedig â lliniaru tlodi yng nghymuned Llantrisant.

Mae gweddill yr incwm yn ffurfio Cronfa Addysg Bellach Ynys Môn, sy'n cael ei rhannu'n ddwy.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 1/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae traean o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei dyrannu i ddarparu budd arbennig o unrhyw fath, nad yw fel arfer yn cael ei ddarparu gan yr Awdurdod i helpu disgyblion hŷn i offen eu cyrsiau yn unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun - y pum ysgol uwchradd a gynhelir gan y Cyngor Sir.

Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn 2/3 (Cronfa Gyfyngedig)

Mae'r ddwy ran o dair sy'n weddill o Gronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn ar gael i rai o dan 25 oed, sydd wedi mynychu unrhyw un o'r ysgolion sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun am o leiaf ddwy flynedd, ag angen cymorth ariannol arnynt ar gyfer Addysg Bellach neu Uwch neu hyfforddiant. Nid oes gan yr elusen unrhyw incwm anghyfyngedig.

Asedau sefydlog y buddsoddwyd ynddynt

Caiff buddsoddiadau eu datgan ar sail eu gwerth ar y farchnad ar ddyddiad y fantolen. Mae datganiad y gweithgareddau ariannol yn cynnwys enillion a cholledion net yn codi o ailbrisio a gwarediadau drwy'r flwyddyn.

Enillion a cholledion a wireddwyd

Mae'r holl enillion a cholledion yn cael eu cynnwys ar y Datganiad o Weithgareddau Ariannol wrth iddynt godi. Caiff enillion a cholledion a wireddwyd ar fuddsoddiadau eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng enillion gwerthiant a gwerth y farchnad agored (dyddiad prynu os yw'n hwyrach). Caiff enillion a cholledion na wireddwyd eu cyfrifo fel y gwahaniaeth rhwng gwerth y farchnad ar ddiwedd y flwyddyn a gwerth y farchnad agored (dyddiad prynu os yw'n hwyrach). Nid yw enillion a wireddwyd ac na wireddwyd wedi'u nodi ar wahân yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol.

2. INCWM BUDDSODDI

Incwm Buddsoddi	Cronfeydd Cyfyngedig	Cronfeydd Gwaddol	Cyfanswm 31.03.17	Cyfanswm 31.03.16
	£	£	£	£
Rhenti a dderbyniwyd	-	100,456	100,456	85,119
Trethi dŵr - ad-daliadau	-	3,968	3,968	4,791
Incwm arall o Ystâd David Hughes	-	26,663	26,663	6,028
Difidendau a llog buddsoddiad	2,983	4,278	7,261	7,241
Llog arall	960	671	289	2,844
Cyfanswm Incwm Buddsoddi	3,943	134,694	138,637	106,023

3. COSTAU RHEOLI BUDDSODDIAD

Costau Rheoli Buddsoddiad	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Trwsio a Chynnal a Chadw Ystâd David Hughes	-	25,019	25,019	156,241
Taliadau Dŵr	-	6,130	6,130	11,683
Gwasanaethau Proffesiynol	-	22,035	22,035	27,067
Costau eraill i eiddo	-	-	-	2,680
Ffioedd Rheoli Buddsoddiadau - buddsoddiadau ar wahân i eiddo	-	-	-	(2,557)
Cyfanswm Costau Rheoli Buddsoddiad	-	53,184	53,184	195,114

4. GWEITHGAREDDAU ELUSENNOL

Gwariant Elusennol	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Cyfraniad o 25% o wariant net i Elusen y Tlodion David Hughes	-	-	-	-
Grantiau Addysg i Unigolion	1,000	-	1,000	-
Cyfanswm Gwariant Elusennol	1,000		1,000	-

Mae'r Ymddiriedolaeth yn defnyddio'r eithriad a ganiateir o dan y Gyfraith Elusen a'r SORP i gadw enwau'r rhai sy'n derbyn grant yn gyfrinachol.

5. COSTAU CEFNOGI

Costau Cefnogi	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Costau gweinyddu a rheoli eiddo	-	8,250	8,250	8,250
Costau cyfrifo a cefnogi	655	1,966	2,621	2,373
Tâl yr Archwiliwr Annibynnol	425	425	850	950
Cyfanswm Costau Cefnogi	1,080	10,641	11,721	11,573

6. TÂL A BUDDION YR YMDDIRIEDOLWYR

Costau'r Ymddiriedolwyr

Ni thalwyd costau unrhyw ymddiriedolwyr am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 nac am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2016. Mae hyn yn gysylltiedig â'r Ymddiriedolwr, hynny yw, aelodau'r Pwyllgor Gwaith ac Uwch Dîm Arweinyddiaeth Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu ar ei ran. Gweler y nodyn parti cysylltiedig mewn cysylltiad â'r ffioedd a dalwyd i'r ymddiriedolwr corfforaethol am gostau ariannu a gweinyddu'r eiddo.

7. BUDDSODDIADAU

Enillion / (colledion) net	Cronfeydd Cyfyngedig £	Cronfeydd Gwaddol £	Cyfanswm 31.03.17 £	Cyfanswm 31.03.16 £
Enillion / (colledion) ar Gronfeydd Buddsoddi a restrwyd	15,892	21,428	37,320	- 8,967
Enillion(colledion) ar Eiddo y Buddsoddwyd ynddynt	-	7,190	7,190	21,758
Cyfanswm Enillion/(colledion) net	15,892	14,238	30,130	12,791

7a. BUDDSODDIADAU A RESTRWYD NEU A FASNACHWYD AR GYFNEWIDFA STOC GYDNABYDDEDIG

Buddsoddiadau a restrwyd neu a fasnachwyd ar gyfnewidfa stoc gydnabyddedig	31.03.17 £	31.03.16 £
Gwerth y Farchnad		
Ar 1 Ebrill	223,504	232,471
Ychwanegiadau	-	-
Gwarediadau	-	-
Ailbrisió	37,320	- 8,967
Trosglwyddiadau	-	-
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth	260,824	223,504

Nid oedd unrhyw asedau buddsoddi y tu allan i'r Deyrnas Unedig.

Mae'r buddsoddiadau'n bennaf yng Nghronfeydd Buddsoddi Cyffredin Charinco a Charishare gyda daliadau bach mewn giltiau ac acwiti. Dangosir buddsoddiadau ar sail eu gwerth ar y farchnad, y gwerth hanesyddol yw £67,029.

7b. EIDDO Y BUDDSODDWYD YNDDYNT

Eiddo y buddsoddwyd ynddynt	31.03.17 £	31.03.16 £
Gwerth y Farchnad		
Ar 1 Ebrill	2,184,398	2,187,000
Ychwanegiadau	710,545	-
Llai Gwarediadau	14	2,602
Llai Amhariadau	446,203	-
Enillion(colledion) Ailbrisió	(32,176)	-
Trosglwyddiadau	-	-
Gwerth llyfr ar 31 Mawrth	2,416,550	2,184,398

Mae Gwaddol David Hughes yn cynnwys 16 fferm a 2 ddarn o dir, gyda chyfanswm o 1,156.47 o erwau. Yn ystod y flwyddyn, gwerthwyd darn bach o dir yn Nhyddyn Gyfer ac, o ganlyniad, sicrhawyd cyfalaf o £25k. Enillodd yr ymddiriedolaeth bron i £25k drwy werthu'r tir hwn. Hefyd, prynodd yr elusen Fferm Hendre am £264k yn cynnwys costau prynu. Mae hyn yn gwneud y mwyaf o'r daliad yn Hendre i'r dyfodol. Hefyd, cynhaliwyd rhaglen adnewyddu a arweiniodd at wariant o £446k ac fe'i cwblhawyd yn sylweddol yn ystod y flwyddyn.

Prisiwyd yr Ystâd ym Mawrth 2017 a chyfanswm y gwerth oedd £2,416,550 ar sail defnydd presennol gan Barry Wyn Jones, Prisiwr Mewnol Ystadau Cyngor Sir Ynys Môn .

8. DYLEDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS MEWN BLWYDDYN

Dyledwyr: Symiau'n ddyledus mewn blwyddyn	31.03.17 £	31.03.16 £
Symiau y gellir eu hadennill mewn contractau	67,382	42,439
Cyfanswm Dyledwyr	67,382	42,439

9. ARIAN YN Y BANC

Mae hyn yn cynrychioli'r balans o fewn y cronfeydd ariannol a gedwir gan Gyngor Sir Ynys Môn ar ran Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn.

Arian yn y banc	Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3 £	Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3 £	Ystâd Elusennol David Hughes £	31.3.17 Cyfanswm Cronfeydd £	31.3.16 Cyfanswm Cronfeydd £
Adneuon banc	205,294	137,783	239,779	103,298	792,324

10. CREDYDWYR: SYMIAU'N DDYLEDUS MEWN BLWYDDYN

Credydwyr: Symiau'n dyledus mewn blwyddyn	31.03.17 £	31.03.16 £
Credydwyr eraill	12,175	63,445
Cyfanswm Credydwyr	12,175	63,445

Mae gostyngiad sylweddol mewn credydwyr ar 31 Mawrth 2017 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Y rheswm am hyn yw bod nifer sylweddol o anfonebau am waith trwsio a chynnal a chadw heb eu talu ar 31 Mawrth 2016. Cwblhawyd yn sylweddol y rhaglen drwsio ac adnewyddu yn ystod 2016/17 ac, o ganlyniad, roedd anfonebau credydwyr gwerth is heb eu talu ar ddiwedd y flwyddyn.

11. SYMUDIAD CRONFEYDD

11a.

Symudiad Cronfeydd	Ar 01/04/16 £	Symudiad Cronfeydd Net £	Ar 31.03.17 £
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3	265,778	13,603	279,381
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3	164,221	4,152	168,373
Cronfeydd Cyfyngedig	429,999	17,755	447,754
Ystâd Elusenol David Hughes	2,749,221	- 361,096	2,388,125
Cyfanswm Cronfeydd	2,749,220	- 343,341	2,835,879

11b. Mae symudiad net mewn cronfeydd, sydd wedi'u cynnwys uchod fel a ganlyn :-

Symudiad net mewn cronfeydd wedi'u cynnwys yn yr uchod yw:	Adnoddau Incwm £	Gwariant £	Enillion a Cholledion £	Symudiad Cronfeydd £
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 1/3	2,598	- 540	11,545	13,603
Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2/3	1,345	- 40	4,347	4,152
Cronfeydd Cyfyngedig	3,943	- 2,080	15,892	17,755
Ystâd Elusenol David Hughes	134,694	- 510,028	14,238	- 361,096
Cyfanswm Cronfeydd	138,637	- 512,108	30,130	-343,341

12. DATGELIADAU PARTI CYSYLLTIEDIG

Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cael ei gweinyddu gan Gyngor Sir Ynys Môn. Codwyd ffi weinyddol o £8,250 (£8,250 yn 2015/16) gan y Cyngor ar gyfer gweinyddu Ystâd David Hughes. Hefyd, codwyd ffi lywodraethu a rheolaeth ariannol o £2,621 ar yr ymddiriedolaeth. Felly, roedd cyfanswm ffioedd ariannol a gweinyddol a ad-dalwyd gan y cyngor yn £10,871. Darparwyd Gwasanaethau Pensaernïol mewn perthynas â thrwsio ac adnewyddu'r Ystâd yn fewnol a chodwyd £22,035 ar yr ymddiriedolaeth yn 2016/17 (£21,833 yn 2015/16).

Oherwydd natur gwaith yr elusen ac oherwydd mai Cyngor Sir Ynys Môn yw'r unig ymddiriedolwr, mae'n anochel y bydd trafodion ariannol yn digwydd gyda sefydliadau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor a'i staff. Rhaid i'r holl drafodion sy'n ymwneud â sefydliadau y mae gan Gyngor Sir Ynys Môn ddiddordeb ynddynt eu cynnal hyd braich. Mae gan y Cyngor bolisi bod yn rhaid i bob Cyngorydd ac aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ddatgan diddordeb os digwydd trafodion gan barti cysylltiedig.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26/3/18
Pwnc:	Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid 2018-23
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Alun Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Elliw Llyr 01248 752137 ElliwLlyr@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Dd/b

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>A1. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:- Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid i fynd i ymgynghoriad</p> <p>Rhesymau Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod Landlordiaid Cymdeithasol yn cytuno a chyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad ar gyfer Gwasanaethau Tai. Drwy ddarparu Strategaeth sydd yn cynnig amrediad o ddulliau cymryd rhan gall Tenantiaid ddewis sut a phryd maent yn dymuno cymryd rhan.</p> <p>1.0 Cefndir Mae gan bob tenant tai cymdeithasol a phrydles hawl i gael eu hymgyngori ac i fod yn rhan o weithgareddau cyfranogiad tenantiaid. Pwrpas y Strategaeth Cyfranogiad Lleol Tenantiaid yw sicrhau bod Tenantiaid yn deall beth yw cyfranogiad tenantiaid a sut gallant gymryd rhan. Fel landlord cymdeithasol mae angen i Gyngor Ynys Môn gael SCLLT er mwyn cydymffurfio gyda Strategaeth Genedlaethol LLC ar Gyfranogiad, 2007. Mae Tenantiaid a Staff wedi cymryd rhan i ddatblygu'r Strategaeth hon drwy gyfres o gyfarfodydd a holiaduron. Nod ac Amcanion y Strategaeth yw: Annog tenantiaid i weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn i ddylanwadu ar, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir Byddwn yn gwneud hynny drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Darparu ystod o opsiynau ystyrllon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisïau, amodau a gwasanaethau tai • Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid • Rhoi gwybod i denantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt • Sicrhau y caiff Cyfranogiad Tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr Adran • Cefnogi Tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt

Mae cyfres o 5 gweithdy wedi ei gynnal ar y cyd a dyma sylwadau un o'r tenantiaid:
'mi rydwyf wedi cael cyfle i roi mewnbwn a dylanwadu'r Strategaeth'. ' Mae gen i well dealltwriaeth sut mae Gwasanaethau Tai yn gweithio rŵan'.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Bydd peidio cael Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid cyfredol mewn lle yn golygu na fyddai modd mesur effaith mae tenantiaid yn ei gael ar wella gwasanaethau tai

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Fel bod y Cyngor wedi rhoi sêl bendith bod Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn bwysig

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

ydi

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi, wedi ei gynnwys o fewn Cynllun Refeniw Tai

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Dim sylwadau
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Dim sylwadau
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Dim sylwadau
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Sgriwtini	Cyflwynwyd y Strategaeth drafft i'r Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar y 8 Mawrth 2018. Penderfynwyd y Pwyllgor argymhell bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Strategaeth i fynd i ymgynghoriad

8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Ddim wedi eu hadnabod
2	Gwrthdodi	Ddim wedi eu hadnabod
3	Trosedd ac Anhrefn	Ddim wedi eu hadnabod
4	Amgylcheddol	Ddim wedi eu hadnabod
5	Cydraddoldebau	Ddim wedi eu hadnabod
6	Cytundebau Canlyniad	Ddim wedi eu hadnabod
7	Arall	

F - Atodiadau:
Strategaeth Cyfrangoiad Lleol Tenantiaid

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):

Y DDALEN FLAEN

Manylion cyswllt y tîm Cyfranogiad Tenantiaid:

Rhif Ffôn: 01248 752166

E-bost: tenant@ynysmon.gov.uk

<u>Eitem</u>	<u>Disgrifiad</u>	<u>Tudalen</u>
1	Rhagair	2
2	Cyflwyniad	3
3	Nodau ac amcanion Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 – 2023	4
4	Monitro'r Strategaeth	5
5	Adnoddau i gyflawni'r Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid	5
6	Cydraddoldeb ac amrywiaeth	5
7	Datblygu Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018	6
8	Y cyd-destun cenedlaethol a lleol	7
9	Cyfleoedd i gymryd rhan	8
10	Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2015 – 2018; Pa mor dda berfformion ni?	12
	Cynllun Gweithredu 2018/19	17

1 Rhagair



“ Rwy'n falch o gyflwyno Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 - 2023 Ynys Môn.

Fel Cyngor, rydym yn cydnabod pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth â thenantiaid i wella gwasanaethau. Mae tenantiaid wedi bod wrth wraidd ein gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd ac mae hyn wedi ein helpu i weithio tuag at ein gweledigaeth, 'cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy'.

Mae'r strategaeth hon yn adeiladu ar lwyddiant y strategaethau blaenorol ac yn dangos ein hymrwymiad parhaus i gyfranogiad tenantiaid.

Mae hwn yn amser arbennig o gyffrous i gymryd rhan mewn cyfranogiad tenantiaid gan fod llawer o newidiadau yn digwydd o fewn y Gwasanaethau Tai. Yn dilyn diwygio'r Cyfrif Refeniw Tai, rydym yn ariannu'n hunain, sy'n golygu bod gennym lawer mwy o hyblygrwydd i reoli ein stoc dai a gwella amodau tai. Mae gan denantiaid rôl allweddol i'w chwarae wrth sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol a'n bod yn rhoi gwerth am arian.

Yn ogystal, mae angen cefnogaeth ein tenantiaid a'n partneriaid arnom i'n helpu ni i ymateb yn gadarnhaol i'r heriau a ddaw gan Ddiwygiad Lles a Lleihau gwariant cyhoeddus, gan ddefnyddio arloesedd.

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch i bawb sydd wedi cyfrannu at ddatblygu'r Strategaeth newydd. Rwy'n gobeithio y bydd yn annog mwy o denantiaid i gymryd rhan. Edrychaf ymlaen at weithio gyda chi yn y dyfodol". **Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai**

2 Cyflwyniad

Beth yw Cyfranogiad Tenantiaid?

Mae Cyfranogiad Tenantiaid yn golygu tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio i rannu gwybodaeth a syniadau i wella gwasanaethau tai.

Gall tenantiaid ddylanwadu ar benderfyniadau ynghylch:

- Polisiâu tai
- Amodau tai
- Gwasanaethau tai

Gall Cyfranogiad Tenantiaid fod o fantais i denantiaid a landlordiaid



Beth yw'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid (LTPS)?

Mae gan yr holl denantiaid tai cymdeithasol a lesddeiliaid yr hawl i gael ymgynghoriad a chymryd rhan mewn gweithgaredd cyfranogiad tenantiaid. Pwrpas y Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid yw sicrhau bod tenantiaid yn deall beth yw cyfranogiad tenantiaid a sut y gallant gymryd rhan.

Fel landlord cymdeithasol mae'n rhaid i Gyngor Ynys Môn fod ag LTPS yn ei lle i gydymffurfio â Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid Llywodraeth Cymru 2007.

Mae'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a'r Cynllun Gweithredu yn amlinellu ymrwymiad Cyngor Ynys Môn i gyfranogiad tenantiaid a'i nod yw:

- ✓ Rhoi gwybod i denantiaid beth yw cyfranogiad tenantiaid a'r manteision allweddol
- ✓ Amlygu ystod y cyfleoedd sydd ar gael i gymryd rhan
- ✓ Egluro sut caiff y gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid ei gyflwyno a'i gefnogi a sut y caiff adnoddau ar ei gyfer yn ystod 2018 - 2023 (yn cynnwys cynllun gweithredu 12 mis)
- ✓ Egluro sut caiff y gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid ei fonitro

3 Nod ac Amcanion LTPS 2018 – 2023

Nod Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid 2018 - 2023 yw:

“Annog tenantiaid i weithio mewn partneriaeth gyda Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn i ddylanwadu ar, a gwella'r gwasanaethau a ddarperir”.

Y pum amcan allweddol a fydd yn helpu i gwrdd â'r nod cyffredinol yw

	<u>Amcanion allweddol</u>	<u>Canlyniadau arfaethedig</u>
A	Darparu ystod o opsiynau ystyrlon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisiau, amodau a gwasanaethau tai.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth gwell. • Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. • Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau • Gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn hawdd cael atynt. • Ymgynghoriadau'n cynrychioli'r tenantiaid yn ehangach.
B	Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. • Mae tenantiaid yn deall yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniad. • Gwasanaeth gwell. • Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. • Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau • Tenantiaid yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys yn well yn ddigidol a'u cysylltu drwy'r dechnoleg. • Gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn hawdd cael atynt. • Ymgynghoriadau'n cynrychioli'r tenantiaid yn ehangach.
C	Rhoi gwybod i denantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.	<ul style="list-style-type: none"> • Mae tenantiaid yn teimlo eu bod yn cael gwybodaeth am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. • Mae tenantiaid yn deall yr hyn sydd wedi newid o ganlyniad i'w cyfraniad. • Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. • Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau
CH	Sicrhau y caiff Cyfranogiad Tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr Adran.	<ul style="list-style-type: none"> • Gwasanaeth gwell. • Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. • Mae tenantiaid yn cael dylanwad uniongyrchol ar wneud penderfyniadau • Swyddogion yn deall pwysigrwydd Cyfranogiad Tenantiaid.
D	Cefnogi Tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt	<ul style="list-style-type: none"> • Tenantiaid yn dysgu mwy am Ddiwygiad Lles • Tenantiaid yn cael mwy o hyder i ymdrin â heriau Diwygiad Lles • Llai o ddyledion Rhent

Bob blwyddyn bydd gan yr LTPS Gynllun Gweithredu cyfredol yn ei le i esbonio sut caiff y gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid ei gyflawni. Bydd yn cynnwys:

- Y tasgau a wneir i gyflawni pob amcan.
- Amserlenni; pa bryd gaiff y dasg ei chwblhau.
- Canlyniadau arfaethedig pob tasg (pa wahaniaeth fydd yn cael ei wneud).
- Sut bydd y canlyniadau'n cael eu mesur.

4 Monitro'r strategaeth

Bydd Cynllun Gweithredu 12 mis y Strategaeth yn cael ei fonitro'n chwarterol gan y grŵp monitro SLCT a bydd adroddiad cynnydd blynyddol yn cael ei baratoi ar gyfer y Bwrdd Tai.

Mae'r grŵp Monitro SLCT yn grŵp ffurfiol a sefydlwyd i fonitro gweithrediad y Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid. Mae aelodaeth wedi ei chyfyngu i 10 aelod ac mae'n cynnwys yr un nifer o Swyddogion Tai a thenantiaid.

I fonitro'r cynnydd, bydd y grŵp yn cyfarfod unwaith bob tri mis i edrych ar y cynllun gweithredu a phenderfynu:

- A ydym wedi cyflawni'r hyn y dywedasom y byddem yn ei gyflawni? Os ddim, pam ddim?
- A ydym ni wedi sicrhau gwerth am arian? Os ddim, pam ddim?

Bydd y grŵp hefyd yn cytuno:

- Yr hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ystod y tri mis nesaf.
- A oes angen newid y blaenoriaethau yn y cynllun gweithredu.

Mae copi o gylch gorchwyl y grŵp ar gael ar wefan y Cyngor www.anglesey.gov.uk

5 Adnoddau i gyflawni'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid

Er mwyn cydlynu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mae yna ddau Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid, y 'Tîm Cyfranogiad Tenantiaid'.

Mae cyllideb flynyddol o £ 102,000 i ariannu gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ac adnoddau staff. Er mwyn ychwanegu at y gyllideb, bydd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yn anelu at weithio mewn partneriaeth i gynnal gweithgareddau, bydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn helpu i sicrhau adnoddau anariannol megis offer ac amser a sgiliau swyddogion.

6 Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae gan bob tenant yr hawl i gyfranogi ac am y rheswm hwnnw nod y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yw sicrhau bod gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn agored ac ar gael i bawb:

- Cynhelir gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mewn lleoliadau hygyrch
- Cynhelir gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid ar wahanol adegau ac mewn gwahanol leoliadau.
- Cynigir cludiant am ddim a gofal plant.
- Mae gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid yn ddwyieithog ac mae tenantiaid yn gallu defnyddio'u dewis iaith.
- Darperir gwybodaeth mewn gwahanol ffurfiau megis print bras a braille (ar gais).

Mae Gwasanaethau Tai wedi ymrwmo i hyrwyddo cydraddoldeb a chael gwared â gwahaniaethu anghyfreithlon mewn perthynas â'r naw nodwedd warchoddedig fel y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010; Oedran, Ailbennu rhywedd, Hil, Rhyw, Cyfeiriadedd rhywiol, Anabledd, Priodas a phartneriaeth sifil, Beichiogrwydd a Mamolaeth, Crefydd neu gred.

7 Datblygu Strategaeth 2018


Gan fod Cyfranogiad Tenantiaid yn golygu tenantiaid a landlordiaid yn cydweithio, roedd yn bwysig bod y strategaeth yn cael ei hysgrifennu mewn partneriaeth â thenantiaid.

Er mwyn datblygu'r strategaeth, estynnwyd gwahoddiad i denantiaid a Swyddogion Tai gymryd rhan mewn grŵp ffocws.

Math o weithgaredd cyfranogiad tenantiaid yw grŵp ffocws a ddefnyddir i gasglu adborth a barn ar bwnc penodol. Cynhelir grŵp ffocws dros gyfnod byr o amser ac fe'i bwriedir i sicrhau y cyflawnir y canlyniad terfynol.

Hwyluswyd y grŵp ffocws a sefydlwyd i ysgrifennu'r Strategaeth Leol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid gan TPAS Cymru, corff annibynnol sy'n cefnogi landlordiaid a thenantiaid i ddarparu gwasanaeth cyfranogiad tenantiaid effeithiol:

Amlinellir camau grŵp ffocws yr LTPS isod:



Mae gweithio mewn partneriaeth fel hyn:

1. Yn dangos ein hymrwymiad i gyfranogiad tenantiaid,
2. Yn dangos sut gall tenantiaid rannu eu barn a chael dylanwad ar
 - a. polisi tai a
 - b. darparu gwasanaethau tai.

Beth ydym yn gobeithio'i gyflawni trwy weithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r LTPS?

1. Mae tenantiaid yn teimlo'n hyderus y gallant rannu eu barn ac y byddir yn gwrandao arnynt.
2. Mae blaenoriaethau'r strategaeth yn adlewyrchu anghenion y tenantiaid a'r landlord.
3. Mae Swyddogion Tai yn deall manteision cyfranogiad tenantiaid.
4. Mae'r strategaeth yn ystyriol o'r tenant ac yn hawdd ei deall.

Bydd hyn yn cael ei fonitro gan y grŵp Monitro SLCT (gweler tudalen 5).

8 Y cyd-destun cenedlaethol a lleol

Er mwyn sicrhau bod Cyfranogiad Tenantiaid wrth wraidd darparu gwasanaethau, rhaid datblygu gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid yn unol â blaenoriaethau busnes y Gwasanaethau Tai. Dylanwadir ar y blaenoriaethau hyn gan bolisi a deddfwriaeth Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Polisi a deddfwriaeth genedlaethol y DU a Llywodraeth Cymru sy'n cael effaith ar flaenoriaethau busnes y Gwasanaethau Tai ar hyn o bryd:

Mae'r Diwygiad Lles

Yn newid y system budd-daliadau lles a gweithredir arno mewn camau

Mae newidiadau y mae Diwygiad Lles (DLI) yn cael dylanwad arnynt yn debygol o gael effaith ar allu tenant i dalu ei rent

Mae angen i weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid baratoi tenantiaid am DLI

Mae Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2018

Bydd Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

Yn newid yr holl gytundebau tenantiaeth yng Nghymru

Yn dod â'r Hawl i Brynu i denantiaid Awdurdodau Lleol i ben

Bydd rhaid i denantiaid gael gwybod am y newidiadau hyn

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Liesiant (Cymru) 2014

Yn rhoi pobl wrth wraidd eu gwasanaethau iechyd, gofal a chymorth

Mae gan Awdurdodau rôl i'w chwarae mewn gwella iechyd a lles a chryfhau'r cysylltiadau rhwng iechyd a thai

Deddf Tai (Cymru) 2014

Nod deddf tai gyntaf erioed Cymru yw gwella'r cyflenwad tai yng Nghymru, eu hansawdd a'u safonau

Blaenoriaethau cyfredol sy'n debygol o gael effaith ar yr LTPS:

Mae'n ofynnol i ALLau fod â Strategaeth Atal Digartrefedd yn ei lle erbyn 2018.

Angen targedu adnoddau'n effeithiol a dangos gwerth am arian

Mae Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014

Yn defnyddio dull gweithredu newydd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae angen i bolisiâu tai a gwaith cyflawni gwasanaeth adlewyrchu'r newidiadau y mae'r Ddeddf yn dylanwadu arnynt.

Mae'r isod ymhlith blaenoriaethau busnes cyfredol y Gwasanaethau Tai:

- ✓ Paratoi tenantiaid ar gyfer Diwygiad Lles
- ✓ Lleihau tlodi tanwydd
- ✓ Gweithio tuag at Safon Amgylcheddol Ansawdd Tai Cymru
- ✓ Gwella'r defnydd a wneir o TG i gyflawni gwasanaethau tai a gwella cyfathrebu
- ✓ Cynyddu nifer y tai fforddiadwy
- ✓ Datblygu a gweithredu Strategaeth Ranbarthol ar Atal Digartrefedd
- ✓ Gweithredu Deddf Rhenti Cartrefi (Cymru) 2016
- ✓ Gweithredu Deddf Diddymu Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018

9 Cyfleoedd i gymryd rhan

Nod y tîm Cyfranogiad Tenantiaid yw cynnig ystod eang o weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn gallu 'cymryd rhan' mewn ffordd sy'n addas iddyn nhw. Y 'ddewislen opsiynau' yw'r enw ar hwn.

Cynigir gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid ar bedair lefel:

- ✓ Cyfarfodydd ffurfiol lefel uchel
- ✓ Cyfarfodydd anffurfiol lefel canolig
- ✓ Digwyddiadau cymunedol yn eich ardal
- ✓ Lefel isel yng nghysur eich cartref eich hun

Mae'r tabl ar dudalen 9 yn disgrifio'r dulliau Cyfranogiad Tenantiaid sydd ar gael ar hyn o bryd.



<u>Gweithgaredd</u>	<u>Disgrifiad</u>
<u>Cyfranogiad lefel isel – yng nghysur eich cartref</u>	
Llenwi holiadur neu arolwg (arolygon post, drws i ddrws, dros y ffôn neu ar lein)	Fe'u defnyddiwyd at ddibenion ymgynghori a chael adborth tenantiaid.
Darllen Cylchlythyr Llais Môn i Denantiaid ac anfon adborth atom	Fe'u defnyddiwyd i rannu gwybodaeth gyda thenantiaid.
<u>Cyfranogiad lefel isel – digwyddiad yn eich ardal</u>	
Sioe Deithiol yr Adran Dai yn cynnwys cerdded o amgylch stadau	<p>Mae sioeau teithiol yn gweithredu o drelar ar stad a'r nod yw codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau, y wybodaeth a'r cymorth sydd ar gael i denantiaid.</p> <p>Mae'r daith gerdded o amgylch y stad yn gyfle i denantiaid ddweud wrthym am unrhyw faterion amgylcheddol sy'n peri pryder i bobl leol, mae hyn yn ein helpu i weithio tuag at sicrhau bod tenantiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o'u hardal.</p>
Diwrnod glanhau'r gymuned.	<p>Nod diwrnod Glanhau'r Gymuned yw grymuso tenantiaid i ymfalchïo yn eu hardal leol.</p> <p>Mae sgipiau ar gael trwy gydol y digwyddiad a chaiff tenantiaid (o'r ardal benodol) eu hannog i ddefnyddio'r sgipiau i gael gwared ag eitemau o'r cartref nad oes eu hangen mwyach.</p> <p>(Cais trwy'r gronfa gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned)</p>
Prosiectau amgylcheddol	<p>Nod digwyddiadau cymunedol yw cefnogi tenantiaid i deimlo'n falch o lle maent yn byw a theimlo'n ddiogel yno er enghraifft, creu rhandiroedd cymunedol neu ardd synhwyaidd.</p> <p>(Cais trwy'r gronfa gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned)</p>
Cronfa Gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned	Mae'r Gronfa Gwella'r Amgylchedd a'r Gymuned yn fodd i denantiaid wneud cais am grant gwerth hyd at £5000 o welliannau amgylcheddol neu sefydlu prosiect amgylcheddol yn cynnwys diwrnod glanhau'r gymuned
Hyfforddiant i denantiaid	Mae hyfforddiant ar gael i denantiaid i'w cefnogi. Gall yr hyfforddiant gynnwys cefnogaeth i gyfranogi'n effeithiol e.e. hyfforddiant i aelod o bwyllgor neu gymorth i gynnal eu tenantiaethau megis sgiliau cyllidebu.
Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr	Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr yw grŵp o denantiaid a phreswylwyr sy'n dod at ei gilydd i gynrychioli stad, cymdogaeth, stryd neu floc o fflatiau, ei aelodau fydd yn penderfynu ar yr union rôl. Er enghraifft gall Cymdeithas Tenantiaid a Phreswylwyr weithio gyda'r Cyngor i wella'r amgylchedd a'r cyfleusterau ar eu stad neu helpu i wella gwasanaethau tai rheng flaen.
Prosiect rhwng cenedlaethau	Mae Prosiectau Rhwng Cenedlaethau'n cynnwys cenedlaethau gwahanol o'r gymuned yn gweithio gyda'i gilydd i gyflawni nod, er enghraifft, pobl ifanc yn dysgu pobl hŷn sut i ddefnyddio cyfrifiadur.
<u>Cyfranogiad lefel canolig– cyfarfodydd anffurfiol</u>	

Fforwm Tai Gwarchod	<p>Sefydlwyd Fforwm Tai Gwarchod Môn yn 2007 ac mae'n agored i bob tenant sy'n byw mewn llety gwarchod.</p> <p>Nod y Fforwm Tai Gwarchod yw: rhannu gwybodaeth am wasanaethau a gwella iechyd a lles tenantiaid trwy godi hyder tenantiaid sy'n cymryd rhan a lleihau arwahanrwydd.</p>
<u>Cyfranogiad lefel uchel– cyfarfodydd ffurfiol</u>	
Grŵp Tasg a Gorffen	Math o weithgaredd cyfranogiad tenantiaid yw grŵp ffocws a ddefnyddir i gasglu adborth a barn ar bwnc penodol. Cynhelir grŵp ffocws dros gyfnod byr o amser ac fe'i bwriedir i sicrhau y cyflawnir y canlyniad terfynol.
Grŵp Cyhoeddi	<p>Mae'r grŵp cyhoeddi'n sicrhau fod yr holl ddogfennau a lunir gan y Gwasanaethau Tai ar ffurf sy'n hawdd ei deall ac yn ystyrlon o denantiaid.</p> <p>Gallai dogfennau gynnwys yr isod: Cylchlythyr i Denantiaid, Taflenni, Llawlyfr i Denantiaid, Taflenni Ffeithiau'r Adran Dai</p>
Fforwm Trwsio a Chynnal	Mae'r fforwm trwsio'n monitro'r gwasanaeth trwsio a chynnal gan gynnwys bodlonrwydd cwsmeriaid. Y nod yw sicrhau fod y gwasanaeth yn gwella'n barhaus ac adnoddau'n cael eu targedu'n effeithiol.
Archwiliwr-Denant	Mae'r Grŵp Archwilio Tenantiaid yn gweithio gyda'r Gwasanaethau Tai i wella gwasanaethau i'r tenantiaid a'r landlord
Panel Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn	Panel strategol yw Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn o'r enw MOTV ac mae arno denantiaid a swyddogion tai sy'n cyfarfod yn chwarterol i fonitro cynnydd yr LTPS. Mae'r panel yn cytuno ar y blaenoriaethau ar gyfer gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid ac ar neilltuo'r gyllideb Cyfranogiad Tenantiaid er mwyn " <i>sicrhau gwerth am arian a gwelliant parhaus</i> "

Rhwystrau tenantiaid i gyfranogiad tenantiaid

Mae'r tabl isod yn crynhoi barn y grŵp ffocws LTPS ar y rhesymau pam na fydd tenantiaid yn gallu cymryd rhan mewn gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid a sut bydd y Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei addasu i geisio annog mwy o denantiaid i gymryd rhan.

	Rhwystyr	Sut bydd y Gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid yn cael ei addasu
Mewnol	Hyder y tenant	Bod yn groesawgar Cynnig system 'cyfaill'
	Iaith – gallai denantiaid deimlo nad ydynt yn deall y jargon	Defnyddio iaith glir wrth wahodd tenantiaid i gymryd rhan ac yn ystod cyfarfodydd
	Iechyd corfforol	Sicrhau fod lleoliadau a thrafnidiaeth yn ystyriol o'r anabl.
	Sgiliau llythrennedd - efallai y bydd tenantiaid yn meddwl y gofynnir iddynt ddarllen mewn cyfarfod neu efallai na fyddant yn deall y gwahoddiad i fynychu gweithgaredd.	Esbonio'r yr hyn a ddisgwylir gan denantiaid yn ystod cyfarfod. Sicrhau fod yr holl Swyddogion Tai yn ymwybodol o weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid i hyrwyddo'r opsiynau i gymryd rhan.
Allanol	Efallai y bydd tenantiaid yn amheus - na fydd y Cyngor yn gwrando ar eu barn.	Adborth ar yr holl weithgarwch cyfranogiad tenantiaid; dywedoch, gwnaethon neu dywedoch, nid oeddem yn gallu gwneud, oherwydd.
	Ymrwymadau gwaith	Amrywiol amseroedd cyfarfodydd
	Diffyg gwybodaeth	Angen hysbysebu mwy ar weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid.
	Ymrwymadau teuluol	Hyrwyddo'r cymhelliant gofal plant.
	Lleoliad - diffyg cludiant tenantiaid neu eu bod yn anfodlon teithio oherwydd ymrwymadau.	Amrywio lleoliad y cyfarfodydd.
	Arian	Hyrwyddo'r cymhelliant cost teithio
	Cod gwisg - efallai y bydd tenantiaid yn poeni am yr hyn i'w wisgo.	Dweud beth sydd i'w ddisgwyl o denantiaid yn ystod cyfarfod

10 2015 – 2018 Pa mor dda berfformion ni?

Er mwyn sicrhau gwelliant parhaus, cyn datblygu'r strategaeth hon roedd yn bwysig adolygu'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid a gyflwynir ar hyn o bryd a'r perfformiad yn erbyn LTPS 2015 - 2018.

Er mwyn adolygu'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid ymgynghorwyd â'r prif randdeiliaid rhwng 1 Tachwedd a 22 Rhagfyr 2017 a dadansoddwyd y canlyniadau gan y grŵp ffocws LTPS.

Yn y drydedd strategaeth canolbwyntiwyd ar wella cyfathrebu â thenantiaid, hyfforddi tenantiaid i gymryd rhan ar lefel strategol a monitro effaith cyfranogiad tenantiaid.

Gosodwyd 6 tharged allweddol:

1. **Cymryd rhan**; Darparu ystod o opsiynau cymryd rhan i sicrhau bod penderfyniadau yn ystyried barn tenantiaid.
2. **Cymorth**; Datblygu sgiliau, gwybodaeth a hyder tenantiaid i sicrhau y cymerir rhan yn effeithiol.
3. **Ymgynghori**; Cynyddu cyfranogiad tenantiaid o grwpiau na chânt eu cynrychioli ddigon i sicrhau bod canlyniadau ymgynghori'n adlewyrchu proffil tenantiaid Ynys Môn.
4. **Rhannu Gwybodaeth**; Gwella gwaith cyfathrebu â thenantiaid i sicrhau bod tenantiaid yn cael gwybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt ar ffurf sy'n addas iddynt.
5. **Gweithio mewn Partneriaeth**; Gweithio gyda phartneriaid i wella a chynyddu canlyniadau i'n tenantiaid a'r gymuned.
6. **Prif-ffrydio**; Sicrhau y caiff cyfranogiad tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd.

10.1 Llwyddiannau allweddol

Cymryd rhan

Cwblhaodd y grŵp Archwilio Tenantiaid ddau archwiliad o'r Siarter Gofal Cwsmer corfforaethol a rhoi gwybod i'r Bwrdd Gofal Cwsmeriaid Corfforaethol am eu canfyddiadau, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gwelliant.

Canlyniad: Roedd tenantiaid wedi dylanwadu ar wneud penderfyniadau ac mae gwasanaethau wedi gwella.

Sefydlu dau fforwm newydd; Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth. Ymgynghorwyd â'r fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ynghylch y polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol ac mae'n monitro'r modd y cyflwynir gwasanaethau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

Ymgynghorwyd â'r fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth ynghylch y Strategaeth Atal Digartref Interim ac mae'n monitro gweithrediad y Cynllun Gweithredu.

Canlyniad: Dylanwadodd tenantiaid ar bolisi tai, mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol ac mae gwasanaethau wedi gwella.

Gweithio mewn partneriaeth

Cynhaliwyd rhan helaethaf gweithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid mewn partneriaeth ag asiantaethau lleol. Bu hyn yn help i gynyddu'r cyfleoedd i gymryd rhan a chyfranogiad gan grwpiau nad oeddent yn cael eu cynrychioli ddigon, fel pobl ifanc.

Canlyniad: Hysbyswyd tenantiaid o wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. Roedd canlyniadau'r ymgynghoriad yn gynrychioliadol o'r corff tenantiaid ehangach. Gwasanaethau gwell a mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.

Cymorth

Derbyniwyd £ 10k

Arian Gofal Canolraddol; i gefnogi gwaith datblygu dau hyb cymunedol; 1 yn Llangoed a'r llall yn Llanddona (gan gynnwys *wifi* a gliniaduron am ddim).

Wedi darparu offer cyfrifiadurol a rhyngwyd am ddim am ddwy flynedd yn lolfra gymunedol Aberffraw a neuadd gymunedol Llanfaes.

Wedi prynu wyth ciosg cyfrifiaduron (sgrîn gyffwrdd) â mynediad at y rhyngwyd, mae'r rhain ar gael i'w defnyddio (yn rhad ac am ddim) mewn ardaloedd gwledig.

Canlyniad: Mae'r prosiectau hyn wedi helpu i gael mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid gan fod gan denantiaid y mae eithrio digidol yn cael effaith arnynt fynediad at offer. Mae ôl-ddyledion rhent yn llai wrth i denantiaid allu hawlio Credyd Cynhwysol.

Yn dilyn cais gan denantiaid sy'n defnyddio tanc nwy cymunedol am gymorth i leihau eu biliau tanwydd, datblygwyd prosiect menter, 'y frwydr yn erbyn tlodi tanwydd' a helpodd dros 250 o denantiaid y Cyngor oedd yn defnyddio nwy Calor, i ostwng eu biliau o 42c yr uned i 21c ac allan o dlodi tanwydd.

Canlyniad: Roedd tenantiaid wedi cael dylanwad ar gyflenwi gwasanaethau. Mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.

Ymgynghoriad

Tenantiaid yr ymgynghorir â nhw ynghylch Safonau Amgylcheddol Ansawdd Tai Cymru ac a gwblhaodd:

22 diwrnod glanhau cymunedol a
phum prosiect amgylcheddol.

Ymgynghorwyd â fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth ynghylch y Strategaeth Ddigartref Interim a'r Cynllun Gweithredu, a'r fforwm ymddygiad gwrthgymdeithasol ynghylch y polisi ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd.

Canlyniad: Mae tenantiaid wedi cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Mae adnoddau wedi'u targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith cwsmeriaid; mae tenantiaid yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o ble maent yn byw. Mae tenantiaid wedi cael eu grymuso i ymfalchïo yn eu hardal.

Prif-ffrydio

Lansio bwletin staff chwarterol i rannu gwybodaeth am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid ac adborth sut roedd cyfranogiad swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth. Cynyddodd hyn ymrwymiad staff i gymryd rhan mewn gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid.

Canlyniad: Mae tenantiaid yn cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol. Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid. Hysbyswyd tenantiaid o wasanaethau oedd yn cael effaith arnynt.

Rhannu Gwybodaeth

Lansio Porth Hunanwasanaeth Tenantiaid a helpodd i wella cyfathrebu â thenantiaid.

Sefydlu grŵp Ti a Fi cymunedol i gefnogi cydlyniant cymunedol a rhoi cyfle i famau ifanc ddatblygu eu medrau a'u hyder trwy gymryd rhan mewn sesiynau grŵp anffurfiol.

Parhau i hwyluso fforwm tai gwarchod llwyddiannus, a ddefnyddiwyd fel enghraifft o arfer da mewn sesiwn hyfforddi TPAS Cymu. Mae'r fforwm wedi helpu i hysbysu tenantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.

Canlyniad: Hysbyswyd tenantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. Mae tenantiaid yn cael dylanwad ar ddarparu gwasanaethau. Gwasanaethau gwell a mwy o foddhad ymhlith tenantiaid.

Gwobrau TPAS Cymru

Yn ystod 2015 – 2018 enillodd y tîm Cyfranogiad Tenantiaid bedair gwobr TPAS Cymru:

Y Wobr Gweithredu Cymunedol (nad yw'n amgylcheddol); *Y frwydr yn erbyn y fenter tloidi tanwydd.*

Gwobr Gwella Gwasanaethau; *Y frwydr yn erbyn y fenter tloidi tanwydd.*

Y Wobr Cynnwys Digidol; Porth Hunanwasanaeth Tenantiaid '*Fy Nghartref*'

Gwobrau Gwella Gwasanaethau; Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr y Gwasanaeth



Meysydd i'w gwella

Mae'r meysydd i'w gwella fel y nodwyd gan y grŵp ffocws LTPS yn cynnwys yr isod:

- Adolygu'r holl weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid; a ydyn nhw'n cyflawni gwerth am arian?
- Rhaid cynllunio a gwerthuso gweithgaredd Cyfranogiad Tenantiaid. Cofnodi'r canlyniadau gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau - beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r gweithgaredd cyfranogiad tenantiaid?
- Adborth i denantiaid, swyddogion a phartneriaid ynghylch sut mae eu cyfraniad wedi gwneud gwahaniaeth.
- Rhaid i'r panel MTOV fod yn glir ynghylch eu rôl wrth fonitro cynnydd y LTPS.
- Rhaid cwblhau a chyhoeddi adroddiadau cynnydd chwarterol LTPS ar wefan y Cyngor.
- Ail-lansio bwletinau chwarterol y staff.
- Rhaid i aelod o'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid fynd i gyfarfodydd tîm staff i roi adborth ar y gwaith a wnaed ac i drafod cyfleoedd i gymryd rhan.
- Moderneiddio Cyfranogiad Tenantiaid i annog mwy o denantiaid i gymryd rhan.
- Ail-lansio'r grŵp cyhoeddiadau tenantiaid i wella cyfathrebu.

CYNLLUN GWEITHREDU

ACTION PLAN



www.ynysmon.gov.uk

www.anglesey.gov.uk

Cynllun Gweithredu Cyfranogiad Tenantiaid 2018/19

1 Defnyddio technoleg ddigidol i foderneiddio'r gwasanaeth Cyfranogiad Tenantiaid

Tudalen 134

Rhif	Gweithred	Dyddiad targed	Canlyniad gofynnol	Mesurwyd gan	Sylwadau	Statws CAG
1.1	Mewn partneriaeth â thîm TG Orchard a thenantiaid, uwchraddio porth hunanwasanaeth y Tenantiaid.	Medi 2018	Gwella cyfathrebu gyda thenantiaid	Cynyddu canran y tenantiaid sy'n defnyddio'r porth Mwy o ddefnydd o'r porth Adborth tenantiaid		
1.2	Nodi cyfleoedd ar gyfer ymgysylltiad digidol megis ffurflenni adborth ar lein / negeseuon testun / ap ffôn symudol Cyfranogiad Tenantiaid	Parhaus	Mae ymgynghoriadau'n gynrychioliadol o'r corff tenantiaid ehangach.	Newid yn ystod oedran y tenantiaid sy'n cymryd rhan.		
1.3	Mewn partneriaeth â'r tîm TG corfforaethol a thenantiaid, uwchraddio'r tudalennau Cyfranogiad Tenantiaid ar wefan y Cyngor.	Medi 2018	Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.	Mwy o ddefnydd o'r wefan (ymweliadau â'r wefan). Adborth tenantiaid		

			Mae tenantiaid yn deall sut mae'r ffaith eu bod nhw'n cymryd rhan wedi gwneud gwahaniaeth			
1.4	Cynnwys Cyfranogiad Tenantiaid ar AP MÔN - er enghraifft, ffurflen gais / cofrestr cronfa amgylcheddol ar gyfer Cyfranogiad Tenantiaid a dolen i'r Porth Hunanwasanaeth.	Mehefin 2018	Mae modd cael mynediad at weithgareddau Cyfranogiad Tenantiaid Gwella cyfathrebu gyda thenantiaid Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol	Cynnydd yng nghanran y tenantiaid sy'n defnyddio'r porth. Mwy o ddefnydd ohono Newid yn ystod oedran y tenantiaid sy'n cymryd rhan Adborth tenantiaid		

- 2 Darparu ystod o opsiynau ystyrllon yng nghyswllt cymryd rhan i sicrhau bod tenantiaid yn gallu dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch polisiau, amodau a gwasanaethau tai

Tudalen 135

Rhif	Gweithred	Dyddiad targed	Canlyniad gofynnol	Mesurwyd gan	Sylwadau	Statws CAG
Polisiau						
2.1	Fforwm Atal Digartrefedd Defnyddwyr Gwasanaeth i fonitro gwaith gweithredu strategaeth atal digartrefedd interim 2017/18 a chefnogi gwaith datblygu strategaeth ranbarthol 2018.	Mehefin 2018 Medi 2018 Rhagfyr 2018 Mawrth 2019	Tenantiaid wedi dylanwadu ar bolisi tai Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol Gwasanaeth gwell	Gostyngiad yn nifer y bobl sy'n dweud eu bod yn ddigartref Gostyngiad yn y defnydd a wneir o lety brys Adborth tenantiaid		
2.2	Fforwm Ymddygiad Gwrthgymdeithasol fonitro gweithredu'r polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol	Mehefin 2018 Medi 2018 Rhagfyr 2018	Tenantiaid wedi dylanwadu ar bolisi tai Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol	Gostyngiad yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol Gostyngiad yn yr amser a gymerwyd i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol		

		Mawrth 2019	Gwasanaeth gwell	Adborth tenantiaid		
2.3	Ymgynghori â thenantiaid ynghylch unrhyw bolisiau a gaiff eu cyflwyno	Parhaus				
Cyflwr Tai						
2.4	Hyrwyddo'r gronfa gwella amgylcheddol a chymunedol i gefnogi gwelliannau amgylcheddol.	Mehfin 2018 Mawrth 2019	Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol Tenantiaid yn teimlo y cânt eu grymuso i ymfalchïo yn eu hardal	Bodddhad tenantiaid Llai o gwynion Golwg gwell ar stadau		
2.5	Gwahodd tenantiaid newydd i gymryd rhan mewn grŵp tasg a gorffen i adolygu'r safon sylfaenol y gellir ei gosod.	Medi 2018	Gwasanaeth gwell Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol	Llai o achosion o wrthod Llai o gwynion Cymryd llai o amser i osod eiddo Llai o eiddo sy'n anodd eu gosod Adborth tenantiaid		
2.6	Sefydlu fforwm atgyweirio i fonitro'r gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw gan gynnwys bodddhad cwsmeriaid.	Mehfin 2018 Medi 2018 Rhagfyr 2018 Mawrth 2019	Gwasanaeth gwell Caiff adnoddau eu targedu'n effeithiol	Llai o gwynion Llai o waith trwsio ymatebol Mwy o foddhad ymhlith tenantiaid		
Gwasanaethau Tai						
2.7	Sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu'r gweithdrefnau polisi gosod a ganlyn:	Mai 2018	Llythyrau'n hawdd eu deall Mae'r broses adolygu wedi gwella Mwy o gwsmeriaid yn fodlon	Llai o gwynion Llai o bobl yn cael eu tynnu oddi ar y gofrestr / yn ailymgeisio		

	Llythyr i roi gwybod i ymgeiswyr pan fydd eu cais am dai wedi bod yn llwyddiannus. Adolygiad o restrau aros chwe mis am dŷ. Monitro cynnydd ceisiadau tai.		Cyfathrebu gwell	Llai o ymholiadau Adborth tenantiaid		
2.8	Grŵp Archwilio Tenantiaid i gynnal dau archwiliad yn unol â blaenoriaethau cynllun Busnes y Gwasanaethau Tai.	Mehafin 2018 Mawrth 2019	Tenantiaid yn dylanwadu ar welliannau i wasanaethau Gwasanaeth gwell	Gweithredwyd ar yr argymhellion yn dilyn yr archwiliad		
2.9	Datblygu cynllun i sicrhau bod yr wybodaeth proffilio tenantiaid yn gywir ac yn gyfredol yn barod ar gyfer gweithredu Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) Act 2016	Medi 2018	Gwasanaeth gwell	Sicrhau bod yr wybodaeth am denantiaid yn gyfredol. Rhoi contractau newydd i denantiaid.		

3 Rhoi gwybod i denantiaid am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt

Rhif	Gweithred	Dyddiad targed	Canlyniad gofynnol	Mesurwyd gan	Sylwadau	Statws CAG
3.1	Datblygu cynllun cyfathrebu i roi gwybod i denantiaid am newidiadau i'w cytundebau tenantiaeth yn dilyn gweithredu	Medi 2018	Caiff tenantiaid wybod am newidiadau arfaethedig	Adborth tenantiaid		

	Deddf Cartrefi Rhentu (Cymru) 2016					
3.2	Datblygu cynllun cyfathrebu i roi gwybod i denantiaid am newidiadau i'w Hawl i Brynu yn dilyn gweithredu Deddf Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) 2018.	Mai 2018	Caiff tenantiaid wybod am newidiadau arfaethedig	Adborth tenantiaid		
3.3	Hwyluso fforwm tai gwarchod ddwywaith y flwyddyn	Mehfin 2018 Rhagfyr 2018	Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt. Llai o arwahanrwydd. Tenantiaid yn dylanwadu ar welliannau i wasanaethau	Adborth tenantiaid		
3.4	Mewn partneriaeth â grŵp cyhoeddi tenantiaid, datblygu cylchlythyr tenantiaid Llais Môn	Mehfin 2018 Rhagfyr 2018	Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.	Adborth tenantiaid		
3.5	Sefydlu grŵp tasg a gorffen i adolygu'r llawlyfr tenantiaid	Hydref 2018	Llawlyfr yn ystyriol o denantiaid ac yn hawdd i'w ddarllen Caiff tenantiaid wybod am wasanaethau sy'n cael effaith arnynt.	Adborth tenantiaid Llai o ymholiadau gan gwsmeriaid		

4 Sicrhau y caiff cyfranogiad tenantiaid ei gydnabod fel gweithgaredd craidd yn yr adran

Tudalen 139

Rhif	Gweithred	Dyddiad targed	Canlyniad gofynnol	Mesurwyd gan	Sylwadau	Statws CAG
1	Datblygu bwletin staff chwarterol i rannu gwybodaeth am weithgareddau cyfranogiad tenantiaid ac adborth ynghylch sut oedd cyfranogiad swyddogion wedi gwneud gwahaniaeth	Mehefin 2018 Medi 2018 Rhagfyr 2018 Mawrth 2019	Mae'r staff yn deall manteision cyfranogiad tenantiaid. Cydnabyddir Cyfranogiad Tenantiaid fel gweithgaredd craidd.	Adborth / sylwadau staff ar ôl darllen bwletin / cyfarfodydd staff / mynd i'r panel MTOV Mwy o gyfleoedd i gymryd rhan yn yr yn yr adran.		
2	Cyfranogiad Tenantiaid i fod yn eitem agenda safonol mewn cyfarfodydd tîm a thîm Cyfranogiad Tenantiaid i fynd i'r cyfarfodydd yn rheolaidd.	Misol				
3	Adolygu cylch gorchwyl y panel MTOV	Ebrill 2018				

5 Cefnogi tenantiaid y mae Diwygiad Lles yn cael effaith arnynt

Rhif	Gweithred	Dyddiad targed	Canlyniad gofynnol	Mesurwyd gan	Sylwadau	Statws CAG
1	Sefydlu grŵp tasg a gorffen gyda thenantiaid y mae credyd cynhwysol yn cael effaith arnynt er mwyn deall y rhwystrau a sut y gellir cefnogi tenantiaid.	Mehefin 2018	Mae modd targedu adnoddau'n effeithiol. Mae modd i denantiaid ddylanwadu ar ddarparu gwasanaethau.	Llai o ddyledion rhent Mwy o denantiaid yn talu eu rhent trwy ddebyd uniongyrchol Mwy o denantiaid yn agor cyfrifon banc		

2	Adolygu'r defnydd a wneir o'r ciosgs cyfrifiaduron a gweithredu unrhyw welliannau angenrheidiol i'r gwasanaeth.	June 2018	Defnyddir ciosgs gan y gymuned i gymharu prisiau / sefydlu bancio ar y rhynggrwyd / gwneud cais am Gredyd Cynhwysol.	Mwy o ddefnydd o'r ciosgs Monitro gwefannau yr ymwelwyd â nhw Adborth tenantiaid		
3	Hyfforddi tenantiaid i ddod yn hyrwyddwyr digidol a hwyluso cyfleoedd i leihau eithrio digidol.	Parhaus	Lleihau eithrio digidol Hyrwyddo'r defnydd o'r ciosgs gan y gymuned	Hyrwyddwyr i gofnodi'r defnydd a wneir o giosgs Adborth tenantiaid		
4	Mewn partneriaeth â'r tîm cynhwysiant ariannol ac asiantaethau lleol, codi ymwybyddiaeth o Ddiwygiad Lles a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael i denantiaid	Parhaus	Teimla'r tenantiaid y cânt gefnogaeth i ymateb yn bositif i heriau Diwygiad Lles. Mae tenantiaid yn deall y gwahanol ffyrdd o dalu eu rhent ac maent yn hyderus yn talu eu rhent.	Llai o ddyledion rhent Mwy o denantiaid yn talu eu rhent trwy ddebyd uniongyrchol Mwy o denantiaid yn agor cyfrifon banc		
5	Datblygu prosiect menter i gefnogi tenantiaid y mae tlodi tanwydd yn cael effaith arnynt.	Mehffin 2018	Caiff tenantiaid gefnogaeth i ddod allan o dlodi tanwydd	Canran y tenantiaid sydd wedi cael cymorth i ddod allan o dlodi tanwydd Adborth tenantiaid		

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26.3.2018
Pwnc:	Cymeradwyo Strategaeth Gomisiynu a Chynllun Gwario Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl.
Aelod(au) Portffolio:	Cynghorydd Alun Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Arwel Jones, Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai 01248 752064
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>1. Cymeradwyo argymhellion y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl 2018-21 a,</p> <p>2. Cymeradwyo'r dyraniad o gyllid ar gyfer pob maes Gwasanaeth, fel yr amlinellir ar dudalen 44 o'r Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl.</p> <p>Rhesymau</p> <p>1.0 Cyflwyniad</p> <p>1.1 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn fenter fframwaith polisi a chyllid gan Lywodraeth Cymru sy'n darparu Cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer amrywiaeth o grwpiau o bobl sydd yr un mor fregus â'i gilydd. Nid yw'r gwasanaethau yn cynnwys ariannu costau'r llety na'r gofal na'r ddarpariaeth iechyd.</p> <p>1.2 Mewn llythyr a dderbyniwyd oddi wrth Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2017, dywedwyd mai oddeutu £2,643,866 fyddai'r dyraniad i Ynys Môn ar gyfer 2018-2019. Bydd hyn yn weithredol o 1.4.18.</p> <p>1.2 Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety â chefnogaeth a gwasanaethau cefnogaeth ar wasgar a ddarperir gan wahanol ddarparwyr ar draws amrywiaeth o ddeiliadaethau sy'n cynnwys llety hygyrch a fforddiadwy, stoc tai cyngor, stoc cymdeithasau tai, rhentu preifat, tai gwarchod,</p>

perchen ddeiliaid, byw â chymorth, tenantiaethau â chefnogaeth a thai gofal ychwanegol.

1.4 Mae mathau cyffredin o ddarpariaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn cynnwys:

- Cynorthwyo rhywun sy'n ddigartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i ddod o hyd i rywle i fyw, o fewn 56 diwrnod iddynt gyflwyno mewn sefyllfa o'r fath.
- Darparu pecyn cefnogaeth er mwyn galluogi'r unigolyn bregus i gynnal tenantiaeth a lliniaru'r risg y bydd y denantiaeth yn torri lawr a / neu y bydd yr unigolyn yn cael ei droi allan o'r tŷ.
- Darparu cefnogaeth gyda dyledion rhent, rheoli dyledion a sgiliau cyllidebu.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynorthwyo a galluogi'r unigolyn i barhau i dderbyn y budd-daliadau y mae'n gymwys i'w derbyn a delio ag asiantaethau perthnasol.
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gadw eu llety'n ddiogel, e.e. egluro sut i gloi a rheoli mynediad priodol.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gadw unrhyw apwyntiadau sy'n berthnasol i wella eu gallu i reoli eu hunain yn eu llety.
- Annog ac ysgogi'r defnyddiwr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb.
- Hyrwyddo, annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu'r sgiliau bywyd angenrheidiol megis coginio, glanhau a golchi dillad.
- Darparu'r cymorth angenrheidiol er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i gael mynediad i gyfleoedd addysg, hyfforddiant a/neu gyflogaeth briodol.
- Darparu cyngor mewn perthynas â chyfleoedd i symud ymlaen neu gyfleoedd am dai parhaol.

1.5 Un o ofynion cyllido Cefnogi Pobl yw'r angen i baratoi Cynllun Comisiynu er mwyn hysbysu Llywodraeth Cymru a'r holl bartneriaid a rhanddeiliaid o'n bwriadau a'n blaenoriaethau comisiynu. Yn unol ag Arweiniad Llywodraeth Cymru mae'r Cynllun arfaethedig yn cynnwys Cylch comisiynu 2018/21 ac fe'i adolygir yn flynyddol.

1.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi gwarchod lefelau cyllido grantiau'r Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2018/19 ledled Cymry ac wedi atal dros dro yr rhaglen aiddosbarthu sydd wedi gweld cyllid Gogledd Cymru yn gostwng dros 23% yn ystod y 6 mlynedd flaenorol.

1.7 Bydd 2018/19 yn flwyddyn drosianaol i Raglen Cefnogi Pobl yng Nghymru, gyda 7 Awdurdod Lleol yn gweithredu o dan drefniant gwahanol, fydd yn golygu bod arian y Grant yma yn rhan o gronfa llawer ehangach. O, ganlyniad bydd y 7 Awdurdod Lleol sy'n cynnwys Conwy fel yr unig un o Ranbarth Gogledd Cymru yn cymryd rhan

mewn cynllun Peilot a fydd yn golygu y bydd 10 o grantiau o fewn yr Agenda Trechu Tlodi yn cael eu cyfuno o fewn un gronfa fydd yn cael ei adnabod fel Grant Ymyrraeth Fuan, Atal a Chefnogaeth. Gellir dyrannu a trsogwlyddo 100% o'r arian yma o un raglen i un arall. Yn ystod yr un cyfnod bydd Ynys Môn hefo'r opsiwn ynghyd a'r 14 Awdurod arall i drsogwlyddo hyd at 15% o arian sydd wedi ei danwario o'r naill rhaglen i'r llall. Bydd y trefnaint newydd ar draws y 7 awdurdod lleol yn cael eu werthuso yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru gyda'r gobaith ganndynt i weithredu'r drefn yma ar draws Cymru o Ebrill 2019.

- 1.8 Tra dylid croesawu'r cydweithio agos ar draws y ffynonellau arainnau uchod, mae'r trefniant yn creu peth ansicrwydd i ddyfodol Rhaglen Cefnogi Pobl sydd wedi bodoli bellach ers 2003. Yn ogystal mae'n codi pryderon am yr effaith ar atal digartrefedd ynghyd a'r golled ariannol y byddai adrannau lles o fewn y Cyngor eraill megis Gwasanaethau Oedolion yn ei dderbyn. Yn ogysa, byddai asiantaethau allanol megis Y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Prawf, mewn perygl o ddioddef sgil effeithu negyddol gan gynnwys mwy o alw ar eu gwasanaethau ynghyd a chostau uwch ar eu cyllidebau. Heb os mae risgiau uchel yn bodoli, pe byddai Rhaglen Cefnogi Pobl unai yn cael ei diddymu neu dderbyn gostyngiad pellach.

Cefndir

- 2.0 Yn hanesyddol, mae Cefnogi Pobl wedi buddsoddi'n drwm yn y ddarpariaeth o gefnogaeth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu, gyda dros 33% o gyfanswm y gyllideb wedi'i dyrannu i anghenion y maes gwasanaeth hwn. Bellach wedi gwaith sylweddol i ail fodelu yr elfen gefnogaeth (anstatudol) yn y maes gwasanaeth hwn, mae canran y buddsoddiad o'r Grant llawn yn 18.1%. Serch hynny mae'r gwaith o ail-fodelu'r ddarpariaeth gofal (statudol) yn parhau o fewn y Cyngor, ac mae gan Rhaglen Cefnogi Pobl rôl allweddol i'w chwarae er mwyn sefydlu model fydd yn diwallu'r anghenion mewn modd gwahanol ac arloesol yn gynnaladwy ac yn cynnig gwerth am arian yn y dyfodol, Gall hyn olygu y bydd gostyngiad pellach ym muddsoddiad Grant Cefnogi Pobl ar gyfer y maes gwasanaeth yma.
- 2.1 Mae'r Cynllun Gwaith Cefnogi Pobl yn cynnwys rhaglen o adolygiadau a gynhelir bob tair blynedd. Yn ystod 2018 19, bydd adolygiadau manwl, sydd fel arfer yn cymryd 3 mis yr un i'w gwneud, yn cael eu cwblhau ar gyfer y meysydd gwasanaeth canlynol:
- Camdriniaeth yn y Cartref
 - Rhieni Sengl Bregus
 - Pobl Hŷn (Cynlluniau Bro Trehinon a Min yr Afon)
 - Pobl Sy'n Gadael Carchar, Camddefnyddio Sylweddau a Generig
 - Iechyd Meddwl
 - Pobl Hŷn (Cefnogaeth ar Wasgar)
- 2.2 Yn ychwanegol at hynny, mae'n fwriad gennym, yn unol â Rheoliadau Caffael Ewrop

a chyfansoddiad y Cyngor, i ymgymryd ag ymarferiad tendro llawn ar gyfer:

- Cefnogaeth ar Wasgar Parhaus, ac

Yn ddibynnol ar ganlyniad ac argymhelliad yr adolygiadau uchod pe na bawn yn defnyddio'r hawl i ymestyn am dair mlynedd ychwanegol.

- Pobl Sy'n Gadael Carchar, Camddefnyddio Sylweddau a Generig
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn (Cefnogaeth ar Wasgar)

2.3 Yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i sefydlu Pwyllgor Rhanbarthol Trais yn erbyn Menywod, Camdriniaeth yn y Cartref a Thrais Rhywiol (VAWDASV), mae cyngor wedi ei dderbyn gan y Pwyllgor ar gyfer Gogledd Cymru na ddylid ymgymryd ag unrhyw ymarfer caffael ar gyfer darparu gwasanaeth yn y maes yma, nes y bydd trefniadau llywodraethiant wedi eu sefydlu'n derfynol. Mae posib y bydd y Pwyllgor yma yn derbyn swm penodol o arian yr hawl i gomisiynu gwasanaethau darparu cefnogaeth a lloches yn dyfodol ar gyfer y Grŵp Gwasanaeth yma. Pe byddai hyn yn digwydd, fe allan olygu na fydd Cefnogi Pobl yn gyfrifol am y buddsoddiad cyfredol o £162,000 yn y dyfodol, ac o ganlyniad y byddwn fel comisiynwyr yn derbyn gostyngiad cyfatebol o fewn Rhaglen Cefnogi Pobl.

Ar y llaw arall, petai'r trefniadau presennol yn parhau, disgwylir y byddai proses dendro'n cael ei chynnal a fyddai'n golygu y byddai gwasanaethau camdriniaeth yn y Cartref, a rhieni sengl bregus yn cael eu cyfuno a allai olygu gwell gwerth am arian a chynnydd yn nifer yr unedau a ddatblygir er mwyn cynorthwyo pobl sy'n dioddef camdriniaeth yn y cartref.

3.0 Meysydd Newydd ar gyfer Datblygiad

3.1 Gwasanaeth Cymorth Hyblyg parhaus

3.2 Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod nifer sylweddol o bobl yn parhau i fod yn fregus ar ôl i'w cymorth ddod i ben ac o ganlyniad mae hyn yn gallu arwain at broblemau tenantiaeth, dirywiad mewn iechyd a lles ac mewn rhai achosion, ail droseddu. Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid yn y Sir a thu draw, mae achos busnes wedi cael ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio yn ystod 2017 yn gofyn am gomisiynu gwasanaeth cefnogaeth ar wasgar parhaus i ddiwallu anghenion ar draws pob lefel o angen. Bydd hyn yn galluogi unigolion bregus sydd mewn perygl o fod yn ddigartref i gael mynediad i'r gwasanaeth hyblyg hwn ar wahanol adegau yn eu bywydau. Rhagwelir y bydd ymyrraeth gynnar, yn atal argyfwng pellach rhag codi ac, yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, bydd yn atal yr angen am ymyrraeth statudol sy'n fwy costus.

3.3 Amcangyfrifir y bydd cost y gwasanaeth tua £120,000. Disgwylir y bydd y

ddarpariaeth yn cael ei roi ar Safle Sell2Wales ym mis Mawrth 2018, gan wahodd ceisiadau tendr llawn, gyda'r gwasanaeth yn weithredol o fis Mai / Mehefin 2018

- 3.4 Comisiynodd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru adroddiad ar y gwasanaethau sydd ar gael i bobl sy'n gadael carchar a'r rheiny sydd mewn cysylltiad â'r system gyfiawnder troseddol. Roedd yr adroddiad manwl a ysgrifennwyd gan Tamsin Sterling a Caroline Humphreys yn amlygu Ynys Môn fel model o arfer dda o ran y modd y darperir ymagwedd a gwasanaeth di-dor i'r grŵp cleient hwn. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Ynys Môn wedi cael budd o argaeledd Grant Atal Digartrefedd i ariannu'r swydd hon. Heb amheuaeth, mae tystiolaeth glir o gydberthynas rhwng y swydd hon a'r ethos allweddol o wneud ar y cyd yn hytrach nag yn lle unigolyn o fewn Gwasanaethau Cefnogi Pobl, gyda'r pwyslais ar atal digartrefedd a chynnal tenantiaeth. Yn wir, mae deilydd presennol y swydd sydd eisoes â llwyth achosion o dros 25, yn cynhyrchu asesiadau anghenion a risgiau yn ogystal â chynlluniau cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan ei fod yn darparu cefnogaeth cyn-denantiaeth i bobl sy'n gadael carchar ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar ôl i gefnogaeth cyd-denantiaeth gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd ac a nodwyd, trosglwyddir achosion wedyn i CAIS, sef y darparwr cefnogaeth penodedig ar gyfer y grŵp cleient hwn, i ddarparu cefnogaeth arbenigol, ac felly osgoi dyblygu diangen. Bydd CAIS hefyd yn delio gyda chyn-droseddwr nad ydynt mwyach ar drwydded ac ati. Bydd pawb sy'n gadael carchar a'r rheiny sydd wedi'u rhyddhau yn ôl i'r gymuned ar drwydded ar hyn o bryd yn cael eu hatgyfeirio i'r SpoA fel pwynt cyswllt cyntaf. Mae'n rhesymegol felly y dylai Cefnogi Pobl ariannu'r swydd hon o 2018/19. Cost y ddarpariaeth yma fydd £35,423
- 3.5 Mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl CSYM wedi ariannu'r Gwasanaeth IDVA (Ffrŵd Camdriniaeth yn y Cartref) ers 2010, ar y cyd â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd. Mae tystiolaeth a gasglwyd o ddata monitro ac adolygiadau gwasanaeth, ynghyd â'r cyfraniad o £10,000 a wneir o Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, yn cynrychioli gwerth ardderchog am arian. Yn dilyn cais gan Bartneriaeth Diogelu Cymunedol Gwynedd a Môn am £2,000 ychwanegol yr un gan y ddwy sir, cymeradwydodd Gŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Ynys Môn i gynyddu'r buddosiad i £12,000 y flwyddyn, Defnyddir yr arian ychwanegol ar gyfer prynu a gosod offer penodol megis, clouau pwrpasol a larymau y gellir eu cysylltu'n unionyrchol gyda swyddfa'r heddlu, er mwyn cynyddu diogelwch a lliniaru risgn rai o'n hunigolion a theuluoedd mwyaf bregus.
- 3.6 Mae ailddatblygu Cynllun Tai Gwarchod Llawr Y Dref wedi darparu cyfleoedd i fod yn arloesol a chynhwysol. Fel landlord, mae'r Cyngor yn awyddus i 3 eiddo fod ar gael i bobl ag Anableddau Dysgu gael eu cefnogi i fyw yn annibynnol o fewn y gymuned. Cydnabyddir y bydd Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai yn ffactor allweddol o ran cyflawni'r amcan i unigolyn bregus allu cynnal ei denantiaeth/thenantiaeth. Cynigir

felly o fewn y cylch comisiynu hwn, yn dilyn cael cymeradwyaeth gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol, y dylai Cefnogi Pobl gyfrannu tuag at gost y gefnogaeth, ac y bydd effaith terfynu'r arian cefnogaeth ar wasgar, fel yr amlinellwyd uchod, yn cael ei leihau drwy gomisiynu cefnogaeth fel y soniwyd yn flaenorol, hyd at werth o £26,294.68

- 3.7 Byddwm, yn parhau i ariannu Swydd Swyddog Un Pwynt Mynediad sydd wedi bodoli ers mis Hydref 2017. Rhwng 1af Hydref a 31.12.17 cyflwynodd 192 o bobl angen cefnogaeth a llety. Bydd cost y Swydd yma oddeutu £35,423.

4.0 Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol

- 4.1 Mae Aelodau o Bwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Deiliaid Portffolio a Phenaeithaid neu Uwch Reolwyr Gwasanaeth (Tai / Gwasanaethau Cymdeithasol) yn awyddus i ddatblygu rhai gwasanaethau a gomisiynir yn rhanbarthol o fewn meysydd penodol megis camdriniaeth ddomestig neu anghenion yn ymwneud â throseddu. Er mwyn cyflawni'r nod hwn, mae wedi'i gynnig ar Lefel Rhanbarthol ac wedi'i gymeradwyo mewn Byrddau Grwpiau Cynllunio Lleol ledled Gogledd Cymru y dylai pob Awdurdod Lleol wneud cyfraniad o 0.5% o'r dyraniad blynyddol Cefnogi Pobl yn uniongyrchol.

- 4.2 Yn seiliedig ar gyfraniad o 0.5%, byddai grant Ynys Môn ar gyfer darpariaeth leol yn lleihau £13,219.00 .

- 4.3 Yn ystod 2018, mae'r Pwyllgor Cydweithio Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi adnabod y mesysydd gwasanaeth canlynol ar gyfer eu blaenoriaethu ar lefel rhanbarthol.

- Anableddau Dysgu
- Pobl Sy'n Gadael Carchar neu â Hanes o Droseddu
- Pobl Sy'n Cysgu'r Stryd
- Camdriniaeth yn y Cartref
- Mental Health

5.0 Newidiadau yn y modd yr ariennir y Gwasanaethau

- 5.1 Bydd cynnydd o 72.9% yn y ddarpariaeth ar gyfer Pobl Sy'n Gadael Carchar (Gweler uchod) o ganlyniad i'r buddsoddiad o £35,243 yn y Cynllun Swydddog Adsefydlu.

- 5.2 Bydd gostyngiad o 1.4% yn y ddarpariaeth ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu (gweler uchod)

5.3 Bydd cynydd o 38.2% yn nghynllun Tai yn Gyntaf ar gyfer Pobl Digartref sydd âg anghenion cymhleth gyda'r nifer o unedau yn cynyddu o 20 i 25 yr wythnos. Bydd y 5 uned ychwanegol yn cael eu darparu ar gyfer anghenion iechyd meddwl.

5.4 Mae'r gwasanaethau canlynol wedi derbyn yr un lefel o fuddsoddiad yn y Cynllun Gwariant â'r flwyddyn flaenorol, a bydd unrhyw newid pellach yn destun prisiaid tendr ble bo hynny'n berthnasol.

- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn
- Pobl Ifanc Bregus
- Gwasanaethau Generig
- Rhieni Sengl Bregus

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Roedd y penderfyniadau yn seiliedig ar ymagwedd strategol a oedd yn canolbwyntio ar:

- Gymhwysedd yn unol ag Amodau Grant y Rhaglenni Cefnogi Pobl
- Perthnasedd strategol yn unol â Nodau Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn a rhai'r Gwasanethau Tai
- Ansawdd Gwasanaeth fel y gwelwyd yn y rhaglen o adolygiadau manwl a ymgwymerwyd â nhw yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf.
- Gwerth am arian yn dilyn ymarfer manwl a gynhaliwyd ar draws yr holl ddarparwyr a lefelau'r angen a nodwyd gan ddarparwyr pan fydd defnyddwyr gwasanaeth ag amrywiaeth o faterion amrywiol a chymhleth sydd angen cefnogaeth.
- Sicrhau bod nodau ac amcanion Deddr Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu bodloni.

Mae'r ffactorau uchod yn amlinellu'r rhesymeg a ddefnyddiwyd wrth ystyried gwahanol opsiynau ar gyfer lleihau cyllid mewn gwasanaethau penodol, ailfodelu eraill ac mewn rhai achosion, datgomisio yn llawn.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n un o ofynion Amodau'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl a nodir gan Lywodraeth Cymru, fod y Cynllun Blyneddol yn cael ei gymeradwyo ar Lefel Aelodau Etholedig Lleol.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ddim yn berthnasol.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ddim yn berthnasol – Mae Cefnogi Pobl yn Raglen Grant Llywodraeth Cymru.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Cytuno a'r ddau argymhelliad
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Cytuno a'r ddau argymhelliad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Cytuno a'r ddau argymhelliad
4	Adnoddau Dynol (AD)	Dim gwrthwynebiad i'r argymhellion – Serch hynny dylid sicrhau bod cydymffurfiaeth gyda Pholisiau Corfforaethol pe byddai unrhyw effaith o'r argymhellion yn effeithio ar ddiswyddo neu adloei staff y Cyngor.
5	Eiddo	Ddim yn berthnasol
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Ddim yn berthnasol
7	Sgriwtini	Ddim yn berthnasol
8	Aelodau Lleol	Ddim yn berthnasol
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Rydym wedi ymgynghori gyda'n holl ddarparwyr parthed y cynlluniau a'r datblygiadau arfaethedig

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)

1	Economaidd	Rhagwelir na fydd datgomisiynu gwasanaeth Cefnogaeth ar Wasgar o fewn anabledau dysgu yn cael dim effaith economaidd o gwbl gan y bydd yr angen am yr un lefel o staffio'n parhau gyda datblygu darpariaeth debyg yn Llawr y Dref, Llangefni. Ni fydd y broses o ddatgomisiynu'r larymau yn cael unrhyw effaith staffio, gan fod elfen
---	-------------------	---

		uchel o'r cytundeb yma yn gost cyfalaf, ac felly yn anghymwys am arian Cefnogi Pobl.
2	Gwrthdodi	Ni ragwelir unrhyw effaith uniongyrchol o ganlyniad i newidiadau er gallai newidiadau polisi cymdeithasol, yn enwedig diwygio lles, waethygu amgylchiadau ar gyfer rhai unigolion bregus a / neu unigolion a theuluoedd anhrefnus.
3	Trosedd ac Anrhefn	Dim effaith uniongyrchol o'r strategaeth. Fodd bynnag, byddai cynnydd mewn trosedd ac anrhefn o ganlyniad i newid mewn polisi cymdeithasol a mwy o dlodi yn golygu mwy o alw na chyflenwad ac anallu i fodloni anghenion sy'n cynyddu. Gallai hyn gael effaith sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth a darparwyr ac yn enwedig o ystyried anghenion anhrefnus a chymhleth rhai o'r defnyddwyr gwasaneth sydd angen cefnogaeth ac ymyrraeth aml-asiantaethol. Gan fod Swydd Swyddog Adsefydlu Pobl sy'n Gadael Carchar eisoes yn cael ei hariannu o ffynhonnell wahanol, diswylir na fydd unrhyw effaith wahanol pan yr ariennir trwy arian Cefnogi Pobl o Ebrill 2018.
4	Amgylcheddol	Ddim yn berthnasol
5	Cydraddoldebau	Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi'i gynnwys o fewn y Strategaeth Comisiynu Lleol a rannwyd yn flaenorol.
6	Cytundebau Canlyniad	Mae darparwyr Cefnogi Pobl yn gorfod glynu wrth fframwaith canlyniadau mandadol a ragnodir gan Lywodraeth Cymru.
7	Arall	Ddim yn Berthnasol

F - Atodiadau:

Grant Rhaglen Cefnogi Pobl - Strategaeth Comisiynu Lleol 2018-2021

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

cefnogipobl
supportingpeople
supporting independence
cefnogi annibyniaeth

Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn 2018/21

**Galluogi pobl sydd angen cefnogaeth i fyw'n annibynnol drwy
ddarparu gwasanaethau cefnogi priodol o safon uchel
sy'n ymwneud â thai**

a

**chyflawni hyn drwy weithio mewn partneriaeth
gyda defnyddwyr y gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill
fel y gallwn wella ansawdd bywyd, cynnig mwy o ddewis a
sicrhau gwerth am arian**

Cynnwys

1. Rhagarweiniad	3 – 13
2. Y Cyd-destun Strategol a'r Blaenoriaethau	14 - 21
3. Lefelau Angen, a'r Bylchau yn y Gwasanaeth	22 - 30
4. Tystiolaeth Ymgynghori	31 - 32
5. Blaenoriaethau ar gyfer Datblygu	33 - 43
6. Cynllun Gwariant	44 - 45
 <u>Atodiadau</u>	
7. Aseiad Effaith ar Gydraddoldeb (Atodiad 1)	46-65
8. Data Mapio Anghenion (Atodiad 2)	66 -83
9. Eich Gwasanaeth Eich Barn Holiadur Ymgynghori (Atodiad 3)	84 - 103
10. Gweithgarwch Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth (Atodiad 4)	104-133

1. Rhagarweiniad

1.1 Dyma'r chweched Cynllun Comisiynu Lleol (CCLI) Cefnogi Pobl ers i Grant Rhaglen Cefnogi Pobl gael ei gyflwyno ym mis Awst 2012. Prif bwrpas y ddogfen hon yw rhoi trosolwg strategol ar y bwriadau a'r blaenoriaethau comisiynu ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl ar Ynys Môn rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2021.

Menter fframwaith polisi a chyllido gan Lywodraeth Cymru yw Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod o bobl amrywiol ond yr un mor fregus â'i gilydd. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cynnwys ariannu llety a darpariaeth gofal. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar gynllunio, comisiynu a monitro llety â chefnogaeth, a gwasanaethau cefnogi ar wasgar, sy'n cael eu darparu gan amrywiol ddarparwyr ar draws amrediad o ddeiliadaethau. Mae'r, mathau gwahanol o lety yn cynnwys tai hygyrch a fforddiadwy, stoc y cyngor, stoc cymdeithasau tai, tai rhent preifat, tai gwarchod, hunan berchnogaeth, tai byw gyda chymorth tenantiaeth â chefnogaeth, a Gofal Ychwanegol.

1.1.2 At hynny, mae gwasanaethau larwm cymunedol a monitro teleofal hefyd yn wasanaethau cymwys ac yn cael eu hariannu'n rhannol drwy gyllideb Cefnogi Pobl.

Mae Gwasanaethau sy'n ymwneud â Thai yn cynnwys y mathau canlynol o ddarpariaeth.

- Cefnogi rhywun sy'n ddigartref neu mewn risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod i ddod o hyd i rywle i fyw;
- Darparu pecyn o gefnogaeth i alluogi person bregus i gynnal tenantiaeth a lliniaru risg o denantiaeth i dorri lawr fyddai'n arwain at orchymyn i adael;
- Darparu cefnogaeth gyda dyledion rhent, rheoli dyled a sgiliau cyllidebu;
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i hawlio budd-daliadau lles a chynnig cefnogaeth i alluogi unigolion i barhau i hawlio budd-daliadau y maent yn gymwys i dderbyn a delio hefo asiantaethau priodol;
- Cefnogi'r defnyddiwr gwasanaeth i gynnal diogelwch yr eiddo e.e. esbonio sut i gloi i fyny a rheoli mynediad priodol;
- Annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i gadw apwyntiadau sy'n briodol i'w gallu i hunan reoli yn eu llety;

Annog ac ysgogi'r defnyddwyr gwasanaeth i ddatblygu sgiliau cymdeithasol ac i gael yr hyder angenrheidiol i allu teimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o ddiddordeb;

- Hyrwyddo annog ac ysgogi defnyddwyr gwasanaeth i feithrin a datblygu sgiliau byw angenrheidiol megis coginio, glanhau a golchi;

- Darparu cefnogaeth i alluogi defnyddiwr gwasanaeth i allu cael mynediad at addysg, hyfforddiant ac /neu gyfleoedd gwaith priodol;
 - Cynnig cyngor parthed cyfleoedd symud ymlaen neu fynediad at lety parhaol.
- 1.1.4 Mae'r gwasanaethau'n gwneud cyfraniad amhrisiadwy tuag at gyflawni amcanion polisi lleol a chenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd, gofal cymdeithasol a lles, gan leihau digartrefedd ac allgau cymdeithasol a hyrwyddo diogelwch cymunedol.
- 1.1.5 Ar adeg ysgrifennu, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno dyraniad arian dangosol sy'n cadarnhau eu bwriad i gynnal y lefel ariannu gyfredol ar draws holl Awdurdodau Lleol Cymru o fis Ebrill 2018. O ganlyniad, bydd y swm a dderbyniwyd ar gyfer 2018/19 yn aros heb newid ar £2,643,866 o Ebrill 1af 2018. Mae hyn yn hwb sylweddol i Gomisiynwyr Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai a'r holl randdeiliaid ar adeg pan mae lefelau'r angen a'r galw am wasanaethau cefnogi i'w gweld yn cynyddu gydol yr amser. Yn ogystal, mewn paratoad ar gyfer gweithrediad disgwylidig y Grant Ymyrraeth Buan, Ataliol a Cefnogaeth newydd o 2019/2020, mae Llywodraeth Cymru wedi cynyddu gallu Awdurdodau Lleol i drosglwyddo hyd at 15% o unrhyw arian sydd heb ei wario i raglenni trechu tlodi presennol eraill.

Bydd angen i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Cyngor Sir Ynys Môn roi cymeradwyaeth gychwynnol i'r Cynllun cyn iddo gael ei gyflwyno i'w ddadansoddi a chael sêl bendith Pwyllgor Cydweithredol Gogledd Cymru. Mae aelodaeth y Grŵp Cynllunio yn cynnwys Penaethiaid Gwasanaethau Tai, Oedolion a Phlant o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ynys Môn, Uwch Reolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Prawf Cymru, dau gynrychiolydd o'n darparwyr a Rheolwr Prosiect Trechu Tlodi / Diwygio Lles o fewn y Cyngor. Bydd y bwriadau comisiynu yn y ddogfen hon ynghyd â 5 Cynllun Comisiynu Lleol arall Gogledd Cymru yn sail i gyfeiriad y Cynllun Comisiynu Rhanbarthol, wrth inni geisio sicrhau lefel uwch o gysondeb ar draws y rhanbarth a llai o ddyblygu.

1.2 Datblygiadau Rhanbarthol yng Ngogledd Cymru.


- 1.2.1 Mae'r 6 Phwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh) a grëwyd ar draws Cymru bellach wedi hen ymsefydlu. Mae gan Ogledd Cymru ei phwyllgor ei hun, lle mae'r 6 Awdurdod ar draws y rhanbarth yn cael eu cynrychioli'n gyfartal ac yn atebol i'r un graddau. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd yn ystod y flwyddyn pan drafodir blaenoriaethau a bwriadau comisiynu, manylion gwariant (yn cynnwys manylion tanwario a gorwario) materion perfformiad a materion strategol eraill. Mae aelodaeth y Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol yn cynnwys Aelod Cabinet dynodedig Awdurdod Lleol gyda chyfrifoldeb portffolio am y Rhaglen Cefnogi Pobl, Uwch Swyddogion priodol o Awdurdodau Lleol, y gwasanaeth lechyd a'r gwasanaeth Prawf. At hyn, mae yna ddau aelod wedi eu hethol i gynrychioli'r darparwyr (y naill yn cynrychioli darparwyr gwasanaethau tymor hir a'r llall ddarparwyr gwasanaethau tymor byr), Cartrefi

Cymunedol Cymru ynghyd ag aelodau cyfetholedig, a gafodd eu gwahodd gan y gwahanol Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol.

1.2.2 Mae Memorandwm o Ddealltwriaeth yn bodoli o fewn Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru.

1.2.3 Er nad oes ganddo unrhyw bwerau gweithredol i wneud penderfyniadau nag arian wedi ei ddyrannu iddo, ystyrir rôl y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol yn un anhepgor o ran craffu ar y cynlluniau gwariant unigol a chyfunol yng Ngogledd Cymru a sicrhau bod arian yn cael ei wario'n briodol. Ymhellach, ers y cychwyn, mae perthynas waith agosach wedi datblygu ar draws y 6 Awdurdod Lleol, ac mae'r rhyngwyneb rhwng y comisiynwyr, y darparwyr a'r landlordiaid hefyd yn ymddangos fel pe bai wedi cael ei gryfhau.

1.2.4 Rhydd y diagram isod amlinelliad o drefniadau Llywodraethu Cefnogi Pobl ar draws Cymru ers mis Awst 2012.



Bydd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol (PCRh)

yn craffu ar y Proffil ac yn gwneud argymhellion i Lywodraeth Cymru.

Caiff yr asesiad hwn ei wneud yn erbyn yr egwyddorion lefel uchel y tynnwyd sylw atynt yn y canllawiau.

Mae holl aelodau'r PCRh i werthfawrogi'n llawn y cyd-destun gwaith a'r cyfeiriad rhanbarthol.

1.2.5 Rhaid i'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol lunio Cynllun Gweithredu Rhanbarthol treigl dros 3 blynedd, sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Amlinellir y blaenoriaethau isod.

1.3 Blaenoriaethau'r Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol

Blaenoriaethau Strategol Rhanbarthol

Detholwyd y testun a ganlyn o'r Cynllun Strategol Rhanbarthol ar gyfer PCRh Gogledd Cymru ac mae'n cynnwys diweddariad ar y cynnydd o ran y meysydd blaenoriaeth a nodwyd ar gyfer eu datblygu o'r flwyddyn flaenorol.

Roedd PCRh Gogledd Cymru wedi amlinellu Cam-drin Domestig, Pobl sy'n Gadael Carchar, Anableddau Dysgu a Phobl sy'n Cysgu Allan fel meysydd blaenoriaeth ar gyfer y PCRh ar gyfer y tair blynedd nesaf. Yn ogystal, ychwanegwyd lechyd Meddwl fel maes blaenoriaeth ar gyfer 2018/19.

Cam-drin Domestig – Beth wnaethom ei amlinellu yn y cynllun y llynedd?

Cytunwyd ar Gam-drin Domestig fel maes blaenoriaeth gan ei fod yn y pum grŵp cleient uchaf oedd wedi cyflwyno eu hunain yn y data ar Allbynnau a Mapio Anghenion a gofnodwyd ar gyfer y llynedd, ac roedd yn cynnig ei hun fel maes blaenoriaeth o ganlyniad i drafodaethau a gyflwynwyd i'r PCRh ar y materion a'r bylchau ar draws y rhanbarth ar gyfer y grŵp cleient hwn.

Y bylchau a gyflwynwyd oedd y diffyg lloches ar gyfer dynion yn unig. Ers hynny mae Sir y Fflint wedi agor eu Lloches Cam-drin Domestig cyntaf i ddynion ac mae'r ffigyrau hyd yma'n dangos bod y galw ar draws y rhanbarth y tu hwnt i'r ddarpariaeth sydd ar gael. Cyflwynodd Sir y Fflint y mater hwn i'r PCRh yn ôl ym mis Mai 2016 ac maent wedi agor unedau'r lloches i bob awdurdod lleol ar draws Gogledd Cymru.

O dan y grŵp cleient hwn, gofynnodd y PCRh am gael gwneud cysylltiadau gyda'r Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i sicrhau ymagwedd gydgyssylltiedig o ran cynllunio strategol a chyfeiriad y gwaith hwn. Bydd trafodaethau a gynhaliwyd gyda'r bwrdd hwn ynghylch y bylchau a'r angen yn llywio'r cynllun gwaith ar gyfer Cam-drin Domestig yn y PCRh.

Beth wnaethom eleni?

Mae'r Bwrdd Trais yn Erbyn Menywod, Trais Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn ymgymryd ag Asesiad Mapio Anghenion i edrych ar yr arian, darpariaeth gwasanaeth ac unrhyw fylchau sy'n bodoli ar hyn o bryd ar draws y Rhanbarth. Bydd yr asesiad yn ategu Asesiad Poblogaeth Presennol Gogledd Cymru yn ogystal â'r Asesiadau Tai a Llesiant lleol. Bydd yr Asesiad Anghenion yn cefnogi datblygiad Strategaeth Ranbarthol VAWDASV a fydd yn arwain y gwaith o gomisiynu gwasanaethau dros y pum mlynedd nesaf.

Mae'r PCRh wedi gwneud cysylltiadau gyda'r Cydlynnydd Rhanbarthol ar gyfer Cam-drin Domestig ynghyd â'r Bwrdd VAWDASV. Mae Cydlynnydd Rhanbarthol Cefnogi Pobl wedi cyfarfod gyda'r Cydlynnydd Rhanbarthol ar gyfer Cam-drin Domestig ac wedi trafod cyfleoedd ar gyfer gwaith cyd-gynhyrchu. Mae Is-grŵp y PCRh wedi cyfarfod gydag aelodau Bwrdd VAWDASV a Rheolwyr y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol i drafod y bylchau mewn darpariaeth ar draws Gogledd Cymru ynghyd â meysydd lle gallwn weithio gyda'n gilydd. Y prif eitemau a drafodwyd yn y cyfarfod hwn oedd y mater o ddiagnosis deuol yn y lloches ynghyd â lefelau uchel o achosion o droi unigolion allan. O ganlyniad, bu modd i'r gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol rhanbarthol a'r Bwrdd VAWDASV ganfod rhywfaint o hyfforddiant 'Inspiring Families' i'w archwilio.

Mae'r PCRh a'r Bwrdd VAWDASV wedi trafod opsiwn i bob Awdurdod Lleol neilltuo rhywfaint o'u grant Cefnogi Pobl ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn. Mae'r PCRh wedi gofyn i'r awdurdodau lleol neilltuo 0.5% o'u grantiau ar gyfer gwaith rhanbarthol. Mae Grŵp Cynllunio CSYM wedi cymeradwyo dyrannu £13,219.33

Yn dilyn ymlaen o'r cyfarfod cychwynnol cyntaf hwn gyda'r Bwrdd VAWDASV a swyddogion arweiniol y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol, rhannwyd adroddiad o'r is-grŵp gyda'r PCRh a oedd yn gofyn i'r PCRh gymeradwyo'r argymhellion a ganlyn:

Is-grŵp y PCRh a chydweithwyr ym maes Cam-drin Domestig i gael cyfarfod pellach i drafod y canlyniadau o'r Asesiad Anghenion ynghyd â'r bylchau a nodwyd yn erbyn y ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd.

I bob awdurdod lleol, wrth fynd ymlaen, neilltuo canran o Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer unrhyw flaenoriaeth ranbarthol yn y dyfodol.

I'r Is-grŵp sicrhau bod unrhyw flaenoriaethau'n cyflawni gofynion cymhwysedd Cefnogi Pobl Y Gwasanaeth Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol Rhanbarthol – i'r PCRh gytuno i Is-grŵp y PCRh archwilio'r trywydd hwn ymhellach.

Cytunwyd y pedwar argymhelliad a gyflwynwyd i'r PCRh yn y cyfarfod ym mis Tachwedd. Mae'r cynllun gwaith yn yr atodiadau'n dangos llinell amser ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn.

Mae Cynllun Rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi amlinellu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel maes blaenoriaeth. Drwy'r asesiad poblogaeth, roedd y Bwrdd wedi canfod:

Mae diffyg hysbysu ynghylch achosion o drais domestig a rhywiol ond mae'r niferoedd yn cynyddu.

Roedd cyfanswm nifer y digwyddiadau domestig a gofnodwyd gan yr heddlu yn tua 11,000 ac roedd nifer y troseddau rhywiol a gofnodwyd yn tua 1400 yng Ngogledd Cymru yn ystod 2015-16.

Mae trais a cham-drin domestig a rhywiol yn effeithio dynion a merched er bod merched yn fwy tebygol o'u profi. Dylai gwasanaethau ystyried gwahanol anghenion merched a dynion.

Mae'r PCRh wedi dechrau gwaith ar hyn, ac mae gan Sir y Fflint loches i ddynion lle mae'r unedau ar agor i'w defnyddio gan awdurdodau Gogledd Cymru.

Ers i'r drosedd ddod i rym yn Rhagfyr 2015, erbyn hyn, mae achosion o reolaeth drwy orfodaeth yn cael eu cofnodi yng Ngogledd Cymru.

Mae cam-drin domestig yn costio tua £66 miliwn y flwyddyn i wasanaethau cyhoeddus yng Ngogledd Cymru, sy'n effeithio arian ar draws gofal iechyd, cyfiawnder troseddol, gwasanaethau cymdeithasol, tai a llochesau, costau cyfreithiol ac allbynnau economaidd a gollwyd.

Mae cynllun rhanbarthol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn amlinellu sut y byddir yn mynd i'r afael â datblygiadau o fewn y gwasanaeth hwn yn y dyfodol.

Pobl sy'n Gadael Carchar – Beth wnaethom ei amlinellu yn y cynllun y llynedd?

Amlinellodd y PCRh y llynedd sut yr oedd y timau Cefnogi Pobl a'r timau Digartrefedd wedi ymuno i gomisiynu darn o waith i lywio ymdrechion i ganfod gwelliannau ar gyfer pobl sy'n gadael carchar. Cwblhawyd y gwaith hwn ym Mehefin 2017.

Mae gan awdurdodau Gogledd Cymru ystod o opsiynau i'w cynnig o ran tai a chefnogaeth. Ceir 66 o brosiectau, gyda chyfanswm o 1,428 o unedau a ganfuwyd ar draws y rhanbarth, gan swyddogion Cefnogi Pobl, sy'n gallu lletya pobl sy'n gadael carchar.

Beth wnaethom eleni?

Comisiynwyd Caroline Humphreys a Tamsin Stirling gan ein PCRh i ymgymryd ag ymchwil i'r gwasanaethau cymorth a ddarperir i bobl sy'n gadael carchar yng Ngogledd Cymru. Roedd y fanyleb ar gyfer yr ymchwil wedi nodi'r meysydd archwilio a ganlyn:

Darpariaeth a natur y gwasanaethau cymorth a ddefnyddir gan bobl sy'n gadael carchar, unrhyw ddyblygu a bylchau yn y ddarpariaeth ac effeithiolrwydd gwasanaethau Niferoedd y bobl sy'n gadael carchar ac yn defnyddio gwasanaethau cymorth a niferoedd y bobl sy'n gadael carchar ar drwydded ac i ba awdurdodau lleol

Profiad a barn defnyddwyr gwasanaethau

Gweithdrefnau rhannu gwybodaeth pan fo unigolyn yn gadael carchar

Effaith tynnu arian pontio yn ôl, gan gynnwys ar swyddi Swyddogion Ailsefydlu Pobl sy'n

Gadael Carchar mewn awdurdodau lleol a sut y gallai'r rhain gael eu hariannu yn y dyfodol Arferion da a modelau arloesol ar gyfer gwasanaethau cymorth i bobl sy'n gadael carchar o bob rhan o'r DU

Ystyried sut y gallai gwasanaethau cymorth yng Ngogledd Cymru gael eu datblygu yn y dyfodol

Cost y prosiect - £10,000

Cynhaliwyd yr ymchwil rhwng mis Ionawr a mis Ebrill 2017. Er mwyn ymchwilio i'r meysydd a oedd wedi'u nodi yn y fanyleb, roedd yr ymchwil yn cynnwys pedair prif elfen ac yn cynnwys cael mynediad at amrywiaeth o wybodaeth:

Data a chynlluniau cyhoeddedig

Holiaduron a cheisiadau am ddata

Gweithdai, trafodaethau a chyfweliadau – 16 cyfweliad gyda phobl sy'n gadael carchar

Chwilio ar y We

O'r 16 a gyfwelwyd - roedd ganddynt syniad clir iawn o'r elfennau y mae eu hangen i wella eu siawns o beidio ag aildroseddu a datrys materion yn ymwneud â dibyniaeth, yn enwedig y rheiny oedd bellach yn ymatalgar ac wedi ailsefydlu eu bywydau. Teimlent fod angen cael pecyn o fesurau yn ei le i hybu sefydlogrwydd ac roeddynt yn atgyfnerthu'r syniad, tra bo angen tai, ar ei ben i hun, nid yw hyn yn ddigon.

Cyflwynodd yr adroddiad yr argymhellion a ganlyn i'r PCRh:

Datrys unrhyw faterion o ran mynediad at wybodaeth am risg, cyn rhyddhau
Mireinio rôl y swyddogion ailsefydlu yng nghyd-destun proses y Llwybr
Sicrhau bod landlordiaid yn gallu cael mynediad at wybodaeth am risg
Trafod anghenion menywod sy'n gadael carchar a pha un a oes angen defnyddio dull penodol
mewn perthynas â chynllunio ar gyfer rhyddhau
Bwrw ymlaen â'r gwaith o ddatblygu darpariaeth ar gyfer y rhai y mae eu hanghenion yn creu
perygl iddynt hwy eu hunain neu i eraill – mwy na thebyg y rhai â phroblemau iechyd meddwl
cymhleth a/neu broblemau camddefnyddio sylweddau a/neu hanes o droseddau difrifol
Bwrw ymlaen â'r gwaith o sefydlu Gwasanaeth Mentora Cymheiriaid, gan gynnwys trafod ei rôl
a gwneud ceisiadau am arian a chytuno ar barti a fydd yn canlyn arni â hyn
Penderfynu ar lefel y gwasanaethau dadwenwyno/adsefydlu ar gyfer pobl sydd ar fethadon ac
yn ceisio dod yn ymatalgar – gan sicrhau eu bod yn ddigonol i ddiwallu anghenion y
boblogaeth
sy'n gadael carchar a chan sicrhau eu bod yn cael eu cysylltu â'r gwasanaethau llefy a
chymorth a gwaith y swyddogion ailsefydlu
Datblygu dull y cytunwyd arno o flaenoriaethu/dogni adnoddau
Trafod y systemau'n gyffredinol a gwneud yn siŵr eu bod yn gweithio

Ar yr un pryd, mae cryn dystiolaeth nad yw tai ar eu pen eu hunain yn ddigon i fynd i'r afael â holl anghenion y mwyafrif llethol o bobl sy'n gadael carchar. Er mwyn ymateb i ddyfnder a chwmpas yr her, bydd yn hanfodol i'r holl asiantaethau perthnasol fabwysiadu dull cofleidiol sydd, i'r sawl sy'n gadael carchar, yn teimlo fel bod cymuned o wasanaethau ar gael iddynt sy'n glir, yn weladwy ac yn syml i'w defnyddio.

Trefnwyd gweithdy ar ôl cyflwyno'r papur ymchwil terfynol yng nghyfarfod y PCRh ym Mehefin 2017. Roedd y gweithdy yn cynnwys Aelodau Is-grŵp y PCRh, Arweinwyr Digartrefedd o bob awdurdod lleol, CEM Berwyn, Swyddogion Ailsefydlu Carchar, Cydlynnydd Rhwydwaith Gwybodaeth Cefnogi Pobl, a Darparwyr ar gyfer pobl sy'n gadael carchar.

Ceir tri Swyddog Ailsefydlu Carchar ar hyn o bryd, un yng Ngwynedd, un ym Môn ac un swyddog sy'n gweithio ar draws y pedwar awdurdod lleol arall. Un argymhelliad o fewn yr adroddiad ymchwil oedd cael chwe swyddog ailsefydlu, un ym mhob awdurdod lleol. Roedd y Swyddogion Ailsefydlu Carchar yn bresennol yn y gweithdy.

Mae'r ymchwilwyr yn awgrymu y dylid cael chwe swyddog ac y dylai'r chwe swydd weithredu yn ôl yr un swydd ddisgrifiad, yn ôl ymagwedd debyg ynghyd â mabwysiadu'r un arferion er mwyn hyrwyddo cysondeb. *Roedd pob bwrdd yn y gweithdy yn cytuno y dylid cael yr un swydd ddisgrifiad i bawb.* Mae'r swyddi a leolir ym Môn a Gwynedd ar hyn o bryd yn gwneud penderfyniadau ar ddyletswyddau o dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014; mae sawl mantais i'r ymagwedd hon a gellid ei mabwysiadu fel arfer cyffredin ar draws pob swydd. Fodd bynnag, er cysondeb, mae'n hanfodol cytuno ar ymagwedd ranbarthol tuag at gyflawni gwasanaethau.

Cyflwynwyd adroddiad argymhellion i'r PCRh yn dilyn y gweithdy yng nghyfarfod y PCRh ym mis Tachwedd, oedd yn cynnig y canlynol:

Cytuno i Is-grŵp y PCRh lunio cynllun gwaith ar gyfer recriwtio ar gyfer y Swyddi Ailsefydlu Carchar ar y cyd â'r Rhwydwaith Digartrefedd Rhanbarthol

Cytuno ar bwy sy'n ariannu'r swyddi

Sicrhau cysondeb

Swydd ddisgrifiad – yn seiliedig ar Fodel Ynys Môn / Gwynedd

Archwilio ymhellach yr argymhellion sy'n weddill ar ôl recriwtio ar gyfer y swyddi ailsefydlu, fel a ganlyn

Cryfhau cysylltiadau gyda'r carcharau

Tri apwyntiad i'w mynychu ar y diwrnod rhyddhau cyntaf? Oes modd cwblhau rhai o'r rhain yn ystod y broses gyn rhyddhau o fewn CEM Berwyn?

Y PCRh i gadarnhau datganiad cais i fynd i'r carchar

Parhau i hyrwyddo gwerthoedd CEM Berwyn, oes modd i ni gael presgripsiynau tymor byr ar gyfer mynd i'r llyfrgell, gym a 'Men's Sheds'? A ydyw'r PCRh yn hapus i Is-grŵp y PCRh wneud hyn yn rhan o swydd y Swyddogion Ailsefydlu Carchar?

Codi wrth y giât

Y canlyniad yn y gweithdy oedd bod consensws cryf y dylid cael gwasanaeth Codi Wrth y Giât, teimlodd Is-grŵp y PCRh y dylai hyn fod yn rhan o rôl y Swyddog Ailsefydlu Carchar.

Ymgorffori hyn o fewn swydd ddisgrifiad y swyddi Ailsefydlu

Hyb Cymunedol

Cytunwyd yr argymhellion uchod gan aelodau'r PCRh yng nghyfarfod y PCRh ym mis Tachwedd 2017. Mae'r argymhellion uchod wedi cael eu hychwanegu at gynllun gwaith y PCRh, sydd wedi'i gynnwys yn yr atodiadau.

Pobl sy'n Cysgu Allan – Beth wnaethom ei amlinellu yn y cynllun y llynedd?

Mae'r PCRh wedi ymrwmo i atal cysgu allan. Amlinellodd y PCRh y dylai Cefnogi Pobl gysylltu â chynlluniau peilot sy'n cael eu darparu mewn partneriaeth gyda BIPBC i ganfod gwraidd y broblem a'r cymorth sydd ei angen. Bydd gwaith yn dechrau ar y maes blaenoriaeth hwn yn 2018/19 a bydd diweddariad llawn ar y gwaith ar gael o fewn diweddariad nesaf y cynllun hwn. Yn ogystal, amlinellodd y cynllun y dylai'r PCRh ystyried yn lle y gallai newidiadau fod yn angenrheidiol er mwyn atal rhai unigolion gydag anghenion cymorth rhag cael eu rhwystro rhag cael darpariaeth gyfredol, a byddir yn bwrw ymlaen â hyn yn 2018.

Yn y bôn, mae gwaith y PCRh a'i feysydd blaenoriaeth yn ategu'r maes hwn o ran lleihau'r perygl y bydd pobl yn ddigartref. Er hynny, bydd gwaith penodol yn cael ei wneud ar y maes cleientiaid hwn yn 2018/19.

Beth wnaethom eleni?

Mae'r awdurdodau lleol wedi parhau i gefnogi'r Cyfrif Cenedlaethol o Gysgu Allan, darperir manylion hyn yn y tabl isod:

Data ar gyfer 2016, a gymerwyd o StatsCymru. Mae'r tabl a ganlyn yn rhoi manylion y cyfrif diweddaraf ym mis Tachwedd 2017, nid yw'r data hwn ar gael ar StatsCymru ar hyn o bryd.

Anableddau Dysgu – Beth wnaethom ei amlinellu yn y cynllun y llynedd?

Amcanion y grŵp tasg a gorffen Anableddau Dysgu a amlinellwyd yng nghynllun y llynedd:

Edrych ar arian a chymhwysedd presennol gwasanaethau Cefnogi Pobl ar gyfer y grŵp cleient hwn.

Dadansoddi sut y mae gwasanaethau presennol yn cysylltu â'r agenda atal digartrefedd a threchu tlodi

Dysgu o arferion gorau o bob awdurdod

Dewiswyd y grŵp cleientiaid Anableddau Dysgu gan y PCRh fel maes blaenoriaeth o fewn yr hyn a elwid bryd hynny'n Gynllun Comisiynu Lleol yn ôl yn 2014. Amlygwyd Anableddau Dysgu fel blaenoriaeth gan mai'r grŵp cleient hwn a dderbyniodd y lefel uchaf o arian Cefnogi Pobl o gymharu â holl grwpiau cleient eraill Cefnogi Pobl.

Gofynnodd y PCRh am gael ffurfio Grŵp Tasg a Gorffen Cefnogi Pobl i edrych ar y rheswm dros y dyraniad gwariant uchel hwn ynghyd â nifer y gwasanaethau presennol nad ydynt yn gymwys i gael arian Cefnogi Pobl, yn ogystal ag archwilio beth mae pob awdurdod lleol yn ei wneud i fynd i'r afael â hyn.

Rhaid nodi nad ymarfer lleihau costau mo hyn, mater o gymhwysedd ydyw y mae'r PCRh wedi gofyn am ei archwilio.

Yn ogystal, roedd Adolygiad Swyddfa Archwilio Cymru o'r rhaglen Cefnogi Pobl wedi amlygu'r grŵp cleientiaid Anableddau Dysgu ac wedi nodi *“Yn adolygiadau Llywodraeth Cymru, ac mewn gwaith manylach ar raddfa ranbarthol gan ddau o'r Pwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol, amlygwyd rhai problemau'n gysylltiedig â chymhwysedd pobl ag anableddau dysgu i dderbyn cymorth, a gwahaniaethau yn lefel y cymorth a ddarperir. Argymhellwn y dylai Llywodraeth Cymru annog yr holl Bwyllgorau Cydweithredol Rhanbarthol i adolygu'r trefniadau ar gyfer rhoi cymorth i bobl ag anableddau dysgu drwy'r Rhaglen, a gweithio gyda'r pwyllgorau i reoli unrhyw ganlyniadau negyddol posibl o ran darpariaeth gwasanaeth.*

Mae'r Archwilydd Cyffredinol ar hyn o bryd yn cynnal archwiliad o'r modd y mae awdurdodau lleol yn comisiynu eu gwasanaethau anableddau dysgu mewn modd strategol. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar y modd y mae comisiynu yn cyfrannu at wella deilliannau a llesiant dinasyddion. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn cyflwyno adroddiad ar y gwaith hwn tua diwedd 2017.

Mae dau ranbarth (Gogledd Cymru a Gwent) wedi cynnal eu hadolygiadau manylach eu hunain o wasanaethau anableddau dysgu (Atodiad 3, Bocs A1). Yn adolygiad Gogledd Cymru, gwelwyd llawer o achosion lle'r oedd gwasanaethau a oedd yn cael eu hariannu drwy'r Rhaglen yn anghymwys. Mewn ymateb i hyn, mae Pwyllgor Cydweithredol Gogledd Cymru yn gofyn bod ei awdurdodau lleol cyfansoddol yn adrodd ar gynnydd tuag at sicrhau mai cymorth sy'n gysylltiedig â thai yw'r unig wasanaethau i bobl ag anableddau dysgu a ariennir drwy'r Rhaglen. Yn ogystal â hyn, sefydlodd y Pwyllgor is-grŵp i edrych ar ystod o faterion yn gysylltiedig â'r grŵp hwn o gleientiaid, fel y posibilrwydd o ddefnyddio teleofal yn lle gweithiwr cymorth, neu i gefnogi gweithiwr cymorth”.

Gellir gweld yr Adolygiad Archwilio llawn yn: <http://www.audit.wales/publication/welsh-governments-supporting-people-programme>

Beth wnaethom eleni?

Anableddau Dysgu yw'r maes gwariant mwyaf o ran grŵp cleientiaid yng Ngogledd Cymru ac mae hefyd yn derbyn y cyfraniad mwyaf gan yr awdurdodau lleol. Mae Gogledd Cymru wedi adolygu eu gwasanaethau Anableddau Dysgu i sicrhau bod pawb sy'n derbyn y grant Cefnogi Pobl ar gyfer Anableddau Dysgu yn gymwys. Mae bob awdurdod lleol wedi adolygu eu gwasanaethau Anableddau Dysgu, a dyma'r statws cyfredol o ran gwasanaethau anghymwys:

Ynys Môn	Mae'r holl wasanaethau a ariennir gan Cefnogi pobl, ar gyfer pobl ag anableddau dysgu, sy'n byw ac yn derbyn cefnogaeth sefydlog mewn llety yn cael eu capio bellach ar uchafswm o 15 awr yr wythnos, ac yn unol â hynny, maent yn seiliedig ar anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai a asesir. Arweiniodd hyn at ostyngiad o £287,000 yn y dyraniad i'r grŵp cleient hwn yn ystod 2017/18. Mae'r gwaith yn parhau o ran ailfodelu'r ddarpariaeth ofal gorfforaethol, a all arwain at ostyngiadau pellach mewn arian Cefnogi Pobl ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu o hyn ymlaen at 2020.
Gwynedd	Mae 6 ar ôl i'w hasesu i gadarnhau eu cymhwysedd ai peidio. Mae Gwynedd wedi newid y term i 'non-primary' yn hytrach nag anghymwys.
Conwy	0
Sir Ddinbych	Mae'r cwbl yn anghymwys mewn perthynas â meini prawf Sir Ddinbych. Nid yw unrhyw atgyfeiriad y mae 10% neu ragor ohono'n cael ei ariannu gan iechyd yn gymwys ar gyfer gwasanaeth Cefnogi Pobl.
Sir y Fflint	Ymgwymerwyd ag adolygiad llawn pryd canfuwyd yr holl wasanaethau anghymwys. Tynnwyd peth arian yn ôl yn 17/18. Cynigir tynnu rhagor o arian allan dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Cynigir dileu'r 3 lefel fandio a gweithio yn ôl 10 awr yr wythnos. Cyflwynir y cynigion uchod i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Sir y Fflint ddiwedd mis Tachwedd 17.
Wrecsam	Mae 5 wedi'u canfod ar hyn o bryd – mae arian yn parhau ar sail dros dro hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol (2017-18).

Fe gafodd cynllun gwaith ar gyfer y PCRh ynghyd â'r meysydd blaenoriaeth eu cytuno yng nghyfarfod y PCRh ym mis Ionawr - dylid cyfeirio at Atodiad dau sy'n rhoi manylion y gwaith sydd i'w gwblhau ar gyfer 2018/19.

Mae'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol wedi nodi Anableddau Dysgu fel maes blaenoriaeth hefyd. Bydd angen i'r PCRh ac Is-grŵp y PCRh ystyried y gwaith a amlinellwyd yng nghynllun

y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i sicrhau nad yw gwaith yn cael ei ailadrodd a bod adnoddau a chyfleoedd dysgu a rennir ar gael. Drwy eu hasesiad o'r boblogaeth, mae'r Bwrdd wedi canfod:

Mae tua 2,700 o bobl ag Anableddau Dysgu ar gofrestrau cynghorau lleol yng Ngogledd Cymru. Gall union nifer y bobl ag anableddau dysgu fod yn uwch.

Mae nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd angen cefnogaeth yn cynyddu, ac mae pobl ag anableddau dysgu'n byw'n hirach. Mae'r tueddiadau hyn yn debygol o barhau.

Mae pobl ag anableddau dysgu'n dueddol o brofi iechyd gwaelach, mae arnynt angen mwy o ofal iechyd ac mewn mwy o berygl o farw'n iau o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.

Mae'n fwy tebygol bod mwy o bobl ifanc ag anghenion cymhleth sydd angen cefnogaeth.

Roedd adroddiad y Bwrdd yn nodi sut y byddir yn mynd i'r afael â chanfyddiadau'r adroddiad.

2. Y Cyd-destun Strategol a'r Blaenoriaethau

2.1 Bydd amrywiaeth o strategaethau, fframweithiau a pholisïau cenedlaethol, a lleol yn creu sail gadarn i Gynllun Comisiynu Rhaglen Cefnogi Pobl. Bydd y rhain yn cynnwys

Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015

Deddf Tai (Cymru) 2014.

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Strategaeth Tai Cenedlaethol, Gwella, Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru, Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd 2009-2019

Fframwaith Cenedlaethol Deilliannau Cefnogi Pobl ,

Cynllun Corfforaethol Cyngor Ynys Môn 2017-2021

Strategaeth Dai Lleol Cyngor Sir Ynys Môn 2014 – 2019

Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn - Ein Hynys Ein Dyfodol

Diwygio Lles

Trechu Tlodi

2.2 Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015


2.2.1 Daeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol yn gyfraith yn Ebrill 2015 ac yn weithredol o'r 1af Ebrill 2016.

2.2.2 Rhoes y Ddeddf ddyletswydd ar Gyrrff Cyhoeddus, megis Cyngor Sir Ynys Môn i sicrhau llesiant y boblogaeth dros y tymor hir. Mae llesiant yn cwmpasu ffactorau megis bywyd cymdeithasol, statws economaidd, iechyd, llesiant diwylliannol ac amgylchfyd y person.

2.2.3 Disgwylir dros amser y bydd gweithredu'r ddeddf yn arwain at ymagwedd sy'n cydweddu'n well ac y cyflawnir mewn modd sy'n gynaliadwy. Y brif nod yw creu Cymru yr ydym oll yn dymuno byw yma,, nawr ac yn y dyfodol.

2.2.4 Nodau Llesiant

Rhoes y ddeddf saith nod llesiant er mwyn sicrhau bod pawb yn gweithio tuag at yr un weledigaeth. Gweler y darlun isod.



2.2.5 Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy

Ceir 5 o feini prawf sy'n gwneud yr Egwyddorion Datblygiad Cynaliadwy sydd yn eu tro yn helpu i gwrdd â'r 7 nod.

Meddwl Tymor-Hir – sefydlu cydbwysedd o anghenion tymor-byr gyda materion diogelu i gyfarfod anghenion tymor-hir.

Ataliol – gweithrediadau i atal problemau rhag cynyddu

Integreiddio – ystyried sut y gall amcanion effeithio ar eraill

Cydweithio - gweithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill er mwyn cyrraedd y nodau (gall hyn gynnwys y trydydd sector).

Cyfranogiad - cynnwys pobl a chymunedau sydd â diddordeb mewn helpu i gyfarfod a'r nodau , ac adlewyrchu'r gwahanol bobl sy yn yr ardal.

Mae gan Raglen Cefnogi Pobl rôl allweddol i'w chwarae er mwyn cyrraedd y nodau o fewn y Ddeddf. Mae natur Rhaglen Cefnogi Pobl yn hyrwyddo methodoleg o gydweithio sy'n cynnwys perthynas waith agos rhwng amrediad o randdeiliaid allweddol ar draws y gwahanol sectorau. Mae'r Rhaglen yn un o'r prif gyfranwyr i sicrhau bod gwasanaethau ataliol trwy fecanwaith ymyrraeth gynnar yn gostwng yr angen am ymyrraethau statudol sy'n fwy costus dros y tymor hir. Yn ychwanegol, mae'r Rhaglen yn caniatáu i lais a barn y defnyddwyr gwasanaeth gael eu clywed a gwrando arnynt, ac mae anghenion y defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog i gyrraedd yr amcanion.

2.3 Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2017/22

Mae Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn yn gosod allan nodau ac amcanion y Cyngor am y pum mlynedd nesaf. Bydd yn bwynt cyfeirio ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau ar bob lefel.

Bydd hefyd :

Yn gosod fframwaith i'w ddefnyddio er mwyn cynllunio a gweithredu blaenoriaethau'r Cyngor;
Yn gosod cyfeiriad i'r ffordd y bydd y Cyngor yn llunio ei wariant yng nghyd-destun gostyngiad sylweddol mewn cyllid;
Yn cael ei ddefnyddio ar gyfer monitro cynnydd y blaenoriaethau a nodwyd.

Amlygir uchelgais y Cyngor i weithio ar y cyd gyda'i ddinasyddion, cymunedau a phartneriaid yn prif themâu sydd wedi eu cynnwys ar draws y ddogfen hon, er mwyn sicrhau ei fod yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n gwella ansawdd bywyd pawb ar draws yr Ynys.

Mae'r Cynllun gyda'r dair amcan ganlynol

Sicrhau cyfleoedd i bawb allu ffynnu a chyrraedd eu potensial tymor hir.
Diogelu ein pobl er mwyn eu cadw saff, iach ac mor annibynnol a phosib.
Galluogi cymunedau i allu ymdopi'n effeithiol gyda newidiadau a datblygiadau tra'n diogelu ein amgylchfyd naturiol.

2.4 Darperir crynodeb byr yn y tabl isod o'r strategaethau. Fframweithiau a pholisïau y mae gan Raglen Cefnogi Pobl rôl allweddol mewn sicrhau bod y nodau a'r amcanion yn cael eu cyflawni

Strategaeth / Cynllun / Fframwaith	Prif Bwyntiau e.e. Blaenoriaethau ayyb	Cyswllt Uniongyrchol / Anuniongyrchol gyda Rhaglen Grant Cefnogi Pobl
Deddf Tai (Cymru)	<p>Cyflwyniad o gofrestr a chynllun trwyddedu gorfodol ar gyfer landlordiaid sector breifat ac i asiantau gosod a rheoli (Rent Smart Wales)</p> <p>Diwygio cyfraith ddigartrefedd, gan gynnwys gosod dyletswydd gryfach ar awdurdodau lleol i atal digartrefedd a'u galluogi hwy i ddefnyddio llety addas yn y sector breifat.</p> <p>Pwyslais ar ymyrraeth gynnar i atal sefyllfaoedd droi yn argyfwng</p>	<p>Bydd angen i gomisiynwyr cefnogaeth sy'n ymwneud â thai sicrhau bod holl landlordiaid sydd ag eiddo y rhentir i denantiaid sy'n derbyn cefnogaeth ganddynt yn cydymffurfio gyda gofynion Rent Smart Wales</p> <p>Disgwylir cynnydd yn y niferoedd o bobl sy'n cyflwyno gydag anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn y sector breifat.</p> <p>Tebygrwydd y bydd pwyslais yn cael ei roi ar ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd a risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.</p> <p>Cynnydd mewn gwaith cyn ac ôl- denantiaeth ble mae pobl yn wynebu gorfod gadael tenantiaethau.</p> <p>Gwell cynllunio a'r angen am weithio'n agosach rhwng Opsiynau Tai a darparwyr Cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.</p>
Strategaeth Cenedlaethol i Gymru: Gwella Cymunedau – Cartrefi yng Nghymru	<p>Gwella gwasanaethau Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai, yn enwedig ar gyfer pobl fregus o fewn grwpiau lleiafrifol.</p>	<p>Cynnig cefnogaeth i alluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib. Darparu cefnogaeth sydd ei angen arnynt i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod, neu unrhyw fath arall o lety arbenigol. Atal problemau rhag digwydd yn y lle cyntaf neu gynnig cymorth mor fuan â phosibl er mwyn lleihau'r galw ar wasanaethau eraill, megis gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd.</p> <p>Darparu cefnogaeth sy'n cydweddu'r gofal personol a meddygol y gall rhai fod ei angen.</p> <p>Sicrhau y darperir gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud a</p>

		<p>Â thai sydd o ansawdd ac y darperir hwynt mewn modd effeithiol ac effeithlon, drwy gyd weithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n eu darparu.</p> <p>Hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau</p>
--	--	---

<p>Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd</p>	<p>Atal digartrefedd ble'n bosibl</p>	<p>Ymyrraeth gynnar ble bynnag mae'n bosibl i atal sefyllfa droi'n argyfyngus ac o bosib arwain at ddigartrefedd ac angen ymyrraeth statudol.</p>
	<p>Gweithio ar draws ffiniau sefydliadol a pholisi</p>	<p>Trefniadau gweithio'n agosach eu hangen rhwng comisiynwyr Cefnogi Pobl, Opsiynau Tai, Darparwyr Gwasanaeth a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan gynnwys rhai ar draws sectorau statudol preifat a gwirfoddol.</p>
	<p>Gosod y defnyddiwr gwasanaeth yng nghanol y ddarpariaeth gwasanaeth.</p>	<p>Diwallu anghenion amrediad eang o ddefnyddwyr gwasanaeth a chyd weithio er mwyn cyflawni deilliannau cadarnhaol fydd yn gwella ansawdd bywyd pob grŵp gwasanaeth.</p>
	<p>Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal at wasanaethau</p>	<p>Darparu cyfleoedd ystyrlon i bobl ar draws yr holl grwpiau gwasanaeth er mwyn eu galluogi i deimlo'n rhan o'r gymuned ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis, er mwyn lleihau unigrwydd a chyrraedd llawn botensial.</p>
	<p>Gwneud y defnydd gorau o adnoddau</p>	<p>Hyrwyddo datblygiad a defnydd o hybiau cymunedol fydd yn rhyng-oedrannol ac felly'n magu a meithrin unigolion annibynnol a gwydn o fewn cymunedau cryf yn unol â gweledigaeth CSYM i'r dyfodol.</p> <p>.</p> <p>Sicrhau bod gwasanaethau Cefnogi Pobl sy'n cael eu comisiynu yn darparu cefnogaeth o'r ansawdd uchaf, yn strategol berthnasol, ac yn cynnig gwerth am arian.</p>

		Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i leihau dyblygu darpariaeth gwasanaeth ble'n bosibl.
Strategaeth Dai Lleol 2014-2019	<p>1. Datblygu cartrefi addas ar gyfer y dyfodol yn Ynys Môn.</p> <p>2. Gwneud defnydd gorau o'r stoc gyfredol, a gwella cartrefi a chymunedau.</p> <p>3. Atal argyfyngau llety a chynyddu opsiynau tai.</p> <p>4. Cefnogaeth i hyrwyddo annibyniaeth llety</p> <p>5. Cartrefi ar gyfer bywydau hirach</p> <p>6. Sicrhau bod y cysylltiadau rhwng tai a'r economi ehangach yn cael eu gwireddu.</p>	<p>1. Darparu data cadarn mewn perthynas â chefnogaeth sy'n ymwneud â thai ac anghenion tai er mwyn hysbysu'r broses gynllunio a sicrhau bod anghenion tai poblogaeth Ynys Môn yn cael eu diwallu.</p> <p>2. Cefnogi cymunedau i fod yn fwy gwydn ac i gynnig cymorth i daclo materion megis ymddygiad gwrth gymdeithasol, sefydlu hybiau cymunedol a hyrwyddo gweithgareddau rhyng oeddrannol.</p> <p>3 Darparu'r gefnogaeth ac ymyrraeth briodol ac amserol i atal digartrefedd ac i liniaru unrhyw risg o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod.</p> <p>4. Darparu cefnogaeth amserol a phriodol i alluogi pobl i fyw'n eu cartrefi eu hunain cyhyd a phosibl ac felly atal cyfnod mewn diangen mewn ysbyty, cartref gofal neu amgylchedd sefydliadol arall.</p> <p>5, Darparu cefnogaeth ar draws pob math o ddaliadaeth gan gynnwys gofal ychwanegol i alluogi pobl i aros yn annibynnol cyhyd a phosib.</p> <p>6. Cyrraedd deilliannau cadarnhaol fydd yn ysbrydoli, unigolion a theuluoedd gwydn a chymunedau cryfach</p>
Diwygio Lles	<p>Effaith parhaus o'r sybsidi ystafell sbâr (neu'r Dreth Ystafell Wely del yr adnabyddir) ble mae</p> <p>Tenantioid gydag un ystafell wely fwy nag y sydd ei angen = 14% o</p>	<p>Bydd angen i ddarparwyr gwasanaeth a gomisiynir i ddeall a diweddarau'r newidiadau parhaus mewn polisi cymdeithasol ac yn enwedig mewn perthynas â diwygio lles</p> <p>Bydd angen i ddarparwyr cefnogaeth, gynnig cyngor, cefnogaeth a chyfeirio ymlaen i wasanaethau arbenigol ble'n briodol, er mwyn</p>

	<p>ostyngiad mewn Cymhorthdal Rhent Lleol</p> <p>Tenantiaid gyda dwy neu fwy o ystafelloedd gwely nag y sydd ei angen = 25% o ostyngiad mewn Cymhorthdal Rhent Lleol.</p> <p>Cymhorthdal Rhannu Ystafell ar gyfer unigolion sengl hyd at 35 mlwydd oed yn arwain at ddiffyg arian digonol i allu fforddio rhent y farchnad, ac o bosib arwain at gynnydd mewn digartrefedd</p> <p>Cyflwyno Credyd Cynhwysol yn 2018.</p> <p>Argymhellion parhaus i ddiwygio'r ffordd yr ariennir llety â chefnogaeth</p>	<p>lliniaru effaith gymdeithasol ac economaidd newidiadau mewn diwygio lles.</p> <p>Cefnogi, cynghori ac atal amgylchiadau rhag cynyddu i fod yn argyfwng, a all arwain at gynnydd mewn digartrefedd.</p> <p>Sicrhau bod darparwyr wedi cofrestru ac achredu gan Awdurdod Rheoli Cyllid (FCA) os ydynt am gynnig cyngor rheoli dyled</p>
Trechu Tlodi	Gwella aliniad o Raglenni Trechu Tlodi	<p>Gweithio'n agosach rhwng Rhaglenni Trechu Tlodi. Megis,</p> <p>Cefnogi Pobl Dechrau'n Deg Teuluoedd yn Gyntaf Cymunedau'n Gyntaf Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid</p>

		<p>Gwneud defnydd mwy effeithlon o gyllidebau'r trwy gynllunio'n well a rhannu data cadarn ar draws y rhaglenni uchod, a thrwy hyn lleihau dyblygi a gwella'r ddarpariaeth</p> <p>Ystyried yr effaith ar ddarpariaeth Rhaglen Cefnogi Pobl a rhaglenni priodol eraill, pe byddai trefniadau ariannu Cymunedau'n Gyntaf yn cael ei ddiwygio, o ganlyniad i'r adolygiad y mae Llywodraeth Cymru yn ei hymgymryd.</p> <p>Disgwylir i Raglen Lleoedd Llewyrchus a Llawn Addewid ddod i ben ym mis Mawrth 2017, ac rydym ar ddeall y bydd cyfle i wneud cais am raglen grant o'r newydd yn y dyfodol - rhagwelir y bydd manylion pellach yn cael eu cyhoeddi dros y misoedd nesaf.</p> <p>Sicrhau y byddwn yn cyrraedd nodau ac amcanion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Tai (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant a Chymunedau'r Dyfodol 2015.</p>
--	--	---

3. Lefelau Angen, a'r Bylchau yn y Gwasanaeth

3.1 Y prif offeryn a ddefnyddir i asesu angen yw'r ffurflen Mapio Anghenion, a gwblheir gan yr holl ddarparwyr a gomisiynir yn ogystal â rhai rhanddeiliaid megis Dewisiadau Tai'r Cyngor, BAWSO, Shelter ac yn y blaen, pan fydd defnyddiwr gwasanaeth newydd yn dod atynt gydag anghenion llety neu gefnogaeth. Cofnodir y wybodaeth ynghylch yr holl unigolion sy'n dod i'w sylw, p'un a ydynt yn cael eu hasesu neu beidio fel rhai sydd angen math o gefnogaeth sy'n ymwneud â thai ac a fydd gwasanaeth cefnogi'n cael ei ddyrannu iddynt wedyn neu beidio.

3.1.1 Mae 6 Awdurdod Gogledd Cymru wedi mabwysiadu dull partneriaeth o gasglu data NME (*Needs Mapping Exercise*). Cyflwynwyd ffurflen mapio anghenion a chronfa ddata rhanbarthol ym mis Mai 2012, oedd yn ei gwneud yn bosibl dadansoddi'r data ar lefel leol ac ar lefel y rhanbarth er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr o'r angen ar draws rhanbarth Gogledd Cymru. Ers mis Ebrill 2014, mae'r holl ddata'n cael ei fewnbynnu ar-lein gan y rhai sy'n cwblhau'r wybodaeth.

3.1.2 Er gwaethaf y data cynhwysfawr y gellir ei gael allan o'r gronfa ddata, mae rhai anawsterau'n parhau ynglŷn â defnyddio'r dull yma. Mae'r rhain yn cynnwys:

Nid yw'r holl ddarparwyr yn cwblhau'r ffurflen
Efallai bod yna gyfrif dwbl

3.2 Y Ffurflenni NME a Ddychwelwyd

3.2.1 Cafodd cyfanswm o 1,310 o ffurflenni eu cwblhau a'u dychwelyd gan ddarparwyr gwasanaethau rhwng mis Ebrill 2016 a mis Mawrth 2017.

Tabl 2


Blwyddyn	Nifer y Ffurflenni NME a Gwblhawyd
2008/09	617
2009/10	724
2010/11	825
2011/12	690
2012/13	443
2013/14	683
2014/15	1,185
2015/16	1,441
2016/17	1,310

3.2.2 Drwy'r nifer o ffurflenni NME a gwblhawyd, gwelwyd gostyngiad o 131 cyflwyniad sy'n cyfateb i ganran o 10%. Gellid priodoli hyn i'r ffaith nad yw Cefnogi Pobl mwyach yn comisiynu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai drwy'r gwasanaeth ail-alluogi a ddarperir gan y gwasanaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o Fedi 2016. Yn flaenorol, byddai'r darparwr gwasanaeth

cymdeithasol mewnol i oedolion oedd yn cyflenwi'r gwasanaeth ail-alluogi yn cwblhau ffurflen NME ar gyfer bob achos, er nad oedd pob defnyddiwr gwasanaeth yn gymwys i gael cefnogaeth sy'n ymwneud â thai oherwydd yr angen statudol i gyflenwi gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mewn realiti, gellid dadlau bod nifer y cyfeiriadau atal digartrefedd dilys o fewn yr ymarfer mapio anghenion yn wir wedi cynyddu. Yn y ffurflenni a ddychwelwyd yn y flwyddyn flaenorol, o'r 1441 atgyfeiriad, roedd 496 yn ymwneud ag ailalluogi, a oedd yn golygu y byddai 945 yn canolbwyntio ar atal digartrefedd. Mewn cymhariaeth, roedd y ffurflenni a ddychwelwyd ar gyfer blwyddyn lawn 2016/17 yn cynnwys cyfanswm o 1,310 cyflwyniad, yr oedd 170 ohonynt yn canolbwyntio ar ailalluogi. Felly roedd nifer yr achosion atal digartrefedd yn dod i gyfanswm o 1,140. Byddai cymharu tebyg wrth debyg yn dangos y derbyniwyd cynnydd o 195 neu 20.6% mewn cyflwyniadau gwirioneddol ar gyfer llety neu anghenion yn ymwneud â chefnogaeth.

3.3 Dadansoddiad o'r Ffurflenni NME a Ddychwelwyd ar gyfer 2015/16


3.3.1



Roedd rhesymau generig yn cyfrif am draen o'r holl brif anghenion a gyflwynwyd yn ystod 2016/17. Ymddengys y byddai hyn yn cynyddu'r anghenion a brofir gan rai o'n dinasyddion mwyaf bregus, yn enwedig o ran rheoli llety ac arian. Roedd chwarter yr holl brif anghenion a nodwyd ar gyfer pobl hŷn 55 oed a throsgodd. Fodd bynnag, mae nifer y bobl hŷn a gofnodwyd wedi disgyn 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol, yn ôl pob tebyg oherwydd y ffaith nad oedd y gwasanaethau Ail-alluogi yn cofnodi o Fedi 2016. Cofnodwyd bod gan 209 (16%) o bobl anghenion iechyd meddwl, cynnydd o 6% o'r flwyddyn flaenorol. Dylid nodi hefyd bod nifer uchel iawn o bobl yn cyflwyno gydag iechyd meddwl fel angen eilaidd. Cofnodwyd cynnydd o 2% o 8% i 10% o gyfanswm yr anghenion a gyflwynwyd ar gyfer pobl ifanc bregus, tra bod y ffurflenni a gyflwynwyd ar gyfer cam-drin domestig wedi haneru bron o 11% i 6%. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli'r ffurflenni a gyflwynwyd ar gyfer pobl â phrif anghenion sy'n ymwneud â cham-drin domestig, a gall hyn fod o ganlyniad i ddiffyg hysbysu gan y darparwr. Mae'r niferoedd a gofnodwyd ar gyfer yr amryw grwpiau eraill yn gyson â blynyddoedd blaenorol, er y cydnabyddir yn gadarnhaol mai'r 40 achos y cofnodwyd bod ganddynt brif angen nad oedd wedi'i nodi, sy'n cynrychioli 3% o'r cyfanswm, yw'r nifer isaf ers dechrau casglu NME's.


3.4 Y Rheswm dros Ymgyflwyno mewn Angen

3.4.1 Ymgyflwynodd 35% (454) o unigolion ag anghenion cefnogaeth yn unig. Mae hyn yn cymharu â 612 (42.0%) yn y flwyddyn flaenorol. Mewn cyferbyniad ymgyflwynodd 30% (399) ag anghenion llety yn unig, Mae hyn yn gymharol â 441 (31.0%) yn ystod y flwyddyn flaenorol. Roedd 34% (454) ychwanegol wedi'u cofnodi ag anghenion cefnogaeth a llety, o'i gymharu â 366 (25%) yn ystod y flwyddyn flaenorol. Methwyd a chofnodi rheswm ar gyfer 1% (11) a wnaeth gyflwyno.



3.5 Rhaniad o ran Rhyw


3.5.1 O'r cyfanswm o 1,310 o geisiadau a wnaed, roedd 758 (58%) yn ferched a 550 (42%) yn ddynion. Mae hyn yn cymharu ag 826 (57%) o ferched a 615 (37%) o ddynion yn ystod 2015/16, sy'n adlewyrchu bron union ganran y rhaniad o ran rhyw a gofnodwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol.



3.6 Rhaniad o ran Oed

3.6.1 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r grŵp oedran 16-24 mlwydd oed wedi cyfrif am y nifer uchaf o unigolion yn ymglyfwyno ag anghenion. Fodd bynnag, mae'r data diweddaraf a gasglwyd yn tynnu sylw at newid sylweddol mewn tueddiadau oedran, fel y dangosir yn y graff isod.


Rhaniad o Ran Oed



3.6.2 Roedd cyfanswm o 28% (369) o'r rhai a gyflwynodd yn 61 mlwydd oed neu hŷn, gyda 27% (352) rhwng 25-40 mlwydd oed, gyda'r niferoedd rhwng 16-24 a 41-60 yn cofnodi 22% (283) a 23% (306) yn y drefn honno.

Yn gyffredinol, cafwyd newid ymylol yn ystodau oedran y rheiny sy'n cyflwyno gydag anghenion. Cofnodwyd cynnydd o 2% ar gyfer rhai 16 i 24 oed, gyda chynnydd o 1% ymhlith y rheiny sy'n 25-40 oed. Digwyddodd y newid mwyaf o fewn y grŵp oedran 61+ sydd wedi gweld gostyngiad o 35% i 28%, ond sydd wedi'i gydbwysu i raddau helaeth gan gynnydd o 4% ymhlith y grŵp oedran 41-60. Fel yr amlygwyd yn flaenorol o fewn y bennod hon, nid yw mapio anghenion yn wyddor fanwl, ac ymddengys y byddai'r gostyngiad yn y niferoedd a gofnodwyd ar gyfer y rhai 61+ yn cyfateb i roi'r gorau i gomisiynu gwasanaethau ail-alluogi hanner ffordd drwy'r cyfnod adrodd.

3.7. Pob Lefel o Angen




3.7.1 Cofnodwyd cyfanswm o 2,194, o anghenion i gyd ar gyfer y cyfnod o 12 mis, o 1.4.16 i 31.03.17. Mae hyn yn llai na chyfanswm y flwyddyn flaenorol o 2,194.

3.7.2 Roedd anghenion generig yn cyfrif am 549 o achosion, oedd yn cyfateb i 25% o'r holl anghenion yr adroddwyd amdanynt. Mae hyn yn gynydd o 8% yn y categori generig, lle cofnodwyd 17.2% ar gyfer y cyfnod adrodd blaenorol. Unwaith eto, cofnodwyd cynnydd sylweddol mewn anghenion iechyd meddwl cyffredinol, gyda 479 (22%) yn cofnodi anghenion perthnasol, bo'r rheiny'n brif anghenion neu'n rhai eilaidd neu anghenion trydydd lefel o fewn y categori hwn. Mae hyn yn cymharu gyda 358 (15%) ar gyfer y flwyddyn flaenorol ac mae'n duedd sy'n peri pryder, yn enwedig o fewn y grŵp 16-24 oed. Felly roedd anghenion generig a rhai sy'n berthnasol i iechyd meddwl yn cyfrif am 47% o'r holl anghenion yr adroddwyd amdanynt. Fel y disgwylir, pobl hŷn a phobl ifanc oedd y ddau grŵp uchaf wedyn o ran anghenion a adroddwyd, gyda 376 (17%) a (177) 8% yn y drefn honno. Mae hyn yn cymharu gyda 525 (22.1%) ar gyfer pobl hŷn a 154 (6.5%) ar gyfer pobl ifanc yn ystod y cyfnod cyfatebol ar gyfer 2015/16. Ymddengys y bu diffyg adrodd unwaith eto ar gyfer cam-drin domestig gyda gostyngiad o 8.6% (204 / 2373) i 6.2% (135 / 2194) o'r holl anghenion a gofnodwyd. Mae'r holl anghenion eraill yr

adroddwyd amdanynt ar gyfer grwpiau bregus eraill fel troseddu, camddefnyddio sylweddau ac anabledau dysgu yn parhau i fod yn gyson â'r data a gasglwyd o flynyddoedd blaenorol.

3.8 Deilliannau



3.8.1 Cofnodwyd cyfanswm o 4,344 o ddeilliannau targed allan o'r data mapio anghenion dros y flwyddyn. Dengys hyn gynnydd bach o gyfanswm y flwyddyn flaenorol o 4,312. Rheoli llety oedd wedi cofnodi amlaf gyda 918 (21.1%) o gymharu â 871 yn ystod y flwyddyn flaenorol a oedd yn gymesur â'r holl ddeilliannau a gofnodwyd. Mae hyn yn rhoi sicrwydd bod yn nhermau bod rhanddeiliaid a darparwyr gwasanaeth sy'n cwblhau'r data yn adnabod ac yn gweithredu'n briodol o ran y nodau a deilliannau perthnasol, yn unol â phrif amcanion a nodau'r rhaglen, ac yn benodol yn cyfrannu tuag at leihau digartrefedd ac yn amlygu pwysigrwydd gweithredu'n ataliol.

Yn ogystal â rheoli llety, roedd 4 arall o'r 11 categori deilliannau gorfodol wedi cofnodi cynnydd o ffurflenni'r flwyddyn flaenorol, sef rheoli perthnasau, cynhwysiant cymunedol, rheoli arian ac iechyd meddwl, a ddangosodd y cynnydd mwyaf o 293 i 393. Mewn cymhariaeth, roedd teimlo'n ddiogel, diogelwch eich hunan/eraill, cyflogaeth/gwirfoddoli, iechyd corfforol a ffordd o fyw iach a heini i gyd wedi cofnodi gostyngiad yn nifer y deilliannau cadarnhaol a gyflawnwyd, tra bo addysg a dysgu yn parhau heb newid.

3.9 Bylchau yn y Gwasanaeth

3.9.1 Mae'n anochel y bydd bylchau ar unrhyw un adeg mewn rhaglen megis Cefnogi Pobl, sy'n darparu cefnogaeth i gymaint o wahanol feysydd gwasanaeth, llawer ohonynt ag anghenion dyrys. Mae'r bylchau yn y gwasanaeth wedi cael eu gwneud yn waeth gan y gostyngiadau sylweddol mewn arian ar draws gwasanaethau cyhoeddus, sydd wedi cael cryn effaith ar wasanaethau statudol, mewn cyfnod pan fo lefelau anghenion yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Fodd bynnag mae'r penderfyniad gan Lywodraeth Cymru i gynnal lefelau arian Cefnogi Pobl am y bedwaredd flwyddyn yn olynol yn wir wedi'i groesawu ac mae wedi cynnig cyfle i atgyfnerthu ac i ail gyflunio darpariaeth yn unol ag ein prif flaenoriaethau strategol. Yn ogystal mae ffactorau ychwanegol megis mwy o dlodi, economi leol farwaidd, cynnydd mewn costau byw, ac effaith diwygio lles, i gyd yn cael effaith andwyol ar y mwyaf bregus o fewn ein cymdeithas, ac o ganlyniad yn cynyddu'r galw ar amser pan fo darpariaeth yn cael ei leihau.

3.9.2 Pobl Ifanc

3.9.3 Mae'r nifer o ymholiadau a dderbyniwyd gan ein gwasanaethau ar gyfer Pobl Ifanc, a'r cyfeiriadau fel dilyniant wedi cynyddu'n sylweddol dros y 6 blynedd olaf. Mae'r rhain yn cynnwys plant sy'n gadael gofal, er mai yn y lleiafrif mae'r rhain, gan fod y mwyafrif o'r bobl ifanc rhwng 16-24 oed heb gael unrhyw gyswllt gyda'r system ofal. Yn ogystal mae'r anghenion a gyflwynir yn fwy cymhleth ac yn aml angen ymyrraeth gan sawl asiantaeth.

3.9.4 Ym mis Tachwedd 2017, cynhaliwyd tendr ar gyfer holl ddarpariaeth cefnogaeth sy'n ymwneud â thau ar gyfer pobl ifanc. Cynyddwyd y nifer o unedau i 51 gyda 27 yn cael eu darparu o fewn llety â chefnogaeth parhaol, gyda 24 uned o gefnogaeth ar wasgar yn cael ei ddarparu ar draws yr ynys. Ar hyn o bryd mae 12 o unedau cefnogaeth ar wasgar ar gyfer y grŵp yma. Dengys felly ein bod wedi gwneud defnydd o wybodaeth arbenigol sydd wedi ei dderbyn trwy broses fonitro a chynllunio cadarn ar mwyn gallu abdnabod bwlch mewn darpariaeth ar gyfer y grŵp penodol yma.

3.9.5 Cam-drin Domestig

3.9.6 Byddai tystiolaeth anecdotaidd sydd wedi ei thynnu o'r data mapio anghenion, ynghyd gysylltiedig â hefyd yr ofn sy'n bodoli o sgil-ffeithiau pellach pe byddai'r drosedd yn cael ei chyfeirio ymlaen yn briodol. Yn anffodus felly, fe fydd wastad elfen o angen sydd ddim yn cael ei ddiwallu parthed materion sy'n ymwneud â chamdriniaeth yn y cartref, a byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth gyda'n darparwyr dynodedig mewn ymgais i wella dulliau adrodd presennol ynghylch achosion i'r Tîm Cefnogi Pobl, yr

ydddengys nad ydynt yn cyd-fynd â data a ddelir gan ein partneriaid o fewn y Gwasanaethau Cymdeithasol a Heddlu Gogledd Cymru ac ati.

3.9.7 Parhau fydd y gwaith o ail fodelu darpariaeth Cam-drin Domestig ar lefel ranbarthol yn ystod 2018/19. O ganlyniad, fel y soniwyd yn yr adran o'r ddogfen hon sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rhanbarthol, bydd y trywydd a ddilynir yn nhermau comisiynu gwasanaethau cam-drin domestig ar lefel leol yn dibynnu ar benderfyniadau a wneir ar lefel Gogledd Cymru.

3.9.8 Cefnogaeth ar Wasgar Lefel Isel Parhaus – Gweler tudalen 41. . . am ragor o wybodaeth.

3.9.9 Toriadau Ariannol - Er gwaethaf y ffaith bod arian Rhaglen Cefnogi Pobl yn aros heb newid am y bedwaredd flwyddyn yn olynol, bydd toriadau sylweddol o fewn gwasanaethau statudol yn ei gwneud yn anorfod y bydd mwy o bwysau yn cael ei roi ar wasanaethau arbedol, er mwyn llenwi'r bwlch a grëir yn y ddarpariaeth angenrheidiol.

Heb os, bydd cynnydd yn y meini prawf ar gyfer gwasanaethau statudol yn arwain at fwy o bobl yn cyflwyno hefo angenion ac o ganlyniad bydd angen i wasanaethau cefnogaeth orfod flaenoriaethu yn unol ag angen. Felly, mae'n debygol y bydd anghenion a phroblemau'r rhai hynny sy'n cyflwyno ar y lefel isaf yn cynyddu dros amser, oherwydd diffyg ymyrraeth amserol, sydd yn ei hun yn mynd i arwain at broblemau pellach, ac arwain at alw yn cynyddu i lefel uwch na'r unedau a gyflenwir, yn enwedig mewn meysydd megis Iechyd Meddwl, Pobl Ifanc a Chamdriniaeth yn y Cartref.

3.9.10 Diffyg Llety Addas - Heb os mae taro ar y cydbwysedd angenrheidiol o fewn ein stoc tai o blith beth sydd yn fforddiadwy ac yn addas yn cynyddu'n fwy o her dros amser. Gyda'r niferoedd o gartrefi gydag ond un person yn byw ynddynt yn cynyddu'n gyflym, oherwydd ffactorau megis poblogaeth yn heneiddio, mwy o dor-priodas, a theuluoedd yn chwalu, ynghyd a materion sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, mae'r angen am, lety un a dwy ystafell wely yn fwy nag erioed. Crëir problemau pellach o ran dod o hyd i lety addas gyda diffyg yn y nifer o dai fforddiadwy sydd ar gael, yn bennaf oherwydd newidiadau mewn polisi cymdeithasol, megis diwygio lles.

Bydd yr angen am lety ychwanegol hefyd yn cael ei effeithio gan ddatblygiad Wylfa B, fydd yn golygu bod rhwng 6,000 ac 8,000 yn fwy o bobl ar yr ynys, gyda nifer uchel ohonynt angen llety eu hunain. Bydd hun yn ei hun o bosib yn arwain at gynyddu'r lefelau digartrefedd gan y bydd y stoc tai ar draws pob daliadaeth yn debygol i fod yn gwegian hefo galw. O ganlyniad rhagwelir y bydd mwy byth o gyfeiriadau yn cael eu gwneud at Ddarparwyr Cefnogi Pobl.

4. Tystiolaeth Ymgynghori

4.1 Mae Tîm Cefnogi Pobl Ynys Môn yn parhau i gydnabod, hyrwyddo a chymryd rhan mwn ymgynghori cyson ynghyd â gweithgareddau cyfranogi gwasanaeth.

Yn ystod y 12 mis olaf, rydym wedi cynnal gweithgareddau sy'n cynnwys.

- Chyfranogaeth Defnyddwyr Gwasanaeth
- Arferion Tendro
- Darparwyr yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth mewn ffordd ystyrlon
- Monitro Darpariaeth Gwasanaeth / Ymgysylltu â Darparwyr

4.2 Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth

4.2.1 Mae cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth wedi cael ei nodi fel blaenoriaeth allweddol gan Lywodraeth Cymru o fewn Rhaglen Cefnogi Pobl ac mae'n awr yn eitem sefydlog ar yr agenda yng nghyfarfodydd Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru bob dau fis.

4.2.2 Cesglir barn defnyddwyr gwasanaeth sy'n derbyn gwasanaethau yr ariennir trwy Cefnogi Pobl yn Ynys Môn fel trefniant parhaus, trwy holiadur ar-lein (Eich Gwasanaeth Eich Barn). Ceir crynodebau o'r data sydd wedi ei gasglu rhwng Ebrill 2017 a Rhagfyr 2017 yn Atodiad 3 o'r ddogfen hon.

4.2.3 Dengys y tabl yn Atodiad 4 o'r ddogfen yma'r lefelau a'r amrywiaeth o waith cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth yr ymgymerir gan Dîm Cefnogi Pobl a'r Darparwyr Gwasanaeth dros y 12 mis olaf.

4.3 Arferion Tendro

Cynhelir ymarferion tendro sy'n cydymffurfio gyda pholisïau a gweithdrefnau'r Cyngo a Rheolau Caffael Ewrop.

Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cefnogi Tenantiaeth yn Gyffredinol
- Pobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth
- Pobl Sengl rhwng 24 a 55
- Camddefnyddio Sylweddau
- Troseddu
- Iechyd Meddwl
- Pobl Hŷn
- Pobl Ifanc bregus 16-24 oed

- Pobl Sengl ag Anghenion Cefnogi 25-55 oed

4.4 Eich Gwasanaeth Chi, Eich Barn

- 4.4.1 Yn 2016, roedd Tîm Cefnogi Pobl Ynys Môn, mewn cydweithrediad â Thîm Technoleg Gwybodaeth y Cyngor, wedi datblygu holiadur ar-lein 'Eich Gwasanaeth Eich Barn' i ddefnyddwyr gwasanaeth. Ers hynny mae wedi gweld ymateb cyson os nad anhygoel gan ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ceisio rhoi adborth am eu profiadau a'u syniadau o ran gwella a datblygu gwasanaethau.
- 4.4.2 Rhwng 1af Ebrill 2017 a 31ain Rhagfyr 2017, fe ymwelodd cyfanswm o 75 o ddefnyddwyr gwasanaeth â'r adnodd ar-lein yma. Cwblhawyd yr arolwg yn llawn gan 55 o bobl gydag 20 ychwanegol yn rhannol gwblhau'r wybodaeth, sy'n darparu data defnyddiol ar gyfer mesur barn defnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd y gwasanaeth, cyfleoedd ar gyfer cyfranogi, bylchau yn y ddarpariaeth a meysydd ar gyfer gwella. Ers ei gyflwyno, mae'r niferoedd sydd wedi dangos diddordeb wedi bod yn gyson ac fe ragwelir y gall yr adnodd gynnig data cadarn ac ystyrlon er mwyn adlewyrchu darpariaeth gyfredol a chyfrannu at ddatblygu a gwella gwasanaethau yn y dyfodol.
- 4.4.3 Darperir naratif o'r data rhwng 1.4.17 a 31.12.17 yn Atodiad 3 o'r ddogfen hon. Heb os mae sylwadau'r defnyddwyr gwasanaeth yn amlygu gwerth y rhaglen a gwerthfawrogiad y defnyddwyr eu hunain o'r Rhaglen. Ceir manylion am ddata rhwng Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 yn y Cynllun Comisiynu Cefnogi Pobl blaenorol ar gyfer 2017/2020.

4.5 Monitro Darpariaeth Gwasanaeth / Cyfranogiad Defnyddwyr Gwasanaeth

- 4.5.1 Cynhaliwyd cyfres o ymweliadau monitro ym mis Mawrth / Ebrill a Thachwedd / Rhagfyr 2016. Cwblhawyd adroddiad ar bob prosiect a fei rhannwyd gyda'r darparwyr yn unigol, gan amlygu materion o bryder ynghyd ac enghreifftiau o ymarfer da mewn perthynas â darparu gwasanaeth a rheoli cytundeb / perfformiad. Trafodwyd a rhannwyd y canfyddiadau gyda'r darparwyr perthnasol ac fe ddiweddarwyd y cynlluniau gwella a datblygu a luniwyd fel rhan o'r adolygiad mwy manwl.
- 4.5.2 Ymgynghorwyd gyda phob un o'n darparwyr cyn llunio achos busnes a'i gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl, parthed sefydlu Man Mynediad Sengl / Porth Cefnogi Pobl.

5. Mapio Gwasanaeth Blaenoriaethau i'w Datblygu ym Môn yn 2018-2019

5.1 Adolygu a Monitro Gwasanaethau

- 5.1.2 Mae'r Tîm Cefnogi Pobl ar Ynys Môn wedi bod yn cynnal rhaglen o adolygiadau strategol bob tair blynedd ers cychwyn y Rhaglen yn 2003. Mae'r broses adolygu yn ddull trylwyr a chadarn a ddefnyddir i benderfynu ar gymhwysedd, perthnasedd strategol a gwerth am arian ac yn ogystal, mae'n gweithredu fel cyfrwng i hyrwyddo ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth a datblygu gwasanaethau. Yn ogystal, cynhelir adolygiadau byr drwy ymweliadau monitro bob 6 mis â phob un o'n darparwyr, pryd cwblheir adroddiad ar gyfer yr holl brosiectau ynghylch cydymffurfiaeth gyffredinol â'r contractau, sy'n cynnwys materion fel diogelu, y niferoedd sydd yn y prosiectau, a pherfformiad, tra hefyd yn mesur cynnydd yn erbyn y cynllun gwella a gwblhawyd yn ystod y cam adolygu.
- 5.1.3 Mae'r dystiolaeth o ran ansawdd gwasanaeth, gwerth am arian a pherthnasedd strategol wedi bod yn amhrisiadwy i benderfynu lle mae ein blaenoriaethau yn gorwedd, y gwasanaethau y bu angen eu hailfodelu, eu hail-gomisiynu neu, mewn rhai achosion, eu dadgomisiynu yn llawn, a hynny o fewn cyfnod sydd wedi bod yn hynod heriol gydag angen i fynd i'r afael â lefel fythol gynyddol o alw ar draws gwasanaethau, heb unrhyw arian ychwanegol.
- 5.1.4 Mae manylion am y modd yr ydym yn bwriadu defnyddio'r arian ar gyfer 2018/19 yn cael eu hamlinellu isod. Yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru, mae'r holl ddyraniadau ariannol wedi bod yn seiliedig ar gynllunio strategol a gwybodaeth. Mae'r holl wasanaethau a gomisiynir yn cael eu cynnwys gyda mapiau cyflenwi a hynny'n gyson â Chategoriâu Grwpiau Cymwys a Chynlluniau Gwariant Llywodraeth Cymru.

5.2 Cam-drin Domestig

5.2.1 Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Gorwel	4	Darpariaeth Lloches
Gorwel	1	Lloches wasgaredig
Gorwel	6	Cefnogaeth ar Wasgar
Gorwel	14	IDVA
	25	

- 5.2.2 Nid yw'n glir ar hyn o bryd p'un a fydd arian Cefnogi Pobl yn parhau i ariannu cefnogaeth o ran tai ar gyfer pobl sy'n dioddef cam-drin domestig o ganlyniad i'r penderfyniad i sefydlu Bwrdd Strategol Gogledd Cymru ar gyfer Gwasanaethau Cam-drin Domestig. Mae'r maes gwasanaeth penodol hwn yn dal i fod yn flaenoriaeth strategol ar gyfer Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gogledd Cymru, fel yr

amlinellwyd yn y Cynllun Strategol Rhanbarthol. Yn dilyn trafodaethau gyda Rhiannon Edwards, y Swyddog Arweiniol Rhanbarthol ar y Bwrdd Strategol, cytunwyd i beidio â thendro gwasanaethau cam-drin domestig ym Môn hyd nes y bydd y cyfeiriad strategol rhanbarthol wedi'i sefydlu.

- 5.2.3 Mae arian ychwanegol o £2,000, ar gyfer y Gwasanaeth IDVA, wedi'i gymeradwyo gan Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl, yn dilyn cais a dderbyniwyd gan Swyddog Arweiniol Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn / Gwynedd. Defnyddir yr arian ychwanegol ar gyfer prynu darpariaeth gwella diogelwch ar gyfer dinasyddion Ynys Môn sy'n profi cam-drin domestig. Byddai yn arwain at gynyddu cyfraniad IDVA o £10,000 i £12.000 y flwyddyn. Ystyrir fod darpariaeth o'r fath yn gymwys ar gyfer arian Cefnogi Pobl yn ôl Telerau ac Amodau Grant 2017/18.

5.3 Anabledau Dysgu

5.3.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Cartrefi Cymru	14	Prosiectau Llety â Chefnogaeth parhaol ar draws 6 Chynllun.
Tyddyn Môn	19	Prosiectau Llety â Chefnogaeth parhaol ar draws 5 Cynllun.
Gofal Môn	9	6 o Gynlluniau Llety â Chefnogaeth Parhaol a 3 Uned o Gymorth Hyblyg
	42	

- 5.3.2 Roedd ail gyflunio diweddar y gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl ag anabledau dysgu yn canolbwyntio ar gymhwysedd ac fe gafodd y gwasanaethau llety â chefnogaeth eu capio ar 15 awr yr wythnos, a chefnogaeth ar wasgar ar 5 awr yr wythnos. Tra ymddengys fod 2 (allanol) o'r 3 darparwr wedi cofleidio'r newidiadau a'u bod yn gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol, ni ellir dweud yr un peth mewn perthynas â'r darparwr mewnol. Er eu bod i ddechrau wedi derbyn cynnydd o 30 awr ar gyfer darparu mwy o gefnogaeth ar wasgar, nid ydynt wedi llwyddo'n foddhaol i ddangos gallu i ddarparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai yn seiliedig ar ganlyniadau, sy'n tapro fel y mae pobl yn mynd yn fwy annibynnol gyda golwg ar symud ymlaen. Gwnaed sawl cais am dystiolaeth ac ail gyflunio gwasanaethau, ond gwaetha'r modd, ni dderbyniwyd ymateb.
- 5.3.3 Cynigir felly y dylid tynnu yn ôl y £35,942,00 a ddyrannwyd ar gyfer darparu cefnogaeth ar wasgar o 1.4.18.
- 5.3.4 Mae ail gyflunio ac adnewyddu Cynllun Tai Gwarchod Llawr Y Dref, sydd wedi'i ddylunio ar gyfer pobl 60+ oed neu sydd wedi'u cofrestru'n anabl, wedi darparu cyfle i arloesi a datblygu gwasanaeth newydd ar gyfer pobl ag anabledau dysgu. Gellir gweld rhagor o fanylion yn Adran 5.

5.3.5 Bydd tynnu yn ôl y buddsoddiad o £35,942.00 a ddangosir ym mharagraff 5.3.3 yn cael ei wrthbwyso gan wasanaeth newydd a gomisiynir am gost o £26,294.68 i'r gyllideb Cefnogi Pobl.

5.4 Iechyd Meddwl

5.4.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Gwasanaethau Cymorth yn y Gymuned	9	Llety â Chefnogaeth
Gwasanaethau Cefnogaeth yn y Gymuned	150 awr yr wythnos (50 o ddefnyddwyr gwasanaeth / 3 awr yr wythnos)	Cefnogaeth ar Wasgar
	59	

5.4.2 Yn dilyn y tendr ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, dyfarnwyd contract tair blynedd i'r GCG ddarparu hyn hyd at 30^{ain} Ebrill 2019, gydag opsiwn i ymestyn am hyd at dair blynedd arall. Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel, gyda'r darparwr yn cynnig gwerth am arian a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol yn strategol. Felly bydd trefniadau comisiynu'n parhau heb newid yn ystod 2018/19.

5.5. Camddefnyddio sylweddau

5.5.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
CAIS	7	Llety â Chefnogaeth a Phrosiectau Symud ymlaen
Cefnogaeth ar Wasgar	33	Hyblyg Isel-Uchel
	40	

5.5.2 Yn dilyn y tendr ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, dyfarnwyd contract tair blynedd i'r GCG ddarparu hyn hyd at 30^{ain} Ebrill 2019, gydag opsiwn i ymestyn am hyd at dair blynedd arall. Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel, gyda'r darparwr yn cynnig gwerth am arian a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol yn strategol.

5.6 Pobl Ifanc a Bregus

5.6.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Digartref	9	Llety â Chefnogaeth, Model Craidd a Chlwstwr gyda 7 o Unedau Craidd a 2 o Unedau Clwstwr (Coedlys)
Digartref	12	Cefnogaeth ar Wasgar ynghlwm wrth brosiect Coedlys
Digartref	13	9 o Unedau Llety â Chefnogaeth yn Llys y Gwynt a 4 yn y Gilfach
Digartref	18	12 o Unedau Cefnogaeth ar Wasgar a 4 o Unedau Symud Ymlaen
	52	

5.6.2 Cynhaliwyd ymarfer tendro ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn terfyniad naturiol y cytundeb contractiol blaenorol. Yn dilyn y broses a'r gwerthusiad cadarn, dyfarnwyd contract newydd a fydd wedi'i rwyngu mewn cyfraith o'r 1af Ebrill 2018 i 31.3.2021, gydag opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol am 3 blynedd arall. Bydd nifer yr unedau cefnogaeth ar wasgar yn cynyddu o 12 i 24 ac fe'u rheolir o ddau safle llety â chefnogaeth sefydlog, sef Coedlys yn Llangefni a Llys Y Gwynt, Caergybi. Bydd hyn yn darparu adnoddau y mae eu mawr angen ar gyfer y grŵp hwn sy'n arbennig o fregus, heb yr angen am fuddsoddiad ychwanegol sylweddol.

5.7 Rhieni Sengl Bregus

5.7.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Hafan Cymru	4	Llety â Chefnogaeth
Hafan Cymru	12	Cefnogaeth ar Wasgar
	16	

5.7.2 Mae mwyafrif helaeth y rhieni sengl ifanc bregus a gefnogir fel rhan o'r contract hwn wedi profi cam-drin domestig, a nodir fel angen eilaidd. O ystyried nifer yr anghenion eilaidd a gysylltir yn uniongyrchol â cham-drin domestig, gwnaed argymhelliad yn flaenorol i uno'r gwasanaeth hwn gyda'r ddarpariaeth benodedig ar gyfer cam-drin domestig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r ansicrwydd presennol mewn perthynas â threfniadau comisiynu i'r dyfodol ar gyfer cam-drin domestig, ni fydd unrhyw

newidiadau pellach yn cael eu gwneud i drefniadau ariannu ar hyn o bryd ar gyfer y grŵp hwn o ddefnyddwyr gwasanaeth.

5.8 Cefnogaeth ar Wasgar Generig

5.8.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Gwasanaethau Tai Cyngor Sir Ynys Môn	80	Cefnogaeth ar Wasgar Generig Lefel Ganolig
CAIS Generig	34	Cefnogaeth ar Wasgar Generig hyblyg
	114	

5.8.2 Mae'r ddau wasanaeth ar wahân a ddarperir yn parhau, un a ddarperir gan CAIS fel y nodir uchod, gyda'r llall yn cael ei ddarparu gan Wasanaethau Tai y Cyngor ar draws bob deiliadaeth. Mae'r contract presennol i fod i gael ei gyflenwi hyd at 30.10.2020. Mae'r gwasanaethau a ddarperir o ansawdd uchel, yn cynnig gwerth ardderchog am arian, ac mae'r ddau'n berthnasol yn strategol. Felly bydd y ddarpariaeth yn parhau heb ei newid o Ebrill 2018, o ran pobl sy'n cyflwyno gydag anghenion generig.

5.9 Hanes Troseddu

5.9.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
CAIS	6	Cefnogaeth ar Wasgar
CAIS	6	Llety â Chefnogaeth
	12	

5.9.2 Yn dilyn y tendr ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl ag anghenion o ran camddefnyddio sylweddau, troseddu neu rai generig, dyfarnwyd contract tair blynedd i'r CAIS ddarparu hyn hyd at 30^{ain} Ebrill 2019, gydag opsiwn i ymestyn am hyd at dair blynedd arall. Mae'r galw am y gwasanaeth yn parhau i fod yn uchel, gyda'r darparwr yn cynnig gwerth am arian a'r gwasanaeth yn parhau i fod yn berthnasol yn strategol.

5.9.3 Yn ogystal, bydd Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ariannu swydd y Swyddog Ailsefydlu Carchar o Ebrill 2018. A hwnnw'n cael ei ariannu ar hyn o bryd drwy'r Gronfa Atal Digartrefedd, mae'r gwasanaeth yn cefnogi 28 o bobl sydd naill ai'n barod i adael y carchar neu sydd wedi gadael yn ddiweddar ar drwydded. Darperir cefnogaeth sy'n

gysylltiedig â thenantiaeth neu cyn-denantiaeth gan y Swyddog Ailsefydlu Carchar, ac os oes angen cefnogaeth arbenigol am dymor hwy, e.e. ar ôl 2-3 mis, trosglwyddir yr achos wedyn i CAIS, sydd hefyd yn darparu gwasanaethau i'r rheiny sydd wedi sefydlu eu hunain yn y gymuned yn dilyn cyfnod blaenorol o gyswllt gyda'r System Gyfiawnder Troseddol. Cynhwysir rhagor o wybodaeth am ddatblygiad y gwasanaeth newydd hwn yn Rhan 5 o'r ddogfen hon.

5.10 Pobl Hŷn

5.10.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Gorwel	460	Cefnogaeth ar Wasgar
Clwyd Alyn	40	2 x 20 Unedau Tai Gwarchod gyda Warden Cymunedol a Larymau
	500	

5.10.2 Yn sgil ymarfer tendro a gynhaliwyd yn 2016, fe gafodd gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl hŷn eu huno ar draws bob deiliadaeth. Arweiniodd hyn at ddyfarnu contract tair blynedd i Gorwel ddarparu'r gwasanaeth am y swm contractiol blynyddol o £340,853.59.

Yn ogystal, contract bach i ddarparu gwasanaeth symudol a gwasanaeth larwm ar gyfer hyd at 40 o bobl yn seiliedig ar drefniant cost a nifer ('cost and volume') ar gyfer y swm blynyddol o £8,895,57. Adolygir y gwasanaeth hwn yn Ionawr 2018, a gwneir penderfyniad o ran p'un a fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ail-gomisiynu, ei ailfodelu neu ei ddadgomisiynu. Yn y cyfamser, tybir o fewn y cynllun gwariant hwn y bydd yr arian hwnnw'n parhau.

5.10.3 Yn sgil ymarfer tendro a gynhaliwyd yn 2016, fe gafodd gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer pobl hŷn eu huno ar draws bob deiliadaeth. Arweiniodd hyn at ddyfarnu contract tair blynedd i Gorwel ddarparu'r gwasanaeth, gan gymryd lle'r gwasanaeth warden hanesyddol o fewn darpariaeth tai gwarchod ac ymestyn mynediad ar draws bob deiliadaeth, yn wahanol i'r sefyllfa flaenorol.

Yn ogystal, mae contract bach yn dal i fod yn ei le i ddarparu gwasanaeth symudol a gwasanaeth larwm ar gyfer hyd at 40 o bobl sy'n cynnwys Cynlluniau Tai Gwarchod yn seiliedig ar drefniant cost a nifer ('cost and volume') ar gyfer y swm blynyddol o £8,895,57. Adolygir y gwasanaeth hwn yn Ionawr 2018, a gwneir penderfyniad o ran p'un a fydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ail-gomisiynu, ei ailfodelu neu ei ddadgomisiynu. Yn y cyfamser, tybir o fewn y cynllun gwariant hwn y bydd yr arian hwnnw'n parhau.

5.11 Pobl sengl 25-54 oed sydd yn ddigartref neu mewn perygl o fod yn Ddigartref

5.11.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Y Wallich	20	Tai yn Gyntaf - Cefnogaeth ar Wasgar lefel Ddwys ar gyfer Pobl sydd naill ai'n Ddigartref neu'n Cysgu Allan
	20	

5.11.2 Cynhaliwyd ymarfer tendro ym mis Tachwedd 2017, yn dilyn terfyniad naturiol y cytundeb contractiol blaenorol. Yn dilyn y broses a'r gwerthusiad cadarn dyfarnwyd contract newydd a fydd wedi'i rwyngu mewn cyfraith o'r 1af Ebrill 2018 i 31.3.2021, gydag opsiwn i'w ymestyn yn flynyddol am 3 blynedd arall. Bydd y gwasanaeth sydd wedi'i ail dendro yn cynyddu o'i ddarpariaeth bresennol o 20 i 25 uned yr wythnos. Bydd y pum uned ychwanegol yn darparu cefnogaeth benodedig ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl, sydd naill ai'n profi anawsterau o ran cynnal eu tenantiaethau neu sydd angen llety mwy addas a fforddiadwy.

5.12 Larymau Cymunedol

5.12.1 Map Cyflenwi

Darparwr	Unedau	Disgrifiad
Gwasanaethau Tai (Tunstall)	1280	Larymau Cymunedol mewn Llety Tai Gwarchod a Llety sydd wedi ei ddynodi ar gyfer Pobl Hŷn
Grŵp Cynefin (Galw Gofal)	119	119 o Larymau Cymunedol ym Mhenucheldre a Llys Mair
Gofal Môn (Galw Gofal)	170	Darparu Larymau Cymunedol a Darpariaeth Teleofal.
	1569	

5.12.2 Ystyrir bod darparu larymau cymunedol yn hanfodol bwysig ar gyfer hyrwyddo'r agenda ataliol, hyrwyddo annibyniaeth ar draws amrywiaeth o grwpiau a fyddai, fel arall, yn fregus ac mae'n golygu bod gwasanaethau a ariennir drwy Cefnogi Pobl yn cyfrannu'n sylweddol tuag at gyflawni canlyniadau cadarnhaol, yn enwedig o ran hyrwyddo diogelwch personol a chymunedol, yn ogystal ag annibyniaeth a rheolaeth.

5.12.3 Nid oes amheuaeth y byddai annibyniaeth nifer sylweddol o bobl hŷn yn y fantol heb y ddarpariaeth o larymau cymunedol a phethau ychwanegol megis synwrydsdion tele-iechyd a theleofal.

5.12.4 Daeth Adolygiad Aylward i'r penderfyniad y dylai holl wasanaethau Cefnogi Pobl fod yn seiliedig ar angen yn hytrach na deiliadaeth. Erbyn hyn, mae'r holl ddarpariaeth cefnogaeth uniongyrchol yn cydymffurfio â'r gofyn hwn. Fodd bynnag, mewn rhai eiddo, mae larymau cymunedol yn dal yn weithredol lle nad oes eu hangen ac, o ganlyniad, codir tâl cynnal a chadw nad yw'n gymwys am arian CP, a delir i Tunstall.

Yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Uwch Reolwyr o'r Gwasanaeth Tai, cytunwyd na ddylid defnyddio Grant y Rhaglen Cefnogi Pobl fel cymhorthdal ar gyfer yr hyn sydd mewn gwirionedd yn wasanaeth anghymwys. Cynigir felly y dylid gweithredu gostyngiad cynyddraddol o Ebrill 2018, ac argymhellir y dylid cyflwyno gostyngiad o 50% o Ebrill 2018/19, gyda'r cymhorthdal 50% sy'n weddill yn cael ei ddileu o 2019/20. Bydd yr amserlen awgrymedig yn caniatáu sefydlu amserlen glir ar gyfer rheoli'r newid mewn trefniadau ar gyfer gweithredu tâl gwasanaeth, a fydd angen cynnwys cyfnod ymgynghori statudol. Yn ogystal, bydd rhaid i drefniadau gynnwys staff a thenantiaid Grŵp Cynefin yng nghyswllt Penucheldre a Llŷs Mair.

5.13 Un Pwynt Mynediad

5.13.1 Fe gafodd cynnig ei gymeradwyo gan y Grŵp Cynllunio Lleol i benodi Cydlynnydd Porth a fyddai'n gweithio fel rhan o'r Tîm Opsiynau Tai. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn delio gyda, ac yn cydlynu'r holl gyfeiriadau Cefnogi Pobl ac yn eu didoli. Rhagwelir y bydd y rôl

- Yn newid y modd y mae cyfeiriadau'n cael eu rholi, tasg y mae darparwyr CP ar Ynys Môn yn gyfrifol amdani ar hyn o bryd;
- Yn golygu bod swyddi gweigion ar draws y sector yn cael eu monitro'n well;
- Yn golygu gostyngiad yn nifer y lleoedd gweigion a nifer yr oriau dynodedig sydd ddim yn cael eu defnyddio o fewn prosiectau;
- Yn hwyluso mynediad rhwyddach a gwell i wasanaethau i'n defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus;
- Yn darparu dull rheoli defnyddiol a mwy cadarn i wella'r modd y caiff darparwyr gwasanaeth eu monitro;
- Mae'n debygol o gynyddu'r pwysau ar ddarparwyr i wella canlyniadau o ran symud ymlaen. Fodd bynnag, ni fydd hyn ond yn berthnasol mewn achosion lle ystyrir bod defnyddwyr gwasanaeth yn barod i symud ymlaen, ac ni ddylai mewn unrhyw fodd ddylanwadu ar ddarparwyr i symud defnyddwyr gwasanaeth yn eu blaenau er mwyn derbyn atgyfeiriadau newydd;
- Yn dod ag Ynys Môn i'r un sefyllfa â'r mwyafrif helaeth o Awdurdodau Lleol eraill yng Nghymru sydd wedi gweithredu'r ymagwedd hon, gan gynnwys 4 allan o'r 6 Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru.

- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a Thîm Un Pwynt Mynediad y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Sicrhau bod dull mwy strategol yn cael ei fabwysiadu i ddatblygu gwasanaethau a datrysiadau tai cynaliadwy a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion cyfredol ac anghenion sy'n esblygu;
- Helpu i leihau'r bylchau o ran anghenion gwasanaeth a llety fel ei gilydd.

5.13.2 Ystyrir bod y Prosiect un Pwynt Mynediad neu'r Prosiect Porth ('Gateway') fel y'i gelwir hefyd, yn brosiect ynddo'i hun ac o'r herwydd mae'n uniongyrchol gymwys i dderbyn arian Cefnogi Pobl.

5.13.3 Yn dilyn llawer o waith paratoi, gan gynnwys sefydlu prosesau, protocolau, systemau electronig ac ymgynghori gyda darparwyr a rhanddeiliaid allweddol, daeth Un Pwynt Mynediad Cefnogi Pobl Ynys Môn yn weithredol o 1.10.17. Hyd yma, bu'n llwyddiant ysgubol ac mae'n creu atgyfeiriadau gan rhanddeiliaid nad oeddynt yn flaenorol yn ymwybodol o'r Rhaglen Cefnogi Pobl. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod SPoA's fel prosiectau unigol, ac o ganlyniad yn eu hystyried yn gymwys i'w hariannu'n uniongyrchol o'r grant. Bydd cyflog y cydlynedd, yn cynnwys argostau, yn parhau i gael ei ariannu'n llawn gan y grant o Ebrill 2018.

5.14 Cefnogaeth ar Wasgar Barhaus

5.14.1 Mae'n ymddangos bod rheol anysgrifenedig sy'n dweud na ddylai unrhyw berson bregus dderbyn llety â chefnogaeth, llety symud ymlaen, cefnogaeth ar wasgar neu gyfuniad o ddau neu fwy o'r rhain am fwy na dwy flynedd. Mae llawer o'n darparwyr yn ymwybodol o hyn ac yn aml, maent yn gofyn am gyngor wedi i'r person bregus ddod i ddiwedd y cyfnod hwn neu pan mae'r cyfnod o gefnogaeth ar fin dod i ben.

5.14.2 Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr a rhanddeiliaid, mae llawer wedi nodi bod nifer o bobl fregus yn parhau felly wedi i'r cyfnod o wasanaeth gyda chefnogaeth ddod i ben, sy'n dibrisio'r amser, yr ymdrech a'r arian a ddarparwyd yn ystod y cyfnod o gefnogaeth. Y bobl sydd fwyaf tebygol o elwa o wasanaeth o'r fath fyddai pobl ag anabledau dysgu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer cael eu cofrestru fel pobl anabl, anghenion iechyd meddwl lefel isel megis pryder, pobl hŷn sydd wedi'u hynysu, a'r rhai sy'n tueddu i fod â bywydau anhrefnus lle gellir cysylltu gyda nhw ar fyr rybudd neu pan fyddant yn taro rhyw sbardun sy'n golygu y gallant fynd yn ôl i fel yr oeddynt o'r blaen. Rhagwelir mai am gyfnod byr iawn y byddent angen cymorth a dylai hynny gyfrannu at atal gorfod dychwelyd i'r gwasanaeth llety â chefnogaeth / cefnogaeth ar wasgar.

5.14.3 Roedd papur a gyflwynwyd i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl yn Hydref 2017 yn amlinellu'r angen a manteision sefydlu gwasanaeth cefnogaeth ar wasgar lefel isel ar gyfer pobl sy'n dal i fod yn fregus ar ôl terfynu eu pecyn cefnogaeth, ond nad ydynt yn gallu cael mynediad i unrhyw gefnogaeth bellach oherwydd y cyfyngiadau amser 2 flynedd. Cynigiwyd i ddechrau y byddai'r gwasanaeth yn cael ei gplysio gyda

gwasanaeth presennol a'i beilota am hyd at 18 mis. Roedd y Grŵp Cynllunio Lleol yn cefnogi'r achos mewn egwyddor, a gofynnodd am amlinelliad byr o'r trefniadau comisiynu cyn rhoi caniatâd llawn. Fodd bynnag, ar ôl cael Cyngor Cyfreithiol, cynigir bellach y dylid comisiynu gwasanaeth newydd o Ebrill 2018 i hyd at 48 o bobl gael mynediad at gefnogaeth am gyfnodau byr, i'w hatal rhag mynd yn ôl i sut yr oeddynt yn flaenrol, neu sefyllfaoedd all sbarduno hynny, a fydd angen ymyrraeth statudol fwy costus a dwys. Yn ogystal, argymhellir i'r Grŵp Cynllunio y dylid gosod terfyn uchaf o £120,000 ar gyfer gweithredu'r gwasanaeth hwn a fydd yn cynnwys hyd at 3 Gweithiwr Cefnogaeth gyda llwyth achosion o tua 15 yr un, ynghyd â chefnogaeth weinyddol ran amser a chostau sefydlu cychwynnol.

5.15. Swyddog Ailsefydlu Carchar

5.15.1 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Ynys Môn wedi cael budd o argaeledd Grant Atal Digartrefedd i ariannu'r swydd hon. Heb amheuaeth, mae tystiolaeth glir o gydberthynas rhwng y swydd hon a'r ethos allweddol o fewn Gwasanaethau Cefnogi Pobl, gyda'r pwyslais ar atal digartrefedd a chynnal tenantiaeth. Yn wir, mae deiliad presennol y swydd sydd â llwyth achosion o dros 25, eisoes yn cynhyrchu asesiadau anghenion a risgiau yn ogystal â chynlluniau cefnogaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau gan ei fod yn darparu cefnogaeth cyn-denantiaeth i bobl sy'n gadael carchar ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â Deddf Tai (Cymru) 2014. Ar ôl i gefnogaeth cyd-denantiaeth gyflawni'r canlyniadau a gytunwyd ac a nodwyd, trosglwyddir achosion wedyn i CAIS, sef y darparwr cefnogaeth penodedig ar gyfer y grŵp cleient hwn, i ddarparu cefnogaeth arbenigol, ac felly osgoi dyblygu diangen. Bydd CAIS hefyd yn delio gyda chyn-droseddwr nad ydynt mwyach ar drwydded ac ati. Bydd pawb sy'n gadael carchar a'r rheiny sydd wedi'u rhyddhau yn ôl i'r gymuned ar drwydded ar hyn o bryd yn cael eu hatgyfeirio i'r SpoA a'r SAC fel pwyntiau cyswllt cyntaf. Mae'n rhesymegol felly y dylai Cefnogi Pobl ariannu'r swydd hon o 2018/19.

5.16 IDVA

5.16.1 Mae Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl CSYM wedi ariannu'r Gwasanaeth IDVA ers 2010, ar y cyd â Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Ynys Môn a Gwynedd. Mae tystiolaeth a gasglwyd o ddata monitro ac adolygiadau gwasanaeth, ynghyd â'r cyfraniad o £10,000 a wneir o Grant Rhaglen Cefnogi Pobl, yn cynrychioli gwerth ardderchog am arian. Yn anffodus, mae nifer y bobl sy'n gorfod cael mynediad i'r gwasanaeth hwn yn cynyddu'n barhaus ac mae'r angen am fesurau ychwanegol fel darpariaeth gwella diogelwch ar gyfer y rheiny yr ystyrir eu bod mewn lefel uchel o berygl o niwed yn cynyddu hefyd. Mae'r Canllawiau Cefnogi Pobl presennol yn caniatáu mwy o hyblygrwydd o ran comisiynu gwasanaethau ar gyfer rhai sy'n dioddef cam-drin domestig, ac mae wedi'i ymestyn bellach i gynnwys offer penodol at ddibenion diogelu. Yn dilyn trafodaethau gyda Swyddog Arweiniol y Partneriaeth Diogelwch Cymunedol, canfuwyd angen am swm ychwanegol o arian o £2,000, yn benodol ar gyfer prynu a gosod offer / cyfarpar arbennig. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn yr arian ar gyfer gwasanaethau IDVA, o £10,000 i £12,000 y flwyddyn.

Barn y Swyddog Arweiniol yw y byddai hyn yn darparu model gwario i arbed, sy'n cynrychioli gwerth da i'r Rhaglen ac yn lleihau'r effaith bosibl a'r costau i wasanaethau statudol fel Sefydliadau Iechyd a Chyfiawnder Troseddol.

5.17 Llawr Y Dref / Anableddau Dysgu

5.17.1 Mae aildatblygu Cynllun Tai Gwarchod Llawr Y Dref wedi darparu cyfleoedd i fod yn arloesol a chynhwysol. Fel landlord, mae'r Cyngor yn awyddus i 3 eiddo fod ar gael i bobl ag Anableddau Dysgu gael eu cefnogi i fyw yn annibynnol o fewn y gymuned. Cydnabyddir y bydd Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai yn ffactor allweddol o ran cyflawni'r amcan i unigolyn bregus allu cynnal ei denantiaeth/thenantiaeth. Cynigir felly o fewn y cylch comisiynu hwn, yn dilyn cael cymeradwyaeth gan y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol, y dylai Cefnogi Pobl gyfrannu tuag at gost y gefnogaeth, ac y bydd effaith terfynu'r arian cefnogaeth ar wasgar, fel yr amlinellwyd uchod, yn cael ei leihau drwy gomisiynu cefnogaeth fel y soniwyd yn flaenorol, hyd at werth o £26,294.68

5.18 – Cronfa Gomisiynu Ranbarthol

5.18.1 Tua Ebrill 2017, cytunodd y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol y dylai bob un o Awdurdodau Lleol Gogledd Cymru gyfrannu 0.5% o'u harian blynyddol er mwyn hwyluso cyfleoedd ar gyfer gwell cydweithio gyda golwg ar gynyddu trefniadau comisiynu rhanbarthol a/neu isranbarthol. Roedd enghraifft o hyn yn cynnwys comisiynu'r adroddiad sy'n rhoi manylion ynghylch y gwasanaethau sydd ar gael i Bobl sy'n Gadael Carchar. Rhagwelir y defnyddir peth o'r arian yn 2018 at ddibenion cam-drin domestig ar lefel ranbarthol, all gynnwys canolbwyntio ar sefydlu gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer dynion sy'n dioddef cam-drin domestig

5.19 Casgliad

5.19.1 Gellir dadlau fod y Rhaglen Cefnogi Pobl ar drothwy'r cyfnod mwyaf ansicr ers ei chyflwyno yn 2003. Bellach, mae buddsoddiad sylweddol parhaus gan Lywodraeth Cymru i mewn i'r Rhaglen yn destun mwy o archwilio nag erioed. Bydd cyflwyno'r Grant Cyllid Hyblyg Ymyrraeth Gynnar, Atal Problemau a Chefnogaeth a fydd yn cael ei beilota ar draws saith Awdurdod Lleol, gan gynnwys Conwy, yn caniatáu trosglwyddiad 100% ar draws y grantiau a ganlyn:

- Cefnogi Pobl
- Dechrau'n Deg
- Teuluoedd yn Gyntaf
- Cronfa Etifeddol Cymunedau yn Gyntaf
- ynghyd â Grant Cyflogadwyedd

Mae'r llinell gyllideb newydd hon yn werth £252miliwn yn 2019/20, sy'n £13miliwn yn llai na chyfanswm cyfunol y grantiau hyn yn 2018/19. Nid yw'n glir pa wasanaethau a effeithir gan y toriad o £13miliwn.

Mewn cymhariaeth, bydd Ynys Môn yn un o 15 ardal Awdurdod Lleol a fydd yn gweld y trefniadau trosglwyddo presennol yn cynyddu o'i 5% presennol i 15% o Ebrill 2018.

6.0 Cynllun Gwariant

6.1 Mae'r wybodaeth a'r data sydd wedi eu cynnwys yn y tabl isod yn cymharu'r gyllideb arfaethedig ar gyfer blwyddyn 2018-19 gyda'r pedair blynedd flaenorol. Dylid nodi hefyd mai swm dangosol yw'r swm arfaethedig ar adeg ysgrifennu'r ddogfen hon.

Blwyddyn Ariannol	Grant Rhaglen Cefnogi Pobl
2012/13 (Awst/Mawrth)	£2,111,315
2013/14	£3,052, 211
2014/15	£2,899,598
2015/16	£2,643,866
2016/17	£2,643,866
2017/18	£2,643,866
2018/19	£2,643,866

Cynllun Gwariant Cefnogi Pobl 2018/19

Grŵp Cleientiaid	Cyfanswm y Grant a Ddyrannwyd 2017/18	% y Cynnydd neu'r Gostyngiad ers 2016/17
Merched sy'n dioddef Camdriniaeth Ddomestig	162,752	+1.2%
Dynion sy'n dioddef Camdriniaeth Ddomestig	0.00	0.00%
Pobl ag Anableddau Dysgu	479,266	-1.4%
Pobl ag Anghenion Iechyd Meddwl	183,771	0.00%
Pobl ag Anghenion Alcohol	0.00	0.00%
Pobl ag Anghenion Camddefnyddio Sylweddau	135,066	0.00%
Pobl â Hanes o Droseddu	83,697.66	+72.9%
Pobl â Statws Ffoaduriaid	0.00	0.00%
Pobl ag Anableddau Corfforol a Synhwyraidd	0.00	0.00%
Pobl ag Anhwylderau Datblygiad (e.e. Awtistiaeth)	0.00	0.00%
Pobl ag Anghenion Afiechyd Cronig (e.e. HIV ac Aids)	0.00	0.00%
Pobl Ifanc sy'n Gadael Gofal	0.00	0.00%
Pobl Ifanc ag Anghenion Cefnogaeth (16-24)	497,697.13	0.00%
Teuluoedd Rhiant Sengl ag Anghenion Cefnogaeth	74,189	0.00%
Teuluoedd ag Anghenion Cefnogaeth	0.00	0.00%
Pobl Sengl ag Anghenion Cefnogaeth nas rhestrwyd uchod (25-54)	169,749.16	+38.3%
Pobl dros 55 mlwydd oed ag Anghenion Cefnogaeth (ac eithrio gwasanaethau larymau)	349,749.16	0.00%
Cefnogaeth ar Wasgar Generig / Peripatetig (gwasanaethau cefnogi tenantiaeth sy'n cynnwys anghenion amrywiol)	284,543.71	0.00%
<i>Gwasanaethau Larymau (gan gynnwys tai gwarchod/gofal ychwanegol)</i>	56,749.92	54.2%%
Prosiectau Parod Newydd Arfaethedig 17/18		
Un Pwynt Mynediad	£35,432.27	
Cefnogaeth ar Wasgar Lefel Isel Parhaus	£111,615	
Cyfraniad o 1% i'r Pot Rhanbarthol		
Cefnogaeth ar Wasgar Lefel Isel	£13,219.33	
	£120.000	
Cyfanswm	£,2643,866.03	

Atodiad 1

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) Rhan A – Asesiad Cychwynnol o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Dyddiad dechrau: 4.12.14 (

Dyddiad cwblhau: **Parhaus**

RHAN A – Cam 1: Paratoad

1.	Beth ydych chi'n ei asesu?	<p>Effaith y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Gomisiynu Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2017/20.</p> <p>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gomisiynu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod amrywiol o unigolion neu deuluoedd, sydd yr un mor fregus â'i gilydd, sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.</p> <p>Mae'r cynigion yn cynnwys ailfodelu, digomisiynu ac ail-gomisiynu gwasanaethau cefnogi fel y disgrifir yn y Strategaeth Gomisiynu a'r Cynllun Gwariant gorfodol.</p>
2.	Ydy hwn yn bolisi newydd ynteu un sy'n bod yn barod?	Diweddarwyd o strategaeth 2016/19.

3.	Beth yw nodau a phwrpas y polisi hwn?	<p>I amlinellu argymhellion ar gyfer comisiynu gwasanaethau cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer amrediad eang a gwahanol o bobl sydd yr un mor fregus â'i gilydd, yn unol â'u hanghenion sydd wedi eu hasesu.</p> <p>Yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014, a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae ffocws y strategaeth yma yn canolbwyntio ar gomisiynu darpariaeth gwasanaeth sydd o ansawdd ac yn cynnig gwerth am arian mewn perthynas ag:</p> <p>Atal digartrefedd ble'n bosibl Lleihau risg digartrefedd o fewn 56 diwrnod ar ôl cyflwyno a chefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib. Darparu cefnogaeth sydd ei angen ar bobl i fyw yn eu cartrefi eu hunain, hosteli, tai gwarchod neu fath arall o lety arbenigol. Atal problemau rhag digwydd yn y man cyntaf neu ddarparu cefnogaeth cyn gynted â phosib er mwyn lleihau galw ar wasanaethau eraill megis iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Darparu cefnogaeth i gydweddu gofal personol neu iechyd y bydd rhai pobl ei angen, ond nid cynnig darpariaeth yn eu lle. Sicrhau bod darpariaeth o ansawdd ar gael mewn modd sydd mor effeithlon ac effeithiol a phosibl, trwy gydweithio agos rhwng sefydliadau ac asiantaethau sy'n cynllunio ac ariannu gwasanaethau i ddiwallu anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai. Hyrwyddo cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau</p> <p>Rhydd y data isod ddarlun cryno o'r tenantiaid/defnyddwyr gwasanaeth sydd wedi derbyn Gwasanaeth Cefnogi Pobl yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17.</p> <table border="1" data-bbox="768 1203 2007 1283"> <tr> <td>Rhyw</td> <td>Gwryw</td> <td>Benyw:</td> </tr> <tr> <td></td> <td>378</td> <td>619</td> </tr> </table> <table border="1" data-bbox="768 1318 2072 1394"> <tr> <td>Oedran</td> <td>16-24</td> <td>25-34</td> <td>35-44</td> <td>45-54</td> <td>55-64</td> <td>65+</td> </tr> <tr> <td></td> <td>156</td> <td>153</td> <td>120</td> <td>96</td> <td>70</td> <td>240</td> </tr> </table>	Rhyw	Gwryw	Benyw:		378	619	Oedran	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+		156	153	120	96	70	240
Rhyw	Gwryw	Benyw:																				
	378	619																				
Oedran	16-24	25-34	35-44	45-54	55-64	65+																
	156	153	120	96	70	240																

Ethnigrwydd	Gwyn	Cymysg Gwyn ac Asiaidd	Cymysg Gwyn a Du Caribiaidd	Cymysg Gwyn – Arall	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - Indiad	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – o Bacistan			
	809	0	2	1	0	0			
Ethnigrwydd	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig - o Fangladesh	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Tsieineaidd	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Ffilipino	Asiaidd / Asiaidd Prydeinig – Arall	Du neu Ddu Brydeinig Garibiaidd	Du neu Ddu Prydeinig Affricanaidd			
	0	1	1	0	0	1			
Ethnigrwydd	Du neu Ddu Prydeinig Arall	Arab	Sipsi / Teithiwr	Arall					
	0	0	0	3					
Cenedl	Cymro / Cymraes	Sais	Gwyddel o Ogledd Iwerddon	Albanwr	Prydeinig	Gwyddel o Dde Iwerddon	Arall		
	327	146	1	0	172	4	17		
Iaith Orau	Cymraeg	Saesneg	Yr Iaith Arwyddion Brydeinig	Arall					
	281	174	0	10					
Crefydd	Dim	Bwdhydd	Iddew	Sikh	Hindŵ	Cristnogol	Mwslim	Arall	Heb ateb
	303	1	0	0	0	58	1	12	111
Anabledd / Nam	Symudedd	Golwg	Clyw	Iechyd Meddwl	Anhawster Dysgu	Deheurwydd	Dim		
	23	6	4	331	69	7	121	21	
Tuedd Rywiol	Deurywiol	Hoyw neu Lesbïaidd		Heterorywiol	Gwell gennyf beidio â dweud				
	10	8		348	229				

4.	Pwy sy'n gyfrifol am y polisi/gwaith yr ydych yn ei asesu?	Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl Lleol Ynys Môn, sy'n cynnwys Cynrychiolydd yr Awdurdod Lleol ar lefel Pennaeth Gwasanaeth a/neu reolaeth ganol. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Gwasanaeth Prawf Cymru yn ogystal â darparwyr Tymor Hir a Byr a Chymdeithas Ymbarél y Trydydd Sector hefyd yn aelodau o'r Grŵp.
5.	Pwy yw'r Prif Swyddog ar gyfer yr EIA hwn?	Ned Michael (Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn)
6.	Pwy arall sydd â rhan mewn cynnal yr EIA hwn?	<p>Arwel Jones - Prif Swyddog Datblygu, Gwasanaethau Tai, gyda chyfrifoldeb Swyddog Arweiniol am Raglen Cefnogi Pobl.</p> <p>Anne Sutton - Dadansoddwr Data a Chyllid.</p> <p>Lesley Thomas - Swyddog Adolygu, Contractau a Datblygiad y Tîm Cefnogi Pobl.</p> <p>Caron Jones – Dadansoddwr Data a Chyllid Cefnogi Pobl</p>
7.	Ydy'r polisi'n perthyn i bolisiau/meysydd gwaith eraill?	<p>Fframwaith polisi a chyllido a arweinir gan Lywodraeth Cymru yw'r Rhaglen Cefnogi Pobl, sy'n dosbarthu arian blynyddol i awdurdodau lleol i gefnogi a chynorthwyo rhai o'r bobl fwyaf anhrefnus a bregus i redeg eu cartrefi eu hunain, i gadw eu hannibyniaeth, a gwella ansawdd eu bywyd.</p> <p>Mae cefnogi rhai o'r bobl fwyaf bregus yn ein cymdeithas wedi cael ei nodi fel un o'r tair blaenoriaeth yng Nghynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn 2013-2017. Meysydd polisi eraill y mae'r polisi hwn yn perthyn iddynt yw:</p> <p>Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015 Deddf Tai (Cymru) 2014 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014</p>

		Y Strategaeth Dai Genedlaethol, Gwella Bywydau a Chymunedau – Cartrefi yng Nghymru, Cynllun Digartrefedd Deng Mlynedd ar gyfer Cymru 2009-2019 Fframwaith Deilliannau Cenedlaethol Cefnogi Pobl Cynllun Corfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn Strategaeth Dai Leol Ynys Môn 2014-2019 Cynllun Integredig Sengl Ynys Môn – Ein Hynys Ein Dyfodol, Diwygio Lles Trechu Tlodi
8.	Pwy yw'r prif randdeiliaid?	Defnyddwyr Gwasanaeth, Tenantiaid, Cydweithwyr yn yr Awdurdod Lleol, o'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn bennaf, Darparwyr Gwasanaethau sy'n darparu Cefnogaeth sy'n ymwneud â Thai a'u gweithlu, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Landlordiaid yn y Sector Preifat, Aelodau Etholedig, Cymunedau Lleol, Iechyd, y Gwasanaeth Prawf, y 3 ^{ydd} Sector lleol.

9 - Ydy'r polisi'n berthnasol i'r modd y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â dyletswydd gyffredinol y sector cyhoeddus ynglŷn â phobl sy'n cael eu gwarchod oherwydd oedran; anabledd; rhyw; ailbennu rhyw; beichiogrwydd a mamolaeth; hil, ethnigrwydd neu genedl; crefydd neu gred a thueddfryd rhywiol?	Ydy	Nac ydy
Dileu gwahaniaethu ac aflonyddu	✓	
Hyrwyddo cyfle cyfartal	✓	
Meithrin perthynas dda	✓	
Amddiffyn a hyrwyddo hawliau dynol	✓	

RHAN A – Cam 2: Casglu Gwybodaeth

<p>10 – Ydy'r polisi / maes gwaith hwn yn sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn unol â Chynllun Iaith y Cyngor?</p>	<p>Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau. Rydym yn hybu dull rhagweithiol i sicrhau y gellir cynnig gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â Fframwaith Strategaeth Llywodraeth Cymru, 'Mwy Na Geiriau'. Rydym eisoes yn sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor drwy fonitro gwasanaethau yn chwarterol ac rydym yn cynnal arolwg blynyddol o ddarparwyr i werthuso eu cydymffuriad â Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg a rhennir y canfyddiadau gyda Llywodraeth Cymru.</p>
<p>11 - Oes yna gyfle drwy'r polisi / maes gwaith hwn i gynnig mwy o gyfleoedd i bobl ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd?</p>	<p>Bydd nifer fawr o'r defnyddwyr gwasanaeth yn siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf. Telir y sylw dyledus i'w hanghenion iaith a byddwn yn sicrhau fel y crybwyllwyd uchod bod defnyddwyr gwasanaethau yn gallu cyfathrebu gyda'r holl ddarparwyr sy'n darparu cefnogaeth yn ymwneud â thai yn yr iaith o'u dewis.</p> <p>Disgwylir i holl ddarparwyr cefnogaeth yn ymwneud â thai (presennol a newydd) ddarparu gwasanaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg hefyd a gallu dangos agwedd ddiwylliannol sensitif sy'n dathlu amrywiaeth ac yn sensitif i anghenion crefyddol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth, heb wahaniaethu ar sail rhyw, rhywioldeb, iaith nac anabledd.</p>
<p>12 – Pa gyfraniad posibl mae'r polisi / maes gwaith hwn yn ei wneud tuag at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn blodeuo ac yn ffynnu?</p>	<p>Mae Cefnogi Pobl yn cefnogi'r unigolion a'r teuluoedd mwyaf bregus mewn cymdeithas ar draws y sbectrwm oed cyfan. Mae cynorthwyo pobl i chwilio, sefydlu a chynnal eu cartrefi ar draws pob deiliadaeth a'u cynorthwyo i ddatblygu elfennau angenrheidiol byw o ddydd i ddydd, gwella eu rhwydweithiau cymdeithasol ac atal unigrwydd, derbyn cymorth i ddod o hyd i waith a gwella rheolaeth ariannol i gyd yn ffactorau allweddol mewn galluogi dinasyddion i fyw a rhwydweithio o fewn y gymuned o'u dewis ac felly maent yn cyfrannu'n sylweddol at sicrhau bod diwylliant hanesyddol a chyfoes yr Ynys yn blodeuo ac yn ffynnu.</p>

<p>13 – Oes yna unrhyw broblemau Hawliau Dynol? Os oes, beth ydynt?</p> <p>(Mae'r 16 hawl sylfaenol yn y ddeddf Hawliau Dynol wedi eu rhestru yn Atodiad 1).</p>	<p>Yn unol â'r dull seiliedig ar hawliau dynol, wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau cefnogi o safon yn ymwneud â thai, mae'r weledigaeth ar Ynys Môn yn annog ac yn pwysleisio'r angen i'r bobl a'r cymunedau sy'n elwa cyfranogi a chymryd rhan mewn dylunio a darparu gwasanaethau, polisiau a rhaglenni.</p> <p>Dylid talu'r sylw dyledus os torrir unrhyw rai o'r canlynol: Erthygl 8 – Yr hawl i fywyd preifat, parch, teulu a chyfeillgarwch Erthygl 10 – Rhyddid Mynegiant o ran gallu cael mynediad at y wybodaeth briodol ynghylch gwasanaethau, a'r hawl i gwestiynu pan wrthodir mynediad at wasanaethau neu i gwyno ynghylch agwedd ar y gwasanaeth a ddarperir. Erthygl 14 – Glynu at Ddeddf Cydraddoldeb 2010.</p>
<p>14 – Beth sydd wedi cael ei wneud hyd yma o ran ymgysylltu ac ymgynghori gyda golwg ar y polisi hwn?</p>	<p>Rhodddwyd ystyriaeth i gymhwysedd gwasanaethau a chafodd y trefniadau comisiynu eu blaenoriaethu i ddechrau yn unol â hyn.</p> <p>Mae pob un o'n gwasanaethau yn cael eu monitro a'u hadolygu'n rheolaidd gan edrych ac adrodd ar berfformiad yn erbyn trefniadau darparu o fewn y cytundeb. Cynhelir grwpiau a fforymau rhanddeiliaid yn rheolaidd gyda darparwyr, ble y bydd meysydd a blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn cael eu hadnabod a'u trafod. Ceir atborth defnyddiol gan ystod o ran ddeiliaid sy'n cynnwys, swyddogion a rheolwyr o fewn y Cyngor, rheolwyr a staff darparwyr gwasanaeth, a defnyddwyr gwasanaeth eu hunain. Gellir cael mynediad at holiadur ar lein ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth ar lefel barhaus a derbynnir atborth ystyrion ar ddarpariaeth gwasanaeth, ansawdd, a meysydd sydd angen datblygu. Yn atodiadau 3 a 4 o'r Cynllun hwn, ceir cofnod manwl o gyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth a'u barn ar y gwasanaethau a'u darperir.</p>
<p>15 – Oes yna unrhyw fylchau yn y wybodaeth a gasglwyd hyd yn hyn? Os oes, sut yr eir i'r afael â hyn?</p>	<p>Nac oes</p>

RHAN A – Cam 3: Ystyried yr effaith bosibl

*Ar gyfer pob nodwedd warchoddedig, rhowch fanylion yn y golofn ar y dde yn y tabl isod:

- (1) Unrhyw adroddiadau, ystadegau, gwefannau, dolennau cyswllt ac yn y blaen, sy'n berthnasol i'ch dogfen / cynnig ac sydd wedi cael eu defnyddio yn sail i'ch asesiad, a/neu
- (2) Unrhyw wybodaeth a gasglwyd wrth ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau neu staff; a/neu
- (3) Unrhyw wybodaeth arall sydd wedi bod yn sail i'ch asesiad o'r effaith bosibl

**Ar gyfer penderfynu ar yr effaith bosibl, dewiswch o blith y canlynol:

Negyddol uchel; Negyddol canolig; Negyddol isel; Niwtral; Cadarnhaol isel; Cadarnhaol canolig; Cadarnhaol uchel; Dim effaith/Dim yn berthnasol

Grŵp Gwarchoddedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
Oedran	Cadarnhaol Uchel	Gall Rhaglen Cefnogi Pobl gefnogi unigolion sydd wedi eu hasesu fel rhai ag anghenion cefnogaeth yn ymwneud â thai, o 16 mlwydd oed i fyny. Mae'r Rhaglen yn cefnogi ystod eang o feysydd gwasanaeth gyda phobl fregus â'r un faint o angen. Efallai y bydd hyn yn golygu darparu llety â chefnogaeth i berson ifanc 16-24 oed, lloches neu dŷ diogel i berson sydd wedi dioddef camdriniaeth ddomestig neu berson hŷn ac eiddil sy'n byw mewn llety gwarchod neu ofal ychwanegol. Mae'r rhaglen ar Ynys Môn yn darparu oddeutu 2,350 o unedau ac o'r rhain mae oddeutu 1,350 yn larymau cymunedol mewn cartrefi lle mae pobl hŷn, a neu rywun sydd wedi cofrestru'n anabl yn byw.	Canlyniad y newidiadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru i Raglen Cefnogi Pobl ar draws Cymru yw bod gwasanaethau i bobl hŷn yn seiliedig ar angen yn hytrach nag ar ddeiliadaeth. Yn hanesyddol, mae'r holl denantiaid mewn tai gwarchod wedi derbyn Gwasanaeth Cefnogi Pobl, ni waeth beth oedd eu hangen, gyda'r mwyafrif oherwydd eu bod yn derbyn budd-dal tai yn derbyn cymhorthdal llawn at y gost drwy Cefnogi Pobl, tra mae eraill wedi gorfod talu allan o'u hincwm eu hunain fel rhan o'r cytundeb tenantiaeth. Mae Cyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd yn trawsnewid y llety a'r gwasanaethau cefnogi y mae'n eu darparu i bobl hŷn, gan osod y pwyslais ar ddatblygu tai gyda gofal ychwanegol a chanolfannau cymunedol. Mae gan Cefnogi Pobl

Tudalen 203

Grŵp Gwarchoddedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
		<p>Rhaid gwerthuso pob dewis i sicrhau nad oes yr un tenant/defnyddiwr gwasanaeth yn cael ei osod dan anfantais o gymharu â phobl iau sydd â graddau tebyg o anghenion cefnogaeth sy'n ymwneud â thai.</p> <p>Gall pobl hŷn yn gyffredinol ei chael yn anodd dygymod â newid ac efallai y byddant yn gweld ofn newid yn eu hansefydlogi</p>	<p>swyddogaeth anhepgor mewn datblygu gwasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai o fewn amgylchedd canolfan gymunedol seiliedig mewn cymdogaeth. Bydd y gwasanaeth yn cynnwys pob deiliadaeth ac felly'n ymestyn i bobl hŷn ag anghenion cefnogaeth sy'n byw mewn naill ai tai preifat, tai ar rent neu mewn tai lle mae'r perchennog yn preswyllo, na allant dan y trefniadau presennol gael mynediad at wasanaethau cefnogi sy'n ymwneud â thai.</p> <p>Bydd pobl sydd ar hyn o bryd yn derbyn cefnogaeth ail-alluogi a dementia cynnar yn dal i dderbyn cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar yr amod fod ganddynt angen a aseswyd.</p> <p>Mae ymgynghoriad llawn wedi cael ei gynnal gyda thenantiaid a wardeniaid presennol ynghylch y cynigion i ddiogomisiynu elfen y warden a symud i fodel peripatetig.</p> <p>Mae lefel y buddsoddiad mewn darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai i bobl hŷn yn parhau i fod yn un o'r uchaf yn nhermau niferoedd a chost gyffredinol.</p>
Anabledd	Niwtral	Ers cychwyn y Rhaglen Cefnogi Pobl, Anableddau Dysgu sydd wedi cyfrif am y pwysau cost uchaf o gryn dipyn. Yn gyfan	Ni chaiff Cefnogi Pobl ariannu gwasanaethau megis gofal cymdeithasol nac iechyd. Mae trawsnewid anableddau dysgu yn parhau i fod yn

Grŵp Gwarchoddedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
		<p>gwbl roedd lefel y buddsoddiad yn y maes gwasanaeth yma'n parhau i gyfrif am oddeutu 33% o'r rhaglen gyfan yn ystod 2016/17.</p> <p>Mae'r dystiolaeth a gasglwyd o adolygiadau gwasanaeth strategol wedi cyfeirio at lefel o gyllid Cefnogi Pobl sy'n sylweddol anghymesur yn y maes gwasanaeth hwn. Mae nifer o gynlluniau gofal yn cynnwys lefelau uchel eithriadol o oriau o gefnogaeth sy'n ymwneud â thai i ddefnyddwyr gwasanaeth o'u cymharu ag unigolion mewn meysydd gwasanaeth eraill a all fod yn ddibynnol iawn ac yn byw bywydau anhrefnus dros ben. Cafodd hefyd ei nodi bod nifer uchel dasgau a gwblhawyd yn rhai oedd yn ymwneud a gofal personol neu ofal tymor hir ac felly yn anghymwys i dderbyn arian Rhaglen Cefnogi Pobl.</p> <p>At hynny, ceir lefel uchel o fewnbwn gofal iechyd, sy'n awgrymu nad yw o fewn gallu rhai defnyddwyr gwasanaeth i gyrraedd y lefel o annibyniaeth sy'n cyd-fynd ag ethos Rhaglen Cefnogi Pobl o 'wneud gyda, yn hytrach na gwneud i'. O ganlyniad, fel y dywedir yng Nghannllawiau Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru, ni ddylai Cefnogi Pobl gymryd lle'r gwasanaeth gofal neu'r</p>	<p>flaenoriaeth strategol o fewn yr Awdurdod Lleol, ac mae gwaith yn parhau i ail gyflunio darpariaeth gofal a chefnogaeth i'r grŵp cleient hwn. Arweinir y rhaglen gan y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion, fodd bynnag, mae Cefnogi Pobl yn rhanddeiliad allweddol o fewn y broses hon.</p> <p>A derbyn cymhareb gyllido bendrwm cefnogaeth i ofal mewn nifer o dai byw a rennir, bydd angen i gyllid cynyddol yn y dyfodol ddod oddi wrth Ofal Cymdeithasol Oedolion, gan y bydd gofyn statudol i ariannu oherwydd natur gymhleth yr anghenion sy'n bodoli mewn prosiectau o'r fath. Gosodir uchafswm o 15 awr o ddarpariaeth Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai'r wythnos ar gyfer unrhyw unigolyn sydd ag anabledau dysgu ac sy'n gymwys i dderbyn y gwasanaeth, Bydd cyfrifoldeb statudol ar Wasanaethau Cymdeithasol a neu lechyd i orfod parhau i ariannu unrhyw ddiffyg ariannol o ganlyniad i ostyngiad ym muddsoddiad Cefnogi Pobl, ac fe fydd yn gost ychwanegol ar sail anghenion pob unigolyn fydd wedi ei asesu. O ganlyniad felly, ni fydd y dadfuddsoddiad o arian Rhaglen Cefnogi Pobl yn cael effaith negyddol ar lefel gofal a'i darperir fel swyddogaeth statudol.</p>

Grŵp Gwarchodedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
		gwasanaeth iechyd, na chael ei ddefnyddio fel ffynhonnell gyllid wahanol, lle mae dyletswydd statudol i ddarparu.	
Rhyw	Niwtral.	Bydd effaith unrhyw ddi-fuddsoddiad yn niwtral ar ddarpariaeth gwasanaeth, oherwydd parhad y ddyletswydd statudol i gefnogi'r meysydd gwasanaeth yr effeithir hwynt	Ddim yn berthnasol
Ailbennu rhyw	Dim effaith	Ni ddisgwylir i unrhyw newidiadau arfaethedig effeithio o gwbl ar y nodwedd warchodedig hon.	
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	<p>Bydd defnyddwyr gwasanaeth / tenantiaid sy'n derbyn cefnogaeth yn cael asesiad risg o'r cychwyn neu pan ddisgwylir newid sylweddol yn eu hamgylchiadau. Dylai darparwyr gwasanaeth ymateb i feichiogrwydd a mamolaeth yn unol â hyn a'u polisi cyfundrefnol.</p> <p>Glynir wrth bolisiau ac arferion Adnoddau Dynol Cyngor Sir Ynys Môn a darparwyr eraill hefyd a gomisiynir, o ran staff ac o ran asesiadau risg priodol.</p>	Ni ddisgwylir i'r toriadau arfaethedig gael effaith uniongyrchol ar y grŵp gwarchodedig hwn. Disgwylir, os bydd unrhyw unigolyn yn cael ei chynnal o fewn amgylchedd byw a rennir megis lloches, hostel neu uned llety â chefnogaeth hunangynhwysol, y bydd yn cael ei hasesu felly a, lle bo'n briodol, yn ddiogel ac yn rhesymol, yn cael ei symud i ddarpariaeth cefnogaeth ar wasgar.

Grŵp Gwarchoddedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
Hil / Ethnigrwydd/ Cenedl	Niwtral.	Ni ddisgwylir i unrhyw rai o'r dewisiadau arfaethedig beri anfantais i unigolyn neu deulu o unrhyw grŵp hi, ethnigrwydd neu genedligrwydd neilltuol. Fodd bynnag, lle y darperir gwasanaethau penodol ar hyn o bryd i ateb anghenion neilltuol, mae'n bwysig nodi'r rhain a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu diogelu a'u cynnwys yn y dewis a gynigir.	Mae ymarferiad Mapio Anghenion Cefnogi Pobl yn cynnwys data cyfartaleddau llawn fel y mae'r ffurflenni monitro chwarterol y disgwylir i'r holl wasanaethau a gyllidir gan Cefnogi Pobl eu darparu. Mae'r holl gontractau yn cynnwys cymal yn datgan gofynion i nodi amrywiaeth sy'n cynnwys cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 ac mae ein proses dendro yn gweithredu fel fframwaith achrediad cadarn i sicrhau bod yr holl wasanaethau posibl yn dathlu amrywiaeth ac yn sensitif i anghenion crefyddol, diwylliannol, ethnig ac ieithyddol defnyddwyr gwasanaeth ac nad ydynt yn gwahaniaethu o ran rhyw, rhywioldeb, iaith nac anabledd.
Crefydd neu gred	Niwtral.	Gwelwch y blwch uchod	Gwelwch y blwch uchod
Tuedd Rywiol	Niwtral.	Gwelwch y blwch uchod	Gwelwch y blwch uchod
Y Gymraeg	Cadarnhaol uchel	Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth hollol ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg ar draws ei holl wasanaethau ac mae ganddo gymal ym mhob contract sy'n gofyn i bob darparwr gwasanaeth a gyllidir gan Cefnogi Pobl gydymffurfio â gofynion Deddf yr Iaith Gymraeg a Mesur y Gymraeg.	Byddwn yn sicrhau bod y darparwyr newydd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg y Cyngor a dogfen strategaeth 'Mwy Na Geiriau' Llywodraeth Cymru. Cynhelir cyfarfodydd monitro bob chwe mis gyda darparwyr i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r contract, a rhoddir holiadur blynyddol i'r holl ddarparwyr sy'n benodol i'r thema hon. Caiff canfyddiadau'r arolwg eu bwydo'n ôl i Gomisiynydd y Gymraeg yn Llywodraeth Cymru.

Grŵp Gwarchoddedig	**Yr Effaith Bosibl	*Manylion	Camau Iliniaru
Hawliau Dynol	Negyddol Canolig	Bydd yr arbedion effeithlonrwydd arfaethedig yn cael effaith ddiamheuol ar allu pobl fregus a'u teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau, yn enwedig os bydd y galw am wasanaethau yn cynyddu, fel y disgwylir, oherwydd effaith diwygio lles a chyflwyno'r Credyd Cyffredinol.	Rhaid i holl Wasanaethau Cefnogi Pobl lynu at bob agwedd o Hawliau Dynol yn unol â thelerau ac amodau'r Contract.

Rhan A – Cam 4: Canlyniad yr EIA Cychwynol

Ai canlyniad yr asesiad gwreiddiol yw mynd ymlaen i Aseiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb?	Na – Bydd yr EIA cychwynol hwn yn ffurfio sail ar gyfer gwaith pellach fel y nodir isod:
	Adolygir yr Aseiad Effaith hwn ar Gydraddoldeb yn dilyn cyflwyno'r cynigion a'r dystiolaeth i Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl.
Os na, a oes yna broblemau i ymdrin â hwy?	
	Cofnodi Manylion: fel uchod

Os ydych wedi penderfynu **bod angen Aseiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb**, ewch ymlaen i **Ran B**, os gwelwch yn dda.

Os mai eich penderfyniad yw **peidio â mynd ymlaen i Aseiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb**, dilëwch Ran B o'r templed hwn ac ewch ymlaen i **Ran C – Adroddiad Deilliannau**.

Ewch ymlaen i **Ran C – Adroddiad Deilliannau**.

Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb (EIA) – Deilliannau

RHAN C – Cam 1: Adroddiad Deilliannau

Sefydliad:	Cyngor Sir Ynys Môn
Beth sy'n cael ei asesu?: (copi o Ran A – cam 1)	<p>Effaith y cynigion sydd wedi eu cynnwys yn Strategaeth Gomisiynu Grant Rhaglen Cefnogi Pobl ar gyfer 2018/21.</p> <p>Mae'r strategaeth yn canolbwyntio ar gomisiynu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer ystod amrywiol o unigolion neu deuluoedd, sydd yr un mor fregus â'i gilydd, sydd naill ai'n ddigartref neu mewn perygl o ddod yn ddigartref.</p> <p>Mae'r cynigion yn cynnwys ailfodelu, digomisiynu ac ail-gomisiynu gwasanaethau cefnogi fel y disgrifir yn y Strategaeth Gomisiynu a'r Cynllun Gwariant gorfodol.</p>
Y Nodau a'r Amcanion yn gryno: (copi o Ran A – cam 1)	Argymhellion a manylion gwariant ar gyfer darparu cefnogaeth sy'n ymwneud â thai ar gyfer amrediad eang o unigolion a theuluoedd sydd yr un mor fregus â'i gilydd, ac sydd ar draws ystod o feysydd gwasanaeth.
A aeth yr asesiad effaith cychwynnol ymlaen i Asesiad Effaith Llawn ar Gydraddoldeb? (RHAN A – Cam 4)	Naddo – Bydd yr EIA hwn yn ffurfio sail i waith pellach fel y nodir isod:
	Cofnodwch y rhesymau dros y penderfyniad
	Adolygir yr EIA yn dilyn ei gyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl
Os na, a oes yna broblemau i ymdrin â hwy?	Fel uchod

Os do, beth oedd canlyniad yr EIA llawn?	
--	--

A gaiff y Polisi ei fabwysiadu/anfon ymlaen i'w gymeradwyo? Pwy fydd yn penderfynu?	Bydd y penderfyniadau terfynol, seiliedig ar yr argymhellion a gyflwynir, yn gorffwys gyda Grŵp Cynllunio amlasiantaethol Cefnogi Pobl Ynys Môn.
	Os na, cofnodwch y rheswm ac unrhyw gam gweithredu arall sydd ei angen:

Oes yna drefniadau monitro wedi eu sefydlu? Beth yw'r rhain?	Mae gan y Tîm Cefnogi Pobl drefniadau monitro cadarn a rheolaidd.
--	---

Pwy yw'r Swyddog Arweiniol?	Enw:	Ned Michael
	Teitl:	Pennaeth Gwasanaeth
	Adran:	Gwasanaethau Tai
Dyddiad adolygu'r polisi a'r EIA:	I'w benderfynu	

Enwau'r holl bartion fu â rhan mewn cynnal yr asesiad hwn	Enw	Teitl
	Arwel Jones Anne Sutton Lesley Thomas Caron Jones	Prif Swyddog Datblygu Swyddog Adolygu, Contractau a Datblygu Cefnogi Pobl x 2 Dadansoddwr Data a Chyllid Cefnogi Pobl

	Aelodau Panel Cydraddoldeb Rhian Hughes – Polisi Corfforaethol Ned Michael Fôn Roberts Phil Forbes	Pennaeth Gwasanaethau Tai Pennaeth Gwasanaethau Plant Rheolwr Llety A Chefnogaeth Iechyd Meddwl
	Katy Jones	Rheolwr Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau
	Sharon Williams	Rheolwr Gwasanaethau Prawf
	Barbara Williams	Rheolwr Gweithrediadau Anableddau Dysgu ac Iechyd Meddwl
	Elliw Llŷr	Rheolwr Comisiynu, Polisi a Strategaeth Gwasanaethau Tai
	Tracey Davies Gwyneth Williams	Cynrychiolydd Darparwyr Cynrychiolydd Darparwyr
Sylwer: Dylid gosod Cynllun Gweithredu ynghlwm wrth yr Adroddiad Deilliannau hwn cyn ei gwblhau.		

RHAN C - Cam 2: Cynllun Gweithredu

Disgrifiwch unrhyw gamau gweithredu sydd wedi eu cynllunio yn dilyn cwblhau eich EIA. Dylech gynnwys unrhyw newidiadau a wnaed i leihau neu ddileu effeithiau negyddol posibl neu wirioneddol, yn ogystal ag unrhyw drefniadau i gasglu data neu gynnal ymchwil bellach.

Cyf	Camau arfaethedig	Y Swyddog Arweiniol	Amserlen

Atodiad 1 – Hawliau Dynol

Hawliau a rhyddid yw hawliau dynol, sy'n eiddo i bob unigolyn, ni waeth beth yw ei genedl na'i ddinasyddiaeth.

Ceir 16 o hawliau sylfaenol yn y Ddeddf Hawliau Dynol – i gyd wedi eu cymryd allan o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol.

I ddibenion y Ddeddf, fe'u hadwaenir fel 'Hawliau'r Confensiwn'. Maent wedi eu rhestru isod:

(Rhagarweiniol yw Erthygl 1 ac nid yw wedi ei hymgorffori yn y Ddeddf Hawliau Dynol)

Erthygl 2: Hawl i fywyd

Erthygl 3: Gwahardd arteithio

Erthygl 4: Gwahardd caethwasiaeth a llafur gorfodol

Erthygl 5: Hawl i ryddid a diogelwch

Erthygl 6: Hawl i dreial teg

Erthygl 7: Dim cosb heb gyfraith

Erthygl 8: Hawl i barch at fywyd preifat a theuluol

Erthygl 9: Rhyddid meddwl, cydwybod a chrefydd

Erthygl 10: Rhyddid mynegiant

Erthygl 11: Rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu

Erthygl 12: Hawl i briodi

Erthygl 14: Gwahardd gwahaniaethu

Erthygl 1 o Brotocol 1: Amddiffyn eiddo

Erthygl 2 o Brotocol 1: Hawl i addysg

Erthygl 3 o Brotocol 1: Hawl i etholiadau rhydd

Erthygl 1 o Brotocol 13: Dileu'r gosb eithaf

ATODIAD 2

Cefnogi Pobl Ynys Môn

Adroddiad Mapio Anghenion 2016-17

06/06/2017


BLWYDDYN GWBLHAU	Nifer
Cyfanswm	1,310
Ebrill 2016 - Mawrth 2017	1,310

Cyfrif penodol y ffurflenni (HSID)


1,310

Nifer y ffurflenni gan yr Awdurdod Lleol


FFURFLENNI	Nifer
Cyfanswm	1,310
Ynys Môn	1,310



Grŵp Oedran	Nifer
Cyfanswm	1,310
16-24	283
25-40	352
41-60	306
61 neu drosodd	369




RHYW	Nifer
Cyfanswm	1,310
Benywaidd	758
Gwrywaidd	550
Arall	2



LLUOEDD ARFOG	Nifer
le	13


FFYNHONNELL FFURFLENNI MA	Ffurflenni
Cyfanswm	1,310
BAWSO	4
CAIS	100
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	1
Digartref Ynys Môn	83
GISDA	9
Gorwel	230
Hafan Cymru	18
Cyngor Sir Ynys Môn	573
Môn Care	170
Nacro Cymru	4
Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol Cymru	1
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	3
The Wallich	35
Cyngor Sir Ynys Môn	1
TIMC Ynys Môn	1
Gwasanaethau Cefnogaeth yn y Gymuned	18
Gwasanaethau Cefnogaeth yn y Gymuned – Cefnogaeth ar Wasgar	2
Digartref	3
Digartref Ynys Môn	1
Digartref coedlys CaW	1
Digartref coedlys CaW	2
Digartref Cyf	11
Digartref, Coedlys	34
Digartref, Coedlys	1
CSYM – Tîm Opsiynau Tai	1
CSYM – Gwasanaeth Cefnogaeth Tai	1
Môn Care	1
CSYM	1

Rheswm Dros Gwblhau'r Ffurflen	Nifer
Cyfanswm	1,310
Anghenion cefnogaeth yn unig	454
Anghenion llety yn unig	399
Anghenion cefnogaeth a llety	446
Heb ei ddatgan	11




WEDI CWBLHAU'R FFURFLEN O'R BLAEN?	Nifer
Cyfanswm	1,310
Do	203
Naddo	1,107

Pwyd gwlbiau'r Ffurflen MA Flaenorol?	Nifer
FFURFLEN	
1 mis neu lai	203
1 mis neu lai	24
1-3 mis	26
3-6 mis	11
6-12 mis	94
1-2 flynedd	25
2-5 mlynedd	23



Cydyw Gŵd Plant yn Hyn o Bryd


	Nifer
Cyfanswm	1,310
Ie	202
Na	1,106
Heb ddatgan	2



Heb ddatgan

Plant sy'n Ddibynnol?

	Nifer
Cyfanswm	1,310
Oes	278
Nac oes	1,025
Heb ddatgan	7




Heb ddatgan

NIFER Y PLANT

	Nifer
Cyfanswm	241
1	113
2	71
3	29
4	15
5	7
6	3
7+	3

Nifer y Plant



PARTNER / PLANT


		Plant:	Oes	Plant:	Nac oes	Plant:	Heb ei ddatgan
Cyfanswm	1,310		278		1,025		7
Partner: Oes	202		81		118		3
Partner: Nac oes	1,106		197		906		3
Partner: Heb ei Ddatgan	2		0		1		1

YN FEICHIOG?

	Nifer
Cyfanswm	1,310
Ie	37
Na	1,265
Heb ei ddatgan	8

Ie Heb ei ddatgan


Yn Feichiog?



Oes ddiagon yn Ddiagonol Eraill?

	Nifer
Cyfanswm	1,310
Oes	24
Nac oes	1,273
Heb ei ddatgan	13


Oes Heb ei ddatgan



Rhan: Gwasanaethau Cyfredol

7

Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai	478
Gwasanaethau Cymdeithasol Oedolion	212
Gwasanaethau Plant a Theuluoedd	91
Gwasanaeth Cym Alcohol a Chyffuriau	70
Gwasanaeth Prawf	64
Gwasanaeth Cyfiawnder Iuencid	6
Gwasanaeth Iechyd Meddwl yny Gymuned	249
Gwas Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed	12
Gwasanaeth Iechyd Meddwl Fforensig	0




Cam-drin Domestig	135
Anawsterau Dysgu	33
Iechyd Meddwl	479
Alcohol	104
Cyffuriau	117
Ffoaduriaid / Mewnfudo	2
Anabledd Corffol / Synhwyrdd	99
Unigolyn Ifanc Bregus	177
Troseddu	82
Generig	549
Salwch Cronig	41
Unigolyn Hŷn Bregus	376

Teimlo'n ddiogel	453
Hunan Ddiogelwch / Diogelwch Eraill	338
Llety	918
Perthnasau	309
Cynhwysiad Cymunedol	326
Rheoli Arian	414
Addysg/Dysgu	166
Cyflogaeth/Gwirfoddoli	189
Iechyd Corfforol	434
Iechyd Meddwl	393
Bywydau Iach a Llawn	404

PRIF ANGEN
Prif Angen


	Nifer
Cyfanswm	1,310
Cam-drin domestig	79
Anawsterau dysgu	4
Iechyd Meddwl	209
Alcohol	25
Cyffuriau	26
Anabledd corfforol / synhwyrdd	13
Unigolyn ifanc bregus	125
Troseddu	17
Generig	436
Gawg Sarnog	5
Unigolyn hŷn bregus	331
Heb di ddatgan	40



0 50 100 150 200 250 300 350 400 450

DIGARTREFEDD	Nifer
Yn ddigartref ar adeg cwlbhau'r ffurflen	319
Risg o ddigartrefedd o fewn 2 fis	230
Risg o ddigartrefedd yn y tymor hir	76


UNMAN I AROS HENO?	Nifer
Wedi ticio'r blwch	88




Rhybudd i adael	179
Cyflwr/addaswydd yr eiddo Ôl-	101
ddyledion rhent/morgais	67
Teulu/perthynas yn chwalu	302
Trafferth cymdogol/aflonyddu	30

PRESENNOL	Nifer
Cyfanswm Conwy	1,310
Cyfanswm Sir y Fflint	1,190
Cyfanswm Wrecsam Arall yn y DU	5
Sir Ddinbych	1
Sir y Fflint	2
Gwynedd	82
Wrecsam	1
Arall yn y DU	2
CYFNOD	
Heb ei ddatgan	27
Cyfanswm	1,310
Llai nag 1 wythnos	36
1-4 Wythnos	69
1-3 Mis	66
3-6 Mis	54
6-12 Mis	69
2-5 Mlynedd Mwy na 5 Mlynedd	111
1-2 Flynedd	142
2-5 Mlynedd	142
Mwy na 5 mlynedd	473
Heb ei ddatgan	290

Lleoliad Presennol




Cyfnod yn y Lleoliad



BLAENOROL	Nifer
Cyfanswm	1,310
Sir y Fflint	6
Gwynedd	52
Wrecsam	6
Arall yn y DU	67
Gwlad arall	13
Heb ei ddatgan	567

Lleoliad Blaenorol




CYFNOD YN Y LLEOLIAD PRESENNOL/ LLEOLIAD BLAENOROL

	Ynys Môn	Conwy	Sir Ddinbych	Sir y Fflint	Gwynedd	Wrecsam	Arall yn y DU	Gwlad arall	Heb ei ddatgan	
Cyfanswm	1,310	588	6	5	6	52	6	67	13	567
Llai nag 1 wythnos	36	21	1	0	1	5	0	7	0	1
1-4 Wythnos	69	38	0	0	1	8	0	14	2	6
1-3 Mis	66	36	1	2	0	11	3	5	3	5
3-6 Mis	54	36	1	1	1	3	2	5	0	5
6-12 Mis	69	43	0	1	1	5	0	5	2	12
1-2 Flynedd	111	69	0	0	0	5	0	8	2	27
2-5 Mlynedd	142	73	1	1	0	4	0	11	1	51
Mwy na 5 mlynedd	473	226	1	0	1	8	0	9	3	225
Heb ei ddatgan	290	46	1	0	1	3	1	3	0	235


LLETY PARHAOL	Cyfanswm	Byw yn y Cartref Teuluol / Ffrindiau	Arall
Tai Cyngor	298	19	279
Cymdeithas Tai	70	1	69
Rhentu preifat	239	8	231
Perchennog	66	6	60
Carafán neu Gartref Symudol	20	6	14
Arall	103	48	55

Llety Presennol



Dim Cartref Sefy

DIM CARTREF SEFYDLOG	Cyfanswm
Cysgu allan	64
Lloches dros nos / hostel	8
Gwesty neu Wely a Brecwast	50
Teulu neu ffrindiau am dymor byr	121
Cysgu allan Ysbyty	1
Carchar	1
Arall	10



Rhan: Lleoliad a Ffefrir

14

Ynys Môn	1,080
Conwy	8
Sir Ddinbych	2
Sir y Fflint	2
Gwynedd	40
Wrecsam	0
Arall yn y DU	6
Gwlad Arall	4

Rhan: Math o Lety a Ffefrir

LLETY CYFFREDIN

Tai Cyngor	496
Cymdeithas Tai	332
Rhentu Preifat	118
Perchennog Tŷ	13
Carafán neu Gartref Symudol	2
Arall	13

LLETY Â CHEFNOGAETH

Llety â Chefnogaeth Hunangynhwysol	110
Llety â Chefnogaeth a rennir	78
Tai Gwarchod	11
Llety â Chymorth	16
Lloches neu Lety Diogel	2
Hostel Tymor Byr	49
Cyfleuster Adfer Preswyl	2
Cartref Gofal Preswyl neu Nyrsio	2
Cefnogaeth ar Wasgar	399
Llety â chefnogaeth arall	25

GOFALWR	Cyfanswm
Cyfanswm	1,310
le	25
Na	1,243
Heb ei ddatgan	42

ETHNIGRWYDD:

A. GWYN	Cyfanswm
Cyfanswm	1,268
Gwyn	1,268

B. CYMYSG	Cyfanswm
Cyfanswm	5
Gwyn a Du Affricanaidd	1
Gwyn a Du Caribiaidd	3
Arall	1


C. ASIAIDD NEU ASIAIDD PRYDEINIG	Cyfanswm
Cyfanswm	7
Indiaidd	3
O Fagladesh	3
Arall	1

D. DU NEU DDU PRYDEINIG	Cyfanswm
Cyfanswm	3
Affricanaidd	1
Arall	2

GRWP IAU ERAILL	Cyfanswm
Cyfanswm	1
Arall	1


CENEDLIGRWYDD	Cyfanswm
Cyfanswm	1,293
Cymreig	528
Seisnig	326
Albanaidd	6
Gogledd Iwerddon	4
Prydeinig	396
Gwyddelig	7
Arall	26

Cenedligrwydd



IAITH	Cyfanswm
Cyfanswm	1,135
Cymraeg	252
Saesneg	878
BSL	1
Arall	4


Iaith



IAITH	Cyfansw
Cyfanswm	0

CREFYDD	Cyfanswm
Cyfanswm	1,056
Dim	883
Bwdhaidd	3
Iddewig	1
Sic	1
Cristion	100
Moslem	4
Arall	64

Crefydd



ANABLEDD

Nam symudedd	103
Nam ar y golwg	22
Nam ar y clyw	19
Nam dehurwydd	12
Anhawster dysgu	35
Iechyd meddwl	383
Nam arall	27

RHYW YR UN FATH AR ENEDIGAETH	Cyfanswm
Cyfanswm	1,310
Ydyw	1,173
Nac ydyw	12
Heb ei ddatgan	125

CYFEIRIADEDD RHYWIOL	Cyfanswm
Cyfanswm	1,310
Heterorywiol	896
Hoyw neu Lesbiaid	9
Deurywiol	18
Gwell gennyf beidio â dweud	159
Heb ei ddatgan	228

Cefnogi Pobl Ynys Môn

Adroddiad Mapio Anghenion 2016-17

06/06/2017

BLWYDDYN GWBLHAU	Nifer
Cyfanswm	1,310
Ebrill 2016 - Mawrth 2017	1,310

Cyfrif penodol y ffurflenni (HSID) 1,310

Cam-drin Domestig	79
Anawsterau Dysgu	4
Iechyd Meddwl	209
Alcohol	25
Cyffuriau	26
Anab. Corff. / Synhwyraidd	13
Unigolyn Ifanc Bregus	125
Troseddu	17
Salwch Cronig	5
Unigolyn Hŷn Bregus	331
Heb ei ddatgan	476

ATODIAD 3

Eich Gwasanaeth Eich Barn

Ystadegau:


Dyddiad dechrau'r Arolwg – 1st April 2017

Cyfanswm nifer yr Holiaduron – **71**

Holiaduron wedi'u rhannol gwblhau – 20

Cyfanswm nifer yr Holiaduron a gwblhawyd - 51

Beth yw enw darparwr eich gwasanaeth?



O'r 51 holiadur a gwblhawyd, roedd pob un wedi datgelu enw eu darparwr gwasanaeth:

<u>Darparwr</u>	<u>Nifer yr holiaduron</u>
CAIS	15
Cartrefi Cymru	0
Clwyd Alyn	0
Digartref	4
Gorwel	7
Hafan Cymru	6
Tyddyn Môn	0
Môn Care	0
Grŵp Cynefin	0
The Wallich	5
Cefnogaeth Tai CSYM	9
GCG	5

Cyfanswm o 51


Grŵp Cleient Perthnasol

Gofynnwyd i'r defnyddwyr gwasanaeth dicio'r grwpiau cleient mwyaf perthnasol iddynt.

O'r 51 ateb a gwblhawyd, roedd pob un o'r 51 o bobl wedi datgelu'r grwpiau cleient mwyaf perthnasol iddynt.

O'r holl grwpiau cleient, cofnodwyd y nifer uchaf o dan rai Generig 43.14% (22 defnyddiwr gwasanaeth), Iechyd Meddwl oedd yn ail gyda 31.37 (16 defnyddiwr gwasanaeth, a'r trydydd oedd Cam-drin Domestig gyda 15.69% (8 defnyddiwr gwasanaeth). Daeth Camddefnyddio Sylweddau, Troseddau a Digartrefedd dros 25 oed yn bedwerydd gyda 13.73% each (7 defnyddiwr gwasanaeth).

Er mai dim ond 5 holiadur a gwblhawyd ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth a gefnogir gan y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, dewisodd 16 o bobl y grŵp cleient Iechyd Meddwl fel yr un mwyaf perthnasol iddynt.




Generig	22
Iechyd Meddwl	16
Anableddau Corfforol	1
Anableddau Dysgu	0
Camddefnyddio Sylweddau	7
Pobl Hŷn (55+)	1
Pobl Ifanc a Theuluoedd Ifanc (16-25)	5
Cam-drin Domestig	8
Pobl Ifanc Fregus	5
Troseddau	7
Digartrefedd a thros 25 oed	7

Sut y byddech chi'n disgrifio ansawdd y gwasanaeth yr ydych wedi ei dderbyn?

O'r 51 holiadur a gwblhawyd, atebodd pob un o'r 51 o bobl y cwestiwn hwn.

O'r holiaduron a gwblhawyd, roedd 46 o bobl yn meddwl fod y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt yn dda iawn. Roedd 4 o bobl yn meddwl fod y gwasanaeth yn dda ac 1 ohonynt yn meddwl fod y gwasanaeth yn ganolig. Nid oedd unrhyw un yn meddwl fod y gwasanaeth yn wael neu'n wael iawn.



Rhai o'r sylwadau a roddwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth ynghylch y gwasanaeth a dderbyniwyd ganddynt

"Yn help mawr ac yn eich helpu i fod yn annibynnol"

"Oherwydd fy mod yn edrych ymlaen at Amie'n dod, mae hi'n help mawr. Dwi'n teimlo'n gyfforddus iawn ac mae hi'n gwrando"

"yn help mawr ac yn gefnogol"

"Mae Cais wedi fy helpu i fyw ar fy mhen fy hun"

"wedi bod yn help mawr ac yn garedig"

"Dwi ddim yn gwybod lle fyddwn i hebbyn nhw"

"Fy nghefnogi i gyflawni fy nodau. Fy helpu i beidio â throddu neu fynd yn ôl i'r carchar"

"Am ei fod yn gweithio"

"Mae'r gefnogaeth dwi'n ei chael o'r radd orau. Yn help mawr ac yn gefnogol"

"Dwi'n gwybod dwi'n gallu ffonio ac mi wnawn nhw fy helpu i gael trefn ar fy mhroblemau yn syth. Dwi'n gallu dibynnu ar eu cefnogaeth oherwydd eu bod nhw yno i mi"

"Dwi'n teimlo bod y gefnogaeth dwi wedi ei derbyn wedi bod yn dda iawn oherwydd bod y bobl yn amyneddgar ac yn fy helpu i fod yn fwy annibynnol"

"Oherwydd fy mod wedi cael beth ofynnais amdano a hefyd pethau nad oeddwn i'n sylweddoli fy mod yn gymwys i'w cael / gwneud cais amdany'n nhw"

"Diffyg help ariannol ar gyfer symud ymlaen neu arddio"

"cefnogaeth i gyflawni fy anghenion"

"Oherwydd fy mod yn gwybod fod gen i fflat a ddim yn ddigartref rŵan"

"Oherwydd eu bod nhw'n mynd â chi i le'r ydych angen bod ac maen nhw yno pan ydych eu hangen"

“Mae Cais wedi fy helpu i fyw ar fy mhen fy hun”

“Oherwydd bod Wendy wedi bod yn help aruthrol ac wedi ein helpu i fynd drwy amser anodd”

“Oherwydd fy mod wedi cael beth ofynnais amdano a hefyd pethau nad oeddwn i'n sylweddoli fy mod yn gymwys i'w cael / gwneud cais amdany'n nhw”

“mwy o gefnogaeth a dealltwriaeth am dai na beth roeddwn yn ei wybod o'r blaen”

“cefnogaeth dda, hawdd i siarad efo nhw”

“Oherwydd eu bod wedi bod mor gefnogol efo pob dim roeddwn angen cefnogaeth ar ei gyfer”

“wedi sortio fy mhroblemau”

“Mae safon y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y gweithwyr cefnogaeth yn y lloches yn hollol wych. Mae'r gweithwyr i gyd yn broffesiynol iawn, yn ofalgar ac yn dosturiol tuag at bobl yn eu gwaith.”

“Dwi'n graddio CAIS fel hyn oherwydd eu bod wedi bod yn fy nghefnogi, ac yn parhau i'm cefnogi pan wnaeth Gweithiwr Cefnogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn ddim byd ond gwneud hwyl am ben fy anabledd a fy iechyd meddwl. Dwi wedi gweld bod CAIS yn llwyr ddeall fy mhroblemau o ran ceisio cael fy nhrosglwyddo i lety arall sy'n fwy addas a diogel ar gyfer fy anghenion. Wnaeth Gweithiwr Cefnogaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ddim byd!”

“Mi wnaeth bopeth yr oedd i fod i'w wneud a hynny gyda brwdfrydedd”

“Yn help mawr, yn gefnogol ac yn deall pethau”

“Wedi fy ngalluogi i gyllidebu fel bod fy ôl-ddyledion (e.e. ôl-ddyledion rhent, nwy calor) yn cael eu talu'n rheolaidd”

“Mae'r ddau Swyddog Cefnogi Tai wedi fy helpu i lenwi ffurflenni, efo ceisiadau am dai, wedi gwneud cais am DAF a thaliadau cartref cynnes i mi ac wedi rhoi cefnogaeth foesol ac emosiydol a chyingor...”

“Mae wedi bod yn help”

“mae'r staff yn Digartref Llys y Gwynt wedi rhoi cefnogaeth dda i mi ond mae'r ffaith ei fod yn hostel yn golygu bod asiantaethau y tu allan fel y ganolfan waith a'r coleg yn edrych i lawr arna i am fod yn yr hostel”


Ydych chi wedi derbyn Gwasanaeth Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai o'r blaen?

O'r 51 holiadur a gwblhawyd, roedd 49 o bobl wedi cwblhau'r cwestiwn hwn, nid oedd 2 wedi ateb.


Nid oedd 73.47% (36) wedi derbyn cefnogaeth o'r blaen. O'r **13** a atebodd “Do”, rhoddodd 12 o bobl enw'r darparwr oedd wedi eu cefnogi o'r blaen -

- CAIS (2)
- Hafan Cymru (1)
- Digartef (1)
- NACRO (3)
- Gorwel (2)
- Gwasanaeth Cefnogaeth Tai (3)

- Pendinas (1)



Pa un yw eich dewis iaith?




Ydych chi'n derbyn eich cefnogaeth yn yr iaith sydd orau gennych?

O'r 4 a atebodd "Na" i'r cwestiwn, y rheswm a roddwyd o ran pam nad oeddynt yn derbyn y gefnogaeth drwy'r iaith sydd orau ganddynt oedd:

“Dydi o ddim yn rhugl yn y Gymraeg”

“Mae'r mwyafrif o'r staff yn rhugl yn y Gymraeg a'r preswylwyr hefyd felly mae'n haws siarad Cymraeg”



Ble, yn eich barn chi, fydddech chi heddiw, oni bai am y gefnogaeth yma?

Roedd 45 o bobl wedi ateb y cwestiwn hwn. Dewisodd 6 i beidio â'i ateb. Mae'r sylwadau isod fel y maent wedi'u hysgrifennu ar yr holiadur a gyflwynwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth.

"I mewn ac allan o'r carchar yn ôl pob tebyg, a heb fy nheulu yn fy mywyd"

"ddim mewn lle da"

"yn dal i gysgu ar soffas pobl"

"ar goll"

"yn byw yn fy fan"

"mewn gwter"

"mewn llanast, lle drwg, methu ymdopi"

"fyddwn i ddim wedi cael mor bell efo fy mab yn ôl pob tebyg, heb y cymorth"

"yn ddigartref"

"Mi fyddwn i'n saff o fod yn y carchar. Dwi eisiau aros yng Nghoedlys am gyn hired â phosib, i wneud yn siŵr fy mod yn dysgu pob sgil i fedru rheoli fy llety fy hun"

"Ddim yn gwybod"

"mewn tŷ tamp gyda fy mhlant a ddim pres"

"Yn dal mewn hostel. Mae fy iechyd meddwl wedi gwella ers i mi fod efo Hafan Cymru"

"I ffwrdd o fy mhlant ac yn dal i fyw mewn carafán yn Llanbedrgoch"

"yn y carchar yn fwy na thebyg"

"anodd ateb, ond dychmygu na fyswn mewn lle da, yn feddyliol, ac efallai wedi troseddu oherwydd sgil effaith trais arnafi"

"Pan ddechreuodd fy nghefnogaeth roeddwn i'n teimlo'n ddryslyd iawn, felly mae cael rhywun i ddangos i mi sut i ddelio hefo pethau wedi rhoi hyder i mi eto."

"ar y strydoedd"

"mewn ffos yn rhywle yn ôl bob tebyg"

"Yn dal i gysgu ar soffas"

"Yn ddigartref a'r teulu wedi gwahanu"

"Yn y dafarn heb bres!"

"wedi colli fy nghartref yn ôl pob tebyg"

"yn ddigartref neu wedi marw"

"Efallai y byddwn i'n poeni mwy am bethau"

"Duw a wŷr, methu ateb, ddim mewn lle da"

"Wedi marw"

"Mi fyddwn i'n ddigartref eto heb y gefnogaeth bob pythefnos..."

"Duw a wŷr, yn dal i fod mewn perthynas efo rhywun sy'n trio fy rheoli yn ôl pob tebyg"

“ar y stryd yn cymryd cyffuriau yn rhywle, ddim yn gwybod be’ sy’n fy wynebu’r diwrnod wedyn”

“Yn ddigartref”

“Mi fyddwn i mewn dyled yn fwy na thebyg, ac yn ddigartref. Fyddwn i ddim yn cael gwarchod fy mhlant ‘chwaith. Hefyd, yn ôl pob tebyg, mi fyddwn wedi mynd yn ôl at yr un oedd yn fy ngham-drin. Ond roedd y gefnogaeth a roddwyd wedi rhoi gobaith i mi i’r dyfodol.”

“Yn dal i fod mewn fflat un ystafell”

“Dwi’n meddwl y byddwn i ar y stryd taswn i ddim yma heddiw”

“Dwi ddim yn gwybod, mewn sefyllfa waeth”

“Yn ddigartref”

“Ar y strydoedd”


“yn teimlo’n ddifywyd, yn ddigartref, a heb gefnogaeth o’r cwmpas”

“yn y carchar yn ôl pob tebyg”

“Dwi’n teimlo, heb y gefnogaeth, fyddwn i ddim wedi medru gwneud y pethau yr oedd y staff wedi fy helpu hefo nhw ar fy mhen fy hun. Mi fyddwn wedi cyrraedd y gwaelodion mae’n siŵr, yn dioddef iselder, y ffordd roeddwn i’n teimlo, ac mi fyddwn i wedi diweddu ar y strydoedd yn ôl pob tebyg. Roedd y gefnogaeth yn ffantastig”

“Hergest”

Ydy’r gwasanaeth wedi eich cefnogi i gyflawni’r deilliannau isod? Rhowch dic wrth unrhyw rai sy’n berthnasol i chi.



Atebodd 49 o bobl y cwestiwn hwn. Dewisodd 2 o bobl i beidio ag ateb y cwestiwn.

Y deilliannau perthnasol uchaf oedd yn berthnasol i’r rheiny a gwblhaodd yr holiadur oedd:

- Rheoli a chynnal eich llety **89.8% - 44**
- Eich helpu i fod yn iach yn feddyliol ac i deimlo’n ddiogel yn eich cartref ac yn y gymuned, y ddau yn **75.51% -37**

- Rheoli eich arian **69.39% - 34**

Beth yw eich barn am y meysydd gwasanaeth canlynol?



Atebodd bob un o'r 51 o bobl y cwestiwn hwn.

O'r rhain, teimlodd 2 o bobl y gellid gwella'r "cyfathrebu rhwng staff a chleientiaid" a "staff" a theimlodd 1 y gellid gwella "ansawdd y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn".

Nid oedd unrhyw un o'r farn fod unrhyw feysydd gwasanaeth yn wael.

Eglurwch y rheswm dros sut yr ydych wedi eu graddio - gan gynnwys unrhyw sylwadau eraill

"Maen nhw'n ddeallgar"

"am fod Amie yn dda o ran beth mae hi'n ei wneud i mi"

"Yn trio meddwl am ffyrdd i fy helpu a chyfathrebu"

"angen mwy o staff... staff yn brysur yno o hyd ac allan ayyb"

"Yn gyffredinol, mae'r cyfathrebu rhyngof fy hun a'm swyddog cefnogi tenantiaeth wedi caniatáu i mi fagu hyder yn y gwasanaeth"

"Mae'r staff yn ardderchog - at ei gilydd, maen nhw i weld yn malio"

"Am eu bod yn egluro pob dim i mi ac yn gwneud i mi deimlo bod croeso i mi a'u bod yn fy nghefnogi"

"Mae'r staff yn garedig ac yn rhoi help"

"Yn help mawr and ac roedd dim ond angen ffonio pan oedd angen ac roedd yn nhw'n werth y byd i'n teulu"

"bob amser yn brysur pan oeddwn yn galw yno"

"mae'r staff i gyd yn fedrus ac yn broffesiynol iawn. Mae bron pawb yn siarad Saesneg a Chymraeg sy'n help, maen nhw'n wir yn gwneud pob dim i helpu pobl"

“Mae CAIS yn wasanaeth pwysig i bobl ar draws Ynys Môn ac yn wasanaeth nad ydi Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn gymwys i'w ddarparu ar gyfer pobl yr ynys 'ma sydd efo problemau iechyd meddwl.”

“mae'r staff yn gyfeillgar iawn ac mae'n hawdd siarad efo nhw”

“Bob amser yn rhoi gwybod i mi be' sy'n digwydd”

“yn help mawr ac mae gan y staff berthynas dda hefo'r bobl sy'n byw yma, maen nhw'n trio helpu pawb”

“Mae cymaint o gymorth ar gael. Mae'r staff yn wybodus iawn ac yn gallu helpu hefo bob math o bethau. Mae'r staff wedi bod yn gefnogol ac yn sympatetig pan oedd angen. Dwi'n teimlo eu bod nhw'n trin pawb efo parch ac yn deg, a dydyn nhw ddim yn barnu pobl.”

“Am fod y staff i gyd yn chwarae rhan yn y gefnogaeth, hyd yn oed os dydyn nhw ddim yn weithiwr allweddol i mi”

“Yn ddeallgar iawn ac yn hawdd siarad efo nhw”

“Mae'r holl gymorth dwi'n ei gael yn ardderchog”

“yn gallu siarad efo staff, maen nhw'n helpu hefo fy mhroblemau. Mi sgwennodd y staff lythyr i'r llys i ddweud wrth y barnwr pa mor dda oeddwn yn dod yn fy mlaen, mi helpodd hyn i mi beidio gorfod mynd i'r carchar”

“mi gefais yr holl gymorth a help oedd ei angen arna i”

Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau yr ydych chi'n meddwl fyddai'n gwella'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd?

Atebodd 34 o bobl y cwestiwn hwn. Dewisodd 17 o bobl i beidio â'i ateb. Mae'r sylwadau isod fel y cawsant eu hysgrifennu ar yr holiadur a gyflwynwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth.

Atebodd y mwyafrif o bobl “Na” i'r cwestiwn hwn, sy'n awgrymu eu bod yn hapus gyda'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn.

“Dim o gwbl, maen nhw i gyd yn gwneud job ffantastig – mi fyddwn yn argymhell y gwasanaeth i unrhyw un oedd angen y gefnogaeth maen nhw'n ei chynnig”

“NA, mae CAIS yn gwneud pob dim sy'n bosib i fy helpu i wella”

“na, mae'n iawn fel y mae o”

“Mwy o wasanaethau un i un sy'n dod i'ch cartref”

“rhoi cymorth corfforol”

“Yn dda fel y mae o”

“mae angen rhagor o staff sy'n gallu helpu hefo achosion mwy arbenigol/anodd”

“na, mwy o staff yn y gwasanaeth?”

“Na, dwi'n meddwl eu bod nhw'n gwneud job dda”

“Dwi'n meddwl y dylai Coedlys allu fy nghefnogi ar ôl i mi droi'n 25 oed. Dwi'n meddwl hefyd nad ydi ariannu am 2 flynedd yn ddigon”

“na, oherwydd bod y gwasanaeth yn ddi-fai yn fy ngolwg i”


“Na, dwi'n meddwl bod y Wallich yn gwneud job ffantastig”

“rhagor o waith i ddilyn i fyny ar iechyd meddwl a chorfforol y bobl ifanc”

“Dim awgrymiadau oherwydd dwi'n teimlo fod y gwasanaeth yn effeithiol ac yn llwyddo i gyflawni pethau”

“mae angen rhagor o staff sy'n gallu helpu gydag achosion mwy arbenigol/anodd”

Pe byddech chi'n ddiqartref neu mewn perygl o fod yn ddiqartref cyn cael mynediad i'r gwasanaeth yma, sut fydddech chi'n graddio'r gefnogaeth cyn-denantiaeth a ddarparwyd?



- Atebodd 47 o bobl y cwestiwn hwn
- Dewisodd 4 o bobl i beidio ag ateb y cwestiwn

“Wedi fy atal rhag bod yn ddiqartref a hefyd wedi fy helpu i reoli fy nhenantiaeth”

“Mae Amie wedi fy helpu i symud fy mhethau ac yn fy helpu yn fy llety â chymorth”

“Wedi egluro sut oedden nhw'n gallu helpu”

“oedd y tŷ roeddwn yn rhentu ar ôl dianc trais wedi cael i 'repossesio' gan y banc. felly cefais gefnogaeth Gorwel i ddod o hyd i le preifat ar fyr rhybudd”

“Am eu bod yn gwneud i mi deimlo fy mod wirioneddol yn cael help a chefnogaeth”

“Yn help mawr”

“Cymorth i gael tenantiaeth”

“doedd dim cymorth cyn-denantiaeth – Amherthnasol”

“Roedd y gweithiwr cefnogi'n dda am gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod i mi beth oedd yn digwydd efo'r broses”

“Roedd yr holl help oedd ei angen yno”

Pe byddech chi'n ddiqartref neu mewn perygl o fod yn ddiqartref cyn cael mynediad i'r gwasanaeth yma, sut fydddech chi'n graddio'r gefnogaeth cyn-denantiaeth a ddarparwyd?

O'r 38 o bobl a ymatebodd i'r cwestiwn hwn, rhoddwyd y sylwadau a ganlyn:

“Wedi fy atal rhag bod yn ddiqartref a hefyd wedi fy helpu i reoli fy nhenantiaeth”

“Mae Amie wedi fy helpu i symud fy mhethau ac yn fy helpu yn fy llety â chymorth”

“Wedi egluro sut y gallen nhw helpu”

“oedd y tŷ roeddwn yn rhentu ar ôl dianc trais wedi cael ei ‘repossessio’ gan y banc. Felly cefais cefnogaeth Gorwel i ddod o hyd i le preifat ar fyr rhybudd.”

“Am eu bod yn gwneud i mi deimlo fy mod wirioneddol yn cael help a chefnogaeth”

“Yn help mawr”

“Wedi egluro sut oedden nhw’n gallu helpu”

“Cymorth i gael tenantiaeth”

“Dwi mewn tŷ rŵan”

“Doedd dim cymorth cyn-denantiaeth”

Oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch y gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn?

Atebodd 27 o bobl y cwestiwn hwn. Dewisodd 15 o bobl i beidio ag ateb. Mae’r sylwadau isod fel y maent wedi’u hysgrifennu ar yr holiadur a gyflwynwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth.

“na ond dylid rhoi mwy o bres o’r rhent i mewn i’r tŷ”

“i’r gwasanaeth diflannu fel mae Barnardos am wneud yn ystod y mis nesaf, gall hyn fod yn niweidiol i bobl sydd angen y gefnogaeth”

“Mwy o bobl Wallich!”

“Does gen i ddim pryderon am CAIS. Fel arall i ddweud y gwir, mae wedi bod yn brofiad gwych gweithio hefo nhw, ac yn bobl eithriadol o ddibynadwy”

“Dim, ar wahân i sut y byddwn i’n ymdopi hebdo fo”

“dydi’r gofal a gefais i wedyn ddim o’r safon orau”

“Dwi’n meddwl ei fod yn reit dda am ei fod yn gwneud i mi deimlo’n well o wybod bod gen i rywun yno y gallwn droi ato fo.”

“deintydd a chael apwyntiad doctor”

“Dim pryderon o gwbl.”

Ydych chi’n meddwl bod yna unrhyw wasanaethau nad ydynt ar gael ar yr ynys? h.y. gwasanaethau arbenigol, cwnsela, cludiant ac ati

Atebodd 27 o bob y cwestiwn hwn. Dewisodd 15 o bobl i beidio ag ateb. Mae’r sylwadau isod fel y maent wedi’u hysgrifennu ar yr holiadur a gyflwynwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth.

“rhyw fath o gludiant i bobl sy’n dioddef problemau iechyd meddwl allu mynd i apwyntiadau a chyrsgiau. Er enghraifft, fel y gwasanaeth cludiant i’r ysbyty.”

“Cwnsela” “addysg a chael i mewn i waith”

“cludiant i fy helpu i fynd a dod i apwyntiadau a mynd i siopa bob wythnos”

“Pob un ohonyn nhw” “Pob dim, mae budd-dal tai yn anodd i ddelio hefo fo”

“Mwy o gymorth i gael yn ôl i mewn i waith / gyrfaoedd”

“Cwnsela mewn profedigaeth-h.y. Cruse, cefnogaeth Iechyd Meddwl”

“Dwi’n byw mewn ardal wledig gyda 3 o blant, mae angen rhagor o fysiau”

“Cymorth Iechyd Meddwl” “opsiynau eraill ar gyfer gwasanaeth iechyd meddwl”

“Adsefydlu, ffyrdd o gael cymorth cwnsela i helpu pobl i gael cysylltiad efo eu plant”

“Cludiant ac maen nhw’n aml yn hwyr ac yn cymryd amser hir dim ond i fynd i Gaerdybi o Langefni”

“Gwir ddiffyg cymorth cyffredinol, mae angen gweithwyr ar gyfer cleientiaid efo anableddau dysgu”


“gwasanaethau mewn Cymraeg iaith gyntaf”

“Cwmsela ynglŷn â bod yn gaeth i gyffuriau ar gyfer teuluoedd / ffrindiau pobl sy’n gaeth”


“partner sy’n cam-drin / Cymorth Iechyd Meddwl i Deuluoedd (rhestr aros hir iawn)

“llety i bobl dros 25 oed”

Ar ôl i'ch cefnogaeth orffen, ydy'r darparwr wedi cysylltu hefo chi?



- Cwblhaodd 20 o bobl y cwestiwn hwn
- Dewisodd 31 o bobl i beidio â chwblhau'r cwestiwn



Ar ôl i'ch cefnogaeth orffen, ydy'r darparwr wedi cysylltu hefo chi?

O'r 13 o bobl a ymatebodd "Do" i'r cwestiwn hwn, rhoddwyd y sylwadau a ganlyn:

“roeddwn i'n cysylltu ac yn cael galwad yn ôl mwy na lai yn syth.”

“Doeddwn i ddim eisiau rhywun yn checio arna fi”

“Dwi'n defnyddio'r clwb llesiant”

“Dwi'n mynd i'w gweld nhw yn y lle galw heibio yng Nghaergybi”

“Doeddwn i ddim eisiau un”

“Dwi i fod i'w ffonio nhw os dwi angen gwneud”

“Dwi'n dal i fod yn y lloches felly dydi'r cwestiwn yma ddim yn berthnasol i mi, ond mae fy ngweithiwr cefnogi wedi fy nghyfeirio fi'n barod at fy ngweithiwr cefnogi i'r dyfodol yn y dref dwi'n mynd i fyw ynddi ar ôl i mi adael y lloches. O wybod am brofiad y merched eraill a gafodd help gan Gorwel, maen nhw'n cael rhywun yn checio arnyn nhw bob wythnos”

“Dwi wedi cael gwybod y galla i ailgyfeirio fy hun os dwi'n mynd i drafferthion”

“Ddim yn berthnasol hyd yma”



“Dwi ddim wedi symud allan eto. Mi fydd hyn yn digwydd yn yr wythnos nesaf”









“Mae mawr angen amdano fo”




“yn symud allan heddiw”

Ydych chi'n cael y cyfle i roi mewnbwn / neu NEWID unrhyw rai o'r canlynol?


Roedd 40 o bobl wedi cwblhau'r cwestiwn hwn, roedd 2 o bobl wedi dewis peidio ag ateb.








Sut wnaethoch chi gwblhau'r holiadur hwn?



- Roedd 50 o bobl wedi ateb y cwestiwn hwn.
- Dewisodd 2 o bobl Chi eich Hun a Chefnogaeth gan y Darparwr fel eu hateb.
- Dewisodd 1 unigolyn i beidio ag ateb.

Fydddech chi'n argymhell y gwasanaeth hwn?



- Roedd 48 o bobl wedi ateb y cwestiwn hwn.
- Dewisodd 3 i beidio ag ateb.

Dywedwch wrthym yn gryno, yn eich geiriau eich hun os gwelwch yn dda, pam y byddech chi'n argymhell y gwasanaeth hwn neu ddim.

Roedd 31 o bobl wedi ateb y cwestiwn hwn. Dewisodd 11 o bobl i beidio ag ateb. Mae'r sylwadau isod fel y maent wedi'u hysgrifennu ar yr arolwg a gyflwynwyd gan y defnyddwyr gwasanaeth.

"mae pob dim mae'r gwasanaeth yn ei gynnig yn siwtio fy anghenion."

"Dwi'n meddwl fod y byd yn lle gwell gyda'r gefnogaeth ges i. Mi fyddwn yn argymhell y gwasanaeth"

"Mae'r gefnogaeth wedi bod yn rhyfeddol. Hwn oedd y rhwydwaith cefnogi gorau dwi wedi ei gael erioed."

"Am fod Cais yn cymryd amser allan i helpu os ydych chi'n sdryglo."

"Oherwydd weithiau does gennych chi neb i droi atyn nhw a dwi'n teimlo fy mod i'n gallu dweud pethau wrth Amie."

"Maen nhw wedi fy helpu hefo unrhyw beth i'w wneud efo fy nhŷ dros y flwyddyn ddiwethaf, a dwi ddim yn siŵr fyddwn i wedi gallu setlo i lawr cystal heb yr help gan y Swyddog Cefnogi Tenantiaeth."

"Mae pawb angen help o bryd i'w gilydd ac mae'r gwasanaeth yma'n rhoi llwyth o hynny"

"Dwi eisiau argymhell y gwasanaeth yma, yn help mawr."

"Am ei fod yn gweithio."

"Maen nhw'n fy helpu."

"Mi fyddwn i'n argymhell y gwasanaeth yma. Mi wnaeth Hafan Cymru fy helpu i ymdopi a symud ymlaen pan oeddwn mewn llanast ac yn teimlo fod pobl wedi fy ngadael i lawr"

"Mi wnaeth nhw fy helpu i gael fy nhraed oddi tanaf ac wedi fy helpu drwy amser anodd iawn yn ystod fy mrwydr i gael gwarchodaeth."

“Oherwydd dwi'n berson cryf hollol wahanol ers derbyn cefnogaeth Gorwel, ac mi fyswn eisiau i unrhyw un sydd angen y gefnogaeth droi at Gorwel”

“Oherwydd bod y Wallich yn helpu pobl. Mae bod yn gyfeillgar yn ei gwneud yn haws cyfathrebu a bod yn agored”

“mae o'n wasanaeth da i bobl sydd wedi bod yn teimlo eu bod nhw ar eu pennau eu hunain. Mae o wedi helpu fi i fagu hyder”

“Oherwydd eu bod nhw wedi tynnu sylw at bethau doeddwn i ddim yn ymwybodol ohonyn nhw, mi allai hyn helpu pobl eraill”

“Yn mynd i'r afael â bob math o anghenion cefnogaeth a dwi wedi cael cymaint o fudd ohono fo”

“Da iawn, daliwch ati 😊”

“Mi oeddwn i'n sdryglo cyn i mi gael y cymorth a dwi'n teimlo'n well rŵan am mod i'n cael cefnogaeth”

“yn gallu trafod pethau hefo fy ngweithiwr cefnogi – yn methu trafod pethau hefo fy nheulu.”

“Dwi wedi sôn am y gwasanaeth wrth ddau o fy ffrindiau'n barod, am ei fod wedi fy helpu i gyrraedd lle'r ydw i rŵan”

“Mae o'n ddefnyddiol iawn ac mi fyddwn yn argymhell y gwasanaeth yma. Mae gweithwyr cefnogi'n helpu pobl i gychwyn eto, maen nhw'n helpu drwy roi cyngor ac yn codi ymwybyddiaeth a hyder mewn merched sydd wedi colli pob gobaith yn eu bywyd.”

“Mi fyddwn yn argymhell gwasanaeth CAIS i unrhyw un sydd efo problem iechyd meddwl neu ryw anabledd, fel fy hun, gan fod y gweithwyr cefnogi'n tu hwnt o ddeallgar. Maen nhw'n amyneddgar, yn gefnogol, ac yn fwy na dim yn gallu lleddfu'r pethau sy'n boen ac sy'n codi ofn arna fi gyda gofal mawr.”

“Mae'n eich helpu'n gynt na fedrwch chi ar eich pen eich hun.”

“Yn wirioneddol ddefnyddiol ac yn rhoi cymorth da.”

“Dwi ddim yn deall pa mor bwysig ydi talu biliau yn rheolaidd ac mae fy HSO yn fy atgoffa o hyn.”

“Maen nhw wedi fy nghefnogi ac wedi rhoi help i mi gyda fy ôl-ddyledion rhent, fy ôl-ddyledion BT, wedi fy annog i gymryd fy meddyginiaeth ac i gadw'n heini, ailddechrau cerdded / rhedeg unwaith eto. Mi wnaethon nhw drefnu grant i mi gael peiriant golchi, a gwneud cais am daliad cynllun gostyngiad cartref cynnes i mi. Mae hyn i gyd a'r gefnogaeth emosiynol wedi fy helpu i newid fy mywyd yn llwyr.”


“Rhaid i chi fod yn barod i newid a derbyn cymorth, ond pan ydych yn barod, mae Coedlys yn gallu cynnig y cymorth yma.”

“Yn help mawr”



“Fyddwn i ddim wedi cyrraedd lle dwi heddiw (yn barod i symud i mewn i fy nghartref newydd) heb gymorth y staff a theimlo'n hapus yn fy hun eto”


“Yn ei argymhell yn fawr iawn. Mae'r gefnogaeth, y cynllunio a'r dymuniad i gael pobl i fyw bywyd normal yn y gymdeithas heb eu hail.”

Amdanoch Chi – mae'r rhan hon o'r holiadur yn ddewisol ar gyfer Defnyddwyr Gwasanaeth




- Roedd 50 o bobl allan o 50 wedi ateb y Cwestiwn ynghylch Rhyw ac Oedran
- Roedd 48 o bobl allan o 51 wedi ateb y cwestiwn ynghylch Anabledd







Cyfanswm yr ymatebion: 50 allan o 51




Cyfanswm yr ymatebion: 50 allan o 51



Cyfanswm yr ymatebion: 49 allan o 51



Cyfanswm yr ymatebion: 51



CANLYNIADAU YMGYSYLLTIAD DEFNYDDWYR GWASANAETH CEFNOGI POBL YNYS MÔN 2017-2018

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Gwella Gwasanaethau – Sut mae gwasanaethau wedi gwella o ganlyniad uniongyrchol i ymgysylltu/ymgyngori gyda defnyddwyr gwasanaeth?

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Datblygu Gwasanaethau – Y modd y mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o ddatblygu gwasanaethau newydd, e.e. prosesau mapio / tendro.

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth gyda Gwella Gwybodaeth a Mynediad i Wasanaethau – Sut mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu cynnwys yn y broses o ddylunio a datblygu gwybodaeth a mynediad i wasanaethau cefnogi pobl?

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/ Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
CAIS	Roedd y grŵp ymgysylltu gyda defnyddwyr gwasanaeth a sefydlwyd eisoes ar Ynys Môn wedi cael ei ohirio yn y lle cyntaf oherwydd lansio Caniad a hynny er mwyn osgoi unrhyw ddyblygu. Mae Caniad bellach yn gwbl weithredol ac mae defnyddwyr gwasanaeth Ynys Môn yn cael eu cynrychioli arno. Mae'r Darparwr am barhau i	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Datblygu gwasanaeth- au a chodi proffil y gwasanaeth	Hyrwyddo ymgysylltiad gyda defnyddwyr gwasanaeth ar Ynys Môn	Parhaus		

	weithio gyda'r grŵp defnyddwyr gwasanaeth gwreiddiol ar Ynys Môn a oedd yn cynnwys 6 o ddefnyddwyr gwasanaeth a 6 o weithwyr cymorth. Bydd sgôp a phwrpas grŵp Ynys Môn yn wahanol i Caniad a bydd yn canolbwyntio mwy ar y gwasanaethau lleol ym Môn.					
CAIS	Mae defnyddwyr gwasanaeth yn parhau i fod yn rhan o'r broses o recriwtio staff i'r gwasanaeth. Bydd defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o'r panel cyfweld hefyd ar gyfer swydd y Swyddog Cymorth Tenantiaeth sy'n wag ar hyn o bryd.	Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau	Parhaus		
CAIS	Mae grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth CAIS wrthi'n gweithio ar holiadur adborth newydd ar gyfer Cefnogi Pobl. Mae'r Adran Ystadau a'r Rheolwr Cefnogi Pobl Dros Dro yn datblygu "Pecyn	Gwella Gwasanaethau	Defnyddwyr gwasanaeth yn gallu adolygu a gwella dogfennau	Parhaus – Mehefin i Ragfyr 2017	Cwblhawyd	

	<p>Symud i Mewn” yn unol â deddfwriaeth Rhentu Doeth Cymru ar gyfer pobl sy'n symud i mewn i Lety â Chefnogaeth. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno i'r grŵp Defnyddwyr Gwasanaeth gael golwg arno i sicrhau bod yr iaith a ddefnyddir yn ddealladwy, bod popeth sydd ynddo'n berthnasol, ac i ganfod unrhyw ddeunydd nad yw wedi'i gynnwys.</p>					
--	--	--	--	--	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Cartrefi Cymru	Mae'r polisiau a ddarparwyd gan Cartrefi Cymru yn cynnwys tystiolaeth eu bod yn darparu gwahanol gyfleoedd i staff gyfranogi ac maent hefyd wedi cadarnhau bod ganddynt 2 o	Datblygu Gwasanaethau	Defnyddwyr gwasanaeth yn cymryd rhan weithredol mewn meysydd penodol o'r gwasanaethau a ddarperir	Parhaus		

	wirwyr ansawdd ar hyn o bryd.					
Cartrefi Cymru	Mae yna Grŵp Cenedlaethol Cynrychioladol (NRG) ac mae dau o ddefnyddwyr gwasanaeth o Ynys Môn yn eistedd ar y panel. Mae'r naill o Gorwel Las a'r llall o Cae'r Delyn.	Datblygu Gwasanaethau	Ymgysylltiad defnyddwyr gwasanaeth ar lefel genedlaethol, cyfle i fod yn rhan o'r trafodaethau.	Parhaus		
Cartrefi Cymru	Cafwyd trafodaeth am 'Get Together', sef fersiwn wedi'i ail-frandio o'r Grŵp Cynrychioladol Cenedlaethol (NRG). Bwriad y grŵp newydd oedd canolbwyntio mwy ar alluogi defnyddwyr gwasanaeth i drefnu gweithgareddau 'hwyl' y dymument eu gwneud gan fod llawer o ddefnyddwyr	Datblygu Gwasanaethau Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn trefnu gweithgareddau. Yn hyrwyddo camau i gynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Ebrill 2017	Parhaus	

	<p>gwasanaeth yn colli diddordeb os teimlwyd fod gweithgareddau'n rhy ffurfiol. Dywedodd y Darparwr fod y grŵp newydd bellach yn llawer mwy anffurfiol. Cefnogwyd defnyddiwr gwasanaeth o Gorwel Las i drefnu trip i westy Bodygollen Hall am de prynhawn a phantomeim. I ddechrau, cafwyd 2 i 3 defnyddiwr gwasanaeth yn dangos diddordeb mewn mynychu. Fodd bynnag, cafwyd 20 o bobl yn mynychu'r digwyddiad yn y diwedd, a oedd yn cynnwys cyfuniad o ddefnyddwyr gwasanaeth a staff cefnogi. Trefnir prynhawn crefftau yn fuan ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.</p>					
--	--	--	--	--	--	--

Cartrefi Cymru	Mae Cartrefi Cymru yn y broses o ddod yn gwmni gweithredol. Trefnwyd cyfarfod ar gyfer 20fed Ebrill 2017 i drafod aelodaeth o'r cwmni cydweithredol gyda defnyddwyr gwasanaeth a staff. Sefydlir 'Pwyllgor Dathlu Cyflawniadau' fel rhan o'r strwythur newydd hwn i edrych ar gyflawniadau defnyddwyr gwasanaeth ac amryw ddigwyddiadau y gellir eu trefnu ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth. Cadarnhaodd y Darparwr y byddai defnyddwyr gwasanaeth yn rhan o'r grŵp hwn.	Datblygu Gwasanaethau Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Annog defnyddwyr gwasanaeth i chwarae rhan yn y cwmni cydweithredol	Ebrill 2017	Parhaus	
Cartrefi Cymru	Nododd y Darparwr fod Ebrill 2017 yn fis 'cerdded 500 milltir'. Prif destun sylw'r mis fydd hybu defnyddwyr gwasanaeth i fod yn fwy heini. Mae sawl un yn cymryd rhan mewn	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Annog defnyddwyr gwasanaeth i fod yn fwy rhagweithiol o ran eu hymagwedd at iechyd a llesiant	Ebrill 2017	Parhaus	

	<p>gweithgareddau fel rhan o'u cynlluniau cefnogaeth unigol ynghyd â gweithgareddau grŵp. I'r dyfodol, mae'r Darparwr yn bwriadu cael gwahanol thema iechyd a diogelwch ar gyfer bob mis am weddill y flwyddyn a fydd yn cysylltu â'r amryw ddigwyddiadau drwy gydol y flwyddyn.</p> <p>Bu staff a defnyddwyr gwasanaeth yn cyfrannu eitemau o fwyd fel rhan o gymhelliad i helpu eraill. Bydd y defnyddwyr gwasanaeth a'r staff yn mynychu cyfarfod ar 20fed Ebrill 2017 i benderfynu sut i ddsbarthu'r bwyd.</p>	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cynnwys y gymuned ac ymwybyddiaeth o anghenion pobl eraill o fewn y gymuned. Chwarae rhan mewn penderfynu sut y byddai bwyd yn cael ei ddsbarthu	Ebrill 2017	Parhaus	
--	--	--------------------------------------	--	-------------	---------	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
------------------------------------	-----------------------------	-----------------	---	--	---------------	---------------------------

<p>Clwyd Alyn</p>	<p>Mae cyfleoedd cyson ar gael yng Nghlwyd Alun i ddefnyddwyr gwasanaeth wneud cyfraniad, mae'r rhain yn cynnwys, ond heb eu cyfyngu i:-</p> <ul style="list-style-type: none"> • Pwyllgor Gwella Gwasanaeth • Cynhadledd Tenantiaid • Hyfforddiant TG • Cyngor ariannol • Arolygwyr sy'n Denantiaid (<i>a fydd yn gwirio gwaith trwsio</i>) • Grŵp Ymbarél Tai Gwarchod • Arolygon – mae'r Arolwg Star wedi cael ei gwblhau'n ddiweddar <p><i>Lle mae hynny'n briodol, bydd Clwyd Alyn hefyd yn trefnu cludiant fel y gall defnyddwyr gwasanaeth fynychu cyfarfodydd rhanbarthol a fydd efallai yn cael eu cynnal y tu allan i'r ardal.</i></p>	<p>Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth</p>	<p>Cyfleoedd i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn rhan o weithgareddau Clwyd Alyn ei hun, all fod o fudd iddynt fel unigolion</p>	<p>Parhaus</p>		
--------------------------	---	---	--	----------------	--	--

Clwyd Alyn	Cafodd y Grŵp Ymbarél ar gyfer Tai Gwarchod ei sefydlu fel cyfrwng i ddefnyddwyr gwasanaeth ymgeisio am arian grant ac er bod Clwyd Alyn ei hun yn sefydliad elusennol, mae'n rhy fawr i gyflwyno'r ceisiadau hyn ar ran defnyddwyr gwasanaeth.	Datblygu gwasanaethau a chodi proffil y gwasanaeth	Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i ymgeisio am arian grant ar gyfer gwahanol brosiectau	Parhaus		
-------------------	---	---	---	---------	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/ Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Gwasanaeth Cefnogi Cymunedol	Dywedodd y Darparwr bod clwb llesiant yn cael ei gynnal yng Nghaerdybi lle gall defnyddwyr gwasanaeth gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau a chwaraeon. Mae'r staff yn gweithio gyda defnyddwyr gwasanaeth i'w hannog i redeg y clwb eu hunain.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella Gwasanaethau	Defnyddwyr gwasanaeth yn cael eu grymuso i redeg y clwb llesiant	Parhaus		

	O ganlyniad i lwyddiant grŵp Caergybi, mae grŵp newydd wedi'i sefydlu erbyn hyn yn Llangefni.					

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Digartref (Coedlys)	Mae newyddlen ddiweddaraf Coedlys wedi cael ei pharatoi a bydd copïau yn cael eu cylchredeg unwaith y bydd wedi cael ei chyfieithu. Mae'r defnyddwyr gwasanaeth wedi cymryd rhan lawn yn y broses o greu'r newyddlen hon.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella gwybodaeth a mynediad i'r gwasanaeth	Rhoi cyhoeddusrwydd i'r prosiect, rhannu gwybodaeth a chynllunio diwyg y newyddlen Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i benderfynu ar gynnwys y newyddlen, ei diwyg a'r wybodaeth am ddigwyddiadau a'r lluniau y dymument eu rhannu	Parhaus		

<p>Digartref (Llys y Gwynt)</p>	<p>Mae nifer o gyfleoedd o fewn darpariaeth Digartref i'r defnyddwyr gwasanaeth gyfranogi. Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gan gynnwys Clybiau Brechwast a Chinio wythnosol a 4-6 o gyfarfodydd wythnosol i denantiaid.</p>	<p>Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth</p>	<p>Mynychu cyfarfodydd yn rheolaidd, sylweddoli bod rhannu syniadau yn bwysig</p> <p>Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cyfarfod yn rheolaidd drwy'r clybiau brechwast a chinio a gallant gyfrannu at gyfarfodydd tenantiaid</p>	<p>Parhaus</p>		
<p>Digartref (Llys y Gwynt)</p>	<p>Mae gweithgareddau wedi cynnwys clirio'r ardd, mae llawer o waith wedi cael ei wneud a bwriedir gwneud mwy'r gwanwyn nesaf. Gobeithir cael mwy o ddodrefn gardd a chreu gwelyau uchel ar gyfer tyfu llysiau. Ymgynghorir gyda'r defnyddwyr gwasanaeth ynghylch sut y dylai'r hostel edrych a byddant yn chwarae rhan yn y broses o ddewis lliw'r</p>	<p>Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella Gwasanaethau</p>	<p>Gwella'r cyfleusterau yn y prosiect, defnyddwyr gwasanaeth yn cael dewis o ran yr addurniad yn gyffredinol. Garddio – deall pwysigrwydd gweithio gyda'n gilydd er mwyn cwblhau'r gwaith a'r angen am ymrwymiad i dyfu llysiau a chynnal a</p>	<p>Parhaus a Gwanwyn 2017</p>		

	carpedi, lliw'r paent ac yn helpu i ddewis y dodrefn. Bydd unrhyw waith ailaddurno'n cael ei wneud gan bobl broffesiynol. Dylai hyn helpu i wneud Llys y Gwynt deimlo'n fwy cartrefol.		chadw'r ardd lysiau.			
Digartref (Coedlys)	Penderfynwyd mewn cyfarfod preswylwyr y byddai trip gweryslla yn hwyl. Fel grŵp, penderfynwyd ganddynt y byddai Nant Gwynant yn lleoliad gwych. I rai o'r preswylwyr, hwn oedd eu profiad cyntaf o wersylla. Cyn gynted ag yr oedd y pebyll wedi'u codi, fe gafodd tân y gwerysll ei gynnau. Roedd hi'n tresio bwrw drwy'r nos oedd yn golygu bod rhai o'r preswylwyr yn nofio ar eu gwely aer mewn ychydig fodfeddi o ddŵr. Roedd y mwyafrif o'u lleiniau dan ddŵr. Daethant i'r penderfyniad i derfynu	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, hybu gwaith tîm	Gwanwyn 2017		

	eu profiad gwersylla a dychwelyd i sychu eu hunain. Er gwaethaf hyn, roeddynt wedi mwynhau'r trip gwersylla ac yn awyddus i fynd eto.					
Digartref (Coedlys a Llys y Gwynt)	Bydd defnyddwyr gwasanaeth Coedlys, Llys y Gwynt, Y Gilfach a Chefnogaeth ar Wasgar yn dod at ei gilydd yn achlysurol ar gyfer gemau pêl-droed pump bob ochr. Mae preswylwyr o'r prosiectau wedi gofyn am gael cynnal y rhain yn rheolaidd gan ein bod i gyd yn mwynhau'r sesiynau, yn enwedig os ydy ein tîm yn ennill. Cawn y cyfle'n fuan i ddod â thîm at ei gilydd a chael cymryd rhan mewn cystadleuaeth Cwpan gyda thimau eraill ar draws Gogledd Cymru. Cynhelir y twrnamaint hwn ym Mharc Eirias, Bae Colwyn. Rydym yn llawn cynnwrf am hyn	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, hybu gwaith tîm, datblygu sgiliau, hyder a sgiliau cymdeithasol	Gwanwyn 2017 a Pharhaus		

	gan ei fod yn rhoi'r cyfle i'n pobl ifanc ddatblygu eu sgiliau, eu hyder a'u sgiliau cymdeithasol.					
Digartref	Unwaith eto, cynhaliodd Digartref Ddigwyddiad Diwrnod Agored yn ystod y Nadolig, ar 20fed Rhagfyr.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Defnyddwyr gwasanaeth yn chwarae rhan mewn paratoi'r lluniaeth ac yn cymryd rhan ar y diwrnod	20fed Rhagfyr 2017	Cwblhawyd	
Digartref	Penderfynodd nifer o bobl ifanc gymryd rhan yn Hanner Marathon Caerdydd. Cawsant weithio gyda Gareth (Alfie) Thomas, chwaraewr Rygbi Cymru sydd wedi ymddeol. Fel rhan o'r paratoadau, cymerwyd rhan ganddynt yn y "Tough Mudder" ac roedd pawb oedd wedi cofrestru wedi cymryd rhan yn y cwrs hanner marathon. Fe gafodd y broses ei chofnodi yn ffurf rhaglen deledu "Alfie's Army".	Datblygu gwasanaethau a chodi proffil y gwasanaeth Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cafodd yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth fudd o chwarae rhan a arweiniodd at wella perthnasau gyda'r teulu. Ymddygiad cyffredinol yn gwella o ganlyniad i'r ymrwymiad ac mae nifer o'r defnyddwyr gwasanaeth wedi cofrestru i redeg clybiau Mae Gareth Thomas bellach	1af Hydref 2017	Cwblhawyd	

			yn aelod anrhydeddus o Fwrdd Digartref			

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/ Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Gorwel (Cam-drin Domestig)	Fe gafodd defnyddiwr gwasanaeth oedd wedi cymryd rhan ym mhroses Gwerthuso Tendr CP ei enwebu hefyd ar gyfer Gwobr Hybu Annibyniaeth Cymorth Cymru. Mynychodd y Seremoni Wobrwyo ym mis Rhagfyr 2017 a derbyniodd y wobr.	Gwella Gwasanaeth au Datblygu gwasanaeth au a chodi proffil y gwasanaeth	Cyfle i'r defnyddiwr gwasanaeth chwarae rhan mewn datblygu gwasanaethau Cefnogi Pobl. Codi proffil CP, derbyn gwobr mewn digwyddiad Cenedlaethol. Darparu adborth a chipolwg yn ystod gwerthusiad Tendr CP. Mwy o gyhoeddusrwyd	Tachwedd / Rhagfyr 2017	Cwblhawyd	

			d ar gyfer y Rhaglen CP			
Gorwel (Gwasanaethau Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig)	Roedd defnyddwyr gwasanaeth o'r gwasanaethau Pobl Hŷn a Cham-drin Domestig wedi mynychu ymgyrch Gadewch i Ni Barhau i Gefnogi Pobl yng Nghaerdydd.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Codi ymwybyddiaeth o Raglen Cefnogi Pobl	Hydref 2017	Cwblhawyd	

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Gwasanaeth Cefnogi Tai	Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o'r Adolygiad Gwasanaeth a gynhaliwyd gan dîm CP. Rhoddwyd adborth ar-lein a dewiswyd defnyddwyr gwasanaeth i gael cyfweiliad wyneb-wyneb.	Ymgynghori gyda defnyddwyr gwasanaeth Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Cynnwys adborth a barnau defnyddwyr gwasanaeth yn y ddogfen adolygu gwasanaethau Rhoi cyfle i ddefnyddwyr	Hydref 2017	Cwblhawyd	

			gwasanaeth ddylanwadu ar y gwasanaethau			
--	--	--	---	--	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
Hafan Cymru	Roedd cynhadledd Defnyddwyr Gwasanaeth Hafan Cymru yn edrych ar gefnogaeth, gofal, llawlyfr, cynhwysiant digidol ac roedd sesiynau 'pampro' a bingo ar gael.	Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth wneud newidiadau i feysydd gwasanaeth Defnyddwyr gwasanaeth yn cael cyfle i chwarae rhan	Haf 2017		

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
------------------------------------	-----------------------------	-----------------	---	--	---------------	---------------------------

Môn Care (Anabledd- au Dysgu)	Cyfarfodydd tŷ rheolaidd â thenantiaid yn cael eu cynnal o fewn y cynlluniau.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cyfle i drafod a chofnodi unrhyw faterion sy'n codi	Parhaus		
--	---	--------------------------------------	---	---------	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
The Wallich	Ymgynghorwyd â defnyddwyr gwasanaeth ynghylch pa weithgareddau / diwrnod allan yr oeddynt eu heisiau. Trip diwrnod i Sŵ Gaer ar 26ain Medi.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth mewn gwneud penderfyniadau a rhoi'r cyfle iddynt ddewis y gweithgaredd a ffefrir ganddynt	Medi 2017	Cwblhawyd	
The Wallich	Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael yr arolwg rhagolygon.	Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth leisio eu barnau		Parhaus	
The Wallich	Mae defnyddwyr gwasanaeth yn cael yr arolwg Eich Gwasanaeth Eich Barn.	Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau wrth dderbyn cefnogaeth		Parhaus	

The Wallich	Anogir defnyddwyr gwasanaeth i ddod i gyfarfod yr AC ac i drafod eu cefnogaeth.	Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau	Cyfle i drafod y gefnogaeth gydag aelod etholedig Cynulliad Cymru	Hydref 2017	Cwblhawyd	
The Wallich	Cefnogir defnyddwyr gwasanaeth i wirfoddoli.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Annog defnyddwyr gwasanaeth i chwarae rhan mewn gwirfoddoli		Parhaus	
The Wallich	Trefnwyd Cinio Nadolig ar gyfer Rhagfyr 19eg ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Rhoi cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth chwarae rhan yn y Cinio Nadolig Llwyddodd y darparwr i gael arian gan Asda i dalu cost y Cinio Nadolig. Yn ystod y cinio, daeth Asda i gyflwyno sic am £10,000.00 i'r Wallich ar ran Sefydliad Asda		Rhagfyr 2017	
The Wallich	Gofynnwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth a oeddynt	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Defnyddwyr gwasanaeth yn cael y cyfle i			

	eisiau cymryd rhan yng ngweithgareddau'r cerbyd llesiant yn Sioe Môn		goddi proffil y rhaglen CP ar Ynys Môn			
--	--	--	--	--	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i'r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
<i>Tyddyn Môn</i>	Roedd defnyddiwr gwasanaeth yn rhan o gyfweiliad am swydd wag a'r broses cyfarfod a chyfarch a mwynhaodd y profiad.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Datblygu Gwasanaeth au	Chwarae rhan yn y broses o gyfweild staff	Parhaus		
<i>Tyddyn Môn</i>	Mae'r Grŵp Tasg a Gorffen, a oedd wedi bod yn datblygu Ffurflen atgyfeirio ac Asesiad Cychwynnol, bellach wedi cwblhau'r prosiect. Mae'r ddogfen 'Egluro Fy Nhenantiaeth' wedi ei gweithredu hefyd. Mae Grŵp Cynefin wedi cynghori y byddent yn hoffi gweithio gyda Tyddyn Môn er mwyn datblygu dogfen cytundeb tenantiaeth hawdd ei defnyddio.	Datblygu Gwasanaeth au	Galluogi defnyddwyr gwasanaeth i fod yn rhan o'r prosesau yn Nhyddyn Môn ac i greu newid	Parhaus		

Tyddyn Môn	Dywedodd y Darparwr fod un defnyddiwr gwasanaeth wedi codi £150.00 mewn arian tuag at y Ganolfan Hamdden ym Miwmares drwy gynnal raffl ar gyfer Hamper Pasg. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi prynu'r holl eitemau i greu'r hamper ac wedi creu bwrdd stori fel rhan o'r wob. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth yn eithriadol o falch o'r hyn a gyflawnodd i helpu ei chanolfan hamdden leol.	Datblygu gwasanaeth au a chodi proffil y gwasanaeth Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth	Rhoi cyhoeddus-rwydd i'r gwasanaeth. Cynnwys y gymuned. Bodlonrwydd defnyddwyr gwasanaeth.			
Tyddyn Môn	Cystadleuaeth 'The Great Tyddyn Môn Cook Off' Bu defnyddwyr gwasanaeth o Tyddyn Môn yn cystadlu mewn cystadleuaeth goginio yn fferm Tyddyn Môn ym Mawrth 2017. Roedd y gystadleuaeth, a ariannwyd gan grant ICF i hybu annibyniaeth, wedi galluogi tri thîm i arddangos eu sgiliau coginio a chynllunio i fferm orlawn o ymwelwyr.	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Datblygu Gwasanaeth au	Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth, gwaith tîm a blaengynllunio Cystadleuaeth lwyddiannus gyda bwyd wedi'i baratoi i safon uchel o gynhwysion a gafwyd yn lleol	Mawrth 2017		

	<p>Roedd tri thîm wedi cymryd rhan yn y gystadleuaeth, un o Borthaethwy, Caergybi ac un arall o fferm Tyddyn Môn. Yn yr wythnosau oedd yn arwain at y gystadleuaeth, aeth y defnyddwyr gwasanaeth ati i ymchwilio i gyflenwyr bwyd lleol, llunio'r bwydlenni, ymarfer prydau a'u hamseriadau a pharatowyd byrddau stori am y gwaith ar ymchwil a wnaed ganddynt. Roedd un o'r timau wedi ymweld â chwmni lleol oedd yn sychu cig mewn mwg fel rhan o'r gystadleuaeth, roedd un arall wedi cynaeafu garlleg gwyllt ar gyfer eu pryd cig oen o'r caeau lleol ar fore'r gystadleuaeth, ac roedd tîm arall wedi gwneud ffedogau pwrpasol o orchuddion 'dwfe' wedi'u hailgylchu.</p> <p>Bu rhaid i'r timau baratoi dau gwrs ar gyfer pryd dathlu arbennig gan gael cynhwysion lleol a defnyddio cyflenwyr lleol. Roedd y tîm beirniadu oedd yn cynnwys Rhun ap Iorwerth (AC) Barbara Williams (Gwasanaethau</p>					
--	--	--	--	--	--	--

	<p>Oedolion Ynys Môn), Amanda Lynch (perchennog gwesty'r Woburn Hotel ym Môn) a Bethan Jones (Medrwn Môn) wedi profi'r cynigion oedd yn cynnwys afocado gydag wŷ, tiramisu, cig oen lleol, cig wedi'i sychu mewn mwg o gwmni lleol a Phaëla, ac yna fe gawsant y dasg anodd o ddewis enillydd. Ar ôl ystyried popeth, dyfarnwyd y wobr gyntaf i dîm Caergybi gyda'r fwydlen a ganlyn: Prif Gwrs – "Butterflied leg of welsh lamb with Balsamic vinegar and Elenfa Bay Leaves". Prydau Ychwanegol – "Courgette and onion with wild garlic and pecorino. Sauteed gnocchi with rosemary". Pwddin – "Tiramasini made with welsh brew coffee followed by coffee and biscotti". Longyfarchiadau mawr i dîm Elenfa Caergybi (Aaron, Jamie, Jonathan, Mary a gefnogwyd gan Sue ac Elaine). Dyweddodd Prif Swyddog Gweithredol Tyddyn Môn,</p>					
--	---	--	--	--	--	--

	<p>Michelle Freeman, “Rydym wrth ein boddau’n gallu arddangos sgiliau ein defnyddwyr gwasanaeth i’r gwesteion a’r ymwelwyr yn y digwyddiad hwn. Roeddwn yn llawn edmygedd o ran ansawdd y bwyd a baratowyd yn ystod y gystadleuaeth, ynghyd â’r ymchwil a wnaed i’r cyflenwyr bwyd lleol yn y cyfnod a oedd yn arwain at y gystadleuaeth. Roedd yr ysbryd tîm ar y diwrnod yn ffantastig ac roedd bob tîm yn drefnus iawn ac wedi paratoi’n dda. Rwy’n ddiolchgar i fwrdd grant yr ICF am yr arian i redeg y gystadleuaeth. Roedd mor llwyddiannus ac rwy’n sicr y byddwn yn edrych i’w gynnal eto yn 2018, ac mae’n sicr bod cryn frwdfrydedd ymhlith ein defnyddwyr gwasanaeth i’w wneud yn ddigwyddiad blynyddol.”</p>					
--	---	--	--	--	--	--

Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth	Ffynhonnell yr Ymgysylltiad	Maes Ymgysylltu	Camau Gweithredu / Effaith o ganlyniad i’r Ymgysylltiad	Dyddiad(au) Gweithredu/Rhannu Gwybodaeth	Canlyniad(au)	Canlyniad(au) Dyddiad(au)
------------------------------------	-----------------------------	-----------------	---	--	---------------	---------------------------

<p>Cefnogi Pobl - Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth - Eich Gwasanaeth, Eich Barn</p>	<p>Datblygiad yr arolwg ar-lein Eich Gwasanaeth, Eich Barn er mwyn galluogi defnyddwyr gwasanaeth i roi gwybodaeth, gan gynnwys lle roeddent o'r farn o bosibl bod bwloch yn y gwasanaeth a bydd angen i'r tîm CP edrych ar gau'r bwloch.</p>	<p>Gwella Gwasanaethau Datblygu Gwasanaethau</p>	<p>Parhaus. Adnodd gwerthfawr sy'n rhoi'r cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth ddarparu adborth yn ddiennw, ynghyd â lleisio pryderon, rhoi tystiolaeth o effaith y gefnogaeth ar eu llesiant ac amlygu unrhyw fylchau ymddangosiadol yn y gwasanaeth. Yn ogystal, cynhyrchir llawer o wybodaeth ddefnyddiol a allai fod o werth i'r Tîm Cefnogi Pobl yn nhermau comisiynu i'r dyfodol</p>	<p>Adroddiad chwe-misol wedi'i baratoi a'i rannu gyda darparwyr a gwybodaeth wedi'i gynnwys yn Newyddlen CP Hydref / Gaeaf 2017</p>		
<p>Ymgysylltiad Defnyddwyr ar Banel Gwerthuso Tendrau</p>	<p>Mae defnyddiwr gwasanaeth wedi cytuno yn garedig iawn i gymryd rhan mewn Gwerthusiad</p>	<p>Datblygu Gwasanaethau</p>	<p>Darparu safbwynt gwahanol ar gyfer gwerthuso'r</p>	<p>27ain a'r 28ain Tachwedd 2017</p>	<p>Cwblhawyd. Roedd y defnyddiwr gwasanaeth wedi ymgysylltu'n llawn</p>	<p>Bydd gwasanaethau newydd yn weithredol o 01.04.2018</p>

	Tendr ar gyfer dau Wasanaeth Cefnogaeth sy'n Ymwneud â Thai ar gyfer Pobl Ifanc (16-24) ac ar gyfer Pobl sy'n Ddigartref neu'n Cysgu Allan, Ymagwedd Tai yn Gyntaf.		ymatebion a gafwyd. Sicrhau bod y gwerthusiad yn gytbwys; gyda mewnbwn o nifer o wahanol safbwyntiau.		â'r broses ac wedi sicrhau ei bod yn deall y gofynion cyn y gwerthusiad. Roedd wedi darllen yr holl ddogfennaeth cyn y gwerthusiad, ac roedd yn hyderus, yn ddiuedd ac yn deg yn ei phenderfyniadau. Darparodd adborth eithriadol o ddefnyddio' o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth.	
<i>Adborth yn dilyn adolygiadau CP</i>	Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaeth drwy Holiaduron fel rhan o Adolygiad Gwasanaeth Digartref.	Gwella Gwasanaethau	Holiaduron defnyddwyr gwasanaeth i gael eu llenwi. Derbyniwyd adborth drwy holiaduron Defnyddwyr Gwasanaeth a chyfweiliadau â Defnyddwyr Gwasanaeth a gynhaliwyd yng	Gwanwyn 2017	Cwblhawyd	

			Nghoedlys a Digartref yng Nghaergybi.			
<i>Adborth yn dilyn adolygiadau CP</i>	Ymgysylltu a Defnyddwyr Gwasaneth drwy Holiaduron fel rhan o'r Adolygiad Gwasanaeth Cefnogaeth Tai.	Gwella Gwasanaethau	Holiaduron defnyddwyr gwasanaeth i gael eu llenwi. Derbyniwyd adborth drwy holiaduron Defnyddwyr Gwasanaeth a chyfweiliadau â Defnyddwyr Gwasanaeth yng Nghaergybi.	Hydref 2017	Cwblhawyd	
<i>Cyfweiliadau defnyddwyr gwasanaeth yn ystod Cyfarfodydd Monitro</i>	Cynhwyswyd cyfweiliadau â defnyddwyr gwasanaeth fel rhan o Gyfarfodydd Monitro yn ystod Gwanwyn 2017.	Gwella Gwasanaethau	Darparu adborth ar y gwasanaethau sy'n cael eu derbyn a galluogi'r defnyddwyr gwasanaeth i wneud sylwadau agored ac awgrymiadau ar yr hyn sydd ar goll neu pa newidiadau y gellid eu gwneud.	Ebrill i Fehefin 2017	Cwblhawyd. Rhoddodd y cyfle i ddefnyddwyr gwasanaeth fod yn rhydd i drafod y gwasanaeth a dderbynnir ganddynt ac i awgrymu unrhyw beth y gellid ei newid neu wella.	

			Mae adborth a dderbyniwyd o'r cyfweiliadau gyda defnyddwyr gwasanaeth wedi cael ei gynnwys yn yr Adroddiadau Monitro ar gyfer y gwasanaethau unigol.			
<i>Eich Gwasanaeth Eich Barn</i>	Dadansoddiad o'r arolygon ar-lein a gwblhawyd ar gyfer 6 mis cyntaf y cyfnod 2017-2018.	Datblygu Gwasanaethau	Paratowyd cyflwyniad Power Point yn rhoi manylion y wybodaeth a goladwyd o'r holiaduron a gwblhawyd. Rhennir hwn gyda'r darparwyr yn ystod y cyfarfod y Grŵp Darparwyr Cefnogaeth ar Wasgar sydd i ddod. Ymgorfforir adborth o'r adroddiadau hyn i mewn i Gynllun Comisiynu CP.		Cwblhawyd	

<p>Annog Cynnwys Defnyddwyr Gwasanaeth</p>	<p>Bydd y swyddogion Adolygu Gwasanaeth a Datblygiadau yn mynychu amryw grwpiau defnyddwyr gwasanaeth i edrych ar ddulliau o ymgysylltu a defnyddwyr gwasanaeth a'u cynnwys mewn gwahanol ffyrdd yn y Rhaglen CP ym Môn.</p>	<p>Cynnwys defnyddwyr gwasanaeth Datblygu Gwasanaethau</p>	<p>Trefnir cyfarfodydd yn ystod Gwanwyn 2018</p>		<p>Parhaus</p>	
---	--	---	--	--	----------------	--

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26ain o Fawrth 2018
Pwnc:	Cynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai 2018-2048
Aelod(au) Portffolio:	Alun Mummery
Pennaeth Gwasanaeth:	Ned Michael
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Ned Michael 01248 752289
Aelodau Lleol:	

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau
<p>Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo:-</p> <p>A1. Cynllun Busnes 2018-2048 ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT), ac yn arbennig cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer 2018-2019 fel y nodir yn y Cynllun, i'w cyflwyno i Lywodraeth Cymru;</p> <p>A2. Y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar gyfer Tai am 2018-2019 fel y nodir yn Atodiad 3.</p> <p>A3. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Pennaeth Gwasanaeth Tai a'r Pennaeth Swyddogaeth – Adnoddau a'r Swyddog Adran 151, i wneud unrhyw newidiadau i'r Cynllun Busnes, cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p> <p>Rhesymau</p> <p>1.0 Cefndir</p> <p>1.1 Mae'r Adroddiad a'r Cynllun Busnes hwn wedi cael ei baratoi mewn ymgynghoriad gyda Swyddogion o'r Gwasanaeth Cyllid. Cynllun Busnes yw'r prif gyfrwng ar gyfer cynllunio ariannol mewn perthynas â chyflawni a rheoli stoc dai'r Cyngor. Yn arbennig, mae'r Cynllun Busnes yn nodi:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - sut bydd y Cyngor yn dod â'r cyfan o'i stoc i fyny i Safonau Ansawdd Tai Cymru – mae rhai eiddo'n parhau i gael eu categorio fel 'methiannau derbyniol'; - y modd y mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal safonau SATC a rhagori arnynt a - y buddsoddiad sydd ei angen er mwyn cynyddu'r stoc tai Cyngor. <p>1.2 Mae'r Cyngor, drwy'r CRT, yn berchen ar, ac yn rheoli 3,805 o eiddo ac ychydig dros 700 o garejys, ar hyd a lled yr Ynys.</p>

1.3 Mae'r Cynllun Busnes CRT (Atodiad 1) yn cyfrannu at y themâu sylfaenol yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor. Mae'n cyfrannu yn bennaf at y themâu sy'n ymwneud â Thrawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn, Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi ac Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi.

1.4 Fel rhan o'r Cytundeb Gwirfoddol a lofnododd Awdurdodau Lleol gyda Llywodraeth Cymru, trafodwyd a chytunwyd ar hyblygrwydd i fenthycu hyd at £13.482m fel yr oedd ym mis Mehefin 2015. Bydd hyn yn caniatáu ar gyfer adeiladu tai Cyngor o'r newydd a chynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru.

Rhagwelwn y byddwn wedi defnyddio'n gallu benthyca'n llawn erbyn 2023/24.

1.5 Mae'r CRT yn parhau i gael ei glustnodi'n benodol ar gyfer swyddogaethau Landlord y Cyngor sy'n gysylltiedig â'r stoc dai Cyngor. Mae hyn yn golygu na chaiff y Cyngor roi cymhorthdal i dai Cyngor o'r gronfa gyffredinol.

2.0 Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC)

2.1 Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gwrdd â SATC ers 2012, yr ail Awdurdod yng Nghymru i gyflawni'r safon ar y pryd.

Dywed Safon Ansawdd Tai Cymru y dylai bob aelwyd gael y cyfle i fyw mewn tai o ansawdd da sydd:

- Mewn cyflwr da.
- Yn ddiogel.
- Wedi eu gwresogi'n ddigonol, yn effeithlon o ran defnyddio tanwydd ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Yn cynnwys ceginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Wedi eu rheoli'n dda.
- Wedi eu lleoli mewn amgylchedd deniadol a diogel.
- Yn cwrdd â gofynion penodol yr aelwyd i'r graddau y mae hynny'n bosib (e.e. gofynion pobl ag anableddau penodol).

3.0 Rhaglen Gyfalaf 2018-2019

3.1 Mae Rhaglen Gyfalaf o £13.188m wedi ei gynnwys o fewn y Cynllun Busnes, mae hyn yn cynnwys £7m ar gyfer gwaith mewnol / allanol, gwaith risg tân, asbestos, addasiadau i'r anabl a gwaith effeithlonrwydd ynni. Mae'r gyllideb hefyd yn caniatáu ar gyfer sicrhau cydymffurfiaeth â SATC yn llawn drwy dargedu methiannau derbyniol, gwaith amgylcheddol ac ati. Gweler Atodiad 3 am fwy o fanylion.

3.2 Mae darpariaeth o £3.869m wedi ei gynnwys yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw.

3.3 Yn ogystal mae £6.188m yng nghyllideb 2018-2019 ar gyfer rhaglen ddatblygu tai cyngor

newydd ac i brynu cyn tai cyngor ar yr Ynys. Mae'r Cynllun Busnes yn rhagdybio y bydd 45 o unedau'n cael eu datblygu yn 2018-2019, 60 o unedau yn 2019-2020, 60 o unedau yn 2020-2021, 100 uned y flwyddyn o 2021-2022 sydd yn cynnwys 40 o unedau Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol.

4.0 Model Ariannol a Rhagdybiaethau

4.1 Rhaid cefnogi'r Cynllun Busnes ar gyfer y CRT gyda model ariannol 30 blynedd ac Ymhelaethir ar y model ym mhennod 7 o'r Cynllun Busnes.

Cyflwynir dadansoddiad sensitifrwydd gyda'r Cynllun Busnes ac mae'n dangos pa mor gadarn yw'r cynllun. Mae'r rhain yn seiliedig ar ragdybiaethau a pharmedrau allweddol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, ac maent yn darogan pa adnoddau fydd ar gael a pha adnoddau sydd ei angen i barhau i gwrdd â SATC ac i adeiladau tai cyngor newydd, gan anelu at roi sicrwydd ynghylch cynaliadwyedd tymor hir y Cyfrif Refeniw Tai.

Cyflwynodd Llywodraeth Cymru'r Polisi Rhent Tai Cymdeithasol yn Ebrill 2015 ar gyfer awdurdodau lleol a bydd yn weithredol am gyfnod o 5 mlynedd. Mae'r polisi'n anelu at sicrhau cydgyfeiriant rhent rhwng y Cyngor a Chymdeithasau Tai dros gyfnod o amser. Rhagdybir y byddwn fel Cyngor yn cyrraedd lefelau rhent cydgyfeiriant gyda'r Cymdeithasau Tai erbyn 2023-2024.

4.2 Mae incwm rhenti a'r polisi ar gyfer gosod rhenti lleol yn ffactor sylweddol o ran hyfywedd y Cynllun Busnes yn y dyfodol. Mae polisi rhent tai cymdeithasol Cymru wedi ei ddatganoli gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig sydd ar hyn o bryd yn cael ei gynyddu'n flynyddol yn seiliedig ar CPI cyhoeddwyd ar gyfer Medi pob blwyddyn ynghyd a 1.5% a hyd at £2 yr wythnos tuag at gyrraedd cydgyfeiriant rhent. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi ei roddi ar landlordiaid cymdeithasol yn Lloegr i ostwng rhenti tai cymdeithasol 1% ar gyfer pob un o'r pedair blynedd nesaf.

Dyma yw un o'r prif risgiau i'r Cynllun Busnes ar gyfer y blynyddoedd i ddod.

4.3 Risg i hyfywedd y Cynllun Busnes yw ymestyn Credyd Cynhwysol a fydd yn cychwyn yn Ynys Môn ym Mehefin 2018. Yn y Cynllun Busnes, nodir y camau gweithredu yr ydym yn bwriadu eu cymryd gyda sefydliadau partner i gefnogi Tenantiaid er mwyn lliniaru'r effaith o ran yr incwm a gasglir.

4.4 Rhoddwyd prawf ar gadernid y cynllun busnes i roi ystyriaeth y risgiau yn unigol a gyda'i gilydd a bod y cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw dros y cyfnod o 30 blynedd.

4.5 Yn dilyn ymadael o'r system CRT, mae'r Cyngor bellach yn cadw'r holl incwm a gaiff o renti yn y CRT ac yn ei ddefnyddio i gwrdd â gwariant, dyledion gwasanaeth ac i fuddsoddi mewn gwasanaethau a thai ychwanegol.

Mae'r gyllideb gyfalaf a referniw ar gyfer y 5 mlynedd nesaf wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad hwn yn Atodiad 2.

4.6 Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu manylion am y cynnydd lefelau rhent am 2018-2019, sef cyfanswm chwyddiant o 4.5% ynghyd a hyd at £2 yr wythnos i eiddo sydd gyda rhent is na'r rhent targed. Bu i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo'r cynnydd hwn i renti 2018/19 yn ystod cyfarfod y 19eg o Chwefror. Mae'r cynnydd hyn wedi ei gynnwys o fewn cyllideb incwm rhent 2018/19.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Cynllun Busnes yn cael ei gymeradwyo gan yr UDA.
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Mae'r Swyddog Adran 151 wedi ei fodlonni bod y rhagdybiaethau yn y cynllun busnes yn rhesymol ac yn cydymffurfio gyda chanllawiau LIC a bod y cynllun busnes yn hyfyw ac yn adlewyrchu'r sefyllfa ariannol gyfredol sy'n wynebu'r CRT.
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	

Tud 4 o 2

7	Sgriwtini	
8	Aelodau Lleol	
9	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	Mae'r holl aelwydydd sy'n byw mewn Tai Cyngor yn cael budd o SATC, y rhaglen gyfalaf a chymorth i baratoi ar gyfer newidiadau diwygio lles.
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F - Atodiadau:
Atodiad 1 – Cynllun Busnes y CRT 2018-2048 Atodiad 2 – Cyllideb Gyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd 2018 - 2023 Atodiad 3 – Rhaglen Gyfalaf 2018-2019

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
Adroddiad ar yr Arolwg o Gyflwr y Stoc, 2017



CYNLLUN BUSNES Y CYFRIF REFENIW TAI 2018 - 2048



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Tudalen 288



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

	Cynnwys	Rhif Tud
1.0	Cyflwyniad	3
2.0	Amcanion y Cynllun Busnes	7
3.0	Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes	11
4.0	Rheoli Asedau	19
5.0	Monitro a Gwerthuso	27
6.0	Rheoli Risg	31
7.0	Y Cynllun Ariannol ar gyfer y CRT	34
8.0	Y Cynllun Gweithredu ar gyfer y CRT - targedau gweithredol 2018/201	36

Atodiadau

Atodiad 1

Dadansoddiad Sensitifrwydd

Atodiad 2

Model ariannol 30 mlynedd

Atodiad 3

Datganiad Amgylcheddol

1.0 Cyflwyniad

Nod y Cynllun Busnes ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai, a elwir yn CRT drwy'r ddogfen hon, yw cynllunio ymlaen i sicrhau bod yna gynllun ariannol ymarferol ar gyfer ein stoc o dai Cyngor, sef 3805 o unedau (fel ar ddiwedd mis Rhagfyr 2017).

Yn gyntaf ac yn bennaf, mae'r Cynllun Busnes yn nodi'n glir ein cyfeiriad a'n blaenoriaethau am y 5 mlynedd nesaf, ond gan gadw mewn cof effeithiau ein penderfyniadau tymor byr yn y tymor canol a'r tymor hir. Ein nod yn ystod y 5 mlynedd nesaf yw parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'n tenantiaid, gan sicrhau ei fod yn gost effeithiol ac yn gwella'n barhaus, a hynny drwy weithio'n agosach gyda'n tenantiaid, ein cymunedau a'n partneriaid datblygu.

Mae'r CRT yn ariannu'r holl waith y mae'r Cyngor yn ei wneud fel landlord y stoc dai. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gwaith cynnal a chadw, gwaith cyfalaf a gwelliannau amgylcheddol, uchafu incwm rhent, rheoli stadau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, sicrhau bod tenantiaid yn cael cymaint o gyfleoedd â phosib i ddylanwadu ar ein blaenoriaethau, ynghyd ag ychwanegu at ein stoc dai er mwyn cyfrannu tuag at gwrdd â'r angen am dai cymdeithasol ar yr Ynys.

Bydd y Cyngor yn parhau i gynnal CRT statudol, neilltuedig, gan gyfrifo am incwm a gwariant ar dai Cyngor ar wahân i incwm a gwariant sy'n gysylltiedig â Chronfa'r Cyngor.

Mae'r Cynllun Busnes yn cadarnhau ymrwymiad y Cyngor i

- gynnal Safonau Ansawdd Tai Cymru (SATC) a mynd i'r afael â 'methiannau derbyniol',
- mynd i'r afael â meysydd lle mae angen gwella perfformiad a chanlyniadau, gan sicrhau gwelliannau pellach yn y gwasanaeth ar gyfer ein tenantiaid,
- darparu gwasanaethau ar gyfer ein tenantiaid sy'n cynnig gwerth am arian, a hynny mewn cyfnod o ostyngiadau cynyddol mewn gwariant cyhoeddus,
- cynyddu atebolrwydd trwy ymgysylltu mwy gyda staff, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Aelodau Etholedig a rhanddeiliaid allweddol,
- sicrhau bod darpariaeth ddigonol i liniaru rhai o effeithiau posib y drefn Diwygio Lles ar y cymunedau lleol, drwy eu galluogi i helpu eu hunain yn hytrach na chreu diwylliant o ddibyniaeth, a
- cyflawni ein rhaglen ddatblygu ar gyfer adeiladu tai Cyngor newydd.

Mae'n cydymffurfio â gofynion Cynllunio Busnes Llywodraeth Cymru ar gyfer y gyfundrefn hunan ariannu ynghylch Cyfrif Refeniw Tai Awdurdodau Lleol a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2016.

Trwy ddarllen y Cynllun cewch sicrwydd bod y Cyfrif Refeniw Tai yn cael ei reoli'n effeithiol ac yn effeithlon.

Gweledigaeth y Gwasanaeth

Ein Gweledigaeth yw:

Cartrefi o ansawdd: cymunedau cynaliadwy

ac mae'n seiliedig ar ein gwerthoedd fel gwasanaeth sy'n rhan annatod o'n gwaith ac sy'n gyrru'r ddarpariaeth gwasanaeth, fel ein bod yn :

- ♣ canolbwyntio ar gwsmeriaid ac yn atebol
- ♣ cynnig gwerth am arian
- ♣ ymrwymo i weithio mewn partneriaeth
- ♣ arloesol yn ein dull o weithio

Ein Blaenoriaethau Bydd:

- Adfywio stadau;
- Adeiladu o'r newydd, gan gynyddu'r ddarpariaeth o dai fforddiadwy;
- Llety ar gyfer grwpiau penodol, er enghraifft pobl hŷn, pobl â phroblemau iechyd meddwl;
- Mynd i'r afael â'r rhaglen effeithlonrwydd ynni / tlodi tanwydd.

Ymgynghorwyd ar y blaenoriaethau hyn gyda'n tenantiaid a'r Aelodau Etholedig.

Cyflwynwyd y Cynllun i Bwyllgor Gwaith y Cyngor, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Bwrdd Gwasanaethau Tai. Mae Swyddog 151 y Cyngor wedi bod yn rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun.

Nod y Cynllun yw rhoi hyder i gyllidwyr, tenantiaid ac Aelodau Etholedig bod adnoddau a gwasanaethau'r CRT yn cael eu rheoli'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y cynllun hwn ar gael gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7TW. E-bost Tai@ynysmon.gov.uk

Cynllunio ar gyfer y dyfodol

Mae Tai yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor o safbwynt "Siapio Lle" a chynyddu'r cyflenwad o dai o ansawdd. Sefydlwyd Bwrdd Gwasanaethau Tai ac arno gynrychiolwyr o'r lefel uchaf o blith yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth ac Aelodau.

Byddwn yn ymgynghori'n briodol gyda Gwasanaethau eraill ac adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai a'r Grŵp Tir ac Asedau mewn perthynas â unrhyw gyfleon datblygu tai cyngor newydd. Byddwn yn dewis safleoedd datblygu tai cyngor newydd mewn cydweithrediad ar Grŵp Tir ac Asedau fel rhan allweddol o gyflawni ein Strategaeth Cynllunio Lle.

Yn sicr, mae mwy o bwyslais ar Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2015, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, gwaith ataliol a chanlyniadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac sy'n hyrwyddo annibyniaeth i'r cwsmer. Dros amser, bydd y cysylltiadau rhwng y tair Deddf yn dod yn gliriach trwy gynllunio gwasanaethau ar y cyd. Un peth sy'n sicr yw bod materion Tai yn hollbwysig o ran cyflawni canlyniadau'r tair Deddf.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi targed uchelgeisiol o ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy yn ystod ei thymor nesaf. Mae gan y Cyngor rôl hanfodol i'w chwarae wrth gyfrannu tuag at y targed hwn. Amlygir hyn yn y cytundeb y mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol wedi ymrwymo iddo fel ffordd o sicrhau bod modd cyrraedd y targed hwn.

Yr Economi

Yn unigryw i Ynys Môn, mae cynlluniau'n cael eu gwneud ar gyfer cynllun economaidd mwyaf y DU, sef adeiladu gorsaf niwclear Wylfa Newydd. Efallai y bydd hyd at 8,000 o gontractwyr yn cael eu cyflogi (aros am gadarnhad gan Pŵer Niwclear Horizon) a bydd yn rhaid i ni sicrhau ein bod yn cynllunio'n ofalus drwy ddefnyddio'r adnoddau ariannol sydd ar gael i ychwanegu at stoc dai'r Cyngor a gweithio gydag eraill i liniaru'r effeithiau ar yr aelwydydd mwyaf bregus yn ein cymunedau a'r effaith ar y farchnad dai leol. O ganlyniad, yn ein gwahanol senarios yn Atodiad 1, rydym yn dangos modelau ar gyfer cynyddu ein rhaglen adeiladu newydd yn ystod y 5 mlynedd nesaf o gymharu â'r hyn a gafodd ei gynnwys yn ein Cynllun blaenorol.

Y Farchnad Dai Lleol

Mae adroddiad diweddar ar Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru yn dangos bod gennym rôl o ran darparu tai addas i bobl fregus yn ein cymdeithas. Y bylchau a nodwyd yw:

- Diffyg llety i bobl sengl
- Nifer gyfyngedig o hosteli

- Prinder darpariaeth arbenigol ar gyfer unigolion sydd â chyflyrau meddygol parhaus
- Bylchau mewn gwasanaethau cymorth

Amcanion strategol

Mae tai yn chwarae rôl bwysig iawn yn y Cynllun Corfforaethol y Cyngor ac yn cyfrannu at nifer o'r amcanion.

- Wrth adeiladu tai newydd a gwella ein stoc bresennol byddwn yn creu effaith yn lleol a chynnig buddion cymunedol.
- Bydd darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol yn sicrhau bod pobl hyn yn cael eu cefnogi i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau.
- Byddwn yn rhoi cyfleoedd i denantiaid gymryd rhan er mwyn gwella gwasanaethau a rhoi sgiliau a hyder i bobl allu gymryd rhan yn eu cymunedau drwy sefydlu grwpiau cyfranogiad tenantiaid.

Mae dwy Strategaeth sydd yn bwydo fewn i allu cyflawni hyn, sef y Strategaeth Tai a'r Strategaeth Cyfranogiad Lleol. Mae strategaethau hyn yn nodi sut y byddwn yn cydweithio i ddarparu cyflenwad o dai fforddiadwy a sut gall tenantiaid gymryd rhan yn hyn.

Y Cyd-destun Strategol a'r Cysylltiad gyda Chynlluniau eraill

Mae datblygu ein gwasanaethau fel landlord, ynghyd a chynyddu ein stoc tai yn parhau i fod yn flaenoriaethau strategol i'r Cyngor, a gellir gweld hynny yn nodweddion y dogfennau strategol allweddol.

Yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol, gellir gweld tystiolaeth o'r hyn yn y Cynllun Trawsnewid, Strategaeth y Cyngor ar gyfer Rheoli Asedau, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, y Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid, y Strategaeth TGCh Gorfforaethol a Chynlluniau Gwasanaethau unigol.

Cysylltiadau gyda Strategaeth Dai Lleol y Cyngor am 2014 - 2019

Mae'r Strategaeth hon yn nodi amcanion y Cyngor ar gyfer pob math o ddeiliadaethau tai ar yr ynys i gwrdd ag anghenion tai a nodwyd ac i sicrhau safonau tai uchel ar gyfer pob dinesydd. Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai yn un ffordd bwysig o'r gyflawni amcanion cyffredinol hyn a bydd cysylltiadau agos rhwng y ddwy ddogfen.

Gellir gweld amrywiol ddogfennau'r Cyngor ar ei wefan

www.ynysmon.gov.uk

2.0 Amcanion y Cynllun Busnes

2.1 Fel landlord, rydym yn dymuno i'n tenantiaid fyw mewn llety o ansawdd dda, sy'n fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac sydd mewn cymunedau diogel a chynaliadwy.

Mae hefyd yn gwneud cyfraniad pwysig i'n nod o ostwng tlodi ac anghydraddoldeb yn ein cymunedau. Mae gan yr Adran Dai hefyd ran bwysig i'w chwarae mewn perthynas â'r economi; mae codi tai newydd a thrwsio'r stoc gyfredol yn creu swyddi, prentisiaethau a chyfleoedd hyfforddi.

Mae'n her barhaus i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, a hynny mewn ffordd sy'n costio llai ond sy'n parhau i gwrdd â disgwyliadau o ran perfformiad ac yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol cynyddol.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'n tenantiaid i ofyn iddynt ba wasanaethau y maent yn eu dymuno eu cael a sut y buasent yn hoffi iddynt gael eu darparu. Byddwn yn eu cynnwys yn y gwaith o wella'r gwasanaethau trwy adolygu a monitro safonau gwasanaethau. Byddwn hefyd yn gwneud gwell defnydd o adborth a gawn gan gwsmeriaid er mwyn bwrw ymlaen i wella gwasanaethau ymhellach.

2.2 Mae ein ffocws ar gyfer 2017/2018 wedi bod ar: -

- Gwaith mewn paratoad i weithrediad newidiadau Diwygio Lles a Chredyd Cynhwysol sydd am fod yn cael ei weithredu ar draws yr Ynys yn ystod 2018/19 ac am effeithio nifer sylweddol o'n tenantiaid.
- Cyflwyno cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru o gronfa'r Grant Tai Arloesol ar gyfer datblygu cynllun tai modiwl ar gyfer pobl sengl dan 35 yng Nghaerdybi.
- Cychwyn ar ein rhaglen o adeiladu tai cyngor newydd ynghyd a phrynu 15 o gyn tai cyngor oedd wedi eu colli o'r stoc dai Cyngor drwy'r hawl i brynu.
- Cychwyn gwasanaeth "Single Point of Access" ar gyfer holl wasanaethau tai a chefnogaeth ar draws yr Ynys gyda dros 200 o unigolion wedi eu cyfeirio yn ystod 9 mis cyntaf y gwasanaeth.
- Yn ystod y flwyddyn llawer o waith wedi mynd ymlaen yn gwella trefniadau phrosesau Rheoli Perfformiad y Gwasanaeth ar gyfer ein rheolwr gwasanaeth.
- Fel Gwasanaeth rydym wedi gwneud llawer o gynnydd mewn perthynas â gweithredu Safonau Iaith y Cyngor gydag ein Pencampwyr Iaith yn ennill gwobr y Prif Weithredwr yn y Gwobrau Staff am eu gwaith cysylltiedig â gweithrediad y Safonau Iaith.
- Yn dilyn mabwysiadu Polisi Ymddygiad Gwrthgymdeithasol mynd ar afael a datrys phroblemau ymddygiad gwrth gymdeithasol dwys o fewn dwy stad yn

benodol yn ystod y flwyddyn er mwyn gwella amgylchedd byw tenantiaid ar y stadau penodol.

- Parhau i fuddsoddi'n sylweddol ar waith allanol a gwelliannau amgylcheddol i stadau wrth anelu at wireddi safonau SATC+.
- Yn ystod y flwyddyn bu archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru ar wireddu Safon Ansawdd Tai Cymru.

2.3 Ein Blaenoriaethau Allweddol dros y 2 flynedd nesaf (2018/2020) wedi nodi isod:

- Mewn cydweithrediad a'r Grŵp Tir ac Asedau Corfforaethol Cynyddu'r cyflenwad o dai Cyngor ar yr Ynys drwy lansiad ein Rhaglen Datblygu Tai Cyngor a fydd yn cynnwys cyfuniad o adeiladu o'r newydd ar diroedd y Cyngor a phecynnau dylunio ac adeiladwyr gyda datblygwyr preifat ynghyd a phrynu'n ôl cyn tai Cyngor.
- Byddwn yn cytuno'r cynllun prosiect ar gyfer datblygu trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr Ynys fydd yn cael ei adeiladu yn ardal Seiriol ac yn cael ei ddatblygu drwy'r Cyfrif Refeniw Tai.
- Mewn cydweithrediad a Gwasanaethau Plant byddwn yn edrych ar sefydlu 2 Gartref Grŵp ar yr Ynys yn ystod 18/19.
- Yn dilyn ail fodelu cynllun Llawr y Dref symud ymlaen i osod y cynllun yn ei newydd wedd sydd yn cynnwys 3 uned arbenigol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion er mwys asesu gallu unigolion sy'n barod i symud ymlaen o ddarpariaeth cefnogaeth 24 awr i fwy yn fwy annibynnol.
- Cwblhau'r gwaith o allanoli'r swyddogaeth storfa ar gyfer ein Huned Cynnal a Chadw Tai yng Ngaerwen.
- Gwaith paratoi ar gyfer newidiadau sylweddol bydd yn ein hwynebu wrth weithredu newidiadau Deddf Rhentu Cymru.
- Yn ystod y flwyddyn byddwn yn canolbwyntio ar wella gwaith ataliol mewn perthynas â atal achosion digartrefedd ar yr Ynys yn unol â gofynion Deddf Tai (Cymru), 2014.
- Byddwn yn cynnal asesiad o'r anghenion tai lleol ac yn llunio ein Strategaeth Tai Lleol 2019 – 2024.
- Parhau i fynd a'r afael o unedau sydd ddim yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru fel methiannau derbyniol.
- Parhau i wella'r ddarpariaeth gwasanaeth mewn meysydd lle mae perfformiad yn wael a / neu lle mae canlyniadau arolygon boddhad cwsmeriaid yn dangos yr

angen i wella canlyniadau gwasanaeth, gan gynnwys gwelliannau o ran yr amser a gymerir i ailosod eiddo gwag.

2.4 Cyd-destun Tai Lleol

Angen am dai

Mae Asesiad o'r Farchnad Dai Leol yn rhoi gwybodaeth i'r Awdurdod am yr anghenion tai yn ei ardal. Diweddarwyd Asesiad 2013 yn 2015 ac fe'i cymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Gorffennaf 2016. Mae diweddariad 2015 yn nodi bod angen 398 o anheddau fforddiadwy ychwanegol bob blwyddyn ar Ynys Môn am y 5 mlynedd nesaf (gan gynnwys tai cymdeithasol a thai canolraddol megis rhannu perchnogaeth a llety rhent canolraddol).

Nid yw'r Asesiad yn cymryd i ystyriaeth effeithiau posib Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol. Mae gwaith ychwanegol yn cael ei wneud gan y Cyngor mewn perthynas â hynny.

2.5 Y Gofrestr Dai Gyffredin

Mae'r Gwasanaethau Tai yn cadw Cofrestr Dai Gyffredin ar ran Partneriaeth Dai Ynys Môn sy'n cynnwys y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n bartneriaid i ni, sef Grŵp Cynefin, Pennaf a Tai Gogledd Cymru.

Yn mis Ionawr 2018 'roedd y rhestr aros yn cynnwys : -

389 o geisiadau byw ar y gofrestr dai, 31 yn y Band Brys, 220 ym Mand 1, 2 ym Mand 2 a 132 ym Mand 3.

Mae'r Gwasanaethau Tai yn gosod tua 255 o unedau llety o'i stoc dai ac mae Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gosod 60 o unedau.

Mae ein Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gallu cael mynediad ar-lein i'r Rhestr Aros am Dai fel bod modd iddynt weld enwebiadau am eu heiddo pan ddônt ar gael.

Rydym hefyd wedi datblygu Cofrestr Tai Hygyrch at ddiben cofnodi ymgeiswyr sydd angen eiddo wedi ei addasu. Bydd y gofrestr yn ein cynorthwyo i ni wneud defnydd gorau o'r stoc drwy andnabod tai sydd wedi eu haddasu ar gyfer ymgeiswyr sydd mwyaf addas ar gyfer yr eiddo pan ddônt yn wag.

2.6 Darparu tai addas

Mae'n anochel y bydd rhai ardaloedd yn gweld y bydd galw mawr am eiddo ac y bydd rhai tai yn fwy anodd eu gosod. Cymhlethir hyn gan leoliad a maint y stoc y Cyngor.

Mae rhagor o wybodaeth am broffil daearyddol, maint a math y stoc i'w gweld drwy fynd i'r ddolen ganlynol:

<http://www.angleseyhousing.co.uk/index.php?section=information&option=areas>

2.7 Bylchau yn y Ddarpariaeth Tai Cymdeithasol/Tai Cyngor

Dadansoddiad o'r rhestr aros o gymharu â'r stoc

Cyngor Sir Ynys Môn yw'r landlord cymdeithasol mwyaf yn Ynys Môn.

Mae yna 4664 o unedau o dai cymdeithasol ar Ynys Môn. Dyma'r ganran o'r stoc y mae pob landlord yn berchen arni:

Landlord	Nifer yr Unedau	Canran o'r Stoc
Cyngor Sir Ynys Môn	3805	81%
Grŵp Cynefin	508	11%
Tai Gogledd Cymru	121	3%
Clwyd Alyn	231	5%
Cyfanswm	4665	100%

Mae'r isod yn ddadansoddiad o stoc y Cyngor o gymharu â'r gofrestr dai un stafell wely ar gyfer tai cymdeithasol.

Cyfyngiad Oed	Canran	Dim Cyfyngiad Oed	Canran	Cyfanswm Unedau
1421	37%	2364	63%	3804

1 Llofft	% o'r stoc	% ar y rhestr aros	2 Llofft	% o'r stoc	% ar y rhestr aros	3 Llofft	% o'r stoc	% ar y rhestr fer	4 Llofft	% o'r stoc	% ar y rhestr aros
715	19%	54%	1348	35%	33%	1666	44%	5%	62	2%	5%

Mae'r tabl yn dangos bod cryn wahaniaeth rhwng y canrannau ar y rhestr aros sydd angen llety 1 llofft a llety 3 llofft o gymharu gyda proffil y stoc sydd ym mherchenogaeth y Cyngor.

Mae 54% o'r holl ymgeiswyr ar y rhestr fer angen eiddo 1 llofft ond dim ond 19% o'r stoc cyfredol sy'n eiddo un llofft. Er mai 5% o'r rheiny sydd ar y rhestr aros angen llety 3 llofft, mae 44% o stoc cyfredol y Cyngor yn eiddo 3 llofft.

Dylid nodi bod 627 o'r 715 o unedau 1 llofft yn rhai i bobl dros 60 oed (h.y. yn dai gwarchod neu'n dai i bensiynwyr) – mae hyn yn cynrychioli 88% o'r stoc 1 llofft. Fodd

bynag, mae canran y bobl sydd angen llety 1 llofft ac sydd dros 60 oed yn llawer is na hyn.

3.0 Dadansoddiad o'r Cynllun Busnes

Ar 31 Ionawr 2018, roedd gan y Cyngor stoc o 3,805 o dai a 766 o garejjs.

Stoc Dai'r Cyngor	2016/17	2017/18	Prynwyd yn ystod 2016/17 ond heb eu gosod eto
Fflatiau 1 ystafell wely	319	320	1
Fflatiau 2 ystafell wely	400	405	5
Fflatiau 3 ystafell wely	16	16	
Tŷ / byngalo 1 ystafell wely	397	397	
Tŷ / byngalo 2 ystafell wely	937	943	6
Tŷ / byngalo 3 ystafell wely	1637	1647	10
Tŷ / byngalo 4 neu 6 ystafell wely	78	77	-1
CYFANSWM	3784	3805	21

Prisio Stoc

Cofnodir y stoc dai yng nghyfrifon yr Awdurdod ar sail cost hanesyddol gyda gwaith prisio'n cael ei wneud bob pum mlynedd yn unol â pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod. Cynhelir y prisiad nesaf yn ystod 2018/19.

3.1 Cyflawni Gwasanaethau Rheoli Tai

3.1.1 Cyfranogiad Tenantiaid

Bydd Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid 2018-23 yn parhau i'w gael ei fonitro yn chwarterol drwy adolygu'r Cynllun Gweithredu blynyddol yng nghyfarfodydd Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn (MTOV).

Mae MTOV yn gyfle hefyd i wneud newidiadau i'r Cynllun Gweithredu er mwyn sicrhau bod gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r busnes sy'n newid o hyd.

Mae rhaglen waith 2017/18 wedi canolbwyntio ar y meysydd allweddol isod:

- Sicrhau bod tenantiaid yn chwarae rôl weithredol yn y gwaith o ddatblygu, cyflawni a monitro gwasanaethau tai.
- Sicrhau bod gweithgareddau cyfranogiad tenantiaid yn cynrychioli'r corff ehangach o denantiaid drwy gynnig amrediad eang o weithgareddau cyfranogi ar wahanol lefelau.
- Gweithio mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol er mwyn cynyddu'r nifer o weithgareddau cyfranogiad sydd ar gael i denantiaid a sicrhau'r canlyniadau gorau drwy rannu adnoddau a sgiliau.
- Datblygu mentrau i helpu i godi ymwybyddiaeth o Gredyd Cynhwysol a pharatoi tenantiaid a fydd yn cael eu heffeithio.
- Lleihau eithrio digidol a thlodi tanwydd.
- Gwella cyfathrebu gyda thenantiaid a swyddogion.
- Gweithio gyda thenantiaid i ddatblygu eu sgiliau, gwybodaeth a hyder.

3.1.2 Canlyniadau llwyddiannus yn y maes Cyfranogiad Tenantiaid

Mae prif lwyddiannau Cyfranogiad Tenantiaid yn ystod 2015-18 yn cynnwys yr isod:

- Cyllido prosiectau amgylcheddol drwy'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol gwerth cyfanswm o £7,000. Mae hyn wedi gwella boddhad cwsmer ac o ganlyniad mae tenantiaid (o'r 7 ardal) bellach yn teimlo'n ddiogel ac yn falch o'r ardal y maent yn byw ynddi.
- Mae 22 o'r stadau wedi cael digwyddiadau glanhau stadau, sydd wedi ei drefnu gan y Gwasanaeth Tai ac mewn partneriaeth a'n tenantiaid, Heddlu Gogledd Cymru a Chadwch Gymru'n Daclus er mwyn gwella amgylchedd ein tai a stadau
- Yn ychwanegol at y prosiectau amgylcheddol uchod, gweithiodd y Tîm Cyfranogiad Tenantiaid mewn partneriaeth gydag asiantaethau allanol i gyflawni'r isod:
 - 12 o gymorthfeydd Tai/Heddlu.
 - 3 o ddiwrnodau hwyl i deuluoedd i hyrwyddo ymgysylltiad tenantiaid
 - 4 o Sioeau Teithiol Gwledig i hyrwyddo Credyd Cynhwysol a'r newidiadau a ddaw yn o fuan

Mae'r prosiectau uchod wedi cryfhau trefniadau cydweithio gyda phartneriaid lleol sy'n gweithredu yn yr ardal ac mae hynny wedi sicrhau mwy o gyfleoedd i rannu sgiliau ac anodau.

- Wedi cefnogi 6 o grwpiau Tenantiaid a Thrigolion i weithio gyda'u cymunedau a dylanwadu ar welliannau i'r gwasanaeth.
- Wedi gweithredu argymhellion o archwiliad cafwyd ei gyflawni gan denantiaid ar lefelau gofal cwsmer adran tai
- Cychwyn grŵp teulu ifanc yn Llannerchymedd sydd erbyn hyn yn grŵp hunan gynhaliol.
- Cyd-weithio yn agosach efo sawl grŵp cymunedol lleol a dod a ffocws / safbwynt ein tenantiaid iddynt. Golygir hyn fod syniadau eang a chyffrous o'n cymunedau yn cael ei ystyried o fewn ein strategaeth newydd a hefyd gweithdrefnau ein hadran
- Mynychu cynhadledd flynyddol TPAS Cymru 2017 gyda thenantiaid er mwyn gweld sut y gallwn wneud pethau'n wahanol
- Datblygiadau ehangach adran Tai o fewn APPMon er mwyn gwella mynediad a chyfathrebu gyda tenantiaid i'r dyfodol
- Creu cynllun gweithredu gyda thenantiaid ynglŷn â gweithdrefnau a chodi ymwybyddiaeth Credyd Cynhwysol sydd bellach yn weithredol ar draws yr Ynys. Cychwyn ag ymgyrch i staff y sector gyhoeddus i ddod a 'Thun o fwyd y mis' i'r gwaith er mwyn cynyddu lefelau stoc bwyd o fewn ein banciau bwyd
- Llawer fwy o ffocws ar les ac iechyd ein teuluoedd gan gynnwys pobl sydd yn byw mewn ardaloedd gwledig. Mae hyn yn cynnwys nifer o ddiwrnodau i lanhau traethau lleol a hwyl hefo'r teulu i gyd. Mae hyn wedi ei wneud ar y cyd gyda Gwasanaethau Plant
- Cynorthwyo tenantiaid sy'n cyfranogi ar lefel strategol i fynychu cynhadledd a digwyddiadau hyfforddi Rhwydwaith Agored Tenantiaid TPAS Cymru a chynhadledd Ffederasiwn Tenantiaid Cymru sydd wedi bod o gymorth i wella eu sgiliau, hyder a gwybodaeth.
- Wedi cynnal 3 o Fforymau Tai Gwarchod chwarterol gan ddenu rhwng 50 a 100 o denantiaid i bob un. Mae hyn wedi cefnogi'r tîm Cyfranogiad Tenantiaid i weithio tuag at ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2016 drwy leihau unigrwydd ac unigedd ymysg tenantiaid mewn oed. Mae'r fforymau'n gyfle hefyd i sicrhau bod tenantiaid sy'n byw mewn cynlluniau tai gwarchod yn cael gwell mynediad at wybodaeth.

- Wedi datblygu 2 newyddlen i denantiaid (Llais Môn), sydd wedi helpu i wella cyfathrebu gyda thenantiaid.
- Wedi denu arian gan Lywodraeth Cymru i gynllun William Williams VC, Amlwch er mwyn gwella'r lolfa gymunedol yno. Mae'r gwaith cyfalaf yn mynd ymlaen ac mi fydd hwn yn cynnig cyfleoedd i denantiaid a'r gymuned i dreulio ei hamser hamdden yn mwynhau gwahanol ddigwyddiadau a sesiynau er mwyn gwella eu lles ac iechyd a theimlo yn llai ynysig
- Datblygu gwella sgiliau a rhwydweithiau digidol i drigolion Môn ac wrthi'n cynllunio i brynu 8 kiosk technoleg gwybodaeth
- Llwyddo i recriwtio Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ychwanegol, sydd yn dod a ni i ddau swyddog llawn amser. Mi fydd hyn yn adlewyrchu yn bositif ar y nifer fawr o'n hamcanion o fewn y flwyddyn i ddod.
- Cynnal fforwm digartrefedd sydd wedi ei anelu at bobl ifanc sydd yn ddigartref. Dysgu, gwella a thyfu ein gwasanaethau i bobl ifanc sydd yn wynebu digartrefedd
- Cynnal sesiwn hyfforddi Iechyd Meddwl i denantiaid yr MTOV.
- Cefnogi grŵp o denantiaid yn Llanfairpwll i ddenu arian grant preifat drwy Magnox a Horizon Nuclear er mwyn gwella amgylchedd ei lolfa gymunedol leol drwy brynu adnoddau a dodrefn newydd

Rydym wedi ymgynghori ynghylch yr uchod gyda thenantiaid:

- Gwaith cyfalaf William Williams VC
- Creu strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid newydd ar gyfer 2018 - 2023
- Ymgysylltu a thenantiaid, pobl ifanc ac aelodau etholedig ynglŷn â datblygu cynllun tai arloesol yng Nghaergybi i bobl ifanc
- Gosod tai cymdeithasol - diweddariad ar newidiadau
- Holiadur Opsiynau Tai i Bobl dan 35 oed
- Ymgynghoriad ar Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr

3.1.3 Galluogi ein tenantiaid i dalu eu rhent

Mae modd casglu rhent mewn nifer o wahanol ffyrdd gan gynnwys Debyd Uniongyrchol, archebion sefydlog, Paypoint, Swyddfa'r Post, yn uniongyrchol o gyflogau, drwy gerdyn debyd neu gredyd dros y ffôn, tŵn gyffwrdd awtomatig, taliadau ar-lein.

Rydym ar hyn o bryd yn cynnig dyddiadau talu ar gyfer Debyd Uniongyrchol ar unrhyw ddiwrnod o'r mis mewn paratoad ar gyfer Credyd Cynhwysol. Bydd hyn yn golygu y gall tenantiaid dalu eu rhent fel a phryd y maent yn derbyn y taliad Credyd

Cynhwysol. Mae dros 1200 o denantiaid yn talu trwy ddebyd uniongyrchol, sy'n oddeutu 32% o'n stoc.

Gwelwyd cynnydd yn nifer y tenantiaid sy'n talu drwy archebion sefydlog a bydd app symudol newydd ar gael i wneud taliadau drwy App Môn.

3.1.4 Tlodi a Chynhwysiad Cymdeithasol

Diwygio Lles

Mae tenantiaid yn dweud wrthym eu bod y dymuno i'r Gwasanaethau Tai barhau i'w cefnogi drwy'r newidiadau mewn budd-daliadau lles. Mae'r rhaglen Diwygio Lles yn parhau i gael ei hymestyn ar draws Ynys Môn ac erbyn Mehefin 2018, disgwylir y bydd Credyd Cynhwysol wedi cael ei ymestyn i bawb sy'n hawlio budd-daliadau ar yr Ynys. Bydd hyn yn newid diwylliant i hawlwr budd-daliadau ac er mwyn cefnogi ein Tenantiaid drwy'r newidiadau hyn, byddwn:

- Yn gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer cynghori a rhoi cymorth ymarferol i'r tenantiaid cyfredol a darpar denantiaid;
- Yn darparu cymorth cyn-tenantiaeth ac yn cefnogi ac yn nodi'n gynnar y tenantiaid hynny a all gael anhawster talu eu rhent ar amser;
- Yn darparu cefnogaeth a chynghor i denantiaid sydd wedi cael eu heffeithio'n uniongyrchol gan y newidiadau Credyd Cynhwysol a gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill megis CG Môn, CAB, Shelter Cymru;
- Yn gweithio'n agos gyda'r Adran Waith a Phensiynau a'r Ganolfan Byd Gwaith ar ymestyn Credyd Cynhwysol;
- Yn helpu tenantiaid i sicrhau eu bod yn cael yr incwm mwyaf posib a'u bod yn gallu rheoli cyllideb eu haelwydydd;
- Yn darparu amrediad o opsiynau talu cyfleus er mwyn ei gwneud yn haws i denantiaid dalu eu rhenti;
- Yn gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a Digartref i gynllunio ac arbrofi gyda mentrau a fydd yn cefnogi llety a chymorth i bobl senl, yn enwedig i bobl dan 35 oed sydd wedi eu heffeithio gan Ddiwygio Lles.

Tlodi Tanwydd

Mae tlodi tanwydd (lle mae pobl yn gwario rhagor na 10% o incwm y cartref ar filiau tanwydd) yn parhau i fod yn broblem i nifer o deuluoedd. Er mwyn cynorthwyo ein tenantiaid i arbed arian ar eu biliau tanwydd, byddwn:

- Yn hyrwyddo amrediad o fentrau i gefnogi tenantiaid i fynd i'r afael â thlodi tanwydd;
- Yn parhau i ymestyn cynlluniau a fydd yn gwneud ein cartrefi'n fwy ynni-ffeithlon, gyda'r nod o sicrhau cynnydd yn nifer yr eiddo sydd â sgôr ynni sy'n uwch na 65.

Cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith

Mae cefnogi pobl i mewn i gyfleoedd hyfforddiant, gwirfoddoli a gwaith yn cynyddu incwm y teulu, ond daw hefyd â manteision o safbwynt iechyd a llesiant i unigolion a'u teuluoedd. Mae nifer o gyfleon gwaith ar gael ar yr Ynys a nifer o fentrau wrthi'n cael eu datblygu i helpu i gefnogi tenantiaid a'u teuluoedd i fanteisio ar gyfleon hyfforddiant a gwaith yn y dyfodol. Er mwyn cefnogi ein Tenantiaid, byddwn:

- Yn cefnogi tenantiaid sydd wedi bod yn ddi-waith am gyfnod hir i mewn i waith drwy raglenni megis Cymunedau ar gyfer Gwaith ac Opus;
- Yn parhau i weithio, datblygu a hyrwyddo cyfleon dysgu gydol oes gyda Choleg Llandrillo-Menai, Môn CF ac Opus lle bydd Tenantiaid efallai yn dymuno manteisio ar y cyfleon a'r gefnogaeth;
- Yn gweithio gyda Chanolfan Byd Gwaith i wneud y mwyaf o'r cyfleon cyflogaeth sydd ar gael

Cynhwysiad Digidol

Mae ein Tenantiaid yn dweud wrthym yr hoffent i ni wneud mwy i'w helpu i wella eu sgiliau a'u galluoedd digidol. I'r perwyl hwn, byddwn:

- Yn hyrwyddo mynediad Tenantiaid i'r porth 'Fy Nghartref' fel y gallent edrych ar eu cyfrifon rhent, gwneud taliadau, rhoi gwybod i ni am waith trwsio y mae angen ei wneud a monitro cynnydd yn hynny o beth;
- Yn ceisio darganfod pa wasanaethau yr hoffai ein Tenantiaid gael mynediad iddynt ar y rhyngwyd;
- Yn gweithio gyda chydweithwyr yn ein Gwasanaeth Gwybodaeth a Thechnoleg i ymestyn strategaeth ddigidol y Cyngor a buddsoddi mewn cyfleusterau wi-fi yn y cyfan o'n lolfeydd cymunedol dros y 12-18 mis nesaf

3.1.5 Lefelau Rhent

Yn seiliedig ar y 'rhent targed' diwygiedig ym mholisi Llywodraeth Cymru ar Renti Tai Cymdeithasol, dyma rent targed Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer pob math o eiddo yn 2018/19:-

Math o Eiddo	Rhent Targed ar gyfer 2018/19
Fflatiau Un Ystafell (Bedsits)	£68.60
Fflat un Ystafell Wely	£77.18
Fflat dwy Ystafell Wely	£85.75
Fflat tair Ystafell Wely	£94.33
Fflat pedair Ystafell Wely	£102.90
Tŷ un Ystafell Wely	£85.30
Tŷ dwy Ystafell Wely	£94.78
Tŷ tair Ystafell Wely	£104.26
Tŷ pedair Ystafell Wely	£113.73
Tŷ pump Ystafell Wely neu fwy	£123.21

Gan ddefnyddio'r ffigyrau uchod, mae 3,786 eiddo dan y rhent targed, 19 eiddo uwchben y rhent targed. Mae hyn yn gyfanswm o 99.5%, 0.5% o'n stoc.

Er mwyn cyflawni'r ffigyrau rhent targed cyfredol, bwriad y Cyngor yw cynyddu'r rhent trwy ddefnyddio'r fformiwla Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) + 1.5% + £2 yr wythnos ar gyfer yr holl eiddo dan y targed a bydd hyn wedi'i gyflawni erbyn tua 2023/24.

3.1.6 Gwaith Addasiadau Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasiadau sylweddol o'n stoc i bobl gyda anableddau. Mae gwaith nodweddiadol yn cynnwys gosod lifffitiau ar risiau, darparu cawodydd mynediad gwastad ac estyniadau.

Bydd mân addasiadau megis gosod rheiliau llaw yn parhau i gael eu cyllido drwy'r gyllideb refeniw. Mae'r Gwasanaethau Tai hefyd yn gweithredu'r grant Hwyluso ar ran Llywodraeth Cymru.

3.1.6 Diogelu

Mae Deddfwriaeth Llywodraeth yn rhoi dyletswydd ar bob sefydliad i hyrwyddo diogelu. Fel staff Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran hyrwyddo llesiant a diogelu plant ac oedolion yn ein cymunedau sydd, fe ystyrir, naill ai'n 'fregus' neu 'mewn perygl', waeth beth yw ein swyddogaethau unigol.

Mae staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddiogelu ac wedi cwblhau prawf ar Bolisi Camdrin Domestig.

3.1.7 Pwynt Mynediad Sengl Cefnogi Pobl

Mae Pwynt Mynediad Sengl / Swyddog Porth wedi ei sefydlu yn ystod 2017 ar gyfer derbyn cyfeiriadau Cefnogi Pobl. Mae'r broses wedi llwydi i allu:

- Gweld symudiad yn y modd y rheolir y broses atgyfeirio sydd ar hyn yn gyfrifoldeb ar ddarparwyr Cefnogi Pobl yn Ynys Môn
- Hwyluso mynediad gwell a haws i wasanaethau ar gyfer ein defnyddwyr gwasanaeth mwyaf bregus
- Darparu teclyn rheoli mwy cadarn er mwyn gwella'r gwaith o fonitro darparwyr gwasanaeth
- Hwyluso a gwella cyfathrebu ac arferion gwaith rhwng y timau Cefnogi Pobl ac Opsiynau Tai a'r Tîm Un Pwynt Mynediad yn y Gwasanaethau Cymdeithasol
- Sicrhau bod agwedd fwy strategol yn cael ei chymryd tuag at ddatblygu gwasanaethau a datrysiadau tai cynaliadwy a bod y Rhaglen Cefnogi Pobl yn ymateb i anghenion presennol ac anghenion sy'n codi.

3.1.8 Cymorth fel y bo'r Angen

Yn dilyn trafodaethau gyda darparwyr cymorth yn ymwneud â thai a rhanddeiliaid, mae wedi dod i'r amlwg fod nifer o bobl sydd ag anghenion, yn dal i fod yn fregus wedi i'r cyfnod o gefnogaeth ddod i ben. Gall cyfnod o gefnogaeth bara am hyd at ddwy flynedd a gall gynnwys cyfnodau mewn hostel, lloches, tai gyda chymorth, llety symud ymlaen a / neu gymorth fel bo'r angen neu gyfuniad o unrhyw un o'r mathau hyn o lety. Mae darparwyr o'r farn bod eu hamser ac ymdrechion wrth ddarparu'r cymorth hwn yn cael ei danbriso ac nad yw dod â chymorth i ben bob amser yn gwneud y defnydd gorau o gyllid Cefnogi Pobl.

Cydnabyddir y bydd rhai pobl angen ymyrraeth tymor byr o bryd i'w gilydd yn eu bywydau. Y bobl sydd fwyaf tebygol o elwa o wasanaeth o'r fath yw'r rheini ag anawsterau dysgu nad ydynt yn bodloni'r meini prawf statudol ar gyfer cofrestru anabledd dysgu, iechyd meddwl lefel isel, megis gorbryder ac arwyddion cynnar o iselder a phobl hŷn sydd ar eu pennau eu hunain a'r rhai hynny sydd â thueddiadau anhrefnus ar draws y meysydd gwasanaeth. Gallai problemau o'r fath, heb yr ymyrraeth gynnar angenrheidiol, arwain at broblemau o ran trin arian, rheoli dyledion neu ôl-ddyledion rhent ar draws y Cyngor, y cymdeithasau tai ac eiddo sector preifat. Mae'n fwriad comisiynu y gwasanaeth hwn yn fuan yn 2018

3.1.9 Y gyrrwyr allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Trwsio a Chynnal a Chadw

Mae pwyslais wedi bod ar drawsnewid y modd mae'r gwasanaeth cynnal a chadw yn cael ei gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym wedi gwneud hyn drwy:

- Sicrhau bod asedau'n cael eu cynnal a'u cadw mewn ffordd fwy effeithlon sydd wedi'i chynllunio, sy'n gynaliadwy ac sy'n fforddiadwy

- Darparu gwasanaeth trwsio a chynnal a chadw cost effeithiol sydd ag ethos 'yn gywir y tro cyntaf'.
- Sicrhau bod cartrefi'n cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel ac yn bodloni'r holl oblygiadau statudol
- Datblygu'r fframwaith rheoli perfformiad er mwyn i'r gwasanaeth trwsio allu cyflawni canlyniadau go iawn ar gyfer ei gwsmeriaid.
- Sefydlu gwasaneth cynnal a chadw sy'n seiliedig ar apwyntiadau.

4.0 Rheoli Asedau

4.1.1 Cydymffurfio gyda SATC a'r Strategaeth Fuddsoddi

Cyngor Sir Ynys Môn oedd un o'r awdurdodau cyntaf i gwrdd â safonau SATC yn ôl yn 2012. Yn ôl "Cartrefi Gwell i Bobl Cymru" gweledigaeth Llywodraeth Cymru yw y bydd "pob aelwyd yng Nghymru ... yn cael y cyfle i fyw mewn anheddau o ansawdd dda sydd" :-

- Rhan 1: Mewn cyflwr da.
- Rhan 2: Yn Saff a Diogel.
- Rhan 3: Wedi eu cynhesu'n ddigonol, yn defnyddio tanwydd yn effeithlon ac wedi'u hinswleiddio'n dda.
- Rhan 4: Gyda cheginau ac ystafelloedd ymolchi modern.
- Rhan 5: Yn cael eu rheoli'n dda (ar gyfer tai ar rent).
- Rhan 6: Wedi'u lleoli mewn amgylcheddau diogel a deniadol.
- Rhan 7: Yn cwrdd yn addas ag anghenion penodol yr aelwyd i'r graddau y bo modd.

Mae cylch bywyd y cydrannau y caniatwyd ar eu cyfer yn ein rhagamcanion cost 30 mlynedd yn cynnwys:

- Cegin: 15 mlynedd
- Ystafell Molchi: 25 mlynedd
- Bwyleri: 15 mlynedd
- Gwresogyddion: 25 mlynedd
- Ail weirio llawn: 25 mlynedd

Rydym yn fodlon bod yr holl eiddo, lle bynnag bo hynny'n ymarferol bosibl, yn cwrdd â SATC ac eithrio'r rhai sy'n cael eu gwrthod neu rai sy'n cwrdd â meini prawf methiant derbyniol. Bydd gwaith gwella ar eiddo a wrthodwyd yn y gorffennol yn cael ei wneud yn awtomatig ar adeg newid Tenantiaeth. Ni fedrwn ond ystyried cofnodi methiant derbyniol petai cost y gwaith unioni yn anymarferol o safbwynt economaidd.

Mae'r tabl canlynol yn cadarnhau ein sefyllfa bresennol o ran adnewyddu'r elfennau craidd:

Elfen	Niferoedd a oedd wedi eu cynnwys yn yr arolwg sgopio gwreiddiol	Wedi'u cwblhau yn ystod y Cynllun SATC (Hydref 2008 - Rhagfyr 2012)	Wedi'u cwblhau ar adeg Newid Tenantiaeth (Ionawr 2013 - Gorffennaf 2017)	Tenantiaid a wrthododd (methiant derbyniol)	Niferoedd nad oeddent wedi eu nodi ar gyfer gwaith adnewyddu
Ceginau	3073	3123	293	207	150
Cyfanswm yr ystafelloedd ymolchi / cawodydd mynediad gwastad	2271	3071	260	131	311
Ailweirio	1543	2728	295	106	644

4.1.2 Swyddfa Archwilio Cymru (SAC)

Yn ystod haf 2017 derbyniwyd cadarnhad bod SAC am gynnal archwiliad i benderfynu a oes gennym drefniadau effeithiol i barhau i gwrdd â SATC. Bu i swyddogion SAC ymweld a'r Cyngor yn ystod mis Hydref.

Cynhaliwyd archwiliad drwy adolygu dogfennau, cyfweld Cynghorwyr a swyddogion, a chyfweliadau gyda chyfran o'n tenantiaid o ddrws i ddrws. Anfonwyd llu o ddogfennau a gwybodaeth i SAC eu hadolygu cyn yr ymweliad safle. Roedd y wybodaeth yn cynnwys dogfennau allweddol megis ein Cynllun Busnes 30 mlynedd ddiweddaraf, ein Polisi Cydymffurfiaeth hefo SATC a'r Strategaeth Rheoli Asedau drafft sydd yn awr wedi ei mabwysiadu. Yn ychwanegol, rhoddwyd dogfennau/cronfeydd data i SAC roedd yn cadarnhau gwybodaeth fanwl am holl weithgareddau buddsoddi cyfalaf y Gwasanaeth Tai.

Yn ystod yr archwiliad roedd SAC yn canolbwyntio, ymysg rhai eraill, ar y meysydd canlynol:

- Ydi'r Cyngor wedi casglu gwybodaeth fanwl am gyflwr y stoc
- Oes gan y Cyngor raglen i gynnal a chadw'r stoc
- Ydi'r Cyngor yn monitro methiannau derbyniol ac yn ymdrechu i leihau niferoedd yn y categori yma
- Ydi buddsoddiad SATC yn cael effaith positif ar fywydau trigolion y stoc tai

Disgwylir derbyn adroddiad y Swyddfa Archwilio cyn diwedd mis Mawrth 2018.

4.1.3 Rhaglen Buddsoddiad Cyfalaf

Mae'r Rhaglen Cynnal a Chadw arfaethedig ar gyfer 2018/19 a welir yn y tabl isod sydd werth £13.188 miliwn yn clustnodi'r adnoddau cyfalaf sydd wedi eu cynnwys yn y Cynllun Busnes. Bydd y gyllideb gyffredinol yn cynnwys darpariaeth ar gyfer yr ymrwymadau a ddygwyd ymlaen a llithriant o'r gyllideb a gymeradwywyd ar gyfer 2017/18. Mae cyfanswm y gyllideb, yn cynnwys yr ymrwymiad, yn £10.185 miliwn. Mae'r rhaglen yn cael ei hategu gan ddata a gasglwyd yn annibynnol ar gyflwr y stoc a bydd yn cyfrannu tuag at y Strategaeth Rheoli Tai a'r Strategaeth Rheoli Asedau Corfforaethol.

Mae'r Rhaglen Buddsoddiadau Sector Cyhoeddus yn ffurfio rhan o'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol ar gyfer 2018/19. Mewn egwyddor, bydd yn mabwysiadu'r un broses bidio am gyfalaf flynyddol â'r Cynllun Cyfalaf Corfforaethol, gydag awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Bwrdd Gwasanaethau Tai fel y gall flaenoriaethu a gwerthuso cynlluniau unigol.

Cynllun	2018/19 (£ '000)	2019/20 (£ '000)	2020/21 (£ '000)
<i>Gwaith mewnol SATC ac Asbestos</i>	1,000	500	500
<i>Ymrwymadau ar gytundebau cyfredol</i>	1,000		
<i>Rhaglen Gynnal a Chadw Draddodiadol</i>	2,450	2,146	3,426
<i>Rheoli Risg Tân</i>	200	100	100
<i>Gwaith Gwres Canolog</i>	500	250	250
<i>Gwaith Amgylcheddol</i>	500	250	250
<i>Gwaith Perfformiad Ynni</i>	1,000	1,000	
<i>Adeiladau Newydd</i>	6,188	8,614	13,637
<i>Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus</i>	350	250	250
	13,188	13,110	18,413

Cyllido:	2018/19 (£ '000)	2019/20 (£ '000)	2020/21 (£ '000)
<i>Lwfans ar gyfer Gwaith Trwsio Sylweddol</i>	2,660	2,660	2,660
<i>Cyfraniadau Refeniw</i>	9,528	9,450	9,471
<i>Ymrwymadau a ddygwyd ymlaen</i>			
<i>Benthyca</i>	1,000	1,000	6,300
	13,188	13,110	18,413

4.1.4 Cynllun Buddsoddi Mewnol

Mae'r gyllideb yn dyrannu swm o £1,000,000 er mwyn mynd i'r afael â gwrthodiadau SATC, elfennau cyfalaf sy'n cael eu ad-newyddu ar adeg newid tenantiaeth ac ar gyfer y gwaith parhaus o osod ceginau, ystafelloedd ymolchi a gwneud gwaith ailweirio wrth iddynt ddod i ddiwedd eu cylch bywyd.

Mae'r swm yma yn ddyraniad uwch nag yr arfer oherwydd bod y Gwasanaeth Tai wedi gwneud cyswllt rhagweithiol hefo tenantiaid sydd wedi gwrthod gwaith yn y gorffennol. O ganlyniad, mae cytundeb ar gyfer adnewyddu nifer o geginau, stafelloedd molchi ac ailweirio yn rhan o'n cynlluniau buddsoddi ar gyfer 2018/19. Mi fydd y gwaith yma yn cael effaith positif ar y niferoedd o fethiannau derbyniol rydym yn adrodd i Llywodraeth Cymru.

Bydd y gyllideb hon hefyd yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoli asbestos yn barhaus yn y stoc dai neu, lle bo'n briodol, ar gyfer cael gwared ar ddeunyddiau sy'n cynnwys asbestos.

4.1.5 Gwaith Gwres Canolog

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom gychwyn ar raglen i osod bwyleri newydd yn lle ein bwyleri hŷn sy'n gynyddol annibynadwy.

Fel rhan o'r gwaith, bydd arolwg o'r system wresogi bresennol yn cael ei gynnal ac os bydd angen gwresogyddion newydd, byddant yn cael eu newid fel rhan o'r rhaglen adnewyddu bwyleri. Fel hyn, gallwn sicrhau bod y systemau sydd wedi'u gosod yn addas i'r diben, o'r maint cywir ac mor effeithlon â phosibl ar gyfer ein tenantiaid. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, disgwylir y byddwn yn gweld gostyngiad yn y gost o alw allan ein peirianwyr gwresogi.

Yn ystod 2018-19, rydym wedi clustnodi cyllideb o £500k ar gyfer parhau â'r rhaglen hon a byddwn yn mynd ati i geisio newid tua 250 o fwyleri nwy.

4.1.6 Rheoli Risg Tân

Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth barhaus â Gorchymyn Adnewyddu Rheoliadau Tân 2005 rydym wedi clustnodi swm o £200k ar gyfer diweddarau a/neu adnewyddu offer ymladd tân a systemau darganfod tân er mwyn cydymffurfio ag asesiadau risg tân. Yn ystod 2017-18, cynhaliodd ein contractwr arbenigol asesiadau risg tân a fydd yn sylfaen i'r cynlluniau gwariant ar gyfer 2018-19.

4.1.7 Gwaith Cynnal a Chadw Allanol Traddodiadol sydd wedi ei Raglennu

Mae cyfanswm y gyllideb sydd wedi ei chadw ar gyfer gwaith Cynnal a Chadw wedi'i Raglennu yn £2.450 miliwn. Mae'r Gwasanaeth Tai yn disgwyl y bydd o leiaf 3 contract yn cael eu gosod yn 2018/19 a fydd yn cynnwys 100 eiddo.

Bydd caffael cynlluniau gwerth mwy na £500k yn parhau i gefnogi Datganiad Polisi Caffael Llywodraeth Cymru a bydd yr effaith ar yr economi leol yn cael ei fesur drwy Declyn Budd Cymunedol Gwerth Cymru.

Nod y Gwasanaethau Tai yw bydd y contractau uchod a'r strategaeth gaffael yn rhoi pob cyfle i gontractwyr lleol bidio am waith buddsoddiadau cyfalaf.

Mae'r gwasanaeth wedi ymrwymo i wario cymaint â phosib o'i gyllideb yn y gymuned leol a drwy wneud hynny mae'n hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Drwy ddefnyddio Gwerth Cymru, rydym yn disgwyl i'n contractwyr ddarparu rhai o'r buddion cymunedol canlynol:-

- Profiad gwaith drwy weithio gyda Cymunedau'n Gyntaf Môn a Coleg Menai Llandrillo
- Defnyddio llafur lleol
- Prentisiaid/hyfforddeion lleol
- Cyfleon ar gyfer busnesau bach a chanolig
- Defnyddio cadwyni cyflenwi lleol

Mae sgôp cyffredinol y gwaith a wnaed neu sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd yn cynnwys ail-doi, gosod system rendro wedi'i hinswleiddio, gosod ffenestri a drysau newydd lle mae hynny'n briodol, gwaith allanol yn cynnwys llwybrau, ffensio a waliau terfyn. Mae tai nad ydynt ar y prif rhwydwaith nwy hefyd yn cael budd lle bynnag y mae hynny'n ymarferol, o osod systemau Solar PV.

Bydd gwelliannau i gartrefi yn sgil yr holl contractau fel y dangosir yn y tabl isod yn golygu eu bod yn fwy cyfforddus ac yn edrych yn well, ac lle mae hynny'n berthnasol, byddant yn rhatach i'w gwresogi. Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi ei raglennu yn parhau i ffurfio sylfaen ein cynlluniau buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

Contract	Nifer yr Eiddo	Amcangyfrif o'r Gwerth (£'000)
Maes Machraeth, Llanfachraeth & Maes Garnedd, Tregele	29	1,180
Fflatiau Tresefion, Caergybi (Gwedd 2)	50	780
Waun Dirion, Benllech	21	490 (+ unrhyw lithriad arian o gyllideb 2017/18)
	100	2,450

4.1.8 Gwaith Addasu yn y Sector Cyhoeddus

Mae'r gyllideb arfaethedig yn cynnwys swm o £350k ar gyfer gwaith addasu sylweddol i'r anabl. Mae enghreifftiau nodweddiadol o'r gwaith yn cynnwys gosod lifftiau grisiau, darparu cawodydd mynediad lefel gwastad ac estyniadau.

4.1.9 Gwaith Perfformiad Ynni

Yn dilyn ymweliad Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod Hydref 2017, datblygwyd Cynllun Gweithredu i daclo methiannau derbynol mewn cysylltiad â pherfformiad egni. Y Sgôr Ynni a bennwyd fel targed ar gyfer cydymffurfio a SATC dan y Weithdrefn Asesu Safonol (SAP) yw 65.

Yn dilyn arolwg o sampl cynrychioliadol o 20% o'r stoc yn 2013, derbyniwyd cadarnhad nad oedd 726 o'n hanheddau yn cwrdd â'r sgôr ynni o 65. Ar y sail yma rydym yn adrodd ar fethiannau derbynol yn y categori hwn i Lywodraeth Cymru.

Gan ystyried y gwaith a gwblhawyd eisoes a sgorau ynni gwell yr anheddau hynny yr ail fesurwyd eu perfformiad ynni, rydym yn hyderus y bydd gan y mwyafrif helaeth o'n heiddo a wasanaethir gan brif gyflenwad nwy neu wres canolog olew sgôr ynni o 65 neu fwy. Er mwyn gwirio'r datganiad hwn, rydym yn bwriadu ail fesur yr holl eiddo lle bu "methiant derbynol" yn y categori hwn yn ystod 2018/19. Bydd unrhyw anheddau lle mae eu sgôr yn parhau i fod o dan 65 yn cael eu hasesu'n unigol i benderfynu a fyddai gwaith pellach yn ymarferol neu'n economaidd hyfyw.

Mae'r Cynllun Gweithredu yn clustnodi £1.0m y flwyddyn dros y ddwy flynedd uchod ac yng ngoleuni'r uchod, byddwn yn canolbwyntio buddsoddiad ynni adnewyddadwy ar eiddo a wasanaethir gan systemau gwresogi LPG neu storio trydan, fel arfer Economi 7 neu Economi 10.

Yn ystod 2018/19 y bwriad yw targedu 229 eiddo a wasanaethir gan systemau gwresogi LPG a gosod systemau Solar PV. Ar gyfartaledd, eiddo yn y categori yma sydd hefo sgôr SAP isaf yn ein stoc tai. Dylid nodi bod y mwyafrif o'r eiddo yma naill ai'n fyngalos ar stadau tai gwarchod neu wedi eu dynodi'n benodol ar gyfer pensiynwyr.

4.1.10 Gwaith Amgylcheddol

Mae Safon Amgylcheddol SATC yn ei gwneud yn ofynnol i gartrefi gael eu lleoli mewn 'amgylchedd deniadol a diogel y gall preswylwyr gysylltu ag o a lle gallant fod yn falch o fyw yno'.

Er mwyn cyflawni amgylchiadau amgylcheddol byddwn yn parhau i ariannu'r Gronfa Gwella Amgylcheddol a Chymunedol lle gwahoddir tenantiaid i gyflwyno ceisiadau am arian tuag at welliannau cymunedol o'u dewis. Roedd 17 o geisiadau llwyddiannus yn 2017/18.

Neilltuir cyfanswm o £500k tuag at welliannau amgylcheddol yn 2018/19. Bydd cyfran sylweddol o'r gyllideb hon yn cael ei ddefnyddio i gychwyn ar raglen 3 blynedd

a fydd yn cynnwys dymchwel 202 o garejys nad ydynt bellach yn ymarferol i'w cynnal. Bydd y rhaglen hon yn cyflawni gwelliannau amgylcheddol yn ymwneud â pharcio, gwella diogelwch a gwella edrychiad ardaloedd yn gyffredinol.

4.2 Rhaglen Adeiladu Tai Cyngor


Erbyn hyn, mae Rheolwr Datblygu Tai wedi ei benodi hefo'r cyfrifoldeb o wireddu'r rhaglen ddatblygu a'r targedau adeiladu tai newydd sydd wedi eu pennu. Mae Rhaglen Datblygu Tai Cyngor yr Awdurdod ar gyfer 2018-2022 yn cynnwys targedau i gynyddu'r stoc dai 265 uned dros y cyfnod 3 mlynedd nesaf.

Er ein bod wedi gosod targedau i gychwyn adeiladu tai yn ystod 2017/18, ni gychwynwyd ar unrhyw unedau. Fodd bynnag, bu'n flwyddyn brysur o adnabod tiroedd addas o fewn meddiant yr Awdurdod ac o drafod safleoedd posibl gyda datblygwyr. Yn ystod y flwyddyn, buom yn llunio prosesau a gweithdrefnau newydd i'w dilyn tra'n adeiladu tai newydd ac yn sicrhau cymeradwyaeth y gweithdrefnau hyn gan y gwahanol adrannau o fewn y Cyngor. Rydym bellach mewn sefyllfa i gychwyn ar raglen ddatblygu o ddifrif.

Ein bwriad yw lansio'r Rhaglen Datblygu Tai Cyngor ym mis Ebrill 2018, a gwahodd datblygwyr a thirfeddianwyr sydd a diddordeb cydweithio gyda'r Cyngor i gysylltu â ni.

Mae'r map isod yn dangos yr ardaloedd ble mae cyfleon datblygu tai cyngor newydd wedi eu hadnabod, ac rydym eisoes wedi derbyn caniatâd cynllunio ac wedi bod yn llwyddiannus gyda cais Grant o Raglen Tai Arloesol Llywodraeth Cymru ar gyfer 4 uned 'modular' ar gyfer pobl ifanc yng Nghaergybi.

Hefyd, mae cais cynllunio llawn wedi ei gyflwyno am 6 o unedau pellach yng Nghaergybi ac rydym ar hyn o bryd yn gweithio ar safleoedd yn Llanfaethlu, Llanfachraeth, Caergeiliog, Amlwch a Moelfre. Mae'r map isod yn dangos lleoliadau amrywiol ar gyfer datblygiadau.



Yn ystod 2018/19 mae gennym gynlluniau i ddechrau datblygu 45 o unedau yn ystod y flwyddyn yn ogystal â chynlluniau i brynu 20 eiddo a arferai fod yn berchen i'r Cyngor. Fe gwblhawyd pryniant 10 hen dai Cyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2017/18 a oedd wedi eu gwerthu yn y gorffennol drwy'r cynllun hawl i brynu.

Dyma fydd ein rhaglen ddiwygiedig ar gyfer adeiladu tai cyngor yn ystod y tair blynedd nesaf:-

Blwyddyn	Cyfanswm
2018/19	45
2019/20	60
2020/21	60
Cyfanswm	165

O ganlyniad i'r cynnydd yn ein rhaglen ddatblygu, byddwn yn defnyddio cyfran o gap benthycu Cyfrif Refeniw Tai sydd tua £13 miliwn o fewn y 3 mlynedd cyntaf. Mae'r cynllun 30 mlynedd yn rhagdybio defnydd llawn o'r cap benthycu.

Mae Tîm Cyllid Arloesol Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y bydd yr ail rownd o'r rhaglen Grant Cyllid Tai ar gael o Ebrill 2017 ac y bydd gan awdurdodau lleol sy'n cadw stoc fynediad i'r ffynhonnell hon o nawdd grant o Ebrill 2018 fydd o bosib yn cyfrannu tuag at ariannu ein rhaglen ddatblygu.

5.1 Monitro a Gwerthuso

5.1.1 Rheoli Perfformiad

Mae dull corfforaethol o fesur ansawdd gwasanaethau ac adrodd ar berfformiad yn chwarterol trwy gerdyn sgorio perfformiad corfforaethol y Cyngor ac yn flynyddol wedyn trwy gyflwyno Adroddiad Blynyddol ar Berfformiad. Caiff y ddau adroddiad eu sgrwtineiddio a'u herio gan Uwch Swyddogion ac yn gyhoeddus trwy'r Cyfarfod Sgrwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith / y Cyngor.

Cynhelir adolygiadau gwasanaethau ddwywaith y flwyddyn ac maent yn canolbwyntio ar eu rheolaeth ariannol (Mehffin) a'u perfformiad (Tachwedd).

Bydd Tim Rheoli'r Gwasanaeth Tai monitro canlyniadau perfformiad yn chwarterol yn erbyn ragodau gosodwyd am y flwyddyn

Dangosyddion Perfformiad Allweddol y Gwasanaeth Tai

Dangosyddion	2016-17	2017-18		Targed 2017/18	Perfformiad
	Canlyniad	Chwarter 1	Chwarter 3		
Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan denantiaid cyfredol fel canran o gyfanswm y rhent a gesglir am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol	2.37%	2.49% (£403,678.37)	1.85% (£295,365.13)	2.25%	↑
Cyfanswm yr ôl-ddyledion rhent sy'n ddyledus gan gyn-denantiaid fel canran o'r cyfanswm rhent y gellir ei gasglu am y flwyddyn ariannol ar gyfer llety parhaol	1.46%	1.38% (£223,688.24)	1.54% (£245,161.68)	1.50%	↓
Cyfartaledd ôl-ddyledion tenantiaeth pan ddaeth i ben	£484.80	£459.03	£500.25	£500.00	↓
Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol	38.4	26.7	25.8	33	↑
Y nifer gyfartalog o ddiwrnodau calendr a gymerir i osod unedau llety parhaol y gellir eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol (heb gynnwys TAG)	28	19.3	17.7	23	↑
Nifer tai a ail-osodwyd ar y cynnig cyntaf	66.30%	64.06%	70.05%	80.00%	↑
% o Atgyweiriadau arferol wedi'u cwblhau o fewn amserlen	76.10%	76.90%	78.68%	95.00%	↑
% o denantiaid yn fodlon gydag atgyweiriadau ymatebol	90.20%	89.58%	89.23%	92.00%	↓
% wedi ei cwblhau mewn un ymweliad	98.00%	98.22%	99.30%	90.00%	↑
% o Gartrefi gyda CP12 cyfredol	100.00%	100.00%	100.00%	100%	↔
% o alwadau wedi ei ateb	94.90%	94.70%	94.20%	90%	↓
Cyfartaledd amser i ateb (eiliadau)	19secs	15	20secs	20secs	↓
Nifer y galwadau a gafodd eu fel % o'r holl alwadau	5.10%	5.30%	5.80%	5%	↓
Cyfartaledd o ddiwrnodau calendr a gymerir i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl (DFG)	238.8 (290.2)	221.7 (255.9)	181.4 (248.3)	200	↑

5.1.2 Perfformiad Meincnodi a Chostau

Crynodeb yw'r tabl isod o'n prif gostau, perfformiadau a'n mesurau boddhad ar gyfer 2016/17. Y chwarterl yw ein lleoliad ar y mesur hwn o gymharu â'n grŵp cyfoedion.

Sylwch ein bod wedi darparu chwarterli lliw coch, ambr a gwyrdd ar gyfer mesuriadau cost yn y tabl hwn er mwyn ei gwneud yn haws i'w ddehongli.

Headline Measure	Our Result	Quartile	Our Result	Quartile	Trend
Cost Headlines					
	2015-16		2016-17		
Overheads as a % of adjusted turnover	7.69%	Upper	7.04%	Upper	↑
Total Cost per Property (CPP) of housing Management	£397	Upper	£497	Middle Lower	↓
Total CCP of Responsive Repairs and Void Works	£1,066	Middle Lower	£1,073	Lower	↓
Total CCP of Major Works & Cyclical Maintenance	£1,874	Middle Lower	£2,574	Lower	↓
Operational performance headlines					
Rent arrears of current tenants net of unpaid HB as % of rent due	3.0%	Middle Lower	2.4%	Middle Lower	↑
Average re-let time in days (standard re-lets)	45.6 days	Middle Lower	38.4 days	Middle Lower	↑
Rent loss due to empty properties (voids) as % rent due	1.56%	Middle Lower	1.19%	Middle Lower	↑
Average number of calendar days taken to complete repairs	17.62 days	Lower	12.26 days	Middle Lower	↑
percentage of properties with a valid gas safety certificate	100%	Upper	100%	Upper	↔
Staff turnover in the year %	10.3%	Middle Top	3.8%	Upper	↑
Sickness absence average working days/shifts lost per employee	13.9 days	Lower	9.4%	Median	↑
Satisfaction headlines (*)					
Satisfaction with the service provided (%)	84.0%	Median	84.0%	Median	↔
Satisfaction that views being listened to (%)	67.0%	Middle Lower	67.0%	Middle Lower	↔
Satisfaction with the repairs & maintenance service (%)	76.0%	Middle Lower	76.0%	Middle Lower	↔
Satisfaction with rent VFM (%)	69.0%	Lower	69.0%	Lower	↔
Satisfaction with quality of home (%)	80.0%	Middle Lower	80.0%	Middle Lower	↔
Satisfaction with neighbourhood (%)	91%	Upper	91%	Upper	↔

* Satisfaction Figures for 2016-17 taken from STAR Survey undertaken in 2015-16

5.1.3 Statws Gwaith Tenantiaid y Cyngor

Mae gwybodaeth am proffeil ein Tenantiaid yn dweud wrthym bod:

- 1605 o'n tenantiaid wedi ymddeol
- 489 ddim yn gweithio oherwydd salwch tymor hir neu anabledd
- 352 yn derbyn budd daliadau
- Mae 2217 o Denantiaid yn dweud eu bod yn Gymraeg ac 1321 yn Brydeinig Gwyn
- Mae 2070 o aelwydydd yn defnyddio Saesneg fel prif iaith ac 1559 yn defnyddio Cymraeg fel ei prif iaith
- 1131 o aelwydydd yn sengl ac 1045 wedi priodi

5.1.4 Yr Iaith Gymraeg

Mae gofyn statudol i Gyrrff Cyhoeddus yng Nghymru i gydymffurfio gyda'r Mesur Iaith 2011 a'r Safonau Iaith mewn gwahanol sefyllfaoedd megis:

- cyflenwi gwasanaethau
- llunio polisi
- gweithredu
- hybu
- cadw cofnodion

Mae'r dyletswyddau sy'n deillio o'r safonau yn golygu y dylai Cyngor Sir Ynys Môn a sefydliadau eraill beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Hefyd dylid hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg (sef ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau o ddydd i ddydd).

Pwrpas y safonau yma yw:

- ei gwneud hi'n eglur i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg
- ei gwneud hi'n fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg
- sicrhau mwy o gysondeb o ran gwasanaethau Cymraeg a gwella eu hansawdd

Cyhoeddodd Cyngor Sir Ynys Môn yn ddiweddar ei fod yn bwriadu gweithio tuag at fod yn weinyddiaeth sy'n gweithredu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg, tra'n parhau i barchu'r angen am ddarpariaeth ddwyieithog, ble bo'r angen.

Mae sawl her yn wynebu'r Cyngor er mwyn gwireddu'r nod yma, ac mae'r gwaith eisoes yn symud yn ei flaen, gyda nifer o gynlluniau mewn lle a chyfarfodydd monitro, craffu a thrafod cynnydd ac arfer da yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

Un o'r cynlluniau sydd ar waith yw cynllun Peilot o fewn y Gwasanaeth Tai, i ysgogi staff i wneud fwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar yn gweithle. Bellach mae'r Cynllun yma wedi bod ar waith o fewn y gwasanaeth ers mis Chwefror 2017.

Heb os, mae cynnydd wedi i'w wneud o fewn y gwasanaeth, parthed defnydd o'r Gymraeg. Mae mwy o staff sy'n unai ail iaith neu'n ddysgwyr bellach yn barod i gyfathrebu gyda chydweithwyr yn y swyddfa ac mewn cyfarfodydd nac o'r blaen. Yn yr un modd mae mwy o Gymry Cymraeg oedd gynt yn anfoddog iawn i ysgrifennu adroddiad neu hyd yn oed e-bost mewn rhai achosion, bellach yn gwneud hyn.

6 Rheoli Risg

6.1 Cofrestr Risg Gorfforaethol

Mae'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn adnabod y risgiau hynny allai effeithio ar allu'r Cyngor i gwrdd â'i nodau ac amcanion corfforaethol. Mae'n adnabod ffynhonnell ac effeithiau'r risg, a'r tebygrwydd y bydd yn digwydd, yr effaith y gallai gael, ac unrhyw gamau lliniaru y bernir eu bod yn angenrheidiol i reoli'r risg. Adolygir y Gofrestr Risg Gorfforaethol o leiaf bob chwarter bob blwyddyn ac yn sgil unrhyw newidiadau arwyddocaol.

6.2 Cofrestr Risg Tai

Mae'r holl Swyddogion yn gyfrifol am adnabod risgiau sy'n fygythiad i'w maes gweithgarwch. Mae'r Tîm Rheoli Tai yn gyfrifol ac yn atebol am weithredu a rheoli'r risgiau.

Cymerir camau Rheoli Risg ar gyfer pob risg a nodir – ac mae unrhyw risgiau newydd yn cael eu cofnodi yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth. Mae'r prif risgiau yng Nghofrestr Risg y Gwasanaeth Tai yn cael eu cynnwys yng Nghofrestr Risg Gorfforaethol y Cyngor hefyd.

Y Risgiau Gweithredol Allweddol ar gyfer y Gwasanaeth Tai yw:-

- Cyfyngu ar renti – yn sgil yr hyn sy'n digwydd yn Lloegr o ran rhenti
- Cynnydd mewn chwyddiant – fyddai'n arwain at gynyddu costau
- Chwyddiant mewn costau yn lleol yn sgil Wylfa Newydd
- Diwygio Lles

Profwyd cadernid y Cynllun Busnes er mwyn cymryd y risgiau i ystyriaeth, yn unigol a gyda'i gilydd, ac mae'r cynllun busnes yn parhau i fod yn hyfyw drwy gydol y cyfnod o 30 mlynedd (gweler yr atodiad).

6.3 Cynllun Parhad Busnes y Gwasanaeth Tai

Yn ystod 2015 / 2016 cynhyrchwyd Cynllun Parhad Busnes gan y Gwasanaeth Tai ochr yn ochr â Chynllun Busnes Corfforaethol y Cyngor. Mae'r Cynllun Parhad Busnes yn esbonio beth fyddem yn ei wneud petai rywbeth difrifol yn digwydd i'r Gwasanaeth Tai. Er enghraifft:

- petai swyddfeydd y Cyngor yn cael eu difrodi'n ddifrifol neu petaem yn colli llawer o staff, oherwydd salwch o bosib.
- Bygythiadau o ran darparu gwasanaeth y gellir eu rhagweld (megis TGCh, rheoli data, tywydd garw, nam difrifol ar linellau careline neu BT).
- Y camau i'w cymryd yn sgil achosion o E-bola, epidemig fflw.
- Ffyrdd o leihau'r bygythiad / risg
- Camau adfer yn dilyn argyfwng a blaenoriaethau
- Camau cychwynnol i'w cymryd

Mae'r cynllun hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd

7 Cynllun Ariannol CRT

7.1.1 Rhagdybiaethau Ariannol Sylfaenol

Defnyddir yr wybodaeth isod fel rhagdybiaethau ariannol ar gyfer y Cynllun Busnes:

- Cyfrifir chwyddiant ar sail cyfradd darged y Llywodraeth o 2% y flwyddyn.
- Rhagdybir y bydd gwariant ar gynnal a chadw a datblygiadau tai cyngor newydd yn cynyddu gan 1% uwchben targed chwyddiant pob blwyddyn, heblaw am rhwng 2019/20 a 2025/26 (pan disgwylir bydd Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu) pan disgwylir bydd y costau yn cynyddu gan 3% uwchben y targed chwyddiant.
- Rhagdybir y bydd y rhent targed yn codi 1.5% uwchlaw chwyddiant bob blwyddyn hyd at 2018/19 ac 1% uwchlaw chwyddiant wedi hynny.
- Mae'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn 1.25% am 2018/19, 1.5% o 2019/20 (wrth i Gredyd Cynhwysol gael ei weithredu, yn lleihau 0.1% bob 2 flynedd nes cyrhaeddir lefel o 0.6% unwaith eto).
- Disgwylir i golledion oherwydd eiddo gwag fod yn 1.25%
- Mae incwm cefnogi pobl yn ymwneud â'r cyfraniad y cytunwyd arno tuag at osod larymau yn eiddo CRT. Ni ddisgwylir i hwn godi gyda chwyddiant.
- Hawl i Brynu wedi ei ohirio drwy gydol cyfnod y cynllun.
- Mae'r cynllun cyfalaf yn seiliedig ar Archwiliad Stoc, gyda gwaith adnewyddu cydrannau'n cael ei wneud yn unol â chylch bywyd cydrannau.
- Rhagdybir y bydd rhaglen ddatblygu ar gyfer prynu tai ac adeiladu tai newydd yn parhau gyda 45 uned yn ystod 2018/19, 60 uned yn dilyn hynny yn 2019/20, 60 uned yn 2020/21, 100 uned (yn cynnwys 40 uned Tai Gofal Ychwanegol) yn 2021/22. Yn dilyn y cyfnod hyn bydd y rhaglen datblygu tai cyngor newydd yn

ddibynnol ar fod yn cadw o fewn ein cap benthycia gyda 942 o unedau ychwanegol yn cael eu datblygu yn ystod cyfnod y cynllun hwn.

- Rhagdybir y bydd y gyfradd llog ar falansau credyd yn 0.33% y flwyddyn. Rhagdybir y bydd benthyciadau newydd dros gyfnod o 50 mlynedd gyda chyfradd llog o 2.65%.
- Mae'r rhaglen gyfalaf yn cynnwys swm o £8m ar gyfer 40 uned Cynllun Tai Gofal Ychwanegol fydd yn cael ei ddatblygu yn ystod 2020/21 a 2021/22.
- Rhagdybir na fydd dyledion yn cael eu had-dalu'n gynnar
- Mae incwm arall yn cynnwys incwm gwerthu trydan i'r grid cenedlaethol, comisiwn o werthu yswiriant, ffioedd carthffosiaeth a gwaith cynnal a chadw y gellir codi tâl amdanynt.

7.1.2 Polisi Rheoli Trysorlys

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull un gronfa mewn perthynas â benthyciadau, sy'n golygu bod costau benthycia'n cael eu cyfrifo yn ôl cyfartaledd y gronfa gyffredinol a'r CRT ar sail cyfran y cyllid cyfalaf sydd ei angen ar y naill gronfa a'r llall.

Cyllidebau Cyfalaf a Refeniw 5 Mlynedd

Cyllidebau Refeniw Drafft

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Costau Rheoli	2,936	2,995	3,055	3,116	3,178
Trwsio a Chynnal a Chadw	3,869	4,040	4,307	4,614	4,923
Costau Eraill	500				
Costau Ariannu Cyfalaf	2,987	2,984	3,223	3,466	3,529
Cyfraniad i'r Rhaglen Gyfalaf	9,528	9,450	9,471	10,634	8,468
Cyfanswm Gwariant	19,820	19,469	20,056	21,830	20,098
Incwm Rhent Net	17,122	18,580	19,459	20,877	22,264
Incwm Arall	598	587	578	570	569
Llog ar Falansau					
Cyfanswm Incwm	17,720	19,167	20,037	21,447	22,833
Arian Refeniw yn Weddill / (Diffyg)	- 2,100	-302	-19	-383	2,735
Balans a Ddygir Ymlaen	4,284	2,184	1,882	1,863	1,480
Balans a Gariwyd Ymlaen	2,184	1,882	1,863	1,480	4,215

Cyllideb Gyfalaf Ddrafft

	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22	2022/23
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwelliannau a Chynnal a Chadw SATC	7,000	4,496	4,794	5,135	5,479
Adeiladu Tai Newydd	6,188	8,614	13,637	14,609	5,249
Adnewyddu/Ailfodelu stoc bresennol	-	-	-	-	-
Gwariant eraill	-	-	-	-	400
Cyfanswm Gwariant Cyfalaf	13,188	13,110	18,431	19,744	11,128
Cyllid Cyfalaf					
Lwfans Atgyweiriadau Mawr	2,660	2,660	2,660	2,660	2,660
Benthyca	1,000	1,000	6,300	6,450	-
Gwariant Cyfalaf a gyllidir gan y CRT	9,528	9,450	9,471	10,634	8,468
Cyfanswm Cyllid Cyfalaf	13,188	13,110	18,431	19,744	11,128

8.0 CYNLLUN GWEITHREDU Blaenoriaethau Allweddol CRT 2018 / 2019

Camau Gweithredu	Y sawl sy'n gyfrifol	Dyddiad targed
Lawnsio Rhaglen Datblygu Tai Cyngor Newydd sy'n cynnwys adeiladu o'r newydd ar diroedd y Cyngor ynghyd a phecynnau dylunio ac adeiladu gyda datblygwyr preifat.	Rheolwr Datblygu Tai Cyngor	Mehefin 18
Cytuno cynllun prosiect ar gyfer datblygu trydydd Cynllun Tai Gofal Ychwanegol yr ynys sydd i'w ddatblygu yn ardal Seiriol.	Rheolwr Datblygu Tai Cyngor	Awst 18
Cydweithio gyda Gwasanaethau Plant i ganfod dau eiddo addas i'w sefydlu fel Cartref Grŵp i blant sydd wedi eu lleoli tu allan i'r sir.	Rheolwr Datblygu Tai Cyngor	Medi 19
Yn dilyn ail fodelu Llawr y Dref symud ymlaen i osod y cynllun yn ei newydd wedd sy'n cynnwys 3 uned arbenigol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion i asesu unigolion sy'n barod i symud ymlaen o ddarpariaeth gofal 24awr i fyw yn annibynnol.	Rheolwr Opsiynnau Tai/ Prif Swyddog Datblygu	Mehefin 18
Cwblhau gwaith o allanoli storfa'r Uned Cynnal a Chadw Tai yng Ngaerwen.	Rheolwr Gwasanaethau Technegol	Mehefin 18
Paratoi ar gyfer gweithredu newidiadau cysylltiedig a'r Ddeddf Rhentu Cymru.	Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynnu	Rhagfyr 18
Gwella perfformiad cysylltiedig ag atal Digartrefeddyn unol a Deddf Tai (Cymru) 2014.	Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol	Yn gyson drwy'r flwyddyn
Cynnal asesiad o'r anghenion tai lleol a llunio Strategaeth Tai Lleol 2019 – 2024.	Rheolwr Gwasanaeth Strategaeth a Chomisiynnu	Chwefror 19
Parhau gyda rhaglen welliannau ar gyfer yr unedau sydd ddim yn cwrdd a Safonau Ansawdd Tai Cymru ar y sail methiannau derbyniol.	Rheolwr Gwasanaethau Technegol	Yn gyson drwy'r flwyddyn

Atodiad 1

Dadansoddiad Sensitifrwydd

Dadansoddiad Sensitifrwydd y Cynllun 30 Mlynedd

Appendix 1

30 Year Plan Sensitivity Analysis

Year	Scenario	Increase Bad Debt by 1.0%	No MRA Grant from 2019/20	Increase Maintenance costs by a further 1%	Increase Rents by Inflation +0% +£0 from 2019/20	Debt Cap Increased to £65m
	Base Case	Surplus (Deficit) c/fwd £,000	Surplus (Deficit) c/fwd £,000	Surplus (Deficit) c/fwd £,000	Surplus (Deficit) c/fwd £,000	Surplus (Deficit) c/fwd £,000
2018.19		2,184	2,008	2,184	2,184	2,184
2019.20		1,882	1,514	1,368	1,715	1,307
2020.21		1,863	1,447	1,446	1,412	3,494
2021.22		1,480	1,343	1,522	1,337	11,088
2022.23		4,215	3,842	1,508	3,452	16,371
2023.24		6,119	5,508	3,492	4,183	20,956
2024.25		2,683	1,823	1,412	2,451	18,461
2025.26		1,389	1,502	1,467	1,660	17,586
2026.27		1,690	1,532	1,305	2,451	15,245
2027.28		2,050	1,610	1,476	3,090	12,930
2028.29		3,391	2,657	3,327	4,572	14,071
2029.30		4,095	3,056	4,168	5,183	14,320
2030.31		4,117	2,763	3,746	2,034	14,850
2031.32		4,966	3,277	4,191	1,550	15,817
2032.33		5,351	3,322	4,263	2,636	16,220
2033.34		5,575	3,203	4,423	5,558	16,470
2034.35		1,899	1,425	2,652	4,375	12,629
2035.36		2,205	1,356	2,920	4,024	9,582
2036.37		1,665	1,320	3,237	2,449	5,098
2037.38		2,104	1,357	2,019	1,502	1,403

2038.39	1,415	1,537	2,134	1,647	1,344	1,335
2039.40	1,876	1,607	2,248	2,233	1,570	1,578
2040.41	1,487	1,502	1,584	2,011	1,575	1,321
2041.42	1,803	1,445	1,724	2,060	1,723	1,423
2042.43	2,452	1,690	1,848	1,608	1,533	1,863
2043.44	2,779	1,603	1,338	1,585	1,588	1,983
2044.45	3,255	1,661	1,542	2,332	2,750	1,907
2045.46	2,351	1,561	1,617	1,773	1,492	1,979
2046.47	2,184	1,371	1,354	1,515	1,353	1,752
2047.48	1,957	1,549	1,470	1,716	1,454	1,649

Debt

Headroom	7	7	7	7	7	27
New Properties	942	909	618	511	208	960
	Convergence Reached in 2023/24	Convergence Reached in 2023/24	Convergence Reached in 2023/24	Convergence Reached in 2023/24	Convergence not reached	Convergence Reached in 2023/24

Dengys y cynllun busnes achos sylfaenol fod y CRT ar seiliau ariannol cadarn oherwydd bod cyflwr y stoc tai yn cwrdd â Safonau Ansawdd Tai Cymru. Mae'r Cyngor yn cynllunio i fuddsoddi'n sylweddol er mwyn datblygu cartrefi newydd ac ail-brynu cyn tai Cyngor, fydd yn arwain at 942 o dai ychwanegol dros y cyfnod 30 mlynedd. Er mwyn gwneud hyn, bydd rhaid i'r Cyngor fenthycu arian ychwanegol ac yn aros o fewn y cap benthyca sydd yn cael ei gyrraedd yn ystod 2023/24.

Cynnydd mewn Dyledion Drwg

Petai'r ddarpariaeth ar gyfer dyledion drwg yn cynyddu 1% uwchben y ddarpariaeth yn yr achos sylfaenol byddai'n rhaid i'r Cyngor leihau ei fuddsoddiad mewn eiddo newydd, gan leihau'r tai ychwanegol i 909.

Colli'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr

Petai'r grant Lwfans Atgyweiriadau Mawr bresennol o £2.66m y flwyddyn yn cael ei ddileu ar ôl 2018/19, byddai'n rhaid i'r Cyngor ostwng nifer y tai ychwanegol i 618.

Cynyddu Costau Cynnal a Chadw 2% yn ychwanegol uwchlaw chwyddiant

Mae'r achos sylfaenol yn gwneud rhagdybiaeth ofalus y bydd costau cynnal a chadw'n cynyddu 1% uwchlaw chwyddiant drwy gydol cyfnod y cynllun, gyda chynnydd ychwanegol o 2% tra bod Wylfa Newydd yn cael ei adeiladu. Petai gynnydd pellach o 2% y flwyddyn yn y costau byddai'n rhaid i'r Cyngor ostwng nifer yr eiddo i 511. Ni fyddai rhaglen datblygu tai cyngor newydd yn digwydd rhwng 2033/34 a 2037/38.

Cynyddu rhenti yn ôl cyfradd chwyddiant yn unig ar ôl 2019/20

Petai polisi rhent Llywodraeth Cymru'n newid gan olygu y byddai rhenti'n codi yn ôl cyfradd chwyddiant yn unig byddai'r nifer o unedau newydd sy'n cael eu datblygu yn gostwng i 208. Ni fyddai unrhyw raglen datblygu tai cyngor newydd rhwng 2022/23 a 2037/38.

Cynyddu'r Cap Benthycia i £65m

Mae cap benthycia'r Cyngor yn £58.5m. Pe byddai'r Cyngor yn cael cynyddu'r cyfleuster benthycia hwn i £65m byddai'r nifer o dai cyngor newydd sy'n cael ei adeiladu yn ystod cyfnod y cynllun yn cynyddu i 960, gyda'r cap benthycia newydd yn cael ei gyrraedd yn 2027/28.

Cyfuniad o'r Senarios

Mewn amgylchiadau lle byddai cyfuniad o'r senarios yn digwydd byddai'r rhaglen datblygu tai cyngor newydd yn cael ei addasu i adlewyrchu'r arian byddai ar gael.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26 Mawrth 2018
Pwnc:	Moderneiddio Ysgolion ar Ynys Môn – Adroddiad ar y broses ymgynghori statudol ar gyfer y cynnig i ehangu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn
Aelod(au) Portffolio:	Y Cyngorydd R. Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Delyth Molyneux
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Emrys Bebb
Aelodau Lleol:	Cyngorydd Dylan Rees Cyngorydd Nicola Roberts Cyngorydd Robert G Parry

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn ei gyfarfod ar Ragfyr 19, 2016 penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn awdurdodi swyddogion i barhau i'r broses ymgynghori statudol, ac ymgynghori ar opsiwn A a B sydd wedi eu hamlinellu isod, mewn ymgais i foderneiddio darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangefni

Opsiw A

Bydd hyn yn seiliedig ar:

Opsiw 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiw 6a, adeiladu ysgol gynradd newydd yng Ngaerwen ar safle arall, ar gyfer 150 o blant.

Ysgol I gymryd lle yr ysgol bresennol Ysgol Esceifiog

Opsiw 7, ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. **Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn**

Opsiw 9, addasiadau i Ysgol Henblas

Opsiw B

Bydd hyn yn seiliedig ar:

Opsiw 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiw 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog

Opsiw 7, ymestyn Ysgol y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn. Cau Ysgol Talwrn. **Bydd angen ymgynghoriad pellach ar yr opsiwn o ymestyn Ysgol y Graig I gymryd plant o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn**

Opsiw 9, addasiadau i Ysgol Henblas

Mae'r ddau opsiwn uchod yn cynnwys ffedereiddio Ysgol Henblas efo ysgol arall. Mae'r gwahaniaeth rhwng opsiwn A a B yn berthnasol i Ysgol Esceifiog.

Ymgynghorodd y Cyngor efo rhieni, Llywodraethwyr a staff y chwech ysgol yn yr ardal, aelodau etholedig lleol, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 31ain Ionawr - 13eg Fawrth 2017 Yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn i gymeradwyo opsiwn B.

Mae Opsiwn B yn cynnwys yr is-opsiynau canlynol:

Opsiwn 3, adeiladu ysgol newydd i gymryd lle Ysgol Corn Hir ac Ysgol Bodffordd.

Opsiwn 7, ymestyn Ysgol Y Graig i gymryd plant o Ysgol Talwrn a chau Ysgol Talwrn. Mae'r adroddiad yn cadarnhau nad oes llefydd digonol ar safle presennol yr ysgol i ymestyn, a chaniatáu digon o lefydd chwarae. **Y cynnig yw - swyddogion i ymgynghori ymhellach efo rhanddeiliaid perthnasol ar yr holl opsiynau i ymestyn Ysgol y Graig, i gyd-fynd efo cynnwys yr adroddiad ar yr ymgynghoriad.**

Opsiwn 8, addasiadau i Ysgol Esceifiog

Opsiwn 9, adnewyddu Ysgol Henblas.

Paratowyd adroddiad ar yr ymgynghori statudol uchod sef ymgynghoriad ar y cynnig I addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn. Roedd y cyfnod ymgynghori yn mynd o 26 Medi hyd at 13 Tachwedd 2017 ac mae canfyddiadau'r ymgynghori yn yr adroddiad atodol. Er hynny, cafwyd cyfnod o oedi ac adolygu o Ragfyr 18 2017 tan 9 Chwefror 2018 ac roedd yr adroddiad ar yr ymgynghori statudol yn hwyr yn cael ei gwflwyno.

Argymhelliad

Argymhellir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo:

1. Defnyddio adeilad presennol Ysgol Y Graig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu
2. Cael bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
3. Cau Ysgol Talwrn ac adleoli'r disgyblion i Ysgol Y Graig ar ôl i'r adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen agor ac ar ôl i'r adeilad presennol gael ei addasu
4. Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn y ddarpariaeth newydd
5. Sicrhau fod y tyrbîn gwynt ar y safle yn gweithio erbyn diwrnod agor yr adeilad newydd

Byddai'r adeilad newydd yn rhan o Ysgol Y Graig a ni fyddai'n endid ar wahân.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Ystyriwyd cyfanswm o 9 opsiwn yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Llangedfni. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail ar gyfer cymeradwyo opsiwn B.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Gan nad oedd yr adroddiad ar yr ymgynghori statudol wedi ei gyhoeddi o fewn y cyfnod statudol (hyd at 13 wythnos o ddiwedd y cyfnod ymgynghori statudol), y cyngor cyfreithiol yw i ail gychwyn y broses ymgynghori statudol o ran y cynnig hwn. Rhaid i'r cyfnod hwn o leiaf 42 diwrnod o hyd.
5	Adnoddau Dynol (AD)	Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig.
6	Eiddo	Mae swyddogion Eiddo wedi darparu rhai o'r ffigurau yn yr adroddiad
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Ni dderbyniwyd sylwadau
8	Sgriwtini	Ystyriwyd y mater yn fanwl gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 12 Mawrth 2018 ac mae swyddogion wedi darparu atodiadau ychwanegol mewn ymateb i'r materion a godwyd. Gweler Atodiadau 10 ac 11
9	Aelodau Lleol	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Dim yn berthnasol
2	Gwrthlodi	Dim yn berthnasol
3	Trosedd ac Anhrefn	Dim yn berthnasol
4	Amgylcheddol	Dim yn berthnasol
5	Cydraddoldebau	Cafodd asesiad effaith cydraddoldeb ei gynnwys fel rhan o'r broses ymgynghori statudol
6	Cytundebau Canlyniad	Dim yn berthnasol
7	Arall	Dim yn berthnasol

FF - Atodiadau:
Atodiadau 1 - 11

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
<ol style="list-style-type: none"> 1. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Gorffennaf 17, 2017. 2. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Rhagfyr 19, 2016 3. Dogfen Ymgynghori Statudol 4. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer Mehefin 20, 2016 5. Dogfen ymgynghori anstatudol, a'r adroddiad dilynol 6. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013. 7. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014.



SWYDDOGOL – OFFICIAL

**ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL - ARDAL
LLANGEFNI (Ysgol Y Graig ac Ysgol Talwrn)
REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – LLANGEFNI
AREA (Ysgol Y Graig and Ysgol Talwrn)**

26 Medi – 13 Tachwedd 2017 / 26 September – 13 November 2017



**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
ADRAN DYSGU GYDOL OES / LIFELONG LEARNING DEPARTMENT**

www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk

Rhif	CYNNWYS	TUDALEN
1.	CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	3
2.	GYRWYR NEWID	3
3.	Y BROSES YMGYNGHORI	5
4.	SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI	6
5.	YMATEBION O YSGOL TALWRN	7
6.	YMATEBION O YSGOL Y GRAIG	9
7.	YMATEBION ERAILL	10
8.	ADBORTH GAN DDISGYBLION	11
9.	YSTYRIAETHAU ARIANNOL	15
10.	ARGYMHELLIAD	16

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae ar y Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- cyflwyno ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd ohoni drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgol sydd ohoni neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gywyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

Codi safonau addysgol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedrannau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddsbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd

gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, mannau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth ddirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd dros draean neu 36% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brechwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Lleihau nifer llefydd gweigion

Yn Ionawr 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 13.0% ac mae 1.9% o lefydd gweigion yn y 2 ysgol dan sylw, sydd dipyn llai na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o

feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Roedd cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda rhanddeiliaid dros y cyfnod hwn:

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y ddwy ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 26 Medi hyd at 13 Tachwedd 2017.

Cynhaliwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid fel a ganlyn:

		Cyfarfod gyda			
Ysgol	Dyddiad (yn 2017)		Staff	Llywodraethwyr	Rhieni
Y Graig	Dydd Llun	2 Hydref	3.30	5.00	6.30
Talwrn	Dydd Mercher	4 Hydref	3.45	5.15	6.15

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Cynigwyd y syniad gan rieni y dylid adeiladu ysgol gynradd newydd yn Llangefni. Os yw hyn yn golygu adeiladu ysgol gynradd newydd ychwanegol, ni fyddai Cyngor Sir Ynys Môn yn cefnogi hyn oherwydd er byddai'r ysgol gynradd newydd yn ysgol yr unfed ganrif ar hugain, yn unol â'r meini prawf uchod, ni fyddai'n :

- lleihau llefydd gweigion. Yn wir gall arwain at gynnydd mewn llefydd gweigion
- newid y sefyllfa o ran amser di gyswllt i athrawon ohono'i hun.
- gwella deilliannau addysgol ohono'i hun
- lleihau ôl groniad cynnal a chadw na
- gwella effeithlonrwydd ynni. Yn wir, byddai ysgol ac adeilad ychwanegol yn arwain at ddefnyddio mwy o danwydd.

Yn ogystal, mae'n annhebygol iawn byddai Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ysgol gynradd newydd oni bai fod cyfuno ysgolion yn rhan o'r broses.

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Petai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu yn Llangefni, byddai angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylch i'r ysgol gynradd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

Ystyriwyd yr adroddiad hwn gan y Pwyllgor Sgriwtini yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2018. Ar ôl ystyried yr holl wybodaeth a gyflwynwyd a'r sylwadau a wnaed, penderfynodd y Pwyllgor i argymhell i'r Pwyllgor Gwaith –

- Bod adeilad presennol Ysgol y Graig yn cael ei ddefnyddio a'i addasu ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, h.y. blynyddoedd 3 i 6.
- Y dylid adeiladu bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, ee y Flwyddyn Derbyn a Blynyddoedd 1 a 2.
- Ni ddylid cau Ysgol Talwrn.
- Y dylid ystyried symud y ddarpariaeth Dechrau'n Deg yn y ddarpariaeth newydd.
- Sicrhau bod y tyrbin gwynt ar y safle yn gweithio erbyn dyddiad agor yr adeilad newydd.

4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5 o'r adroddiad hwn.

Ysgol Y Graig

Pryder am faint yr adeilad newydd a chyfleusterau yno
Holwyd am amserlen posib y gwaith
Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
Pryder am draffig a pharcio ger yr ysgol
Pryder am effaith posib staffio, swyddi a lleoliad yr adeilad newydd
Holwyd am effaith posib y gwaith ar Dechrau'n Deg

Ysgol Talwrn

Pryderon am swyddi'r staff
Pryderon o ran pa lais fyddai llywodraethwyr Ysgol Talwrn yn cael yn Ysgol Y Graig ddiwygiedig
Holodd rai am ddatganiad yr Ysgrifennydd Cabinet ar Addysg am ysgolion gwledig
Pryderon am gludiant i unrhyw ysgol gynradd arall petai Ysgol Talwrn yn cau.
Pryderon am effaith posib cau ysgol Talwrn ar neuadd y bentref a'r eisteddfod leol
Dymuniad rhai rhieni i Ysgol Talwrn gael ei huno gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth gan eu bod nhw yn "ysgolion gwledig"

Gweler [Atodiad 1](#) am ddiffiniad Cyngor Sir Ynys Môn o Ysgol yr Unfed Ganrif ar Hugain.

5. YMATEBION O YSGOL TALWRN

- 5.1 Derbyniwyd 108 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol. Roedd pob un ohonynt yn anghytuno gyda'r cynnig i gau Ysgol Talwrn.
- 5.2 Roedd Cylch Meithrin Talwrn yn dweud nad ydynt yn cefnogi'r opsiwn [i gau Ysgol Talwrn] ac roedd y Cylch yn gobeithio byddai'r Awdurdod yn "buddsoddi mewn ysgol newydd yn Talwrn." Gweler sylwadau'r Cylch yn [Atodiad 2](#).
- 5.3 Barn swyddogion ac aelodau Capel Nyth Clyd, Y Talwrn oedd eu bod yn "unfrydol na ddylid cau'r ysgol". Roeddent yn teimlo fod yr ysgol yn sylfaen i'r Gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang iawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref". Gweler sylwadau'r swyddogion ac aelodau yn [Atodiad 3](#).
- 5.4 Derbyniwyd llythyr gan Ysgrifennydd Capel Siloam, Talwrn (Capel Annibynwyr) oedd yn "mynegi gwrthwynebiad aelodau'r Capel i gau Ysgol Gynradd y Talwrn". Ei ddymuniad oedd i'r "ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned". Gweler sylwadau Ysgrifennydd Capel Annibynwyr Siloam yn [Atodiad 4](#).
- 5.5 Derbyniwyd llythyr gan Arolygwr Ysgol Sul Siloam, Talwrn (Capel Annibynwyr) oedd yn "mynegi gwrthwynebiad athrawon, aelodau a rhieni aelodau'r Ysgol Sul i gau Ysgol Gynradd y Talwrn". Eu dymuniad oedd i'r "ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned". Gweler sylwadau Arolygwr Ysgol Sul yn [Atodiad 5](#).
- 5.6 Roedd Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn yn "gwrthwynebu cau Ysgol y Talwrn" ac roedd y Pwyllgor yn teimlo fod "yr ysgol yn gonglfaen i gymdeithas y pentref a'r ardal". Roeddent yn teimlo fod yr Eisteddfod " yn rhoi cyfle i feithrin hyder drwy berfformio ar lwyfan, sy'n sgil a fydd o gymorth i unigolion yn y dyfodol yn eu bywydau bob dydd". Barn y Pwyllgor oedd bod y "polisi o gau ysgolion gwledig yn gyfystyr a pholisi o ddifodiant ddiwylliannol a chymdeithasol". Petal Ysgol Gynradd y Talwrn yn cau, barn y Pwyllgor oedd na fyddai "unrhyw ddyfodol i Eisteddfod gadeiriol y Talwrn fel yn wir digwyddodd ym mhentref Llanddeusant". Gweler sylwadau'r Pwyllgor yn [Atodiad 6](#).
- 5.7 Mewn llythyr byr gan Gangen y Talwrn o Ferched y Wawr, roedd yr Ysgrifennydd yn datgan gwrthwynebiad y Gangen i'r "bwriad o gau Ysgol y Talwrn". Roedd y Gangen yn dweud mai "dymuniad y gymuned a'r rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal". Gweler sylwadau Ysgrifennydd y Gangen yn [Atodiad 7](#).
- 5.8 Roedd y staff o'r farn fod Ysgol Talwrn yn "ganolfan allweddol ar gyfer gwasanaethu plant yr ardal leol yn ogystal â'r gymuned ehangach". Roeddent o'r farn mai un "fantais allweddol i ysgol fechan yw'r elfen deuluol sy'n tanlinellu pwysigrwydd pob unigolyn o fewn yr ysgol". Teimlad y staff oedd bod lleoliad yr ysgol "yn ddelfrydol ar gyfer astudiaethau" lleol a'i bod mewn "man diogel delfrydol". Yn ôl y staff, mae "cyfraniad yr ysgol ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn allweddol ar gyfer cadw'r Eisteddfod [y pentref] yn fyw". Yn eu tyb hwy, byddai "cau'r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt". Gweler sylwadau'r staff yn [Atodiad 8](#).
- 5.9 Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod "o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar

gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol". Gweler sylwadau'r Cyngor Cymuned yn [Atodiad 9](#).

- 5.10 Mewn llythyrau personol, dywedodd aelodau o Gorff Llywodraethol Ysgol Talwrn eu bod yn teimlo mai "penderfyniad swyddogion yw cau'r ysgol" ac "nad oes troi ar y penderfyniad". Crybwyllwyd pwysigrwydd yr Eisteddfod leol i'r pentref a'r gymuned gan y Llywodraethwyr ac roeddent yn herio'r ffigurau ôl-groniad cynnal a chadw a cost cael caban newydd i'r ysgol.
- 5.11 Derbyniwyd ymateb ar e-bost gan Bwyllgor Neuadd Bentref Y Talwrn oedd yn datgan: "Ar ran Pwyllgor y Neuadd Bentref, dymunwn ddatgan ein siom fod yr ysgol yn cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad yn y lle cyntaf. Mae'r neuadd yn cydweithio ag Ysgol Y Talwrn ers blynyddoedd, ac mae'r Neuadd yn ddibynnol ar gefnogaeth gan ddisgyblion a rhieni'r ysgol i gefnogi gweithgareddau codi arian a chynhelir yn rheolaidd tuag at gostau cynnal a chadw hanfodol. Yn ogystal, buasai nifer fawr o gymdeithasau megis y Cylch Meithrin, Grŵp Rhiant a Phlentyn, Geidiaid sydd yn cyfarfod yn y Neuadd yn dioddef o'r herwydd."
- 5.12 Cyn cyfarfod o'r Cyngor Llawn y mis Rhagfyr 2017, cyflwynwyd deiseb i Arweinydd y Cyngor. Roedd y rhai oedd wedi llofnodi'r ddeiseb yn:
- Teimlo byddai "unrhyw fygythiad o gau Ysgol Talwrn yn mynd i gael canlyniadau difrifol" ar y pentref a'r gymuned.
 - Gofyn bod "pryderon y llofnodwyr yn cael eu rhoi gerbron y Pwyllgor Gwaith yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
 - Annog y Cyngor i beidio a chau Ysgol Talwrn ond i fuddsoddi ynddi.
- Arwyddwyd y ddeiseb gan 801 o lofnodwyr.
- 5.13 Teimlai 89 o'r ymatebwyr (82%) oedd bod Ysgol Talwrn yn "ysgol fach cefn gwlad" ac felly'n "holl bwysig i'r gymuned ac i'r ffordd Gymreig a'r iaith Gymraeg" ac y byddai cau Ysgol Talwrn yn "lladd y gymuned" a bod yr ysgol yn cynnal y ffordd draddodiadol Gymreig o fyw ac yn "galon " ac "asgwrn cefn" y gymuned.
- 5.14 Canmolwyd safon yr addysg yn Ysgol Talwrn gan 80 (74%) o randdeiliaid ac roedd 53 ohonynt (49%) yn crybwyll y ffigurau yn y ddogfen ymgynghori oedd "yn well ar gyfer Ysgol Talwrn nag Ysgol y Graig" ar gyfer Cyfnod Allweddol 2. Roeddent hefyd yn teimlo fod yr addysg sy'n cael ei ddarparu gan yr ysgol yn "datblygu'r plant yn dda".
- 5.15 Barn 56 (52%) o ymatebwyr oedd bod y costau yn y ddogfen yn amheus a bod y ffigwr o £250,000 am gaban newydd yn afrealistig. Roeddent yn cwestiynu os fyddai benthyciad dros 50 mlynedd i gyllido adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen yn "werth da am arian". Roedd eraill yn dweud gan fod Ysgol Talwrn yn llawn," nid oes angen i'w chau hi".
- 5.16 Roedd teithio posib i Ysgol Y Graig yn bryder a nodwyd gan 42 (39%) o randdeiliaid ac roeddent yn dweud fod y daith i gerdded Ysgol Y Graig yn beryglus.
- 5.17 Roedd 35 o'r ymatebwyr (32%) am i'r Awdurdod adeiladu ysgol newydd yn lle Ysgol Talwrn tra roedd 12 o ymatebwyr (11%) yn meddwl dylai'r Awdurdod ystyried ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall.

- 5.18 Sefyllfa traffig yn Ysgol y Graig oedd yn poeni 24 (22%) o ymatebwyr.
- 5.19 Teimlai 20 o'r ymatebwyr (19%) fod y broses ymgynghori yn annheg.
- 5.20 Yr Eisteddfod leol fyddai'n dioddef petai Ysgol Talwrn yn cau yn ôl 19 o ymatebwyr (18%).
- 5.21 Effaith y broses ymgynghori ar staff yr ysgol oedd o bwys i 17 (16%) o ymatebwyr.
- 5.22 Crybwyllodd 9 ymatebydd (8%) ddatganiad diweddar (10 Tachwedd 2017) yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg ar ysgolion gwledig. Er hynny, yn ôl diffiniad Llywodraeth Cymru, nid yw Ysgol Talwrn ar ei rhestr o ysgolion gwledig.
- 5.23 Cynigwyd syniadau amgen a phwyntiau eraill gan amrywiol randdeiliad sef:
- Defnyddio Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid
 - Adeiladu ysgol gynradd newydd yn y Talwrn neu ei moderneiddio
 - Nid oes sôn yn y ddogfen ymgynghori am effaith posib y cynllun ar allyriadau carbon nag ar effaith posib gwireddu'r cynnig dan sylw ar batrymau gwaith rhieni.
 - Uno Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth.
- 5.24 Gweler fwy o sylwadau ac ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn yn [Atodiad 10](#).

6. YMATEBION O YSGOL Y GRAIG

- 6.1 Derbyniwyd ymateb gan 4 rhanddeiliad sef rhiant a 3 o Lywodraethwyr.
- 6.2 Yr hyn oedd yn poeni'r rhiant oedd y trefniadau parcio presennol nes eu nod yn "ofid" iddynt fel teulu. Profiad y rhiant oedd bod "ceir yn parcio ar linellau dwbl melyn ar ddiwedd dydd, ac ers i'r lôn newydd agor mae llefydd parcio yn fwy prin eto, a'r traffig yn yr ardal wedi cynyddu ymhellach. Mae'n sefyll i reswm bydd y sefyllfa yn gwaethgu eto pan gaiff tai eu codi yn yr ardal ac wrth i niferoedd yr ysgol godi". Yn ogystal roedd y rhiant yn :
- Gobeithio rhoddir ystyriaeth i recriwtio a chyflogi hebryngwyr/ dynion lolipop o ystyried nifer y plant a'r ceir sydd ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.
 - Awgrymu i swyddogion "ymweld a'r ysgol yn ystod amryw o adegau prysur er mwyn deall difrifoldeb y sefyllfa cyn ystyried adeiladu ymhellach ar safle'r ysgol".
- Os bydd y cynllun yn mynd yn ei flaen, roedd y rhiant yn meddwl dylid rhoi ystyriaeth i'r canlynol:
- "Diystyru'r disgwyl bydd pobl sy'n byw o fewn pellter cerdded o'r ysgol yn cerdded" gan nad "yw hyn yn wir pan mae'r tywydd yn wael".
 - "Y nifer o geir yn yr ardal ar nosweithiau prysur e.e. sioeau Nadolig neu mabolgampau pan mae dau riant yn dod o'u gwaith i weld eu plant, a'r angen am lefydd parcio digonol ar gyfer achlysuron tebyg".
 - Yn ôl y rhiant, mae'r niferoedd sydd yn cael mynediad i'r maes parcio" yn cael eu rheoli gan y gofalwr" ond mae yntau'n "derbyn cwynion gan rieni/ gyrwyr taci oherwydd hyn". Roedd yn gobeithio "bydd ystyriaeth yn cael ei roi i staffio

os oes angen adnoddau dynol i reoli'r traffig gan fod recriwtio cymorthyddion, gofawyr a glanhawyr yn ddigon heriol i ysgolion heb osod gofynion pellach arnynt. Annheg byddai disgwyl i'r ysgol gymryd cyfrifoldeb dros staffio'r sefyllfaoedd hyn”.

- 6.3 Roedd y Llywodraethwyr yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid ac yn cefnogi'r cynnig dan sylw. Roeddent yn tynnu sylw at y pwyntiau canlynol:
1. “Bod angen mwy na dau ddsbarth i bob oed gan fod y dosbarthiadau presennol yn llawn”.
 2. “Bod angen cael neuadd yn y bloc newydd ar gyfer cinio ac addysg gorfforol”.
 3. “Angen i staff Cyfnod Sylfaen gael mewnbwn a llywodraethwr i gael mewnbwn i'r dyluniad”
 4. “Gan fod yr ysgol mewn ardal ddifreintiedig”, teimlad y llywodraethwyr oedd y dylid cael ystafelloedd ychwanegol ar gyfer plant sy'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn dosbarth prif lif”.
 5. Yr angen i “ddatrys problemau sydd eisoes yn bodoli e.e.'drainage' a'r tyrbin gwynt sydd ddim yn gweithio”
 6. Angen “digon o ofod yn yr ystafelloedd dosbarth yn unol â safonau'r Ysgolion Unfed Ganrif Ar Hugain”.
 7. “Parcio a'r angen i gael ateb i'r sefyllfa barcio wrth Ysgol Y Graig.”

7. YMATEBION ERAILL

- 7.1 Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Cymuned Llanddyfnan sef cyngor cymuned ar gyfer ardal Talwrn a'r cyffiniau. Ymateb Cyngor Cymuned Llanddyfnan oedd eu bod “o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, ac ysgolion cynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol”. Gweler sylwadau'r Cyngor Cymuned yn [Atodiad 9](#).

NODER - Nid yw Ysgol Talwrn ar restr yr ysgolion gwledig gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion.

- 7.2 Yn ogystal â chwrrd gyda staff, llywodraethwyr a rhieni, anfonwyd y ddogfen ymgynghori at y rhanddeiliaid canlynol:

- Cyngor Gwynedd;
- Swyddogion Llywodraeth Cymru;
- Aelodau Cynulliad rhanbarthol a lleol
- Estyn;
- undebau'r athrawon ac undebau staff ategol;
- y Consortiwm Addysg Rhanbarthol sef GWe;
- y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol sef Taith;
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru;
- y Bartneriaeth Cymunedau yn Gyntaf;
- Mudiad Meithrin;
- Gwasanaeth Ieuencid yr Awdurdod;
- Ysgol Gyfun Llangefni.

7.3 Cafwyd ymateb gan swyddogion undeb yr N.U.T. Roedd eu swyddog yn “gwerthfawrogi angen yr Awdurdod i foderneiddio'r ystâd ysgolion” ond yn “gresynu gyda'r angen am ddiswyddiadau gorfodol fel sy'n digwydd yn ad-drefniad Ysgol Santes Dwynwen”.

7.4 Gweler ymateb Estyn yn [Atodiad 11](#).

8. ADBORTH GAN DDISGYBLION

Cyfarfu swyddogion y Cyngor gyda disgyblion Ysgol Talwrn ac Ysgol y Graig. Y bwriad oedd i gynnal cyfarfodydd byr gyda chynrychiolaeth o ddisgyblion o'r ddwy ysgol, er mwyn canfod eu barn am y cynnig i newid eu hysgol bresennol.

Eglurwyd i'r disgyblion fod ymgynghoriad wedi ei gynnal gyda'r oedolion yn y gymuned, ac roedd hyn yn gyfle i'r plant o'r ysgolion fynegi eu barn am gynlluniau'r Cyngor ar gyfer moderneiddio ysgolion. Pwysleisiwyd bod eu barn yn bwysig gan mai nhw sy'n mynychu'r ysgolion. Dywedwyd wrthynt bydd y wybodaeth a gyflwynir ganddynt yn cael eu trosglwyddo i ffurf adroddiad a'i gyflwyno i Gynghorwyr y Cyngor fel rhan o'r Ymgynghoriad Statudol.

Eglurwyd mai'r rhesymau dros foderneiddio oedd:

- Mae gan ysgolion Ynys Môn gormod o lefydd gwag neu dim digon o lefydd mewn rhai o'u hysgolion
- Angen gwneud yn siŵr bod yr holl ddisgyblion yn cael addysg dda
- Angen gwneud siŵr fod yr ysgol yn fodern ac yn cynnig offer da
- Bod y Cyngor yn gwario eu harian ar ysgolion mewn ffordd deg

Gofynnwyd y cwestiynau canlynol i'r plant:

Beth oedd y disgyblion yn hoffi am eu hysgol bresennol?

Beth yw eich barn am yr opsiwn o addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig

A oeddent yn cytuno gyda'r rhesymau dros newid

Unrhyw sylwadau eraill

Mae'r ymatebion wedi eu cyflwyno isod.

Ysgol Talwrn

Holwyd y Cyngor Ysgol yn y lle cyntaf. Yna cafodd grŵp o blant o oedrannau gwahanol gyfle i ddod am sgwrs. Roedd rhieni'r plant hynny wedi mynegi diddordeb mewn cynnwys eu plant yn yr ymgynghoriad.

Cwestiwn: Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol?

- Rydym yn cael lot o sylw yma.
- Mae'r ysgol efo byd natur o'i amgylch ac rydym yn dysgu am fyd natur.
- Rydym yn cael cyfle i gymryd rhan mewn Eisteddfodau gan fod yr ysgol yn llai.
- Rwy'n poeni am golli fy ffrindiau Mae pawb yn nabod ei gilydd yn yr ysgol yma ac yn gwybod enwau ei gilydd.
- Mae yna lot o gefnogaeth yn yr ysgol.
- Rwyf wedi bod yn Ysgol Y Graig ond mae gennyf ffrindiau da bellach yn Ysgol Talwrn.

- Mae yna hen drên ar yr Iard a dim y pethau modern rydym wedi arfer cael. Y pethau sydd gennym yn bresennol sydd wedi ein helpu i ddysgu.
- Mae tîm pêl droed yn yr ysgol ac mewn ysgol fwy dim ond y goreuon fydd yn cael eu dewis.
- Rydym yn mwynhau cymryd rhan.
- Rwy'n byw yn y pentref ac yn gallu cerdded i'r ysgol.
- Mae gennym draddodiad o gymdeithasu yn sgwâr y pentref ar ein ffordd adref.
- Mae'r Iaith Gymraeg yn dda yma a chyfleoedd i ddysgu Cymraeg.
- Mae gwaith ni gyd yn cael eu harddangos ar y waliau. Mewn ysgol fwy dim ond gwaith y plant gorau sy'n cael mynd ar y waliau.
- Rydym yn gallu gweld ein ffrindiau i gyd ar yr Iard yn Talwrn ar amser chwarae.
- Mae gennym deganau da yma, Cromebook a thrên ar yr iard. Nid ydym eisiau gweld y rhain i gyd yn mynd i wastraff.
- Rwy'n hoffi dod i'r ysgol yma - rwy'n hapus yma. Rwy'n teimlo yn drist iawn bod yr ysgol yn cau.
- Mae fy nheulu wedi bod yn dod i'r ysgol yma ers blynyddoedd ac rwy'n byw yn Talwrn.
- Mae yna lot o ddewis o ran gweithgareddau yma.
- Rydym yn cael canu yn y côr yma. Mae gennym gyswllt da efo'r gymuned yma
- Mae athrawon da yma, sy'n neis ac yn edrych ar ein holau.
- Mae'r ysgol yma yn teimlo fel 'un teulu'.
- Mae aelodau o'r gymuned yn dod yma i wneud gweithgareddau efo ni. Nid ydym eisiau colli cyfleodd fel hyn. Mae un aelod yn cyfansoddi caneuon ar ein cyfer.
- Rwyf wedi bod mewn ysgol debyg i'r Graig, nid wyf yn hoffi lot o blant mewn ysgol achos mae'n anodd gwneud ffrindiau gorau.
- Mae'r ysgol yn hen ond rydym yn dysgu pethau newydd.
- Mae cyfle i ddysgu am fyd natur yma, ni fydd cyfle o'r fath yn y Graig.
- Yn hoff iawn o fynd i'r goedlan i gael stori.
- Rydym yn cael defnyddio beiciau ar yr Iard

Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig?

- Yn poeni y byddaf rhy swil i wneud ffrindiau
- Bydd angen i mi ddysgu lle mae pethau yn cael eu cadw a lle mae dosbarthiadau. Mae hi mor hawdd mynd i'r dosbarth ar hyn o bryd
- Mae gan blant o'r babanod ffrindiau yn yr adran iau ar hyn o bryd. Rydym eisiau hyn barhau (sef y cyswllt rhwng y babanod a'r adran iau).
- Mae gennym ffrind yn yr ysgol sydd angen sylw ychwanegol. Rydym yn adnabod hi ac yn edrych ar ei hol. Rydym yn poeni bydd plant Ysgol y Graig yn chwerthin am ei phen.
- Yn yr Eisteddfod a Chyngerdd Diolchgarwch mae pawb yn cael rhan. Ni fyddent yn cael cyfleoedd o'r fath wedyn
- Rwy'n poeni bydd y gwaith yn anodd yna, ac efallai i rai sy'n cael anawsterau yn barod
- Rwyf eisiau cadw'r ysgol yma yn agor ac yn dweud ei fod yn ysgol well.
- Mae Iard chwarae Ysgol y Graig yn fawr iawn a'r coridorau yn hir
- Mewn ysgol fawr efo lot o blant, bydd lot o ffraeo yn mynd ymlaen
- Nid wyf eisiau colli athrawon da

A ydych yn cytuno efo'r rhesymau dros newid?

- Rydym yn cytuno, ond rydym ni yn bwysicach a'n barn bersonol.

Sylwadau pellach

- Mae hyn yn oll yn gwneud i mi boeni am fynd i Ysgol Gyfun yn ogystal
- Rwyf eisiau cadw Talwrn ar agor
- Bysa diwrnod arbrofol yn y Graig yn dda
- Beth am gludiant - sut fyddwn yn teithio i'r ysgol?

Ysgol y Graig

Dewiswyd cynrychiolaeth blynnyddoedd 5 a 6 o'r cyngor ysgol, sef cyfanswm o 6 o blant.

Cwestiwn: Beth oedd y disgyblion yn ei hoffi am eu hysgol bresennol?

- Lot o ffrindiau, ac rydym yn teimlo fel un teulu
- Mae digon o le yn yr ysgol
- Athrawon da a theg
- Ysgol liwgar a mawr
- Edrych yn newydd sbon a glan
- Mae'n hwyl
- Mae yna ddigon o weithgareddau ar ôl ysgol yn cael eu cynnal
- Mae yna lot o bobl yma i helpu athrawon




Cwestiwn Beth yw eich barn am y cynnig addasu Ysgol y Graig, cau Ysgol Talwrn a throsglwyddo plant Ysgol Talwrn i Ysgol y Graig?

- Yn edrych ymlaen at wneud ffrindiau newydd
- Oes rhaid i blant Talwrn ddewis Ysgol y Graig. Gwawn helpu nhw os maen nhw'n teimlo yn drist yma
Bydd yna fwy o blant i gymryd rhan yn y gweithgareddau pêl droed efo ni.
- Mae'n syniad da
- Nid ydym eisiau'r adeilad newydd fod yn rhy bell oddi wrth yr adeilad presennol ac mae'n bwysig cael cysylltiad agos rhwng y 2.
- Bydd plant Ysgol Talwrn angen cyfleoedd i ddod yn gyfarwydd â'n hysgol ni
- Bydd angen clwb brecwast yn y 2 adeilad, a dim disgwyliad i blant groesi drosodd rhwng y 2 adeilad ar ôl y clwb brecwast
- Rydym yn meddwl am deimladau plant Talwrn. Gallent golli ffrindiau os mae eu rhieni yn dewis i'w plant fynd i ysgol arall yn hytrach nag ysgol y Graig
- Yn cytuno gyda'r cynnig

Nid oedd ganddynt unrhyw sylw pellach i'w cynnig.

Ysgol y Graig

Sut wyt ti'n teimlo am y newidiadau?

		
✓ ✓ ✓ ✓	✓	

9. YSTYRIAETHAU ARIANNOL

Cafodd pob un o'r naw opsiwn gwreiddiol yn yr adroddiad ar y ddogfen ymgynghori anstatudol eu gwerthuso o safbwynt ariannol. Cafodd y canlynol eu hystyried ar gyfer pob opsiwn - costau cyfalaf, arbedion refeniw, costau cludiant, derbyniadau cyfalaf a chostau benthyca wedi cael eu hystyried ar gyfer pob opsiwn.

Rhaid nodi'r rhagdybiaethau ar gyfer y cyfrifiadau hyn. Bydd benthyca:

- ar gyfradd sefydlog.
- yn digwydd dros gyfnod o 50 mlynedd gan ddefnyddio'r cyfraddau llog diweddaraf.
- yn cael ei gymryd yn ei gyfanrwydd h.y. ar un tro gan nad yw'r gwariant / dyddiad proffilio ar gael. Yn syml, cost ariannu'r swm hwnnw am 50 mlynedd yw'r cyfrifiad hwn.

Dim ond yr elfen benthyca digefnogaeth y rhaglen ysgolion 21ain ganrif mae'r cyfrifiadau hyn yn eu hystyried.

Dylid nodi mai *amcangyfrifon gorau* yw'r costau a'r arbedion sydd ar gael ar hyn o bryd. Bydd nifer o'r opsiynau, os y'u gwireddir, yn creu costau byr dymor megis, apwyntio pennaeth cyn i'r ysgol agor, costau diswyddo, costau amddiffyn tâl, a chostau cynnal adeiladau tan fyddent yn cael ei gwerthu. Mi fydd y costau yma yn rhan o achos busnes, pe gwireddir yr opsiwn, pan fydd nifer yr opsiynau wedi eu cwtdgi.

Gan fod y Pwyllgor Gwaith wedi cymeradwyo ymgynghori ar opsiwn 7, dim ond yr opsiwn hwnnw gaiff ei ystyried:

Cynnig: Ehangu Ysgol y Graig

Cost cyfalaf	Arbedion referniw net	Costau cludiant	Derbynion cyfalaf
£4,840,660	£53,216	£28,000	£140,000

Costau ychwanegol	£28,000	Cost net y prosiect	£4,700,660
		Cost i'w gyllido	£2,280,330

Mae'r arbedion net amcangyfrifedig o'r opsiwn hwn yn £53,216 a chost net amcangyfrifedig y prosiect yw £2,280,330. Byddai costau blynyddol hyn tua £103,073.

10. ARGYMHELLIAD

O ystyried y ffactorau uchod, cytunodd y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Gorffennaf 2017 gydag argymhelliad swyddogion sef bod angen:

- **“ymgyngori ymhellach ar yr opsiwn o addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn”**

Felly, ar ôl yr ymgynghori pellach, yn hytrach nag ymestyn Ysgol y Graig, cynigir:

1. Defnyddio adeilad presennol Ysgol Y Graig ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 sef blynyddoedd 3 i 6 a'i addasu
2. Cael bloc neu adeilad newydd ar gyfer y Cyfnod Sylfaen sef blynyddoedd Meithrin, Derbyn, 1 a 2.
3. Cau Ysgol Talwrn ac adleoli'r disgyblion i Ysgol Y Graig ar ôl i'r adeilad newydd i'r Cyfnod Sylfaen agor ac ar ôl i'r adeilad presennol gael ei addasu
4. Ystyried adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg o fewn y ddarpariaeth newydd
5. Sicrhau fod y tyrbîn gwynt ar y safle yn gweithio erbyn diwrnod agor yr adeilad newydd

Byddai'r adeilad newydd yn rhan o Ysgol Y Graig a ni fyddai'n endid ar wahân.

Ysgolion Cynradd yr Unfed Ganrif ar Hugain

Mae'n debygol bydd unrhyw ysgol newydd yn Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif. Mae Cyngor Môn yn ystyried Ysgol Gynradd yn yr Unfed Ganrif ar Hugain fel un sy'n gallu darparu'r canlynol:

Cyfleusterau Addysgu a Dysgu

Mannau addysgu addas sy'n cynnwys digon o:

- Ystafelloedd dosbarth sydd o faint addas gydag ymdeimlad o ofod a golau (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Cyfleusterau addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys ardaloedd tu allan (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mannau ymarferol arbenigol, gan gynnwys ardal ar gyfer gweithgareddau technoleg a chelfyddydol
- Offer Tegwch modern
- Cyfleusterau storio digonol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Mynediad i ystafell adnoddau dysgu (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Ystafelloedd llai ar gyfer grwpiau llai e.e. targedu ac A.A.A.
- Man dysgu yn yr awyr agored ar dir yr ysgol
- Neuadd ysgol a chyfleusterau ciniawa ac o faint priodol. (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu). Gan ddibynnu ar faint yr ysgol, gall hyn fod yn neuadd ysgol defnydd deuol. Efallai y bydd angen lloriau sbring ar gyfer neuaddau ysgol defnydd deuol. Byddai angen storfa bwrpasol i'r byrddau bwyta.

Cyfleusterau Cymunedol

Yn gallu darparu ystod o wasanaethau yn y gymuned yn ystod oriau ysgol, naill ai trwy ardaloedd a rennir neu ardaloedd pwrpasol. Dylid ystyried y posibilrwydd o ddefnydd cymunedol eang gan gadw diogelu plant yn flaenoriaeth.

Cyfleusterau Chwarae

- Ardal laswelltrog breifat a diogel o faint digonol ar dir yr ysgol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)
- Man chwarae caled (iard ysgol) o faint digonol ar gyfer capasiti'r ysgol (yn unol â'r arweiniad cyfredol gan Lywodraeth Cymru a'r Bwletinau Adeiladu)

Ardaloedd Staff a Gweinyddu

- Ystafell(oedd) athrawon
- toiledau ar wahân i staff
- ardal waith i staff (CPA)
- swyddfa'r Pennaeth
- swyddfa Ysgrifennydd / Weinyddol
- ystafell Archwiliadau Meddygol neu Ystafell ar gyfer cleifion
- ystafell Adnoddau / llungopio
- ystafell gyfweld

Cyffredinol

- Adeiladau ysgol mewn cyflwr ardderchog ac yn cael eu cadw ar y lefel hon.
- Sicrhau bod mynediad ar gael i bobl anabl i'r ystod lawn o gyfleusterau
- Adeilad(au) diogel:
 - Sydd â derbynfa gydag arwyddion i ddynodi ei lleoliad
 - Y gellir eu cloi yn ystod y dydd gyda mynediad i ardaloedd a ddefnyddir gan blant trwy un pwynt mynediad a reolir
 - Gyda ffens ddiogel o gwmpas y safle ond sy'n caniatáu mynediad cyhoeddus i gaeau chwarae y tu allan i oriau ysgol a system larwm lladron
 - Gyda llecyn wedi ei ffensio/amgáu ar gyfer gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen
 - Gyda chamerau goruchwyllo - mewnol ac allanol
 - Yn cyrraedd safonau rheoliadau adeiladu sy'n gyffredol ar adeg adeiladu'r ysgol
 - Gyda systemau canfod tân a systemau chwistrellu
 - Sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010) fel bod yr holl adeilad yn hygyrch i bawb.
 - Mynediad ar wahân i gerbydau a cherddwyr
 - Man troi / 'gollwng' ar gyfer bysus (lle bo'n briodol)
 - Llecyn diogel i gadw beiciau
 - Llefydd parcio digonol ble mae hynny'n bosib
 - Ni fydd unrhyw ystafelloedd dosbarth symudol neu leoedd dysgu dros dro yn rhan o ysgol newydd
 - Bod nifer briodol o ystafelloedd ymolchi / toiledau / ystafelloedd cotiau ar gyfer disgyblion
 - Dylid cynnwys y dechnoleg adnewyddadwy lle'n briodol e.e. tyrbinau gwynt, paneli solar/ffotofoltaig, cyfleusterau ailgylchu, pypiau gwres daear a / neu fwyleri tanwydd pren i sicrhau y cydymffurfir â safonau BREEAM er mwyn lleihau ôl-troed carbon.
 - Dylai pob cyfeiriad at safonau maint / gofod gydymffurfio â'r canllawiau arwynebedd a luniwyd gan Lywodraeth Cymru sydd yn y Bwletin Adeiladu priodol.

Atodiad 2

Cylch Meithrin Talwrn
Talwrn,
Llangefni

Annwyl [REDACTED],

Yr wyf yn Arweinydd ar Cylch Meithrin Talwrn ac ysgrifennaf atoch ar ran rhieni a plant y Cylch.

Mae sawl sgwrs wedi bod yn mynegi pryder am ddyfodol addysg plant y Cylch a siom a'r cynllun / bwriad sydd wedi gynnig yn Opsiwn 7 – Dyfodol Ysgolion Ardal Llangefni.

Nid ydym ym cefnogi'r opsiwn yma a gobeithio byddwch yn dwyn sylw ar ein barn a buddsoddi mewn ysgol newydd yn Talwrn.

Yn gywir,

Cylch Meithrin Talwrn.

CAPEL MC NYTH CLYD
Y TALWRN

5ed Tachwedd 2017



Annwyl 

Fel swyddogion ac aelodau Capel Nyth Clyd, Y Talwrn, rydym yn unfrydol na ddylid cau yr ysgol. Mae'r ysgol yn sylfaen i'r gymdeithas leol a hefyd yn cyfrannu'n eang lawn at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref.

Yn flynyddol, mae'r plant yn cael y profiad o gynnal oedfa Diolchgarwch yn y Capel. Dyma ond un enghraifft o'r cyfle y maent yn ei gael i feithrin hyder a chyfrannu i fywyd y gymuned. Fe all llawer lawn heddiw ddiolch am y cyfleon y maent wedi ei gael mewn Capel ac ysgol wledig i feithrin hyder a chyfathrebu yn glir a phwrpasol.

Heb os, pe baech yn penderfynu cau'r ysgol yna, fe fydddech yn euog o wrthod cyfle i greu dinaswyr cyfrifol. Rhywbeth mae ein cymdeithas ei wir angen heddiw.

Rydym yn ymwybodol fod lefel addysg yr ysgol yn uchel lawn. Yn ôl y Ddogfen Ymgynghorol â gyflwynwyd gennych, y mae'n glir fod CA 2 Ysgol Y Talwrn yn uwch na Ysgol y Graig, Ynys Môn a Chymru. Ni allwn hefyd anwybyddu y gwaith ardderchog mae'r ysgol yn ei gyflawni parthed sicrhau dyfodol yr Iaith Gymraeg.

Y mae Ysgrifenydd Addysg Llywodraeth Cymru, Mrs Kirsty Williams, wedi cyhoeddi na ddylid cau ysgolion gwledig oni fod yna seiliau cadarn i hyn. Yn ein barn ni nid oes seiliau cadarn yn bodoli yma.

Hefyd y mae'n rhaid i'r Cyngor dderbyn y cyfrifoldeb nad ydynt, tros y blynyddoedd, wedi dosrannu arian yn deg tuag at gynnal a chadw'r ysgol.

Trychineb fuasai cau yr ysgol a nacau y plant o'r addysg ragorol y mae staff Ysgol Y Talwrn yn

Yn gywir iawn



Swyddogion

CAPEL ANNIBYNWYR SILOAM TALWRN



[REDACTED]
Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

12.11.2017

Annwyl [REDACTED]

Ysgrifennaf atoch ar ran Capel Siloam (A.) Talwrn i fynegi gwrthwynebiad aelodau'r Capel i gau Ysgol Gynradd y Talwrn.

Dymunwn weld yr Ysgol Gynradd y Talwrn yn aros yn agored i wasanaethu'r gymuned. Yma mae calon ein cymuned yn curo gryfaf. Cenedl heb iaith, cenedl heb galon ac mae cymuned heb ysgol yn gymuned heb blant ac heb ddyfodol.

Mae llawer o aelodau presennol y Capel yn gyn ddisgyblion o Ysgol y Talwrn ac wedi elwa'n fawr o'r profiad hwnnw, Maent yn gweld gwerth mewn cadw ysgol mewn pentref nid yn unig er mwyn addysg a datblygiad unigol plentyn ond hefyd er mwyn i'r plant gael eu gwreiddio'n ddwfn yn yr hyn sydd gan gymuned gyfan i gynnig iddynt.

Mae'n hiaith a'n traddodiadau yn bwysig iawn i ni a chredwn mai mewn ysgol fel un y Talwrn y gellir trosglwyddo orau i'n plant. Yn ogystal â dysgu gwybodaeth sylfaenol i blant credwn fod gwerth mewn trosglwyddo gwybodaeth am werth pentref, cydnabod a chymdogion i blant er mwyn iddynt ddysgu parchu eraill yn eu cymuned.

Bu llwyddiant yr ysgol mewn sawl maes dros y blynyddoedd yn rhyfeddol. Mae'r ysgol hon yn gymuned glos sy'n cyfrannu cymaint i'r gymuned ehangach. Mae'n anodd dychmygu'r pentref hebddi. Byddai'n gymaint tlotach.

Mae dymuniad pentrefwyr a'r hyn mae'r trigolion yn ei gredu sydd orau i'w plant yn ystyriaeth bwysig tu hwnt. Peidiwch, os gwelwch yn dda, a chwithau'n gofalu am addysg a lles ein plant ag anwybyddu'r gri hon a ddaw o'r galon.

Yn gywir,

YSGOL SUL SILOAM TALWRN



Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys Môn LL77 7TW

Annwyl Reolwr Rhaglen

Ysgrifennaf atoch ar ran Ysgol Sul Capel Siloam (A.) Talwrn i fynegi gwrthwynebiad athrawon, aelodau a rhieni aelodau'r Ysgol Sui i gau Ysgol Gynradd y Talwrn.

Dymunwn weld yr Ysgol Gynradd y Talwrn yn aros yn agored i wasanaethu'r gymuned.

Bu cydweithio hapus rhwng yr Ysgol Sul a'r Ysgol ers blynyddoedd lawer, yn enwedig ar adegau fel diolchgarwch pan fydd yr Ysgol yn dod ar ofyn y Capel i gynnal gwasanaeth diolchgarwch yma. Yn yr un ffordd bydd yr Ysgol Sul yn elwa ar gael benthyg dillad ac ati gan yr Ysgol ar gyfer perfformio Drama'r Geni adeg y Nadolig

Bu cydweithio ar lefel ddyfnach yn ogystal gan fod yr Ysgol a'r Ysgol Sul yn atgyfnerthu gwerthoedd ei gilydd Heb yr ysgol yn y pentref go brin y byddai Ysgol Sul gennym. Byddai hyn yn golled fawr i'r ardal.

Mae'r ysgol fach hon yn cyfrannu cymaint i'r gymuned ehangach ac mae'n anodd lawn dychmygu'r pentref hebdi. Byddai enaid ein cymuned wedi'i rhwygo.

Mae dymuniad aelodau'r Ysgol Sui a rhieni'r plant yn ystyriaeth bwysig tu hwnt. Peidiwch, os gwelwch yn dda, a chwithau'n gofalu am addysg a Hes ein plant ag anwybyddu'r gri hon a ddaw or galon.

Yn gywir

Ysgol Sul Siloam Talwrn

[REDACTED]
Y Gyfarwyddiaeth Dysgu Gydol Oes
Cyngor Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni, Ynys M6n LL77
7TW

Annwyl [REDACTED]

Ymgynghoriad am ddyfodol Ysgol y Talwrn - ymateb Pwyllgor Eisteddfod y Talwrn

Mae'n siŵr y cewch sawl llythyr yn gwrthwynebu cau Ysgol y Talwrn. Dyma un arall. Credwn fod yr ysgol yn gonglfaen i gymdeithas y pentref a'r ardal. Ni ellir ystyried yr ysgol mewn termau ariannol ac addysgol yn unig, er pwysiced rheini. Dylid edrych ar y darlun ehangach o ddirywiad sy wedi mynd rhagddo yn ein pentref! ers blynyddoedd bellach am sawl rheswm, gan gynnwys polisïau Llywodraethau yn Llundain a Chaerdydd.

Yn fyr, dywedwn yn gadarn fod Ysgol y Talwrn yn cyflawni llawer iawn mwy na dysgu plant, er cystal mae'n gwneud hynny. Mae'n cyfrannu'n helaeth at fywyd cymdeithasol y pentref, gan dynnu pobl at ei gilydd er lles y gymuned. Mae'r cysylltiadau a wneir rhwng rhieni dros y blynyddoedd yn meithrin undod cymdeithasol. Gwêl y disgyblion y gwerth o gydweithio ar lefel ardal a chymuned.

Un enghraifft yn unig yw'r Eisteddfod o'r cydweithio hyn, ond mae'n egluro ethos cymuned hyfyw. O safbwynt yr Eisteddfod, mae cyfraniad y plant a'u teuluoedd at ei llwyddiant yn

greiddio!. Ac wrth gwrs mae'r Eisteddfod yn rhoi cyfle i feithrin hyder drwy berfformio ar lwyfan, sy'n sgil a fydd o gymorth i unigolion yn y dyfodol yn eu bywydau bob dydd. Felly

mae'r ysgol yn cyflawni llawer iawn mwy nag addysg ffurfiol yn unig, drwy yr ymwneud hwn rhwng y disgyblion a'r gymdeithas ehangach. Mae'r gymuned yn cyfrannu at addysg y plant yn ei ystyr iawn o greu dinasyddion da a chyfrifol. Go brin fod y cyfraniad hwn ar fantolen y Cyngor na Llywodraeth Cymru.

Mae polisi o gau ysgolion gwledig yn gyfystyr a pholisi o ddifodiant diwylliannol a chymdeithasol.

Gwaith y Cyngor a'i swyddogion yw amddiffyn cymunedau'r Ynys. Fel y gwyddoch, mae Ysgrifennydd Addysg Llywodraeth Cymru, Kirsty Williams, wedi cyhoeddi fod yna bellach ragdybiaeth na chaiff ysgolion gwledig eu cau.

Er gwybodaeth, dyma rai ffigurau am Eisteddfod y Talwrn. Yn 2016 yng nghystadlaethau oedran Cynradd roedd 49 o unigolion o Ysgol Gynradd Y Talwrn yn cystadlu ar y llwyfan a dim ond 19 o'r tu allan. Roedd 8 grŵp o'r ysgol yn cystadlu a 0 o'r tu allan. Yn y gwaith llenyddol roedd 65 yn cystadlu o'r ysgol ac 1 o'r tu allan ac yn y gwaith Celf a Chrefft roedd 41 yn cystadlu a 2 o'r tu allan.

Yn 2017 yng nghystadlaethau oedran Cynradd roedd 43 o unigolion o Ysgol Gynradd Y Talwrn yn cystadlu ar y llwyfan a dim ond 12 o'r tu allan. Roedd 7 grŵp o'r ysgol yn cystadlu a 0 o'r tu allan. Yn y gwaith llenyddol roedd 41 yn cystadlu o'r ysgol a 0 o'r tu allan ac yn y gwaith Celf a Chrefft roedd 53 yn cystadlu a 0 o'r tu allan.

Credwn felly os na fydd Ysgol Gynradd Y Talwrn yn parhau i fod ar agor ni fydd unrhyw ddyfodol i Eisteddfod Gadeiriol Y Talwrn fel yn wir y digwyddodd ym mhentref Llanddeusant. Unwaith y ceuwyd yr Ysgol Gynradd yno daeth yr Eisteddfod i hen hefyd.

Yn gywir,

[Redacted signature]

[Redacted signature]

[Redacted signature]

Atodiad 7

Ysgol Gynradd Y Talwrn,
Y Talwrn,
Llangefni,
Ynys Môn.

Tachwedd 7fed 2017.

Annwyl [REDACTED],

Ysgrifennwn atoch er mwyn mynegi pryder ynglŷn â chau Ysgol y Talwrn yn y dyfodol agos.

Mae'r ysgol yn ganolfan allweddol ar gyfer gwasanaethu plant yr ardal leol yn ogystal â'r gymuned ehangach. Ystyriwyd y strategaethau addysgol yn arbennig iawn yn yr Arolwg ddiwethaf, ac mae'r ysgol yn parhau i ddarparu addysg o ansawdd uchel. Mae gan yr ysgol berthynas ragorol gyda'r gymuned, ac mae'n hyrwyddo agweddau pellgyrhaeddol mewn sawl maes cwricwlaidd.

Un fantais allweddol i ysgol fechan yw'r elfen deuluol sy'n tanlinellu pwysigrwydd pob unigolyn o fewn yr ysgol, a sut mae pob un o'r disgyblion yn mwynhau profiadau personol drwy fod yn rhan anhepgor o dim chwaraeon neu aelod hanfodol o gôr. Ni fyddai cyfleon fel hyn yn digwydd ond i'r plant mwyaf talentog mewn ysgolion mawr.

Rhaid cofio fod yr ysgol wedi ei lleoli mewn ardal sydd yn ddelfrydol ar gyfer astudiaethau lleol, gan gynnwys bod o daflriad carreg i fannau astudio diddorol megis Coed y Plas, afon Rhyd y Ddime a chors Bodeilio, lle mae'r plant yn gallu mwynhau profiadau uniongyrchol, gan fewnoli gogoniant byd natur sydd ar drothwy'r ysgol.

Atodiad 7

Lleolir yr ysgol mewn man diogel delfrydol, lle mae pob plentyn yn cael profiadau a chyfleoedd i ffynnu'n hyderus mewn awyrgylch hapus a chyfeillgar. Mae'r ardal hefyd yn frith o dalentau lleol, gan gynnwys cyfraniad Mrs E Olwen Jones, sydd wedi cyfansoddi cist o drysorau cerddorol, gyda phlant yr ysgol leol yn ei sbarduno ac yn cynnig cyfleoedd i'r gyfansoddwraig gynhyrchu cerddoriaeth ar gyfer plant

Cymru gyfan. Mae cynnyrch y gyfansoddwraig hefyd yn seiliedig ar hanes lleol, ac yn ffynhonnell arbennig ar gyfer creu archif o ddigwyddiadau lleol ar gân i'r dyfodol. Wrth gwrs, mae cyfleon perfformio'r caneuon, sydd wedi eu cyfansoddi'n arbennig ar gyfer yr Eisteddfod leol, yn creu partneriaeth glos rhwng yr ysgol, y gymuned a chelfyddyd. Mae hyn yn cyd-fynd yn naturiol gyda blaenoriaeth Llywodraeth Cymru parthed Cwricwlwm Cymreig.

Dylid hefyd bwysleisio pwysigrwydd cefnogaeth Ysgol y Talwrn i'r Eisteddfod leol a gynhelir yn flynyddol yn y pentref. Mae cyfraniad yr ysgol ar hyd y blynyddoedd wedi bod yn allweddol ar gyfer cadw'r Eisteddfod honno'n fyw, ac ni ddylid diystyrru pwysigrwydd eisteddfodau lleol sy'n hyrwyddo diwylliant ac nid lleiaf cadw'r iaith Gymraeg yn ffyniannus. Byddai cau'r ysgol yn tramgwyddo dyfodol yr iaith yn y gymuned leol a thu hwnt.

Hawl rhiant yw cael dewis y sefydliad gorau i'w plentyn, boed yn ysgol fawr neu ysgol fach o ran maint. Unwaith mae ysgolion bychain yn diflannu, bydd rhieni yn cael eu hamddifadu o'r dewis hanfodol bwysig yma. Mae adborth gan rieni yn ategu hyn. Nodwyd yn y ddogfen ymgynghori fod 49% o blant all ddalgylch yn mynychu'r ysgol. Dewis y teulu yw hyn yn y rhan fwyaf o achosion. Onid yw hyn yn brawf pendant fod darpariaeth ysgol fechan yn gweddu yn well i'w hanghenion?

Taer erfynnwn arnoch i ystyried yn fanwl oblygiadau cau drws yr ysgol arbennig hon.

Yn gywir iawn,

Staff Ysgol Y Talwrn.



Merched y Wawr y Talwrn



07 Tachwedd, 2017



Swyddfeydd Cyngor Môn
Llangefni
LL77 7TW

Annwyl 

Y DDOGFEN YMGYNGHORI STATUDOL - ARDAL LLANGEFNI

Ar ran Cangen y Talwrn o Ferched y Wawr ysgrifennaf i wrthwynebu'r bwriad o gau Ysgol y Talwm. Dymuniad y gymuned ar rhieni yw gweld yr ysgol yn parhau fel rhan ganolog o'r pentref a'r ardal.

Yn gywir

 Cangen y Talwrn

Atodiad 9

Sylwadau Cyngor Cymuned Llanddyfnan:

Mae'r Cyngor Cymuned o blaid cadw Ysgol Gynradd Talwrn ar agor ac yn cefnogi cyhoeddiad diweddar y Gweinidog Cynulliad Cymru ar gadw ysgolion bychain ar agor. Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi y barn lleol i peidio cau yr Ysgol. Gan fod yr ysgol yn 98% llawn, a wedi bod efo 42 - 49 o ddisgyblion drost y blynyddoedd diwethaf ac ysgolion gynradd yn Llangefni yn llawn, ni welwn unrhyw reswm i gau'r ysgol.

Mae tua 100 o dai yn cael ei adeiladu yn Llangefni. A fydd lle i blant o'r eiddo hyn y Ysgol y Graig?

Clerc/Clerk

Cyngor Cymuned Llanddyfnan

Sylwadau ac Ymatebion

Mae'r tabl isod yn rhestru'r sylwadau a dderbyniwyd fel rhan o'r ymgynghoriad statudol ynghyd ag ymateb ymatebion Cyngor Sir Ynys Môn:

Rhif	Sylw	Ymateb
1.	Dylai'r Awdurdod "fuddsoddi mewn ysgol newydd" yn Talwrn	Mae hyn yn annhebygol iawn gan fod y rhagolwg ar gyfer niferoedd disgyblion yn weddol gyson ac isel. Mae canran uchel o ddisgyblion y tu allan i'r dalgylch yn yr ysgol hefyd.
2.	Mae Ysgol Talwrn yn sylfaen i Gymdeithas leol ac mae hefyd yn cyfrannu at fywyd cymdeithasol a chrefyddol y pentref "	Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod. Mae'r Awdurdod yn cydymdeimlo â phryderon y gymuned ond mae'n rhaid iddo flaenoriaethu materion addysgol.
3.	Dylai'r Ysgol aros yn agored i wasanaethu'r gymuned.	Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod.
4.	Mae Eisteddfod y pentref yn rhoi cyfle i bobl ifanc feithrin hyder trwy berfformio ar y llwyfan. Byddai colli'r ysgol yn arwain at ddiwedd yr Eisteddfod	Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod. Mae pentrefi eraill ar Ynys Môn yn cynnal Eisteddfod lwyddiannus e.e. Marianglas er gwaethaf peidio â chael ysgol yn y pentref.
5.	Mae'r ysgol yn rhan ganolog o fywyd y pentref. Mae'r ysgol wedi'i leoli'n ddelfrydol ar gyfer astudiaethau lleol. Yr ysgol yw calon ac asgwrn cefn y gymuned.	Trafodir y materion hyn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod. Mae pentrefi eraill ar Ynys Môn yn cynnal Eisteddfod lwyddiannus e.e. Marianglas er gwaethaf peidio â chael ysgol yn y pentref.
6.	Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar ddyfodol yr iaith Gymraeg yn y gymuned leol a thu hwnt.	Trafodir y mater hwn yn yr Asesiad Effaith a baratowyd gan yr Awdurdod ac yn gweld effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg.
7.	Cefnogodd rhanddeiliaid ddatganiad diweddar Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ar ysgolion gwledig.	Nid yw Ysgol Talwrn ar y rhestr o ysgolion gwledig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
8.	Heriodd rhanddeiliaid y ffigurau ôl-groniad cynnal a chadw	Mae syrfewyr siartredig cymwysedig o'r Awdurdod yn cynnal arolygon o holl adeiladau ysgol yn rheolaidd i benderfynu ar unrhyw waith cynnal a chadw sydd ei angen ac i gyfrifo cost y gwaith hwnnw.
9.	Mae'r Neuadd Bentref yn dibynnu ar yr ysgol	Mae hyn yn wir ond dim ond oherwydd nad yw neuadd yr ysgol yn ddigon mawr i fodloni'r gofynion presennol
10.	Gofynnodd rhai rhanddeiliaid os yw benthyciad am 50 mlynedd yn werth da am arian	Mae swyddogion cyllid yn yr Awdurdod yn cyfrifo costau benthycia arian am 50 mlynedd. Yn y pen draw, mae gwariant fel adeiladu ysgol newydd, yn fater i Bwyllgor Gwaith yr Awdurdod benderfynu.

11.	Roedd teithio i Ysgol Y Graig yn bryder i rai rhanddeiliaid; dywedodd eraill y byddai cerdded i'r ysgol honno'n beryglus	Bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.
12.	Mae'r sefyllfa draffig yn Ysgol y Graig yn beryglus	Bydd materion traffig a theithio yn cael sylw fel rhan o Asesiad Effaith Traffig a gynhelir ar gyfer pob prosiect newydd.
13.	Mae'r broses ymgynghori yn annheg	Mae angen llawer o wybodaeth yn y dogfennau ymgynghori ac mae'r Awdurdod wedi cyflawni gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion.
14.	Effaith y broses ar staff	Trafodwyd hyn yn fanwl gyda staff Ysgol Talwrn yn y cyfarfod ymgynghori ar wahân a gynhaliwyd gyda hwy.
15.	Defnyddio Ysgol Talwrn i hyfforddi penaethiaid	Mae gan yr Awdurdod, ar y cyd â'r consortiwm addysgol rhanbarthol, GwE, raglen hyfforddi ar gyfer darpar benaethiaid i ennill y Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP). Dyma'r llwybr hyfforddi a ddefnyddir ar gyfer penaethiaid yn hytrach na hyfforddiant yn y swydd ac felly nid oes angen canolfan / adeilad ffisegol at y diben hwnnw.
16.	Effaith bosibl cau ar Ysgol Talwrn mewn allyriadau carbon	Mae cyfrifiadau'n dangos y byddai allyriadau CO ₂ yn dal i fod yn llai yn dilyn cau Ysgol Talwrn hyd yn oed os defnyddiwyd 2 fws i gludo disgyblion i'r bloc newydd posibl. Mewn geiriau eraill, ni fyddai trafniadaeth ychwanegol yn cael mwy o effaith ar yr amgylchedd na chau Ysgol Gynradd Talwrn.
17.	Cyfunwch Ysgol Talwrn gydag Ysgol Llanbedrgoch neu Ysgol Pentraeth Ystyriwch ffedereiddio Ysgol Talwrn gydag ysgol gynradd arall	Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Llanbedrgoch, byddai 70-80 o ddisgyblion yn yr ysgol - mae hyn yn rhy fach i ddenu cyllid. Ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gwag nac yn mynd i'r afael â chyflwr yr adeiladau. Rhwng Ysgol Talwrn ac Ysgol Pentraeth, byddai tua 130 o ddisgyblion yn yr ysgol - mae hyn yn dal i fod yn rhy fach i ddenu cyllid. Ni fyddai ffedereiddio'r 2 ysgol yn mynd i'r afael â lleoedd gwag nac yn mynd i'r afael â chyflwr yr adeiladau.

Ymateb Estyn i'r cynnig gan Gyngor Sir Ynys Môn i:

Addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn, a chau Ysgol Talwrn.

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Cyflwyniad

Mae'r cynnig ymgynghorol gan Gyngor Sir Ynys Môn. Dyma yw'r cynnig:

- Addasu Ysgol y Graig i wneud lle i ddisgyblion o Ysgol Talwrn.
- Cau Ysgol Talwrn.

Fel rhan o addasu Ysgol y Graig, cynigir:

- Defnyddio'r adeilad presennol ar gyfer cyfnod allweddol 2, a'i addasu.
- Creu 'bloc' newydd ar gyfer y cyfnod sylfaen.
- Adleoli'r ddarpariaeth Dechrau'n Deg.

Crynodeb/Casgliad

Mae'r cynigiwr wedi darparu cynnig cynhwysfawr, ac mae'r cynnig hwn yn rhan o ymgynghoriad ehangach i ad-drefnu chwe' ysgol yn ardal Llangefni.

Nid yw'r cynigiwr eto wedi dewis safle ar gyfer yr adeilad cyfnod sylfaen. Mae'r broses o ddewis lleoliad yn amodol ar chwiliad am safle ac astudiaethau dichonoldeb o'r safleoedd hynny cyn eu hasesu a'u sgorio er mwyn dewis opsiwn ffafredig.

Serch hynny, mae Estyn o'r farn fod y cynnig yn debygol o gynnal y safonau presennol o ran addysg, darpariaeth ac arweinyddiaeth a rheolaeth.

Disgrifiad a manteision

Mae'r cynigiwr wedi rhoi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig yng nghyd-destun y cynnig ehangach ar gyfer ad-drefnu darpariaeth addysg gynradd yn ardal Llangejni.

Mae'r rhesymwaith yn cynnwys lleihau nifer y lleoedd dros ben, materion ariannol, codi safonau, sicrhau'r adnoddau diweddaraf mewn perthynas ag ysgolion ac adnoddau dosbarth, torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel a chapasiti arweinyddiaeth a rheolaeth. Mae'r cynnig yn ateb y rhan helaeth o resymau dros newid a restrir ond nid yw'r gyrrwr o leihau nifer y llefydd dros ben yn berthnasol i'r cynnig hwn, gan nad yw canran llefydd gweigion (2016-17) yn y ddwy ysgol yn uchel.

Mae'r cynigiwr wedi mynd ati i edrych ar effaith y cynnig hwn yn fanwl a nodir y manteision a'r anfanteision yn deg. Er enghraifft, honnir bydd cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau o fewn yr adeilad ac allan, manau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol a chyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf.

Mae'r cynnig hwn yn rhan o gynnis ehangach sydd eisoes wedi ystyried nifer o opsiynau gwahanol. Oherwydd hyn, nid yw'r cynigiwr wedi ystyried dewisiadau eraill.

Mae'r awdurdod lleol wedi ystyried y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr, ac maent wedi amcangyfrif y gost ychwanegol a sut y byddant yn gwneud yn iawn am y costau hyn. Byddai effaith bosibl y cynnig ar lif trafndiaeth yn cael ei asesu fel rhan o Asesiad Effaith Trafndiaeth sydd heb ei chwblhau eto.

Mae'r cynigiwr wedi ystyried y niferoedd yn y ddwy ysgol dros gyfnod o saith mlynedd ac wedi rhagfynegi niferoedd y dyfodol. Wrth ragfynegi'r niferoedd maent wedi ystyried ffactorau fel y penderfyniad o adeiladu nifer o dai newydd yn yr ardal ac ystadegau gan y gwasanaeth iechyd am nifer y plant o dan bedair oed yn yr ardal.

Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth lawn i'r effaith ar y Gymraeg. Mae canlyniadau'r Asesiad Effaith yr Iaith Gymraeg yn dangos y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried yn addas y cynnig ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth. Er enghraifft, y gostyngiad a fydd mewn nifer o ddsbarthiadau oedran cymysg sydd gyda mwy na 2 grŵp oed a'r cynnydd a fydd mewn arbenigedd athrawon mewn meysydd penodol fydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill.

Mae'r cynigiwr wedi cwblhau Asesiad Effaith Cydraddoldeb manwl ac mae'n rhesymol i gredu na fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth bresennol a gynigir ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, nac ar gyfer grwpiau unigol o ddisgyblion, fel y rheiny sy'n gymwys i gael prydau ysgol neu unrhyw grŵp â nodweddion gwarchoddedig.

Mae'r cynigiwr wedi darparu tablau yn dangos canran y disgyblion sy'n cyflawni'r deilliant disgwylidig yn y cyfnod sylfaen a'r lefel ddisgwylidig yng nghyfnod allweddol

2. Maent yn gwneud hyn ar gyfer y ddwy ysgol ac yn dangos ffigyrau cyfatebol ar gyfer Ynys Môn a Chymru dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r ffigyrau hefyd yn cael eu cymharu ag ysgolion tebyg yn genedlaethol o ran canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim. Serch hynny, nid yw'r cynigiwr wedi darparu dadansoddiad cryno o berfformiad yr ysgolion.

Mae'r cynigiwr yn rhestru barnau adroddiadau arolygu diweddaraf Estyn ar y ddwy ysgol. Mae hefyd yn datgan ym mha gategori y mae'r ysgolion ond nid yw wedi darparu barn yr awdurdod lleol neu'r consortiwm ar ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn yr ysgolion.

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i'r:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26 Mawrth 2018
Pwnc:	Moderneiddio Ysgolion Môn – Adroddiad ar yr Ymgynghoriad Statudol yn ardal Seiriol
Aelod(au) Portffolio:	Y Cynghorydd R. Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth:	Delyth Molyneux
Awdur yr Adroddiad: Rhif Ffôn: E-bost:	Emrys Bebb
Aelodau Lleol:	Cynghorydd Lewis Davies Cynghorydd Carwyn Jones Cynghorydd Alun Roberts

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau

Yn ei gyfarfod ar 21ain Fehefin 2016, penderfynodd Pwyllgor Gwaith Cyngor Sir Ynys Môn:

- Awdurdodi'r swyddogion o'r Adran Dysgu Gydol Oes i'w galluogi i gynnal proses ymgynghori anstatudol ar y ddarpariaeth addysg gynradd yn Ne Ddwyrain (Seiriol) Ynys Môn
- Yna paratoi nifer o opsiynau posib ar y ffordd ymlaen.

Mae'r Cyngor wedi ymgynghori gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y dair ysgol yn ardal Seiriol, cynghorwyr lleol a gyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 20 Tachwedd 2017 tan 6 Chwefror 2018.

Trefnwyd cyfarfodydd ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion dros y cyfnod hwnnw. Paratowyd adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol. Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Mae'r cofnodion yn datgan:

Penderfynwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol -

- Yn derbyn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Seiriol ac yn argymhell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.
- Yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ffafrir, sef cynnal ymgynghoriad statudol ar y canlynol –

Opsiwn 2 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ysgol a'u ffederaleiddio o bosib;

Opsiwn 3 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.

Mae'r adroddiad atodol yn crynhoi'r sylwadau dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori.

Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2018 a penderfynwyd:

Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol yn cael ei ohirio er mwyn rhoi mwy o amser i adolygu ac i asesu'r effaith ar y gymuned, a hefyd y dylid ffurfio grŵp rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar ffyrdd eraill o liniaru'r risgiau yn yr ardal.

Trafodir pwyntiau a phryderon godwyd mewn llythyrau ac e-byst, yn ystod ac ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er iddynt fod tu allan l'r cyfnod ymateb l'r ymgynghori statudol ar gyfer ymatebion, yn Atodiad 11.

Gweler ddiweddariad ar Asesiad Effaith yr Awdurdod yn Atodiad 12.

Gweler ymateb Estyn yn Atodiad 13.

Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith gymeradwyo:

- Cau Ysgol Biwmares ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad ddatgan eu dewis am naill ai Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed yn unol â'r polisi mynediad ysgolion.
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Biwmares yn cau.
- Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
- Ystyried ffederaleiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?

Roedd 28 opsiwn penodol wedi eu hystyried yn yr adroddiad ar yr ymgynghori anstatudol yn ardal Seiriol. Defnyddiwyd y gwerthusiad o'r opsiynau fel sail i'r argymhellion a gyflwynwyd yn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol.

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'r Pwyllgor Gwaith yn gyfrifol am faterion trefniadaeth ysgolion.

D – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydyw

DD – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydyw – Mae'n un o'r cynlluniau yn y Rhaglen Amlinellol Strategol a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar Ionawr 13, 2014.

E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
5	Adnoddau Dynol (AD)	Dylid ymdrin ag unrhyw fater Adnoddau Dynol sy'n codi o'r argymhellion yn unol â phrosesau ymgynghori ac AD eraill cydnabyddedig.
6	Eiddo	Mae swyddogion Eiddo wedi darparu rhai o'r ffigurau yn yr adroddiad
7	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	Ni dderbyniwyd sylwadau
8	Sgriwtini	Ystyriwyd y mater yn fanwl gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 12 Mawrth 2018 ac mae swyddogion wedi darparu atodiadau ychwanegol mewn ymateb i'r materion a godwyd. Gweler Atodiadau 11 i 13.
9	Aelodau Lleol	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	Cynhwyswyd eu sylwadau yn yr adroddiad

F – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	Ddim yn berthnasol
2	Gwrthdodi	Cafodd asesiad effaith ei gwblhau fel rhan o'r broses ymgynghori yn unol â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol 2015
3	Trosedd ac Anhrefn	Ddim yn berthnasol
4	Amgylcheddol	Mae materion amgylcheddol yn cael ystyriaeth yn yr adroddiad
5	Cydraddoldebau	Cafodd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ei baratoi ar gyfer y cyfnod ymgynghori statudol
6	Cytundebau Canlyniad	Ddim yn berthnasol
7	Arall	Ddim yn berthnasol

FF - Atodiadau:
Atodiadau 1 i 13

G - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):
<ol style="list-style-type: none"> 1. Dogfennau Ymgynghori Anstatudol a Statudol 2. Cofnodion y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol gynhaliwyd ar 2 Hydref 2017 a 12 Mawrth 2018 3. Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar gyfer 20 Mehefin, 2016. 4. Rhaglen Amlinellol Strategol (SOP/RhAS) a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru yn Rhagfyr 2013. 5. Llythyr gan Lywodraeth Cymru dyddiedig Ionawr 31 2014.



SWYDDOGOL – OFFICIAL

**ADRODDIAD AR YR YMGYNGHORIAD STATUDOL – ARDAL
SEIRIOL
REPORT ON THE STATUTORY CONSULTATION – SEIRIOL
AREA**

**20 Tachwedd 2017 – 6 Chwefror 2018 /
20 November 2017 – 6 February 2018**



**CYNGOR SIR YNYS MÔN / ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
ADRAN DYSGU GYDOL OES / LIFELONG LEARNING DEPARTMENT**

www.ynysmon.gov.uk / www.anglesey.gov.uk

Rhif	CYNNWYS	TUDALEN
1.	CYFLWYNIAD A CHEFNDIR	3
2.	GYRWYR NEWID	3
3.	Y BROSES YMGYNGHORI	5
4.	SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI	6
5.	YMATEBION O YSGOL BEAUMARIS	7
6.	YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN	9
7.	YMATEBION O YSGOL LLANGOED	9
8.	YMATEBION O'R AROLWG AR-LEIN	10
9.	YMATEBION ERAILL	26
10.	ADBORTH GAN DDISGYBLION	26
11.	YSTYRIAETHAU ARIANNOL	33
12.	YSTYRIAETHAU AMGYLCHEDDOL	34
13.	ARGYMHELLIAD	35

1. CYFLWYNIAD A CHEFNDIR

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn ymroddedig i ddarparu'r ddarpariaeth addysgol orau un ar gyfer holl blant a phobl ifanc yr ynys.

Yn rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Cyngor yn adnabod bod moderneiddio addysg a sicrhau bod ein hadeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu deniadol sy'n symbylu plant a phobl ifanc i ddod yn ddysgwyr effeithiol a chyflawni sgiliau bywyd yn brif flaenoriaeth.

Yn y cyd-destun hwn, mae ar y Cyngor eisiau moderneiddio ysgolion er mwyn:

- gwella deilliannau addysgol ar gyfer plant a phobl ifanc a thorri'r cyswllt rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel,
- gwella ymhellach safonau arweinyddiaeth ac ansawdd addysgu a dysgu,
- cyflwyno ysgolion sector-arweiniol a safonau sector-arweiniol ar gyfer pob cymuned.

Bydd cyflwyno'r rhaglen foderneiddio uchelgeisiol hon yn gofyn am uno ysgolion sydd ohoni drwy gyfuniad o ffederasiynau ysgol, ad-drefnu dalgylchoedd yn helaeth yn seiliedig ar ailfodelu adeiladau ysgol sydd ohoni neu adeiladu ysgolion ardal newydd a chau ysgolion nad ydynt yn addas i bwrpas.

2. GYRWYR NEWID MODERNEIDDIO FYDD YN DYLANWADU AR BENDERFYNIAD YNGHYLCH Y DDARPARIAETH ORAU I'R ARDAL

Nodir isod rhai o'r gywyrwyr moderneiddio fydd yn dylanwadu ar benderfyniad ynghylch y ddarpariaeth orau i'r ardal:

Codi safonau addysgol

Mae'r Cyngor yn ymrwymedig i godi safonau'n sylweddol os am gyrraedd ei nod o fod yn un o'r 5 Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru. Yn ôl gwaith ymchwil presennol, awgrymir ei bod yn anodd cysylltu safonau â maint ysgol. Fodd bynnag, mae adroddiadau diweddar yn awgrymu bod gan ysgolion cynradd mwy [dros 100 (neu 105) o ddisgyblion neu fwy] dimau arweinyddiaeth sydd a mwy o gapasiti i sicrhau gwelliannau; athrawon gyda mwy o arbenigedd mewn meysydd penodol sydd yn ei dro yn dylanwadu ar arferion athrawon eraill a thrwy hynny yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau gwaith plant. Mewn ysgolion llai [o gwmpas 50 neu lai] mae dosbarthiadau oedranau cymysg yn cynnwys hyd at bedwar grŵp oedran, ac sydd weithiau yn rhychwantu cyfnodau allweddol. Mae hyn yn gosod her sylweddol i athrawon os am sicrhau bod pob plentyn yn cael ei ymestyn hyd eithaf i'w allu. Mae'r strategaeth moderneiddio ysgolion yn anelu i ddileu esiamplau o ddisbarthiadau gyda mwy na 2 grŵp oed.

Lleihau'r amrywiad mewn cost y disgybl

Mae'r gost fesul disgybl yn amrywio'n sylweddol, o £2,795 i £10,828 ar draws ysgolion cynradd y sir. Roedd gwariant y Cyngor ar ysgolion cynradd yn 2017-18 [£3,962 y disgybl ar gyfartaledd] yr uchaf ond un yng Nghymru. Bydd angen i'r rhaglen moderneiddio roi sylw i normaleiddio'r gost y disgybl ar draws yr awdurdod a'i chysoni â'r cyfartaledd Cymru gyfan.

Sicrhau bod adeiladau ysgol yn creu amgylchedd dysgu orau bosib

Mae gwella ansawdd yr adeiladau ysgol a sicrhau'r amgylchedd dysgu gorau posibl [sy'n adlewyrchu'r rhai yn ein hadeilad ysgol ddiweddaraf - Ysgol y Graig - a ddefnyddir fel meincnod] ar gyfer ein plant yn hanfodol bwysig i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r math hyn o amgylchedd yn cynnwys cyfleusterau addysgu a dysgu o'r ansawdd gorau, cyfleusterau TGCh o'r radd flaenaf, manau chwarae addas, ardaloedd staffio a gweinyddu priodol, ynghyd a diogelwch ar gyfer adeiladau'r ysgol a safle'r ysgol. Noda Estyn bod "gwella ansawdd yr adeiladau'n cael effaith lesol iawn ar ansawdd yr addysgu a morâl y staff sydd, yn ei dro, yn cael effaith gadarnhaol ar berfformiad plant." Bydd gan bob plentyn fynediad at gyfleusterau addas fel y gellir darparu ystod lawn o brofiadau addysgol.

Nid yw yn bosib i'r Cyngor gynnal nifer fawr o adeiladau ysgol sy'n heneiddio ac yn gostus i'w cynnal. Rhaid sefydlu patrwm newydd o ysgolion sydd yn dileu'r diffygion yn yr adeiladau presennol, gan gynnwys materion iechyd a diogelwch sylweddol sy'n gysylltiedig â'r adeilad neu'r safle. Mae angen datblygu cyfundrefn o ysgolion lle mae trefniadau cynnal a chadw ar eu cyfer sy'n gynaliadwy.

Creu'r amodau fel bod Penaethiaid yn llwyddo - cynyddu capasiti arweinyddol

Mae ysgolion effeithiol yn cael eu harwain yn dda. Mae gan ysgolion llwyddiannus arweinyddiaeth gref ar bob lefel, gan gynnwys y Llywodraethwyr. Mae'r sialensiau sydd ynghlwm wrth arwain a rheoli ysgol wedi cynyddu'n sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'r disgwyliadau'n parhau i gynyddu. Mae angen amser digyswllt digonol ar Bennaeth, gyda chefnogaeth ddirprwy bennaeth neu uwch dim rheoli, i sicrhau bod yr addysgu a'r dysgu o'r radd flaenaf, i werthuso a chodi safonau, i ddatblygu gweithdrefnau hunan-arfarnu trylwyr ac i sicrhau datblygiad proffesiynol parhaus y staff. Mae'r rhain yn ddisgwyliadau sylweddol. Mae angen sicrhau bod gan Benaethiaid o leiaf 50% o amser digyswllt. Golyga hyn bod angen i ysgol [neu ffederasiwn o ysgolion] gael o leiaf 100 o ddisgwyblion os am ddarparu'r amser angenrheidiol i'r Pennaeth i gyflawni'r rôl arwain yn llwyddiannus.

Sicrhau cyflenwad digonol o Benaethiaid at y dyfodol

Dros y pum mlynedd nesaf mae'n debyg y bydd dros draean neu 36% o'n penaethiaid cynradd yn ymddeol. Oherwydd bod llawer ohonynt yn arwain ysgolion bach, bydd angen i'r Cyngor ystyried y modelau arweinyddiaeth fwyaf effeithiol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae nifer yr ymgeiswyr am swyddi pennaeth wedi lleihau ac mae hyn yn destun pryder. Mae angen i'r rhaglen moderneiddio ysgolion geisio ateb y broblem drwy sicrhau cyfleoedd addas i ddatblygu arweinyddiaeth mewn ysgolion unigol. Mae angen arweinwyr rhagorol ar ein hysgolion. Bydd y rhaglen foderneiddio'n rhoi sylw i faterion cynllunio olyniaeth ac yn diogelu a datblygu'r talentau arweinyddiaeth sydd gennym yn ein hysgolion.

Defnydd cymunedol o adeilad yr ysgol

Mae ymchwil yn awgrymu bod ysgolion gyda gwasanaethau ychwanegol fel clybiau brecwast, clybiau ar ôl ysgol, gwarchod plant, gweithgareddau haf a phenwythnos yn cyflawni safonau uwch a chyswllt gwell â rhieni a'r gymuned. Disgwylir i ysgolion hefyd fod yn adnodd i'r gymuned leol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol. Mae'r math yma o weithgaredd yn bwysig i ddatblygu'r cysylltiad rhwng ysgolion a'r gymuned leol. Bydd ysgolion a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio yn gweithredu fel ysgol ardal h.y. yn darparu

ystod o wasanaethau a gweithgareddau sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r diwrnod ysgol, i helpu i gwrdd ag anghenion y plant, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach.

Lleihau nifer llefydd gweigion

Yn Ionawr 2017, roedd nifer y llefydd gweigion mewn ysgolion cynradd ym Môn yn 13.0%. Er hynny, mae 32% o lefydd gweigion yn y 3 ysgol dan sylw, sydd dipyn mwy na tharged Llywodraeth Cymru [15% ar lefel Awdurdod a 10% mewn ysgolion unigol]. Er hynny, mae angen i'r Cyngor, barhau i leihau nifer y llefydd gweigion er mwyn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru ac ymateb i un o feirniadaethau Estyn yn adroddiad 2012. Golyga hyn bod angen anelu at sefyllfa lle bo ysgolion yn fwy na 85% llawn gan anelu bod 90% o'r llefydd wedi eu llenwi ar draws y sector cynradd.

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog

Bydd unrhyw drefniant a ddatblygir fel rhan o'r rhaglen foderneiddio'n rhoi blaenoriaeth i gryfhau a diogelu'r Gymraeg / dwyieithrwydd.

3. Y BROSES YMGYNGHORI

Ymgynghorodd y Cyngor gyda rhieni, llywodraethwyr a staff yn y dair ysgol a hefyd gyda'r cynghorwyr lleol a chyda Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill. Roedd y cyfnod ymgynghori'n rhedeg o 20 Tachwedd 2017 hyd at 6 Chwefror 2018.

Pwrpas y broses ymgynghori statudol oedd gwahodd y gymuned leol i roi eu barn ar y cynnig ar gyfer darparu addysg gynradd yn ardal Seiriol sef Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed.

Roedd cyfarfodydd wedi eu trefnu gyda rhanddeiliaid dros y cyfnod hwn:

Ysgol	Dyddiad (yn 2017)		Cyfarfod gyda		
			Staff	Llywodraethwyr	Rhieni
Llangoed	Dydd Llun	27 Tachwedd	3.30	5.00	6.30
Beaumaris	Dydd Mercher	29 Tachwedd	3.45	5.00	6.00
Llandegfan	Dydd Iau	30 Tachwedd	3.45	5.30	6.30

Pan fydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at ariannu ysgol newydd, mae angen i'w buddsoddiad gwrdd ag amcanion buddsoddi sef:-

1. lleihau llefydd gweigion
2. cynyddu amser di gyswllt i athrawon
3. i'r ysgol fod o safon ysgol yr unfed ganrif ar hugain
4. gwella deilliannau addysgol
5. lleihau ôl groniad cynnal a chadw
6. gwella effeithlonrwydd ynni

Mae'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn caniatáu i rieni dewis pa ysgol fydd eu plentyn yn ei mynychu. Beth bynnag fydd deiliant yr ymgynghori anstatudol a statudol, efallai bydd angen adolygu'r dalgylchoedd presennol a ffurfio dalgylchoedd newydd. Yn unol â'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998, ni fyddai'r Awdurdod yn gallu gorfodi rhieni i symud eu plant i'r ysgol gynradd newydd. Byddai hyn yn cynyddu'r risg o lefel uchel o lefydd gweigion yn yr ysgol gynradd newydd.

Cyflwynwyd sylwadau a llythyr gan Gorff Llywodraethol Ysgol Biwmares i'r Pwyllgor Craffu gan Gadeirydd y Llywodraethwyr yn ei gyfarfod ar 02/10/17 (Atodiad 16). Yn ogystal, cyflwynwyd sylwadau a phapur gan Rhian Jones ar ran Pwyllgor Ymateb Ymgynghorol Ysgol Gynradd Biwmares. Anfonodd y Pennaeth Dysgu ateb i'r ddau barti ar 18/10/17.

Trafodwyd y mater gan y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2017. Mae'r cofnodion drafft yn datgan: Penderfynwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol

- Yn derbyn yr adroddiad ar yr ymgynghoriad anstatudol yn ardal Seiriol ac yn argymhell yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.
- Yn cefnogi'r argymhellion yn yr adroddiad mewn perthynas â'r opsiynau a ffafrir, sef cynnal ymgynghoriad statudol ar y canlynol –

Opsiwn 2 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall, adnewyddu'r ddwy ysgol a'u ffederaleiddio o bosib;

Opsiwn 3 - Cau Ysgol Biwmares a rhoi'r dewis i'r rhieni anfon eu plant i'r ddwy ysgol arall ac adolygu'r dalgylchoedd.

Trafodwyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 12 Mawrth 2018 a penderfynwyd:

Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod penderfyniad ar foderneiddio ysgolion yn ardal Seiriol yn cael ei ohirio er mwyn rhoi mwy o amser i adolygu ac i asesu'r effaith ar y gymuned, a hefyd y dylid ffurfio grŵp rhanddeiliaid i edrych yn fanwl ar ffyrdd eraill o liniaru'r risgiau yn yr ardal.

Trafodir pwyntiau a phryderon godwyd mewn llythyrau ac e-byst, yn ystod ac ar ôl cyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol, er iddynt fod tu allan I'r cyfnod ymateb I'r ymgynghori statudol ar gyfer ymatebion, yn Atodiad 11.

Gweler ddiweddariad ar Asesiad Effaith yr Awdurdod yn Atodiad 12.

Gweler ymateb Estyn yn Atodiad 13.

4. SYLWADAU O'R CYFARFODYDD YMGYNGHORI

Rhestrir rhai sylwadau a phryderon o bob un o'r cyfarfodydd isod (nid yw'r rhain yn gofnodion o'r cyfarfodydd). Ceir fwy o sylwadau yn rhan 5 o'r ddogfen hon.

Ysgol Llangoed

- Pryder am gynllun yr ysgol yn 'open plan'
- Holwyd am amserlen posib y gwaith
- Pryderon am ddiogelwch y plant yn ystod y gwaith adeiladu
- Pryder am drafftig a pharcio ger yr ysgol
- Ansicrwydd am y broses ffedereiddio

Ysgol Beaumaris

- Pryderon am swyddi'r staff
- Teimlad fod tref i fod i gael ysgol
- Angen trwsio'r lonydd i Beaumaris ac yn cael buddsoddiad i ardal Seiriol
- Pryderon am effaith posib cau Ysgol Beaumaris ar y dref
- Amheuaeth am y ffigurau cynnal a chadw

Ysgol Llandegfan

- Holwyd am amserlen posib y gwaith
- Pryderon am swyddi'r staff
- Ansicrwydd am y broses ffedereiddio
- Teimlad fod angen ystyried y lonydd i'r ysgol

5. YMATEBION O YSGOL BEAUMARIS

- 5.1 Derbyniwyd 58 o ymatebion gan randdeiliaid yr ysgol yn ogystal â
- deiseb electronig roedd 543 wedi ei llofnodi (gweler rhan 5.3 isod),
 - deiseb ar bapur roedd 363 wedi ei llofnodi (gweler rhan 5.4 isod).
- 5.2 Derbyniwyd y 58 ymateb yn y ffurfiau canlynol:
- Llythyr - 22 ymateb (38%)
 - Ffurflen – 26 ymateb (45%)
 - E-bost – 10 ymateb (17%)
- 5.3 Derbyniwyd copi i ddeiseb electronig ar 6 Chwefror 2018 ac roedd 543 wedi ei llofnodi o fewn y cyfnod ymgynghori. Roedd rhai o'r rai lofnododd y ddeiseb wedi anfon ymateb i'r ymgynghori yn ogystal. Roedd y ddeiseb yn gofyn i gadw Ysgol Beaumaris ar agor a bod y llofnodwyr yn "gwrthwynebu unrhyw gynnig byddai'n golygu cau Ysgol Gynradd Beaumaris".
- 5.4 Yn ogystal, derbyniwyd deiseb ar bapur "i wrthwynebu cau Ysgol Gynradd Beaumaris" ac i "wrthwynebu'n gryf y cynnig i gau Ysgol Gynradd Beaumaris". Roedd 363 o lofnodion ar y ddeiseb. Cafodd ddeiseb ei gyflwyno i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar 28 Chwefror 2018.
- 5.5 O ran yr holl ymatebion, barn 28 ymatebydd (48%) oedd y dylai'r ysgol aros ar agor.
- 5.6 Roedd 20 ymatebydd (34%) o'r farn y byddai cau'r ysgol yn niweidiol i'r gymuned. Dywedodd un trigolyn byddai cau'r ysgol yn "cynyddu'r anghydbwysedd demograffaid" yn nhref Beaumaris. Yn ôl ymatebydd arall, cae pêl-droed yr ysgol yw'r unig un yn y dref a byddai'n "sefyllfa drist" petai'r ysgol yn cau yn arwain at golli'r cae pêl-droed".
- 5.7 Byddai cau Ysgol Beaumaris yn ôl 18 ymatebydd (31%) yn cael effaith ar gludiant – byddai'n gwneud hi'n anodd i rieni sydd heb gar bigo eu plant i fyny o ysgol arall. Roedd eraill o'r 18 ymatebydd yma yn meddwl nad oedd safle Ysgol Beaumaris yn addas ar gyfer tai gofal ychwanegol gan ei fod "ar ben allt serth". Roedd yr ymatebwyr hyn hefyd o'r farn fod angen gwella'r rhwydwaith ffyrdd yn ardal Seiriol.

- 5.8 Barn 15 o ymatebwyr (26%) oedd fod yr holl broses yn annheg.
- 5.9 Nid oedd 13 ymatebydd (22%) o ymatebwyr yn cytuno gyda chostau adnewyddu Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed. Yn hytrach roeddent o'r farn dylid buddsoddi'r pres yna yn Ysgol Beaumaris. Yn ogystal, nid oedd yr ymatebwyr hyn yn meddwl nad oedd yr Awdurdod "wedi gwario unrhyw bres arni am nifer o flynyddoedd".
- 5.10 Roedd 10 ymatebydd (17%) yn meddwl dylid cau ysgol arall (Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed) yn hytrach nag Ysgol Beaumaris.
- 5.11 Nid oedd 9 ymatebydd (16%) yn teimlo byddai cau'r Ysgol Beaumaris yn benderfyniad doeth ar gyfer y dyfodol o ystyried ffactorau fel tyfiant yn y boblogaeth a datblygiadau mawr, Wylfa Newydd ac "atyniadau addysgol" lleol fel Castell Beaumaris.
- 5.12 Barn 7 ymatebydd (12%) oedd y gellir ffedereiddio Ysgol Beaumaris gydag ysgol arall neu rannu pennaeth gydag ysgol gynradd arall.
- 5.13 Roedd yr un nifer (7 ymatebydd, 12%) yn pryderu am effaith posib cau Ysgol Beaumaris ar swyddi'r holl staff yn yr ysgol.
- 5.14 Adeiladu estyniad ar Ysgol Beaumaris oedd awgrymiad 6 ymatebydd (10%) o ran y ffordd ymlaen.
- 5.15 Yr iaith Gymraeg oedd y pryder i 5 ymatebydd (9%). Eu barn oedd byddai "colli'r ysgol yn ergyd drom i gymeriad a dyfodol y gymuned mewn tref "arbennig" ".
- 5.16 Gweler isod sylwadau eraill dderbyniwyd a'r nifer o ymatebwyr oedd yn cyflwyno neu gytuno gyda'r sylw:

Sylw	Nifer	%
Ysgolion llai yn well	4	7%
Torri ar draddodiad o ysgol yn y dref	4	7%
Iechyd a diogelwch	2	3%
Clwb cyn ysgol	2	3%
Ysgol newydd	1	2%

- 5.17 Derbyniwyd llythyr gan Gorff Llywodraethol Ysgol Gynradd Beaumaris ynghyd â 7 atodiad. Gweler ei sylwadau yn **Atodiad 1** a'r opsiynau amgen ganddynt yn **Atodiad 2**.
 Atodiad A - Holiadur i Rien
 Atodiad B - Aseiad Effaith Cymunedol
 Atodiad C - Deisebau
 Atodiad D - Dadansoddiad Cychwynnol o adroddiad CSYM
 Atodiad E - Dadansoddiad Diwygiedig o adroddiad CSYM
 Atodiad F - Opsiynau Amgen
 Atodiad G - Cefnogaeth Am Yr Opsiynau Amgen

5.18 Gweler dadansoddiad byr o'r opsiynau isod:

Opsiwn A

Mae'r opsiwn hwn yn debyg i opsiwn 1.

Fe grybwyllir na fyddai angen ymestyn Ysgol Llandegfan ond byddai angen gwella Ysgol Gynradd Beaumaris lle mae'r gost ôl-groniad cynnal a chadw yn £ 971,000 i gyflawni Opsiwn A. Nid yw'n ymddangos bod dadansoddiad llawn o'r sgorio yn yr ymateb gan y Pwyllgor Ymateb. Byddai'r opsiwn hwn yn dal i olygu cadw Ysgol Gynradd Beaumaris ar agor gyda'i ôl troed carbon uchel.

Y nifer cyfunol o ddisgyblion yn 2021 fyddai tua 110 o ddisgyblion a fyddai'n golygu y byddai lleoedd dros ben oddeutu 23%.

Opsiwn B

Mae'r opsiwn hwn yn debyg i opsiwn 5.

Mae gofod yn yr ysgol eisoes yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd ar gyfer "asedau cymunedol eraill" e.e. Little Puffins, Mudiad Meithrin. Mae athrawon y Blynyddoedd Cynnar hefyd wedi defnyddio'r ysgol yn hytrach na'u lleoli yn swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Mae athrawon AAA hefyd wedi eu lleoli yn yr ysgol yn y gorffennol. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn rhoi sylw llawn i'r materion cynnal a chadw ôl-groniad a byddai niferoedd disgyblion tua 110. Ni fyddai'n mynd i'r afael ag ôl troed carbon uchel yr ysgol.

Opsiwn C

Mae antur, creadigrwydd a meddylfryd yn nodweddion craidd y cwricwlwm Donaldson newydd a ddaw i rym o 2021. Mae hyn yn golygu y byddai'r nodweddion hyn yn cael eu pwysleisio ym mhob ysgol o 2021 ac felly ni fyddai'n unigryw. Ni fyddai mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran y costau cynnal a chadw ôl-groniad uchel ac ôl troed carbon uchel.

Opsiwn D

Mae'r model a gynigir yn uchelgais clodwiw ac mae'r manteision a grybwyllir yn cael eu cofnodi'n eithaf da. Fodd bynnag, ni chrybwyllir cost "moderneiddio trylwyr Ysgol Gynradd Beaumaris". Ni fyddai mynd i'r afael â'r sefyllfa o ran y costau cynnal a chadw ôl-groniad uchel ac ôl troed carbon uchel.

Cyflwynwyd opsiwn arall gan randdeiliad ac fe'i gelwir yn Opsiwn E. Mae'n cael ei werthuso yn Atodiad 11.

- 5.19 Derbyniwyd lythyr gan un o'r tri aelod etholedig ward Seiriol. Gweler eu sylwadau yn **Atodiad 3**.
- 5.20 Derbyniwyd lythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud "dylai'r awdurdod ddatblygu a chyflwyno cynllun corfforaethol cydlynol ar gyfer de-ddwyrain Ynys Môn". Roeddent o'r farn "dylid cadw'r Ysgol Beaumaris ar agor.". Gweler eu sylwadau yn **Atodiad 4**.
- 5.21 Roedd llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Beaumaris yn amlinellu'r ffyrdd roedd y Pwyllgor wedi codi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriadau a'r ffyrdd anogwyd trigolion i ymateb. Gweler sylwadau'r Pennaeth Mewn Gofal yn **Atodiad 5**.

- 5.22 Derbyniwyd llythyr gan Gyngor Tref Beaumaris. *Roedd y Cyngor yn bleidiol o ddatrysiad fyddai'n cadw'r tair ysgol.* Gweler ei sylwadau yn **Atodiad 6**.
- 5.23 Cyflwynwyd Asesiad Effaith Cymunedol ar ran y Pwyllgor Ymateb i'r Awdurdod – gellir ei weld yn **Atodiad 9**. Cymherir y ddau Asesiad Effaith Cymunedol yn **Atodiad 10**.

6. YMATEBION O YSGOL LLANDEGFAN

- 6.1 Derbyniwyd 4 ymateb gan randdeiliaid yr ysgol. Roedd yr ymatebion ar y ffurf ganlynol:
- | | |
|-----------------|------------------|
| Llythyr | - 2 ymateb (50%) |
| Ffurflen ymateb | - 2 ymateb (50%) |
- 6.2 Gweler sylwadau'r Pennaeth yn **Atodiad 7**.
- 6.3 Gweler sylwadau Cadeirydd y Llywodraethwyr yn **Atodiad 8**.
- 6.4 Petai ysgol newydd yn cael ei hadeiladu ger Beaumaris, nid oedd yr ymatebwyr yn meddwl byddai'r rhieni yn teithio i'r cyfeiriad hwnnw gan fod nifer o rieni yn gweithio yn ardal Bangor.
- 6.5 Nid oedd yr ymatebydd arall yn meddwl “ffedereiddio Ysgol Llangoed gyda Ysgol Llandegfan yn syniad da”. Roedd yn teimlo byddai “disgwyl i un bennaeth redeg dwy ysgol gydag anghenion gwahanol” yn aflwyddiannus.
- 6.6 Derbyniwyd llythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud fod “angen dybryd ar yr ardal am fwy o dai cymdeithasol ac am gynllun corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Môn” ac am “strategaeth ymroddedig i roi cyfle i'r ardal ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd”. Yn ogystal, roeddent yn gofyn i “gadw'r tair ysgol ar draws y ward ac i fuddsoddi ynddynt”. Gweler eu sylwadau yn **Atodiad 3**.

7. YMATEBION O YSGOL LLANGOED

- 7.1 Derbyniwyd cyfanswm o 4 ymateb gan randdeiliaid. Roedd yr ymatebion ar y ffurf ganlynol:
- | | |
|-----------------|------------------|
| E-bost | - 2 ymateb (50%) |
| Ffurflen ymateb | - 2 ymateb (50%) |
- 7.2 Roedd dau ymatebydd yn holi os fyddai'n bosib “gwerthu neu lesio rhan o Ysgol Beaumaris ond cadw'r ysgol yn agored”. Yn ogystal, roeddent o'r farn byddai “colli Ysgol Llangoed yn cael effaith andwyol ar y gymuned gyfan, nid plant yn unig. Byddai hefyd yn ddrwg i'r amgylchedd” meddent.”
- 7.3 Yn ôl y ddau ymatebydd arall, byddai cau'r ysgol yn mynd yn groes i amcanion y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol. Nid oeddent yn gweld pam dylid “cosbi Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan am redeg ysgolion llwyddiannus”.


7.4 Derbyniwyd llythyr gan dri aelod etholedig y ward. Roedd y 3 aelod yn dweud fod “angen dybryd ar yr ardal am fwy o dai cymdeithasol ac am gynllun corfforaethol ar gyfer De Ddwyrain Môn” ac am “strategaeth ymroddedig i roi cyfle i’r ardal ffynnu yn gymdeithasol ac yn economaidd”. Yn ogystal, roeddent yn gofyn i “gadw’r tair ysgol ar draws y ward ac i fuddsoddi ynddynt”. Gweler eu sylwadau yn [Atodiad 3](#).

8. YMATEBION O’R AROLWG AR-LEIN


Ymgynghoriad Statudol ar gynnig ar gyfer y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol

Yn ychwanegol i’r adroddiad ar yr ymgynghoriad roedd cyfle i’r rhanddeiliaid gyfrannu at arolwg electroneg trwy wefan Cyngor Sir Ynys Môn .Cyflwynir isod grynodedb o’r arolwg. Rydym yn ddiolchgar i’r 62 o bobl a gymerodd rhan yn yr arolwg gyda chynrychiolaeth o’r dair ysgol dan sylw.


Holwyd y cyfranogwyr pa grŵp roeddent yn eu cynrychioli, a dyma’r ymateb:



Gwybodaeth am yr unigolion sydd wedi cwblhau'r arolwg:




Grŵp oedran yr unigolion:



Holwyd y cyfranogwyr os yr oeddent yn cytuno efo'r rhesymau dros newid. Y rhesymau dros newid a nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, sef:

- Lleihau nifer y llefydd dros ben
- Materion ariannol
- Codi safonau
- Sicrhau'r adnoddau diweddaraf mewn perthynas ag ysgolion ac adnoddau dosbarth
- Torri'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad addysgol isel
- Capasiti arweinyddiaeth a rheolaeth

Ceir ymatebion gan drawstoriad o cyfranogwyr isod:




Holwyd y cyfranogwyr os yr oeddent yn cytuno efo'r cynnig sef:

‘Cau Ysgol Biwmares ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr ar yr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad ddatgan eu dewis am naill ai Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed yn unol â'r polisi mynediad ysgolion.

- Adolygu dalgylchoedd presennol y dair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Biwmares yn cau.
- Adnewyddu Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan; ac
- Ystyried ffederaleiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd broses hon'.

Dyma'r ymateb :



Rhoddwyd y cyfle i'r rhanddeiliaid awgrymu cynigion eraill a dyma ag awgrymwyd:

Cadw Ysgol Beaumaris ar agor gan fod digon o botensial a digon o le i blant ysgol arall yno
Rwy'n cytuno efo'r 4 cynnig amgen* ¹ a gyflwynwyd gan Lywodraethwyr Ysgol Beaumaris a'r Pwyllgor ymateb.
Cadw Ysgol Beaumaris ar agor. Buddsoddi i uwchraddio un ysgol yn hytrach na dwy, fel sydd yn y cynnig presennol.
Cau Ysgol Llangoed a throsglwyddo plant Ysgol Llangoed i Ysgol Beaumaris. Neu gau Ysgol Llandegfan a throsglwyddo plant Ysgol Llandegfan i Ysgol Beaumaris.
Gwneud Ysgol Beaumaris yn ysgol lai ar yr un safle. Cadw Ysgol Llangoed ar agor, efo'r opsiwn i'w ymestyn. Gadael Ysgol Llandegfan fel y mae. Os yn briodol cael un pennaeth i fod yn gyfrifol am Ysgol Llangoed ac Ysgol Beaumaris.
Ystyried adeiladu mwy o dai i bobl ifanc a'u teuluoedd. Mae lle digonol i adeiladu cartrefi ar hen safle gofal dydd, sy'n rhan o dir yr ysgol. Yn ogystal mae safle'r ysgol bresennol yn rhy fawr, ac nid yw'n cael ei ddefnyddio i gyd gan yr ysgol. Ymhle mae un opsiwn neu nhw i gyd yn gallu sicrhau bod yr ysgol yn parhau i weithredu ac yn dod yn gynnig hyfyw. Yna adolygu niferoedd y plant ymhen ychydig o flynyddoedd.
Gwneud Ysgol Beaumaris yn llai ond cadw lle yn yr adeilad rhag ofn y bydd cynnydd yn y disgyblion i'r dyfodol Mae Llywodraethwyr yr ysgol wedi cynnig 4 opsiwn amgen. Mae Cyngor Sir Ynys Môn angen ystyried yn fanwl y 4 opsiwn a'u sgorio yn erbyn eu cynnig dan sylw. Mae Cyngor Tref Beaumaris yn cefnogi'n llawn ymdrechion a chynigion Llywodraethwyr yr ysgol.
Cau Ysgol Llangoed a throsglwyddo'r plant i Ysgol Beaumaris

¹ Mae'r 4 opsiwn amgen a gyflwynwyd gan Gorff Llywodraethu Ysgol Beaumaris wedi cael eu hystyried yn yr adroddiad ar Ymgynghoriad ardal Seiriol.

Cadw Ysgol Beaumaris ar agor, ar ffurf lai.
Adeiladu tai Gwarchod ar safle Ysgol Llangoed ac adeiladu Tai Cymdeithasol gyferbyn ag Ysgol Beaumaris. Bydd hyn yn ffordd o gadw Ysgol Beaumaris ar agor.
Adeiladu ysgol ardal i Seiriol, fel mae ardaloedd eraill wedi cael.
Cau Ysgol Llangoed a symud y plant I Ysgol Beaumaris fwy
Cau Ysgol Llangoed a moderneiddio Ysgol Beaumaris a'i henwi'n Ysgol Bro Seiriol
Cau Ysgol Llangoed a gwneud y newidiadau angenrheidiol i Ysgol Beaumaris a'i henwi'n YSGOL BRO SEIRIOL
Cau Ysgol Beaumaris, Llangoed, Llandegfan ac o bosib Ysgol Pentraeth ac adeiladu ysgol ardal newydd yn ardal Llansadwrn.
Cadw Ysgol Beaumaris ar agor a chau Ysgol Llangoed er mwyn cyrraedd targedau Llywodraeth Cymru o leihau llefydd gweigion yn ardal Seiriol.
Opsiynau amgen A, B,C, D amlinellwyd yn ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Beaumaris
Cyfuno'r tair ysgol dan sylw a chynnwys Porthaethwy, Llanfairpwll ac efallai Pentraeth. Adeiladu ysgol ardal newydd ar safle ger Ysgol David Hughes. Gall yr ysgol ddefnyddio adnoddau'r ganolfan hamdden a mynediad at yr ysgol uwchradd. Gall gynorthwyo efo'r trosglwyddo o'r cynradd i'r uwchradd. Efallai bod hwn yn opsiwn drud , ond bydd arbedion yn y tymor hir.

Unrhyw fater arall i'w cyflwyno gan y cyfranogwyr

Niferoedd plant Ysgol Beaumaris yn cynyddu a niferoedd Ysgol Llangoed yn gostwng
Y system sgorio heb fod yn deg ac mae'r ffigyrau a gyflwynwyd gan CSYM am y gost cynnal a chadw yn anghywir a ddim yn ffeithiol
Mae gwallau yn yr ymgynghoriad
Mae angen mwy o Dai Cymdeithasol yn ardal Beaumaris, ar y safle gyferbyn ag Ysgol Beaumaris o bosib
Os bydd Ysgol Beaumaris yn cau, fe all fod yr unig dref yng Nghymru heb ysgol. Mae sefydliad addysg wedi bod yn y dref ers dros 400 o flynyddoedd. Mae'n annhebygol y bydd rhieni yn anfon eu plant i ysgol Llangoed gan ei fod yn y cyfeiriad anghywir. Mae fwy o debygolrwydd y bydd plant yn anfon eu plant i ysgolion yng Ngwynedd gan fod Ysgol Borth yn llawn.
Nid yw'r Cyngor yn gwrando ar rieni Ysgol Beaumaris. Pam cau ysgol er mwyn rhyddhau'r tir i'r henoed? Mae gennym ddigon o gartrefi iddynt mewn 3 lleoliad gwahanol. Mae angen ail ystyried

Nid oes astudiaeth cylch bywyd llawn yr ysgol wedi ei ystyried
Pam nad ydych yn ystyried ysgol ardal fel Caergybi, Llanfaethlu a Niwbwrch? Mae ysgolion bach wedi cau yn yr ardaloedd eraill. Pam bod Seiriol yn cael ei drin yn wahanol?
Mae ysgol yn Beaumaris wedi dyddio ac mae niferoedd y plant yn gostwng am reswm. Mae prisiau tai yn rhy uchel i deuluoedd ifanc, mae o'n dref i ymddeol. Dylwn ymateb i hyn.
Dyle'r dref o'r maint yma gael ysgol gynradd, oni bai eich bod eisiau iddo fod yn fan chwarae i'r cyfoethog neu dref i ymddeol. Wrth gau ysgol bydd teuluoedd yn gorfod symud neu yrru i ysgol arall, sy'n gwneud dim synnwyr.
Mae parcio yn Beaumaris yn broblemus
Mae rhagamcanion y bydd niferoedd plant yn cynyddu yn sylweddol yn ystod y 4 blynedd nesaf Mae yna bosibilrwydd bydd Wylfa Newydd yn cynyddu niferoedd y plant ymhellach.
Nid yw tref fod heb ysgol
Pob tref angen ysgol
Nid ydych yn gwranddo
Yn cytuno'n gryf efo'r angen i gadw Ysgol Llangoed ar agor. Mae o'n wasanaeth allweddol i'n cymuned. Fel aelod o Gorff Llywodraethu Ysgol Llangoed edrychaf ymlaen at weithio efo'r Cyngor a'r rhanddeiliaid eraill i leihau aflonyddwch
Mae Ysgol Llandegfan yn ysgol lwyddiannus iawn. Mae angen sefydliad Gymraeg cadarn ac mae'r ysgol yn sicrhau hyn
Cadwch gymaint ag y gallwch yn Llangoed, rydym wedi colli gymaint yn barod
Mae'n gwneud synnwyr llwyr i uwchraddio Llandegfan ar ôl darllen eich data ar gost a pherfformiad. Yn ymarferol hefyd, digon o le i ymestyn.
Mae opsiwn ffafredig y Cyngor yn ddrytach na nifer o'r opsiynau eraill, ac un o'r rheiny oedd lleihau maint Ysgol Beaumaris, sy'n agor drysau i ffyrdd arloesol o weithio. Llefydd gweigion uchel yn Beaumaris oherwydd rhesymau demograffeg. Mae Beaumaris angen denu mwy o deuluoedd ifanc, gallwn lwyddo i wneud hyn trwy gynyddu tai fforddiadwy a gwella darpariaeth gofal. Mae'r ysgol yn barod wedi gwell y ddarpariaeth gofal, bellach mae rhieni yn gallu anfon eu plant i'r ysgol, ond mae effaith hyn ar niferoedd am gymryd amser. Yn ôl rhagamcanion y Cyngor mae niferoedd Beaumaris am gynyddu a niferoedd Llangoed am leihau. Mae Llangoed allan o ffordd i ran fwyaf o rieni Ysgol Beaumaris. Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu'n bresennol pa ysgolion fydd yn cael gwarchodaeth o ganlyniad i'w statws 'gwledig'. Mae'n bryder bod y Cyngor yn ystyried symud ymlaen efo'i Raglen Moderneiddio Ysgolion cyn i Lywodraeth Cymru ryddhau'r canlyniadau. Yr ysgol yw'r unig sefydliad cymunedol yn Beaumaris, sy'n cyfrannu at ddatblygiad diwylliant Gymraeg a'r Iaith, ac mae'n gwneud hynny efo canlyniadau gwych. Mae fy mhlentyn 4 oed yn cymryd balchder mewn siarad Cymraeg, er nad yw ei rieni yn siarad yr Iaith. Mae uchelgais Llywodraeth Cymru o gynyddu'r niferoedd sy'n siarad Cymraeg yn cael ei danseilio pan mae Awdurdodau Lleol yn gwneud penderfyniadau heb ystyried sut

byddent yn effeithio ar ddiwylliant Gymraeg mewn cymunedau lleol. Mae o hefyd yn bryder bod y Cyngor heb wneud dim i ddeall yn llawn yr effaith bosib ar y gymuned, os bydd yr opsiwn ffafredig yn cael ei wireddu. Mae'n warth i gynnig opsiwn yn ffurfiol sydd wedi cael ei feirniadu am y rheswm y bydd yn dinistrio dyfodol y dref. Yn hytrach na asesu'r honiadau yma a'u cymryd o ddifri - mae'r Cyngor yn gyfleus wedi eu gwrthod. Mae'r Asesiad Effaith Cymunedol a ddatblygwyd gan y pwyllgor ymateb i'r ymgynghoriad yn amlygu pryder dros sefyllfa bresennol y dref a'r dyfodol os bydd y penderfyniad yn cael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Rwy'n cwestiynu fformat y cwestiynau yn yr arolwg. Rwy'n deall y rhesymau pam fod y Cyngor angen adolygu'r ddarpariaeth ysgol gynradd o fewn yr ardal, ond nid wyf yn gallu dweud fy mod yn cefnogi cau Ysgol Beaumaris. Rwy'n drist am y posibilrwydd o golli ysgol, a'r effaith bydd yn cael ar y dref. Nid wyf yn deall pam nad yw'n bosib edrych ar ddarparu ysgol lai yn y dref, a fysa'n ymateb i'r llefydd gweigion yn yr ysgol. Wedi dweud hynny gwn fod nifer o blant dalgylch Beaumaris yn penderfynu mynychu Ysgol Llangoed ac rwy'n hyderus bod yr ysgol yn gallu croesawu mwy o blant i'r dyfodol.

Mae Cartref yr Henoed angen aros

Hoffwn ymateb i'r ymgynghoriad statudol fel aelod o staff sy'n gweithio yn Ysgol Llandegfan. Hoffwn rannu fy mod i'n credu yn gryf y dylai ysgol aros yn Llandegfan. Mae'r ysgol wedi ei rheoli'n dda ac mae mewn iechyd ariannol da. Rydym wedi gweithio'n hynod o galed i gadw safonau'n uchel ac yn ceisio cynnig profiadau eang i'r pant. Mae'r ysgol yn cynnal diwylliant cefnogol a chroesawgar ac ethos cryf o welliant parhaus. Mae niferoedd yr ysgol yn cynyddu gyda dros 150 o ddisgyblion erbyn hyn. Mae gan yr ysgol enw da ac mae ceisiadau'n cael eu gwneud yn gyson, sy'n dangos bod cefnogaeth yn gryf i'r ysgol. Hoffwn rannu fy mod i hefyd o'r farn bod angen pennaeth amser llawn ar yr ysgol ac nid yw yn credu mai ffederaleiddio yw'r ffordd ymlaen. Rwy'n credu buasai croeso mawr i raglen foderneiddio i ddod ag Ysgol Llandegfan i safon ysgol yr 21ain ganrif. Mae tir yr ysgol a'r adeilad yn cynnig potensial ar gyfer ailfodelu neu estyniad.

Credaf fod Ysgol Llandegfan yn parhau i dderbyn llai o ymatebion i'r ymgynghoriad gan fod y rhieni wedi ystyried y ffeithiau a'r data, ac felly yn cymryd y bydd Ysgol Llandegfan yn saff. Mae Ysgol Llandegfan yn ysgol dda a gobeithiaf nad yw'r diffyg ymateb yn adlewyrchu'n negyddol ar yr ysgol.

Nid yw'n gwneud synnwyr i gau Ysgol Llandegfan pan mae'r data yn dangos bod yr ysgol yn dda

Mae Ysgol Llandegfan yn galon y gymuned ac angen aros

Mae fy mhlant wedi mynychu Ysgol Llandegfan a ni allaf ganmol yr ysgol ddigon

Mae Llandegfan yn ysgol wych, staff yn cael eu parchu ac mae'r plant yn mwynhau mynd i'r ysgol. Fel preswlydd o Landegfan ni fyswn yn mynd a fy mhlant i Ysgol Beaumaris

Mae Ysgol Llandegfan angen ei ddiweddarau er mwyn iddo ddod fyny i safon yr 21ain Ganrif a hefyd er mwyn gallu cymryd plant o Ysgol Beaumaris. Efallai bydd parcio yn broblem ac angen sylw, a'r ffordd i mewn ac allan o Landegfan er mwyn dygymod a'r cynnydd yn y traffig

Mae Ysgol Llandegfan angen pennaeth llawn amser, yn enwedig os bydd yr ysol yn cael ei hymestyn a mwy o blant yn mynychu. Dim Ffedereiddio os gwelwch yn dda. Yn cytuno dyle'r Ysgol Llandegfan barhau yn y pentref o Landegfan Ni fydd rhieni yn fodlon teithio tuag at Beaumaris / Llangoed. Byddent yn mynd a'u plant i Borthaethwy / Llanfairpwll a dros y bont i Fangor. Buasai hyn yn achosi problemau i ysgolion eraill yn yr ardal

Mae angen moderneiddio Ysgol Llandegfan ond nid wyf yn credu ei fod yn waith sylweddol. Bydd yn costio llai nag ysgol ardal


Mae Ysgol Llandegfan yn galon y gymuned ac ased da, sydd angen parhau. Mae'n allweddol i'r Iaith Gymraeg bod yr ysgol yn parhau i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ysgol yn boblogaidd o ganlyniad i'r Iaith Gymraeg gael ei siarad ar yr iard. Bydd angen moderneiddio Llandegfan i safon 21ain Ganrif. Os bydd plant ychwanegol yn mynychu bydd angen estyniad

Angen cynnal ysgol gymunedol yn Llandegfan. Heb ysgol mi fysa'r pentref yn dioddef. Nid oes gan y pentref adnoddau fel Beaumaris - Y Castell, Bwytai, clwb hwylio a chanolfan gymunedol.

Mae Ysgol Llandegfan yn bwysig i galon y gymuned ac yn angenrheidiol ar gyfer yr Iaith Gymraeg. Mae Ysgol Llandegfan angen ei foderneiddio er mwyn cwrdd â safonau 21ain Ganrif.

Holwyd y cyfranogwyr os 'fysa'r cynnig o gau Ysgol Beaumaris a throsglwyddo'r plant i Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan yn cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg?'

Roedd 31% yn meddwl y buasai effaith negyddol a 69% yn dweud 'na'.



Dyma ychydig o fesurau lliniaru a gyflwynwyd gan rhai o'r 31% uchod i leihau'r effaith negyddol.

Gwella'r defnydd o'r Iaith o bosib.
Cadw Ysgol Beaumaris yn agored. Cadw presenoldeb cadarn Gymraeg yn y dref
Mae plant Ysgol Beaumaris yn cynrychioli siaradwyr Cymraeg y dref, sy'n barod yn lleihau. Mae swyddi yn cael eu llenwi gan lai o siaradwyr Cymraeg, gan fod y galw amdano yn lleihau.
Mae hwn yn gwestiwn anodd ei ateb. Mae nifer o drigolion lleol yn siarad Cymraeg ac yn ei ddefnyddio pob dydd yn eu bywyd teuluol. Nid wyf yn sicr faint o siaradwyr Cymraeg sy'n cynorthwyo yn yr ysgol ond dychmygaf fod sgysia Cymraeg dyddiol yn cynorthwyo i ddiogelu'r Iaith
Ni fydd effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg pa bynnag opsiwn fyddai wedi ei dewis. Mae dalgylch pob un o'r ysgolion yn llai Cymreig bellach. Ar lefel sirol, nid yw'n gyfrinach fod ysgolion (un yn benodol) yn gwrthod dilyn polisi Iaith Cyngor Ynys Môn felly tra bod hyn yn parhau i'w ganiatáu, does dim perthnasedd i'r cwestiwn yma mewn ymgynghoriadau mewn rhannau eraill o'r sir.
Cadw ysgol yn Beaumaris a'r ethos o ddysgu plant trwy gyfrwng y Gymraeg
Ysgol Gymraeg yw Ysgol Beaumaris. Rydym yn byw mewn gwlad ymhle mae gwybod yr Iaith Gymraeg yn rhugl yn fuddiol ar gyfer swyddi yn yr ardal. Mae dysgu'r Iaith yn ifanc iawn o fudd ac yn haws i'w ddilyn
Bydd nifer o blant sy'n mynychu Ysgol Beaumrais yn bresennol yn mynd i ysgolion ym Mangor os bydd yr ysgol yn cau, gan fod nifer o rieni yn gweithio ac yn teithio yno bob dydd
Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ni fydd cau ysgol yn denu pobl ifanc i'r Dref nac i'r ardal. Gall poblogaeth Beaumaris leihau o fewn 150 flynyddoedd, o ganlyniad i'r diffyg defnydd o'r Gymraeg. Mae yna

nifer o Dai Haf yn Beaumaris sy'n cael effaith negyddol ar yr Iaith Gymraeg. Mae'r dref angen tai cymdeithasol a theuluoedd ifanc
Gwanhau
Statws siarter Iaith Ysgol Beaumaris ydi Arian ac maent yn gweithio tuag at Aur. Mae'n ganolbwynt Iaith Gymraeg a diwylliant Gymraeg yn y Gymuned. Cadwch ar agor. Cynnwys pwyslais ar yr Iaith Gymraeg yn yr opsiwn amgen
Mae gan Ysgol Llangoed agwedd cryf chadarnhaol tuag at yr Iaith Gymraeg, sy'n cael ei annog gan staff a'i fwynhau gan y plant. Nid wyf yn credu bydd plant ychwanegol yn yr ysgol yn peryglu hyn.
Gall arwain at wanhau'r Iaith Gymraeg o fewn Ysgol Llandegfan
Niferoedd plant o gartrefi Cymraeg yn isel – felly bydd yn cael effaith ar niferoedd y disgyblion o gartrefi Cymreig.

Holwyd y cyfranogwyr 'Pa effaith fydd y cynnig yn ei gael ar deuluoedd lleol, nodwch os gwelwch yn dda?'

Dinistriol iawn. Bydd teuluoedd ifanc yn chwilio am lefydd mwy cyfleus i fyw.

Bydd yn ddinistriol iawn i deuluoedd lleol. Yn bersonol ni fuaswn yn rhoi plenty 4/5 blwydd oed ar fws i deithio ar ben ei hun i ysgol arall a dwi'n siŵr ni fydd eraill yn fodlon. Mae nifer o'r plant yn cael eu gofalu amdanynt gan Neiniau a Theidiau yn ystod y dydd, a ni all rhai ohonynt yrru. Beth sydd am ddigwydd i'r plentyn os fydd yn sâl yn yr ysgol, sut fyddent yn mynd adref? Beth am y ffyrdd o Beaumaris i Langoed a Llandegfan, nid ydynt ar gael pan mae hi'n bwrw yn drwm neu lanw uchel? Ydi'r Awdurdod am ddod a fy mhlentyn adref pan mae hyn yn digwydd?

Mae lot mawr o newid yn cael ei gynnig Y teuluoedd sy'n dibynnu ar Nain a Thaid fydd yn dioddef

Cau ysgol yn arwain at blant yn gorfod teithio ar fws neu gar, ac yn ychwanegu at hyd y diwrnod ysgol. Os mae'r plant yn cael eu casglu gan Nain a Thaid neu eraill, bydd yn gallu arwain at deithio ychwanegol neu newid trefn. Plant yn gorfod integreiddio efo ysgolion mwy eu maint, sydd ddim yn addas i bawb. Mae ysgolion bach fel arfer yn fwy defnyddiol i blant sydd angen sylw unigol

O ganlyniad i fforddiadwyedd tai yn Beaumaris ac o amgylch, ychydig o deuluoedd ifanc sy'n ymgartrefu yno. Bydd Beaumaris yn dod yn ardal cartrefi henoed.

Bydd cau Ysgol Beaumaris yn cael effaith negyddol

Bydd teuluoedd yn symud allan o'r ardal, os bydd yr ysgol yn cau. Ni fydd teuluoedd ifanc yn symud i'r ardal

O siarad gyda nifer ohonynt, ni fyddent yn mynd a'u plant i Langoed nac i fyny at Landegfan. Yn hytrach, nifer yn meddwl am fynd a'u plant i gyfeiriadau eraill e.e. Porthaethwy, Benllech, Moelfre a dros y bont yn ddibynnol ar ble mae gwaith y rhieni, Nid ydynt eisiau gwneud hyn ond yr opsiwn mwyaf cyfleus mewn sefyllfa sydd wedi ei gorfodi arnynt. Wrth gwrs, bydd hyn yn cael effaith ar gyfrifiadau'r cyngor o ran arbedion posibl.

Bydd yn cael effaith mawr. Mae'r Isadeiledd o Beaumaris i Langoed neu Llandegfan yn wael, ac yn beryglus ar adegau o dywydd garw sy'n dod yn fwy rheolaidd erbyn hyn. Lleiafswm o unwaith y flwyddyn. Gall fod yn beryglus ar y ffyrdd adeg yna. Heb ysgol bydd teuluoedd lleol yn cael anhawster i gael gwaith ac yn symud o Beaumaris

Bydd yn gatastroffig ar rhai teuluoedd, y rhai lle mae Nain a Thaid yn gofalu ar ôl ysol. Bydd y rhai sydd ddim yn gyrru yn ei gwneud hi'n anodd peidio bod o fewn pellter cerdded. Bydd yn anodd os bydd eu plant yn sâl mewn ysgol arall, heb fod yn Beaumaris

Dim rheswm i deuluoedd ifanc lleol i aros yn Beaumaris

Os bydd rhaid i mi symud fy mhlentyn bydd rhaid Iddi symud i ysgol oddi ar yr ynys. Nid wyf yn gyrru ac mae fy ngŵr yn gweithio oddi ar yr ynys. Bydd yn cael effaith mawr arnom

Mynd a phlant o'r dref, achosi anawsterau teithio i ysgol arall a'u cael yn ôl at ofalwr sydd wedi eu lleoli yn Beaumaris

Rydych yn troi Beaumrais yn Sleepy Hollow. Rydym angen ysgol a swyddi i annog twf

Bydd yn gyrru'r ychydig deuluoedd sydd yma allan o'r dref ac yn atal teuluoedd ifanc rhag symud i'r dref
Bydd yn cael effaith bositif ar deuluoedd ifanc, byddent yn gallu anfon eu plant i ysgolion sy'n agos at le maent yn byw.
Ni does gennyf gludiant ac nid ydwyf yn fodlon rhoi fy mhlant ar fws i deithio i'r ysgol, yn ychwanegol costau teithio
Effaith niweidiol Bydd yn lladd Beaumaris Yn bersonol buaswn yn symud o'r ardal os nad oes ysgol leol yn Beaumaris. Buaswn yn ystyried addysg gartref, rwy'n teimlo mor gryf yn erbyn y cynnig. Ni fydd teuluoedd eisiau symud yma heb ysgol
Bydd yn lladd y dref yn araf
Ni fydd teuluoedd ifanc yn Beaumaris - bydd yn Dref ar gyfer Ymddeol
Bydd yn cael effaith mawr ar deuluoedd lleol os bydd Ysgol Beaumaris yn cau. Mae rhagamcanion niferoedd plant yn dweud y bydd yn cynyddu
Ni fydd teuluoedd yn cael yr opsiwn o anfon eu plant i ysgol leol, ac yn hytrach yn gorfod teithio i Landegfan neu Llangoed. Mae sawl achlysur wedi bod yn y blynyddoedd diwethaf ble mae Beaumrais yn cael ei gau i ffwrdd oherwydd tirlithriad neu lifogydd.
Ni fydd Beaumaris yn ddeniadol i rieni. Mae nifer o blant yn cael eu casglu gan Deidiau a Neiniau, sy'n byw yn lleol. Mae'n annhebygol y byddent yn gallu cael gymaint o ran yn fywydau eu hwyrion, os nad yw'r ysgol yn lleol
Bydd yn anodd i bawb - mynd a phlant i'r ysgol os nad yw'r rhiant yn gallu gyrru Bydd yn anodd i rieni sy'n gweithio yn Beaumaris gan y bydd yn cymryd yn hirach i fynd i'r ysgol .Ni fydd plant yn gallu cerdded i'r ysgol
Ni allaf roi sylw i'r effaith ar Beaumaris ond gobeithiaf o ganlyniad i'r ymgynghoriad, bydd cyfle i wella'r adeilad a'r ddarpariaeth addysgol ehangach yn Ysgol Llangoed mewn ffordd sy'n effeithio'n bositif ar fyfyrwyr presennol a dyfodol yr ysgol.
Ni fydd yn cael effaith ar rieni Ysgol Llandegfan gan y bydd y ddarpariaeth yn aros yr un fath Bydd yn effeithio'r ddyw ysgol arall, gan y bydd rhaid cael cludiant iddynt. Mae rhai teuluoedd yn anfon eu plant i ysgol leol fel eu bod yn gallu cerdded yno yn annibynnol ac yn ddiogel.
Mae teuluoedd Llandegfan angen yr ysgol. Mae nifer o'r teuluoedd yn cerdded i'r ysgol. Mae canran uchel o blant o'r dalgylch
Os bydd Llangoed yn aros ar agor bydd yn rhyddhad i 80+ o rieni sydd â phlant yn yr ysgol. Nid fydd amhariad i addysg 95 o blant ac yn parhau i ddatblygu mewn awyrgylch wych. Bydd ysgol mwy ei maint yn galluogi mwy o weithgareddau tu allan i oriau ysgol. Sy'n beth da.
Dim os cedwir Ysgol Llandegfan ar agor

Cadw'r ysgol fwyaf poblog ar agor yn achosi lleiaf o amharu , yr amhariad o drosglwyddo plant I ysgol nad ydynt yn gyfarwydd â hi.

Os bydd Ysgol Llandegfan yn aros ar agor bydd yr effaith ar ein cymunedau yn bositif

Os bydd Ysgol Llandegfan yn cau bydd y gymuned i gyd yn dioddef

Bydd yn cael effaith bositif arnom. Mae Ysgol Llandegfan yn galon y gymuned

Yr unig effaith ar Landegfan rwy'n rhagweld bydd y cynnydd yn y traffig. Ysgol yn rhan allweddol y gymuned

Mae Llandegfan yn bentref poblogaidd ar gyfer teuluoedd ifanc oherwydd yn agos at waith a gweithgareddau cymdeithasol. Heb ysgol bydd y pentref yn dioddef Plant yn gallu cerdded i'r ysgol a byw a chwarae efo plant maent yn eu hadnabod Yr ysgol yn cael cefnogaeth gan deuluoedd Ysgol boblogaidd Yr ysgol yn bwysig er mwyn gyrru ethos Gymraeg y pentref

Niferoedd y plant yn Ysgol Beaumaris yn sylweddol is na Llandegfan felly credaf fod cau Beaumaris am gael llai o effaith.

Holwyd y cyfanogwyr 'Sut bydd y cynnig yn effeithio cymunedau?'

Drwg

Bydd yn lladd Beaumaris. Sut allwn ddenu teuluoedd ifanc i'r ardal pan mae tai yn gwerthu fel tai haf? Ni fydd plant yn mynychu cyngherddau yn Neuadd y Dref a Gorymdaith y Pasg

Nid yw tref heb ysgol bellach yn dref Rwy'n berson lleol sydd wedi byw yno ar hyd fy mywyd ac wedi gweld newidiadau demograffeg. Mynychais yr ysgol ac roedd yn rhagori, roedd teuluoedd yn teithio o bell i fynychu'r ysgol Roedd tîm pêl droed lleol yma- rŵan wedi ei leoli ym Mangor. Tafarndai a Bwytai yn llawn ers talwm yn ystod yr wythnos, rŵan mae hyn yn dioddef Ymdeimlad cymunedol wedi lleihau oherwydd perchnogion tai sydd a'u prif dai yn rhywle arall

Bydd dy gymuned yn 'heneiddio' a ni fydd yn denu teuluoedd yn ôl - byddent yn dewis byw mewn cymunedau lle mae yna ysgol. Mae'r dref yn dibynnu ar dwristiaeth yn yr haf a phobl leol yn y gaeaf Mae plant ysgol yn cyfrannu at fywiogrwydd ac mae natur a hanes ar eu stepen drws i'w helpu i ddysgu.

Y canlynol o bosib am gael eu heffeithio yn negyddol: cludiant , gofal plant, ymdeimlad o gymuned a sefydlogrwydd teulu

Mae angen pobl ifanc ar unrhyw dref. Nid yw tref sydd â nifer fwyaf o breswylwyr hŷn yn gallu gweithredu yn iawn, mae angen pobl ifanc i gefnogi'r henoed. Mae mwy o dai yn cael eu prynu fel tai haf yn niweidiol i'r dref. Mae twristiaeth yn fudd i'r dref ond rhaid cael y cydbwysedd efo preswylwyr lleol o bob oedran

- Cau Ysgol Beaumaris ac i rieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, i ddatgan eu dewisiad am naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion,
- Adolygu dalgylchoedd presennol y tair ysgol gyda'r bwriad o weithredu unrhyw newidiadau pan fydd Ysgol Beaumaris yn cau; ac
- Adnewyddu Ysgol Llandegfan a Llangoed; ac
- Ystyried ffedereiddio Ysgol Llangoed ac Ysgol Llandegfan ar ddiwedd y broses hon.

2. Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol

Er mwyn gwireddu'r Rhaglen Moderneiddio Ysgolion a chymryd i ystyriaeth y Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) byddent yn rhoddi sylw i greu cymunedau mwy gwydn, cyfathrebu efo'n cymunedau, sefydlu partneriaeth leol, a chynnwys ein cymunedau yn y gwaith cynllunio tymor hir. Y bwriad yw ein bod dilyn proses o'r fath er mwyn galluogi darparwyr a chymunedau i ddatblygu gwasanaethau ar sail angen, yn gallu annog rhannu adnoddau ac arwain at wariant mwy effeithlon hirdymor.

Mae Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithio tuag at gyflawni amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Fel dilyniant i'r Asesiad Llesiant a gynhaliwyd mae Cynllun Llesiant yn cael ei ddatblygu yn bresennol o dan arweiniad Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn. Bydd trefniadau ymgynghori ac ymgysylltu moderneiddio ysgolion yn cael eu cynllunio i ddiwallu anghenion yr asesiad.

Amlinellir isod sut y rhagwelir y Bydd prosiect ar gyfer ysgolion cynradd yn ardal Seiriol yn cyfrannu tuag at y 7 nod Llesiant.

7 nod llesiant	Sut bydd y cynnig ar gyfer Seiriol yn cyfrannu tuag at y 7 nod llesiant
Ffyniannus	Bydd y prosiect yn sicrhau bod adeiladau yn addas i bwrpas a sicrhau bod capasiti a photensial pob disgybl i lwyddo yn cael ei gyflawni.
Cymru sy'n fwy cyfartal	Mae'r Awdurdod yn ymroddedig i fwyhau gwerth pob punt y mae'r Awdurdod Lleol yn ei wario, a gellir gwireddu hyn drwy'r defnydd o fanteision cymunedol. Bydd yr Awdurdod yn ymgorffori manteision cymunedol (e.e. cyfleoedd gwaith a hyfforddiant yn lleol) ym mhob prosiect Moderneiddio Ysgolion gan gynnwys prosiect Seiriol.
Cydnerth	Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn bolisi a sefydlwyd ar y cyd efo siroedd eraill y Gogledd, ar gyfer ymgysylltu a rhanddeiliaid. Mae'r polisi yn seiliedig ar yr egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu a'r cyhoedd Rydym yn ymgynghori'n statudol yn bresennol er mwyn lleihau ymwrthedd. Yn dilyn yr ymgynghoriad bydd grŵp

	<p>rhanddeiliaid yn cael ei sefydlu, er mwyn cynnal y cydweithio rhwng yr Awdurdod a'r Rhanddeiliaid.</p> <p>Bydd hefyd gyfle ar wahân i blant gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau, a chyfrannu trwy gydol oes y prosiect.</p> <p>Yn ogystal bydd Corff Llywodraeth yn cael ei sefydlu ac yn cyfrannu tuag at ddatblygiad y prosiect.</p> <p>Bydd y rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio efo cymunedau er mwyn cyfrannu tuag at Strategaeth Cynllunio Lle (Place Shaping).</p>
Iachach	<p>Mae'r Asesiad Cymunedol sy'n rhan o'r pecyn yma yn cadarnhau bod ysgolion presennol yn ardal Seiriol yn gweithredu fel ysgolion cymunedol.</p> <p>Ymhellach i hyn, bydd ysgolion sy'n cael eu haddasu / adeiladu yn sgil rhaglen moderneiddio ysgolion yn cael eu defnyddio fel hybiau cymunedol sy'n hyrwyddo cymunedau iachach.</p> <p>Bydd yr ysgolion sy'n cael eu hadeiladu / haddasu yn sgil y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cwrdd â safonau Iechyd a Diogelwch a Llesiant.</p>
Cymunedau cydlynus	<p>Fel rhan o'r broses ymgynghori anstatudol mae'r rhanddeiliaid wedi cael y cyfle i leisio barn a chynnig sylwadau. Mae cyfle pellach yn sgil yr ymgynghoriad statudol sy'n mynd rhagddi i fynegi barn a holi swyddogion ymhellach am y cynnig. Rhagwelir fwy o weithio mewn partneriaeth i wella canlyniadau mewn perthynas â lles, iechyd a chyflawni potensial.</p> <p>Bydd yr ysgol yn cyfrannu tuag at Isadeiledd Cymunedol yr ardal</p>

<p>Diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu</p>	<p>Mae'r asesiad effaith ar yr Iaith Gymraeg ynghlwm. Mae'r tair ysgol yn ardal Seiriol, yn ysgolion cyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd yr ysgolion sy'n rhan o'r cynnig yn parhau gyda'r nod o gryfhau'r defnydd o'r Iaith Gymraeg yn yr ysgol, ac yn ceisio dylanwadu ar y defnydd o'r Iaith Gymraeg yn Gymdeithasol.</p>
<p>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang</p>	<p>Hyd yma, mae moderneiddio ysgolion a'r prosiectau cysylltiedig wedi eu halinio â strategaethau corfforaethol, lleol a chenedlaethol. Mae'r rhaglen wedi gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, rhanddeiliaid a'r holl bartneriaid perthnasol i sicrhau bod y prosiectau yn cael eu cefnogi a bod y cyfeiriad strategol yn cael ei ddeall.</p> <p>Mae addasiadau i'n hysgolion yn cyflwyno gwelliannau sylweddol mewn effeithlonrwydd ynni.</p>

3. Aseiad Effaith Cydraddoldeb

Pan fod cynnig i newid trefniadau presennol yn digwydd, yn ôl Deddf Cydraddoldeb 2010, mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus asesu effaith 'polisiâu ac ymarferion'. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r Awdurdod ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effeithiau tebygol neu wirioneddol ei bolisiâu a'i ymarferion ar grwpiau a amddiffynnir a rhoi 'ystyriaeth briodol' i'r canlyniadau asesu hyn. Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi na'r arfer yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau a amddiffynnir
- ystyried sut mae'r polisi neu'r ymarfer yn hybu gwell cyfleoedd cyfartal
- ystyried a yw'r polisi'n effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau

Mae'n angenrheidiol cwblhau aseuadau pan gynigir neu'r adolygir polisi neu arfer. Mae hyn yn cynnwys cynllunio busnes, arbedion effeithlonrwydd ac ad-drefnu staff. Mae'n rhaid i awdurdod gyhoeddi adroddiad pan fydd aseiad yn dod i'r casgliad y bydd effaith sylweddol ar gydraddoldeb.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd gyffredinol ar y Cyngor, wrth iddi gefnogi ei waith i ystyried yr angen am:

- ddiddymu gwahaniaethau, aflonyddwch ac erlid anghyfreithlon ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf
- hybu cyfleoedd cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd berthnasol a amddiffynnir a rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd a amddiffynnir a rhai nad ydynt .

Bydd ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu cynnwys wrth lunio achosion busnes moderneiddio ysgolion ac yn ystod y broses o ddatblygu prosiectau. Bydd y ddogfen aseiad effaith cydraddoldeb yn cael ei ddiweddarau'n gyson er mwyn sicrhau ystyriaeth deg i bawb.

O dan y ddeddf mae'n rhaid rhoi sylw yn benodol i ddileu gwahaniaethau a hyrwyddo cydraddoldeb mewn perthynas â hil, anabledd, rhyw, oedran, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, crefydd neu gred.

Y data a'r dystiolaeth a gasglwyd i bwrpas yr aseuadau isod oedd Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion Ionawr 2017. Yn ogystal anfonwyd holiaduron at benaethiaid y 3 ysgol, er mwyn canfod gwybodaeth benodol am yr Iaith a gweithgareddau cymunedol.

3.a Yr Asesiad Effaith

Wrth ymgymryd â'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb yma mae'r Awdurdod wedi cymryd i ystyriaeth yr effaith negyddol a chadarnhaol o'r cynnig dan sylw.

Meini Prawf Effaith Cydraddoldeb	Effaith Negyddol/ Niwtral/ Cadarnhaol	Beth yw'r effaith a beth yw'r dystiolaeth	Sylwadau						
<p>Oedran</p> <p>Bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid.</p> <p>Bydd plant Ysgol Beaumaris yn gorfod dewis 2 ysgol gynradd amgen. Nid oes gwarant y bydd plant o Ysgol Beaumaris yn aros gyda'u ffrindiau.</p>	<p>Cadarnhaol a Negyddol</p>	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn nodi bod 272 disgyblion yn mynychu y dair ysgol sef:</p> <table border="1" data-bbox="779 710 1406 917"> <tr> <td>Ysgol Beaumaris</td> <td>40</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Llangoed</td> <td>78</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Llandegfan</td> <td>154</td> </tr> </table> <p>Bydd disgyblion o bob oedran yn cael eu heffeithio gan y newid.</p>	Ysgol Beaumaris	40	Ysgol Llangoed	78	Ysgol Llandegfan	154	<p>Mae gan Yr Awdurdodau Lleol ddyletswydd statudol i ddarparu addysg llawn-amser i blant a phobl ifanc o'r oedran 5-16. Bydd yr Awdurdod yn parhau i gefnogi ysgolion wrth wella safonau addysg, a sicrhau cwricwlwm eang a chytbwys, ar gyfer pob grŵp oedran</p> <p>Os bydd y penderfyniad o gau ysgol yn cael ei gymeradwyo bydd cyfle i'r disgyblion sy'n trosglwyddo i ysgolion eraill gymryd rhan mewn gweithgareddau uno, gyda rheiny wedi eu trefnu ar y cyd er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymglyfarwyddo hefo'u gilydd, cyn y newid.</p>
Ysgol Beaumaris	40								
Ysgol Llangoed	78								
Ysgol Llandegfan	154								

Anabledd	Niwtral	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau bod llai na 9 o blant rhwng y 3 ysgol efo datganiad o AAA.</p> <p>Dyma'r sefyllfa bresennol yn y 3 ysgol mewn perthynas â chydymffurfio efo Deddf Cydraddoldeb 2010.</p> <table border="1" data-bbox="779 612 1406 960"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>Ramp?</th> <th>Mynediad rhwydd at doiledau</th> <th>2 lawr?</th> <th>Lifft</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>Na</td> <td>Na</td> <td>Oes</td> <td>Na</td> </tr> <tr> <td>Llangoed</td> <td>Na</td> <td>Oes</td> <td>Na</td> <td>N/A</td> </tr> <tr> <td>Llandegfan</td> <td>Oes</td> <td>Oes</td> <td>Oes</td> <td>Na</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol	Ramp?	Mynediad rhwydd at doiledau	2 lawr?	Lifft	Beaumaris	Na	Na	Oes	Na	Llangoed	Na	Oes	Na	N/A	Llandegfan	Oes	Oes	Oes	Na	<p>Bydd y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn parhau i dderbyn y cymorth ychwanegol sy'n ymateb i'w anghenion addysgol unigol.</p> <p>Bydd yr Awdurdod yn darparu cymorth a chefnogaeth briodol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol y disgyblion.</p> <p>Bydd gofynion unigol yn cael eu hasesu ar adeg trosglwyddo i unrhyw ysgol .</p> <p>Bydd addasiadau i'r ysgolion presennol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a bydd yn sicrhau bod gan blant a rhieni anabl fynediad llawn i'r ysgol, y cwricwlwm a gwybodaeth - heb gyfyngiad na dibynnu ar eraill i'w cynorthwyo. Bydd hefyd doiled anabledd ac ystafell newid/ymolchi a fydd yn caniatáu i ddisgyblion anabl gyfranogi'n llawn mewn gweithgareddau, a bydd yn hybu annibyniaeth gyda sgiliau hunan-gymorth a hylendid.</p>
Ysgol	Ramp?	Mynediad rhwydd at doiledau	2 lawr?	Lifft																			
Beaumaris	Na	Na	Oes	Na																			
Llangoed	Na	Oes	Na	N/A																			
Llandegfan	Oes	Oes	Oes	Na																			

Rhyw	Cadarnhaol	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Rhyw</th> <th>Beaumaris</th> <th>Llangoed</th> <th>Llandegfan</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Gwryw</td> <td>43%</td> <td>57%</td> <td>46%</td> </tr> <tr> <td>Benyw</td> <td>57%</td> <td>43%</td> <td>54%</td> </tr> </tbody> </table>	Rhyw	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Gwryw	43%	57%	46%	Benyw	57%	43%	54%	<p>Bydd mwy o ddisgyblion yn gwella cydbwysedd o ran disgyblion a grwpiau blwyddyn</p> <p>Mae perfformiad yr holl ddisgyblion yn cael ei asesu a'i fonitro gan gynnwys grwpiau penodol megis bechgyn a merched, plant sy'n cael prydau ysgol am ddim, disgyblion ADY, lleiafrifoedd ethnig, Saesneg fel iaith Ychwanegol, Plant Mewn Gofal a mwy abl a thalentog. Gweithredir cynlluniau i leihau'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched, a'r grwpiau gwahanol yn seiliedig ar hynny.</p>
		Rhyw	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan										
Gwryw	43%	57%	46%												
Benyw	57%	43%	54%												
CYBLD Ionawr 2018															
Ethnigedd	Cadarnhaol	<p>Mae CYBLD Ionawr 2018 yn cadarnhau'r data isod (y rhai sydd wedi eu cofnodi ar CYBLD 2018):</p> <table border="1"> <tbody> <tr> <td>Ysgol Beaumaris</td> </tr> <tr> <td>Gwyn Prydeinig 57%</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Llangoed</td> </tr> <tr> <td>Gwyn Prydeinig 82%</td> </tr> <tr> <td>Ysgol Llandegfan</td> </tr> <tr> <td>Gwyn Prydeinig 78%</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol Beaumaris	Gwyn Prydeinig 57%	Ysgol Llangoed	Gwyn Prydeinig 82%	Ysgol Llandegfan	Gwyn Prydeinig 78%	<p>Os oes disgyblion o gefndir ethnig arall yn mynychu'r ysgolion, ni fyddent yn cael eu trin mewn ffordd wahanol ar sail eu tras ethnig. Pe bai staff o gefndiroedd ethnig eraill yn yr ysgol newydd, ni fyddent yn cael eu trin yn wahanol ar sail eu tras ethnig.</p>						
Ysgol Beaumaris															
Gwyn Prydeinig 57%															
Ysgol Llangoed															
Gwyn Prydeinig 82%															
Ysgol Llandegfan															
Gwyn Prydeinig 78%															

Crefydd neu gred	Niwtral / Cadarnhaol	Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma.	Gall y cynnig roddi cyfle i wella dealltwriaeth y disgyblion o grefydd neu gred o ganlyniad i gynnydd yn y disgyblion. Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am grefydd/ gred eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau. Delir yn sensitif gydag unrhyw achosion pe codir.
Gogwydd Rhywiol	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma	Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn Bolisi Gogwydd Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail gogwydd rhywiol yn digwydd gyda staff ysgol. Mae rhieni'n cael dewis rhannu gwybodaeth am gogwydd rhywiol eu plant efo'r ysgol yn unol â'u dyheadau. Delir yn sensitif gyda unrhyw achosion pe codir.
Iaith Gymraeg	Cadarnhaol a Niwtral	Beaumaris - Mae ffigurau CYBLD Ionawr 2018 yn dangos bod 20% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref (ond nid yn rhugl)	Ni fydd categori ieithyddol yr ysgolion yn newid. Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.

		<p>Llangoed- Mae ffigurau o Ionawr 2018 yn dangos bod 24% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref (ond nid yn rhugl).</p> <p>Llandegfan - Mae ffigurau o Ionawr 2018 yn dangos bod 12% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref (ond nid yn rhugl)</p>	Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.
Beichiogrwydd a Mamolaeth	Niwtral	Amherthnasol ar gyfer disgyblion yr ysgol.	
Newid Rhyw	Niwtral	Nid yw CYBLD Ionawr 2018 yn cadw data ar y nodwedd yma	<p>Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gynllun Cydraddoldeb Rhywiol ac mae'n nodi bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn anghyfreithlon. Ni cheir tystiolaeth bod gwahaniaethu ar sail newid rhyw yn digwydd gyda staff yr ysgol.</p> <p>Delir yn sensitif gyda unrhyw achosion pe codir.</p>
<p>Arall</p> <p>Cymdeithasol economaidd.</p> <p>Ysgolion Bach a Gwledig</p>	Cadarnhaol a Negyddol	<p>Ystyriwyd ffactorau cymdeithasol-economaidd a gwledig yn yr 'Asesiad Effaith Cymunedol' isod.</p> <p>Mae un o'r ysgolion, sef Ysgol Llangoed wedi ei gynnwys fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft, ac nid ydyw wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol ar hyn o bryd).</p>	Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod gan ysgolion gwledig ran allweddol i'w chwarae mewn cyfrannu at gymunedau, y defnydd o'r laith Gymraeg a ffordd o fyw.

<p>Niferoedd y plant sy'n gymwys am brydau ysgol di-dal.</p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae adroddiad thematig Estyn "Ysgolion Cynradd Bychain yng Nghymru (2006)" yn dynodi nad oes gwahaniaeth gwirioneddol rhwng safonau addysg mewn ysgolion bach ac ysgolion mawr, ond "gall fod yn fwy anodd i athrawon mewn ysgolion bach gyfateb y gwaith i anghenion disgyblion, gan y gall disgyblion mewn dosbarth amrywio'n sylweddol yn nhermau oed a champau datblygiad ". Mae hyn yn berthnasol i ysgolion llai. Mae hydwythedd o safbwynt staffio wedi gwella yn yr ysgolion mwy eu maint</p> <table border="1" data-bbox="779 820 1341 956"> <thead> <tr> <th>Beaumaris</th> <th>Llangoed</th> <th>Llandegfan</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>25%</td> <td>18%</td> <td>5%</td> </tr> </tbody> </table>	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	25%	18%	5%	<p>Wrth ystyried opsiynau moderneiddio ysgolion i'r dyfodol bydd yr Awdurdod yn rhoddi ystyriaeth i gydbwyso anghenion addysgol gydag anghenion tymor hir ein cymunedau, a hynny drwy gydweithio.</p> <p>Gall y cynnig fod yn gadarnhaol trwy roddi mwy o gyfleoedd i grŵp o ddisgyblion fanteisio ar yr adnoddau a darpariaeth iddynt.</p>
Beaumaris	Llangoed	Llandegfan							
25%	18%	5%							

--	--	--	--

Yn unol â'r asesiad effaith uchod mae'n ymddangos bydd y cynnig arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol (+7)¹.

4. Aseiad Effaith Ieithyddol

Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi mabwysiadu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai trigolion yr ynys allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Yr un yw'r disgwyliad mewn perthynas â'r Gymraeg ar gyfer pob ysgol, sy'n rhoi cyfle i bob disgybl yn y Sir feddu ar y sgiliau priodol i fod yn hyderus yn eu dwyieithrwydd. Yng ngoleuni hyn, bydd unrhyw gynllun newydd a gyflwynir - fel prosiectau sy'n deillio o'r rhaglen ysgolion yr 21ain ganrif, yn ddarostyngedig i ofynion y polisi iaith.

¹¹ 1. Mae'r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.

2. Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio -1, 'Niwtral' yn sgorio 0 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 1.

Mae Ynys Môn yn parhau i fod yn un o'r ardaloedd yng Nghymru efo presenoldeb cryf o'r iaith Gymraeg. Mae Cyfrifiad 2011 yn dangos bod 57% o'r boblogaeth yn gallu siarad y Gymraeg.

Mae Polisi Iaith Adran Dysgu Gydol Oes Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymrywmo i'r nod ac amcanion isod.

Nod:

Bod pob disgybl sydd yn mynd trwy gyfundrefn addysg Ynys Môn yn gwbl ddwyieithog erbyn diwedd eu gyrfa addysgol ac yn hyderus i gyfathrebu yn y ddwy iaith yn gyfartal yn y byd gwaith, yn ddiwylliannol ac yn gymdeithasol.

Amcan Cyffredinol:

1. Datblygu gallu holl ddisgyblion a myfyrwyr y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.
2. Cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ymysg y gweithlu addysgol a plant a phobl ifanc sydd yn mynychu sefydliadau addysgol o fewn yr Awdurdod ac hefyd fel cyfrwng dysgu.
3. Bydd holl sefydliadau addysgol y Sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiaeth, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

Amcanion Penodol:

1. **Blynyddoedd Cynnar:** Sicrhau darpariaeth a threfniadaeth feithrin bwrpasol ac effeithlon drwy gynnwys dulliau trochi, y rhoddir i bob plentyn beth bynnag yw ei gefndir ieithyddol sylfaen gadarn yn y Gymraeg er mwyn ei alluogi i gyrraedd y nod o ddwyieithrwydd llawn cyn gynted â phosibl.

2. Cyfnod Sylfaen: Adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y Blynyddoedd Cynnar drwy barhau i ddatblygu gfael disgyblion ar y Gymraeg, a chychwyn ar y broses i ddatblygu eu sgiliau yn y Saesneg erbyn diwedd y cyfnod.

3. Cyfnod Allweddol 2:

- Parhau i ddatblygu medrau y plant ar y Gymraeg a'r Saesneg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol yn y ddwy iaith gan sicrhau - trwy gynllunio pwrpasol - lefel gyfartal o ddwyieithrwydd erbyn diwedd y Cyfnod;
- ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA2, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy'r Canolfannau Iaith Cynradd

4. Cyfnod Allweddol 3:

- Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg
- bod ymyrraeth briodol a phwrpasol ar gyfer y disgyblion hynny nad ydynt yn cyrraedd lefel 3+ ar ddiwedd CA2 er mwyn iddynt barhau i ddatblygu eu sgiliau ieithyddol;
- ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA3, sicrhau eu bod yn dysgu'r Gymraeg cyn gynted â phosibl trwy ddarpariaeth briodol yn CA3.

5. Cyfnod Allweddol 4:

- Sicrhau bod pob disgybl sydd wedi dilyn trac Cymraeg Iaith Gyntaf yn y sector Cynradd yn parhau i ddilyn Cymraeg Iaith Gyntaf a Saesneg er mwyn sicrhau dilyniant a pharhad priodol yn y ddwy iaith;
- sicrhau bod pob disgybl yn astudio'r Gymraeg a Saesneg fel pwnc hyd at ddiwedd B11 ac yn sefyll arholiad mewn cymhwyster cydnabyddedig yn y ddwy iaith ar ddiwedd CA4;
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a'r nifer o bynciau a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg

- ar gyfer disgyblion sy'n ddysgwyr y Gymraeg yn CA4 sicrhau eu bod yn derbyn Sylfaen yn y Gymraeg trwy ddarpariaeth briodol erbyn diwedd y Cyfnod.

6. Cyfnod Allweddol 5:

- Sicrhau bod cyfleoedd ar gael i fyfyrwyr ddilyn pynciau trwy'r Gymraeg.
- Sicrhau bod gan fyfyrwyr ôl-16 wybodaeth a dealltwriaeth o nodweddion diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, hanesyddol ac ieithyddol Cymru trwy raglenni ymwybyddiaeth iaith cynhwysfawr a chyfoethogi'r Cwricwlwm Cymreig trwy holl ysgolion yr Awdurdod, gan eu datblygu i fod yn ddinasyddion hyderus dwyieithog er mwyn eu galluogi i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni.

7. **Addysg Arbennig:** yn achos disgyblion ag anawsterau dysgu dwys rhoddir hawl I Bennaeth - mewn ymgynghoriad â'r Adran Dysgu Gydol Oes - roi ystyriaeth unigol i bob achos, tra'n sicrhau bod disgyblion gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol iddynt ymdopi fel oedolion o fewn eu cymunedau.

4.a Defnyddio'r Gymraeg yn yr Ysgol

Anfonwyd holiaduron at Benaethiaid y 3 ysgol dan sylw i'w holi am y sefyllfa yn eu hysgolion

	Ysgol Beaumaris	Ysgol Llangoed	Ysgol Llandegfan
Categori Ieithyddol yr ysgolion presennol	Cymraeg	Cymraeg	Cymraeg

Meini Prawf Ieithyddol	Sylwadau	Effaith	Mesurau Lliniaru						
Demograffeg (Iaith y cartref)	<p>Siaradwyr Cymraeg Rhugl Gartref</p> <table border="1"> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>0%</td> </tr> <tr> <td>Llangoed</td> <td>22%</td> </tr> <tr> <td>Llandegfan</td> <td>30%</td> </tr> </table>	Beaumaris	0%	Llangoed	22%	Llandegfan	30%	Cadarnhaol	Mae 30% yn siarad Cymraeg yn rhugl gartref yn Llandegfan a 22% yn Llangoed o'i gymharu â 0% yn Beaumaris. Bydd y cynnig yn rhoddi cyfle i ddisgyblion wella eu sgiliau dwyieithog drwy gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol.
Beaumaris	0%								
Llangoed	22%								
Llandegfan	30%								
Statws Ieithyddol yr ysgolion presennol	<p>Beaumaris - Cymraeg</p> <p>Llangoed –Cymraeg</p> <p>Llandegfan -Cymraeg</p> <p>Statws y Siarter Iaith</p> <p>Beaumaris - Arian</p> <p>Llangoed Arian</p> <p>Llandegfan -Arian</p>	Niwtral	<p>Gan fod disgyblion yn y tair ysgol yn cael eu haddysgu yn y Gymraeg yn bennaf, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth. Fodd bynnag, dylai datblygu disgyblion hollol ddwyieithog fod yn ganolbwynt parhaus a phwysig mewn Cynllun Datblygu Ysgol.</p> <p>1. Bydd trefniant dosbarth yn anelu at ddatblygu anghenion ieithyddol penodol y fintai.</p>						

			<ol style="list-style-type: none"> 2. Bydd tracio disgyblion yn ystyried eu cynnydd wrth ddatblygu dwyieithrwydd. 3. Bydd adroddiadau y pennaeth i'r llywodraethwyr yn cynnwys canrannau o ddisgyblion ym mhob mintai iaith. 4. Cynnydd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 5. Cynnydd yr ysgol yn y Siarter Iaith <p>Mae'n ddisgwyliad gan yr Awdurdod i'r ysgolion barhau i fod yn ysgolion cymunedol, Cymraeg eu hiaith.</p> <p>Bydd yn flaenoriaeth gan yr Awdurdod i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog.</p>
Y defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned	Yn ôl cyfrifiad 2011 mae 57% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae'r ganran wedi gostwng dros y degawdau diwethaf - yn 1981 roedd 62% o bobl Ynys Môn yn gallu siarad Cymraeg. Mae ardal Aethwy a Seiriol wedi gweld twf o 2% dros y 30 mlynedd diwethaf (Aseiad Llesiant Ynys Môn 2017)	Cadarnhaol	<p>Angen hybu'r defnydd o'r iaith Gymraeg (Aseiad Llesiant Ynys Môn 2017).</p> <p>Bydd y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydweithio â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn er</p>

			mwyn ystyried sut y gallent gydweithio i hybu'r defnydd o'r laith Gymraeg yn y gymuned, a chyfrannu tuag at darged Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.																												
Darpariaeth addysg/ asesiad athro ar ddiwedd Cyfnod Sylfaen (7oed) a Cyfnod Allweddol 2(11 oed).	<p>% o ddisgyblion sy'n cyrraedd Deilliant 5 neu uwch yn y Cyfnod Sylfaen mewn sgiliau Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth a Chyfathrebu</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>100</td> <td>71.43</td> <td>100</td> </tr> <tr> <td>Llandegfan</td> <td>94.4</td> <td>96.3</td> <td>100</td> </tr> <tr> <td>Llangoed</td> <td>85.71</td> <td>77.78</td> <td>94.12</td> </tr> </tbody> </table> <p>Canran o'r disgyblion sy'n cyrraedd Lefel 4 neu uwch yn y Saesneg</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>91.67</td> <td>71.43</td> <td>87.5</td> </tr> <tr> <td>Llandegfan</td> <td>85.71</td> <td>95.24</td> <td>94.12</td> </tr> </tbody> </table>	Ysgol	2015	2016	2017	Beaumaris	100	71.43	100	Llandegfan	94.4	96.3	100	Llangoed	85.71	77.78	94.12	Ysgol	2015	2016	2017	Beaumaris	91.67	71.43	87.5	Llandegfan	85.71	95.24	94.12	Niwtral	<p>Gan fod yr holl ddisgyblion yn y tair ysgol yn cael asesiad athro mewn Cymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, beth bynnag fydd yn digwydd, ni fyddai newid yn hyn o beth.</p> <p>Mae adroddiadau i rieni ar berfformiad disgyblion yn rhoi sylwadau ar lafared, darllen ac ysgrifennu yn ogystal â'u cynnydd at fod yn hollol ddwyieithog.</p>
Ysgol	2015	2016	2017																												
Beaumaris	100	71.43	100																												
Llandegfan	94.4	96.3	100																												
Llangoed	85.71	77.78	94.12																												
Ysgol	2015	2016	2017																												
Beaumaris	91.67	71.43	87.5																												
Llandegfan	85.71	95.24	94.12																												

	<p>Llangoed 93.33 78.57 81.82</p> <p>Canran o'r disgyblion sy'n cyflawni lefel 4 neu uwch yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf</p> <table border="1"> <thead> <tr> <th>Ysgol</th> <th>2015</th> <th>2016</th> <th>2017</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>83.33</td> <td>57.14</td> <td>75</td> </tr> <tr> <td>Llandegfan</td> <td>80.95</td> <td>90.48</td> <td>82.35</td> </tr> <tr> <td>Llangoed</td> <td>86.67</td> <td>71.43</td> <td>81.82</td> </tr> </tbody> </table> <p>Ffynhonell: Setiau Data Craidd Cymru Gyfan</p>			Ysgol	2015	2016	2017	Beaumaris	83.33	57.14	75	Llandegfan	80.95	90.48	82.35	Llangoed	86.67	71.43	81.82		
Ysgol	2015	2016	2017																		
Beaumaris	83.33	57.14	75																		
Llandegfan	80.95	90.48	82.35																		
Llangoed	86.67	71.43	81.82																		
Cyfrwng iaith disgyblion ar yr iard, clwb brechwast, clybiau ar ôl ysgol	<table border="1"> <thead> <tr> <th>Beaumaris</th> <th>Llangoed</th> <th>Llandegfan</th> </tr> </thead> <tbody> <tr> <td> <ul style="list-style-type: none"> Dwyieithog ar yr iard. </td> <td>Cymraeg yw iaith sy'n cael ei siarad gyda'r</td> <td>Cymraeg a Saesneg.</td> </tr> </tbody> </table>	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	<ul style="list-style-type: none"> Dwyieithog ar yr iard. 	Cymraeg yw iaith sy'n cael ei siarad gyda'r	Cymraeg a Saesneg.	Niwtral	Mae'r holiaduron a anfonwyd at Benaethiaid yn cadarnhau bod disgyblion y 3 ysgol yn defnyddio cyfuniad o Gymraeg a Saesneg.												
Beaumaris	Llangoed	Llandegfan																			
<ul style="list-style-type: none"> Dwyieithog ar yr iard. 	Cymraeg yw iaith sy'n cael ei siarad gyda'r	Cymraeg a Saesneg.																			

	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Clwb brechwast - Cymraeg ▪ Clybiau ar ôl ysgol - Cymraeg 	plant ond maent yn tueddu i droi i'r Saesneg wrth siarad yn rhydd gyda'i cyfoedion.			<p>Bydd yr ysgolion sydd wedi eu cynnwys yn y cynnig yn parhau i hyrwyddo ac annog y defnydd o'r iaith Gymraeg a gweithredu'r siarter ac amcanion cyfathrebu a hyrwyddo defnydd anffurfiol o iaith y disgyblion.</p> <p>Wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn bennaf yn y Clybiau, bydd yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.</p>						
Ymwneud yr ysgol mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg	<table border="1"> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>Llangoed</td> <td>Llandegfan</td> </tr> <tr> <td>Urdd Mewn cymeriad Menter Iaith</td> <td>Urdd Siarter Iaith Eisteddfod Genedlaethol Papur Menai. Menter Môn</td> <td>Yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwneud â gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg</td> </tr> </table>	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Urdd Mewn cymeriad Menter Iaith	Urdd Siarter Iaith Eisteddfod Genedlaethol Papur Menai. Menter Môn	Yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwneud â gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg			Cadarnhaol	<p>Mae pob un o'r tair ysgol bresennol yn cymryd rhan mewn gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg.</p> <p>Bydd y cynnig yn galluogi'r plant gymdeithasu gyda chanran fwy o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg yn rhugl yn yr ysgol.</p>
Beaumaris	Llangoed	Llandegfan									
Urdd Mewn cymeriad Menter Iaith	Urdd Siarter Iaith Eisteddfod Genedlaethol Papur Menai. Menter Môn	Yn cadarnhau bod yr ysgol yn ymwneud â gweithgareddau cyfrwng y Gymraeg									
Defnydd o'r ysgol gan yr ardal i ddysgu Cymraeg	<table border="1"> <tr> <td>Beaumaris</td> <td>Llangoed</td> <td>Llandegfan</td> </tr> <tr> <td>Dim</td> <td>Nid oes gwersi Gymraeg yn cael</td> <td>Dim</td> </tr> </table>	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Dim	Nid oes gwersi Gymraeg yn cael	Dim			Cadarnhaol	Nid oes cyfleoedd ar hyn o bryd i'r gymuned ddysgu Cymraeg yn yr ysgolion.
Beaumaris	Llangoed	Llandegfan									
Dim	Nid oes gwersi Gymraeg yn cael	Dim									

		eu cynnal yn yr Ysgol ond fe rennir taflenni gyda rhieni mewn ffeiriau gwybodaeth			Er nad yw'r un o'r tair ysgol yn cynnal gwersi Cymraeg, mae'r cynnig yn galluogi'r ysgolion fod yn adnodd cymunedol er mwyn cynnig y ddarpariaeth o wersi Cymraeg. Mae cyfle i'r ysgolion cael eu defnyddio fel adnodd cymunedol.
Gallu staff addysgu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Niwtral	Mae pob un o'r tair ysgol yn darparu addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws leithyddol
	Pob aelod o staff addysgu yn rhugl yn y Gymraeg	Pob aelod o staff yn medru'r Gymraeg - 2 hefo gradd iaith	Oes		
Gallu staff cefnogi i gynorthwyo trwy gyfrwng y Gymraeg	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Niwtral	Mae pob un o'r tair ysgol yn darparu addysg drwy Gyfrwng y Gymraeg, a ni fydd newid yn y statws leithyddol
	Pob aelod o staff cefnogi yn rhugl yn y Gymraeg	Pob un yn rhugl yn y Gymraeg	Ydy		
Canran o lywodraethwyr sy'n gallu siarad Cymraeg	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Niwtral	Bydd cyfansoddiad leithyddol yn ddibynnol ar broses ethol y Corff i'r dyfodol. Er hynny bydd Y Corff Llywodraethu yn cefnogi
	40%	100% (Cynnwys un dysgwr)	75%		

					nod ac amcanion polisi laith yr Awdurdod.
laith a ddefnyddir fwyaf yn ystod cyfarfodydd Llywodraethwyr, Cymdeithas Rhieni ac Athrawon a Staff	Beaumaris	Llangoed	Llandegfan	Niwtral	Bydd y cyfarfodydd yn cefnogi nod ac amcanion polisi laith yr Awdurdod.
	Llywodraethwyr – Saesneg CrhA a Staff – Cymraeg yn bennaf dibynnu pwy sydd yn bresennol.	Staff – Cymraeg yn unig. Llywodraethwyr -Cymraeg gyda'r dogfennau ar gael yn y ddwy iaith. CRhA - Dwyieithog	Cymraeg, a Saesneg ar adegau yn y cyfarfodydd llywodraethwyr.		
Barn rhai o Rhanddeiliaid Ysgol Beaumaris, Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed ar y cwestiwn 'os yw'r cynnig am effeithio'n negyddol ar y defnydd o'r laith Gymraeg'. ²	Ydy	Na		Cadarnhaol	Mae'r prosiectau moderneiddio ysgolion yn cydymffurfio a'r strategaeth laith Gymraeg a Strategaeth laith statudol y Gymraeg mewn Addysg. Bydd yr ysgolion dan sylw yn parhau i weithio ar gynlluniau i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg yn unol â thargedau CSYM a Llywodraeth Cymru i gynyddu
	31%	69%			

² Gwelwch yn ogystal Astudiaeth Effaith Cymunedol gan Bwyllgor Ymateb Ysgol Gynradd Beaumaris i'r ymgynghoriad, sy'n cadarnhau bod 91% o gyfranogwyr eu harolwg yn cytuno efo'r gosodiad bod 'Ysgol Gynradd Beaumaris yn chwarae rôl bwysig yn y broses o feithrin Diwylliant Gymraeg yn y Gymuned'.

			nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.
--	--	--	--

Yn unol â'r asesiad uchod bydd yr opsiwn arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg (+5).³

³ byddai'r effaith ar bob pennawd yn cael ei farnu fel 'Negyddol', 'Niwtral' neu 'Gadarnhaol'.

Byddai hyn yn cyfrannu i'r Gwerthusiad Dewis gyffredinol gyda 'Negyddol' yn sgorio

-1, 'Niwtral' yn sgorio 0 a 'Cadarnhaol' yn sgorio 1.

5. Asesiad Cymunedol

Mae'r asesiad hwn yn ystyried yr effaith y gallai'r cynnig cyfredol ei chael ar deuluoedd a'r gymuned leol.

Methodoleg

Rydym fel Awdurdod yn ystyried yn ofalus effaith cymunedol y cynnig ar pob ysgol. Holwyd penaethiaid y 3 ysgol am berthynas yr ysgol a'r gymuned a'r gweithgareddau a gynhelir yn yr ysgol. Fel y cyfeirwyd uchod mae'r ddogfen yn un weithredol a bydd cyfle i randdeiliaid gyfrannu tuag at yr asesiad effaith. Darperir manylion pellach isod

Ysgolion Bro

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cefnogi ysgolion i ddatblygu cysylltiadau â'r gymuned sy'n darparu cyfleoedd i gyfoethogi profiadau i bawb. Mae angen datblygu cyfleoedd i wella ac ehangu'r cwricwlwm o fewn cylch yr ysgol a thu hwnt gan fod hyn o fudd i ddisgyblion a thrigolion lleol. Wrth ystyried y dewisiadau ar gyfer strwythurau ysgol yn y dyfodol bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad cymunedol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi.

Ysgolion Lleol (dalgylchoedd)

Bydd rhaglen Moderneiddio Ysgolion Cynradd yn cefnogi polisi'r Awdurdod o nodi ysgolion lleol ar gyfer ardaloedd. Mae gan bob ysgol 'ddalgylch' diffiniedig. Mae dalgylchoedd yn cael eu mapio ac mae angen eu hadolygu'n achlysurol. Bydd dalgylch yn cynnwys sawl milltir sgwâr mewn ardal wledig a gall gynnwys un neu fwy o bentrefi a'u hardaloedd o'u hamgylch. Mewn ardaloedd trefol gyda dwy ysgol neu fwy, bydd y dalgylch yn gasgliad o strydoedd.

Ysgolion gwledig

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y rhan allweddol mae ysgolion yn eu chwarae mewn ardaloedd gwledig wrth gynnal diwylliant lleol, iaith a ffordd o fyw. Wrth ystyried dewisiadau strwythurau ysgol yn y dyfodol mewn ardaloedd gwledig, bydd yr Awdurdod yn cydbwysu anghenion addysgol gyda datblygiad lleol, buddsoddiad ac anghenion cefnogi. Mae un o'r ysgolion, sef Ysgol Llangoed wedi ei gynnwys fel ysgol wledig yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (Cyhoeddwyd Mehefin 2017 fel drafft, ac nid ydyw wedi ei gymeradwyo yn ffurfiol ar hyn o bryd).

5.a Lleoliad yr Ysgolion

Mae lleoliad y 3 ysgol bresennol yn ward Seiriol wedi eu hamlinellu isod:





5.b Niferoedd yn yr ysgolion

Ysgol	Beaumaris	Llandegfan	Llangoed
Ystod oedran	3 – 11	4 - 11	3 – 11
Capasiti ac eithrio	143	145	98


darpariaeth feithrin			
Niferoedd Meithrin – Ionawr 2018	8	17, 20*	4
Niferoedd ar y gofrestr –Ionawr 2018 (4-11)	40	154	78
Lleoedd dros ben	103 (72%)	0	20 (20%)

*Niferoedd y meithrin yn y Cylch Meithrin a'r Playgroup yn ôl trefn. Dim dosbarth meithrin yn Ysgol Llandegfan)

Mae'r tabl yn dangos bod y % o leoedd dros ben yn uchel ar hyn o bryd yn Ysgol Beaumaris ac nid oes llefydd gweigion yn Ysgol Llandegfan.

Os derbynnir y cynnig o gau Ysgol Beaumaris bydd rhieni'r disgyblion sydd ar y gofrestr adeg pan fydd y Pwyllgor Gwaith yn gwneud y penderfyniad, yn cael y dewis i anfon eu plant i naill Ysgol Llandegfan neu Ysgol Llangoed, yn unol â'r polisi mynediad ysgolion

Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion (4-11 oed) yn y tair ysgol dros y 6 mlynedd diwethaf yn Ionawr bob blwyddyn. Ar gyfer ysgolion cynradd ni ddylid cynnwys disgyblion meithrin mewn rhagolygon:




Ysgol	2010	2011	2012	2013	2014	2015	2016	2017	2018
Beaumaris	91	90	92	81	71	56	50	37	40
Llandegfan	145	138	151	132	140	141	143	141	154
Llangoed	81	73	76	77	75	81	80	84	78
Cyfanswm	317	301	319	290	286	278	273	262	272

Mae cyfanswm y disgyblion yn y dair ysgol wedi lleihau o 317 yn 2010 i 272 yn 2018. Bu nifer y genedigaethau'n uwch yn y blynyddoedd diweddar, megis yng ngweddill Ynys Môn a Chymru, ac yn gyffredinol, mae nifer y disgyblion yn y blynyddoedd is wedi cynyddu ond nid yw hyn wedi ei adlewyrchu yn y ffigurau uchod.

Yn ôl ystadegau o'r gwasanaeth iechyd, mae nifer y plant o dan bedair oed hefyd yn uwch. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r 3 ysgol yn parhau i gynyddu yn ystod y blynyddoedd a ganlyn – gweler y graff isod.

Yn ôl ystadegau o'r gwasanaeth iechyd, mae nifer y plant o dan bedair oed hefyd yn uwch. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn y rhan fwyaf o'r 3 ysgol yn parhau i gynyddu yn ystod y blynyddoedd a ganlyn – gweler y graff isod.



Mae rhagamcanion yn awgrymu y bydd yr Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn llawn ac y bydd Ysgol Llangoed yn llenwi tra bydd canran y llyfdd gweigion yn Ysgol Beaumaris yn parhau o fod â dros 67% o lefydd gweigion. Bydd ffactorau eraill yn effeithio ar niferoedd y disgyblion

e.e. y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd h.y. y posibilrwydd o dai newydd yn cael eu hadeiladu yn nalgylchoedd yr ysgolion a'r prosiect Wylfa Newydd. Bydd yr Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r asiantaethau perthnasol er mwyn cyd-gynllunio ar ragolygon niferoedd plant y dyfodol. Ar gyfer ysgolion cynradd ardal Seiriol, ystyriwyd effaith posib tai newydd yn ystod y cyfnod 2018-2026 yn nalgylch pob ysgol ar niferoedd disgyblion yn yr ysgol. Byddai hyn yn helpu deall beth fyddai'r twf ychwanegol tebygol yn y dalgylch. Mae ffigyrau'n dangos fod gan bob tŷ ym Môn, ar gyfartaledd, 0.17 o blant oedran ysgol gynradd. O luosi nifer y datblygiadau tai gyda 0.17, ceir amcangyfrif o nifer y disgyblion ychwanegol fydd eisiau cael eu haddysg yn yr ysgol honno dros y cyfnod dan sylw.

	Nifer y Tai	Nifer posib o blant
Llandegfan	33	6
Beaumaris	80	14
Llangoed	46	8
	159	28

O ystyried y llyfudd gweigion yn yr ysgolion, gweler bydd lle i'r disgyblion yn Ysgol Beaumaris ac Ysgol Llangoed ond bydd Ysgol Llandegfan yn parhau i fod yn llawn neu'n orlawn dros y blynyddoedd nesaf.

5.c Ffactorau Teithio a Daeryddol

Mae Llywodraeth Cymru'n datgan na ddylai disgyblion o oed cynradd orfod teithio mwy na 45 munud bob ffordd i'r ysgol. Mae'r ALI (Awdurdod Lleol) yn darparu cludiant di-dâl ar gyfer disgyblion ysgol gynradd sy'n byw **2 filltir** neu fwy o'r ysgol y maent yn byw yn ei dalgylch.

Mae Polisi Cludiant yr Awdurdod hefyd yn datgan:
“na ddarperir cludiant ar gyfer disgyblion meithrin rhan-amser”

Roedd yr ymgynghoriad statudol yn cyfeirio at yr opsiwn o ddarparu cludiant i blant Ysgol Beaumaris yn bresennol, os byddent yn dewis mynychu Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan. Mae'r cynnig yma am y ddarpariaeth cludiant mewn bodolaeth am gyfyngiad amser yn unig. Yn ystod y broses ymgynghori statudol roedd nifer o rieni yn holi am faterion cludiant, a bydd yr Awdurdod a'r ysgolion yn cydweithio ac yn cyfathrebu'n barhaus gyda'r rhieni.

5.d Ymateb Cymunedol

Manylion yr ymgynghoriadau a'r ymgysylltu	Y grwpiau a ymgynghorwyd / ymgysylltwyd â hwy	Nifer a fynychodd	Prif faterion a godwyd
<p>Ymgynghoriad Anstatudol</p> <p>10 Mehefin - 30 Gorffennaf 2017</p>	<p>Staff yr ysgolion dan sylw</p> <p>Llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw</p> <p>Rhieni disgyblion yr ysgolion dan sylw</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweinidogion Cymru • Aelodau Cynulliad Lleol a Rhanbarthol • Aelod Seneddol lleol • Estyn • Undebau dysgu a staff sy'n cynrychioli athrawon a staff • Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol – Gwe • Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol perthnasol – Taith • Y Comisiynydd Heddlu a Throseddau ar gyfer Gogledd Cymru • Aelodau etholedig lleol • Darparwyr meithrin lleol • Cyngorau Cymuned lleol 	<p>Tua 26</p> <p>Tua 28</p> <p>Tua 130</p>	<p><u>Ysgol Beaumaris</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Holwyd am leihau arwynebedd yr ysgol ac am y cyfleusterau tai gofal ychwanegol. ▪ Cludiant. <p><u>Ysgol Llandegfan</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Holodd nifer am un ysgol gynradd newydd yn lle'r tair, ei lleoliad posib ac am y camau nesaf yn broses ymgynghori. ▪ Cludiant i'r ysgol newydd posib a phryder am deithio ar lonydd bach, cul. ▪ Gofynnwyd pam mae Ysgol Llandegfan yn rhan o'r broses hyn? ▪ Penderfyniad wedi ei wneud ▪ Pryder am yr effaith posib o gau'r ysgol ar addysg cyn ysgol yn y pentref

	<ul style="list-style-type: none"> • Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc (Ynys Môn a Gwynedd) • Partneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal - Swyddog Ieuenctid o fewn CSYM • Penaethiaid yr ysgol uwchradd sy'n cynnwys dalgyloedd yr ysgolion cynradd dan sylw • Pennaeth y 3 ysgol gynradd dan sylw a'u Cyrff Llywodraethol. • Swyddogion Addysg Personél a Swyddogion Derbyn CSYM • Cyngor Gwynedd 		<p><u>Ysgol Llangoed</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gofynnwyd pam mae Ysgol Llangoed yn rhan o'r broses hyn? ▪ Byddai cau'r ysgol yn wastraff o adnodd cymunedol a ni fyddai unrhyw fudd addysgol nac economaidd yn deillio o hynny
Ymgynghoriad Statudol 20 Tachwedd – 6 Chwefror 2018	<p>Staff yr ysgolion dan sylw</p> <p>Llywodraethwyr yr ysgolion dan sylw</p> <p>Cynrychiolaeth o blant o'r ysgolion dan sylw</p>	<p>Tua 31</p> <p>Tua 22</p> <p>Tua 96</p>	<p><u>Ysgol Beaumaris</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Holwyd am leihau arwynebedd yr ysgol ac am y cyfleusterau tai gofai ychwanegol. ▪ Nifer yn pryderu am gludiant a'r sefyllfa parthed llifogydd lleol. ▪ Angen amser i gynnig opsiynau amgen ▪ Wedi paratoi holiadur eu hunain ac am gyflwyno Asesiad Effaith Cymunedol eu hunain. <p><u>Ysgol Llandegfan</u></p>

			<ul style="list-style-type: none"> ▪ Angen rhoddi sylw i faterion traffig <p><u>Ysgol Llangoed</u></p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Llefydd digonol ar y safle i'r addasiadau? ▪ Parcio ▪ Sut rheoli a chadw'r ysgol ar agor yn ystod y broses addasu'r ysgol.
Sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid		I'w gadarnhau	

Rhwng y cyfnod 20fed Tachwedd 2017 a 6ed Chwefror 2018 cynhaliwyd ymgynghoriad statudol ar ddyfodol darpariaeth ysgolion cynradd ardal Seiriol. Pwrpas yr ymgynghoriad oedd rhoi cyfle i drigolion lleol sy'n cael ei effeithio gan y cynigion i holi swyddogion y Cyngor ymhellach ac i leisio barn a chyflwyno sylwadau. Trafodwyd sawl agwedd gwahanol yn ystod y cyfarfod, gyda chrynodeb wedi'i baratoi uchod. Pwysleisiwyd perthynas agos sy'n bodoli rhwng yr ysgolion a'u cymunedau. Yn anochel roedd yr ansicrwydd am ddyfodol yr ysgolion yn codi pryder o ran ddyfodol y cymunedau, a'u cynaliadwyedd heb ysgol leol.

Roedd cyfle pellach fel rhan o'r ymgynghoriad statudol i drigolion lleol gyfrannu tuag at y cynnig a gyflwynwyd gan Bwyllgor Gwaith y Cyngor. Gwahoddwyd y rhanddeiliaid ogystal i gyfrannu tuag at yr asesiad effaith gymunedol trwy gwblhau arolwg er mwyn gallu gwella dealltwriaeth yr Awdurdod o bryderon a sylwadau'n cymunedau ac annog y cydweithio rhwng yr Awdurdod, yr ysgolion, rhieni a disgyblion.

Mae'r Awdurdod yn awyddus iawn i ffurfio partneriaeth o gydweithio ac felly wedi defnyddio'r arolwg i ganfod sut fydd y cynnig yn effeithio cymunedau. Dyma grynodeb o'r sylwadau isod a chamau gweithredu.

	Crynodeb o'r effaith posib ar gymunedau a nodwyd gan y Rhanddeiliaid	Effaith	Sylwadau / Mesurau Lliniaru yr Awdurdod	Effaith Weddilliol
Rhanddeiliad Ysgol Beaumaris	<ul style="list-style-type: none"> ▪ Dinistriol iawn i deuluoedd ifanc presennol Beaumaris Bydd yn anodd iawn i dref Beaumaris fod yn atynfa / poblogaidd i deuluoedd ifanc i'r dyfodol. ▪ Bydd yn arwain at dref ar gyfer yr henoed ▪ Tref heb ysgol ddim mwyach yn dref Effaith negyddol ar y cysyniad o 'gymuned' ▪ Mae angen plant i gyfrannu at fywiogrwydd cymuned ▪ Bydd yn creu cymuned 'hen'. Bydd cau ysgol yn achosi i boblogaeth y dref heneiddio fwy, a bydd hyn yn bwysau ychwanegol ar ein gwasanaethau lechyd. ▪ Rydym angen trawstoriad o bobl i wneud 'cymuned' ▪ Niweidiol iawn i'r dref ▪ Anodd i'r genhedlaeth 'Neiniau a Theidiau' gludo a chasglu eu plant o un o'r 	Negyddol	<p>Mae ardal Seiriol yn engreiffiol iawn hefo'u grwpiau cymunedol a gwirfoddol, a'r rheiny yn grwpiau llwyddiannus iawn. Mae nifer fawr o weithgareddau a digwyddiadau yn cael eu cynnal l bobl o bob oedran yn gyson yn yr ardal. Byddai cadw gweithgareddau y dref yn sicrhau parhad i'r amgylchfyd cymdeithasol anffurfiol i'n rhanddeiliaid, a'r ymdymeimlad o 'gymuned'.</p> <p>Bydd yr Awdurdod a'r Cyrff Llywodraethu perthnasol yn sicrhau bod y ddarpariaeth ar ôl ysgol mor hygyrch â phosibl i bob disgybl.</p> <p>Dylid nodi bod demograffeg yn newid. Mae niferoedd y plant</p>	Negyddol a Chadarnhaol

	<p>ysgolion amgen i Beaumaris.</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Effaith niweidiol gan y bydd plant yn mynychu ysgolion oddi ar yr ynys, ac yn teithio i ysgol arall (nid Llangoed a Llandegfan) ▪ Dyfodol y dref dan fygythiad 		<p>sy'n mynychu Ysgol Beaumaris wedi gostwng, er ei bod wedi ei lleoli mewn ardal trefol. Rydym yn cydnabod bod cyfleusterau addysgol lleol yn ffactor allweddol i rieni a theuluoedd ifanc wrth iddynt ystyried lleoliadau ar gyfer ymgartrefu, ond mae ystyriaethau allweddol eraill gan gynnwys fforddiadwyedd tai a'r cyfloedd gwaith sydd ar gael yn lleol hefyd yn cyfrannu at eu dewisiadau.</p>	
Rhanddeiliaid Ysgol Llangoed	<p>Bydd cau Ysgol Beaumaris yn arwain at gryfhau cymuned Llangoed, a bydd Llangoed yn cefnogi'r pobl sydd am fynychu Ysgol Llangoed ac byw tu allan i'r dalgylch.</p> <p>Cydnabod bod cau Ysgol Beaumaris yn niweidiol i'r dref.</p>	Negyddol a Niwtral	<p>Bydd cydweithio ymysg yr ysgolion yn cael ei annog, os bydd y cynnig dan sylw yn cael ei gymeradwyo. Bydd yr Awdurdod yn annog gosod sylfeini ar gyfer cydweithio a chydgyllunio ymysg staff yr ysgolion. Bydd yr ysgolion sy'n parhau yn cynnal gweithgareddau ar y cyd, cyn i'r newid ddigwydd, er mwyn rhoi</p>	Cadarnhaol

				cyfle i'r plant ymgysgu hefo'i gilydd.		
Rhanddeiliaid Llandegfan	Ysgol	<p>Yn cydnabod y bydd y cynnig dan sylw yn cael ychydig o effaith negyddol ar y cychwyn, gan nad oes neb eisiau gweld eu hysgol leol yn cau.</p> <p>Bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar Ysgol Llandegfan oherwydd bydd yn cynnig mwy o swyddi ac yn gwella ansawdd yr adeilad.</p> <p>Rydym yn croesawu'r addasiadau i'r adeilad ond dim y 'ffedereiddio'.</p> <p>Mae cadw'r ysgol gyda'r niferoedd uchaf yn mynd i amharu llai ar y plant.</p>	Negyddol Chadarnhaol	a	Bydd cydweithio ymysg yr ysgolion yn cael ei annog, os bydd y cynnig dan sylw yn cael ei gymeradwyo. Bydd yr Awdurdod yn annog gosod sylfeini ar gyfer cydweithio a chydgyllunio ymysg staff yr ysgolion. Bydd yr ysgolion sy'n parhau yn cynnal gweithgareddau ar y cyd, cyn i'r newid ddigwydd, er mwyn rhoi cyfle i'r plant ymgysgu hefo'i gilydd.	Cadarnhaol

5.e Mwy o wybodaeth am yr ysgolion

	Ysgol Beaumaris	Ysgol Llandegfan	Ysgol Llangoed
Plant yn byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol			
	86% 32 (37)	62% 88 (141)	70% 59 (84)
Gwasanaethau a ddarperir gan yr ysgol i'r gymuned, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol			
Gweithgaredd	Tymor ysgol	Amllder	Amllder
Clwb brechwast	Tymor ysgol	Dyddiol	Dyddiol
Pêl-droed	Tymor ysgol	Unwaith yr	Unwaith yr wythnos
Pêl-rwyd	Tymor ysgol		Unwaith yr wythnos
Urdd	Tymor ysgol	Unwaith pob pythefnos	Unwaith pob pythefnos
Clwb ar ôl Ysgol	Tymor ysgol	Dyddiol	
Agor y llyfr	Tymor ysgol	Wythnosol	
Tîm dan 5 (mewn un dosbarth)	Tymor ysgol	dyddiol	
Athrawon gyda gofal golwg disgyblion	Tymor ysgol	dyddiol	
Gweithgareddau Cymdeithas Rhieni ac Athrawon	Tymor ysgol		4 gwaith y tymor
Clwb Cadw'n Heini	Tymor ysgol		Unwaith yr wythnos
Clwb garddio	Tymor ysgol		Unwaith yr wythnos
Clwb Codio	Tymor ysgol		Unwaith yr wythnos
Gwasanaeth Diolchgarwch	Tymor ysgol		Unwaith y flwyddyn
Gwasanaeth Nadolig	Tymor ysgol		Unwaith y flwyddyn
Cyfleusterau cymunedol a ddefnyddir yn rheolaidd gan yr ysgol			

e.e. Eglwys		Eglwys/Capel – Agor y Llyfr	Capel, Neuadd y Plwyf, Eglwys	Neuadd Bentref Cartref Henoed
Cyfleusterau cymunedol a ddarperir gan a gweithgaredd a gynhelir ar dir yr ysgol				
Cylch Ti a Fi	Tymor ysgol	wythnosol		
Ymarfer Band	Unrhyw adeg	achlysurol		
Little Puffins – meithrin	Tymor yr ysgol a gwyliau haf.	dyddiol		
Mudiad Meithrin	Tymor Ysgol		10 awr yr wythnos	
Playgroup	Tymor Ysgol		10 awr yr wythnos	
Clwb Gofal Plant	Tymor Ysgol Gwyliau		Pob noson rhwng 3 a 5:30. Pob Dydd Mawrth ac Iau rhwng 8 a 5:30	
Ymarfer drama				wythnosol
Effaith ar fusnesau a chyflogaeth leol				
Busnesau manwerthu cyfleustra yn y dalgylch			Cyfrannu at weithgareddau megis: Gwasanaethau Cofio Canu Carolau Clwb Coffi	Siop a swyddfa bost lleol

		Ras Hwyl Llandegfan	
		Ffair Nadolig	
Busnesau gofal plant yn y dalgylch	-	-	-
Busnesau sy'n cyflenwi'r ysgol yn y dalgylch			

Dengys wrth ddadansoddi'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Rhanddeiliaid bod amrediad o gyfleusterau a gweithgareddau yn cael eu cynnal yng nghymunedau'r ysgolion dan sylw. Rhagwelwn y bydd gweithgareddau cymunedol yn parhau i gael eu cynnal, beth bynnag fydd y penderfyniad. I bwrpas yr asesiad yma ac yn benodol ar gyfer yr asesiad cymunedol rydym wedi cymryd i ystyriaeth barn ein rhanddeiliaid ar gyfer asesu'r effaith posib ar ein cymunedau. Pwysleisiwn mai dogfen gychwynnol yw hon a byddwn yn parhau i roddi ystyriaeth i effaith y cynnig ar ein gweithgareddau cymunedol, ar ein trigolion yn ein cymunedau a'r bwriad i gydweithio ar fesurau lliniaru ar y. Mae'r asesiad effaith gymunedol ar y pwynt yma yn seiliedig ar farn ein rhanddeiliaid a byddwn hefyd yn rhoddi ystyriaeth fanylach i dystiolaeth berthnasol.

Os cymeradwyir y cynnig gan y Pwyllgor Gwaith bydd yr ysgolion sy'n parhau yn addas iawn ar gyfer cynnal gweithgareddau cymunedol, ni fydd newid yn hynny o beth. Dengys felly bod effaith gymunedol ar hyn o bryd yn negyddol. Os bydd effaith negyddol yn parhau bydd yr Awdurdod yn cyflwyno mesurau posib i liniaru hynny. Unwaith eto pwysleisiwn mai bwriad yr Awdurdod yw cydweithio efo cymunedau wrth i'r newid i drefniant presennol y 3 ysgol gymryd lle.

Crynodeb

Asesiad	Effaith (cyn cynnig dulliau a chamau lliniaru).
Cydraddoldeb	+7

leithyddol	+5
Cymunedol	-3

Dyma grynodeb o'r asesiadau. Pwysleisir mai astudiaethau cychwynnol yw'r rhain, a byddent yn cael eu diweddarau wrth i'r Awdurdod ynghyd a'r partneriaid weithio ar fesurau lliniaru i'r effaith negyddol cymunedol, yn bennaf.

Mae nifer o bartneriaid gan gynnwys Cyngor Sir Ynys Môn wedi ymgymryd â'r ymarfer 'Adeiladu Cymunedau' yn ardal Seiriol. Fel rhan o'r ymarfer ymgysylltwyd yn helaeth gyda nifer fawr o grwpiau cymunedol, i bwrpas cynnal sgysiau a datrysiadau rhwng darparwyr gwasanaeth a defnyddiwr gwasanaeth. Un o'r themâu blaenoriaeth a adnabuwyd oedd adeiladau a gweithgareddau cymunedol. Mae Rhaglen Moderneiddio Ysgolion yn cydnabod rôl a chyfraniad trigolion yn allweddol i gynnal cymunedau a byddwn yn barod (ynghyd a'n partneriaid) i adnabod a rhannu arfer dda mewn perthynas â hyn.

Ymateb Estyn i'r cynnig i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol

Cyflwyniad

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori i Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr, a gwybodaeth ychwanegol arall fel data gan Lywodraeth Cymru a barnau'r Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

Mae'r cynnig ymgynghori gan Gyngor Sir Ynys Môn.

Crynodeb/ Casgliad

Os caiff y cynigion eu rhoi ar waith, gallent ddarparu cyfleoedd cynyddol i ddisgyblion ddysgu gyda disgyblion eraill o'r un oedran a darparu gallu arwain gwell ar gyfer cynllunio a monitro darpariaeth. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod yn nodi nad yw'r adeilad yn Ysgol Biwmares yn bodloni disgwyliad Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd, sef y dylai ysgolion fod yn adeiladau sy'n bodloni anghenion yn yr unfed ganrif ar hugain.

Fodd bynnag, nid yw agweddau eraill ar y cynnig, fel y cynlluniau i ad-drefnu'r ystâd ysgolion a threfniadau cludiant, wedi'u datblygu'n ddigonol. At ei gilydd, nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu'n ddigonol i fynd i'r afael â derbyniadau i ysgolion a dewis rhieni yn yr ardal hon yn ddigon da.

Nid yw'r cynigion yn cynnwys digon o fanylion i alluogi Estyn i arfarnu eu heffaith debygol ar safonau addysg, ac o ganlyniad, ni all Estyn lunio barn ynghylch a ydynt yn debygol o gynnal y safonau addysg presennol yn yr ardal.

Disgrifiad a manteision

Mae'r prif ysgogwyr a nodwyd fel rhan o'r cynnig yn realistig a pherthnasol. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi rhesymeg glir dros y manteision disgwyliedig o gymharu â'r sefyllfa bresennol, yn unol â'r hyn a amlinellir yn yr adroddiad.

Mae 72% ac 19% o leoedd dros ben yn Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed, yn y drefn honno. Mae'r cynnig yn debygol o leihau cyfran y lleoedd dros ben yn sylweddol rhwng y ddwy ysgol hon. Fodd bynnag, mae gormod o alw am leoedd yn Ysgol Llandegfan ar hyn o bryd. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i dai newydd tebygol yn nalgylch pob ysgol, ynghyd â data'r gwasanaeth iechyd ar gyfer derbyniadau tebygol i ysgolion ar gyfer y pum mlynedd

nesaf. Er ei bod yn ymddangos bod digon o le yn Ysgol Biwmares ac Ysgol Llangoed ar y cyfan, mae Ysgol Llandegfan yn debygol o barhau i fod yn llawn neu y bydd gormod o alw am leoedd yno am y blynyddoedd nesaf. At ei gilydd, nid yw'r cynnig wedi'i ddatblygu'n ddigonol i fynd i'r afael â derbyniadau i ysgolion a dewis rhieni yn yr ardal hon yn ddigon da.

Mae'r cynigiwr yn egluro'n dda fod angen gwella ansawdd ystâd ysgolion yr awdurdod er mwyn darparu adeiladau ysgol sy'n addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain. Fodd bynnag, nid yw'n glir p'un a oes yna gynlluniau digon trylwyr yn yr achos hwn i gyflawni uchelgais yr awdurdod. Er enghraifft, mae dogfen y cynnig yn datgan: 'Os caiff y cynnig sy'n cael ei ystyried ei wireddu, ni fyddai ysgol gynradd newydd yn cael ei hadeiladu, ond efallai y byddai un ysgol neu fwy yn cael eu haddasu a / neu'u hymestyn'. Felly, er enghraifft, er y bydd rhieni yn Ysgol Biwmares yn cael eu gwahodd i wneud dewis am ysgol nesaf eu plentyn, hyd nes y caiff unrhyw gynlluniau trylwyr i ehangu eu gwireddu, nid oes unrhyw leoedd ar gael yn Ysgol Llandegfan. Mewn gwirionedd, nid yw'n ymddangos bod gan y rhieni hyn ddewis.

Mae'r manteision disgwylidig a nodwyd yn y cynnig presennol i derfynu'r ddarpariaeth yn Ysgol Biwmares ac adleoli'r disgyblion yn un o'r ddwy ysgol gyfagos yn cynnwys y canlynol:

- Ysgolion hyfyw yn cynnig cwricwlwm llawn
- Adeiladau sy'n addas ar gyfer addysg yn yr 21ain ganrif
- Profiadau dysgu sy'n manteisio ar y dechnoleg ddiweddaraf
- Cyfleoedd gyrfa ar gyfer arweinwyr ac athrawon o safon uchel. Bydd cyfle i ddatblygu arbenigedd gwell gan athrawon mewn meysydd penodol, fydd yn eu tro yn dylanwadu ar athrawon eraill.
- Cyfleoedd i gryfhau a diogelu'r Gymraeg ac addysg ddwyieithog. Mae Asesiad yr awdurdod o'r Effaith ar y Gymraeg yn cadarnhau y gallai'r cynnig gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg.
- Parhau â darpariaeth gymunedol er mwyn hyrwyddo gweithgareddau cymunedol sy'n cynnwys rhieni, aelodau o'r gymuned a grwpiau lleol.

Mae'r cynnig yn nodi anfanteision yn y goblygiadau staffio sy'n cyd-fynd ag unrhyw bosibilrwydd i gau ysgol, ochr yn ochr â'r tebygolrwydd y bydd adnodd cymunedol yn cael ei golli. Mae'n ymddangos bod hyn yn groes i'r fantais derfynol a nodir uchod, sef parhau â darpariaeth gymunedol, yn enwedig ar gyfer y gymuned o amgylch Ysgol Biwmares, y mae'r cynigiwr yn bwriadu ei chau. Mae'r cynigiwr yn ystyried lleoli darpariaeth tai gofal ychwanegol ar safle Ysgol Biwmares, sydd 'naill ai wedi'i chyd-leoli ag ysgol wedi'i haddasu neu fel y prif ddefnydd ar gyfer y tir hwn'. Nid yw'n glir sut mae'r datganiad hwn yn effeithio ar y cynnig i gau Ysgol Biwmares.

Y brif anfantaes a nodwyd yw'r pellterau teithio cynyddol i'r ysgol i rai disgyblion, ac mae'n debygol mai'r disgyblion hyn fydd disgyblion presennol Ysgol Biwmares. Nid yw'r cynnig yn nodi'n glir nac yn rhoi ystyriaeth ddigon da i effaith bosibl y newidiadau ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae'r cynnig yn cyfeirio at y dewis i ddarparu cludiant am gyfnod cytûn ar gyfer y plant sy'n mynychu Ysgol Biwmares ar hyn o bryd, os byddant yn dewis mynychu Ysgol Llangoed neu Ysgol Llandegfan.

Fodd bynnag, nid yw'n ystyried y trefniadau cludiant ar gyfer brodyr a chwiorydd iau. Er bod y cynigiwr yn nodi bwriad i adolygu dalgylchoedd y tair ysgol pan fydd Ysgol

Biwmares yn cau, mae'r cynnig penodol yn aneglur. Felly, ni fydd rhieni'n gwybod p'un a yw'n debygol y bydd rhaid iddynt dalu am gludiant ysgol ai peidio pan fyddant yn gwneud eu dewis ynghylch ysgol.

Mae'r cynigiwr yn nodi y bydd newidiadau i drefniadau teithio ar gyfer rhai disgyblion, gan gynnwys llwybrau cerdded, yn cael eu hasesu fel rhan o asesiad o'r effaith ar y traffig. Hefyd, mae'r cynigiwr yn datgan y bydd yn gweithio gyda chorff llywodraethol yr ysgol ar ddewisiadau posibl o ran cludiant. Fodd bynnag, nid yw'n bosibl arfarnu p'un a yw'r dewisiadau hyn yn debygol o gael effaith gadarnhaol neu negyddol ar ddysgwyr neu safonau addysg, gan nad ydynt wedi'u datblygu'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae'r cynnig yn galluogi disgyblion i barhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg, ac mae'r cynigiwr yn nodi cyfle i wella addysg a chryfhau addysg

Gymraeg yn yr ardal. Mae'r cynigiwr wedi darparu asesiad effaith clir o'r cynigion ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr awdurdod lleol. Caiff pob agwedd yn yr asesiad effaith ei harfarnu'n briodol fel agwedd sydd naill ai'n cael effaith gadarnhaol neu niwtral ar y cynnig.

At ei gilydd, nid yw'r cynnig yn rhoi ystyriaeth ddigonol i ddewisiadau eraill. Mae'r cynnig yn datgan, er i'r Pwyllgor Gweithredol gytuno ym mis Hydref 2017 i ymgynghori ar ddewis 2/3, y dewis hwn yn unig fydd yn cael ei ystyried. Nid yw'n glir o'r cynnig p'un a yw'r ddau ddewis arall wedi cael eu hystyried yn ffurfiol, neu p'un a oes yna resymau da pam maent wedi cael eu diystyru.

Er mai ymgynghoriad statudol i adolygu'r ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Seiriol yw'r cynnig presennol, mae'r ad-drefnu'n ystyried tair o'r ysgolion cynradd yn unig. Nid yw'r cynnig yn arfarnu'r ddarpariaeth ar draws ardal Seiriol yn gyffredinol, er enghraifft yn ne orllewin yr ardal. Nid yw'n glir pam mae'r cynnig yn ystyried Ysgol Llandegfan, gan fod gormod o alw am leoedd yno eisoes, ac nid oes yna gynlluniau trylwyr yn y cynnig i ehangu adeiladau, cyfleusterau a chapasiti'r ysgol. Hefyd, mae'r cynnig i ystyried p'un a ddylid ffedereiddio Ysgol Llandegfan ac Ysgol Llangoed ar ddiwedd y broses ad-drefnu hon yn annelwig a di-fudd ar hyn o bryd.

Agweddau addysgol ar y cynnig

Mae'r cynigiwr wedi ystyried effaith y cynigion ar ansawdd y deilliannau, y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth a rheolaeth ym mhob un o'r tair ysgol yn fanwl. Mae'r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i ddeilliannau adroddiadau arolygu diweddar perthnasol Estyn ac mae wedi darparu'r bandio lliw categoreiddio. Mae crynodeb y cynigiwr o ddeilliannau yn y tair ysgol yn gywir ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeilliannau sy'n amrywio dros gyfnod. Mae'r cynigiwr hefyd yn nodi'n gywir yr angen i fod yn ofalus wrth gymharu canlyniadau gan fod niferoedd y disgyblion yn gallu bod yn fach, a gall natur y garfan ac amgylchiadau disgyblion unigol gael effaith sylweddol ar berfformiad terfynol.

Nid yw'r cynigiwr wedi ystyried effaith debygol y cynigion i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn cael ei gyflwyno yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol. Fodd bynnag, ceir arfarniad manwl o'r effaith gadarnhaol debygol yn sgil cryfhau addysg trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r cynigiwr yn nodi'n gyffredinol fod angen ystyried cynllunio dilyniant mewn ysgolion. Mae'r cynigiwr yn cymathu addysg dda yn briodol â gallu arweinwyr ysgol i wella deilliannau ar gyfer disgyblion, er enghraifft o ran sicrhau bod ysgolion yn ddigon hyfyw i gefnogi amser rheoli digonol i'r pennaeth (h.y. amser heb fod yn addysgu).

Ceir asesiad priodol o'r effaith ar gydraddoldeb sy'n adolygu effaith niwtral debygol y cynnig ar y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol arbennig, anableddau a'r rheiny â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r cynnig hefyd yn nodi effaith gadarnhaol debygol y cynnig yn y cyfleoedd cynyddol ar gyfer grwpiau o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, i fanteisio ar yr adnoddau a'r ddarpariaeth ar eu cyfer.

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i/Report to :	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad/Date:	26/3/18
Pwnc/Subject:	Adolygiad o Gynllun Gweithredu Chwarae 2017 – 18
Aelod(au) Portffolio/Portfolio Holder :	Cyngh. R. Meirion Jones
Pennaeth Gwasanaeth/ Head of Service :	Mrs Delyth Molyneux
Awdur yr Adroddiad/Report Writer: Rhif Ffôn: E-bost:	Bethan Hywel Jones BethanHJones@ynysmon.gov.uk 01407767784
Aelodau Lleol/ Local Member :	Yn berthnasol i'r Ynys i gyd.

A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau – Reasons and recommendations
<p>Gofyn am sêl bendith y Pwyllgor i'r adroddiad Adolygu Chwarae 2017 - 18 er mwyn ei yrru blaen i'r Llywodraeth yn unol â gofynion statudol yn "Cymru - Gwlad lle mae cyfle i chwarae" July 2014 a Phennawd 2, Rhan 11 o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) sydd yn gosod y ddyletswydd ar awdurdodau lleol o ran cyfleoedd chwarae a'r gofyn i adolygu'r asesiad digonolrwydd chwarae'r flynyddol.</p> <p>Mae'r Adolygiad ynghlwm ac nid oes pryderon yn codi am y Cyngor yn methu a chwrdd â'i dyletswyddau statudol o fewn y maes yma.</p> <p>O ran y cyllid, cyllidwyd y swydd flaenorol o Swyddog Chwarae drwy grant Teuluoedd yn Gyntaf. Ond o Ebrill 2018 oherwydd newid yn amodau'r grant a natur statudol y maes, nid oes modd ei gyllido o'r grant mwyach.</p> <p>O ganlyniad mae'r Adran Dysgu wedi cynnwys y dyletswyddau o fewn ei Uned Cefnogi Plant a Theuluoedd fydd yn cynnwys dyletswyddau chwarae gyda'r cyfrifoldeb am gwblhau ac adolygu ei Asesiad digonolrwydd Gofal Plant. Fydd hyn yn caniatáu gwasanaeth cydlynol, targedu adnoddau a datblygiadau ar draws y ddau faes.</p>

Camau nesaf ac amserlen

Yn dilyn cymeradwyaeth y Pwyllgor fydd y Cynllun yn cael ei yrru i Lywodraeth Cymru erbyn Ebrill 2018. Mae adolygiad yn digwydd yn flynyddol.

B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn? What other options did you consider and why did you chose this/dismiss this option?

Dim yn berthnasol

C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?/ Why is this a decision for the Executive Meeting?

Mae yn ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn gymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Chwarae.

CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?/ Does this decision align with any policy approved by the full Council.

Mae hwn yn ddyletswydd statudol ac yn deillio o'r Aseiad Digonolrwydd Chwarae cwblhawyd yn Fawrth 2016.

D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?/ Is this decision within financial decisions made the Council?

Cyllid wedi adnabod gan Wasanaethau Cymdeithasol ac wedi lleoli o fewn yr Uned Cefnogi Teuluoedd.

**DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? With whom did you consult?
Beth oedd eu sylwadau? What were the observations?**

1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (mandadol)	
2	Cyllid / Adran 151 (mandadol)	
3	Cyfreithiol / Swyddog Monitro (mandadol)	

4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	
10	Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill	

E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)		
1	Economaidd	
2	Gwrthdodi	
3	Trosedd ac Anhrefn	
4	Amgylcheddol	
5	Cydraddoldebau	
6	Cytundebau Canlyniad	
7	Arall	

F – Atodiadau/Appendix:
1. Play Action Plan 2017 - 2018

FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Enw'r awdurdod lleol: Cyngor Ynys Môn

Enw'r swyddog cyfrifol: Bethan Hywel Jones

Teitl y swydd: Rheolwr Uned Cefnogi Teuluoedd

Dyddiad cwblhau: 25 Chwefror 2018

Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae Digonol 2017-18

Mater: A		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
Sicrhau cefnogaeth i gymunedau er mwyn darparu ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.	Ymestyn y clybiau / cyfleoedd. Ymgeisio i symud darpariaeth gwyliau ymlaen yn ôl yr angen.	Cyllid Clwb Ieuenctid/Gwasanaeth Anableddau Plant (GAP)/ Ysgol Y Bont/grwpiau cymunedol fel Clwb Ni a Chlwb Cybi. Ac ymgeisio am grantiau sydd yn codi.
Mater: B		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)

<p>Cefnogi ardaloedd gwledig a phentrefi llai i ddatblygu cyfleoedd chwarae yn yr ardaloedd</p>	<p>Cynnig cefnogaeth i'r ardaloedd hynny sydd angen cefnogaeth er mwyn cyfoethogi cyfleoedd chwarae.</p>	<p>Dim sicrwydd cyllideb ar gyfer yr elfen yma ond manteisio ar grantiau Llywodraeth a chyfeirio grwpiau i grantiau cymunedol/loteri ayyb. I hybu cynladwyedd a chyfrifoldeb. Cydweithio yn bwysig gyda mentrau eraill megis yr Urdd, Clybiau Ieuenctid, Menter Iaith, clybiau ar ol Ysgol ayyb.</p> <p>Grantiau o £3000 wedi'i gynnig ym Mawrth 2017 a grant arall o £2000 yn cymryd lle yn Hydref 2017 . Cyllidwyd y canlynol: 49 o gynlluniau chwarae gan gymunedau rhwng Ebrill a Medi 2017 Safle Twitter Mon Chwarae gyda 290 o ddilynwyr Lansiad llyfryn Dewch i Chwarae gyda manylion llefydd chwarae am ddim.</p> <p>Grant ychwanegol gan y Llywodraeth yn Chwefror 2018 a chyllidwyd y canlynol yn ychwanegol: Darparu podiau chwarae allanol, offer chwarae allanol a meddal i Ysgol arbennig a ysgolion cynradd. Diwrnodau hwyl i deuluoedd dros y gwyliau Pasg. Grantiau i hybu chwarae yn y gymuned.</p>
--	---	--

Mater: C		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
<p>Datblygu strwythur mapio ardaloedd chwarae . Arwyddion “dim chwarae pel” wedi dileu. Arwyddion “plant yn chwarae” yn ei lle.</p>	<p>Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd - fel rhan o'r Cynllun Datblygu Lleol -- yn cychwyn Aseiad Mannau Agored - polisi ISA 4 yn gwarchod llecynnau agored a pholisi ISA 5 yn creu llecynnau newydd, os oes angen (lle mae yna ddiffyg darpariaeth) hefo ceisiadau cynllunio am 10 neu fwy o dai. Proses ar y gweill o ysgrifennu Canllaw Cynllunio Atodol ar 'Llecynnau Agored o Fewn Datblygiad Preswyl Newydd gan adran Gynllunio.</p>	<p>Dim cyllid ar gael yn gyfredol i gyflawni hyn o safbwynt arwyddion.</p> <p>O ran mapio edrych ar ddefnyddio systemau Cyngor / trydydd sector i fapio - gan ystyried Gwefapio - GIS - a'r modd i ychwanegu gwybodaeth o fewn y filltir sgwâr fydd efallai yn rhad ac am ddim.</p>
Mater: E		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
<p>Nodi holl ddarpariaeth Sirol ar gyfer anghenion amrywiol, gan wneud yn siŵr fod y wybodaeth yn gywir a chyfoes.</p>	<p>Hyrwyddo'r ddarpariaeth ymysg asiantaethau, a'u gwneud yn ymwybodol fod angen llenwi'r ffurflen briodol ac arwyddo'r darn – 'Gwarchod data ac awdurdod i'w ddefnyddio'. Mae Dewis Cymru yn wefan wybodaeth sydd wedi datblygu i gynnwys manylion am wasanaethau i oedolion yn wreiddiol ond rŵan yn ehangu ar gyfer plant a theuluoedd gyda'r pwrpas o gynnal a chynnwys gwybodaeth gyffredinol am wasanaethau ayyb o fewn yr ardal. Y wefan Dewis yn ddatblygiad ar gyfer cwrdd ag gofynion Teulu Môn.</p>	<p>Rhan o waith sefydliad Teulu Môn.</p>
Mater: F		

Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
<p>Adnabod gweithgareddau rhad ac am ddim / cost isel i grwpiau sydd yn darparu cyfleoedd chwarae.</p>	<p>Sicrhau dewis eang o ddarpariaeth rad ac am ddim. Cadw'r wybodaeth yn gyfredol a'i wneud yn hysbys i'r cyhoedd.</p> <p>Rhoddi cymorth i gymunedau i fynd ati i ymgeisio am grantiau er mwyn rhedeg gweithgareddau. Cefnogi yn bennaf ardaloedd sydd yn ddifreintiedig o weithgareddau chwarae.</p> <p>Llyfryn Dewch i Chwarae yn nodi gweithgareddau rhad ac am ddim. Gwybodaeth ar wefan Ymweld â Môn.</p>	<p>Rhan o waith sefydliad Teulu Môn.</p>

Mater F		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
<p>Cyd-weithio gydag asiantaethau diogelwch cymunedol a'r cymunedau i ddatblygu cynlluniau fel bod y plant yn gallu chwarae allan mewn awyrgylch sydd yn ddiogel.</p>	<p>Sicrhau asesiadau risg ar lefydd chwarae yn digwydd/ adnabod ardaloedd diogel drwy mappio/ linc i Gynllun Datblygu Lleol cafodd ei fabwysiadu Gorffennaf 2017/ hyfforddi'r sector/ cynghorau tref a chymuned/ Gwasanaeth Cynllunio a Pholisi Cynllunio Cenedlaethol Cymru yn gwarchod llecynnau presennol ac i drio darparu ragor o lecynnau chwarae/agored.</p> <p>Mae Polisi ISA5: 'Darparu Llecynnau Agored Mewn Datblygiad Tai Newydd' yn datgan y disgwylir i gynigion tai newydd ar gyfer 10 neu fwy o unedau mewn lleoliadau ble nad oes yna ddarpariaeth ddigonol bresennol o lecynnau agored er mwyn cyfarch yr angen gyfrannu tuag at ddarpariaeth addas o lecynnau agored.</p>	<p>Arian amlasiantaethol. Heddlu ac Adran Dai/Addysg/grwpiau cymunedol. Ceisiadau cynllunio newydd yn blaenoriaethu llecynnau agored a'r gost yn disgyn ar y datblygwr.</p>
Mater G		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)

Hyrwyddo hyfforddiant ar faterion chwarae er mwyn datblygu staff Hyfforddiant ar gyfer staff i ddatblygu chwarae Asesiad o anghenion hyfforddi o fewn y sector	Cynnal o leiaf 1 Cynhadledd / Gweithdy'r flwyddyn. Hyrwyddo cyrsiau o dudalen Chwarae Cymru i Ofalwyr Plant, Ymwelwyr Iechyd ac Asiantaethau sydd yn gweithio gyda theuluoedd. Grant Allan o Ysgol wedi cyllido Playwork Lefel 3 i 20 o weithwyr yn y maes clybiau ar ol ysgol.	Dim arian craidd ond modd ddefnyddio arian tanwariant. Edrych ar ariannu hwn hefyd drwy grant Darpariaeth Allan o Ysgol a chyd cynllunio ar draws y maes gofal a chwarae.
Mater H		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)
Cynnig cefnogaeth a gwybodaeth i asiantaethau/cymunedau sydd yn darparu cyfleoedd chwarae am gyfleoedd cyllidol.	Parhau i yrru gohebiaeth am gyfleoedd i ymgeisio am arian i ddatblygu ardaloedd a gweithgareddau ar Ynys Môn.	Darpariaeth benodol o fewn yr Uned Cefnogi Teuluoedd am sicrhau cyd-gordio gofynion statudol plant a chwarae o Ionawr 2018 ymlaen.
Cyd-weithio gyda swyddogion sydd yn gyfrifol am gynlluniau Egniol Môn,) er mwyn datblygu cydweithio traws adrannol gyda Chwarae, Hamdden a Chwaraeon.	Darparu cyfleoedd chwaraeon / gweithgareddau corfforol i bobl ifanc a gwneud hyn trwy weithio mewn partneriaeth.	Cydweithio rhwng gwahanol adrannau. Uned Cefnogi Teuluoedd am sicrhau cyd-gordio gofynion statudol plant a chwarae o Ionawr 2018 ymlaen.
Cadw cysylltiad yn rheolaidd megis gwefannau, gwefannau cymdeithasol ayyb	Sicrhau fod y wybodaeth yn gyfoes a chywir am ddeunyddiau a digwyddiadau chwarae ac cydweithio ar 3 digwyddiadau chwarae/hamdden cyn y gwyliau Pasg.	Teulu Môn i redeg y Safleoedd Cymdeithasol ar y cyd gydag Uned Cefnogi Teuluoedd/wefan y Cyngor Sir.
Mater I		
Meini prawf (yn unol â'r pecyn PSA)	Camau Gweithredu 2017/18	Ffynhonnell Ariannu (ffrydiau ariannu newydd neu sydd eisoes yn bodoli)

<p>Cydweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau dealltwriaeth o bwysigrwydd/buddiannau chwarae. Person wedi adnabod ar y Bwrdd Gwasanaethau Lleol i hyrwyddo chwarae. Cynnyws chwarae o fewn y Cynllun Llesiant i Mon.</p>	<p>Cynnig cefnogaeth i Ysgolion i ddarparu syniadau ar ffyrdd o gyfoethogi chwarae oddi fewn ac allan i oriau'r Ysgol.</p> <p>Sicrhau cysylltiadau cadarn gyda'r ysgolion, Cynghorau Ysgol a Phwyllgorau Rhieni'r Ysgolion.</p> <p>Nod y Cynllun Llesiant yn cynnwys pennawd am lesiant blant yn gyffredinol a chynlluniau unigol am ddatblygu o fan hyn.</p>	<p>I'w gael ei hyrwyddo drwy Swyddog Ysgolion Iach.</p> <p>Unrhyw gynlluniau penodol gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol a'r Cynllun Llesiant.</p> <p>Grantiau Llywodraeth Cymru lle mae'n briodol.</p>
<p>Sicrhau ymagweddau positif tuag at chwarae yn cael ei adlewyrchu oddi fewn y cyfryngau.</p>	<p>Sicrhau newyddion yn fisol. Drwy Twitter, Papurau Lleol ac ar Fôn FM. Safle we Dewis. Safle we Y Cyngor Sir/ Facebook a Thrydar.</p>	<p>Hyn yn digwydd yn arferol gan grwpiau cymunedol. Safle we Dewis wedi cyllido gan Wasanaethau Cymdeithasol.</p>

CYNGOR SIR YNYS MÔN	
Adroddiad i:	Pwyllgor Gwaith
Dyddiad:	26 Mawrth 2018
Pwnc:	Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru a'r Rhaglen Targedu Buddsoddiad Adfywio (TRIP)
Aelod (au) Portffolio:	Y Cyngorydd Carwyn Jones Y Cyngorydd Alun Mummery
Penaethiaid Gwasanaeth:	Dylan Williams, Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd Ned Michael, Pennaeth Gwasanaethau Tai
Awdur yr Adroddiad: Ffôn: E-bost:	Dewi G. Lloyd, Rheolwr Adfywio x2483 DewiLloyd@ynysmon.gov.uk
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i bob aelod

A - Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau

Argymhellion

Awdurdodi'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Pennaeth Tai i :-

- 1. Gymryd rhan yn y broses o baratoi Strategaeth Adfywio Ranbarthol gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC) i'w chyflwyno i Lywodraeth Cymru;**
- 2. Trafod dyraniadau a chyflwyno cynigion am arian o'r Rhaglen TRIP i Lywodraeth Cymru, ar yr amod bod y Swyddog A151 yn cytuno;**
- 3. Derbyn a gwario arian TRIP a gymeradwywyd, gan gynnwys dyfarnu grantiau i eraill ar gyfer prosiectau cymwys, ar yr amod bod y Swyddog A151 yn cytuno;**
- 4. Ceisio denu y mwyaf posib o gyllid TRIP i Ynys Mon, a paratoi prosiectau yn barod ar gyfer cyfleon posib i sicrhau cyllid ychwanegol;**
- 5. Lobio i geisio creu cronfa adfywio sydd yn addas i gynorthwyo prosiectau adfywio mewn trefi llai ac ardaloedd gwledig.**
- 6. Trafod a dod i gytundeb gyda cyngorau sir eraill yng Ngogledd Cymru ble mae angen hynny er mwyn ymgeisio a derbyn cyllid TRIP, yn amodol ar gytundeb y Swyddog A151 a Chyfreithiwr y Cyngor**

Cyd-destun

Mae Adain Cartrefi a Lleoedd Llywodraeth Cymru (LIC) wedi lansio'r Rhaglen Targedu Buddsoddi Adfywio (TRIP) i ddarparu cyllid cyfalaf ar gyfer gweithgareddau adfywio yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Mae'n disodli'r Rhaglen VVP a fu'n rhedeg o 2014-17.

Mae LIC am i TRIP gael ei wreiddio o fewn y strwythurau a'r prosesau rhanbarthol sy'n cael eu datblygu ar draws Cymru ar hyn o bryd, ac mae wedi gwahodd pob un o'r pedair partneriaeth datblygu economaidd ranbarthol i ddatblygu strategaethau adfywio hirdymor i lywio'r buddsoddiad TRIP yn eu rhanbarth. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnig bod pob rhanbarth yn blaenoriaethu nifer fach o "Ardaloedd Adfywio".

Er y bydd y rhaglen TRIP gychwynol yn rhedeg am dair blynedd o 1 Ebrill 2018, mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn hyderus y bydd cyllid ar gael yn y blynyddoedd dilynol ac maent wedi cynghori y dylai'r strategaeth adfywio ranbarthol nodi blaenoriaethau a rhaglenni gwaith hirdymor yn hytrach na chanolbwytio yn unig ar y tair blynedd nesaf.

Ymateb a Strategaeth Gogledd Cymru

Mae swyddogion o Grŵp Swyddogion Adfywio Gogledd Cymru a Grŵp Rheoli Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn arwain yr ymateb o Ogledd Cymru i'r cyfle hwn.

Maent wedi cytuno i dylid paratoi Strategaeth Adfywio ar gyfer Gogledd Cymru, ac y dylai hwn nodi gweledigaeth ac amcanion ar gyfer adfywio tan 2035, gan roi blaenoriaethau i lywio datblygiad rhaglenni gwaith yn y dyfodol, a dylai helpu i alinio'r broses adfywio â'r broses ar gyfer twf economaidd sy'n dilyn yr un amserlen.

Y blaenoriaethau sydd wedi eu hadnabod ar gyfer y Strategaeth Adfywio ddrafft yw: -

- Lleihau anghydraddoldeb
- Cynyddu cyflogaeth
- Moderneiddio canol trefi
- Gwellu'r cynnig tai
- Cryfhau'r economi ymwelwyr
- Amddiffyn yr economi wledig
- Gwellu iechyd pobl leol

Ar sail arweiniad gan LLC, cynnigir deuddeg tref fel ardaloedd blaenoriaeth ar gyfer cynlluniau adfywio trefol yng Ngogledd Cymru. Dynodwyd y trefi hyn trwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer lefelau amddifadedd cyffredinol sy'n seiliedig ar bresenoldeb Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is (LSOAs) sydd ymhlith y deg y cant mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Y deuddeg tref sydd i'w blaenoriaethu ar y sail hon yw: Y Rhyl, Wrecsam, Bangor, Bae Colwyn, Caernarfon, Pentrefi yn Wrecsam,

Treffynnon, Shotton, Llandudno, Dinbych, Caergybi, Abergele a Phenysarn. Mae'r rhain wedi'u rhestru yn seiliedig ar nifer y bobl sy'n byw yn yr LSOA mwyaf difreintiedig. Mae 11,021 o drigolion yn y categori hwn yn Rhyl o gymharu â 1,487 yng Nghaergybi, er enghraifft.

Mae'r awdurdodau gwledig wedi dwyn sylw at y ffaith bod y fethodoleg hon yn nodi ardaloedd o dlodi sy'n gysylltiedig â'r ardaloedd trefol mwy, ac maent wedi tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â thlodi ac anghenion adfywio mewn trefi llai ac mewn ardaloedd gwledig hefyd. Cydnabuwyd hynny, ond nid oes camau wedi eu cymryd eto i fynd i'r afael â'r angen hwn.

Y rhaglen TRIP ar gyfer Gogledd Cymru

Fel gyda VVP, mae TRIP ar gael ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf yn y meysydd tai ac adfywio, gyda phwyslais clir ar adnewyddu trefol a chartrefi. Mae LIC wedi dweud y bydd yn ystyried ceisiadau am arian cyfalaf gan awdurdodau lleol unwaith y bydd strategaeth ranbarthol y cytunwyd arni yn ei lle ac unwaith y bydd prosiectau wedi cael cefnogaeth ranbarthol.

Mae LIC wedi nodi y tybir y bydd £22m ar gael dros dair blynedd i Ogledd Cymru, sef oddeutu hanner yr arian oedd ar gael o dan VVP, ond gallai lefel y cyllid amrywio o hyn. Ni all TRIP ond ariannu buddsoddiadau cyfalaf a bydd yn darparu hyd at 70% o gostau prosiectau (50% ar gyfer datblygu prosiectau). Oherwydd yr adnoddau cyfyngedig, mae swyddogion LIC wedi dweud na fyddant ond yn ystyried targedu 3 neu 4 o aneddiadau yng Ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod 2018-21. Yn seiliedig ar y sgorau LSOA y cyfeiriwyd atynt yn gynharach yr ardaloedd hynny fydd: Y Rhyl, Wrecsam, Bangor, Bae Colwyn.

Mae LIC hefyd wedi cytuno mewn egwyddor y gellir darparu rhywfaint o'r £22m ar gyfer rhaglenni thematig sy'n cynnwys mwy nag un sir, a allai fod ar gael i aneddiadau eraill a nodwyd yn y strategaeth ranbarthol. Mae'r rhaglenni thematig sydd dan ystyriaeth yn cynnwys: Ardaloedd Adnewyddu Tai yng Nghonwy / Sir Ddinbych / Sir y Fflint / Wrecsam; Adeiladau Gwag yn Ynys Môn / Gwynedd, ac Adeiladau Pwysig ar draws y chwe sir yng Ngogledd Cymru.

Goblygiadau i Ynys Môn

Dim ond un LSOA sydd gan Ynys Môn yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru (Morawelon) ac oherwydd hyn mae Caergybi yn ymddangos ar y rhestr o 12 ardal adfywio yng Ngogledd Cymru, ond nid yw trefi eraill yn Ynys Môn ar y rhestr. Mae'r niferoedd cymharol is yng Nghaergybi yn golygu nad yw ymhlith y pedair ardal lle bwriedir blaenoriaethu buddsoddiad yn 2018-21. O gofio mai'r Mynegai yw'r ffordd gydnabyddedig o fesur amddifadedd, mae'n anodd dadlau yn erbyn y fethodoleg hon fel ffordd o dargedu arian ar gyfer adfywio trefol.

Felly, bydd angen i unrhyw arian TRIP ar gyfer Ynys Môn yn y cyfnod hwn ddod o'r dyraniadau thematig arfaethedig. Disgwylir mai'r prif ffynhonnell fydd y dyraniad amodol o £3.3m i'w rannu rhwng Ynys Môn a Gwynedd i fynd i'r afael ag eiddo gwag, yn bennaf i'w defnyddio fel catrefi. Dylai Ynys Môn hefyd gael cyfran o'r gronfa ddatblygu o £200k i Ogledd Cymru yn 2018/19 (sef £35k o'i rannu'n gyfartal rhwng 6) a chyfran hefyd o'r dyraniad amodol o £2.5 miliwn i Ogledd Cymru ar gyfer delio ag adeiladau canol tref allweddol (sef £ 400k o'i rannu'n gyfartal rhwng 6).

Mae LIC wedi rhyddhau arian ychwanegol yn ystod y blynyddoedd ariannol diwethaf (fel arfer yn Ch3/Ch4) ar gyfer 'prosiectau parod' y gellir symud ymlaen â nhw'n gyflym, ac felly mae'n eithaf posib y bydd Ynys Môn yn derbyn arian cyfalaf ychwanegol os oes ganddo brosiectau cyfalaf cymwys sy'n barod i fynd.

Cynigion Prosiect TRIP Ynys Môn

Ar ôl ystyried nifer o opsiynau, dynodwyd y canlynol gan swyddogion adfywio a thai fel cynigion amodol ar gyfer cyllid TRIP ar Ynys Môn (ac os yw'r dyraniad i Ogledd Cymru yn fwy na £22m dylai bod modd codi'r ffigyrau yma) :-

Rhaglen Adeiladau Gwag ar gyfer Gogledd Orllewin Cymru - cais amodol gan CSYM am oddeutu £2m

Cronfa Cartrefi Gwag - i gefnogi prosiectau sy'n delio efo eiddo gwag a problemus

Menter Treftadaeth Treflun - i gydariannu gyda Chronfa dreftadaeth y Lloteri fel y gellir aildddefnyddio adeiladau hanesyddol canol tref ar gyfer defnydd masnachol a / neu breswyl

Rhaglen Adeiladau Pwysig ar gyfer Gogledd Cymru - cais amodol gan CSYM am oddeutu £400k

Adeiladu ar gyfer y Dyfodol - i'w ddefnyddio fel arian cyfatebol i ddenu grant ERDF mwy tuag at welliannau i adeiladu allweddol yn Ynys Môn

Cronfa Datblygu Prosiectau - cais amodol gan CSYM am oddeutu £35k

Cynlluniau i ailddatblygu safleoedd Ysgol y Parc & Llyfrgell / Ysgol Parch Thomas Ellis - i helpu i sicrhau'r cyfleoedd a'r buddion mwyaf trwy ailddatblygu safleoedd trefol gwag allweddol

Bydd rhagor o waith yn digwydd dros yr wythnosau nesaf i gwblhau'r cynigion am arian TRIP yn barod i'w cyflwyno yn gynnar yn y flwyddyn ariannol newydd. Bydd hyn yn cynnwys ystyried prosiectau gan y Grŵp Tir ac Eiddo.

Mae swyddogion LLC wedi rhoi gwybod y bydd angen ymgeisio am y cyllid thematig ar y cyd rhwng cynghorau sir perthnasol, gyda un awdurdod yn gweithredu fel corff arweiniol / derbynydd y grant. Y bwriad yw y bydd Cyngor Sir Ynys Mon yn arwain ar y thema 'Eiddo

Gwag' a byddai angen cytubdeb addas gyda Cyngor Gwynedd i reoli hyn, yn amodol ar gytundeb Cyllid a Cyfreithiol.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith bod tlodi ac amddifadedd hefyd mewn trefi a phentrefi llai ac ardaloedd gwledig, a bod y defnyddio data o'r Mynegai / LSOA yn golygu fod amddifadedd a thlodi o'r fath yn guddiedig yn aml. Mae amcanion Strategaeth Adfywio Gogledd Cymru yn cydnabod anghenion gwledig, ond nid yw'r rhaglen TRIP wedi ei dylunio i fynd i'r afael â hyn ac mae angen gwneud gwaith i fynd i'r afael â'r mater.

B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod?

a) **Peidio cefnogi'r Strategaeth Adfywio Ranbarthol** - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir bod yn rhaid i bob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru gefnogi'r Strategaeth Ranbarthol er mwyn i Ogledd Cymru gael cyllid TRIP. Ar y sail na fyddai Ynys Môn felly yn derbyn unrhyw arian, mae'r opsiwn hwn wedi cael ei wrthod.

b) **Peidio cefnogi'r Cynigion Ariannu TRIP** - mae Llywodraeth Cymru wedi dweud yn glir bod yn rhaid i bob un o'r chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru gefnogi'r cynlluniau er mwyn i Ogledd Cymru gael cyllid TRIP. Ar y sail na fyddai Ynys Môn felly yn derbyn unrhyw arian, mae'r opsiwn hwn wedi cael ei wrthod.

C - Pam mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Mae'n golygu rhoi awdurdod i swyddogion gymryd rhan mewn strategaeth ranbarthol newydd, derbyn cyllid allanol newydd a mynd i wariant cysylltiedig neu ddyfarnu grant.

CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?

Ydi, mae'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor am y cyfnod 2017-2022, yn arbennig: -

Iechyd a Llesiant - 2. Defnyddio ein hadnoddau ein hunain, a rhai partneriaid allanol, i gynyddu nifer y tai fforddiadwy a chartrefi sy'n eiddo i'r Cyngor a dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd.

Cyfleoedd Swyddi a Gwaith - 2. Gweithio gyda Chynghorau eraill Gogledd Cymru i ddenu buddsoddiad i sicrhau bod prosiectau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd cyflogaeth lleol yn mynd yn eu blaen

Mae angen diogelu a gwella amgylcheddau naturiol ac adeiledig yr Ynys ... gan gynyddu eu gwerth fel adnoddau economaidd-gymdeithasol i'r eithaf.

D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?

Ydi - disgwylir y gellir defnyddio'r cyllidebau cyfredol a chronfeydd grant eraill e.e Cronfa Dreftadaeth y Loteri a'r Grant Tai Cymdeithasol ar gyfer y cyfraniad arian cyfatebol 30%. Os nad yw hyn yn bosib, byddai'n rhaid i'r gwasanaeth sy'n arwain ar bob prosiect ddilyn y llwybr perthnasol ar gyfer sicrhau cymeradwyo'r cyllid.

DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori?		Beth oedd eu sylwadau?
1	Prif Weithredwr / Tîm Arweinyddiaeth Strategol (gorfodol)	Ystyriwyd yn yr UDA ar y 5ed Mawrth 2018. Cwestiynwyd methodoleg blaenoriaethu trefi, a pwysleisiwyd yr angen i geisio cynnyddu'r dyraniad cyllid i Ynys Mon. Dylai'r proses dewis cynlluniau gynnwys y Grŵp Tir ac Asedau.
2	Cyllid / Adran 151 (gorfodol)	<i>Rwy'n credu bod yr adroddiad yn iawn, dim newidiadau gennyf.</i> Jenny Whiston, Rheolwr Grantiau
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol)	<i>Dim sylwadau.</i> Robyn Jones
4	Adnoddau Dynol (AD)	d.y.b.
5	Eiddo	<i>Dwi'n hapus. Angen datblygu'r strategaeth i gwrdd â'r cyfle unigryw sy'n codi o ailddatblygu safle Ysgol y Parc a'r Llyfrgell.</i> T. Dylan Edwards
6	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)	d.y.b.
7	Sgriwtini	Dim yn berthnasol ar y cam yma
8	Aelodau Lleol	Bydd angen ymgynghori gyda aelodau lleol perthnasol ar gynlluniau penodol yn y dyfodol
9	Unrhyw gyrff allanol / eraill	Adroddiad yn adlewyrchu sylwadau a barn swyddogion o LLC ac mewn cyfarfodydd BUEGC
10	Pennaeth Tai	<i>Gallaf gadarnhau fy mod yn fodlon gyda chynnwys yr adroddiad. Yr unig sylw byddwn yn dymuno ei wneud yw ein bod angen cytuno, cyn i unrhyw ddyraniad arian gael ei gymeradwyo, beth yw'r gweithdrefnau mewn perthynas â chyflwyno cynlluniau am gymeradwyaeth ynghyd â threfniadau monitro'r rhaglen wrth i'r flwyddyn fynd heibio.</i>
1	Economaidd	Disgwylir effaith budd economaidd positif
2	Gwrthdodi	Disgwylir effaith positif ar ymdrechion i leihau tlodi
3	Trosedd ac Anrhefn	Dim effaith uniongyrchol, ond effaith positif posib
4	Amgylcheddol	Disgwylir effaith positif ar amgylcheddau trefol
5	Cydraddoldebau	Ni ragwelir effaith negyddol, bydd polisiau cydraddoldeb gan CSYM a LLC yn berthnasol
6	Cytundebau Canlyniad	Dim effaith uniongyrchol
7	Arall	

F - Atodiadau:

FF - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

This page is intentionally left blank